# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 7FED MEDI, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**Lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 31 Awst 2023)

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Edgar Wyn Owen
Jina Gwyrfai
Paul John Rowlinson
Arwyn Herald Roberts
Elfed Wyn ap Elwyn
Huw Rowlands
Menna Baines
Meryl Roberts

## Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Angela Russell
Rob Triggs
Richard Glyn Roberts
Elwyn Jones

## Aelodau Lleyg (6)

Sharon Warnes
Hywel Eifion Jones
Clare Hitchcock
Elwyn Rhys Parry
Carys Edwards
Sedd Wag

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 5 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 25ain Mai 2023, fel rhai cywir

**5. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** 16 - 20

I ystyried cynnwys yr adroddiad a chynnig unrhyw sylwadau.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022-23** 21 - 40

I ystyried, cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad

**7. DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2021 - HUNANASESIAD** 41 - 206

I ystyried cynnwys y ddogfen drafft ar gyfer 2022/23 gan gynnig unrhyw sylwadau ac argymhellion

**8. DATGANIAD O GYFRIFON 2022/23 (AMODOL AR ARCHWILIAD)** 207 - 298

I dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2022/23.

**9. RHEOLAETH TRYSORLYS 2022/23** 299 - 307

I ystyried a nodi'r adroddiad er gwybodaeth

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2022-23** 308 - 319

I dderbyn yr adroddiad a darparu unrhyw sylwadau neu argymhellion ynglŷn a'r gyfundrefn gwynion sydd yn deillio o dderbyn Llythyr Blynyddol Ombwdsman Cymru ar gyfer y flwyddyn 2022/2023.

**(A) ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - DIWEDDARIAD CH1** 320 - 338

Darparu diweddariad i’r Pwyllgor ar raglen waith Chwarter 1 Archwilio Cymru

**(B) DARPARU DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR AR ADRODDIADAU SYDD WEDI EU CYHOEDDI YN DDIWEDDAR GAN ARCHWILIO CYMRU - 'CYFLE WEDI'I GOLLI' - MENTRAU CYMDEITHASOL** 339 - 395

I ystyried a derbyn yr adroddiad

**12. ARGYMHELLION A CHYNIGION GWELLA ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL** 396 - 422

I ystyried bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu

**13. ADOLYGIAD Y CYFANSODDIAD** 423 - 438

I gefnogi newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad ac yn argymell i'r Cyngor llawn eu bod yn cael eu mabwysiadu.

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 25 Mai 2023**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Jina Gwyrfai, Elwyn Jones, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Paul Rowlinson, Rob Triggs ac Elfed Wyn ap Elwyn

**Aelodau Lleyg**: Sharon Warnes, Eifion Jones, Clare Hitchcock, Carys Edwards a Rhys Parry

**Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Siân Pugh (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cynaliadwyedd a Datblygiadau), Caren Rees-Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio Mewnol), Bleddyn Rhys (Arweinydd Archwilio), Caleb Lewis (Cynllun Yfory - Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg ), Osian Elis (Swyddog Gweithredol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Cyllid)

Eitem 8: Dewi Wyn Jones (Arweinydd Cefnogaeth Gweithredol), Alan Hughes ac Yvonne Thomas (Archwilio Cymru)

Eitem 9 Iwan Evans ( Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol), Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ail ethol Sharon Warnes yn gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2023 /24**

2. **ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ail ethol H Eifion Jones yn is ddirprwy'r Pwyllgor hwn ar gyfer 2023 / 24**

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Angela Russell

   Croesawyd Carys Edwards (Aelod Lleyg) i'w chyfarfod cyntaf.

   Cydymdeimlwyd a Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau) oedd wedi colli ei thad yn ddiweddar.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Carys Edwards – Aelod Lleyg Eitem 11: Atodiad 12 - Manddaliadau oherwydd ei bod yn denant mewn un o fanddaliadau'r Cyngor. Roedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu ac felly gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y pwnc.

5. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi.

6. **COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 26 Ionawr 2023 a 9fed o Chwefror 2023 fel rhai cywir

7. **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR**

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad**

8. **ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU**

Croesawyd Alan Hughes ac YvonneThomas (Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno'r adroddiadau canlynol

**Rhaglen Waith Chwarter 4 Archwilio Cymru**

Cyflwynwyd diweddariad ar raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru hyd ddiwedd Mawrth 2023. Amlygwyd bod adroddiad drafft yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol wedi ei gyhoeddi Mawrth 2023.

Cadarnhawyd bod Datganiad o Gyfrifon 2021 -22 y Cyngor wedi derbyn barn ddiamod ar 31ain Ionawr 2023

Nodwyd bod y flwyddyn wedi bod yn un brysur ac er llithriad yn nhrosiant staff bod y gwaith yn parhau er bod yr amserlen hefyd wedi llithro rhywfaint.

**Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022**

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn crynhoi archwiliad ar gyfer Cyngor Gwynedd oedd yn amlygu gwaith a gwblhawyd ers Crynodeb Archwilio a gafodd ei gyhoeddi Ionawr 2022. Nodwyd bod yr archwiliad yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Amlygwyd bod y gwaith a gyflawnwyd yn cwmpasu dyletswyddau megis gwelliant parhau, archwilio cyfrifon, sicrhau gwerth am arian ac asesu i ba raddau mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio a'r dyletswydd datblygu gynaliadwy.

Cyfeiriwyd at rai prosiectau penodol a adolygwyd. Yng nghyd-destun adolygiad o Reoli Perfformiad daethpwyd i'r casgliad bod gan y Cyngor fframwaith rheoli perfformiad sydd yn datblygu'n dda er bod gweithredu amrywiol ar y broses ar hyn o bryd yn anodd llywio'r broses adrodd.

Diolchwyd am yr adroddiad clir ac hunanesboniadwy.

**Cynllun Archwilio Amlinellol 2023**

Cyflwynwyd adroddiad gan Archwilio Cymru yn nodi'r gwaith maent yn bwriadu ei wneud yn ystod 2023 fel modd o gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel archwilydd allanol y Cyngor ac yn unol â'u rôl o dan Còd Ymarfer Archwilio. Nodwyd bod y cynllun yn cynnwys llinell amser archwilio gan dynnu sylw y byddai Cynllun Archwilio Manwl 2023 yn cael ei gwblhau erbyn Medi 2023 – o ganlynaid i gyflwyniad o addasiadau i drefniadau gofynion Archwilwyr sydd yn cynnwys gwaith pellach mewn asesu risg cyn cyflwyno datganiadau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn a fyddai gofynion newydd yr Archwilwyr yn rhoi mwy o bwysau ar staff y Cyngor, nodwyd mai adnoddau Archwilio Cymru fydd yn cael eu defnyddio i adnabod risgiau a chynllunio ac felly bydd gofyn efallai am yr angen am gydweithio pellach. Ategwyd bydd y gwaith o adnabod risgiau yn cymryd blaenoriaeth.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau**

## 9. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

Cyflwynwyd diweddariad gan Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol (Swyddog Monitro) ar raglen waith gweithredu Deddf Llywodraeth Leol Etholiad (Cymru) 2021. Atgoffwyd yr Aelodau bod nifer o gamau gweithredu yn deillio o ddarpariaethau'r Ddeddf a ddaeth i rym yn 2022 yn dilyn Cydsyniad Brenhinol. Nodwyd bod y Ddeddf wedi ei gosod o fewn Cofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cadw trosolwg a sicrwydd ar y gweithredu sydd ei angen i weithredu'r darpariaethau.

Amlygwyd bod prif elfennau'r Ddeddf wedi eu mabwysiadu a bellach yn weithredol ynghyd a'r Strategaeth Cyfranogiad a'r Cynllun Deisebau wedi eu mabwysiadu ac yn cael eu gosod ar wefan y Cyngor. Ategwyd bod y gwaith ar baratoi Canllawiau i'r Cyfansoddiad drafft yn cael eu cwblhau ac y bydd angen cynnal proses ymgynghorol cyn y gellid cyhoeddi fersiwn derfynol.

Cyfeiriwyd at y ffaith bod y Ddeddf yn darparu <u>dewis</u> trefn bleidleisio 'pleidlais sengl drosglwyddadwy' (Single Transferable Vote - STV) ar gyfer etholiadau Prif Gynghorau ac fe ddarparwyd papur briffio ar gyfer Arweinyddion Grwpiau ar y mater yma. Nodwyd bod bwriad cynnal gweithdy i'r holl aelodau ym Mehefin 2023 i drafod y nifer materion sydd yn datblygu ar draws maes etholiadau a phleidleisio, fydd yn cynnwys yr elfen yma. Yn dilyn hyn, bydd angen adrodd ar drefn pleidleisio i'r Cyngor Llawn yn ystod yr Hydref er gwyntyllu'r dewisiadau a cheisio arweiniad ar ddymuniad i gychwyn proses ystyried mabwysiadau trefn amgen.

Elfen olaf y gwaith fydd cwblhau gwaith diweddaru ac addasu'r Cyfansoddiad (er bod diweddariadau angenrheidiol eisoes wedi eu mabwysiadau a'u cyhoeddi). Eglurwyd bod materion technegol angen eu cwblhau (megis materion o gwmpas y Cyd Bwyllgor Corfforaethol) a chyfle hefyd i adolygu a diweddaru cynnwys y Cyfansoddiad yn gyffredinol. Y bwriad yw cwblhau'r gwaith yn derfynol erbyn yr Hydref gydag adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor am arweiniad ar elfennau penodol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag apwyntio 'panel' (o drigolion a budd-ddeiliaid) ar gyfer cynnal asesiad perfformiad y Cyngor fydd yn cyfarfod unwaith bob tymor i adolygu gwaith y Cyngor, nodwyd bod y ddarpariaeth mewn grym. Ategwyd mai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sydd a'r rôl ganolog i dderbyn adroddiadau ar berfformiad, ac y bydd disgwyl

i’r adborth o’r panel gael ei fwydo i mewn i gyfundrefn perfformiad y Cyngor fel bod modd i'r Pwyllgor ei ystyried cyn cyflwyno i’r Cabinet.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â pharatoi canllawiau i’r Cyfansoddiad ac os mai ‘dogfen i egluro dogfen’ fydd hyn, nododd y Swyddog Monitro bod y Cyfansoddiad yn ddogfen weithredol o tua 300 tudalen ac y byddai’r ddogfen yn grynodeb fyddai’n cynnwys prif agweddau’r Cyfansoddiad wedi ei hysgrifennu mewn dull llai technegol, yn egluro trefniadau’r Cyngor ynghyd ag elfennau llywodraethiant a gweithredol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag annog cyfranogiad ac i ba raddau bydd hyn yn rhedeg yn gyfochrog a threfniadau Democratiaeth, nododd y Swyddog Monitro mai amcan Llywodraeth Cymru oedd creu cyswllt perthnasedd llywodraeth leol gyda’r gymuned - bod y rhai hynny sydd gydag elfen o ddiddordeb yn gallu cyfrannu. Ategodd bod rhai cryfhau’r broses, ond bod trefn ddigon aeddfed wedi ei sefydlu i gloriannu’r mewnbwn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phenderfyniad pwy fydd yn mabwysiadu’r drefn STV ac a fyddai lle i ddwy drefn, nodwyd mai un opsiwn mae’r Ddeddf yn gynnig ac nad oes dyletswydd i adolygu’r drefn bresennol. Er hynny, ategwyd mai pwysig fyddai cynnal y drafodaeth ynglŷn â’r opsiwn boed yn fater i Wynedd neu beidio**.**

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a’r cynnydd yn y rhaglen waith**

**10. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL 2022/2023**

Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus 2013 (diwygiedig 2017) rhaid llunio Siarter Archwilio Mewnol gyda chynnwys y Siarter yn cyfarch Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol (2019) a gyhoeddwyd gan CIPFA. Cyflwynwyd Siarter Archwilio Mewnol Gwynedd gan y Rheolwr Archwilio gan nodi mai cyfrifoldeb y Pwyllgor yw cymeradwyo’r siarter yn flynyddol.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â threfniadau ar gyfer osgoi buddiannau gwrthdaro a / neu gwblhau gwaith ar wahân i waith sicrwydd, nododd y Rheolwr Archwilio, os, er enghraifft byddai’r Uned Archwilio yn rhoi mewnbwn i sefydlu system newydd, anodd fyddai archwilio’r maes os eisoes wedi bod yn rhan o’r broses sefydlu. Bydd yr Uned felly yn ceisio sicrhau, os oes archwilydd wedi bod yn rhan o’r gwaith ymgynghorol, bod archwilydd arall yn gwneud y gwaith archwilio er mwyn osgoi gwrthdaro.

Awgrymwyd, i’r dyfodol, cynnwys yr eglurhad yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo’r Siarter Archwilio Mewnol**

**11. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru’r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 25 Ionawr 2023 hyd 31 Mawrth 2023. Amlygwyd bod 12 o archwiliadau’r cynllun gweithredol wedi eu cwblhau ac wedi ei gosod ar lefel sicrwydd uchel; digonol neu gyfyngedig.

Cyfeiriwyd at bob archwiliad yn ei dro.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Cynllunio – Trefniadau Cyfathrebu – Cyfyngedig
  - Bod perfformiad y gwasanaeth yn annigonol wrth ymateb i geisiadau cynllunio
  - Nad yw gorfodaeth cynllunio yn digwydd
  - Yng nghyd-destun penderfyniadau cynllunio wedi eu gwneud o fewn 8 wythnos, er bod 70% o'r ceisiadau a wiriwyd wedi derbyn penderfyniad o fewn yr 8 wythnos, bod angen mwy o wybodaeth a manylder am y 30% arall
  - Bod yr adroddiad yn siomedig, ond nid yn syndod. Er bod yr adroddiad yn nodi problemau cyfnod covid a phroblemau recriwtio, pa mor ffyddiog yw'r Uned Archwilio y gall y Gwasanaeth Cynllunio weithredu yn effeithiol?
  - Awgrym bod trefniadau gorfodaeth yn cael ei ystyried fel maes i'w archwilio

  Mewn ymateb i'r sylwadau nododd y Rheolwr Archwilio mai'r Rheolwr Cynllunio oedd wedi cynnig y camau gweithredu ac felly bod pryderon megis adnoddau staffio wedi eu hystyried wrth drafod yr adroddiad drafft a'r cynllun gweithredu gyda'r archwilwyr.

- Trefniadau Clefyd Coed Ynn
  - Y dylai risgiau i bobl a cherbydau uchafu risgiau i fioamrywiaeth yng nghyd-destun clefyd yr Onnen

- Trefniadau Recriwtio a dargadw Staff
  - Yn croesawu bod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn bwriadu sefydlu cyfweliadau gadael a bod hyn i'w wneud drwy'r system hunanwasanaeth. Hyn yn gyfle da i ddeall a gwella amodau gwaith, yn rhan o ymarfer da ac yn gyfle i unigolion fynegi barn heb oblygiadau.
  - Argymell bod yr archwilwyr yn dychwelyd at y Gwasanaeth i awgrymu cynnal cyfweliadau personol
  - Er yn derbyn nad yw cynnal cyfweliadau personol bob amser yn bosib a bod hunanwasanaeth yn cynnig amgylchiadau gwell, awgrym rhoi dewis i'r unigolyn.
  - Mai proses fiwrocrataidd sydd yma o hwyluso proses - dim gorfodaeth i gwblhau cyfweliad ar system - gwirfoddol yn unig. Fel cyflogwr mawr, dylai'r Cyngor wneud defnydd o gynnal cyfweliadau personol fyddai yn darganfod problemau a ffyrdd o'u datrys.

  Mewn ymateb, cynigodd y Rheolwr Archwilio wneud darn o waith ychwanegol ar 'gyfweliadau gadael' ac adrodd nôl i'r Pwyllgor. Ategodd bod yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn ceisio gwell trefniadau gyda chyfweliadau gadael – angen ystyried cyfweliadau personol fel cyfle da i dderbyn adborth, derbyn cyfarpar a 'chwblhau'r' gyflogaeth

- Mesurau Diogelu Amddiffyn Rhyddid
  - Pryder diffyg staff a defnydd staff asiantaethau all arwain at gosb ariannol
  - Bod disgwyl i swyddogion BIA gynnal asesiadau yn eu 'hamser eu hunain' yn annerbyniol

  Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Archwilio mai'r dymuniad yw i staff BIA neilltuo amser i gwblhau'r gwaith DoLS gan ddefnyddio'r elfen goramser - nid oes disgwyliad iddynt ei wneud am ddim

- Manddaliadau
  - Bod yr adroddiad yn siomedig ac nad oedd y sefyllfa wedi gwella o gwbl dros y 5 mlynedd diwethaf

- Nad oedd yn cael ei ystyried fel gwasanaeth ‘mawr’ ac felly disgwyliwyd gwell trefniant a phroblemau wedi eu datrys.
- Anghysondebau talu rhent - blerwch y Cyngor yma
- Pryderon wedi eu hamlygu gan Aelodau yn y Cyngor Llawn, ond dim ymateb

Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Cynllunio mai 39 tŷ oedd yma a 7 daliad tir ac felly nid yn nifer uchel o fewn stad manddaliadau. Cydnabod a derbyn bod y sefyllfa rent yn un a ddylai fod wedi ei adnabod a’i ddatrys yn gynt - yr archwiliad oedd yn gyfrifol am ddarganfod hyn

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda’r gwasanaethau perthnasol**
- **Cyfeirio 3 maes cyfyngedig i’r Gweithgor Gwella**
  - **Cynllunio – Trefniadau Cyfathrebu**
  - **Mesurau Diogelu Amddiffyn Rhyddid**
  - **Manddaliadau**

**Nodyn: Atodiad 10 Trefniadau Recriwtio a Dargadw Staff. Camau gweithredu. Pwynt bwled 3 ‘Symud y system ffurflenni gadael i system Hunanwasanaeth y Cyngor <u>ond parhau i flaenoriaethu cyfweliadau wyneb yn wyneb fel modd o ganfod rhesymau unigolion dros adael eu swyddi’</u>**

## 12. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2022 / 23

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn mynegi barn Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheolaethol gyffredinol o fewn yr Awdurdod yn ystod 2022/23 gan ddarparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i’r Awdurdod. Nodwyd na all sicrwydd fyth fod yn llwyr ac y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i’r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2022/2023, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/2021 yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu’r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Roedd 41 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2022/2023. Cafodd 40 o aseiniadau eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2023, sy’n cynrychioli 97.56% o’r cynllun. O’r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2022/2023 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 77.14%% ohonynt lefel sicrwydd “Digonol” neu “Uchel.

Ers 1 Ebrill 2021, roedd 7 aelod llawn amser i’r Tîm Archwilio Mewnol ac un Uwch Archwiliwr Dros Dro. Nodwyd bod arian wedi ei neilltuo i ariannu’r adnodd ychwanegol i’r Gwasanaeth weithredu archwiliadau pan fydd cyfyngiadau’r argyfwng yn llacio, fel yr adroddwyd gan y Pennaeth Cyllid i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 11/02/2021.

Yng nghyd-destun Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant, nodwyd bod cyrff y sector gyhoeddus yn adolygu eu gweithdrefnau archwilio yn erbyn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus (PSIAS) o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Bydd canlyniadau’r

hunanasesiad yn erbyn y safonau a'r Nodyn diwygiedig i Lywodraeth Leol (2019) yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod 2023/2024.

Diolchwyd am yr adroddiad.

Materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Croesawu adroddiad manwl
- Llongyfarch yr Uned ar gwblhau 97.5% o'r archwiliadau - hyn yn gynnydd sylweddol o 2021/22
- Angen gwell cydweithio a chefnogaeth adrannau i gynyddu cyfran gweithrediadau cytunedig - angen ail sefydlu'r Gweithgor Gwella Rheolaethol
- Os nad oes ymateb i'r gweithrediadau cytunedig yna cais am adroddiad pellach i'r Pwyllgor wneud penderfyniad o alw gwasanaeth i mewn i drafod - pwysig bod y pwyllgor yn cefnogi hyn
- Awgrym bod yr adroddiad diffyg ymateb i'r gweithrediadau yn cael ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet - cyfle i drafod yng nghyfarfodydd chwarterol herio perfformiad
- Grym gan y Pwyllgor i herio perfformiad - byddai ail sefydlu gweithgor yn fuddiol iawn i symud pethau ymlaen
- Bod angen codi ymwybyddiaeth Penaethiaid Adrannau i waith Archwilio Mewnol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r nifer archwilwyr sydd yn gweithio ar bob archwiliad, nodwyd bod un archwilydd yn gweithio ar archwiliad ac yn atebol i arweinydd fydd yn adolygu'r drefn ac yn monitro ansawdd yr archwiliad. Eithriad fyddai cael mwy nag un yn gweithio ar archwiliad. Ategwyd bod y tîm yn cydweithio yn dda iawn. Diolchwyd i Bleddyn Rhys ac Eva Chan am gamu fyny yn ystod absenoldeb salwch Luned.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2022/23**
- **Ail sefydlu Gweithgor Gwella Rheolaethau.**
    - **Aelodaeth i gynnwys Sharon Warnes (Cadeirydd), Eifion Jones (Is gadeirydd).**
      **Rhys Parry, Meryl Roberts a Carys Edwards yn gwirfoddoli eu hunain**

**13. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL**

Cyflwynwyd, yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus, gynllun yn seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch Archwilio Mewnol sydd yn gyson ag amcanion y Cyngor. Eglurwyd bod y cynllun gyda hyblygrwydd i sicrhau rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg, bydd unrhyw addasiadau / newidiadau i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor. Cyfeiriwyd at ddefnydd methodoleg AGILE sydd yn darparu modd hyblyg a dynamig i Gynllun Archwilio Mewnol o ganlyniad i fonitro risg yn barhaus.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol**

**14. CYFRIFON TERFYNOL 2022 / 23 – ALLDRO REFENIW**

Amlygodd yr Aelod Cabinet Cyllid byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet 13 Mehefin 2023 a bod angen i'r Pwyllgor graffu a chynnig sylwadau ar y sefyllfa cyn hynny.

Gosodwyd cyd-destun yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cynaliadwyedd a Datblygiadau. Nodwyd bod yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor yn 2022/23, sefyllfa alldro tanwariant neu orwariant yr adrannau unigol, a'r rhesymau am hynny. Cyfeiriwyd at grynodeb o sefyllfa derfynol yr holl adrannau sy'n amlygu'r symiau i'w parhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ynghyd a'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol. Amlygwyd,

- Ar ddiwedd y flwyddyn ceir gorwariant o fewn saith adran, a hynny o ganlyniad i nifer o ffactorau megis methiant i wireddu arbedion, chwyddiant cyflogau uwchlaw'r gyllideb a phrisiau ynni cynyddol. Cyfeiriwyd at y pum adran sydd a'r gorwariant amlycaf
    - Adran Oedolion Iechyd a Llesiant: Gorwariant o £3.9 miliwn, gyda £921 mil yn sgil thrafferthion gwireddu arbedion. Gwelwyd defnydd cynyddol o staff asiantaeth mewn gwahanol feysydd, pwysau ar lety cefnogol a phecynnau taliadau uniongyrchol yn faterion yng Ngwasanaethau Pobl Hŷn ac yn Anabledd Dysgu a oedd hefyd yn cyfrannu tuag at y gorwariant.
    - Adran Addysg: Gorwariant o £1.2 miliwn. Effaith cost ychwanegol chwyddiant cymorthyddion a staff gweinyddol o £690 mil ac effaith prisiau trydan uwch o £614 mil. Gydag ysgolion wedi elwa o bron i £1 miliwn o arbedion ynni yn deillio o Covid a'r cyfnodau clo cysylltiedig, defnyddir balansau ysgolion i gyllido'r pwysau ychwanegol o £1.304 miliwn.
    - Adran Economi / Byw'n Iach. Yn 2021/22 derbyniodd Byw'n Iach werth £1.4 miliwn o gymorth gan Lywodraeth Cymru. Nid oedd y cymorth ar gael yn 2022/23, ond sgil effaith ariannol Covid yn parhau ac yn amharu ar y gallu i gynhyrchu incwm. Y Cyngor felly wedi ymestyn y cyfnod sicrwydd ar gyfer cefnogaeth ariannol i'r cwmni hyd at ddiwedd 2022/23.
    - Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gorwariant o £2.5 miliwn gyda'r maes casglu gwastraff ac ailgylchu yn parhau i orwario. Cyfeiriwyd at wariant un-tro a phwysau cynyddol ar gyllideb Priffyrdd erbyn diwedd y flwyddyn ynghyd a thrafferthion gwireddu arbedion gwerth £608 mil, gyda £335 mil ohono yn y maes gwastraff.
    - Adran Tai ac Eiddo: Effaith Deddf Ddigartrefedd wedi arwain at bwysau ariannol sylweddol ac er bod yr Adran wedi derbyn £1.5m o gronfa trefniadau yn sgil Covid, mae wedi parhau i orwario o £2.5m. Disgwyli'r i'r gorwariant yma gael ei ariannu o Gronfa Premiwm Treth y Cyngor.

- Bod nifer o resymau tanwariant un-tro ar nifer o benawdau Corfforaethol
- Bod cynnydd mewn cyfraddau llog wedi arwain at £1.3 miliwn ychwanegol, a bu llai o aelwydydd yn hawlio gostyngiad treth cyngor o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.
- Bod rhagdybiaethau darbodus wrth osod cyllideb 2022/23 a newid deddfwriaethol trethiant hefyd wedi cyfrannu at gynnyrch treth ychwanegol wrth i dai drosglwyddo yn ôl o drethi annomestig i dreth cyngor.
- Bod balansau'r ysgolion wedi lleihau £4.8m, sef o £16.7m yn 2021/22 i £11.9m yn 2022/23. Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol ym malansau ysgolion yn sgil effaith Covid a derbyn grantiau sylweddol, ond maent bellach yn lleihau, gyda rhagolygon o leihad pellach erbyn diwedd 2023/24, ac yn ôl i lefelau arferol.
- Bod adolygiad digonolrwydd cronfeydd penodol y Cyngor wrth gau'r cyfrifon, llwyddwyd i gynaeafu £3.918 miliwn o adnoddau.

Diolchwyd am yr adroddiad - nodwyd bod derbyn adroddiadau rheolaidd o'r sefyllfa gorwariant dros y flwyddyn ariannol wedi bod yn fuddiol wrth ystyried y darlun terfynol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod dibyniaeth grantiau tebygol yn creu sefyllfa o ariannu ansefydlog

- Nad oes modd i ysgolion osod cyllideb negyddol - bod y sefyllfa o grant yn cael ei ddyrannu ai peidio yn risg i'r drefn cyllido ysgolion; yn arwain at ddiswyddo oherwydd gormodedd neu beidio - yn drefn ddiffygiol a pheryglus.
- Bod cynnydd yng nghyfartaledd trigolion Gwynedd fydd yn arwain at gynnydd mewn defnydd gwasanaethau ac felly'n cynyddu'r risg gyllidebol i'r dyfodol.

Mewn ymateb i sylw na fydd yr un symiau a sefyllfaoedd ar gael 2023/24 (addasiadau cyfraddau llog, gostyngiadau treth Cyngor ayyb), nododd y Pennaeth Cyllid, wrth osod cyllideb 2023/34 bod pob ymgais yn cael ei wneud i amcangyfrif pob sefyllfa yn realistig. Mewn ymateb i sylw ategol os na fyddai llai o arian wedi ei wario yn gorfforaethol bod risg i'r adrannau hynny sydd yn gorwario, nodwyd bod rhai penawdau corfforaethol eleni wedi bod yn achubiaeth ond na ellid parhau gyda'r agwedd yma - y disgwyliad yw bod gwariant yn unol â'r gyllideb sydd ar gael.

Mewn ymateb i sylw bod gorwariant hanesyddol ym maes Oedolion ac mai risg fyddai tan gyllido o ystyried bod gofynion pobl yn bwysig a'r maes yn eang gyda chynnydd mewn disgwyliadau, nodwyd bod sawl adran yn gorwario ond bod cynnydd sylweddol wedi ei weld yn yr Adran Oedolion Iechyd da Llesiant ers adolygiad mis Tachwedd a diwedd y flwyddyn. Nodwyd bod bwriad adolygu rhai cynlluniau arbedion - y rhai hynny yn hanesyddol sydd ddim yn cael eu gwireddu ac ymchwilio i'r rhesymau pam nad ydynt wedi eu gwireddu. Ategwyd bod diffyg darpariaeth yn y gyllideb yn cael ei adolygu, ac er yn derbyn bod mwy o arian gorfodol wedi ei wario yn 2022/23, ni all y sefyllfa ymdopi gyda gorwariant o £4m mewn un adran. Ategodd yr Aelod Cabinet bod cyllideb yr Adran Oedolion yn rhesymol ac er yn derbyn gorwariant bod diffyg gwireddu arbedion sydd wedi cael eu cynnig gan yr Adran ei hun yn annerbyniol.

Mewn ymateb i sylw a ddylid cael corff allanol i edrych ar bosibiliadau gweithredu arbedion nodwdy bod y Cyngor yn defnyddio cyfundrefn Ffordd Gwynedd drwy ganolbwyntio ar angen y dinesydd. Ategwyd bod cyrff rheolaethol eraill ym maes Gofal hefyd yn cadw llygad ar y sefyllfa.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â diffygion ariannol gan ysgolion ar ddiwedd 2022/23 a bod ysgolion yn annibynnol o reolaeth y Cyngor, nodwyd na ellid gorfodi ysgolion i ddefnyddio eu balansau - bod y swm yn cael ei ddyrannu gan yr Adran Cyllid ac mai corff llywodraethol yr ysgol sydd yn gyfrifol am y gwariant.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r risgiau perthnasol**
- **Cefnogi argymhelliad i'r Cabinet (13 Mehefin 2023) gymeradwyo'r symiau i'w parhau; i gymeradwyo'r holl argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol**

**15. RHAGLEN GYFALAF 2022 / 23 ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 Mawrth 2023)**

Amlygodd Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth mai prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (sefyllfa 31 Mawrth 2023), a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Cyfeiriwyd at ddadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £142.2 miliwn am y 3 blynedd 2022/23 - 2024/25 ynghyd a'r ffynonellau sydd ar gael i ariannu'r cynnydd net sydd oddeutu £1.6miliwn ers yr adolygiad diwethaf.

Prif gasgliadau'r adolygiad oedd bod y Cyngor wedi llwyddo i wario £37.1m yn 2022/23 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £17.1m (46%) ohono wedi'i ariannu trwy grantiau penodol.

Eglurwyd bod effaith heriau Ariannol diweddar ar y rhaglen gyfalaf yn amlwg ac yn ychwanegol i'r £40.8 miliwn a adroddwyd arno yn adolygiadau blaenorol 2022/23 roedd £17.4 miliwn pellach o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2022/23 i 2023/24, gyda'r prif gynlluniau yn cynnwys,

- £11.8 miliwn Cynlluniau Strategaeth Tai a Digartrefedd
- £9.3 miliwn Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaliadwy ac Eraill)
- £5.3 miliwn Adnewyddu Cerbydau
- £5.2 miliwn Cynlluniau Grantiau ac Eraill Tai
- £3.5 miliwn Cynllun Hwb Iechyd a Gofal Penygroes

Yn ogystal, llwyddodd y Cyngor i ddenu grantiau ychwanegol ers yr adolygiad diwethaf, oedd yn cynnwys y grantiau canlynol:

- £2.2 miliwn - Grant Cynnal a Chadw Ysgolion 22/23.
- £0.3 miliwn – Grantiau gan Lywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol tuag at gynllun amddiffyn yr arfordir ym Mhorthdinllaen.
- £0.2 miliwn - Grantiau Dechrau'n Deg a Gofal Plant gan Lywodraeth Cymru.
- £0.2 miliwn – Grant Cronfa Integreiddio Rhanbarthol – addasiadau sefydliadau a hwyluso gweithio ar y cyd ag asiantaethau eraill.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a chraffu'r wybodaeth cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cabinet ei gymeradwyo 13 Mehefin 2023.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Nodi'r risgiau perthnasol**
- **Cefnogi argymhelliad i'r Cabinet (13 Mehefin 2023) gymeradwyo'r gwariant o £37,131,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23 ac i gymeradwyo'r ariannu addasedig**

**16. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 Mawrth 2023**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cynaliadwyedd a Datblygiadau). Eglurwyd, gan fod y trefniant ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn wedi dod i ben ar 31 Mawrth, a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (oedd a'r hawl i gymeradwyo'r cyfrifon terfynol) heb gyfarfod wedi'r dyddiad yma, cyflwynwyd y cyfrifon terfynol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Gyda throsiant y cydbwyllgor yn is na £2.5m, fe'i hystyriwyd yn gorff llywodraeth leol llai o faint ac felly mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad alldro oedd yn egluro sefyllfa derfynol incwm a gwariant y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar gyfer 2022/23. Nodwyd bod tanwariant ar nifer o'r penawdau, gan gynnwys £26 mil o danwariant "Gweithwyr", £10 mil o danwariant "Cludiant", £31 mil o danwariant "Costau Datblygu'r Cynllun", ond roedd £10 mil o "Arbedion i'w darganfod". Cafodd £22 mil o'r tanwariant ei drosglwyddo i'r Balansau oedd yn rhoi balans o £201 mil ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Tynnwyd sylw at ffurflen safonol yr archwilwyr allanol ynghyd a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd yn sicrhau system rheolaeth fewnol gadarn. Amlygwyd bod y cyfrifon eisoes wedi bod yn destun archwiliad Mewnol a hefyd yn destun archwiliad allanol gan

Archwilio Cymru. Ategwyd mai dim ond os bydd angen gweithredu newidiadau yn dilyn archwiliad y bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr.

Diolchwyd am yr adroddiad. Nododd cyn Aelod o'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd, ac Aelod o'r Pwyllgor hwn bod y balans terfynol wedi ei rannu yn gyfartal rhwng Gwynedd a Môn

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cymeradwyo:**
  - **Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022 / 23**
  - **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru**
  - **Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen yn electroneg**

**17. CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 Mawrth 2023**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cynaliadwyedd a Datblygiadau). Eglurwyd, yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbyrau Abermaw, Aberdyfi, Pwllheli a Porthmadog. Gyda throsiant yr harbyrau yn is na £2.5m, fe'i hystyriwyd yn gorff llywodraeth leol llai o faint ac felly mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol.

Cyfeiriwyd at y cyfrif incwm a gwawriant, ac amlygwyd bod £53,346 o danwariant ar ddiwedd y flwyddyn. O'r swm yma, adroddwyd bod tanwariant ar staffio ac ar adeiladau (oherwydd llai o wariant ar gynnal a chadw a chynnal tiroedd), ond gwelwyd gorwariant ar arwyddion, rhybuddion a chynnal cychod yn bennaf. O ran yr incwm adroddwyd bod diffyg incwm o £3mil ar lefelau ffioedd a rhenti.

Tynnwyd sylw at ffurflen safonol yr archwilwyr allanol ynghyd a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd yn sicrhau system rheolaeth fewnol gadarn. Amlygwyd bod y cyfrifon eisoes wedi bod yn destun archwiliad Mewnol a hefyd yn destun archwiliad allanol gan Archwilio Cymru. Ategwyd mai dim ond os bydd angen gweithredu newidiadau yn dilyn archwiliad y bydd fersiwn ddiwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr.

**Diolchwyd am yr adroddiad.**

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Cymeradwyo:**
  - **Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022 / 23**
  - **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru**
  - **Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen yn electroneg**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 a daeth i ben am 13:00

______________________________

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **7 MEDI 2023** |
| TEITL | **GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO DIWEDDARIAD AR WEITHREDU PENDERFYNIADAU BLAENOROL Y PWYLLGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraeth ac Archwilio, fel bod modd i'r aelodau gael sicrwydd fod eu penderfyniadau yn cael sylw.

1.2 Mae hyn yn cyfrannu at roi sicrwydd I'r aelodau fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.

1.3 Mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y penderfyniadau a wnaed. Lle mae'r weithrediad wedi ei gwblhau, neu lle nad oedd gweithrediad pellach yn angenrheidiol, mae'r llinell yn cael ei dynnu o'r tabl ar ôl i'r Pwyllgor ystyried y mater.

## 2. PENDERFYNIADAU ERS SEFYLDU'R CYNGOR NEWYDD (MAI 2022)

**Cyfarfod 30 Mehefin 2022**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2022/23 | Derbyn yr adroddiad<br>Cymeradwyo'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol 2022/23<br>Nodyn: Archwiliad 'Diogelwch Seicolegol' – y Pwyllgor yn argymell, fel rhan o'r trafodaethau gyda'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, yr angen i fabwysiadu trefn o gynnal cyfweliadau gadael | **Mae cyflwyno trefn cyfweliadau gadael ar raglen waith y Gwasanaeth Adnoddau Dynol. Awgrymir felly gellir diddymu'r mater hwn o'r adroddiad Gweithredu Penderfyniadau.** |

**Cyfarfod 17 Tachwedd 2022**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH 2021/22 | • Derbyn bod trefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaeth yn effeithiol iawn<br>• Bod yr adroddiad, i'r dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn y Cabinet<br><br>Awgrymiadau:<br>• Cynnwys sylw ar yr effaith gadarnhaol mae cwynion yn cael ar berfformiad y Cyngor<br>• Cynnwys crynodeb o'r prif feysydd / meysydd datblygol sydd yn derbyn cwynion<br>• Categoreiddio neu osod cyd-destun ehangach ar gyfer yr adrannau hynny sydd yn derbyn y mwyafrif o gwynion, fel bod modd deall yr amgylchiadau<br>• Y Cadeirydd i ail ymweld â chyfrifoldebau'r Pwyllgor - a oes angen rhoi trosolwg ar 'holl adrannau'r Cyngor' (gan gynnwys Gwasanaethau Gofal ac Addysg sydd â threfn statudol eu hunain)? | **Mae Adroddiad Blynyddol 2022/23 yn eitem ar raglen heddiw.**<br><br>**Bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 19 Medi.** |

**Cyfarfod 9 Chwefror 2023**

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| DIWEDDARIAD AR ADRODDIADAU SYDD WEDI EU CYHOEDDI YN DDIWEDDAR GAN ARCHWILIO CYMRU | • Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion 'Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br>• Cyflwyno adroddiad ymhen 6 mis i ddiweddaru'r Pwyllgor ar drosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd fel bod modd symleiddio llywodraethu ac osgoi dyblygu rhwng y ddau gorff<br>• Derbyn yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr i argymhellion ''Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio" | **O safbwynt trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i is-bwyllgor grymusol Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, bwriedir trafod gyda'r Prif Weithredwr Medi 2023. Dyddiad targed trosglwyddo yw 1 Ebrill 2024.** |
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad<br>• Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol<br>• Cais am ddiweddariad o Archwiliad Diogelwch Tacsis (lefel sicrwydd cyfyngedig)<br><br>• Bod angen cyfeirio'r mater o ddiffyg gweithredu gweithdrefnau rheolaethol mewn Cartrefi Gofal i'r Pwyllgor Craffu Gofal | **Diogelwch Tacsis yn destun archwiliad dilynol eleni. Disgwylir i'r gwaith dilyniant gael ei gwblhau erbyn diwedd Medi 2023.**<br><br>**Eitem Cartrefi Gofal wedi ei ystyried yng Ngweithdy Blynyddol Pwyllgor Craffu Gofal ar 09/05/23. Blaenoriaethwyd yr eitem gan ei raglennu ar gyfer cyfarfod 23/11/23 ar raglen waith drafft 2023/24. Gwaith dilyniant yn parhau wrth i 3 Gartref arall dderbyn archwiliad llawn.** |

**Cyfarfod 25 Mai 2023**

| **Eitem** | **Penderfyniad** | **Diweddariad** |
|---|---|---|
| ETHOL CADEIRYDD | • I ail-ethol Sharon Warnes yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2023/24. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| ETHOL DIRPRWY GADEIRYDD | • I ail-ethol Eifion Jones yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor hwn ar gyfer 2023/24. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| GWEITHREDU PENDERFYNIADAU Y PWYLLGOR | • Derbyn yr adroddiad. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU | • Derbyn yr adroddiadau canlynol<br><br>Rhaglen Waith Chwarter 4 Archwilio Cymru.<br>Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022.<br>Cynllun Archwilio Amlinellol 2023. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| DEDDF LLYWODRAETHU LEOL AC ETHOLIADAU (Cymru) 2021 | • Derbyn yr adroddiad a'r cynnydd yn y Rhaglen Waith. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| SIARTER ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad.<br>• Cefnogi gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda'r gwasanaethau perthnasol.<br>• Cyfeirio 3 maes cyfyngedig i'r Gweithgor Gwella.<br>1. Cynllunio – Trefniadau Cyfathrebu<br>2. Mesurau Diogel Amddiffyn Rhyddid<br>3. Mân-ddaliadau | **Oherwydd absenoldeb salwch hirdymor yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, nid yw'r Gweithgor Gwella Rheolaethau wedi cyfarfod eto.** |
| ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL | • Derbyn yr adroddiad yn unol a gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2022/23.<br>• Ail-sefydlu Gweithgor Gwella Rheolaethau. | **Gweler uchod parthed y Gweithgor Gwella Rheolaethau.** |
| STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2023/24 | • Derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol. | **Dim gweithrediad pellach.** |

| Eitem | Penderfyniad | Diweddariad |
|---|---|---|
| CYFRIFON TERFYNOL 2022/23 – ALLDRO REFENIW | • Derbyn yr adroddiad.<br>• Nodi'r risgiau perthnasol.<br>• Cefnogi argymhelliad i'r Cabinet (13 Mehefin 2023) gymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen; i gymeradwyo'r holl argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| RHAGLEN GYFALAF 2022/23 – ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN (SEFYLLFA 31 MAWRTH 2023) | • Derbyn yr adroddiad.<br>• Nodi'r risgiau perthnasol.<br>• Cefnogi argymhelliad i'r Cabinet (13 Mehefin 2023) gymeradwyo'r gwariant o £37,131,000 ar y rhaglen gyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23 ac i gymeradwyo'r ariannu addasedig. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| CYFARFOD TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD AM Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023 | • Derbyn yr adroddiad.<br>• Cymeradwyo:<br>1. Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022/23.<br>2. Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru.<br>3. Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen yn electroneg. | **Dim gweithrediad pellach.** |
| CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023 | • Derbyn yr adroddiad.<br>• Cymeradwyo:<br>1. Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2022/23.<br>2. Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru.<br>3. Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen yn electroneg. | **Dim gweithrediad pellach.** |

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried cynnwys y tablau uchod a chynnig unrhyw sylwadau.

CYFARFOD: **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

DYDDIAD: **7 MEDI 2023**

TEITL: **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022-23**

PWRPAS: **Cyflwyno'r adroddiad drafft i'r Pwyllgor i'w adolygu a'i gymeradwyo cyn ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor llawn**

GWEITHREDIAD: **Cynnig sylwadau a chymeradwyo'r adroddiad**

AWDUR: **SHARON WARNES, CADEIRYDD Y PWYLLGOR**

SWYDDOG CYSWLLT: **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID**

---

**1.** Cyflwynir gerbron y Pwyllgor yr adroddiad blynyddol sy'n cwmpasu ei waith dros y flwyddyn 2022/23, gan amlygu sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol, a sut mae'n ychwangeu gwerth i drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd.

**2.** Hwn yw'r tro cyntaf i adroddiad blynyddol o'r fath gael ei baratoi, ond mae CIPFA yn argymell yn gryf y dylid gwneud hynny. Bydd nifer o aelodau'r Pwyllgor eisoes yn gyfarwydd ag adroddiadau cyfatebol sy'n cael eu paratoi gan bwyllgor eraill e.e. y Pwyllgor Safonau, a'r adroddiad blynyddol craffu.

**3**. Mae canllawiau CIPFA yn nodi:

***"Dylai'r pwyllgor baratoi adroddiad blynyddol sy'n rhoi sicrwydd i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu ei fod yn cyflawni ei bwrpas ac yn gallu dangos ei effaith".***

**4.** Atodir Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 i sylw'r Pwyllgor. Bwriedir ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 28 Medi.

**Argymhelliad**

**5.** Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyied cynnwys yr adroddiad, cynnig sylwadau ac addasiadau, a chymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol.

**Atodiad:**
Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

# CYNGOR GWYNEDD

# 2022-23

**RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD**

Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno crynodeb o'r gwaith mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi bod yn ymwneud â fo dros y flwyddyn 2022-23.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno i chi adroddiad cyntaf y Cadeirydd ar sail gofynion statudol Llywodraeth Cymru gan obeithio y bydd yn rhoi blas i chwi o sut mae'r Pwyllgor wedi mynd ati i ystyried y ffactorau anodd sydd wedi wynebu'r Cyngor dros y cyfnod a sylwadau'r Pwyllgor ar sut mae'r Cyngor wedi ymateb i'r risgiau yna yn gadarn.

Mae gan y Pwyllgor rôl amlwg i ystyried ffactorau ariannol a rheolaeth trysorlys ond mae hefyd wedi bod yn sicrhau ei hyn ynglŷn â ffactorau eraill, megis yr economi a materion cymdeithasol a lles.

Hoffwn yn gyntaf ddiolch i'r holl swyddogion sydd wedi cefnogi gwaith y Pwyllgor mewn modd trylwyr a phroffesiynol, yn paratoi adroddiadau a gwybodaeth manwl. Gall aelodau'r Pwyllgor holi a chwestiynu yn fanwl er mwyn cael sicrwydd bod trefniadau cadarn mewn lle, ar sail risg, i hyrwyddo llywodraethu a rheolaeth gadarn.

Mae cryn newid wedi bod yng nghyfansoddiad y Pwyllgor yn y flwyddyn yma yn dilyn gofynion statudol gyda'r nod o sicrhau un rhan o dri yn aelodau lleyg gyda Cadeirydd hefyd yn aelod lleyg.

Mae mwy o eglurder y flwyddyn yma am rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â'r Pwyllgorau Craffu ac edrychwn ymlaen dros y cyfnod nesaf i weithio mewn partneriaeth gyda hwy.

I gloi, hoffwn ddiolch fel Cadeirydd i Aelodau Etholedig a Lleyg am y rhan allweddol maent wedi ymgymryd a fo yn y Pwyllgor . Mae nifer wedi dod i'r Pwyllgor am y tro cyntaf ac wedi bwrw i mewn i'r dasg mewn modd positif iawn. Diolch i chi am y gefnogaeth.

Wrth edrych ymlaen i 2023/24, ni rhagwelir sefyllfa gyda llai o sialens i'r dyfodol. Byddwn, mae'n debyg, yn parhau i weld pwysau mawr ar y gyllideb ac felly yn ei dro ar wasanaethau.

Pwysig fydd i bawb fod yn ystyried dulliau amgen o gyflwyno gwasanaethau a gwneud y gorau o'r cyllidebau sydd ar gael. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn barod i wynebu 'r her i helpu'r Cyngor yn ei dasg.

**Mrs Sharon Warnes**

**Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

**CYFLWYNIAD**

1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl barhaus yn y drefn o ddarparu llywodraethu dda. Pwrpas craidd y pwyllgor yw darparu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith reoli risg a'r amgylchedd reolaeth gysylltiol, craffu annibynnol o berfformiad ariannol ac anariannol yr awdurdod i'r graddau y mae'n effeithio ar ei amlygiad i risg ac yn gwanhau'r amgylchedd reolaeth, ac i oruchwylio'r broses adrodd ariannol.

2. Wrth gyflawni ei waith, mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw i ganllawiau gwahanol gyrff a sefydliadau allanol gan gynnwys CIPFA.

3. Yn ôl Datganiad Sefyllfa CIPFA i Bwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022), diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

*Darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Mae rôl y pwyllgor yn sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch risg a rheolaeth lywodraethu ac felly yn rhoi mwy o hyder i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu bod y trefniadau hynny'n effeithiol.*

**CYFNOD YR ADRODDIAD**

4. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gwaith y Pwyllgor am y cyfnod rhwng cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 19 Mai 2022 a'r cyfarfod blynyddol ar 4 Mai 2023. Cynhaliwyd 6 cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod cyfnod dan sylw:

30 Mehefin 2022

8 Medi 2022

13 Hydref 2022

17 Tachwedd 2022

26 Ionawr 2023

9 Chwefror 2023

**AELODAETH Y PWYLLGOR**

5. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 12 Cynghorydd ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd a chwe 'aelod lleyg', sef person nad yw'n aelod o awdurdod lleol.

6. Roedd presenoldeb yr aelodau yn y cyfarfodydd fel a ganlyn:

### Cadeirydd (Aelod Lleyg)

| | 30/06/2022 | 08/09/2022 | 13/10/2022 | 17/11/2022 | 26/01/2023 | 09/02/2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sharon Warnes | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

### Is-Gadeirydd (Aelod Lleyg)

| | 30/06/2022 | 08/09/2022 | 13/10/2022 | 17/11/2022 | 26/01/2023 | 09/02/2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hywel Eifion Jones | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

### Cynghorwyr

| | 30/06/2022 | 08/09/2022 | 13/10/2022 | 17/11/2022 | 26/01/2023 | 09/02/2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Menna Baines | x | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Jina Gwyrfai | ✓ | x | ✓ | x | ✓ | ✓ |
| Cyng. Medwyn Hughes | ✓ | ✓ | x | x | ✓ | ✓ |
| Cyng. John Brynmor Hughes[1] | ✓ | ✓ | x | ✓ | | |
| Cyng. Meryl Roberts | ✓ | ✓ | x | x | ✓ | ✓ |
| Cyng. Richard Glyn Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Huw Rowlands | ✓ | ✓ | x | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Paul Rowlinson | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Angela Russell | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyng. Rob Triggs | ✓ | ✓ | ✓ | x | x | ✓ |

### Aelodau Lleyg

| | 30/06/2022 | 08/09/2022 | 13/10/2022 | 17/11/2022 | 26/01/2023 | 09/02/2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Carys Edwards[2] | | | | | | x |
| Clare Hitchcock | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhys Parry | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

[1] Wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor yn Ionawr 2023
[2] Wedi ei phenodi gan y Cyngor Llawn yn Rhagfyr 2022

**SWYDDOGAETHAU'R PWYLLGOR**

7. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Rhan 6, Pennod 2 rhaid i Cyngor Gwynedd sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio gyda rhai swyddogaethau mandadol, ac mae ganddo hefyd yr hawl i gyflawni unrhyw swyddogaethau addas eraill.
8. Mae Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd yn pennu'r canlynol fel swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

**Swyddogaeth na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth**

Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd) yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

**Swyddogaethau mandadol o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011**

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y diwygiwyd) :

(a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,

(b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,

(c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol,

(ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

(d) adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol

(e) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas a gallu'r awdurdod I ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol.

(f) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac

(g) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

(ng) Gweithredu swyddogaethau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu).

**Swyddogaethau Eraill**

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

(i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;

(ii) canolbwyntio adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;

(iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;

(iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor neu Archwilio Cymru a monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion neu ganfyddiadau’r adroddiadau.

**GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2022/23**

**Adolygu a chymeradwyo'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod**

9. Yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor gyfrifon terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, oedd yn cwmpasu Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2021 / 22 yn ogystal â'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 (yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru).

10. Cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon drafft cyn archwiliad 2021/22 Cyngor Gwynedd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 8 Medi 2022. Nid oes gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Datganiad o Gyfrifon. Er hynny, ystyrir bod cyflwyno'r datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn, ac yn gyfle i'r aelodau holi swyddogion ariannol am y cynnwys ac arfogi eu hunain gyda gwybodaeth berthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

11. Oherwydd amseriad cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon, cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar 26 Ionawr 2023 er mwyn derbyn y Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 a'r archwiliad perthnasol. Ar ôl ystyried adroddiad Archwilio Cymru ar y cyfrifon (adroddiad "ISA 260"), penderfynodd y Pwyllgor:

    - Derbyn a chymeradwyo Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
    - Derbyn a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon 2021/22 (ôl-archwiliad)
    - Cadeirydd y Pwyllgor i ardystio'r Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad o'r Cyfrifon
    - Cadeirydd y Pwyllgor ynghyd â'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth yn electroneg.

**Arolygu materion ariannol yr awdurdod, craffu arnynt, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

Gwariant Refeniw

12. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol yr awdurdod yn ystod y flwyddyn. Yn ei gyfarfod ar 30 Mehefin 2022, cyflwynwyd adroddiad Alldro Refeniw ar y Cyfrifon Terfynol 2021/22 er mwyn i'r Pwyllgor allu derbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2021/22, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau. Roedd yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor yn 2021/22, sefyllfa alldro tanwariant neu orwariant yr adrannau unigol, a'r rhesymau am hynny.

13. Yn ogystal ag ystyried y sefyllfa alldro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cynhelir adolygiadau ffurfiol o sefyllfa'r gyllideb refeniw yn ystod y flwyddyn, ar ddiwedd Awst a diwedd Tachwedd. Cyflwynwyd adroddiadau ar adolygiad diwedd Awst 2022 i'r Pwyllgor ar 13 Hydref 2022, ac adroddiadau ar adolygiad diwedd Tachwedd 2022 i'r cyfarfod ar 26 Ionawr 2023. Ar yr achlysuron hyn penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, a bu i'r Pwyllgor gytuno gydag argymhellion y Cabinet er mwyn ymdrin â'r sefyllfa o or-wariant oedd yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Rhaglen Gyfalaf

14. Ar 30 Mehefin 2022, cyflwynwyd Adolygiad Diwedd Blwyddyn (Sefyllfa 31 Mawrth 2022) Rhaglen Gyfalaf 2021-22. Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (sefyllfa 31 Mawrth 2022), a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r risgiau perthnasol a chefnogi penderfyniad y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Mehefin 2022.

15. Cyflwynwyd adroddiadau ar adolygiad diwedd Awst 2022 o'r rhaglen gyfalaf i'r Pwyllgor ar 13 Hydref 2022, ac ar adolygiad diwedd Tachwedd 2022 i'r cyfarfod ar 26 Ionawr 2023 er mwyn derbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet.

Rhaglen Arbedion

16. Ynghlwm â'r adolygiad o sefyllfa'r gyllideb refeniw, mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiadau ar wahân yn ystod y flwyddyn ar allu'r Cyngor i wireddu ei gynlluniau arbedion. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd ar 13 Hydref 2022 a 26 Ionawr 2023 fel bod modd i'r Pwyllgor ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion.

17. Oherwydd y bwlch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf, yn bennaf yn sgil chwyddiant llawer uwch na'r hyn oedd wedi ei ragweld, bu'n rhaid iddo ddatblygu cynlluniau arbed newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ymlaen, a hynny ar fyrder. Cyflwynwyd adroddiad gan Arweinydd y Cyngor i gyfarfod y Pwyllgor ar 9 Chwefror 2023, yn gofyn i'r Pwyllgor ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr

arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad yn eu cyfarfod ar 14 Chwefror. Roedd y Pwyllgor yn glir nad rôl y Pwyllgor oedd mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol oedd cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. Penderfynodd y Pwyllgor:

- Bod y broses o adnabod yr arbedion wedi bod yn heriol
- Bod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion
- Bod yr arbedion a gynhigiwyd yn rhesymol a chyraeddadwy
- Bod y risgiau a'r goblygiadau'r penderfyniad yn glir
- Bod yr adroddiad yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion yn ei gyfanrwydd
- Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr adroddiad i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod Arbedion 2023/24 yn eu cyfarfod ar 14 Chwefror 2023.

18. Fodd bynnag, nodwyd fod angen amlygu'r risg o beidio cyflawni cynlluniau yn well, a bod angen amlygu na fydd yr arbedion yn cael effaith anwastad ar draws y Sir.

<u>Rheolaeth Trysorlys</u>

19. Yn unol â threfniadau llywodraethu da yn ogystal â gofynion statudol, mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar weithgareddau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor ddwywaith y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2021/22, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn ar 4 Mawrth 2021, i gyfarfod 30 Mehefin 2022. Yn dilyn hynny, derbyniwyd adroddiad Rheolaeth Trysorlys Hanner Blwyddyn 2022-23 yng nghyfarfod 17 Tachwedd 2022. Pwrpas yr adroddiad hwn oedd diweddaru'r Pwyllgor am wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

<u>Gosod Cyllideb</u>

20. Wrth agosáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Gyllideb 2023/24 ar 9 Chwefror 2023 er mwyn craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymell cyllideb 2023/24 i'r Cyngor llawn. Rôl y Pwyllgor yn y cyd-destun hwn oedd craffu'r wybodaeth gan sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt fel bod y penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'i atodiadau, penderfyniad y Pwyllgor oedd derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys, derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol a chyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr opsiynau i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod Cyllideb 2023/24 yn eu cyfarfod ar 14 Chwefror 2023.

21. Nid oedd unrhyw bwynt penodol roedd y Pwyllgor yn ystyried fod angen dwyn sylw'r Cabinet na'r Cyngor Llawn iddo. Fodd bynnag, adroddwyd i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn fod pwyntiau wedi codi yn ystod y trafodaeth y Pwyllgor ar y materion canlynol:

- Defnydd o falansau, cronfeydd a reserfau
- Cyflogau Athrawon
- Cyd Bwyllgor Corfforedig
- Rhagolygon ar gyfer 2024/25
- Defnydd y Premiwm Treth Cyngor.

22. Hefyd yng nghyfarfod 9 Chwefror 2023 bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Gyfalaf 2023/24 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthyg), a hynny er mwyn ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth cyn cyflwyno i'r Cyngor llawn ei dderbyn. Roedd y cyflwyniad roedd aelodau'r Pwyllgor ar 3 Chwefror gan Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, yn hynod ddefnyddiol wrth ymgymryd â'r dasg yma. Derbyniwyd yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a cefnogwyd bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar 2 Mawrth 2023.

**Hybu rheolaeth fewnol; Adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

Adroddiadau Archwilio Mewnol

23. Pwrpas Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ydi "Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

24. Mae adroddiadau archwilio mewnol yn arf pwysig felly i alluogi'r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaeth o adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau a rheolaeth fewnol.

25. Mae mwyafrif adroddiad Archwilio Mewnol yn gosod canlyniad y gwaith i un o bedwar categori o lefel sicrwydd, fel a ddangosir yn y tabl isod:

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

26. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 31 Ionawr 2022 hyd 31 Mai 2022 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 30 Mehefin 2022. Amlygwyd bod 16 o archwiliadau'r cynllun wedi eu cwblhau a bod 4 adroddiad wedi eu rhyddhau ar ffurf drafft. O'r adroddiadau oedd wedi eu cwblhau, roedd 5 wedi derbyn barn "sicrwydd uchel", 7 wedi derbyn "sicrwydd digonol" a 4 "sicrwydd cyfyngedig".

27. Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar 9 Chwefror 2023 yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Mai 2022 hyd 25 Ionawr 2023. Amlygwyd bod 24 o archwiliadau'r cynllun wedi eu cwblhau ac wedi ei gosod ar lefel sicrwydd uchel, digonol neu gyfyngedig. O'r adroddiadau oedd wedi eu cwblhau, roedd 8 wedi derbyn barn "sicrwydd uchel", 11 wedi derbyn "sicrwydd digonol" a 5 "sicrwydd cyfyngedig".

28. Rhoddwyd sylw i'r holl gynnyrch yma yn eu tro gan y Pwyllgor. Lle roedd sicrwydd cyfyngedig, gwnaethpwyd cais am wybodaeth ddilynol er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor gyflawni ei ddyletswyddau.

Adroddiadau Archwilwyr Allanol

29. Ar 8 Medi 2022 cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru *Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion* i'r Pwyllgor, a mynychodd yr Uwch Reolwr Busnes o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant er mwyn manylu ymhellach ar gynnwys yr adroddiad. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod fod hwn yn faes cymhleth, ond roedd yn derbyn fod gan y Cyngor raglen waith yn ei le.

30. Cyflwynwyd Adroddiad Archwilio Cymru *Llamu Ymlaen* i'r Pwyllgor ar 17 Tachwedd 2022. Roedd yr adroddiad yn ystyried sut mae'r Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys y rhai a ddarperir mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a chymunedau. Cyflwynwyd hefyd ymateb gan y Cyngor i argymhellion Archwilio Cymru.

31. Casgliad yr adroddiad oedd fod y Cyngor "yn gweithio'n frwd ar ei brosiect Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol ac yn datblygu'r weledigaeth a chynlluniau ar draws yr holl wasanaethau ond bydd edrych ymhellach i'r dyfodol yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor i'r egwyddor datblygu cynaliadwy".

32. Penderfynwyd derbyn ymateb Cyngor Gwynedd i argymhellion yr adroddiad.

33. Cyflwynwyd canlyniad dau archwiliad i gyfarfod 9 Chwefror 2023, sef *Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021* a *Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio*. Yn yr un cyfarfod, derbyniodd y Pwyllgor ymateb rheolwyr y Cyngor i argymhellion yr archwiliadau hyn. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiadau, ac ymateb y rheolwyr iddynt.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

34. Un o orchwylion blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ydi adolygu a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft. Mae'r datganiad, er nad yn rhan o'r cyfrifon, yn ddogfen statudol ac angen ei chyhoeddi gyda'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod Ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le. Y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sydd yn arwyddo'r datganiad er bod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae gan y Pwyllgor rôl allweddol yn gwirio a herio ei gynnwys.

35. Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ar 30 Mehefin 2022. Ar ôl herio ei gynnwys a gwneud arsylwadau ar rai o'r sgoriau risg, penderfynwyd cymeradwyo'r datganiad ac argymell bod Arweinydd y Cyngor a Prif Weithredwr y Cyngor yn ei arwyddo.

Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hir-Dymor

36. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor ar 17 Tachwedd 2022 ynglŷn â'r newid deddfwriaethol o amgylch y Premiwm Treth Cyngor ar eiddo gwag hirdymor ac eiddo sydd wedi eu meddiannu'n achlysurol ("ail gartrefi"), a sut dylai'r Cyngor ymateb i hwnnw.

37. Roedd y Pwyllgor yn glir nad ei rôl oedd mynegi barn ar yr hyn dylai lefel y Premiwm fod, ond i sicrhau fod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddo, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. Roedd disgwyl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni ei hun fod y dystiolaeth oedd wedi cael ei gasglu, ac oedd wedi ei gyflwyno yn yr adroddiad yma a'i atodiadau, yn ddigonol i alluogi'r Cabinet a'r Cyngor ddod i benderfyniad rhesymol ar sail yr wybodaeth fyddai'n yn cael ei gyflwyno iddynt. Credwn fod y Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswydd yn hyn o beth; ar ôl herio cadarn, derbyniwyd bod y wybodaeth yn yr adroddiad a'r atodiadau yn cydymffurfio gyda'r canllawiau statudol a gofynion deddfwriaethol. Gwnaeth y Pwyllgor sawl cynnig i'r Cabinet eu hystyried wrth benderfynu ar argymhelliad i'r Cyngor Llawn wneud penderfyniad terfynol ar y lefelau premiwm, ac adroddwyd ar rhain i gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor Llawn.

**I adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion**

38. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth 2021/22 i'r Pwyllgor ar 17 Tachwedd 2022.

39. Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad, roedd y Pwyllgor yn derbyn bod trefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin â chwynion a gwella gwasanaeth yn effeithiol iawn. Serch hynny, gwnaethpwyd penderfyniad ffurfiol bod yr adroddiad, i'r dyfodol, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn y Cabinet fel bod modd i sylwadau ac argymhellon y Pwyllgor yn cael eu hystyried wrth dderbyn yr adroddiad yn ffurfiol.

40. Yn ogystal â hynny, gwnaethpwyd rhai awgrymiadau fydd angen ystyriaeth bellach cyn cyflwyno adroddiadau i'r dyfodol:

- Cynnwys sylw ar yr effaith gadarnhaol mae cwynion yn cael ar berfformiad Cyngor
- Cynnwys crynodeb o'r prif feysydd / meysydd datblygol sydd yn derbyn cwynion
- Categoreiddio neu osod cyd-destun ehangach ar gyfer yr adrannau hynny sydd yn derbyn y mwyafrif o gwynion, fel bod modd deall yr amgylchiadau
- Y Cadeirydd i ail ymweld â chyfrifoldebau'r Pwyllgor. Yn benodol, mae angen ystyried os oes angen i'r Pwyllgor, yn unol â gofynion Mesur 2011, roi trosolwg dros holl adrannau'r Cyngor, gan gynnwys Gwasanaethau Gofal ac Addysg sydd â threfn statudol eu hunain.

**Arolygu a monitro trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod**

Rhaglen Waith Archwilio Mewnol

41. Cyflwynwyd Siarter Archwilio Mewnol i gyfarfod y Pwyllgor ar 30 Mehefin 2022, sef y cyfarfod cyntaf yn dilyn etholiadau'r Cyngor ym Mai 2022. Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus 2013 (diwygiedig 2017) rhaid llunio Siarter Archwilio Mewnol gyda chynnwys y Siarter yn cyfarch Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol (2019) a gyhoeddwyd gan CIPFA. Cyfrifoldeb y Pwyllgor yw cymeradwyo'r siarter.

42. Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd gan aelodau'r Pwyllgor fod y siarter yn crynhoi rôl y Pwyllgor yn dda, a'i fod yn safonol ac yn hawdd i'w ddilyn. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.

43. Un o'r adroddiadau mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei dderbyn er mwyn cyflawni ei ddyletswydd o arolygu a monitro trefniadau archwilio mewnol y Cyngor ydi Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad perthnasol i 2021/22 i'w gyfarfod ar 30 Mehefin 2022.

44. Roedd yr adroddiad hwn yn mynegi barn Archwilio Mewnol ar amgylchedd rheolaethol gyffredinol o fewn yr Awdurdod yn ystod 2021/22 gan ddarparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Mae'r Pwyllgor yn derbyn na all sicrwydd fyth fod yn llwyr ac y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

45. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod fod 2021/22 yn flwyddyn anodd ac anarferol i'r gwasanaeth. Adroddwyd bod Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar yr Awdurdod yn ei gyfanrwydd ac ar waith Archwilio Mewnol ac fel y mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor roedd swyddogion Archwilio Mewnol yn gweithio o adref. Ni fu'n bosib cynnal archwiliad lle byddai angen ymweld â'r sefydliad oherwydd canllawiau a chyfyngiadau Llywodraeth Cymru. Nodwyd hefyd bod swyddogion Archwilio Mewnol wedi cynorthwyo Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu a bod rhai swyddogion hefyd wedi cynorthwyo'r gwasanaeth Budd-daliadau i ddelio gyda phrosesau Taliadau Cymorth Hunanynysu.

46. Er yr anawsterau a brofwyd gan y Gwasanaeth, roedd y Pwyllgor yn gyfforddus yn derbyn yr adroddiad yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2021/22.

47. Yn yr un cyfarfod, cymeradwyodd y Pwyllgor Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynyddol ar gyfer 2022/2023, gan wneud rhai argymhellion pellach. Wrth wneud hynny, roedd y Pwyllgor yn derbyn bod gan y cynllun hyblygrwydd i sicrhau y rhoddir sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg, ac y byddai unrhyw addasiadau / newidiadau i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor.

48. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y cynnydd ar waith y cynllun archwilio yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror 2023. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Cymeradwywyd addasiadau sylweddol i'r cynllun er mwyn adlewyrchu'r adnoddau oedd wedi bod ar gael i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Rhaglen Waith Archwilio Cymru

49. Cyflwynwyd adroddiad ar raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru ynghyd â diweddariad ar berfformiad hyd ddiwedd Mawrth 2022 i gyfarfod 30 Mehefin 2022. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y gwaith lleol, rhanbarthol a chenedlaethol oedd wedi ei gwblhau (gan AC a rheoleiddwyr eraill) ynghyd â chrynodeb o'r prif negeseuon gan nodi statws darnau amrywiol o waith oedd yn ymddangos o dan y penawdau canlynol:

- Gwaith Archwilio Ariannol
- Gwaith Archwilio Perfformiad
- Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu cynllunio/ar y gweill
- Estyn
- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers 1 Ebrill 2021
- Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/cynlluniedig)

50. Yn yr un cyfarfod, cyflwynwyd Cynllun Archwilio 2022 – Cyngor Gwynedd a Mân Gyd-Bwyllgorau gan Archwilio Cymru. Roedd yr adroddiad yn nodi'r gwaith roedd Archwilio Cymru yn bwriadu ei wneud yn ystod 2022 fel modd o gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel archwilydd allanol y Cyngor ac yn unol â'u rôl o dan Cod Ymarfer Archwilio. Nodwyd bod rhai o'r risgiau yn gyffredinol i'r holl Awdurdodau Lleol a dim yn benodol i Wynedd. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth.

51. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd diweddariad chwarterol i gyfarfodydd y Pwyllgor ar 8 Medi 2022 (chwarter 1) ac 17 Tachwedd 2022 (chwarter 2).

**Swyddogaethau Deddf 2021 – Perfformiad y Cyngor**

52. Mae'n ofyn statudol newydd yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod y Cyngor yn cynhyrchu "adroddiad hunanasesu" sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth y Cyngor fodloni'r gofynion perfformiad sydd wedi eu gosod allan yn y Ddeddf yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae'r un darn o ddeddfwriaeth yn nodi fod rhaid i'r Cyngor sicrhau bod fersiwn ddrafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio (Adran 91(6)).

53. Cyflwynwyd adroddiad hunanasesiad drafft ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor ar 17 Tachwedd 2022. Ar ôl trafod y cynnwys, penderfyniad y Pwyllgor oedd i dderbyn yr hunanasesiad drafft, gan groesawu'r bwriad o gynnwys yr hunanasesiad yn Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor i'r dyfodol. Fodd bynnag, roedd y pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno yn gynharach yn y flwyddyn yn y dyfodol, a'i fod yn dod gerbron y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cabinet.

54. Awgrymwyd hefyd fod yr adroddiad yn ystyried cynnwys cyfeiriad at y gefnogaeth a'r hyfforddiant a roddir i Aelodau Etholedig yn yr hunanasesiad.

**Monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion archwilwyr allanol a rheoleiddwyr**

55. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol yn ei gyfarfodydd ar 30 Mehefin 2022 a 9 Chwefror 2023. Yn unol â'i rôl statudol, mae angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

56. Er bod y Pwyllgor yn fodlon yng nghyfarfod 30 Mehefin 2022 fod trefniadau priodol yn eu lle, fe wnaeth gais i adolygu'r allwedd i'r casgliadau, ynghyd â gosod amserlen i'r adroddiadau hynny sydd "ar waith".

57. Ymhellach, yng nghyfarfod 9 Chwefror 2023 roedd y Pwyllgor o'r farn bod 'wedi ei gwblhau' yn golygu un o ddau beth yn yr 'allwedd i'r casgliadau' ac fod felly angen amlygu pa un sydd yn berthnasol i gasgliadau'r cynigion / argymhellion hynny sydd 'wedi ei gwblhau'.

58. Fodd bynnag, ar wahân i'r pwyntiau penodol yma, roedd y Pwyllgor yn parhau o'r farn fod gan y Cyngor drefniadau derbyniol i sicrhau gweithrediad argymhellion yr archwilwyr allanol a'r rheoleiddwyr.

**Ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

59. Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor ar 13 Hydref 2022 yn amlinellu'r cynnydd a wnaed wrth ymateb i'r gofynion newydd ar y Cyngor gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd y Pwyllgor yn fodlon fod cynnydd boddhaol yn cael ei wneud, ond wedi penderfynu ei fod am barhau i dderbyn diweddariadau mewn cyfarfodydd dilynol.

**Effeithiolrwydd y Pwyllgor**

60. Gan gychwyn o'r cyfarfod ar 17 Tachwedd 2022 mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar y camau sydd wedi eu gwneud i weithredu ei benderfyniadau. Cred y Pwyllgor fod hyn yn gam arwyddocaol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol.

61. Yn y gorffennol mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cynnal hunan-arfarniad achlysurol. Nid yw hyn wedi digwydd yn dilyn Etholiad 2022 a'r newidiadau sydd wedi eu cyflwyno yn sgil gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2021. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod hydref 2023 yn gofyn am benderfyniad ar gynnal hunanasesiad yn y dyfodol agos.

62. Yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan CIPFA, ymhlith y materion a fydd yn cael eu hystyried wrth asesu effeithiolrwydd y pwyllgor byddai:

- Asesiad o a yw'r pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r arferion a argymhellir yn y canllawiau hyn ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth (lle bo hynny'n briodol).
- Sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei gylch gorchwyl, gan gynnwys ei swyddogaethau craidd.
- Gweithrediad y Pwyllgor, gan gynnwys y cymorth a'r hyfforddiant a ddarparwyd a sut mae aelodau wedi datblygu eu gwybodaeth a'u profiad.
- Effeithiolrwydd y pwyllgor o ran effaith ar ansawdd llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, ynghyd â threfniadau archwilio boddhaol.
- Adborth gan y rhai sy'n rhyngweithio â'r Pwyllgor.

63. Mae CIPFA wedi datblygu rhai arfau gwella gall y pwyllgor eu defnyddio i lywio ei werthusiad. Defnyddiwyd fersiynau cynharach o'r offer hyn yn y gorffennol i gynorthwyo'r Pwyllgor i asesu ei effeithiolrwydd. Petai'r Pwyllgor yn cytuno i gynnal asesiad o'r fath, bydd hwnnw wedyn yn cael ei ddefnyddio i lywio Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2023/24.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 7 Medi 2023 |
| **TEITL YR EITEM** | Deddf Llywodraeth Leol 2021 – Hunanasesiad |
| **AMCAN** | Cyflwyno drafft o ddogfen Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2022/23 ar gyfer ystyriaeth y pwyllgor. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau ystyried cynnwys y ddogfen drafft ar gyfer 2022/23 gan gynnig unrhyw sylwadau ac argymhellion. |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Arweinydd y Cyngor |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor |

## 1. CEFNDIR

1.1. Dyma adroddiad sy'n cyflwyno Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad y Cyngor gan edrych yn ôl ar 2022/23. Nodir fod yr hunanasesiad yn ofyn statudol newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

1.2. Eleni, am y tro cyntaf, mae hunanasesiad y Cyngor wedi'i ymgorffori o fewn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae Adroddiad Perfformiad ac Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2022/23 **(Atodiad 1)** wedi ei strwythuro er mwyn adlewyrchu fformat Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23. Yn y rhan gyntaf canolbwyntir ar berfformiad y prosiectau blaenoriaeth tra mae'r ail ran yn edrych ar ein gwaith dydd i ddydd fesul adran. Mae'r trydydd rhan yn cynnwys yr hunanasesiad.

1.3. Mae rhywfaint o waith pellach i'w wneud i gwblhau cynnwys rhan 1 a 2 o'r adroddiad ac i'r diwyg a bydd y gwaith hyn wedi ei gwblhau ar gyfer cyflwyno i'r Cabinet ac i'r Cyngor Llawn yn ddiweddarach ym mis Medi.

1.4. Noda canllawiau statudol fod angen cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y broses hunanasesu gan roi cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ac argymhellion. O ystyried hynny gofynnir i aelodau'r Pwyllgor ganolbwyntio ar **Ran 3** o'r adroddiad, (sef yr Hunanasesiad) gan gynnig unrhyw sylwadau neu argymhellion.

## 2. HUNANASESIAD O BERFFORMIAD Y CYNGOR

2.1. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn darparu ar gyfer fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'n disodli'r ddyletswydd a nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

2.2. Golyga hyn bod yn rhaid i Gyngor lunio adroddiad hunanasesu mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol. Mae'n rhaid i'r adroddiad nodi ei gasgliadau ynghylch i ba raddau y bodlonodd y gofynion perfformiad yn ystod y flwyddyn ariannol honno, ac unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd, neu y mae wedi'u cymryd eisoes, er mwyn

cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad. Y gofynion perfformiad yw i ba raddau:-

i. y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
ii. y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
iii. y mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion i. a ii

2.3. Ar ei lefel symlaf, mae a wnelo hunanasesu â'r ffordd y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac yn ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda rydyn ni'n gwneud?
- Sut rydyn ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

2.4. Mae dyletswydd i gyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau'r hunanasesiad unwaith mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol ac i gwblhau'r gwaith "cyn gynted ag bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi."

2.5. Nodir dyletswydd hefyd i ymgynghori o leiaf unwaith mewn blwyddyn ariannol gyda phobl leol, busnesau lleol, staff y Cyngor a'r undebau llafur. Dylid defnyddio'r ymgynghoriadau hyn i gael adborth ar y graddau y mae'r awdurdod yn cyflawni'r gofynion perfformiad.

2.6. Mae'r Cyngor eisoes yn casglu llawer o'r dystiolaeth ac yn cyhoeddi dogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunanasesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis (ond ddim yn gyfyngedig i) adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. O ganlyniad, rydym wedi ceisio cadw'r ddogfen hunan asesiad yn gymharol gryno gan gyfeirio tuag at nifer o'r dogfennau lle ceir gwybodaeth bellach er mwyn ceisio osgoi dyblygu.

2.7. Y Grŵp Llywodraethu sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r broses hyn o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol. Nodir hefyd fod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cael cyfle i fwydo i mewn i'r broses o lunio'r adroddiad ac hefyd wedi cael cyfle i ddarparu sylwadau ar fersiwn ddrafft dros yr wythnosau diwethaf.

2.8. Fel y nodir uchod mae angen cynnwys y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y broses er mwyn rhoi cyfle iddynt gyflwyno unrhyw sylwadau ac argymhellion fel yr amlinellir yn y blwch isod (sydd wedi ei dynnu'n uniongyrchol o'r ddogfen).

| **Cynnwys pwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor** |
|---|
| *Para 2.40 Mae'n rhaid i'r Cyngor drefnu bod drafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Mae'n rhaid i'r pwyllgor adolygu'r adroddiad drafft a gall wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r casgliadau neu'r camau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd.* |

*Para 2.41 Os na fydd y Cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y cyngor y newid yn yr adroddiad hunanasesu terfynol.*

2.9. Byddai peidio â chyhoeddi Hunanasesiad yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Archwilio Cymru, fyddai hefo goblygiadau i enw da’r Cyngor.

**3. CAMAU NESAF**

3.1. Bydd drafft o’r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Hunanasesiad, ynghyd â unrhyw sylwadau neu argymhellion gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr hunanasesiad yn cael eu cyflwyno i’r Cabinet ar 19eg o Fedi ac i’r Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo ar y 28ain o Fedi, 2023.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1. Gofynnir i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried yr hunanasesiad drafft ar gyfer 2022/23 sy’n ymddangos yn Atodiad 1 (tudalen 147 ymlaen) a chynnig unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau os oes rhai.

**Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Perfformiad a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd (Drafft) 2022/23**

CYNGOR GWYNEDD

# DRAFFT

# Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd

2022/2023



# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd | 3 |
| Uchafbwyntiau'r flwyddyn | 4 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Ein Gwariant | 9 |
| Rhan 1 - Blaenoriaethau Gwella | 10 |
| Blaenoriaeth Gwella 1: Creu economi hyfyw affyniannus | 11 |
| Blaenoriaeth Gwella 2: Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial | 28 |
| Blaenoriaeth Gwella 3: Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir | 42 |
| Blaenoriaeth Gwella 4: Mynediad at gartrefi addas | 51 |
| Blaenoriaeth Gwella 5: Byw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. | 58 |
| Blaenoriaeth Gwella 6: Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant | 65 |
| Blaenoriaeth Gwella 7: Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud | 75 |
| Blaenoriaeth Gwella 8: Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd | 87 |
| Rhan 2 - Adroddiadau Perfformiad Gwaith Adrannol | 89 |
| Addysg | 90 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 95 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 102 |
| Economi a Chymuned | 105 |
| Priffyrdd, Peirianneg ac YGC | 110 |
| Tai ac Eiddo | 119 |
| Amgylchedd | 125 |
| Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth | 134 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 139 |
| Gwasanaeth Cyfreithiol | 145 |
| Rhan 3 - Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2022-23 | 147 |


Os ydych chi angen y ddogfen yma mewn iaith neu fformat arall ffoniwch 01766 771000 neu ebostiwch cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru

Os ydych angen mwy o wybodaeth am yr Adroddiad hwn cysylltwch â Thîm Cefnogi Busnes y Cyngor drwy ffonio 01766 771000 neu cynllun.cyngor@gwynedd.llyw.cymru

# Rhagair yr Arweinydd

I ddilyn.....

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn,
Arweinydd Cyngor Gwynedd.





# Uchafbwyntiau'r flwyddyn

Isod gweler crynodeb weledol sy'n rhoi ciplun o brif gyflawniadau'r Cyngor dros y flwyddyn a fu. Mae'n cynnwys gwaith sydd wedi ei gyflawni gan amrediad o wasanaethau ar draws adrannau'r Cyngor.

# Cyflwyniad

Cyhoeddodd y Cyngor 'Gynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023' ym mis Mawrth 2018 sy'n gosod ein huchelgais a'n blaenoriaethau ar gyfer y bum mlynedd dan sylw. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r hyn gyflawnodd y Cyngor yn ystod 2022-23, ac mae hefyd yn gyfle i edrych yn ôl ar flwyddyn olaf o Gynllun y Cyngor am y pum mlynedd o 2018-23.

Mae rhan gyntaf yr adroddiad yn rhoi sylw i'n perfformiad fesul Blaenoriaeth Gwella. Dyma'r wyth maes gwahanol yr ydym wedi bod yn gweithio arnynt er mwyn gwneud gwahaniaeth positif i fywydau pobl Gwynedd.

Mae ail ran yr adroddiad yn edrych ar weddill gwaith y Cyngor – yn bennaf y gwaith dydd i ddydd a wneir gan yr adrannau, er enghraifft gofalu am yr henoed, gwasanaethau ailgylchu, ac addysg. Yma ceir penodau unigol ar berfformiad pob un o adrannau'r Cyngor.

Hefyd eleni, bydd rhan olaf yr adroddiad perfformiad yn ymgorffori ein hunan asesiad ar gyfer 2022/23. Dyma ail hunan asesiad Cyngor Gwynedd fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fel yr amlinellwyd mewn adroddiadau blynyddol diweddar, mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar wasanaethau'r Cyngor, ond bu newid yn ystod 2022-23 wrth i fwyafrif y cyfyngiadau gael eu llacio. Wrth gwrs, mae effaith Covid-19 yn parhau i fod yn weladwy heddiw mewn sawl maes, a does dim amheuaeth fod y ffordd yr ydym yn gweithio ac yn darparu gwasanaethau wedi newid yn sgil y pandemig.



Gwelwyd cynnydd sylweddol mewn costau byw yn ystod y flwyddyn gyda phrisiau nwyddau a gwasanaethau, ac yn arbennig costau ynni, yn codi'n gyflym dros ben. Ymatebodd y Cyngor i hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys cynnig amrediad eang o gefnogaeth i drigolion y sir gyda'u costau byw.

Bu pwysau cynyddol ar gyllideb y Cyngor yn ystod y flwyddyn hefyd wrth i'r lefelau uchel o chwyddiant, nas gwelwyd eu tebyg ers degawdau, gael effaith ar gostau'r nwyddau a'r gwasanaethau a brynir gan y Cyngor. Yn ogystal, ers 2015-16 mae'r Cyngor wedi gwireddu dros £33.5 miliwn o arbedion, felly er gwaetha'r holl ymdrechion a wneir, mae'n anorfod fod arbedion o'r lefel ynghyd a chostau cynyddol yn effeithio ar wasanaethau.

Er gwaetha'r heriau ariannol hyn, mae'r Cyngor yn arloesi yn gyson gan geisio canfod ffyrdd gwell a mwy effeithlon o ddarparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn prosiectau cyfalaf newydd, fel gwella adeiladau ein hysgolion er enghraifft. Yn wir, er mai adroddiad ar ddiwedd blwyddyn ariannol yw hon, mae'r gwaith o fesur llwyddiant ein gwaith, a herio ein perfformiad ein hunain, yn digwydd yn barhaus drwy gydol y flwyddyn.

Fel rhan o'n trefniadau perfformiad rydym yn cynnal cyfres o gyfarfodydd herio perfformiad sy'n gyfle i ni weld sut gynnydd mae'r adrannau yn wneud gyda'u gwaith dydd i ddydd yn ogystal a'r prosiectau Blaenoriaethau Gwella. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r cyfarfodydd herio perfformiad yma.

Mae'r rhain yn ganfyddiadau cytbwys, felly nid tynnu sylw at y pethau da yn unig mae'r adroddiad, ond rhoi darlun teg a gonest o'n perfformiad yn ystod y flwyddyn. Wrth wneud hynny, rydym yn gallu dathlu ein llwyddiannau a gweld pa agweddau o'n gwaith sydd angen sylw pellach, er mwyn ein cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib i drigolion y sir o fewn yr adnoddau sydd gennym.

Mae'r Adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ac i gyfarfod y Cyngor Llawn ar gyfer ei gymeradwyo.


Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Amcanion Llesiant sy'n cyfrannu tuag at y saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r amcanion yn seiliedig ar yr asesiad llesiant a wnaed gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Gwynedd a Môn ynghyd â sesiynau ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu'r Cynllun.

Nodir hefyd yr angen i weithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy gan:

• ystyried y tymor hir
• atal rhag digwydd
• gweithio'n integredig
• gweithio'n gydweithredol
• a chynnwys pobl o bob oed.

Mae disgwyliad arnom i adrodd ar yr hyn yr ydym wedi ei wneud i gyfrannu tuag at egwyddorion y Ddeddf a cheir gwybodaeth ynghylch nifer o'r gweithgareddau hyn yng nghorff yr adroddiad. Yn ogystal, nodir pa Amcanion Llesiant y mae prosiectau unigol yn cyfrannu tuag atynt ynghyd â gwaith dydd i ddydd yr adrannau ar ddiwedd pob pennod.

| Amcanion Llesiant Cyngor Gwynedd | Nodau Llesiant Cenedlaethol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddwn yn sicrhau bod trigolion Gwynedd yn: | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel byd-eang |
| Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel | | | ■ | | ■ | | |
| Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau | | ■ | ■ | | ■ | | ■ |
| Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd | ■ | | | ■ | ■ | | |
| Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud | ■ | ■ | | ■ | | ■ | |
| Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosibl | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg | | | | | ■ | ■ | |
| Cael manteisio ar harddwch amgylchedd naturiol y sir. | ■ | ■ | | | | | ■ |




*Mae adran Ymgynghoriaeth Gwynedd yn denu incwm ac felly roedd eu gwariant net yn £******

# Rhan 1
# Blaenoriaethau Gwella

Mae 8 o Flaenoriaethau Gwella wedi eu hadnabod o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023. Rhain yw'r prif feysydd y credwn y mae angen i ni weithredu ynddynt er mwyn gwneud gwahaniaeth bositif i fywydau pobl Gwynedd.

O dan y 8 Blaenoriaeth Gwella mae disgrifiad o'r prosiectau fydd yn cyfrannu at wireddu'r uchelgais y mae'r Blaenoriaethau Gwella yn eu disgrifio. Ar y tudalennau nesaf ceir adroddiad ar gynnydd y prosiectau hynny yn ystod 2022/23 gyferbyn â'r hyn y gwnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud yng Nghynllun Cyngor Gwynedd: Adolygiad 2022/23.

Ceir gwybodaeth bellach ynghylch yr hyn y byddwn yn ei wneud i'r dyfodol yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023 - 28 trwy ymweld â
www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunycyngor

# Blaenoriaeth Gwella 1
# Creu economi hyfyw a ffyniannus.

Sylfaen caniatáu i bobl Gwynedd ffynnu yw sicrhau fod yna swyddi addas ar gael yn y sir sy'n talu cyflogau sy'n eu galluogi i gynnal eu hunain a'u teuluoedd. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru
- Cadw'r Budd yn Lleol
- Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £31,300 neu fwy)
- Arloesi Gwynedd Wledig
- Hybu Canol Trefi
- Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar Waith
- Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu
- Twristiaeth – llunio cynllun twristiaeth cynaliadwy
- Adfywio: Llunio cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae diffyg twf yn wendid yn economi Gogledd Cymru gyfan, a'r gogledd orllewin yn arbennig. Er mwyn ceisio gwyrdroi'r sefyllfa daeth chwe sir y gogledd, a rhanddeiliaid eraill megis sefydliadau addysg y rhanbarth a'r sector breifat, ynghyd i sefydlu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Prif gynllun y Bwrdd yw 'Cais Twf Gogledd Cymru' ac yn Rhagfyr 2020 arwyddwyd cytundeb rhwng y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer gwireddu'r Cais Twf. Bydd y cais yn arwain at £945m o fuddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd dros y pymtheg mlynedd nesaf gan greu hyd at 4,000 o swyddi ledled y Gogledd.

Fel aelod o'r Bwrdd Uchelgais, ein nod fel Cyngor yw sicrhau y bydd pobl a busnesau Gwynedd yn elwa i'r eithaf o'r buddsoddiad ariannol hwn, yn enwedig mewn cyfnod pan fydd angen ymateb i sgil-effeithiau Covid-19 a Brexit.

Yn 2021/22 bu'r Swyddfa Rhaglen yn paratoi a chyflwyno'r achosion busnes sydd eu hangen gan y 2 Lywodraeth ar gyfer y 21 prosiect cais twf ar draws y rhanbarth.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau i gyfrannu at raglen waith y Bwrdd Uchelgais, gan gynnwys gwella argaeledd band eang cyflym, cefnogi rhwydweithiau ynni lleol blaengar ar draws y sir; gwarchod a chreu swyddi newydd ar safle Atomfa Trawsfynydd; cefnogi datblygu campws gwyddoniaeth newydd blaengar ym Mangor a datblygu Canolfan Arloesedd Gwledig yng Nglynllifon.

Byddwn hefyd yn cyfrannu at ddatblygiad Fframwaith Economaidd Gogledd Cymru sy'n cael ei pharatoi gan Lywodraeth Cymru i adnabod prif raglenni buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae costau datblygu cynlluniau wedi codi yn sylweddol ac mae hyn wedi effeithio ar gynnydd rhai o'r prosiectau. Mae pob rhaglen wedi gorfod cael ei adolygu ac addasu cyn symud ymlaen gyda'u cynlluniau manwl.

Mae Cynllun Canolfan Prosesu Signal Digidol ym Mangor ar ei ail flwyddyn o weithredu yn datblygu sgiliau ac ymchwil rhyngwladol blaengar ac wedi creu cyfleoedd cydweithio i gwmnïau masnachol yn y rhanbarth.

Mae Cynllun Economi Gwledig Glynllifon yn y broses o baratoi cais cynllunio ar gyfer creu canolfan newydd ar safle.

Mae Cwmni Egino wedi cael cytundeb cydweithio ffurfiol gyda'r NDA sydd berchen y safle ac mae opsiynau datblygu yn cael eu paratoi.

Gwelwyd cynnydd da yn y Cynllun Ynni Blaengar i gefnogi mentrau ynni lleol ar draws y rhanbarth. Gwelwyd cynnydd da hefyd yn Cynllun Parc Bryn Cegin gyda Chytundeb Menter ar y Cyd gyda Llywodraeth Cymru yn ei lle ar gyfer datblygu uned newydd ar safle.

| Prosiect 1a | Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru |
|---|---|
| Mae penderfyniad wedi ei wneud bellach na fydd 3 cynllun, sef datblygiad safle Bodelwyddan, datblygiad canolfan ragoriaeth Llysfasi a datblygiad Canolfan Egni Bangor yn symud ymlaen fel prosiectau Cais Twf. Golygai hyn fod £30miliwn o'r gronfa heb ei glustnodi. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cytuno ar drefniadau i adnabod prosiectau trawsnewidiol newydd fydd yn cyfrannu i'r targedau heriol sy'n rhan o'r Cais ar gyfer creu swyddi newydd yn y rhanbarth a denu buddsoddiad gan y sector breifat dros y 12 mlynedd nesaf o oes y rhaglen.<br><br>Gweler mwy o fanylion yn y linc yma i Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Uchelgais. | |
| Amcanion Llesiant:<br><br>• Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.<br>• Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.<br>• Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.<br>• Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.<br>• Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud. | |

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gaffael, neu brynu, nifer o nwyddau a gwasanaethau ac yn awyddus i geisio sicrhau fod busnesau lleol yn gallu cystadlu ac ennill y cytundebau hyn er mwyn sicrhau fod cymaint o wariant y Cyngor ag sy'n bosibl yn aros yn lleol.

Nid yw'r farchnad leol yn gallu ymateb i gyfleon bob amser oherwydd cyfyngiadau o ran maint neu rwystrau eraill sy'n bodoli. Mae hynny wedyn yn arwain at fusnesau lleol yn colli'r awydd a'r gallu i gystadlu am waith gyda'r canlyniad nad oes modd uchafu gwariant y Cyngor a gedwir yn lleol.

Rydym yn ceisio cefnogi busnesau lleol gyda'r newidiadau i'r rheoliadau caffael yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd gan fanteisio ar y cyfleoedd hefyd i gaffael yn lleol.
Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- Rhannu ein dysgu o'r prosiect 'Social Value Portal' sydd yn asesu tendrau ar sail pris, ansawdd a gwerth lleol gan argymell unrhyw newidiadau i'r ffordd mae'r Cyngor yn caffael nwyddau a gwasanaethau.
- Darparu cynlluniau i ddatblygu gallu'r farchnad i ennill cytundebau caffael y Cyngor ymateb i gwestiynau'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn tendrau cefnogaeth i ennill achrediadau angenrheidiol neu unrhyw ddatblygiadau yn y maes.
- Creu 'map' o fusnesau lleol ar gyfer cynnal darlun o'r farchnad leol. Bod hyn yn ei dro yn adnabod cyfleoedd i fusnesau ymgeisio am waith neu adnabod bylchau cyflawni.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**
Mae prosiect wedi ei gwblhau er mwyn asesu ymarferoldeb cyflwyno methodoleg asesu buddion cymdeithasol i Wynedd h.y. rhannu y dull o asesu tendrau sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd trwy fesur Pris ac Ansawdd i un sy'n mesur Pris, Ansawdd a Gwerth Lleol.

Fel rhan o'r prosiect, cwblhawyd dau gynllun peilot pellach yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio'r dull asesu tendrau ar sail buddion cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys cytundeb cynnal a chadw peiriannau aer a chytundeb fframwaith cerbydau gwasanaeth gwastraff. Er ein bod heb wobrwyo un cytundeb a diffyg cynigion gyda'r llall, rydym wedi dysgu mwy am y dull asesu.

Mae cwmni 'Social Value Portal' wedi ei gomisiynu i gwblhau Asesiad Anghenion Lleol sydd wedi amlygu anghenion cymdeithasol y Sir. Gyda hyn, rydym wedi teilwro'r mesurau cymdeithasol i ganolbwyntio ar y materion yma yn ein cytundebau. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i ddeall a dysgu defnyddio'r trefniadau i swyddogion a busnesau lleol.  Mae gwaith cydweithio wedi digwydd er mwyn rhannu ein profiadau drwy wahanol rhwydweithiau megis Rhwydwaith Buddion Cymdeithasol Gogledd Cymru a Rhwydwaith Cenedlaethol Caffael gan

gyflwyno yr hyn rydym wedi bod yn dreialu yng Ngwynedd.

O ran cynlluniau i ddatblygu gallu'r farchnad i ennill cytundebau caffael y Cyngor, ymateb i gwestiynau y Ddeddf Llesiant mewn tendrau, a chefnogaeth i ennill achrediadau iechyd a diogelwch, mae trefniadau wedi eu gwneud i gynnig cymorth tendro 1:1, gweithdai, a cyfeirio at Busnes Cymru dros y flwyddyn. Mae cefnogaeth benodol wedi bod yn y meysydd Hurio Offer Priffyrdd, Deunyddiau Chwareli, Gwasanaeth Bws a Thacsi, Gwasanaethau Gofal gan gynnwys Gofal Cartref, Meithrin a Tai a Chefnogaeth. Mae swyddog o Fusnes Cymru wedi darparu cymorth megis sut i ddefnyddio'r gwefannau priodol, yr arfer orau mewn tendro ac adolygu ceisiadau.

Mae gwaith parhaus yn digwydd i gefnogi busnesau i ymateb i ofynion mewn tendrau yn sgìl unrhyw ddatblygiadau yn y maes, fel ennill achrediadau neu ymateb i ofynion y Ddeddf Llesiant.

Cynhaliwyd gweithdy cynaladwyedd ar y cyd gyda Busnes Cymru ar gyfer darparwyr ym meysydd Trafnidiaeth ac Adeiladwaith i wella eu prosesau ynghyd â mesur eu hôl troed carbon a chymryd camau syml i leihau a mesur ei effaith amgylcheddol. Mae Gwasanaethau Trafnidiaeth ac Eiddo y Cyngor wedi cynnwys cymal o fewn cytundebau sy'n ei wneud yn ofynnol i ddarparwyr fanteisio ar y gefnogaeth gan Busnes Cymru i greu cynllun lleihau Carbon. Sefydlwyd Grŵp Lleihau Carbon Gofal Cymdeithasol o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Bydd y Grŵp yma yn edrych i adnabod camau allwn eu cymryd i annog a helpu darparwyr gofal i leihau eu heffaith amgylcheddol.

O ran asesu cyfleon i osod tendrau i gwmnïau lleol yn sgìl Brexit a'r rhyddid i weithredu tu allan i reoliadau caffael Ewrop, mae'r rheoliadau contractau cenedlaethol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Y bwriad yw cyflwyno'r rheoliadau newydd yn 2023/2024. Nid oes modd i osod tendrau i gwmnïau lleol o fewn y rheoliadau cyfredol. Serch hyn, mae'r methodoleg uchod yn gam tuag at gwobrwyo cytundebau i fusnesau sydd yn cyflawni budd lleol, pe bai hyn yn ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

## Prosiect 1c — Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £31,300 neu fwy)

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae cyflogau yng Ngwynedd ymysg yr isaf unman ym Mhrydain. Roedd tâl wythnosol yn y sir bron yr isaf yng Nghymru yn 2020 (£500 ar gyfartaledd) â thâl isel ar ei waethaf yn ein cymunedau gwledig (£418 – yr isaf ym Mhrydain). Mae cyflogau isel, yn anorfod, am arwain at lefelau uwch o dlodi a dad-boblogi gwledig, sydd yn eu tro yn cael effaith ar ein cymunedau, dyfodol ein pobl ifanc ac ar y Gymraeg fel iaith gymunedol iach.

Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel eisoes wedi cymryd camau i wella'r sefyllfa, gan sicrhau arian Ewropeaidd i wireddu cynllun i ddatblygu gofod i fusnesau leoli yng Nghanolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr, gweithredu cynllun i gynyddu'r nifer o ddisgyblion ysgol sy'n astudio'r pynciau a ddymunir gan fusnesau o fewn sectorau sy'n talu'n dda, dylanwadu ar benderfyniad i barhau'r gwaith dadgomisiynu ar safle Atomfa Trawsfynydd a gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu cwmni Egino i adfywio'r safle.

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau hyn, ac hefyd yn arwain ar gynlluniau eraill megis cefnogi datblygiad sector diwydiannau creadigol a digidol, cefnogi datblygiad sector iechyd a meddygol. Byddwn hefyd yn gweithio gyda busnesau Gwynedd i ddeall anghenion am sgiliau swyddi gwerth uwch i'r dyfodol ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn yn lleol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae'r cynllun STEM Gogledd, sydd yn paratoi ein pobl ifanc i fanteisio ar swyddi mewn meysydd gwyddonol, technolegol a pheirianneg wedi parhau drwy gydol 2022/23. Yn ystod y flwyddyn elwodd 165 o ddisgyblion ysgolion ledled Gwynedd o'r cynllun. Bydd STEM Gogledd yn dod i ben ym Mehefin 2023, wedi cefnogi dros 640 o bobl ifanc Gwynedd i fanteisio ar gyfleoedd gwaith gwerth uchel yn y sir.

Mae'r gwaith o ddiogelu a chreu swyddi newydd ar safle Trawsfynydd a Llanbedr hefyd wedi parhau, ond bu'r cais am adnoddau Cronfa Ffyniant Bro Llywodraeth Prydain i wella'r mynediad i faes awyr Llanbedr yn aflwyddiannus. Er hyn mae'r Cyngor yn parhau i gydweithio gyda pherchnogion y safle i sicrhau buddsoddiad pellach fydd yn creu swyddi newydd i drigolion lleol.

Mae'r tîm wedi datblygu a chyflwyno cais am arian gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear ac wedi denu £450,000 o fuddsoddiad i Wynedd i gefnogi busnesau lleol i adfer, i gefnogi trigolion Gwynedd i waith ac i sicrhau fod pobl a busnesau Gwynedd yn gallu elwa o fuddsoddiadau arfaethedig yn Nhrawsfynydd a Llanbedr.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae adnoddau'r tîm prosiect yma hefyd wedi'i gyfeirio at gefnogi ymdrechion i lunio cyfundrefn a chynigion ar gyfer buddsoddiad Cronfa Ffyniant Cyffredin y DG (UK Shared Prosperity Fund) ar gyfer Gwynedd a Gogledd Cymru. Bydd y gwaith yn arwain at fuddsoddiad o dros £24 miliwn yng Ngwynedd hyd at ddiwedd Mawrth 2025.

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae natur ein heconomi wledig yn golygu mai un person yn unig sy'n gweithio yn 80% o fusnesau Gwynedd, ac mae gormod o waith o fewn sectorau nad ydynt yn talu'n dda. Mae hyn yn arwain at fygythiadau o ran cynaliadwyedd ein cymunedau gwledig gyda'r heriau hyn wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 a Brexit.

Mae'r Cyngor yn ceisio cryfhau sail yr economi wledig gan annog mentrau lleol i ddatblygu, creu a chynnal swyddi ar draws Gwynedd. Mae pecyn ariannol wedi'i ganfod trwy Ewrop i weithredu Rhaglen Datblygu Gwledig yn yr ardal sydd yn cynnwys pecyn o brosiectau i hyrwyddo mentergarwch.

Mae sicrhau cysylltedd ddigidol i'n cymunedau gwledig, a bod gan y gweithlu a busnesau gwledig y sgiliau i fanteisio arnynt, yn fater sydd wedi bod yn derbyn sylw eisoes. Rydym wedi cynnal peilot i roi WiFi cyhoeddus mewn 8 tref wledig, ac i gynyddu mynediad at offer cyfrifiadurol. Rydym hefyd yn rhan o'r rhaglen ARFOR, sef buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru i greu mwy a gwell swyddi mewn ardaloedd yng ngorllewin Cymru ble mae canran uchel o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.

I'r dyfodol byddwn yn parhau i ymestyn y ddarpariaeth ddigidol mewn cymunedau ac yn gweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai a'r sector breifat er mwyn sefydlu hwb arloesi gwledig yng Nglynllifon gan roi sylw arbennig i'r sector bwyd a diod, ynghyd â gweithio i hyrwyddo arloesedd i ddatblygu'r economi sylfaenol a chefnogi ein busnesau gwledig i addasu.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Ar 10 Hydref 2022, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru y bydd £11 miliwn yn cael ei ddarparu ar gyfer ail wedd ARFOR hyd at ddiwedd Mawrth 2025. Bydd y rhaglen yn parhau i weithredu ar draws Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr, er mwyn cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.

Mae'r cynllun Platfform Digidol sy'n rhan o'r prosiect yma wedi cefnogi 65 o fusnesau dros y flwyddyn diwethaf i ddatblygu eu defnydd o dechnoleg drwy fynychu sesiynau hyfforddiant arbenigol a derbyn cefnogaeth mentoriaid digidol i ddatblygu eu busnes. Patrwm.

Mae'r prosiect hefyd wedi sicrhau fod wi-fi am ddim bellach ar gael mewn 12 o brif drefi a chyrchfannau'r sir. Yn ogystal â chynnig mynediad i'r we, mae'r cyfarpar yn cynhyrchu gwybodaeth werthfawr am y nifer sydd yn dod i ymweld â'r stryd fawr.

Bydd y Rhaglen Ewropeaidd LEADER sydd yn cyllido Arloesi Gwynedd Wledig yn dod i ben ym Mehefin 2023. Mae'r Adran yn gweithio'n agos gyda Menter Môn sydd yn gweinyddu LEADER yng Ngwynedd i ymchwilio i gyfleoedd i barhau'r gwaith drwy law ffynonellau megis Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG. Mae gwybodaeth am ystod ac effaith gwaith Arloesi Gwynedd Wledig i'w weld yma a llyfryn sy'n amlygu enghreifftiau o waith wedi ei gyhoeddi.

| Prosiect 1ch | Arloesi Gwynedd Wledig |
| --- | --- |

Bydd dros 6,600 o drigolion Gwynedd wedi cymryd rhan yn 90 o weithgareddau peilot Arloesi Gwynedd Wledig yn ystod oes y rhaglen gan sicrhau seiliau cadarn i'r dyfodol.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r prosiect hefyd wedi denu £4.6m gan Lywodraeth Cymru i gefnogi datblygu'r economi cylchol yng Ngwynedd, fydd yn dod a manteision economaidd ac amgylcheddol i'r sir. Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn cefnogaeth mewn egwyddor i'r cais, ond yn disgwyl am gadarnhad o'r arian i gefnogi pecyn o weithgareddau dros y tair blynedd nesa. Mae'n cynnwys Hwb Datgarboneiddio Adra Cyf. ym Mhenygroes a chefnogaeth bellach i'r rhwydwaith o ofod gwneud - dan y faner Ffiws - sydd wedi eu sefydlu ledled Gwynedd i gynyddu mynediad trigolion a busnesau i offer.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae canol trefi bywiog yn gallu cyfrannu'n sylweddol i lewyrch economaidd a chymdeithasol ardaloedd lleol gan gynnig ystod o wasanaethau i'n cymunedau.

Ond mae ardaloedd "stryd fawr" ein canol trefi yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd gyda nifer o siopau cadwyn cenedlaethol yn cau a masnachu yn cael ei gyfyngu yn sgil Covid-19. Mae angen hybu a chefnogi datblygiad canol trefi i sicrhau eu bod yn gallu addasu a ffynnu i'r dyfodol; i gynnal a chreu gwaith; darparu ystod eang o nwyddau a gwasanaethau sydd eu hangen ar drigolion ac ymwelwyr a darparu unedau preswyl newydd.

Yn ystod 2020 sefydlwyd grŵp traws-adrannol ar gyfer datblygu rhaglen o welliannau a mesurau tymor byr mewn ymateb i argyfwng Covid-19.

Llwyddwyd i ddenu grantiau gan Lywodraeth Cymru i weithredu rhaglen yn cynnwys gwelliannau amgylcheddol, arwyddion, tirweddu a mesurau rheoli traffig. Sefydlwyd cronfa i gynorthwyo busnesau i addasu eu trefniadau er mwyn croesawu cwsmeriaid yn ddiogel. Sefydlwyd peilot i ddatblygu is-adeiledd digidol mewn canol trefi yn cynnig wifi, cyfleoedd marchnata ac e-fasnachu, ac mae trefniadau bellach mewn lle ar gyfer ymestyn y cynllun i holl drefi yng Ngwynedd.

Byddwn yn parhau gyda'r gwaith yma gan hefyd ddatblygu pecyn o ymyraethau i wella a hybu canol trefi a hynny ar sail yr hyn sydd yn bwysig i drigolion o fewn y cymunedau. Byddwn yn cydweithio a chefnogi ystod eang o grwpiau busnes a sefydliadau adfywio lleol er mwyn hybu a denu buddsoddiad i ganol trefi. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â busnesau ym Mangor a Caernarfon lle mae Ardaloedd Gwella Busnes (BIDS) wedi eu sefydlu.

I'r dyfodol, byddwn yn parhau gydag ymdrechion i adfywio canol trefi, gan roi sylw arbennig i dargedu eiddo gwag. Rhagwelir y bydd cyfle i ddatblygu cyfres o gynlluniau i wella canol trefi ledled y Sir fel rhan o'r Fframwaith Adfywio a byddwn yn denu grantiau, megis Rhaglen Adfywio Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu prosiectau.

Pa gynnydd wnaed yn 2022/23 ?

Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf fe sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer targedu cronfeydd rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu a gweithredu amrediad o brosiectau adfywio canol trefi. Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, llwyddwyd i hawlio grantiau gwerth £2m ar gyfer prosiectau yng Ngwynedd gyda gwaith gweithredu a monitro yn parhau.

Llwyddwyd hefyd i sicrhau cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau trefol ar gyfer Bangor, Caernarfon, a'r Bala; a cheisiadau hefyd wedi eu cyflwyno ar gyfer Pwllheli a Porthmadog. Bydd ceisiadau pellach yn cael eu cyflwyno ar sail blaenoriaethau'r Cynlluniau Adfywio Lleol.

Yn Chwarter cyntaf y flwyddyn rhoddwyd blaenoriaeth i baratoi ceisiadau ariannol ar gyfer Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth DU. Cafodd cais 'Llewyrch o'r Llechi ei gymeradwyo gan sicrhau £18.8m o fuddsoddiad cyfalaf i gymunedau llechi Gwynedd.

Mae'r gwaith o ddatblygu Cynllun Adfywio Canol Dinas Bangor hefyd yn parhau. Cyflwynwyd cais am adnoddau Cronfa ffyniant Bro Llywodraeth DU, ac er nad oedd yn llwyddiannus, mae gwaith datblygol ar brosiectau megis Canolfan Iechyd a Lles Bangor yn parhau. Penodwyd Rheolwr Rhaglen Adfywio Bangor mis Tachwedd 2022. Bydd y rôl yn cydlynu a chefnogi ymdrechion adfywio ym Mangor gan ganolbwyntio ar gynlluniau yng nghanol y ddinas a'r stryd fawr yn benodol.

Yn ystod y cyfnod dathlwyd agoriad swyddogol datblygiad Cei Llechi, Caernarfon gan Galeri Cyf ac Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon. Roedd cynllun Cei Llechi yn fuddsoddiad dros £5m i adfer safle allweddol, ac yn rhan o becyn ariannol gwerth £12m bu i'r Cyngor sicrhau fel rhan o Fenter Adfywio Tref a Glannau Caernarfon.

Sefydlwyd Grŵp Eiddo Gwag Traws-Adrannol sy'n dwyn ynghyd gwahanol wasanaethau sydd yn delio gyda eiddo gwag. Mae Cynllun Gweithredu wedi ei baratoi, ynghyd â rhestr blaenoriaeth eiddo gwag.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Yn ystod Gorffennaf 2021 cyhoeddodd Pwyllgor Treftadaeth Byd Unesco bod Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi ei arysgrifio fel Safle Treftadaeth Byd. Mae'r dynodiad yn rhoi cyfle i ni gydnabod cyfraniad ein diwydiant llechi ar blatfform rhyngwladol, ac i ddathlu a gwarchod y diwylliant Cymraeg sydd ynghlwm â'r ardaloedd hynny.

Rydym eisoes wedi defnyddio enwebiad Safle Treftadaeth y Byd fel arf i adfywio ein cymunedau llechi ac i gynyddu gwerth y diwydiant ymwelwyr trwy ddatblygu 6 Cynllun Cynefin ar gyfer 6 ardal. Mae'r Cynlluniau Cynefin yn adnabod blaenoriaethau adfywio lleol a chyfleon i fanteisio ar y dynodiad er budd cymunedau a'r tirlun hanesyddol. Trwy'r gwaith hwn, gwelwyd nifer o baneli dehongli'n cael eu gosod ar draws Gwynedd, gweithiau celf a murluniau yn ogystal â chynlluniau eraill i godi hyder cymunedau yn eu hardal fel prosiectau addysg a chynllun Llysgenhadon ifanc a busnes. Mae £1m o adnoddau ychwanegol wedi eu denu i'r sir trwy'r Gronfa Dreftadaeth, Llywodraeth Cymru, Yr Undeb Ewropeaidd a Pharc Cenedlaethol Eryri trwy brosiect LleCHI.

I'r dyfodol byddwn yn cyflwyno cais ar gyfer ariannu prosiect dilynol i LleCHI er mwyn cydweithio gyda'r cymunedau llechi i greu rhaglen o weithgareddau adfywio yn yr ardaloedd hyn fydd yn gwella gwedd a golwg cymunedau, gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr, ac yn arwain at gynnydd ym mherchnogaeth trigolion o'u treftadaeth, iaith a diwylliant.

Byddwn yn adolygu strwythurau a threfniadau rheoli'r safle er mwyn gweithredu'r Cynllun Rheoli ac er mwyn parhau i ymgysylltu a chydweithio efo cymunedau, tirfeddianwyr, busnesau, a phartneriaid i sicrhau ein bod yn manteisio ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y dynodiad er budd pobl Gwynedd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Cyflwynwyd ceisiadau llwyddiannus i'r Gronfa Dreftadaeth, Cronfa Eryri, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth y DU sydd wedi arwain at ddenu dros £27m o adnoddau ychwanegol i gefnogi adfywio trwy dreftadaeth yn y dyffrynnoedd llechi.

Cais dilynol LleCHI wedi ei gymeradwyo gan y Gronfa Loteri Treftadaeth gwerth £129,000 i ddatblygu prosiect ymgysylltu, dehongli ac adfywio gwerth dros £1m dros 5 mlynedd os bydd yn llwyddiannus. Swyddog prosiect wedi ei phenodi i wneud y gwaith datblygol.

Strwythurau llywodraethu newydd wedi eu sefydlu i sicrhau cefnogaeth partneriaid strategol, tirfeddianwyr a chymunedau gan gynnwys y cyfle i ddatblygwyr posib gyflwyno syniadau er ystyriaeth partneriaeth y dynodiad.

Canllaw Cynllunio Atodol Tirlun Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Cyhoeddwyd dogfen 'Gofalu am ein Tirwedd Llechi' yn y flwyddyn ddiwethaf.

Datblygwyd strategaeth a chynlluniau i dargedu adnoddau i gefnogi gwerth dynodiad Safle Treftadaeth Byd yn y dyfodol a pharhau gyda rhaglen LleCHI i gefnogi'r cymunedau fanteisio ar y statws.

Sefydlwyd trefniadau cydweithio i weithredu'r Cais Ffyniant Bro gyda partneriaid yn Nyffryn Ogwen, Dinorwig a Blaenau Ffestiniog.

Yr ardal wedi derbyn gwahoddiadau i gyflwyno mewn nifer o gyfarfodydd ar arfer da mewn datblygu enwebiad gyda chymunedau lleol a sicrhau llais i gymunedau lleol.

Llwyddwyd i dderbyn arian gan Cadw i weithredu cam cyntaf o ddehongli ar draws y Safle Treftadaeth Byd yn ogystal â chyllid i gyflogi Cydlynydd Safleoedd Treftadaeth Byd Gogledd Orllewin Cymru.

Cydweithiwyd gyda Phrifysgol Bangor ar brosiect ymchwil i astudio effaith y dynodiad ar gymunedau.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

O ganlyniad i Covid-19 a Brexit mae'n gyfnod o ansicrwydd a newid i fusnesau. Mae Cyngor Gwynedd yn benderfynol o helpu mentrau lleol i addasu ac ymateb i'r her ac rydym eisoes wedi cefnogi busnesau lleol trwy ddarparu cymorth ariannol, cyngor a gwybodaeth.

Mae busnesau'r sir yn ymwneud â nifer o adrannau'r Cyngor neu'n derbyn gwasanaeth ganddynt, gan gynnwys trethi, cynllunio, safonau masnach, rheolaeth adeiladu a chaffael. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu adnoddau ac ymdrech i gefnogi ein busnesau lleol gan sicrhau fod pob rhan o'r Cyngor yn ystyried sut gallent gynnig cymorth i gefnogi busnesau i ffynnu.

Rydym hefyd yn annog busnesau Gwynedd i wneud y gorau o'r cymorth sydd ar gael gan gyfathrebu'n rheolaidd gyda'r 4,400 o fusnesau sydd yn derbyn ein bwletinau gwybodaeth.

Rydym yn cefnogi a chydweithio gyda Swyddfa Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar becyn o brosiectau Cais Twf er mwyn creu cyfleoedd i fusnesau o fewn economi Gwynedd i'r dyfodol. Rydym hefyd yn gweithredu ymgyrch i annog trigolion Gwynedd ac ymwelwyr i gefnogi busnesau lleol.

Yn ogystal â pharhau gyda'r uchod, yn ystod 2022/23 byddwn yn gwerthuso gweithgaredd y cynllun ac yn adolygu ein blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r economi yn sgil pandemig Covid-19 a gadael yr Undeb Ewropeaidd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Gan fod busnesau'r sir yn parhau i fod dan straen, mae'r prosiect wedi canolbwyntio ar sicrhau fod ein busnesau gyda'r wybodaeth sydd ei angen i ymateb ac yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael gan y Cyngor a sefydliadau eraill, gan roi sylw arbennig i gymorth i leihau gorbenion. Mae bwletinau busnes wythnosol y Cyngor yn parhau i fod yn allweddol i'n hymdrechion ac mae dros 4,200 o fusnesau lleol yn eu derbyn yn rheolaidd. Yn gyfochrog, mae'r tîm wedi gweithio i wella ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth gyda'n busnesau lleol ynghyd ac ehangu'r dulliau sydd ar gael i ddod i gyswllt, gan gynnwys defnydd WhatsApp a gwefan y Cyngor.

Mae'r prosiect hefyd wedi rhoi sylw i wella ymdrechion y Cyngor i gynnal deialog gyda'r gymuned fusnes a deall eu hanghenion yn well. I gyflawni hyn, mae'r tîm wedi cyflwyno rhaglen o ymweliadau, gweithdai ac ymchwil gyda busnesau lleol dros y flwyddyn.

Mae'r tîm wedi cyflwyno achos i sefydlu cronfa ariannol i gefnogi busnes ac yn paratoi i'w lansio yn 2023/24.

Mae'r Cyngor wedi penderfynu datblygu 10 o unedau gwaith newydd ym Mhenrhyndeudraeth; y buddsoddiad gyntaf o'i fath gan y Cyngor ers cychwyn y ganrif. Bydd yr unedau newydd yn cynnwys paneli solar a system gwresogi fydd yn lleihau costau gweithredu'r tenantiaid.

| Prosiect 1e | Busnesau'n Cael Cymorth i Ffynnu |
|---|---|
| Dros y flwyddyn ddiwethaf mae adnoddau'r tîm prosiect wedi cael eu dargyfeirio i arwain ar sefydlu trefniadau rheoli Cronfa Ffyniant Gyffredin yng Ngwynedd a hefyd ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Mae ymdrech sylweddol wedi ei wneud yn 2022/23 i sefydlu'r trefniadau priodol fyddai'n galluogi i fusnesau a mentrau Gwynedd fanteisio ar y cyllid.<br><br>Mae sefydlu tîm newydd wedi cael peth effaith ar gynnydd deilliannau o'r prosiect hwn dros y flwyddyn ddiwethaf, ond rhagwelir bydd y tîm newydd a'r pecynnau cymorth newydd ddaw yn sgil y buddsoddiad yn dod a mwy o fudd i'r ardal dros y ddwy flynedd nesaf. | |
| Amcanion Llesiant:<br><br>• Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd. | |

| Prosiect 1f | Twristiaeth – llunio cynllun twristiaeth cynaliadwy |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**
Mae gennym bryder nad yw pobl Gwynedd yn elwa cymaint ag y dylent o dwristiaeth, gyda'r argyfwng Covid-19 wedi tanlinellu sut y gall effeithiau negyddol y diwydiant weithiau orbwyso'r manteision.

Mae yna waith wedi ei wneud er mwyn deall y newid mewn tueddiadau twristiaeth dros y blynyddoedd ac adnabod y buddion a'r risgiau i Wynedd, yn cynnwys effaith ar gymunedau, iaith a diwylliant yr ardal ac ail-gartrefi.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae gwaith wedi ei wneud er mwyn llunio egwyddorion twristiaeth gynaliadwy ar gyfer Gwynedd ac Eryri fydd yn sail i gynllun rheoli i'r dyfodol. Mae cytundeb o ddealltwriaeth hefyd wedi ei arwyddo rhwng y Cyngor ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i weithredu ar y cyd yn y maes hwn.

Byddwn yn cwblhau'r gwaith o sefydlu gweledigaeth ac egwyddorion ar gyfer twristiaeth i'r dyfodol ac yn datblygu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 a Chynllun Gweithredu mewn cydweithrediad efo cymunedau a'r sector er mwyn sicrhau'r budd gorau i bobl Gwynedd ac Eryri o ymwelwyr.

Bydd y Cynllun a'r Cynllun Gweithredu'n gosod cyfeiriad i bolisïau a gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor i'r dyfodol, ond byddant hefyd yn cydnabod yr angen tymor byr i ymateb i effaith Covid-19.
Fel rhan o'r gwaith trawsadrannol a thraws-awdurdod, ac yn dilyn ymgynghoriadau trylwyr gyda chymunedau, busnesau a pherchnogion cartrefi modur; bydd yr Adran Amgylchedd yn arwain ar brosiect i wella rheolaeth ar gartrefi modur. Bydd hyn yn cynnwys rheoleiddio a gorfodi lle'n bosib yn ogystal a ddatblygu cynllun peilot 'aire' ar gyfer hyd at 5 safle ar draws Gwynedd yn ystod 2022 /23. Bydd y gwaith yma'n ran o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Twristiaeth Cynaliadwy.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Memorandwm o Ddealltwriaeth wedi ei gytuno efo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd i gyd-weithio yn y maes i'r dyfodol.

Strwythur wedi ei sefydlu a'i weithredu gyda Bwrdd Partneriaeth, Is-Grwpiau a Grwpiau Tasg a Gorffen ar y cyd gyda'r Cyngor a'r Parc.

Nifer o drafodaethau a gweithdai wedi eu cynnal i gadarnhau'r egwyddorion, cynnwys y cynllun a'r strwythur gweithredu gan gynnwys gyda chynrychiolwyr o fusnesau, cymunedau a phartneriaid strategol.

Cynllun Strategol, mesuryddion a chynllun gweithredu strategol wedi eu datblygu a'u cymeradwyo gan Gabinet Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn Chwefror 2023. Bydd y Cynllun yn gosod cyfeiriad i bolisïau a gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor a'r Parc i'r dyfodol a bydd angen plethu'r gwaith yn draws-adrannol e.e. i'r Adolygiad o'r Cynllun Datblygu ar y cyd a'r Fframwaith Adfywio.

| Prosiect 1f | Twristiaeth – llunio cynllun twristiaeth cynaliadwy |
| --- | --- |

Trafodaethau yn parhau gyda swyddogion Cyngor Conwy o ran ei mewnbwn i'r gwaith.

Elfennau o'r Cynllun Strategol eisoes ar waith trwy brosiectau penodol e.e. Aros-fan, Timau Tacluso Ardal Ni, Cynllun Llysgennad Gwynedd ac Eryri ayb.

Mae trafodaethau gyda tîm ymchwil Croeso Cymru wedi eu cynnal i gynnal peilot yng Ngwynedd i ganfod barn trigolion y sir am y sector ymweld. Rhagwelir caiff yr arolwg i'w gynnal yn ystod Mehefin 2023.

Mae'r prosiect wedi arwain at gydweithio agos gyda Prifysgol Bangor ar waith ymchwil i effaith economi ymweld ar ein cymunedau.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

| Prosiect 1ff | Adfywio: Llunio cynlluniau adfywio ar gyfer ein hardaloedd |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae risg fod pob gwasanaeth yn gweithredu eu rhaglenni eu hunain yn unol a'u canllawiau grant, ond efallai ddim yn ymateb i wir anghenion a chyfleoedd adfywio Gwynedd.

Rydym wedi sefydlu Bwrdd Adfywio gyda'r bwriad o ddatblygu Rhaglen Adfywio ar gyfer cymunedau'r sir. Bydd y Rhaglen yn ymgorffori gweithgareddau traws-adrannol ynghyd â blaenoriaethau Cynllun y Cyngor.

Byddwn yn sefydlu Fframwaith Adfywio newydd ac yn datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer 13 o ddalgylchoedd ar draws y Sir.

Byddwn yn ymgynghori gyda rhanddeiliaid er mwyn deall sut mae cymunedau yn dymuno gweld eu hardaloedd yn datblygu yn y 10-15 mlynedd nesaf, ac yn adnabod blaenoriaethau lleol. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi sylw arbennig i anghenion canol trefi a dyfodol y 'stryd fawr' ar draws Gwynedd i'r dyfodol.

Byddwn yn sicrhau fod gweithgareddau ar draws adrannau'r Cyngor yn cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad y cynlluniau hyn, ynghyd â chyfranogiad sefydliadau a grwpiau lleol, a phartneriaid allweddol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Trefnwyd rhaglen ymgysylltu 'Ardal Ni 2035' rhwng ganol Chwefror a mis Mehefin 2022 gan holi barn trigolion Gwynedd am eu cymuned, a prif faterion neu flaenoriaethau lleol ynghyd a chyfres o weithdai a sesiynau holi barn. Derbyniwyd dros 3,600+ o holiaduron, a lluniwyd adroddiad ar y canlyniadau ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol ar draws y Sir.

Cynhaliwyd cyfres o weithdai lleol ym mhob ardal yn ystod mis Hydref / Tachwedd er mwyn adrodd ar ganlyniadau gwaith ymgysylltu, ac adnabod prosiectau a gweithgareddau lleol.

Mae Dogfen Weithiol wedi ei baratoi ar gyfer pob ardal unigol sydd yn cofnodi ystod o brosiectau lleol gan wahanol sefydliadau. Bwriedir defnyddio'r dogfennau hyn fel sail ar gyfer paratoi Cynllun Adfywio Lleol ar gyfer ardaloedd unigol yn ystod 2023/24.

**Amcanion Llesiant:**

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# Blaenoriaeth Gwella 2

# Pob disgybl yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial.

Os am fanteisio ar unrhyw gyfleoedd fydd yn codi, mae'n allweddol fod gan Wynedd gyfundrefn addysg gynaliadwy o ansawdd, sy'n rhoi'r sgiliau i'n trigolion fanteisio ar y cyfleoedd hynny. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Darpariaeth Addysg Ôl-16 yn Arfon
- Dalgylch Bangor
- Dalgylch Cricieth
- Cydweithio Meirionnydd
- Cinio am ddim i ddisgyblion cynradd
- Trawsnewid y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
- Gagendor Lles a Chyrhaeddiad Plant a Phobl Ifanc
- Strategaeth Dysgu Digidol

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae amrywiaeth yn ansawdd yr addysg a phrofiadau dysgwyr ar draws y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon yn effeithio ar ddeilliannau a llwybrau dysgu.

Mae'r Cabinet eisoes wedi rhoi caniatâd i gychwyn ymgysylltu gyda rhanddeiliaid i drafod y weledigaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn Arfon. Cynhaliwyd yr ymgysylltu anffurfiol yn ystod Tymor yr Hydref 2020.

Rydym yn parhau i gynnal trafodaethau anffurfiol er mwyn trafod a gwyntyllu opsiynau posib gyda'r proffesiwn gan ddefnyddio'r trafodaethau rhain i benderfynu ar y ffordd orau i barhau i gadw momentwm gyda'r prosiect pwysig hwn.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Yn ystod 2022-23, bu i ni ail-ymweld â'r achos dros newid, diweddaru data a gwybodaeth a oedd yn sylfaen i'r prosiect hwn, gan gynnwys unrhyw ystyriaethau newydd perthnasol yn sgil y pandemig.

Cyflwynwyd adroddiad gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd ar 7 Mawrth 2023 yn gofyn caniatâd i wneud gwaith pellach gyda rhanddeiliaid sy'n ffurfio Consortiwm Addysg Ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn datblygu modelau posib ar gyfer y gyfundrefn addysg ôl-16 yn Arfon. Cytunwyd adrodd yn ôl ar hyn yn ystod tymor yr Hydref, 2023.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Er gwaethaf y pandemig bu i adeilad newydd Ysgol y Garnedd agor ei drysau yn Hydref 2020 gan ddod yn gartref addysgol newydd i hyd at 420 o ddysgwyr oed cynradd yn ninas Bangor. Mae safle'r ysgol hefyd yn cynnig addysg feithrin a darpariaeth gofal plant cynhwysfawr mewn awyrgylch pwrpasol gyda'r adnoddau gorau posibl. Mae gofod wedi ei gynllunio'n ofalus yn ogystal ar gyfer unedau arbenigol ar y safle i gefnogi ymhellach ddatblygiad plant. Bu i'r prosiect hwn gadw o fewn y gyllideb a neilltuwyd ar ei gyfer.

Bu i'r prosiect gael ei enwebu ar gyfer tair gwobr Rhagoriaeth Mewn Adeiladwaith yng Nghymru 2021 a daeth i'r brig mewn dau sef: Gwobr Adeiladwaith Digidol (Digital Construction Award) a Gwobr Cleient y flwyddyn (Client of the Year Award).

Byddwn yn trefnu agoriad swyddogol ar y cyd â'r ysgol pan fydd yn saff i wneud hynny. Fel rhan o'r trefniadau yn nalgylch Bangor bu i Ysgol y Faenol hefyd gael estyniad sylweddol. Er bod llithriad yn yr amserlen wedi bod o ganlyniad i'r pandemig, llwyddwyd i gwblhau yn fuan yn 2022. Mae'r ysgol yn gallu derbyn 315 o ddysgwyr yn sgil yr estyniad, sydd yn gynnydd o 129 o ddysgwyr. Mae'r adeilad wedi ei gynllunio i fod yn hwb i'r ardal leol hefyd gyda chanolfan gymunedol newydd a gofod ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cael eu codi fel rhan o'r datblygiad.

Yn sgil y buddsoddiad sylweddol diweddar yn Ysgol y Garnedd ac Ysgol y Faenol, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i fuddsoddi ymhellach a gwella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Hirael hefyd. Bydd hyn yn gyfrwng i wella profiad y dysgwr a galluogi'r ysgol i ddarparu addysg a'r cwricwlwm yn yr 21ain ganrif.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cydnabod nad oes gan Ysgol Tryfan yr adnoddau y byddem yn dymuno iddynt eu cael a bod hynny'n effeithio ar brofiad y dysgwr. At hyn, bydd y Cyngor yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i wella'r adnoddau uwchradd yn ninas Bangor er mwyn sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf ynghyd ac adeiladau ac adnoddau i allu darparu addysg a'r cwricwlwm yn yr 21ain ganrif.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Ysgol Y Garnedd:
Bu gwaith yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn i drefnu agoriad swyddogol ar gyfer yr ysgol, gan nad oedd hynny'n bosib yn flaenorol yn sgil heriau pandemig Covid-19. Bellach mae dyddiad ar gyfer yr agoriad wedi ei gadarnhau ar gyfer 18 Mai 2023 a bydd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles AC yn agor yr ysgol yn swyddogol.

Ysgol Y Faenol:
Bu i adeilad Ysgol Y Faenol gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn, ac mae capasiti'r ysgol bellach wedi cynyddu i allu derbyn hyd at 315 o ddysgwyr. Er hynny, mae materion cyfreithiol ynglŷn â throsglwyddiadau tir a phrydles yn parhau rhwng y Cyngor, yr Eglwys yng Nghymru a'r Cyngor Cymuned, felly does dim modd symud ymlaen i ddymchwel y Ganolfan Gymunedol a chreu maes parcio pwrpasol ar gyfer yr ysgol hyd nes y bydd y materion hyn wedi eu datrys.

<table>
<tr><th>Prosiect 2b</th><th>Dalgylch Bangor</th></tr>
<tr><td colspan="2">Ysgol Hirael:<br>Er mwyn gwella'r adnoddau a'r amgylchedd dysgu yn Ysgol Hirael, ar 14 Chwefror 2023, bu i'r Cabinet ganiatáu neilltuo £3m o gyfanswm o gyllideb Gwedd 2 Bangor, Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Band B) er mwyn buddsoddi yn Ysgol Hirael. Hyn yn ogystal ag ymrwymiad i gadarnhau cyfraniad o £1m o Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor ar gyfer 35% o arian cyfatebol ar gyfer gwireddu'r prosiect yn Ysgol Hirael.<br><br>Yn dilyn y Cabinet, cafwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r gyllideb o Gwedd 2 Bangor i Ysgol Hirael yn ogystal. Er hynny, mae'r gyllideb ar gyfer Ysgol Hirael yn ddarostyngedig i gyflwyno achos fusnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru a bydd y gwaith o lunio'r achos fusnes yn parhau yn 2023-24.<br><br>Ysgol Tryfan:<br>Cynhaliwyd trafodaethau anffurfiol ynglŷn â'r opsiynau posib sydd ar gael i gryfhau a gwella'r adnoddau uwchradd yn ardal Bangor.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Amcanion Llesiant:<br><br>• Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.<br>• Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.<br>• Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.</td></tr>
</table>



| Prosiect 2c | Dalgylch Cricieth |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae cyflwr adeilad ac amgylchedd dysgu presennol Ysgol Treferthyr yng Nghricieth yn wael, sy'n effeithio ar brofiad y dysgwr. Byddwn felly'n adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth er mwyn gwella'r amgylchedd dysgu a sicrhau'r adnoddau gorau i'r dysgwyr ffynnu.

Yn 2021/22, cyhoeddwyd rhybudd statudol a bu i'r Cabinet gadarnhau'n derfynol y penderfyniad i adleoli'r ysgol. Rydym wedi ymgysylltu ar gynlluniau, ynghyd â chadarnhau cyllideb tuag at sicrhau Uned Blynyddoedd Cynnar ar y safle. Rydym hefyd wedi apwyntio contractwr ac mae archwiliad geoffisegol o'r safle wedi ei gyflawni hefyd.

Yn 2022/23, yn sgil prynu'r tir a derbyn caniatâd cynllunio, bwriedir cychwyn ar y gwaith o adeiladu'r ysgol newydd, gan anelu i agor yr ysgol ar y safle newydd ym Medi 2023.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer datblygu'r ysgol newydd yng Nghricieth, a chyn gallu derbyn caniatâd cynllunio roedd gofyn cynnal archwiliadau archeolegol o'r safle ynghyd â gwneud gwaith pellach ar lwybrau saff i'r ysgol. Cynhaliwyd arolwg llwybrau saff i'r ysgol a chyflwynwyd yr adroddiad i'r Uned Gynllunio. Cynhaliwyd gwaith archeolegol ar y safle a darganfuwyd bedd cist, a chynhaliwyd gwaith archeolegol pellach yn dilyn hynny gan arwain at oedi yn yr amserlen ar gyfer datblygu'r ysgol newydd. Yn sgil hyn, derbyniwyd cymeradwyaeth i'r cais cynllunio.

Yn sgil cynnydd sylweddol mewn costau deunyddiau adeiladu ac effaith Brexit a Covid-19 daeth i'r amlwg fod costau adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth wedi cynyddu'n sylweddol, ac ym mis Rhagfyr 2022, bu i'r Cabinet gymeradwyo cynyddu'r gyllideb ar gyfer y prosiect i £8.1m, ac yn dilyn hynny derbyniwyd cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gyllideb ar gyfer y prosiect hefyd.

Bu i'r contractwyr gychwyn ar y safle ar 20 Chwefror 2023 ac maent yn gwneud cynnydd da. Cynhaliwyd seremoni torri'r dywarchen ar safle'r ysgol newydd ar 6 Mawrth 2023.

Yn sgil yr oedi fu yn yr amserlen, bu i Gorff Llywodraethol Ysgol Treferthyr gytuno i newid dyddiad agor yr ysgol newydd i 1 Medi 2024.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae risg fod materion yn ymwneud â'r drefn bresennol yn effeithio ar brofiadau dysgwyr ym Meirionnydd, e.e. mae ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Os na fydd datrysiad i'r sefyllfa, bydd yr effaith ar wydnwch y gyfundrefn addysg a'r amodau arweinyddiaeth yn yr ardal yn parhau.

Mae heriau amlwg cyfnod Covid-19 a phrysurdeb ysgolion uwchradd o ganlyniad i hynny wedi effeithio ar gynnydd y flaenoriaeth yma.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi casglu barn Penaethiaid a chynrychiolaeth o Lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu wynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn ardal Meirionnydd. Yn ystod y gwaith hwn bu i ni roi sylw penodol i adnabod yr heriau sy'n wynebu'r ysgolion o safbwynt recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr.

Erbyn diwedd 2021/22 byddwn wedi casglu barn disgyblion a rhieni ar ansawdd y profiadau y mae'r plant yn ei gael yn yr ysgolion, ynghyd â barn staff am y profiad o weithio o fewn yr ysgolion yma. Er mwyn sicrhau cymhariaeth deg yr ydym am ofyn yr un cwestiynau i staff, rhieni a phlant ysgolion Dwyfor ac Arfon hefyd.

Bydd cyfeiriad a chamau gweithredu'r flaenoriaeth hon ar gyfer 2022-23 yn cael ei seilio ar farn yr holl ran-ddeiliaid allweddol. Os cyfyd sefyllfa ble nad oes pryderon sylweddol wedi cael eu hamlygu, byddwn yn ystyried priodoldeb y flaenoriaeth hon fel rhan o Gynllun y Cyngor i'r dyfodol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Pan gychwynnwyd y prosiect yn ôl yn 2019 roedd pryder y gallai fod materion yn ymwneud â'r drefn bresennol yn effeithio ar brofiadau dysgwyr ym Meirionnydd e.e. mae ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ei chael hi'n anodd recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr – ac mae hynny'n arbennig mewn rhai meysydd. Bwriad y prosiect oedd edrych ar yr heriau y mae'r ardal yma yn eu hwynebu (os o gwbl) gan fodelu opsiynau posib ar gyfer diwallu'r anghenion yma i'r dyfodol.

Bu'r cynnydd ar y prosiect yma'n araf a bu iddo gael ei effeithio gan heriau amlwg y pandemig a phrysurdeb ysgolion uwchradd. Bu nifer o newidiadau yn arweinyddiaeth ysgolion uwchradd Meirionnydd yn ogystal ddaru effeithio ar gynnydd y prosiect. Serch hynny, llwyddwyd i gasglu barn penaethiaid a chynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd ar yr heriau posib sydd yn eu hwynebu o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal, megis recriwtio athrawon, rheolwyr canol ac arweinwyr. Bu i ni hefyd gylchredeg a dadansoddi holiadur er mwyn ceisio canfod barn dysgwyr, staff, rhieni a phenaethiaid.

Yn sgil casglu barn, ni fu i'r penaethiaid amlygu pryderon amlwg o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal. Yn ogystal, ni fu i gynrychiolaeth o lywodraethwyr pob ysgol uwchradd amlygu pryderon amlwg o ran darparu addysg uwchradd o ansawdd yn yr ardal.

| Prosiect 2ch | Cydweithio Meirionnydd |
|---|---|

Ni fu i'r dadansoddiad o'r holiadur gwasanaethau addysg amlygu unrhyw agweddau a fyddai'n teilyngu gwaith ymchwil pellach ychwaith. Roedd hyn yn bennaf gan i'r ymateb o'r sector uwchradd fod yn llai na'r disgwyl ac yn enwedig felly o ardal Meirionnydd.

Yn sgil y ffaith nad fu i bryderon sylweddol gael eu hamlygu, ni fydd Meirionnydd yn parhau fel blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor o Ebrill 2023 ymlaen, er y bydd yr Adran Addysg yn parhau i weithio gyda'r ysgolion uwchradd ym Meirionnydd er sicrhau gwytnwch y gyfundrefn i'r dyfodol.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



| Prosiect 2d | Cinio am ddim i ddisgyblion cynradd |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Cyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021 bwriad gan y Llywodraeth i ddarparu cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd. Er bod y cynllun yn cael ei groesawu mae cryn waith angen ei wneud o ran ymarferoldeb y cynllun.

Nid oes manylder wedi cyrraedd eto o ran amserlen gwireddu'r cynllun ond mae'r cytundeb rhwng y blaid Lafur a Phlaid Cymru mewn lle am gyfnod o 3 blynedd ac felly gellir cymryd y bydd angen rhoi blaenoriaeth i'r prosiect dros y 3 blynedd nesaf.
Ar gyfartaledd mae tua 50% o ddisgyblion cynradd yn dewis cinio ysgol efo'r 50% arall yn dod a phecyn bwyd o adref i'r ysgol. Byddai'r cynllun yma o bosibl yn dyblu'r nifer o ddisgyblion cynradd a fyddai yn dewis cinio ysgol.

Yn ystod 2022/23 fe fyddwn yn rhoi ystyriaeth i'r hyn y bydd darparu cinio am ddim i ddisgyblion ysgolion cynradd yn ei olygu i'r Cyngor a'r hyn y bydd angen ei wneud er mwyn gwireddu'r ymrwymiad gan gynnal gwaith sgôpio.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Cynhaliwyd adolygiad o ofod ceginau pob ysgol gynradd yng Ngwynedd gan adnabod pa geginau oedd angen uwchraddio eu hoffer mawr megis poptai a pheiriannau golchi llestri yn ogystal ag offer ysgafn. Ers Gorffennaf 2022, mae 38 popty combi wedi eu gosod ac 20 peiriant golchi dillad.

Ers Gorffennaf 2022, bu i'r ysgolion canlynol dderbyn estyniad i'r gegin/gofod bwyta:

- Ysgol Yr Hendre
- Ysgol Bethel
- Ysgol Bro Lleu
- Ysgol Maenofferen
- Ysgol Llanrug

At hyn, bu i Scottish Power uwchraddio ffiwsiau ar rai safleoedd ble nad oedd y cyflenwad trydan yn ddigonol, ond mae'r gwaith hwn yn parhau, gyda'r amserlen i raddau helaeth yn nwylo Scottish Power.

Ers 1 Medi 2022, mae holl ddysgwyr blwyddyn Derbyn a blwyddyn 1 ysgolion Gwynedd yn cael cinio ysgol am ddim os ydynt yn dymuno.

Ers 1 Ionawr 2023, mae holl ddysgwyr blwyddyn 2 ysgolion Gwynedd yn cael cinio ysgol am ddim os ydynt yn dymuno. Bydd y cynnig yma ar gael i flynyddoedd 3 a 4 ym mis Mehefin ac i flwyddyn 5 a 6 ym mis Medi 2023.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae yna risg y byddwn yn methu a darparu yn addas ar gyfer pob disgybl gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) oherwydd na chafwyd adnoddau gan y Llywodraeth i gwrdd â'r cynnydd mewn angen am ddarpariaeth statudol (Deddf ADY a Tribiwnlys (Cymru) 2018.

Mae'n bosibl hefyd na fydd plant a phobl ifanc yn cael y mynediad cywir at staff arbenigol (e.e. Seicolegwyr Addysg dwyieithog, Athrawon Synhwyraidd) a rolau allweddol o ran swyddi statudol o fewn y cod (Swyddog Arweiniol y Blynyddoedd Cynnar, Cydlynydd ADY) oherwydd cyfuniad o anawsterau recriwtio, cyllido, a chynnydd mewn llwyth gwaith.

Yn ystod 2021/22 rydym wedi:
• datblygu'r prosesau cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd drwy gyd-weithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA) o fewn y Bwrdd Iechyd
• cynnal nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid
• gweithredu systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod anghenion yn fuan yn y blynyddoedd cynnar, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector Ôl-16 yn parhau
• hefyd y gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ac asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu
• mae gwaith arloesol yn parhau i gymryd lle o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar)
• mae'r gwaith o edrych ar ddulliau cyllido darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif yn parhau i gymryd camau pendant tuag at Medi 2022, ynghyd â chydweithio yn genedlaethol ar sicrhau hyfforddi a recriwtio staff arbenigol dwy-ieithog (e.e. Seicolegwyr).

Mae elfennau o'r Ddeddfwriaeth yn fyw ers Medi 2021, ond gyda chyfnod o dair blynedd o drawsnewid hyd at Medi 2024. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:
• adolygu'r prosesau gweithredu yn barhaus er mwyn sicrhau systemau mor syml a defnyddiol â phosib
• parhau i ddatblygu systemau addas at y newid deddfwriaethol gan roi ffocws ar y Ôl-16, partneriaeth gyda rhieni ac asiantaethau, a'r dull cyllido mwyaf addas ar gyfer y gofyn deddfwriaethol, gan gydweithio yn agos â'r Colegau Addysg Bellach
• sefydlu dull ariannu - adolygu'r dull ariannu er mwyn cael model sydd yn rhoi gwell sefydlogrwydd o ran darpariaeth
• parhau â thrafodaethau cenedlaethol, gan barhau i drosglwyddo'r neges ynglŷn â phryder hyfforddi a recriwtio staff arbenigol.

Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?

Pwrpas y prosiect hwn oedd trawsnewid y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegu a chynhwysiad er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd ei angen yn derbyn y gefnogaeth fwyaf addas i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Bu'r prosiect hefyd yn canolbwyntio ar baratoi tuag at y Ddeddf Anghenion Dysgu a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Daeth y Ddeddf hon yn weithredol ym Medi 2021, ond gyda chyfnod o dair blynedd i drawsnewid hyd at Medi 2024.

Yn ystod 2022-23 bu i Arolwg Parodrwydd Deddf ADY Llywodraeth Cymru ddangos cynnydd cryf iawn o ran paratoadau'r Awdurdod o ran y Ddeddfwriaeth. Bu i'r Awdurdod sicrhau fod y swyddi statudol angenrheidiol mewn lle ers Ionawr 2021 a'u bod yn gweithredu'n effeithiol. Bu i'r cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd ddatblygu'n dda drwy gydweithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA). Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid ar gyfer manylu ar agweddau penodol o'r Cod Terfynol. Bu gwaith ar y llwybrau datrys anghydfod i sicrhau bod rhain yn weithredol. Yn y sector blynyddoedd cynnar mae'r systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod yn fuan, a sefydlu prosesau clir wedi ei gyflawni, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector ôl-16 yn parhau. Hefyd mae'r gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ag asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu.

Bu i'r gwaith arloesol barhau o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar-lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar).

O ystyried y bu i'r ddeddfwriaeth newydd ddod i rym ym Medi 2021, erbyn 2022-23 roedd Gwynedd mewn sefyllfa gadarn o safbwynt gweithredu'r gofynion newydd, ac felly peidiodd hwn a bod yn brosiect yng Nghynllun y Cyngor o Fedi 2022 ymlaen gan ei fod bellach wedi ei gyflawni, a bod y gofynion ynghlwm â'r ddeddfwriaeth bellach wedi trosglwyddo'n rhan o waith dydd i ddydd yr Adran Addysg.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae pryder y gall rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac bydd angen help ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw ynghyd â chefnogaeth gyda'u lles. Mae rhieni yn bryderus ynglŷn a'u gyrru i'r ysgol neu yn penderfynu addysgu gartref, ac mae cynnydd mewn pryderon diogelu.

Rydym yn ymwybodol fod pandemig Covid-19 a'r cyfnod clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, a thu hwnt i'r ysgol rydym hefyd yn sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 oed wedi eu heffeithio yn anghymesur gan yr argyfwng, fwy nag unrhyw grŵp oedran arall.

Yn ystod 2020/21 rydym wedi sefydlu byrddau prosiect ar gyfer y maes Blynyddoedd Cynnar ac ar gyfer y maes cefnogaeth i pobl ifanc ôl-16. Mae'r byrddau prosiect wedi adnabod y meysydd blaenoriaeth ac mae cynlluniau gwaith clir wedi eu llunio ar gyfer y mwyafrif ohonynt. Rydym hefyd wedi canolbwyntio ein hymdrechion ar gyfer y grŵp oedran 5-16 drwy gefnogi'r ysgolion i weithredu Rhaglen Cyflymu'r Dysgu gydag arian gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn ein galluogi i ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr.

Mae gwaith wedi ei wneud i gyfarch llesiant disgyblion 3 – 16 oed ac fel cam cyntaf mae trafodaethau wedi cychwyn gydag ystod o bartneriaid gan gynnwys y gwasanaeth iechyd i fapio'n fanwl pwy sydd yn cefnogi ac ymateb i ystod eang o anghenion llesiant ein pobl ifanc. Yn 2022/23, byddwn wedi cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes blynyddoedd cynnar a fydd yn sicrhau'r cychwyn gorau i deuluoedd a phlant 0-5 oed yng Ngwynedd.

Byddwn hefyd wedi diweddaru ein fframwaith ymgysylltu ar gyfer ein dysgwyr ôl-16 ac wedi llunio strategaeth i ddarparu cymorth llesiant, iechyd meddwl a digartrefedd iddynt. Byddwn wedi cytuno ar y model cefnogi mwyaf effeithiol ar gyfer cefnogi llesiant disgyblion oedran ysgol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Bu i'r gwaith o lunio strategaeth ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar symud yn ei flaen yn ystod y flwyddyn gyda chytundeb ar y prif ffrydiau gwaith. Fel rhan o hynny, bu i ni ymgynghori'n fewnol gyda swyddogion allweddol ar hanfodion ein strategaeth.

Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd asesiad manwl o'r galw am ddarpariaeth gofal a chwarae cyn ysgol, ynghyd ag asesiad manwl o'r cytundebau / prydlesi sydd mewn lle gyda darparwyr presennol.

Bu i ni hefyd fodelu costau rhedeg darpariaethau o ansawdd, ynghyd â modelu modelau ariannu ar gyfer ein darpariaethau gofal a chwarae ac addysg ar draws Gwynedd.

Bu oediad yn y gwaith o lunio fframwaith ymgysylltu ddiwygiedig, hyn yn sgil i'r arweiniad gan Lywodraeth Cymru ein cyrraedd yn hwyr yn ystod y flwyddyn. Yr ydym fodd bynnag wedi ymateb i ofynion y fframwaith ymgysylltu yn enwedig felly ar gyfer pobl ifanc di gartref ac anghenion iechyd meddwl lefel isel.

| |
|---|
| Yr ydym wedi llunio strategaeth newydd ar gyfer ymateb i anghenion dysgwr sydd mewn risg o ddadrithio o addysg, hyfforddiant neu waith. Yn cyd fynd a'r strategaeth mae cais wedi ei wneud i gronfa ffyniant cyffredin am nawdd i gynllun a fyddai'n darparu cefnogaeth ymarferol i'n pobl ifanc wedi ei selio ar arfer dda a welwyd drwy gynlluniau TRAC. |
| Amcanion Llesiant:<br><br>• Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.<br>• Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.<br>• Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.<br>• Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.<br>• Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib. |



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae risg o ddarparu addysg is-safonol i blant Gwynedd oherwydd methiant i uchafu'r cyfleoedd y mae dysgu digidol yn ei gynnig. Bwriad y strategaeth yw rhoi'r ddarpariaeth ddigidol orau i gefnogi ein dysgwyr a'n hathrawon i feithrin ystod o sgiliau i ddefnyddio technoleg yn hyderus, creadigol ac yn feirniadol.

Yn sgil diwygio'r cwricwlwm mae cymhwysedd ddigidol yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob maes dysgu ac mae angen ei ystyried ym mhob agwedd wrth ddylunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae amrywiaethau mewn ansawdd rhwydweithiau ysgolion, a chyflwr a nifer ac argaeledd dyfeisiadau i athrawon a dysgwyr. Mae amrywiaeth yn nealltwriaeth y cyfrwng ymysg athrawon. Nid yw'r drefn o gynnal offer yn sicrhau mynediad di- dor.

Mae'r Strategaeth Addysg Ddigidol wedi ei chymeradwyo ac mae'r gwaith o'i gweithredu wedi symud ymlaen cryn dipyn yn ystod 21/22. Mae gwaith allweddol ar yr is-adeiledd ar draws ein holl ysgolion wedi dirwyn i ben gyda dyfeisiadau newydd wedi eu rhannu â mwyafrif ein dysgwyr yn y sector gynradd ac arbennig. Mae model cefnogi newydd wedi ei lunio gyda'r gwaith o'i sefydlu ar gychwyn fel ei fod yn gwbl weithredol o Ebrill 2022 ymlaen. Mae cytundeb ar fodel ariannu cynaliadwy er mwyn sicrhau nad yw'r dyfeisiadau digidol yn oesi heb ffordd o'i diweddaru gyda'r Cyngor a'r ysgolion yn cyd-ariannu.

Ein blaenoriaethau yn ystod 2022/23 fydd sefydlu'r drefn gefnogi a symud i fod yn cyflwyno dyfeisiadau i bob athro ac athrawes ynghyd â mwyafrif disgyblion y sector uwchradd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Yn syml, mae'r strategaeth yma, o'i gweithredu'n llawn am roi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 11. Gwynedd fydd un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

Bu i waith sylweddol gael ei gyflawni, gan gynnwys uwchraddio rhwydwaith ysgolion yn unol â'r safonau digidol addysg, yn ogystal â'r gwaith o drawsnewid dull hidlo'r we. Mae ychydig dros £1.3m wedi ei fuddsoddi yn y rhwydwaith.

At hyn, bu i nifer sylweddol o ddyfeisiadau gael eu rhannu yn unol â'r strategaeth, gyda digon o ipads wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, digon o Chromebooks wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Bu i ddyfeisiadau Windows 10 gael eu paratoi a'u rhannu ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11, a bu i bob un o athrawon Gwynedd dderbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth.

Yn sgil y penderfyniad i fewnoli cefnogaeth i'r holl ddyfeisiadau, ac yn sgil proses recriwtio, bu i'r Tîm Gwasanaethau Digidol Ysgolion gael ei sefydlu ac mae eisoes yn weithredol yn darparu cefnogaeth ddigidol i'n hysgolion. Y gobaith yw y bydd y dyfeisiadau hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.

| Prosiect 2e | Strategaeth Dysgu Digidol |
|---|---|
| O ystyried fod y dyfeisiadau bellach wedi eu rhannu gyda dysgwyr ac athrawon yn ein hysgolion, a bod y Gwasanaeth Digidol Ysgolion wedi ei sefydlu, bu i amcanion y prosiect hwn gael ei gyflawni erbyn diwedd Medi 2022, gan drosglwyddo'n dilyn hynny fel rhan o waith dydd i ddydd yr Adran Addysg a TGCh. | |
| Amcanion Llesiant:<br>• Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.<br>• Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.<br>• Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg. | |



# Blaenoriaeth Gwella 3
# Lleihau anghydraddoldeb o fewn y sir.

Rhaid cydnabod hefyd, ar hyn o bryd, nad yw pob un yn ein cymdeithas yn cael y cyfleoedd i gyflawni eu potensial. Yn sicr, fel ym mhob sir yng Nghymru, mae yna anghydraddoldeb yn bodoli o fewn y sir ar wahanol lefelau, gyda'r anghydraddoldeb a grëir gan dlodi yn sylweddol o ran y niwed sy'n cael ei greu.

Mae'n amlwg fod tlodi hefyd yn gallu cael effaith andwyol sylweddol ar lesiant, ac yn arbennig felly y dyfodol a gynigir i blant. Tra bod gennym wasanaethau sy'n ceisio meirioli effeithiau tlodi, mae'n ddyletswydd arnom i ystyried a oes mwy y gallwn ei wneud.

Mae'n ddyletswydd arnom hefyd i gynnal gwasanaethau o safon ar gyfer edrych ar ôl y plant hynny sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle mae angen i'r Cyngor gymryd cyfrifoldeb amdanynt. Yn y pen draw, nid oes unrhyw un ohonynt eisiau bod yn y fath sefyllfa. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Mwy o drigolion Gwynedd i Chwarae Rhan Lawn yn y Byd Gwaith
- Cefnogi Llesiant Pobl
- Merched Mewn Arweinyddiaeth
- Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb (Sicrhau Tegwch i Bawb)

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae wedi bod yn flwyddyn gyfnewidiol yn y byd gwaith yng Ngwynedd. Roedd nifer uchel yn ddi-waith yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn, yna nifer sylweddol o gyflogwyr yn adrodd heriau recriwtio yn ystod cyfnod yr haf ac yna darlun mwy cymysg at ddiwedd y flwyddyn.

Gall diweithdra a lleihad mewn incwm aelwydydd effeithio ar iechyd a lles unigolion a theuluoedd a chynyddu'r galw ar adnoddau cyhoeddus. Mae atal hyn yn rhan allweddol o'r agenda gwrth dlodi. Ceir budd uniongyrchol o fod mewn gwaith o ran cynyddu enillion, ond hefyd ceir budd ehangach o ran iechyd, cyfleoedd bywyd plant a balchder mewn cymunedau.

Rydym eisoes wedi gwyro blaenoriaethau er mwyn gallu ymateb o fewn adnoddau presennol gan:

- ymestyn rhaglen Cymunedau i Waith er mwyn cefnogi mwy o unigolion di-waith sydd wedi eu cyfeirio gan asiantaethau Llywodraeth i dderbyn cymorth i oresgyn rhwystrau i waith
- weithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith
- weithio gyda chyflogwyr, yn arbennig o fewn y diwydiant ymwelwyr, i sicrhau fod mwy o bobl Gwynedd yn elwa o'r cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael, ac yn cefnogi trigolion Gwynedd i fagu'r sgiliau digidol sydd eu hangen i gael mynediad i waith
- gefnogi gweithluoedd sydd yn cael eu diswyddo er mwyn iddynt gael mynediad at wybodaeth berthnasol gan wahanol wasanaethau, a hynny mewn cyfnod lle mae cyfyngiadau Covid-19

I'r dyfodol byddwn yn parhau gyda'r cynlluniau uchod ac yn cydweithio yn agos gyda'n partneriaid ledled Gogledd Cymru a chydag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU i wella cydlyniad ein gwasanaethau. Byddwn yn darparu rhaglen i gynnig profiadau gwaith i bobl ifanc di-waith mewn busnesau ar draws Gwynedd a bydd tasglu a sefydlwyd yn ystyried os oes camau pellach gall Cyngor Gwynedd ei gymryd i ymateb i'r her o gefnogi pobl Gwynedd yn ôl i waith a chefnogi busnesau lleol i sicrhau'r gweithwyr maent eu hangen.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae cyflogwyr yn parhau i adrodd eu bod yn wynebu heriau recriwtio, sydd yn llesteirio eu gallu i uchafu eu hincwm. Mewn ymateb, mae tîm Gwaith Gwynedd y Cyngor wedi parhau i weithio dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau fod cynifer â phosib o bobl Gwynedd yn rhan o'r farchnad llafur a hefyd - yn gynyddol - helpu trigolion sydd yn gweithio i gynyddu eu sgiliau.

Yn 2022/23 trefnwyd 9 o ffeiriau swyddi a gwaed trefniadau ar gyfer 2 arall yn y gwanwyn.

Mae'r gwaith i helpu pobl i ddychwelyd i waith yn parhau gyda 141 wedi sicrhau swydd o ganlyniad i'r cymorth maent wedi ei dderbyn yn ystod y flwyddyn.


Mae arian ar gyfer swydd newydd i gefnogi trigolion i gynyddu eu henillion hefyd wedi ei sicrhau.

Bydd un o'r rhaglenni sydd yn cyllido'r tîm Gwaith Gwynedd, sef Rhaglen Cymunedau i Waith, yn dod i ben yn y dyfodol agos gan ei fod wedi'i gyllido gan arian Ewrop. Mae trefniadau mewn lle i sicrhau bydd ardrawiad hyn yn cael ei leihau, gan gynnwys cynnydd yn y cyllid sydd yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm hefyd wedi llunio cais i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU i gynyddu'r cymorth sydd ar gael i atal segurdod, i gefnogi pobl Gwynedd i ddychwelyd i waith, ac i gynyddu faint o gyflog maent yn ei ennill.

Mae seiliau cadarn wedi cael eu gosod felly i barhau gyda'r gwaith o dargedu carfanau o drigolion Gwynedd nad ydynt yn gweithio ar hyn o bryd a'u cefnogi i waith.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae rhai trigolion yn ei chael hi'n anodd i ymdopi gyda heriau bywyd yn sgil argyfwng Covid-19, ac mae sefyllfa fregus rhai trigolion eraill wedi gwaethygu yn ystod yr argyfwng. Mae'r trigolion hyn angen cefnogaeth i ymdopi, i ffynnu, i fod yn ddiogel ac yn iach.

Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd i gael mynediad at wasanaethau a chanfod gwybodaeth am be sydd ar gael i'w helpu, yn arbennig drwy gyfryngau rhithiol ac ar-lein ac felly'n wynebu eu allgau yn gymdeithasol ac yn economaidd.

Mae rhai trigolion yn wynebu caledi ariannol, yn wynebu colli gwaith a cholli cartref. Mae trigolion yn ei chael hi'n anodd cael yr help sydd ei angen arnynt i ddelio gyda'r heriau hyn a chynnal eu llesiant yn lleol, ac yn amserol.

Mae gennym rwydwaith eang a niferus drwy gymunedau'r sir sy'n helpu a chefnogi trigolion i ymdopi ac yn ymateb i'w anghenion amrywiol. Mae'r rhwydwaith honno angen cefnogaeth i gynnal yr ymdrech gwirfoddol hwnnw.

Mae natur hir dymor y cynllun hwn wrth geisio mynd i'r afael a thaclo tlodi, heriau cymdeithasol cymhleth, gan weithio ar draws nifer o wasanaethau amrywiol, yn golygu ein bod yn parhau ar siwrne i gyflawni amcanion y cynllun.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

1. Blaenoriaethu ein ymdrechion a byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi trigolion:

• sy'n wynebu digartrefedd, drwy adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei gyflawni yn y maes hwn o dan y Cynllun Gweithredu Tai, yn ail-siapio gwasanaethau atal digartrefedd drwy'r Grant Cymorth Tai, ehangu ar y gefnogaeth i atal digartrefedd ymysg pobl ifanc, ac i gefnogi pobl gydag anghenion iechyd meddwl sy'n wynebu digartrefedd
• sy'n gofalu am anwyliaid yn ddi-dâl drwy gyflawni'r Cynllun Gweithredu Gofalwyr Gwynedd i hyrwyddo hawliau gwybodaeth ac asesiadau i ofalwyr di–dal bob oed; ac i ddatblygu darpariaethau i gefnogi gofalwyr gydag ysbaid a cefnogaeth llesiant
• sy'n wynebu tlodi ariannol a thlodi bwyd drwy sicrhau adnoddau i wella cydweithio ar draws partneriaid ac i gynyddu ein cefnogaeth cyngor ariannol a hyrwyddo budddaliadau ymysg trigolion
• sy'n cael eu allgau'n ddigidol drwy adnabod anghenion ein trigolion a cynllunio i gyfarch unrhyw fylchau gyda'n partneriaid.

2. Byddwn yn gweithio ar draws gwasanaethau a gyda'n partneriaid ar:

• ymyraethau llesiant i blant, pobl ifanc a phobl o bob oed
• cefnogi cymunedau
• cynnal gwydnwch cymunedau a chefnogi gwirfoddolwyr/ysbryd cymunedol.

3. Byddwn hefyd yn edrych ar fodelau ar gyfer sicrhau fod trigolion yn cael mynediad i'r ystod eang a newydd o gefnogaeth sydd ar gael yn amserol, yn gydlynus ac yn lleol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Rydym wedi buddsoddi mewn dwy rôl newydd i ymateb i'r flaenoriaeth hon yn ystod 2022-23, yn arbennig felly ar gyfer cefnogi pobl Gwynedd i ymdopi gyda heriau yr argyfwng costau byw. Mae Cydlynydd a Swyddog Cefnogol Cynhwysiad a Threchu Tlodi newydd gennym i arwain ar ddatblygu a darparu cefnogaeth costau byw. Mae'r gwaith o gefnogi pobl gyda chostau byw yn ystod 2022-23 wedi cynnwys: sefydlu ymgyrch "Croeso Cynnes" i gael lleoliadau cymunedol drwy'r sir y gallai pobl fynd iddynt i gael lle cynnes i gael bwyd, sgwrs a help; cynnal cyfres o ddigwyddiadau "Help Gyda Biliau" gyda'n partneriaid i helpu trigolion gyda biliau'r cartref; datblygu adran newydd ar wefan y Cyngor yn tynnu ynghyd gwybodaeth am y gefnogaeth costau byw sydd ar gael; sefydlu a gweinyddu grantiau ar gyfer cynlluniau bwyd a bwydo cymunedol; trefnu rhaglen hyfforddiant uchafu incwm i weithwyr rheng flaen a gwirfoddolwyr; comisiynu Citizens Online i helpu trigolion Gwynedd i ddatblygu sgiliau mynd ar-lein ac i gael mynediad at gyfrifiaduron a thabledi am ddim.

Rydym hefyd wedi parhau gyda'n gwaith o sefydlu Hybiau Cefnogi Llesiant Pobl mewn cymunedau. Mae'r hybiau yn fannau lleol y gall pobl fynd iddyn nhw i gymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau, ac i gael cefnogaeth gyda ystod eang o faterion. Yn 2022-23 rydym wedi cydweithio gyda 9 partner cymunedol sy'n arwain ar gydlynu rhwydwaith o dros 30 o wasanaethau a phrosiectau y gall trigolion gael mynediad a help ganddynt o naw hwb lleol.

Rydym wedi parhau i gydweithio gyda'r Gwasanaeth Digartrefedd a'r Partneriaid Atal Digartrefedd i sicrhau fod pobl yn cael mynediad i gefnogaeth ar faterion tai drwy'r hybiau.

Rydym hefyd wedi siapio Gwasanaeth Cefnogi Llesiant Pobl newydd fydd yn darparu cefnogaeth gafael llaw i'r trigolion hynny sydd eisiau help i ymgysylltu gyda gweithgareddau, digwyddiadau, prosiectau a pobl oddi fewn eu cymunedau. Rydym yn edrych ymlaen i lansio'r gwasanaeth hwn ar y cyd gyda'n partneriaid yn y trydydd sector yn ystod 2023-24.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Er yn gadarn ei fod yn talu cyflog ar sail cyfartal, mae'r Cyngor yn cydnabod bod y nifer o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth rheolaethol o fewn y Cyngor yn anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan - h.y. 70% merched 30% dynion.

Llwyddwyd hyd yma i gyflwyno rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched, adolygu nifer o bolisïau ac arferion gwaith yn ogystal â chreu fforymau ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr benywaidd o fewn y Cyngor.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:
• trefnu sesiynau codi ymwybyddiaeth pellach ar gyfer rheolwyr gwrywaidd yn y Cyngor
• ystyried addasrwydd cyfansoddiad paneli penodi ar gyfer swyddi
• cyflwyno rhaglen fentora benodol ar gyfer merched yn y gweithle
• adolygu llwyddiant y rhaglen datblygu potensial ar gyfer merched
• parhau i gynghori ar adolygiad o amodau gwaith o safbwynt merched mewn arweinyddiaeth.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Cynhaliwyd digwyddiad rhithiol ar gyfer Rheolwyr gwrywaidd y Sefydliad ym mis Mehefin 2022. Roedd y digwyddiad ar ffurf sgwrs banel gyda aelodau'r panel yn cynnwys siaradwyr allanol a mewnol. Yn ystod y digwyddiad holwyd y panel ynglŷn a'u profiadau a'u hymagweddau hwy at ferched mewn arweinyddiaeth gyda chyfle pellach i'r gynulleidfa o 30 holi a chyfrannu.

Mae pecyn o gynlluniau ar gyfer addasu trefniadau recriwtio a penodi yn cael ei lunio ar gyfer ei beilota, yn y lle cyntaf, yn ddiweddarach eleni. Bu ymgynghoriad llawn efo'r Grŵp Prosiect pan gafodd y Polisi Recriwtio a Phenodi presennol ei adolygu yn 2021 ond mae'r pecyn hwn gyda golwg i;

• Adolygu ac addasu geiriad hysbysebion a manylion pellach ar gyfer swyddi;
• Arbrofi gyda chyflwyno ffurflenni cais di-enw i reolwyr ar gyfer llunio rhestr fer;
• Sicrhau bod dwy aelod benywaidd ar pob panel penodi ar gyfer swyddi arwain a rheoli o fewn y Cyngor;
• Sicrhau nad yw ein trefniadau ar gyfer gweithio i'r dyfodol yn rhoi merched dan anfantais pan yn ystyried ymgeisio am swyddi rheolaethol;
• Gwahodd arweinyddion tîm (ble mae menywod yn y mwyafrif) i ymuno â'r rhwydwaith rheolwyr er mwyn hyrwyddo a chefnogi'r nod o sicrhau gwell cydbwysedd rhwng merched a dynion ar lefelau uwch-reolaethol i'r dyfodol.

Lansiwyd y Rhaglen Ddatblygol yn rhan o arlwy'r Prosiect ar Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched 2022. Mae'r Rhaglen wedi ei llunio i gynnig arweiniad, cefnogaeth a'r cyfle i rwydweithio efo'r merched eraill hynny o fewn y Cyngor sydd am fanteisio ar y ddarpariaeth a'r anogaeth ffres yma i ymgeisio am, a chyflawni, swyddogaethau arwain.

Ers 2022 mae dwy gyfres wedi ei chynnal gyda'r trydydd cyfres wedi ei lansio fis Mawrth 2023. O'r 22 o ferched sydd eisoes wedi cwblhau'r Rhaglen mae 5 ohonynt wedi sicrhau dyrchafiad yn ystod, neu o ganlyniad, i wneud hynny gyda phob un, yn ddi-eithriad, yn nodi bod y Rhaglen wedi bod o gymorth arbennig iddynt.

| Prosiect 3c | Merched Mewn Arweinyddiaeth |
| --- | --- |

Er mwyn dwysau'r profiad ac ychwanegu persbectif ffres, mae rhai o'r modiwlau yn cael eu harwain gan siaradwyr allanol. Mae hyn wedi arwain at drafodaethau yn bresennol, ar gais y cyfranwyr allanol, i'r Cyngor ystyried cydweithio hefo nhw er mwyn cynnig y Rhaglen i sefydliadau eraill yng Nghymru. Mae trefniadau eisoes mewn lle i fod yn cychwyn cyfres pellach o'r Rhaglen Ddatblygol yn ystod Hydref 2023 gyda sawl merch eisoes wedi bod mewn cysylltiad yn datgan diddordeb yn y cyfle yma.

Mae'r trefniant 'Sgyrsiau Dros Baned' wedi eu sefydlu fel trefniant parhaus gyda 80 o ferched wedi manteisio ar y sgyrsiau hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a cynlluniau mewn lle i gynnal sgyrsiau pellach yn ystod y flwyddyn i ddod.
O ran cyflwyno rhaglen fentora i arweinyddion a darpar-arweinwyr benywaidd y Cyngor mae unigolion sy'n rhan o'r Grŵp Prosiect wedi mynychu cyflwyniad i fentora ond nid oes rhaglen benodol wedi ei chyflwyno hyd yma.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



| Prosiect 3ch | Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb (Sicrhau Tegwch i Bawb) |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn wneud rhaid i ni yn gyntaf adnabod unrhyw rwystrau sy'n wynebu rhai pobl wrth chwilio am, neu dderbyn, gwasanaethau gan y Cyngor. Ein bwriad felly yw cynnal ymchwiliad trylwyr o farn pobl Gwynedd sydd â nodweddion gwarchodedig (fel maent yn cael eu nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010) am y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu cynnig.

Cafodd ymgysylltiad ei gynnal yn ystod 2020/21 fel rhan o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 ond mae wedi ymestyn i 2021/22 oherwydd yr angen i ganfod ffyrdd newydd o ymgysylltu.

Yn ystod 2022/23 fe fyddwn yn:

• creu Cynllun Gweithredu pellach yn seiliedig ar y dystiolaeth y byddwn yn ei dderbyn o'r gwaith ymgysylltu fydd yn cynnwys rhaglen hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth a chamau er mwyn gwella'r wybodaeth sydd gennym am y maes
• darparu trefn newydd o asesu effaith newid mewn polisïau a gweithdrefnau ar drigolion Gwynedd tra'n parhau i gynnig cymorth a hwyluso gallu rheolwyr i gynnal yr asesiadau hynny

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae e-fodiwl Cydraddoldeb wedi ei wneud yn fandadol ym mis Mehefin 2022 a mae'r niferoedd staff sydd wedi ei gwblhau wedi cynyddu'n sylweddol (ond mae'r niferoedd yn amrywio'n arw o un Adran i'r llall).

Cynhaliwyd hyfforddiant wyneb yn wyneb ac ar-lein i Aelodau Etholedig ym misoedd Tachwedd a Rhagfyr 2022 ac fe dderbyniwyd adborth bositif iawn. Mae ymchwil pellach wedi ei wneud er mwyn darparu hyfforddiant penodol ar Gydraddoldeb i Reolwyr, yn arbennig ym maes Gwrth-Hiliaeth. Gwnaed gwaith hefyd i sefydlu lleoliad mewnrwyd ar gyfer adnoddau i Reolwyr, gan gynnwys anwytho Rheolwyr newydd, hyfforddiant penodol ac adnoddau eraill. Bydd yno adnoddau penodol ar wahanol agweddau o gydraddoldeb ond bydd y pwnc hefyd yn cael ei gynnwys fel rhan o adnoddau eraill e.e. adnoddau recriwtio staff.

Mae'r Cyngor yn gofyn i bob aelod o staff lenwi holiadur data cydraddoldeb er mwyn i ni gael gwell dealltwriaeth o nodweddion cydraddoldeb ein staff ac er mwyn gwella'r gefnogaeth a roddir iddynt a hybu amrywiaeth o fewn y gweithlu. Mae'r wybodaeth yma'n wirfoddol ac mae wedi dod i'r amlwg fod llai o staff mewn sefyllfa rheng flaen yn ei lenwi na staff swyddfa oherwydd nad ydynt â mynediad mor hawdd at gyfrifiadur. Mae trafodaethau felly wedi ei cynnal gyda rhai o'r Adrannau er mwyn gwella'r sefyllfa.

Wedi dadansoddi'r holiaduron â dderbyniwyd fel rhan o'n ymgysylltiad ar y rhwystrau sy'n wynebu pobl â nodweddion cydraddoldeb wrth ymwneud â'r Cyngor, canfuwyd mai materion gweithredol ar gyfer eu pasio i'r gwasanaethau oedd y rhan fwyaf o'r hyn a godwyd. Mae'r cynllun gwaith i weithredu ar ganfyddiadau'r holiadur yn mynd rhagddo, gan gynnwys y gwaith hyfforddiant uchod.

Gwnaed trefniadau ar gyfer ail-lawnsio'r Grŵp Craidd Cydraddoldeb, sef cynrychiolwyr mudiadau o'r maes sy'n rhoi cymorth i'r Cyngor wrth sicrhau tegwch i bawb, ym mis Ebrill 2023.

Mae gwaith wedi cychwyn ar baratoi holiadur newydd, y tro hyn ar amcanion cydraddoldeb y Cyngor.

Fel rhan o'r drefn arbedion diweddar rhoddodd Swyddogion Cydraddoldeb sylwadau ar y materion cydraddoldeb oedd angen eu hystyried.

Mae archwiliad annibynnol ar gyflog cyfartal o fewn y Cyngor wedi ei gynnal, gyda'r adroddiad terfynol wedi ei gyflwyno yn hwyr ym mis Rhagfyr, 2022. Pwrpas y gwaith oedd ystyried os oes camwahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhyw yn ein systemau tâl. Daeth yr adroddiad i gasgliad nad oes yna bryderon am gamwahaniaethu anghyfreithlon, a bod amddiffyniad cyflog cyfartal y Cyngor i'w weld yn gadarn. Fel sylw cyffredinol pellach (a thu allan i brif ffocws yr archwiliad), mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith fod yna fwlch tâl rhwng merched a dynion o fewn y gweithlu (yr hyn a elwir yn y Saesneg yn gender pay gap).

Mae'r gwaith o gasglu a chyflwyno gwybodaeth er mwyn derbyn adborth gan gwmni Inclusive Employers ynghylch pa mor gynhwysol ydym ni fel cyflogwr wedi ei gwblhau a'i gyflwyno cyn y Nadolig 2022 ac rydym yn disgwyl adborth. Bydd hyn yn cael ei fwydo i mewn i'r cynlluniau gweithredu ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Amcanion Llesiant:

- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



# Blaenoriaeth Gwella 4
# Mynediad at gartrefi addas

Mae gan y maes tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor gyflawni ein huchelgais. Gwyddwn fod cael cartref sydd yn addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sy'n gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig ein bod yn datblygu cynigion tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd y gall pobl fyw ynddynt trwy gydol eu hoes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen.

Fel Awdurdod Lleol, byddwn yn ymyrryd i annog ystod o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Law yn llaw â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant cymunedau'r sir. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu
- Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn helpu gyda phroblemau tai
- Rheolaeth o'r defnydd o dai fel tai haf ac ail gartrefi

| Prosiect 4a | Diffyg cartrefi addas i bobl Gwynedd: Sicrhau cymeradwyaeth i'r Cynllun Tai a dechrau gweithredu |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Er mwyn cyrraedd uchelgais ein Strategaeth Tai i "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd", rydym wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynnwys dros 30 o gynlluniau penodol a buddsoddiad o £77 miliwn.

Bydd y cynlluniau hyn yn anelu i gyflawni'r amcanion canlynol:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn parhau i weithredu'r cynlluniau hyn er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl leol gael cartrefi addas o fewn eu cymunedau.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae uchafbwyntiau'r Cynllun Gweithredu Tai dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

• Cynllun Prynu i Osod: Mae 8 tŷ wedi'i brynu ac yn dilyn gwneud gwaith atgyweirio/uwchraddio hanfodol, mae potensial i hyd at 32 o unigolion elwa o'r tai hyn. Mae 5 pryniant arall ar y gweill a 4 arall wedi'u hadnabod i'w prynu, gyda gwaith parhaus yn digwydd i adnabod rhagor o eiddo addas. Llwyddodd yr Adran i ddenu grant o oddeutu £3m gan Lywodraeth Cymru i'w roi tuag at brynu'r tai hyn.

• Cynllun Prynu Cartref: Lansiwyd y cynllun hwn ar ei newydd wedd ym mis Medi 2022. Cwblhaodd 4 teulu bryniant, a chymeradwywyd 15 cais.

• Cynlluniau tai gwag: Daethpwyd â 104 o dai gwag yn ôl i ddefnydd ar draws Gwynedd o ganlyniad i gymorth amrywiol grantiau tai gwag. Llwyddodd y cynllun sy'n cynnig eithriad ychwanegol o flwyddyn i brynwyr tro cyntaf gyflawni gwaith adfer hanfodol ar dai gwag helpu o leiaf 120 o bobl.

• Adeiladu tai cymdeithasol: Mae 173 o dai cymdeithasol wedi'u codi ar draws Gwynedd ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai, a bu i'r Cyngor glustnodi holl gyllideb 2022/23 (gwerth £12.3m) ar gyfer gwahanol gynlluniau adeiladu tai cymdeithasol.

Cefnogaeth Iechyd Meddwl

Mae'r Adran wedi cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sefydlu darpariaeth i gefnogi unigolion sydd mewn perygl o fod yn ddigartref oherwydd materion iechyd meddwl i barhau yn eu cartref. Yn ystod 2022/23, penodwyd dau swyddog – un yn gweithio i'r Bwrdd Iechyd a'r llall yn gweithio i'r Cyngor, sydd wedi helpu 5 unigolyn yn llwyddiannus dros y misoedd diwethaf, ac wrthi'n cefnogi 40 unigolyn arall ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig nodi mai uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf yn unig a nodir uchod, a bod y Cynllun Gweithredu Tai yn gynllun sy'n cynnwys dros 30 o brosiectau ar draws 5 maes allweddol ac mae swyddogion yn gweithio'n barhaus ar sawl cynllun. Mae enghreifftiau o'r prosiectau eraill sydd wedi gweld cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys:

• Cynllun Tŷ Gwynedd (ein cynllun adeiladu ein tai cyntaf ers 30 mlynedd) – mae'r gwaith cefndir angenrheidiol wedi cwblhau ar ein prosiect cyntaf ar hen safle Ysgol Coed Mawr, Bangor a bron yn barod i ddechrau ar y gwaith adeiladu.
• Cynlluniau llety â chefnogaeth i'r digartref, sydd â nifer o ddatblygiadau ar y gweill ac a fydd yn cwblhau dros y flwyddyn nesaf, e.e. 35 Ffordd y Coleg, Bangor (3 uned), Ffordd yr Ala, Pwllheli (2 uned), safle hen Ysgol Glan Wnion, Dolgellau (5 uned) ac 137 Stryd Fawr Bangor (12 uned).
• Ein gwasanaeth ynni newydd, sydd wedi helpu cannoedd o bobl Gwynedd gyda chyngor am eu sefyllfa ynni, ynghyd â helpu 1,671 o bobl gyda thalebau ynni gwerth £81,773.
• Gwneud 319 o addasiadau i dai er mwyn caniatáu i bobl anabl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartref gwerth £2.3m.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



| Prosiect 4b | Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn helpu gyda phroblemau tai |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Ar hyn o bryd, mae nifer o bwyntiau cyswllt o fewn yr Adran i'r cyhoedd gael mynediad at wahanol wasanaethau yn y maes Tai ac Eiddo. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys prosiect i sefydlu un pwynt cyswllt drwy greu Desg Gymorth Tai.

Rydym wedi ymchwilio i fodelau gwahanol o ddarparu desg gymorth a chychwyn ar y gwaith o sefydlu math o Ddesg Gymorth Tai all gynghori'r cyhoedd sut orau i ddatrys eu hanghenion tai. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori gyda budd-ddeiliaid i sicrhau fod y cymorth yn alinio gyda'r gwasanaethau tai sydd yn cael eu cynnig gan ddarparwyr allanol.

Rydym wedi penodi swyddog sydd wrthi'n cydlynu'r gwaith o sefydlu'r Siop un Stop arloesol er mwyn sicrhau fod gan drigolion Gwynedd un fynedfa ar gyfer cael mynediad i gymorth arbenigol ar gyfer eu hymholiadau tai.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Yn ystod 2022/23, mae'r Adran Tai ac Eiddo wedi mynd rhagddo i ymchwilio sut gellid sicrhau bod y Siop Un Siop yn darparu gwasanaeth effeithiol ar draws yr holl ymholiadau tai y mae'r Cyngor yn eu derbyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- trefnu a dadansoddi holiadur ar gyfer trigolion y Sir i ddeall yn well flaenoriaethau unigolion ac adnabod cyfleoedd i gynllunio'r gwasanaeth mewn modd sy'n gwella profiad y cwsmer
- adnabod y ffactorau perthnasol ynghlwm â heriau tlodi tanwydd
- paratoi ystadegau ynglŷn â'r nifer a'r math o ymholiadau a dderbyniwyd er mwyn adnabod yr adnodd priodol

Mae sesiynau ymgysylltu gyda phartneriaid allweddol (e.e. cymdeithasau tai a mudiadau trydydd sector) wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn er mwyn adnabod os oes angen addasu'r trefniadau presennol.

Mae'r strwythur ar gyfer yr uned Siop un Stop wedi'i gytuno ac mae rhai o aelodau o'r tîm wedi'u penodi. Mae hyn yn cynnwys dau swyddog sydd yn cynorthwyo trigolion Gwynedd i gael mynediad at wasanaethau priodol sy'n ymwneud â thai ac atal digartrefedd. Mae'n fwriad i beilota'r drefn newydd yn fewnol i ddechrau, cyn ei fabwysiadu yn swyddogol ar gyfer yr holl ddarparwyr. Mae gwaith ar y cyd hefyd wedi'i gwblhau gyda'r Gwasanaeth TG i asesu beth yw'r gofynion er mwyn sicrhau bod y sustem newydd Siop un Stop wedi'i deilwra ar gyfer gofynion y gwasanaeth sy'n cynnwys adnabod y sustem ffôn orau ar gyfer yr uned. Mae trafodaethau wedi dechrau hefyd ar baratoi i addasu safle we'r Adran Tai ac Eiddo i ymgorffori trefniadau newydd y Siop Un Stop.

| Prosiect 4b | Mynediad rhwydd a chlir at wasanaeth ymholiadau a chynghori ar faterion tai: Sefydlu un drws ffrynt a desg gymorth ar gyfer y cyhoedd er mwyn helpu gyda phroblemau tai |
|---|---|
| Amcanion Llesiant:<br><br>• Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.<br>• Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.<br>• Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.<br>• Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg. | |



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae'r nifer sylweddol o dai yng Ngwynedd sydd yn cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau (ar gyfer llety gwyliau byr dymor ac ail gartrefi) yn bryder mawr gyda'r sgil effeithiau'n cynnwys cynnydd mewn prisiau tai sydd yn rwystr sylweddol i drigolion lleol fod yn gallu byw yn eu cymunedau. Gan fod yr argyfwng tai yn un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, comisiynwyd gwaith ymchwil ar gartrefi gwyliau gan y Cabinet er mwyn hel tystiolaeth i weld beth oedd yn bosib i'w wneud i reoli'r sefyllfa'n well.

Mae'r Cyngor wedi pwyso ar Lywodraeth Cymru ers blynyddoedd i gyflwyno newidiadau i gael rheolaeth gwell o gartrefi gwyliau, ac yn Rhagfyr 2020 cyhoeddwyd gwaith ymchwil y Cyngor sef "Rheoli'r defnydd o dai fel cartrefi gwyliau" a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan bwyso arnynt i weithredu ar yr argymhellion. Mae'r gwaith ymchwil wedi bod yn arwyddocaol i'r datganiadau gan Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021 i ymgynghori ar addasiadau i'r rheoliadau ac i bolisi cynllunio, sydd yn cydnabod yr angen i gael rheolaeth gwell o gartrefi gwyliau.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr ar y 23 Tachwedd 2021 ac mae'n agored hyd at y 22 Chwefror 2022, ac mae'r Adran yn cydlynu ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad. Cam allweddol wrth symud ymlaen yn 2022/23 fydd i ystyried pa ymateb fydd gan Llywodraeth Cymru i ymateb y Cyngor (ac eraill) i'r ymgynghoriad, fydd yn dylanwadu wedyn ar y camau nesaf y gall y Cyngor eu cymryd i gael rheolaeth gwell o gartrefi gwyliau.
Mae'r Adran hefyd yn rhoi mewnbwn i ymgynghoriadau eraill sydd gan y Llywodraeth sydd yn ymwneud a chartrefi gwyliau gan gynnwys trethi lleol ar gyfer llety gwyliau byr dymor, cynllun cofrestru a thrwyddedu ar gyfer tai a chynllun tai cymunedau Cymraeg. Eto, bydd y prif waith yn 2022/23 yn deillio allan o'n ymateb i'r ymgynghoriadau ac wrth gwrs ymateb a bwriad Llywodraeth Cymru yn dilyn hyn, a byddwn yn cydweithio â nifer o adrannau'r Cyngor i gyflawni hynny.

Nodir hefyd y bydd y Cyngor yn parhau i bwyso ar Lywodraeth Cymru i newid Adran 66 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, er mwyn rheoli trosglwyddiad cartrefi domestig i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar sy'n destun ardrethi annomestig. Mae'r mwyafrif helaeth yn osgoi unrhyw drethiant lleol am eu bod yn derbyn rhyddhad ardrethi busnesau bychain, sydd o ganlyniad yn lleihau'r buddsoddi'r incwm a geir o'r premiwm Treth Gyngor yn ein Cynllun Gweithredu Tai.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae'r Adran wedi arwain ar y gwaith o baratoi Cyfarwyddyd Erthygl 4 er mwyn cael gwell rheolaeth o'r 3 dosbarth defnydd cynllunio newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022, sef prif gartref, ail gartref a llety gwyliau tymor-byr. Mae hyn wedi cynnwys paratoi sail dystiolaeth gadarn i ddangos yn glir fod ail gartrefi a/neu lety gwyliau tymor-byr yn cael effaith niweidiol ar ardal(oedd) yng Ngwynedd, sy'n cyfiawnhau cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4. Cyflwynwyd adroddiad yn amlinellu'r gwaith i Bwyllgor Craffu Cymunedau ar 9 Mawrth 2023 a penderfynwyd:

"Argymell i'r Cabinet y dylid cymeradwyo yr opsiwn a ffafrir o ran cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4, sef 'Opsiwn 4: Gwynedd gyfan (Ardal yr Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd)"

| Prosiect 4c | Rheolaeth o'r defnydd o dai fel tai haf ac ail gartrefi |
|---|---|

Anelir adrodd i'r Cabinet ym Mehefin 2023 ar gyfer cymeradwyaeth i symud ymlaen gyda'r broses ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4.

Fe wnaeth yr Adran Amgylchedd hefyd gyfrannu tuag at ymgynghoriadau gan y Llywodraeth, yn benodol ymgynghoriad ar Gynllun Trwyddedu Statudol ar gyfer llety gwyliau a disgwylir adborth y llywodraeth i'r ymgynghoriad.

Gan ei fod yn parhau yn flaenoriaeth i'r Cyngor, mae'r maes wedi ei gynnwys fel blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer y cyfnod 2023-28.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# Blaenoriaeth Gwella 5
# Byw bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Un nodwedd unigryw sydd gan Wynedd fel sir hefyd yw ei Chymreictod. Mae Cyngor Gwynedd ei hun wedi ymrwymo i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond ni fydd hynny ynddo'i hun yn ddigonol os ydym am gadw natur unigryw'r sir yn fyw. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor
- Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus
- Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig
- Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc

| Prosiect 5a | Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau fod gwasanaethau i drigolion ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, gan ein bod yn gweithredu'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n waith parhaus i Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor, ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff.

Mae'r gwaith o gasglu hunanasesiadau gallu ieithyddol gan staff, i raddau helaeth, yn hunangynhaliol erbyn hyn. Mae hyn oherwydd ein bod wedi rhoi systemau a threfniadau ar waith, er enghraifft:

• yr holiadur ar gael i'w gwblhau trwy'r system Hunanwasanaeth
• neges yn cael ei hanfon at staff sy'n cael eu penodi trwy'r drefn ganolog
• yr holiadur yn rhan o broses anwytho staff gofal.

Golyga hyn y gallwn newid ychydig ar brif sylw'r prosiect. Tra bod y prif sylw hyd yma wedi'i roi i gasglu'r hunanasesiadau, y teimlad bellach yw y dylid rhoi mwy o sylw i'r cam dilynol, sef ymateb i anghenion ac ehangu'r ddarpariaeth.

Yn ystod 2022/23 bydd hyn yn cynnwys:
• ymateb i anghenion y staff nad ydynt yn cyrraedd holl ddynodiadau iaith eu swyddi yn llawn
• ymateb i anghenion yr aelodau eraill o staff sydd wedi nodi yr hoffent hyfforddiant iaith
• marchnata'r cyfleoedd sydd ar gael yn fwy cyson
• ehangu'r ddarpariaeth fewnol o hyfforddiant iaith.

Bydd y gwaith o gasglu hunanasesiadau hefyd yn parhau ond yn canolbwyntio ar:
• barhau â'r ymgyrch bresennol gyda staff yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
• barhau i weithio gyda chartrefi gofal
• ddatblygu'r gwaith o gydweithio gyda staff gofal cymunedol

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae cyfanswm o 2,902 o staff wedi'u hasesu yn erbyn dynodiadau iaith eu swydd gyda 91.5% (2,640) yn cyrraedd neu'n mynd tu hwnt i'r gofynion. Golyga hyn bod 244 (8.5%) o staff wedi'u hadnabod sydd ddim yn cyrraedd dynodiadau iaith eu swydd.

Mae 5 o'r 10 Adran ganolog bellach gyda dros 97% o staff wedi derbyn asesiad iaith (Cyllid, Tai ac Eiddo, Economi a Chymuned, Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol a Cefnogaeth Gorfforaethol). Mae gwaith penodol wedi digwydd gyda'r Adrannau canlynol er mwyn casglu mwy o wybodaeth am lefelau iaith staff: Amgylchedd, Tîm Arweinyddiaeth Corfforaethol, Byw'n Iach, Priffyrdd, Peirianneg a YGC, Cyllid, Economi a Chymuned a Tai ac Eiddo.

Ar gyfer y gwasanaethau sy'n cynnwys nifer o staff rheng flaen, achlysurol a thymhorol, gwnaed ymdrech i gasglu gwybodaeth sylfaenol gan reolwyr llinell ynghylch lefelau iaith staff (h.y. ydi'r unigolyn yn cyrraedd dynodiadau iaith y swydd ai peidio). Gall fod yn her sicrhau bod yr aelodau yma o staff yn cwblhau'r holiadur hunanasesu iaith. Mae casglu'r wybodaeth yma yn fan cychwyn da ac yn ffordd o adnabod lle y dylid canolbwyntio ein hymdrechion wrth gefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau iaith.

## Prosiect 5a — Hybu Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor

Trefnwyd a chynhaliwyd sawl digwyddiad dysgu a datblygu penodol yn y maes iaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae Gwobr Goffa Dafydd Orwig wedi'i hailsefydlu a cynhaliwyd seremoni wobrwyo fis Ebrill 2022. Mae'r cynllun Cyfeillion Cymraeg yn parhau i dyfu gyda 5 gwirfoddolwr newydd ar y cynllun a 6 aelod o staff yn manteisio ar y gefnogaeth.

Mae Tip Cymraeg y Mis yn dal i fod yn llwyddiant ac yn ffordd o ddylanwadu ar bobl y tu hwnt i'r Cyngor hefyd, oherwydd y cydweithio gyda Nant Gwrtheyrn. Cafodd y tipiau ymateb gwych eleni gan y cyhoedd ar wefannau cymdeithasol fel Facebook, yn enwedig tip mis Awst a Medi 2022. Bydd y tip yn ffordd o sicrhau bod staff yn derbyn gwybodaeth am ramadeg a thechnoleg iaith ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Bellach mae'r Safle Iaith fewnol wedi'i datblygu'n llawn ac yn cael ei diweddaru'n gyson gyda gwybodaeth am gyrsiau ac adnoddau newydd, gan ddarparu man penodol i staff ganfod gwybodaeth am hyfforddiant iaith ynghyd ag adnoddau defnyddiol i reolwyr fedru troi atynt am gymorth.

Mae Adroddiad Chwarterol yn parhau i gael ei anfon at bennaeth pob Adran ac at gynrychiolydd yr Adran ar y Fforwm Dynodiadau Iaith. Mae'r adroddiad yn fodd o ddiweddaru penaethiaid am gynnydd o ran data cysylltiedig â'r prosiect ac ynghylch staff sy'n mynychu hyfforddiant iaith.

Yn ystod 2022-23 mae mwy o gyswllt wedi bod gydag Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru wrth gydlynu gwersi Cymraeg. Mae'n braf gweld bod llwyddiant y prosiect wedi cael dylanwad positif ar rai o'r sefydliadau sy'n cael eu lletya gan y Cyngor.

Amcanion Llesiant:

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.



| Prosiect 5b | Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Ar hyn o bryd mae anghysondeb yn narpariaeth gwasanaethau dwyieithog gan gyrff cyhoeddus yng Ngwynedd sy'n golygu nad yw hi bob amser yn bosibl i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus.

Mae sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn yn amau bod llai yn dewis defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg na sydd o siaradwyr Cymraeg yn y ddwy sir. Drwy gydweithio gyda ein partneriaid sy'n rhan o Is-grŵp y Gymraeg, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rydym wedi comisiynu astudiaeth o dderbynfeydd traddodiadol a fydd yn ymchwilio i hyn. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

• ystyried sut y gallwn annog mwy o bobl i ymwneud â ni yn y Gymraeg, ac i fod yn gyfforddus wrth wneud hynny ar sail casgliadau'r astudiaeth yn y lle cyntaf
• gweithredu cynlluniau ar sail yr ystyriaethau hynny

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Penodwyd Cwmni Iaith Cyf ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn i wneud Gwaith ymchwil i'r rhesymau pam fod pobl yn dewis defnyddio'r Gymraeg neu beidio wrth dderbyn gwasanaethau cyswllt cyntaf. Cynhaliwyd gwaith arsylwi mewn deg o Dderbynfeydd yng Ngwynedd a Môn ym ystod mis Mai a Mehefin 2022 a cynhaliwyd grwpiau ffocws yn dilyn hynny rhwng Iaith Cyf, a'r staff oedd wedi cymryd rhan er mwyn cadarnhau'r canfyddiadau o'r arsylwadau.

Cynhaliwyd sesiwn ymgynghori ym mis Hydref 2022 gyda detholiad o Reolwyr rheng flaen er mwyn cael eu barn ar lunio pecyn adnoddau a hyfforddiant i staff. Cynhaliwyd dwy sesiwn o'r hyfforddiant terfynol 'Gofal Cwsmer a'r Gymraeg' ar gyfer Rheolwyr ym mis Chwefror 2023. Pwrpas y sesiwn oedd cyflwyno cynnwys y canllaw a rhoi cyngor i Reolwyr ar sut i annog staff i ddefnyddio'r Canllaw yn effeithiol. Mae'r Canllaw yn cynnwys rhestr o argymhellion i staff eu dilyn er mwyn rhoi cynnig rhagweithiol.

Cafwyd adborth da i'r hyfforddiant a'r adnoddau gan gyrff cyhoeddus eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Tân ac Achub, a nodwyd y bydd yn adnodd gwerthfawr i annog staff i gymell defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i annog staff sefydliadau cyhoeddus i wneud defnydd o'r adnoddau newydd ac mae'r Is-grwp Iaith Gymraeg yn edrych ymlaen i barhau i gydweithio pan fydd Cynllun Llesiant newydd y Bwrdd ar gyfer 2023-28 yn weithredol.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae gennym bryder fod enwau llefydd cynhenid Cymreig yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o'r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg.

Mae'r rhaglen waith wedi ei llunio a'i blaenoriaethu. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:
• ymdrin â materion mewnol sydd o fewn rheolaeth y Cyngor ar gyfer sylw yn gyntaf
• codi ymwybyddiaeth a diddordeb y cyhoedd mewn enwau llefydd cynhenid Cymreig
• cydweithio â sefydliadau eraill i warchod enwau Cymraeg o fewn y sir.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae'r prosiect wedi bod yn gweithredu ar raglen waith sydd wedi ei rhannu dan y penawdau canlynol:
1. Enwau'r Cyngor
3. Tai a Busnesau
4. Strydoedd / stadau tai / stadau diwydiannol
5. Pentrefi ac aneddleoedd
6. Nodweddion Daearyddol – mynyddoedd, traethau ayyb
7. Dylanwadu ar bartneriaid allanol – Post Brenhinol, Gwasanaethau Brys, AO ayyb

Rydym wedi llwyddo i wneud cynnydd yn erbyn pob un o feysydd y rhaglen waith a nodir uchod.

Enwau'r Cyngor:
Mae Polisi Iaith newydd y Cyngor wedi ei gyhoeddi yn ystod Hydref 2022 ac yn cynnwys nifer o gymalau newydd yn ymwneud efo gwarchod enwau Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys rhoi arweiniad i staff ddefnyddio enw Cymraeg y Cyngor yn unig, ac hefyd i ddefnyddio fersiynau Cymraeg enwau strydoedd a phentrefi yn unig wrth ohebu gyda'r cyhoedd.

Mae'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi creu rhestr gyfeiriadau hawdd ei defnyddio er mwyn i staff allu gwirio enwau strydoedd Cymraeg yn rhwydd, ac mae adolygiad o systemau TG wedi ei gychwyn gan yr uned i wirio bod pob system sydd yn anfon gohebiaeth yn awtomatig yn gallu defnyddio cyfeiriadau Cymraeg yn unig.

Enwau Tai:
Mae'r swyddog prosiect wedi gweithio yn agos gyda swyddogion Rheolaeth Adeiladu i gynnig cyngor a chefnogaeth wrth brosesu ceisiadau i newid enwau tai. Wedi ymgynghori ar 43 cais newid enw tŷ yn ystod y flwyddyn. Mae canllawiau syml wedi eu creu er mwyn esbonio'r broses a'r disgwyliadau o ran defnyddio enwau Cymraeg i'r cyhoedd ac mae sesiwn hyfforddi ar y gweill i ddatblygu arbenigedd staff o ran cynghori y cyhoedd ar ddefnyddio enwau Cymraeg.

Enwau strydoedd, pentrefi ac aneddleoedd:
Mae rhaglen waith hir dymor wedi ei llunio er mwyn edrych ar y cyfleoedd i gynyddu gweledd y Gymraeg ar strydoedd y sir, ac i allu gosod mwy o arwyddion uniaith Gymraeg. Mae gwaith ymchwil cychwynnol wedi ei wneud i fapio'r prosesau yn fanwl ac i ddeall beth sydd yn bosib yn gyfreithiol.

**Prosiect 5c** — **Enwau Llefydd Cynhenid Gymreig**

Dros y misoedd nesaf byddwn yn treialu cynlluniau bychan gyda chynghorau cymuned er mwyn asesu pa newidiadau a ellir eu gwneud ar lefel sirol.

Nodweddion daearyddol:
Cafodd Map rhyngweithiol Enwau Lleoedd ei lansio yn ystod Medi 2022 i gofnodi enwau lleol, tafodieithol ac anffurfiol ar nodweddion daearyddol. Cafodd pecyn gweithgareddau ei ddatblygu i gyd-fynd efo'r map ac mae'r swyddog wedi bod yn cynnal gweithdai mewn ysgolion lleol –yn bennaf yn ardal Dwyfor – i gasglu a chofnodi'r enwau lleol. Ers lansio'r map, mae 9 ysgol wedi cynnal gweithdai. Yn ystod Chwefror 2023, rhannwyd erthygl gyda phapurau bro y sir hefyd, yn gwahodd cyfraniadau gan unigolion a grwpiau cymunedol oedd a diddordeb. O ganlyniad, mae bron 550 o enwau wedi eu cofnodi ar y map hyd yma.

Map Enwau Lleol
Mae nifer o weithgareddau yn cael eu trefnu ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, fydd yn rhoi sylw i enwau llefydd, ac i'r cydweithio ehangach sydd yn digwydd rhwng y Cyngor ac awdurdodau eraill a Llywodraeth Cymru ym maes enwau lleoedd.

Dylanwadu ar bartneriaid:
Dyma waith allweddol bwysig ar gyfer y prosiect, a maes lle mae disgwyliadau yn uchel gan y cyhoedd. Rydym yn ymwybodol bod disgwyliad ar y Cyngor i weithredu a dylanwadu, er enghraifft i geisio cael partneriaid megis yr Arolwg Ordnans i addasu mapiau, ond mae hefyd yn faes lle mae angen argyhoeddi a datblygu cyd-ddealltwriaeth yn hytrach na gorfodaeth. Mae nifer o gyfarfodydd adeiladol wedi eu cynnal gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys yr Arolwg Ordnans, Comisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Yn sgil y trafodaethau gyda'r Comisiynydd Iaith a Llywodraeth Cymru, er enghraifft, llwyddwyd i sicrhau'r hawl i bentrefi a threfi gael arwyddion 'Croeso' uniaith Gymraeg am y tro cyntaf!
Mae'r cyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth Cymru wedi arwain at sefydlu fforwm genedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru, fydd yn rhannu arferion da ac annog cydweithio er mwyn datblygu gwaith yn y maes ar lefel genedlaethol.

Cyffredinol / Codi ymwybyddiaeth:
Mae'r prosiect wedi bod yn cael cryn sylw yn gyhoeddus, gyda'r swyddog prosiect yn cynnal nifer o sgyrsiau ar Radio Cymru i godi ymwybyddiaeth am y gwaith ac hefyd yn rhannu pytiau ysgafn am enwau lleoedd mewn postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol – megis casglu enghreifftiau o enwau yn cynnwys rhifau. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i godi ymwybyddiaeth staff y Cyngor, mewn ffordd ysgafn a hwylus, o ystyr enwau lleol, gydag eitem reolaidd yr Enw a'r Hanes yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd.

Amcanion Llesiant:

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

| Prosiect 5ch | Hybu Defnydd o'r Gymraeg Ymysg Plant a Phobl Ifanc |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae sgiliau a hyder dysgwyr (o gartrefi di-Gymraeg yn arbennig) yn y Gymraeg wedi dirywio yn sgil y cyfnod clo a Covid-19.

Yn 2021/22 rydym wedi llwyddo i sefydlu gwaelodlin o sefyllfa bresennol y Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo a Covid-19 ac rydym wedi dechrau cefnogi ysgolion i lunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu er mwyn ymateb i'r sefyllfa.

Yn ystod y broses o osod gwaelodlin, gwelsom fod pryder am sgiliau llafaredd a hyder disgyblion yn y Gymraeg yn cael eu hamlygu. Byddwn yn ymateb i'r pryderon hyn fel blaenoriaeth yn 2022/23 trwy gynorthwyo ysgolion i gefnogi sgiliau llafaredd a hyder disgyblion. Byddwn yn darparu hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol i athrawon a chymorthyddion ac yn cyd-weithio gydag ysgolion unigol i lunio cynlluniau gweithredu i ymateb i'r anghenion.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Yn ystod y flwyddyn bu llunio, ymgynghori a chyhoeddi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a ddaeth yn weithredol o 1 Medi 2022 am gyfnod o 10 mlynedd. Yn Ionawr 2023, cyflwynwyd Cynllun Gweithredu i Lywodraeth Cymru yn manylu ar y camau gweithredu ar gyfer pob deilliant.

Mae'r drefn anstatudol o gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi ei chyflwyno ym Medi 2022 gyda'r bwriad o adrodd trwy'r CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC: Pupil Level Annual School Census) yn Ionawr 2024, fel y gwnaethpwyd gyda'r categorïau blaenorol sydd wedi bodoli ers 2007. Bydd ysgolion yn cael arweiniad manylach o safbwynt yr hyn sy'n ofynnol yng nghyd-destun adrodd ar hyn gan Lywodraeth Cymru maes o law. Pwysleisir mai proses weinyddol i ysgolion i bob pwrpas yw nodi'r categori.

Yn ystod y flwyddyn bu i'r Adran weithio mewn partneriaeth gydag Ysgol Friars i'w cefnogi i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg a chefnogi staff i ddatblygu a gwella eu sgiliau yn y Gymraeg. Penodwyd athrawes Gymraeg yn Ysgol Friars i ddarparu'r gefnogaeth, ac yn sgil arfarniad cychwynnol o gynnydd, mae'r Adran yn hapus fod yr Ysgol yn gwneud cynnydd. Bydd y bartneriaeth hon yn parhau am y ddwy flynedd nesaf yn amodol ar gynnydd derbyniol gan yr ysgol.

Penodwyd athrawes brofiadol er mwyn gweithio efo 3 ysgol gynradd yn nalgylch Bangor i wella a grymuso'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen. Bu'r athrawes yn cydweithio hefo staff y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Ein Harglwyddes, Ysgol Hirael ac Ysgol Glancegin i gynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg o fewn egwyddorion dysgu ac addysgu'r Cyfnod Sylfaen. Er mai dim ond ers 1 Ionawr 2023 y mae'r adnodd mewn lle, hyd yma mae'r adborth gan yr ysgolion i'r cynllun wedi bod yn gadarnhaol iawn.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.

# Blaenoriaeth Gwella 6
# Helpu pobl sydd angen cefnogaeth i fyw eu bywydau fel y dymunant.

Rydym fel Cyngor yn darparu gofal yn uniongyrchol i blant a'u teuluoedd a phobl sydd angen cymorth arbenigol, ond ein gweledigaeth yw bod pawb o bob oedran yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen yn y ffordd fwyaf addas a chyfleus iddyn nhw.

Gan fod anghenion pob unigolyn a theulu yn siŵr o fod yn wahanol, er mwyn iddynt barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant mae angen i ni fel Cyngor addasu ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth. Er mwyn llwyddo, bydd angen i ni barhau i gydweithio â darparwyr eraill, megis y Bwrdd Iechyd, gan gofio rhoi anghenion yr unigolyn yn ganolog bob tro. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol
- Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal
- Strategaeth Cadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd
- Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth
- Sicrhau fod teuluoedd a phlant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd.

Yn 2021/22, sefydlwyd grŵp tasg er mwyn edrych ar 'gwir gost gofal' ac mae'r wybodaeth ddechreuol wedi amlygu bwlch ariannol, rhwng y ffioedd cyfredol mae'r Cyngor yn gallu ei gynnig a ffioedd cartrefi nyrsio a phreswyl sy'n yn golygu nad ydi trigolion yn cael cynnig dewis eang o gartrefi gofal yn eu cymunedau. Yn ystod y flwyddyn rydym hefyd wedi cynnal ymgynghoriad cyn-gynllunio ar gyfer safle gofal Nyrsio ym Mhenrhos, adeiladu Uned Dementia ychwanegol yn ein Cartref Gofal yn Bermo a dechrau'r gwaith er mwyn addasu'r Canolfan Dolfeurig i unigolion gydag anabledd dysgu yn Nolgellau.

Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau byddwn yn ystod 2022/23 yn:
• ceisio deall "gwir gost gofal" er mwyn ystyried opsiynau posib ar gyfer ein trefniadau comisiynu gofal i'r dyfodol
• parhau i symud ymlaen gyda'r prosiect Safle Penrhos er mwyn cyfarch yr angen am ddarpariaeth gwlâu Nyrsio Mhen Llŷn. Ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, byddwn yn ystod y flwyddyn yn glir ar yr opsiynau sydd gennym o ran y modelau darparu posib fyddai yn ein galluogi i gael rôl uniongyrchol yn darparu gofal Nyrsio ar y safle
• gweithio tuag at gynyddu nifer y gwelyau dementia yn y sir ymhellach
• ystyried a yw'n gwasanaethau cefnogol e.e. gofal dydd ac ysbaid yn parhau'n addas er mwyn cwrdd ag anghenion pobl Gwynedd, neu os oes angen i ni wneud rhywbeth yn wahanol
• addasu ein hadeiladau darparu gofal er mwyn gallu cwrdd â mesurau rheoli haint ychwanegol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i wella safon ein darpariaeth gofal ar draws y sir. Yn ystod 2022/23 byddwn yn:
• agor uned dementia pwrpasol sydd wedi'i gwblhau yn Llan Ffestiniog, ond sydd heb allu agor hyd yma oherwydd argyfwng Covid-19
• agor uned dementia pwrpasol yn ein cartref gofal yn Bermo
• gwneud defnydd o'r addasiadau sydd wedi cael eu gwneud i'n cartref gofal yn Nolgellau er mwyn cynnig gofal pwrpasol ar gyfer unigolion sydd ag anghenion corfforol dwys
• agor y ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli, a pharhau gyda'r gwaith o adnabod cyfleon am ddatblygiadau tebyg mewn rhannau eraill o'r sir gyda blaenoriaeth i ardal Dolgellau a Meirionnydd yn ehangach
• cryfhau ein gwasanaethau sicrwydd ansawdd i sicrhau cefnogaeth ddigonol i ddarparwyr gofal i'w helpu i gynnal gwasanaeth o safon i drigolion Gwynedd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Buom yn rhan o waith i baratoi ffi rhanbarthol preswyl a nyrsio ar gyfer 2023/24. Daethom wedyn i benderfyniad ar ein ffioedd safonol a'u cyfathrebu gyda'r cartrefi, ac roedd hynny'n cynnwys cynnal ffioedd uwch na'r awgrym rhanbarthol er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r prinder lleoliadau dementia/nyrsio. Rydym wrthi'n cynnal ymarferiad 'open book' gyda darparwyr sy'n gwrthod ein ffi safonol ac yn cydweithio er mwyn ceisio cyrraedd datrysiad.

Cymeradwyodd y Cabinet a'r Bwrdd Iechyd yr achos busnes strategol ar gyfer datblygu gwlâu nyrsio ar y cyd ar safle Penrhos, ger Pwllheli. Rydym wedi cyflwyno'r achos busnes i Lywodraeth Cymru bellach er mwyn derbyn cadarnhad o'u cyfraniad ar y cynllun.

Yn anffodus, nid ydym wedi gallu cyflawni ein holl gynlluniau o safbwynt darpariaeth gwelyau dementia:

- angen cwblhau gwaith adeiladu er mwyn gallu agor ein hunedau yn y Bermo a Bangor
- diffyg lefelau staff digonol yn ein cartref yn Llan Ffestiniog yn golygu bod ein huned dementia yno yn parhau i fod heb ddefnydd. Rydym wedi gwneud cryn ymdrechion i recriwtio yn yr ardal a rydym yn rhan o brosiect corfforaethol Cynllunio'r Gweithlu er mwyn sicrhau sylw penodol i'r maes gofal fel rhan o'r gwaith hwnnw. Rydym hefyd wedi ail-arfarnu swyddi ar draws y maes gofal er mwyn rhoi codiad cyflog i'n staff gan obeithio y bydd hyn yn cynorthwyo.

Byddwn yn parhau i roi sylw i'r gwaith yma fel rhan o'n blaenoriaethau ar gyfer 2023/24 ac, yn y cyfamser, rydym yn ystyried yr opsiynau o ddefnyddio rhai gwelyau fel rhai preswyl er mwyn gallu gwneud defnydd ohonynt. Rydym hefyd yn awyddus i gymryd unrhyw gyfleon sy'n cynnig eu hunain o ganlyniad i unedau gwag i fedru cwblhau gwaith uwchraddio ar rannau hŷn ein cartrefi hefyd.

Mae darpariaeth gofal ysbaid wedi ail-ddechrau'n yn ein cartrefi preswyl, ac mae'n canolfannau dydd wedi ailagor ym Mangor a Thywyn. Rydym hefyd wedi gallu addasu gofod yn ein cartref ym Mhwllheli ar gyfer darpariaeth gofal dydd. Fodd bynnag, nid yw'r canolfannau dydd wedi ailagor yn Ffestiniog a Chricieth a byddwn yn ailedrych ar y ddarpariaeth ac mae gweithdy wedi ei drefnu i drafod a chytuno ar raglen waith.

Cafodd ein cartrefi preswyl anabledd dysgu ym Mhwllheli waith i'w galluogi i fedru cwrdd â mesurau rheoli haint ychwanegol. Roedd y gwaith yn cynnwys estyniad ac ardal werdd.

Rydym yn gwneud defnydd o'r addasiadau yn ein cartref yn Nolgellau erbyn hyn, ond dylid nodi bod problemau'n parhau yn y cartref hwn o ganlyniad i fethu â denu cwmnïau addas i gwblhau'r gwaith o drwsio'r lifft. Mae hyn yn golygu nad oes modd cael mynediad at bum ystafell wely. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Tai ac Eiddo i fedru cwblhau'r gwaith ac yn rhoi sylw i'r mater yma'n rheolaidd fel rhan o'n trefniadau herio perfformiad.

O safbwynt Tai Gofal Ychwanegol, mae oedi sylweddol wedi bod ar y gwaith adeiladu ym Mhwllheli ac ar hyn o bryd nid oes eglurder ar yr amserlen ar gyfer agor yr adeilad. Rydym wedi bod mewn trafodaethau gydag Adra yn ystod y flwyddyn ar yr union fodel gofal ac yn gytûn mai Tai Gofal Ychwanegol Ysgafn sydd fwyaf addas ar gyfer y safle hwn. Byddwn hefyd yn edrych i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol llawn ar gyfer yr ardal hon ar safle Penrhos. Yn ogystal, yn dilyn darn o waith i ddiweddaru'r ardaloedd o flaenoriaeth ar gyfer datblygiadau o'r fath, rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu yn Nolgellau a Chaernarfon.

Rydym yn parhau i weithio gyda'r Adran Tai ac Eiddo ar adnabod safle addas yn Nolgellau ac mae gwaith ar y pecyn tir wedi ei ddechrau ar gyfer safle sydd wedi ei adnabod yng Nghaernarfon.

Oherwydd prinder swyddi a chyllid mae'n heriol cyrraedd yr holl ddarparwyr ac i barhau i fonitro sefyllfa yn dilyn adnabod diffygion. Rydym wedi gweithio ar gryfhau trefniadau adrodd ar berfformiad y gwasanaeth hwn er mwyn galluogi penderfyniadau gwybodus ar strwythur a gwaith y tîm yn effeithiol i'r dyfodol. Mae'r holl brosiectau uchod wedi parhau o fewn ein blaenoriaethau gwella ar gyfer Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau



**Prosiect 6b** — **Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal**

### Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?

Mae anghenion gofal y sir yn newid, ac rydym wedi bod yn cydweithio â'r Bwrdd Iechyd i drawsnewid ein gwasanaethau cymunedol. Mae angen i ni hwyluso gallu ein staff ni a staff y Bwrdd Iechyd i gydweithio fel un tîm o fewn ardaloedd penodol. Bydd hyn yn arwain at sicrhau mai un pwynt cyswllt fydd gan unigolion sydd angen cymorth iechyd a gofal yn y gymuned er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau a gwasanaeth di-dôr. Rydym hefyd yn gweithio i newid ein ffordd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir er mwyn hwyluso'n gallu i sicrhau fod y gofal wedi'i deilwro yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

Yn 2021/22, symudwyd nifer o dimau gofal cartref y Cyngor i weithio patrymau shifft ac fe gychwynnodd y gwaith o hyfforddi staff i fedru gweinyddu meddyginiaeth, sy'n cynnig gwell sefydlogrwydd i staff a hyblygrwydd i'r unigolion sy'n derbyn gofal. Yn ogystal, mae'r Hwb Iechyd Meddwl Cymunedol ym Mhwllheli wedi ailagor yn dilyn iddo orfod cau yn sgil argyfwng Covid-19 ac rydym wedi sefydlu hybiau lleisiant yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog, er mwyn rhoi cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i unigolion hyd at 25 oed.

Yn ystod 2022/23, byddwn yn:

- parhau i arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd) i allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol
- gweithredu a sefydlu model newydd gofal cartref gan ddechrau profi manteision y newid er lles trigolion Gwynedd.
- parhau i gryfhau'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, yn cynnwys datblygu gwasanaeth symud a thrin arbenigol i alluogi unigolion i fyw mor annibynnol â phosib
- ychwanegu at y rhwydwaith o hybiau cymunedol sy'n cefnogi a chreu cyfleon i unigolion gydag anableddau dysgu trwy gychwyn ar y gwaith adeiladu i addasu Canolfan Dolfeurig yn Nolgellau
- cytuno ar y ffordd fwyaf addas i ddiwallu anghenion llesiant unigolion mewn modd ataliol yng Nghaernarfon, fydd yn ddarpariaeth cymunedol i holl oedolion yr ardal.
- profi'r y budd o gael hybiau llesiant i bobl hyd at 25 oed yn Gaernarfon a Blaenau Ffestiniog. Bydd y ddarpariaeth fydd ar gael yn cynnig cefnogaeth emosiynol ac ymarferol i unigolion.
- ychwanegu at yr opsiynau llety addas ar gyfer unigolion gydag Anableddau Dysgu i annog byw yn annibynnol, yn hytrach na ariannu lleoliadau drud all-sirol.
- ymgymryd a gwerthusiad dechreuol o ddarpariaeth iechyd meddwl a ddarperir gan y Cyngor fel sail i adolygiad o beth fydd ei angen yng nghyd-destun cynnydd yn y galw ac effeithiau pandemig Covid-19
- cydweithio hefo Iechyd a phartneriaid trydydd sector i sicrhau cysondeb o ran mynediad i wasanaethau iechyd meddwl addas ar draws y Sir fel bod unigolion yn derbyn cymorth amserol.

### Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?

Rydym wedi cydweithio â Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn trefnu rhaglen hyfforddiant cynhwysfawr ar gyfer ein timau integredig, a cyflwynwyd dau sesiwn hyfforddiant cydweithredol rhwng Ionawr a Mawrth 2023. Mae sesiynau hyfforddiant pellach o safbwynt eiriolaeth a gweithdrefnau diogelu wedi eu trefnu ar gyfer yn fuan yn 2023/24 ac rydym wedi bod yn cynllunio gweithdai fesul tîm i gytuno ar raglen waith i symud yr agenda yn ei blaen.

Rydym wedi llwyddo i drosglwyddo i'r model gofal cartref newydd mewn sawl ardal ond mae anawsterau recriwtio wedi llesteirio'r ymdrechion mewn ambell i ardal. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roeddem wedi trefnu cyfres o sesiynau er mwyn cychwyn meithrin perthynas waith rhwng grwpiau cymunedol/mentrau cymdeithasol amlwg â'r timau lleol.

Rydym wedi gallu penodi tri hyfforddai therapi galwedigaethol ac wedi penodi i swyddi yn y gwasanaeth symud a thrin. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi colli therapyddion profiadol i sefydliadau eraill yn ystod y flwyddyn ac felly mae swyddi gwag wedi parhau o fewn y gwasanaeth. Er mwyn ceisio cyfrannu at y bwlch, rydym wedi penodi ymarferwyr gwaith cymdeithasol dros dro er mwyn cefnogi gydag asesiadau llai cymhleth.

Cyflwynwyd cais cynllunio ar gyfer addasu Canolfan Dolfeurig, Dolgellau i'r Parc Cenedlaethol ym mis Chwefror a cafwyd adborth positif ar y cyfan gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, staff a thrigolion yr ardal mewn sesiwn ymgysylltu a gynhaliwyd ar y cynlluniau.

Rydym wedi ail-fodelu'r ddarpariaeth hybiau cymunedol yn ardal Arfon i geisio diwallu anghenion llesiant unigolion mewn modd ataliol; gan sefydlu hwb hyfforddiant a chyfleon gwaith yng Nghegin Arfon (Canolfan Byw'n Iach Arfon) a chynnal siop Galwch Acw fel safle ar gyfer grwpiau a gweithgareddau yn cynnwys creu a gwerthu nwyddau. Yn ogystal, rydym wedi ailgychwyn cynnal grwpiau yng nghanolfan dydd Plas Hedd ac yn gwneud defnydd rheolaidd o safle Tŷ Prysur i ddarparu cefnogaeth 1 i 1 i unigolion ddatblygu sgiliau.

Yn dilyn gweld cynnydd yn yr hybiau llesiant ICAN yn sgil y crisis costau byw, roedd yn fwriad gan y Bwrdd Iechyd ddatblygu hybiau llesiant i bobl hyd at 25 oed, ac roedd cynllun ar y gweill hefyd i ddatblygu hwb yn benodol i unigolion yn y byd amaeth. Gobeithir gweld cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer y datblygiadau hyn yn ystod y flwyddyn hon.

Mae nifer o opsiynau wedi eu hadnabod yn ystod y flwyddyn er mwyn ychwanegu at yr opsiynau llety addas i unigolion ag Anableddau Dysgu; gan gynnwys safleoedd yn Arfon, Meirionnydd a Llŷn. Ar ddiwedd Mawrth 2023 roeddem wedi cychwyn ar waith addasu eiddo yn y Groeslon ac yn parhau i drafod posibiliadau yn Nefyn, Tywyn, Penrhyndeudraeth, Harlech a Dolgellau. Mae bwriad i fod yn darparu llety ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu yn yr hir dymor fel rhan o'r ddarpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yng Nghaernarfon hefyd.

Comisiynwyd gwaith i gynnal gwerthusiad dechreuol o'n darpariaeth iechyd meddwl, ac yn dilyn derbyn adroddiad ar opsiynau posib a chynnal trafodaethau mewn perthynas â chynllunio'r gwaith, paratowyd papur opsiynau i'w drafod â'r aelodau Cabinet yn gynnar yn 23/24. Bydd adroddiad i gynnig ffordd ymlaen yn destun adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn mis Mehefin 2023.

Rydym wedi adolygu ein cytundebau gyda'r canolfannau adnodd iechyd meddwl er mwyn rhoi pwyslais ar lesiant unigolion yn hytrach na materion iechyd meddwl yn unig. Mae gwaith hefyd wedi ei gynllunio er mwyn cynnal adolygiadau pellach o sut mae'r gefnogaeth wedi newid yn ystod ac yn dilyn y pandemig.

Amcanion Llesiant:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae rhai teuluoedd angen cefnogaeth benodol ar adegau i'w helpu i fagu plant fel bod y plant hynny yn gallu aros gyda'u teulu, yn ffynnu, yn iach, ac yn ddiogel. Nid oes plant yn dod i ofal yn ddi-angen yng Ngwynedd ac rydym am sicrhau nad yw hynny yn digwydd.

Weithiau, mae'n orfodol fod plentyn yn dod i'n gofal oherwydd ei bod yn beryglus iddynt aros gartref. Mae ein trefniadau a'n penderfyniadau pan fo hynny'n digwydd yn seiliedig ar risg ac anghenion y teulu. Pan mae plentyn yn dod i ofal mae angen gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn derbyn gofal briodol, addas a lleol; a'u bod nhw a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi fel bod y plentyn yn gallu dychwelyd at ei deulu.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:
• prif-ffrydio y dysgu o'r prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol yn rhan o ymarfer ein gweithwyr ar draws ein gwasanaethau sef cynnal sgyrsiau cydweithredol gyda teuluoedd sy'n rhoi ffocws ar y newid sydd ei angen i leihau'r risg o niwed arwyddocaol; cefnogi ymarferwyr i adlewyrchu'n barhaus ar eu hymarfer.
• gweithredu ar y gwelliannau yr ydym wedi eu hadnabod drwy'r ymarfer Ffordd Gwynedd i wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut yr ydym yn gweithio, er mwyn rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen i deuluoedd. Byddwn yn canolbwyntio ar drefniadau cyfathrebu rhwng gwasanaethau, cryfhau gweithdrefnau cydweithio ac adolygu'r prosesau yr ydym wedi eu hadnabod sy'n aneffeithiol.
• adolygu'n gweithdrefnau ar y cyd gyda'n partneriaid er mwyn symud tuag at ddull 'dim drws anghywir' wrth ymateb i anghenion llesiant emosiynol a iechyd meddwl plant a phobl ifanc ("No Wrong Door" - Strategaeth Gymunedol Ranbarthol ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc 2022-2027).

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Yn ystod 2022-23 rydym wedi sicrhau arian allanol ar gyfer parhau gyda Rhaglen "Amddiffyn Plant yn Effeithiol" i helpu gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau o gynnal sgyrsiau cydweithredol gyda theuluoedd i'w helpu nhw wneud y newid sydd ei angen i ddiogelu eu plant. Y bwriad oedd i gydweithio ar draws siroedd eraill Gogledd Cymru i'w cynorthwyo i fabwysiadu'r rhaglen ond mae heriau recriwtio i'r rôl Mentor Ymarfer yn parhau.

Mae teuluoedd wedi dweud wrthym beth fyddai'n gwella'r gefnogaeth ac rydym wedi bod yn gwrando arnynt a gwneud y gwelliannau hynny. Rydym wedi mynd ati i weithio gyda gwasanaethau eraill yn y Cyngor a thu hwnt ar wella dealltwriaeth o drefniadau cyfeirio hefyd.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda nifer o bartneriaid drwy gyfres o weithdai i sefydlu egwyddorion "drws cywir" yn ein gwasanaethau. Byddwn yn cytuno ar drefniadau lleol i'r strategaeth "drws cywir" yn ystod 23-24 fel bod plant a pobl ifanc sydd ag anghenion llesiant emosiynol yn cael mynediad at y gefnogaeth sydd ei angen arnynt yn amserol.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau

| Prosiect 6ch | Sicrhau darpariaeth arbenigol briodol leol ar gyfer plant gydag anghenion cymhleth |
| --- | --- |

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae rhai plant a phobl ifanc sy'n dod i'n gofal gydag anghenion cymhleth a dwys. Mae rhai o'r plant hyn yn gorfod derbyn gofal a chefnogaeth mewn lleoliad drud y tu allan i Wynedd neu Gymru ac ymhell o'u teulu a'u cymuned. Rydym am sicrhau bod gennym amrywiaeth a digon o leoliadau addas ar gael yn lleol, a bod gennym weithwyr a chefnogaeth arbenigol yn lleol ar gyfer anghenion y plant hyn.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- • gwerthuso'r tîm amlddisgyblaethol sydd wedi ei beilota ar y cyd gyda phartneriaid i gefnogi plant gydag anghenion cymhleth a'u teuluoedd
- • gweithredu ar y gwerthusiad opsiynau ar gyfer adnabod darpariaeth breswyl yn lleol i blant gydag anghenion cymhleth
- • manteisio ar ymgyrch Maethu Cymru i gynyddu niferoedd gofalwyr maeth drwy recriwtio a rhoi adnoddau i asesu gofalwyr ar gyfer sicrhau digon o leoliadau.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Rydym wedi cwblhau gwerthusiad o'r Tîm Amlddisgyblaethol oedd yn bodoli ar y cyd gyda Chyngor Môn a'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cefnogi plant gydag anghenion cymhleth. Erbyn hyn rydym wedi dysgu o lwyddiannau'r tîm hwnnw ac wedi sefydlu rolau ychwanegol o fewn ein gwasanaethau ein hunain i ychwanegu gwerth i'r gefnogaeth y gallwn ei gynnig. Mae'r swyddi sy'n weddill yn cael eu datblygu wrth ystyried ein trafodaethau a chynlluniau ynghylch ein hymateb i'r strategaeth 'Drws Cywir'.

Rydym wedi cychwyn ar y gwaith o sefydlu Cartrefi Grŵp Bychain fel y gall plant ag anghenion cymhleth aros o fewn eu cynefin i dderbyn y gofal a'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt. Rydym yn y broses o adnabod eiddo addas. Byddwn yn mynd ati i gwblhau'r gwaith angenrheidiol a fydd yn arwain at gofrestriad o'r gwasanaeth fel cartref plant.

Ers lansio ymgyrch genedlaethol Maethu Cymru yn 2021-22 rydym wedi parhau i hyrwyddo a chefnogi'r ymgyrch honno yn lleol er mwyn denu a recriwtio rheini maeth newydd. Rydym hefyd wedi defnyddio cyfryngau gwahanol i ddathlu a codi ymwybyddiaeth o fuddion maethu a'n rheini maeth yma yng Ngwynedd.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau.

| Prosiect 6d | Sicrhau fod teuluoedd a phlant ag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt |
| --- | --- |

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae plant a phobl ifanc sydd ag awtistiaeth a gallu sgiliau uchel; a phlant sydd ag awtistiaeth a dim anabledd dysgu, yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at y gefnogaeth arbenigol sydd ei hangen arnynt. Mae profiad y plant yma a'u teuluoedd yn dangos bod lle i wella ein trefniadau asesu presennol; bod bylchau mewn darpariaeth a bod angen help arnynt yn y cyfnod trosglwyddo i wasanaethau eraill megis oedolion ac iechyd.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:

- mabwysiadau Cynllun Awtistiaeth sy'n dangos sut yr ydym am wella ein trefniadau cydweithio a mynd ati i lenwi'r bylchau sydd wedi eu hadnabod
- monitro gweithrediad y cynllun drwy'r Bwrdd Amlasiantaethol Awtistiaeth Lleol sy'n dod a'r Bwrdd Iechyd, partneriaid trydydd sector ac adrannau'r Cyngor ynghyd
- sicrhau adnoddau ar gyfer creu'r rolau sydd wedi eu hadnabod drwy'r cynllun ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc awtistig yn y cyfnod trosglwyddo o blentyndod i oedolyn, a gyda'r cyfnod pan maent yn disgwyl asesiad awtistiaeth
- cyflwyno rhaglen hyfforddiant i weithwyr mewn gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol i godi ymwybyddiaeth am awtistiaeth a'r cynllun lleol

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae Bwrdd Aml-asiantaethol Awtistiaeth wedi datblygu a mabwysiadu Cynllun Awtistiaeth, ac wedi mynd ati yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r rhaglen waith. Rydym wedi penodi Cydlynydd Awtistiaeth i arwain ar y gwaith hwn. Roedd y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys datblygu a darparu rhaglen hyfforddiant i weithwyr; cyfres o ddigwyddiadau lleol i deuluoedd gan Wasanaeth Awtistiaeth Gogledd Cymru, ac ymweliadau gan y Bws Awtistiaeth gyda rhannau gwahanol o'r sir. Mae trefniadau hefyd ar waith i benodi i bedair swydd i'r tîm a fydd yn cryfhau ein gallu i ymateb i anghenion y boblogaeth.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau



# Blaenoriaeth Gwella 7
# Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Cyngor eisoes yn cyflawni amrediad eang o weithgareddau, sy'n ceisio sicrhau ein bod yn cyflawni'r weledigaeth sydd gennym. Ond nid da lle gellir gwell, rydym yn cydnabod fod yna enghreifftiau lle nad ydym yn edrych ar bethau drwy lygaid ein trigolion bob tro, ac mae angen sicrhau fod hynny'n digwydd ymhob man o fewn y Cyngor.

Nid yw hynny yn golygu gwneud pob dim i bawb wrth gwrs, gan nad yw adnoddau yn caniatáu i ni wneud hynny. Mae'n golygu ein bod yn blaenoriaethu'r pethau hynny sydd bwysicaf i'n cymunedau, ac yn sicrhau bod yr adnoddau prin sydd gennym yn cyfrannu at wneud yr hyn sydd bwysicaf i bobl Gwynedd (gan dderbyn y bydd y blaenoriaethu, yn anochel, yn golygu peidio â chyflawni dyheadau pawb).

Mae'r pwyso a mesur yma hefyd yn gorfod digwydd ar adeg pan fo'r arian sydd ar gael i wasanaethau yn lleihau'n sylweddol. Yn hynny o beth, bydd angen sicrhau fod yr arian yn cael ei ddefnyddio i gyflawni'r pethau pwysicaf. Y prosiectau sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma yw:

- Gweithredu Rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (Arfogi unedau i roi "Ffordd Gwynedd" ar waith)
- Sicrhau bod rheolwyr yn arddel eu rôl Iechyd a Diogelwch yn effeithiol
- Cynllunio'r Gweithlu
- Cyflawni Arbedion
- Cryfhau Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Cymunedau Glan a Thaclus
- Capasiti Gwarchod y Cyhoedd

| Prosiect 7a | Gweithredu Rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (Arfogi unedau i roi “Ffordd Gwynedd” ar waith) |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Ein cyfrifoldeb ni fel Cyngor yw sicrhau, wrth i ni ddarparu ein gwasanaethau, mai anghenion pobl Gwynedd sy'n llywio sut y byddwn yn cynnig y gwasanaethau hynny. Trwy wneud hyn fe ddylem osgoi unrhyw drefniadau gwaith diangen. Rydym eisoes yn herio timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac ystyried a oes lle i wella.

Cefnogwyd rheolwyr i ddeall y cyswllt agos rhwng diwylliant Ffordd Gwynedd a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae swydd-ddisgrifiadau diwygiedig wedi'u cytuno arnynt ar gyfer rheolwyr ac arweinyddion tîm yn ogystal â gweddill staff y Cyngor sydd yn cadarnhau'r ymddygiadau disgwyliedig ohonynt.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:
• adolygu canlyniadau hunan-asesiad o sut mae dulliau gwaith a'r diwylliant yn gwreiddio gan adnabod rhaglen waith ar gyfer gyrru'r diwylliant hwnnw yn ei flaen ymhellach fyth
• ail-afael yn yr adolygiadau gwasanaeth hynny sydd wedi'u hoedi yn sgil yr argyfwng Covid-19.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Llynedd, cynhaliwyd hunanasesiad ym mhob adran o'r Cyngor o'r graddau yr arferir egwyddorion Ffordd Gwynedd a'r rhwystrau wrth geisio'u hymarfer. Ar sail y wybodaeth a gasglwyd, crëwyd strategaeth Ffordd Gwynedd newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28, ac fe'i cymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ar 07.03.23. Mae'r ddogfen yn adeiladu ar gynnwys y strategaeth Ffordd Gwynedd flaenorol (2019-22), ond yn cynnwys rhaglen waith ddiwygiedig wedi'i strwythuro o gwmpas naw ffrwd datblygu.

Y naw ffrwd datblygu yw:
1. Dysgu, Arbrofi a Gweithredu i wella.
2. Arweinyddiaeth.
3. Deall a Gwella Perfformiad.
4. Cefnogi a Datblygu.
5. Trawsnewid Digidol.
6. Cynllunio'r Gweithlu a Datblygu Talent.
7. Gwerthuso Parhaus.
8. Gweithlu Bodlon ac Iach.
9. Cyswllt â'r Cwsmer.

Mae'r naw ffrwd gwaith yn cynnwys cyfres o brosiectau sy'n cyfrannu tuag at y diwylliant.

Er mwyn rhoi'r strategaeth Ffordd Gwynedd ar waith, mae tri grŵp wedi'u sefydlu:

Y Grŵp Arweiniol: Pwrpas y grŵp hwn yw ystyried cynnydd y naw ffrwd datblygu ac adolygu'r cyfeiriad strategol yn ôl yr angen. Mae'n cynnwys aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

| Prosiect 7a | Gweithredu Rhaglen waith Cynllun Ffordd Gwynedd (Arfogi unedau i roi "Ffordd Gwynedd" ar waith) |
|---|---|
| Y Grŵp Swyddogion: Pwrpas y grŵp hwn yw cefnogi timau i ymgymryd ag adolygiadau gwasanaeth, i arwain a gyrru'r naw ffrwd datblygu, ac i hyrwyddo'r newid diwylliant sydd ar droed. Y grŵp hwn sy'n gyfrifol am wireddu'r cyfeiriad strategol, ac i'r diben hwn, mae'n gweithredu ar y newidiadau/addasiadau a gytunir arnynt gan y Grŵp Arweiniol. Mae'n cynnwys arweinyddion y naw ffrwd datblygu.<br><br>Y Grŵp Ymarferwyr: Pwrpas y grŵp hwn yw rhannu a chofnodi profiadau, arferion da a gwersi a ddysgwyd pan yn cynnal adolygiadau gwasanaethau. Bydd yn gyfle i unrhyw rai sydd eisoes yn ymarfer Ffordd Gwynedd i gynnig cefnogaeth a chysylltiadau defnyddiol i'r rhai hynny na sydd yr un mor gyfarwydd â'r diwylliant. Mae'n cynnwys swyddogion sydd eisoes yn ymgymryd ag adolygiadau, darpar ymarferwyr, ac ymgynghorwyr Ffordd Gwynedd. Mae'r ymgynghorwyr Ffordd Gwynedd hefyd yn parhau i gefnogi adolygiadau Ffordd Gwynedd mewn amryw o wasanaethau | |
| **Amcanion Llesiant:**<br><br>Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant. | |

| Prosiect 7b | Sicrhau bod rheolwyr yn arddel eu rôl Iechyd a Diogelwch yn effeithiol |
|---|---|

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae angen i ni sicrhau bod ein trefniadau gwarchod Iechyd a Diogelwch yn gadarn, a thra bod gennym drefniadau aeddfed o fewn y Cyngor mae gennym bryder bod yna bocedi lle mae yna gyfle i wella trefniadau gweithredol.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn edrych ar amcanion penodol ar gyfer yr elfennau a ganlyn a fydd, pan wedi eu cyfuno, yn greiddiol i fframwaith o reoli iechyd a diogelwch yn effeithiol, sef:

- arweinyddiaeth glir a gweledol ar faterion iechyd a diogelwch
- cael systemau effeithiol a chymesurol ble gellir cynhyrchu data byw a synhwyrol i gefnogi rheolaeth iechyd a diogelwch a chefnogi arloesedd
- cael y gweithlu (ar bob lefel) yn wybodus ac yn gymwys i'w rôl ac wedi eu hyfforddi yn y risgiau y maent yn wynebu yn y gwaith, gan sicrhau argaeledd at gyngor cymwys amserol i gynghori ar risgiau arbenigol / datblygiadau diweddaraf ac arloesol yn y maes
- creu rhwydwaith, strwythurau a chymuned ar gyfer ymgynghori, cyfathrebu a gwneud penderfyniadau ar faterion iechyd a diogelwch, nid yn unig yn fewnol, ond hefyd ymysg rhyng-ddeiliad megis y trydydd sector, contractwyr a chyflenwyr
- sefydlu cyfundrefn effeithiol o fonitro, dysgu o gamgymeriadau, gan ddatblygu ac esblygu yn barhaus.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Roedd y prosiect yma yn un a lithrodd o rhan rhaglen waith 2021-22 oherwydd pwysau gwaith ymateb i'r Pandemig, ac roedd yr un yn wir am fisoedd cyntaf y flwyddyn 2022/23. Serch hynny, rydym wedi ail gydio yn y prosiect ac wedi bod yn symud ymlaen gyda prif ffrydiau gwaith y prosiect tros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae briff wedi ei baratoi ar gyfer system feddalwedd iechyd a diogelwch gorfforaethol ac wedi mynd allan i'r farchnad am dri pris.  Hwn yw'r prif ffrwd gwaith wedi bod hyd yma gan fod diffygion yn y system bresennol yn llesteirio gallu cynhyrchu data o sylwedd i yrru gwelliant a thargedu ymyrraeth ble fo ei angen.

Mae adolygiad o lefel cymhwysedd pawb o fewn y Cyngor yn cynnwys yr Aelodau Etholedig, Tîm Rheoli Corfforaethol, a Rheolwyr wedi ei gynnal. Mae sawl cwrs wedi ei gynnal i Aelodau Etholedig. Mae cwrs ar Reoli'n Ddiogel wedi ei gynnal gyda Tîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor ac o ganlyniad i'r cwrs hwnnw mae adolygiad o drefn Fforymau Iechyd a Diogelwch Adrannol yn digwydd ym mhob Adran.

Cynhelir adolygiad o hyfforddiant pob Rheolwr ym mhob Adran ar hyn o bryd.   Mae hyn (ar y cyd ag oedi y rhaglen hyfforddi tros gyfnod Covid) wedi golygu fod cynnydd sylweddol am gyrsiau.

| Prosiect 7b | Sicrhau bod rheolwyr yn arddel eu rôl Iechyd a Diogelwch yn effeithiol |
|---|---|

| |
|---|
| Mae Strategaeth Llesiant drafft wedi ei llunio. Cynhaliwyd cynhadledd ar lesiant meddyliol i 180 o Reolwyr ddechrau'r flwyddyn, ble lansiwyd cyrsiau hyfforddiant rheolaeth llesiant meddyliol i Reolwyr. Mae'r gynhadledd wedi cyflawni'r nod o lansio'r sesiynau hyn gyda phob cwrs sydd wedi eu rhaglennu am y misoedd nesaf yn llawn. |
| **Amcanion Llesiant:**<br><br>Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant. |



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn.

Er bod Covid-19 wedi amlygu gweithlu effeithiol ac ymroddedig, mae'r cyfnod hefyd wedi amlygu heriau denu a chadw staff ar draws y Cyngor. Mae recriwtio i feysydd gofal a chefnogi teuluoedd yn benodol wedi profi yn anodd, gan beri risgiau i'n gallu i gyfarfod cyfrifoldebau statudol ar ran y Cyngor ym maes diogelu, gofal a chymorth.

Mae'n rhaid i ni sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol. Golyga hynny fod angen i ni edrych ar ein hymarferion recriwtio, hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu eu talent.
Sefydlwyd sicrwydd tymor hir ar gyfer y Cynllun Prentisiaethau a'r Cynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory yn ystod y flwyddyn a fu ac mae'r Cynllun Datblygu Talent mewnol wedi'i lunio fel fframwaith ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod 2022/23 byddwn yn:
• ymestyn y Cynllun Prentisiaethau i gynnwys niferoedd uwch o brentisiaid gan gydweithio efo cyflogwyr allanol lleol i ddarparu profiadau gwaith
• gweithredu'r Cynllun Datblygu Talent mewnol ar draws holl adrannau'r Cyngor
• parhau i gynnal ymgyrchoedd recriwtio lleol #GalwGofalwyr ar draws y sir, gan dreialu syniadau a dulliau newydd yn ogystal
• cydweithio'n agos hefo timau rheoli'r adrannau er mwyn cytuno ar drefniadau sefydlog i adnabod bylchau mewn sgiliau ac arbenigedd a ragwelir dros y 5-10 mlynedd nesaf ac i gymryd camau rhagweithiol i'w cyfarch
• edrych yn benodol ar y sefyllfa recriwtio yn y meysydd gofal cymdeithasol plant a gofal oedolion, gan edrych ar ffyrdd i gynyddu capasiti a gwydnwch ein gweithlu.

Fel rhan o'r gwaith i recriwtio, hyfforddi a meithrin talent staff, yn ystod 2022/23 bydd yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion a Llesiant yn cydweithio er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hwn.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae'r gwaith o ymestyn y Cynllun Prentisiaethau a gweithredu'r Cynllun Datblygu Talent yn parhau. Mae'r Tîm Talent a Phrentisiaethau wedi cychwyn ar y cylch diweddaraf o ddenu prentisiaid i wasanaethau'r Cyngor, yn ogystal â chychwyn ar y gwaith o ddenu 5 o hyfforddeion newydd i mewn i'r gweithlu trwy'r Cynllun Yfory. Mae gwaith cychwynnol wedi ei gyflawni ar ddatblygu cynllun profiad gwaith o'r newydd, ac mae'r cyfeiriad cyffredinol wedi derbyn cefnogaeth y Grŵp Prosiect.

Mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ar ddatblygu a chael trefn ar ein dealltwriaeth o natur y problemau recriwtio sy'n y Cyngor ar hyn o bryd. Mae'r cynllun peilot ar ddatblygu arferion a datrys materion cynllunio gweithlu tymor hir o fewn y Gwasanaeth Cynllunio yn parhau.

Cynhaliwyd tair ffair swyddi ar y cyd â'r Adran Economi ac Chymuned ac mae cynlluniau ar gyfer cynnal o leiaf dwy ffair gyffredinol arall.

Mae gwaith yn parhau ar greu cynnwys ar gyfer gwefan Gyrfaoedd bwrpasol ond llithrwyd yr amserlen wreiddiol ychydig.

Yn dilyn datrys rhwystrau technegol, mae trefniadau o'r newydd ar gyfer defnyddio holiaduron a chyfweliadau gadael ar draws y Cyngor ar fin cael ei lansio. Bydd gwybodaeth bellach i Reolwyr a staff am hynny dros yr wythnosau nesaf.

Mae data yn cael ei gasglu ar hyn o bryd gan ymgeiswyr am swyddi na fu iddynt gwblhau eu cais trwy'r broses ymgeisio safonol. Pwrpas casglu'r wybodaeth hon ydi deall yn well beth ydi barn darpar ymgeiswyr am eu profiad o ymgeisio am swydd.

**Amcanion Llesiant:**

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol da, sydd eisoes wedi adnabod llawer o arbedion effeithlonrwydd er mwyn isafu'r toriadau gwasanaeth i drigolion Gwynedd.

Mae'r gwaith sydd eisoes wedi ei gyflawni dros nifer o flynyddoedd yn awgrymu ein bod wedi cynaeafu cyfran helaeth o'r arbedion effeithlonrwydd sydd ar gael, ond mae angen parhau i fonitro cynlluniau cymeradwy holl adrannau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y swmp o'r arbedion arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Ar ôl cyfnod hir o ddarganfod a chyflawni arbedion, dros £32m yn y cyfnod ers 2015/16, mae'r cynlluniau bellach gymaint yn anoddach i'w gwireddu gyda phrosiectau effeithlonrwydd yn llawer mwy o waith na thorri gwasanaethau. Nôl yn Ionawr 2021 adolygwyd yr holl gynlluniau arbedion er mwyn asesu pa rai oedd yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion. Ymhellach, adolygwyd cynlluniau arbedion 2022/23 yn Ionawr 2022 er mwyn asesu y cynlluniau oedd yn ymarferol i'w gwireddu drwy ddileu ac ail-broffilio rhai o'r cynlluniau. Drwy'r trefniadau cadarn sydd gennym i fonitro sut y mae adrannau yn cyflawni arbedion, byddwn yn sicrhau bod y rhaglen ddiwygiedig yma yn cael ei chyflawni.

Mae'r rhagolygon ariannol ansicr ar gyfer 2022/23, fel sydd wedi ei fynegi yn yr adroddiad Strategaeth Cyllideb 2022/23 i Gabinet 28 Medi 2021, o ganlyniad i newidiadau i'r hinsawdd ariannol ac economaidd ynghyd â diffyg gwybodaeth. Yn wyneb yr ansicrwydd dylid cadw'r flaenoriaeth wella cyflawni arbedion ar gyfer 2022/23. Bydd adolygiad pellach o'r arbedion yn cael ei gynnal wrth sefydlu cyllideb 2022/23 i asesu cynlluniau sydd ddim yn gwireddu a rhai sydd yn cael eu hystyried i fod yn anodd ei chyflawni sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer 2022/23. Byddwn hefyd yn cefnogi adrannau gyda chostau trawsffurfio, wrth iddynt gyflwyno trefniadau gwaith newydd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Mae'r Adran Gyllid wedi parhau i adolygu'r sefyllfa yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiadau ffurfiol ar y Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Hydref 2022 a 26 Ionawr 2023, ac i'r Cabinet ar 25 Hydref 2022 a 24 Ionawr 2023.

Yn ogystal â hynny, mae cynnydd y Cynllun Arbedion wedi cael ei ystyried wrth adnabod bwlch ariannol yr awdurdod ar gyfer y cyfnod 2023 - 2025, ac wrth lunio camau i adfer y sefyllfa.

| Prosiect 7ch | Cyflawni Arbedion |
|---|---|

Yn ychwanegol i hynny, wrth gwrs, bu'n rhaid cyflwyno cylch newydd o arbedion wrth ymdrin â'r bwlch ariannol sydd yn ein hwynebu dros y blynyddoedd nesaf. Wrth osod cyllideb 2023/24, mae'r Cyngor wedi cydnabod argymhellion y Cabinet i gyflwyno gwerth £6.4miliwn o arbedion (heb gynnwys ysgolion) sydd i'w cyflwyno dros 3 blynedd, yn cychwyn 2023/24. Mae hynny'n ychwanegol i £0.95miliwn o arbedion oedd wedi cael eu hadnabod mewn blynyddoedd blaenorol, ac wedi llithro i 2022/23. Mae'n debygol iawn bydd angen adnabod arbedion pellach wrth i faint y bwlch ariannol ar gyfer 2024/25 a thu hwnt ddod yn fwy eglur. Bydd yr Adran Gyllid yn parhau i chwarae rhan flaenllaw yn cydweithio'n agos gydag aelodau a swyddogion ar draws y Cyngor wrth adolygu cynnydd ar y cynlluniau newydd.

**Amcanion Llesiant:**

Mae'r prosiect hwn yn newid y ffordd y mae staff y Cyngor yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i bobl Gwynedd, ac felly mae'n hanfodol er mwyn gwireddu'r holl amcanion llesiant.



**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Mae'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn weledol iawn gydag agweddau'r gwasanaethau yn cyffwrdd ar bob trigolyn drwy'r sir. Gellir ychwanegu gwerth at waith yr adran drwy gynlluniau cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol; er enghraifft ymgyrchoedd atal mân sbwriel neu faw ci, neu ymgyrchoedd a chanllawiau i annog ail ddefnyddio, ail bwrpasu a lleihau gwastraff. Mae hefyd yn hynod bwysig fod trigolion yn hyderus yng ngwasanaethau'r adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu hymdrin â nhw'n effeithiol.

Byddwn yn sicrhau bod trefniadau ymateb amserol ac ystyrlon mewn lle a byddwn yn:

- adolygu trefniadau cyfredol o gyfathrebu ac ymateb i ymholiad
- amlygu ble mae diffygion/llefydd gwella
- sefydlu grŵp tasg gyda chynrychiolaeth o swyddogion ynghyd â Galw Gwynedd
- adnabod mesurau er monitro.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Sefydlwyd Grŵp Tasg, gyda chynrychiolaeth o swyddogion Galw Gwynedd er adolygu ein trefniadau ymateb i ymholiadau cwsmer.

Mae'n bwysig i drigolion fod yn hyderus yng ngwasanaethau'r adran a bod eu pryderon ac ymholiadau yn cael eu hymdrin â hwy yn effeithiol ac amserol. Rydym yn y broses o lansio Prosiect Mapio Gwasanaethau, lle bydd asedau'r adran yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor. Yr asedau cyntaf i'w gosod ar y map rhyngweithiol fydd ein lampau stryd/biniau halen gyda'r bwriad o ehangu i gynnwys ystod eang o asedau/gwasanaethau eraill yn fuan.

Budd i'r Cwsmer :-

- Dull rhwydd o adnabod a dewis ased penodol mewn haen ar fap
- Gallu i glicio ar yr ased penodol os am adrodd problem
- Gweld y drefnlen cynnal sy'n gysylltiedig â'r ased dan sylw
- Gweld os yw'r broblem eisoes wedi ei hadrodd - â'r Cyngor yn ymwybodol o'r mater
- Gallu penderfynu os oes wir angen parhau i adrodd am y broblem

Disgwylir i'r gwaith yma gael ei gyflwyno cyn cyfnod Cynnal y Gaeaf. Er enghraifft ein biniau halen yn fyw ar y map rhyngweithiol er mwyn sicrhau bod ein cymunedau yn gallu adrodd ar unrhyw ddiffyg.

Yn ogystal, yr ydym wrthi'n cynnal adolygiad mewnol o'r maes glanhau strydoedd ble byddwn yn mapio'r prosesau cyfredol er mwyn sicrhau bod y prosesau yn adlewyrchu trefniadau gwaith heddiw. Mae'n fater hanfodol ein bod yn dileu unrhyw gamau gwag ac felly'n gallu ymateb i ymholiadau trigolion Gwynedd o fewn amser rhesymol.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Byddwn yn cydweithio gyda thrigolion a chymunedau Gwynedd drwy ymgysylltu er mwyn datblygu Cynllun Gweithredu i gyd-fynd â'r flaenoriaeth yma gan ehangu a datblygu partneriaethau cymunedol i wella ansawdd ac edrychiad y sir e.e.

- Strydoedd glan a deniadol
- Ffyrdd a llwybrau cerdded mewn cyflwr da
- Timau gwaith lleol er mwyn cyflawni'r gwaith
- Trafodaeth am yr egwyddorion a chamau gweithredu drwy ymgysylltu â'r gymuned a'r staff
- Llunio cynllun gweithredu, darganfod dyheadau a rhanddeiliaid posib ar lefel cymunedol.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Lansiwyd y Timau Tacluso yn ôl ym mis Mawrth 2022. Mae'r fideo atodol yn amlinellu egwyddorion y 'Tîm Tacluso'.
Mae'r 5 Tîm Tacluso yn ymgymryd â gwaith sy'n cyfrannu at wella edrychiad ein strydoedd ac ein hamgylchedd, a drwy hyn yn harddu'r Sir ac yn gwneud gwahaniaeth gweladwy.

Mae modd trefnu gwaith drwy gyflwyno ffurflen digidol gan adnabod dymuniad gwaith sydd angen ei gyflawni gan yr aelodau. Rydym yn derbyn nifer o geisiadau ac mae'r Swyddog Prosiect/Arweinydd Tîm yn gyfrifol am ymateb iddynt a'u hanfon ymlaen i dabled symudol y Timau perthnasol. Mae'r tabledi symudol yn galluogi'r timau ddiweddaru'r ceisiadau gan atodi lluniau o'u gwaith tra allan yn gweithio o fewn ein cymunedau.

Mae modd trefnu gwaith drwy gyflwyno ffurflen digidol gan adnabod dymuniad gwaith sydd angen ei gyflawni gan yr aelodau. Rydym yn derbyn nifer o geisiadau ac mae'r Swyddog Prosiect/Arweinydd Tîm yn gyfrifol am ymateb iddynt a'u hanfon ymlaen i dabled symudol y Timau perthnasol. Mae'r tabledi symudol yn galluogi'r timau ddiweddaru'r ceisiadau gan atodi lluniau o'u gwaith tra allan yn gweithio o fewn ein cymunedau.

Cyflwynwyd datblygiad newydd o fewn y porth aelodau sy'n 'hwb' i'r Timau. Gosodir y ffurflen digidol yno yn ogystal â chylchdeithiau'r timau ar fap rhyngweithiol. Rydym hefyd wedi ychwanegu i'r hwb yma gan osod holiadur boddhad cwsmer a lluniau/manylion o waith y timau.

Bydd gwaith y timau yn mynd gam ymhellach na gwaith cynnal a chadw'r adran gan ganolbwyntio ar 'lanhau dwfn' sydd yn cynnwys golchi strydoedd a thynnu gwm cnoi yn ogystal â glanhau graffiti gan ddefnyddio peiriant arbenigol.

Ers eu sefydlu rydym wedi bod yn hyrwyddo gwaith y Timau ar gyfryngau cymdeithasol. Bwriedir ehangu ar y gwaith yma er mwyn arddangos gwerth y Timau a'r gwahaniaeth y maent yn eu wneud o fewn ein cymunedau.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Yn sgil argyfwng Covid-19, mae wedi dod yn fwy amlwg pa mor bwysig yw rôl ein Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd wrth warchod iechyd ein cymunedau, ond hefyd wrth gynghori a chefnogi busnesau'r sir.

Mae'r profiadau yn ystod y cyfnod argyfwng wedi amlygu diffyg gwydnwch yng Ngwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd yn sgil blynyddoedd o doriadau.
Yn ystod 2021/22 cynhaliwyd adolygiad o strwythurau Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd er mwyn asesu'r anghenion yn llawn. Mae'r adolygiad wedi adnabod 4 gweithred ar gyfer cyfarch anghenion y Gwasanaethau, sef:

- darparu cyllideb dros dro i hwyluso parhad y Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu
- cyflogi 3 hyfforddai gwarchod y cyhoedd am gyfnod dros dro o 3 mlynedd i gynllunio ar gyfer dilyniant
- darparu cyllideb barhaol ar gyfer creu swyddi Arweinyddion Tîm (x6) o fewn y capasiti staff presennol; yn unol ag egwyddorion haenau rheolaethol y Cyngor
- codi lefelau cyflog 13 o swyddogion cymwys iechyd yr amgylchedd / gwarchod y cyhoedd / safonau masnach fel eu bod yn fwy cymharol gyda chyflogau swyddi tebyg mewn awdurdodau eraill yn y Gogledd.

Yn ystod 2022/2023, bydd y bidiau am arian yn cael eu cyflwyno ac os yn llwyddiannus byddant yn cael eu rhoi ar waith er mwyn cynyddu capasiti i gefnogi a gwarchod trigolion a busnesau Gwynedd.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Fe wnaeth yr Adran Amgylchedd barhau i gynnal Gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu ar ran y Cyngor hyd at Mehefin 2022 fel rhan o ymateb corfforaethol i bandemig Covid-19.

Yn dilyn sicrhau bidiau llwyddiannus i gynyddu capasiti a chynllunio ar gyfer dilyniant i'r dyfodol ar gyfer y maes, penodwyd 3 hyfforddai yn y Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd. Llwyddwyd i recriwtio un hyfforddai i bob maes: Bwyd a Diogelwch, Llygredd a Thrwyddedu a Safonau Masnach gyda rhaglen waith yn ei le ar gyfer yr hyfforddeion.

Cynhaliwyd arfarniadau swyddi Arweinyddion Tîm, ac mae'r Adran wedi penodi i'r swyddi.

Cynhaliwyd arfarniadau swyddi'r 13 Swyddog Gwarchod y Cyhoedd ac mae cyflogau rhain bellach yn gymharol gydag awdurdodau cyfagos.

**Amcanion Llesiant:**

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.

# Blaenoriaeth Gwella 8 Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd.

Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019 bu i'r Cyngor ystyried cynnig yn ymwneud â newid hinsawdd ac fe benderfynwyd y dylid gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y sir yn parhau i fod yn gartref bywiog, hyfyw a chynaliadwy i'n plant ac i blant ein plant am genedlaethau i ddod. Byddem yn gwneud hyn drwy:

- Ddatgan Argyfwng Hinsawdd
- Ymrwymo i gymryd camau pendant i leihau allyriadau carbon ac ymdrechu am ddyfodol di-garbon
- Chwilio am ffyrdd arloesol o gyflawni targedau di-garbon
- Adrodd yn ôl ymhen 6 mis ar y camau cadarnhaol y mae'r Cyngor wedi eu cymryd i leihau allyriadau carbon; a
- Galw ar Lywodraethau Cymru a San Steffan i ddarparu'r pwerau a'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r targed o Wynedd di-garbon erbyn 2030.

Dim ond un prosiect sy'n cyfrannu at wireddu'r uchelgais yma sef:

- Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd

**Beth wnaethom ni ddweud y buasem yn ei wneud?**

Wedi i argyfwng Covid-19 dorri ar draws y gwaith yma, penderfynodd y Cabinet ar ddechrau 2021 i ddarparu cyllid unwaith ac am byth er mwyn penodi Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd am gyfnod cychwynnol o 12 mis i arwain y gwaith o ddod a'r cynllun hwn at ei gilydd.

Sefydlwyd Bwrdd Newid Hinsawdd trawsadrannol hefyd i lywio'r gwaith. Mae'r Bwrdd wedi bod yn gweithio i adnabod lle allwn ni gael yr ardrawiad mwyaf wrth leihau ein heffaith ni fel corff ar yr amgylchedd ac i adnabod unrhyw fylchau yn ein gwaith hyd yma.

Cynhaliwyd cyfarfod gydag aelodau'r Cyngor drwy ddulliau rhithwir er mwyn iddynt gael cynnig eu syniadau a disgwylir y byddwn wedi mabwysiadu Cynllun Gweithredu erbyn diwedd Mawrth 2022.

Yn 2022/23 byddwn yn dechrau gweithredu yn unol â'r addewidion sydd wedi eu nodi yn y cynllun.

**Pa gynnydd wnaed yn 2022/23?**

Derbyniwyd cymeradwyaeth y Cabinet i fabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23-2029/30 yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2022.

Mae'r Bwrdd Hinsawdd a Natur wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi arweiniad strategol i'r rhaglen waith, ac er mwyn herio perfformiad a chynnydd ar y Cynllun.

Mae yna nifer o brosiectau wedi eu rhestru yn y Cynllun, ac mae'r cynnydd arnynt fel â ganlyn:

- Cytundeb i fuddsoddi £2.8M mewn cynllun Paneli Solar PV Gwedd 4. Mae hwn yn ymestyn y gwaith o osod paneli solar sydd eisoes wedi ei gwblhau o dan gynlluniau gwedd 1 i 3, a byddwn yn gosod paneli solar ychwanegol ar 54 o'n hadeiladau.
- Mabwysiadu Cynllun Fflyd Werdd 2023-2029, a phrynu 15 cerbyd trydan.
- Symud cytundeb cyflenwad ynni'r Cyngor i fod yn derbyn trydan sydd wedi ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy.
- Derbyn grant o bron i £0.5M i wella ein coedlannau a chynnal tiroedd.
- Cydweithio â Thrafnidiaeth Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Conwy, Llywodraeth Cymru i ehangu gwasanaeth Sherpa'r Wyddfa er mwyn lleihau defnydd o gerbydau personol a lleddfu problemau parcio.

**Amcanion Llesiant:**

- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir.

# Rhan 2
## Adroddiadau Perfformiad Gwaith Adrannol

# Adran Addysg

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor. Un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yw sicrhau bod plant a phobl ifanc Gwynedd yn cael yr un cyfleoedd ac yn derbyn yr addysg a'r profiadau gorau posib.

Ni allwn ddarparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau addysgol disgyblion. Yn unol â datganiad y Gweinidog Addysg ar y 21ain o Fehefin 2021 nid yw'r Awdurdod yn defnyddio data dyfarniadau cymwysterau i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod na chonsortiwm rhanbarthol. Mae hyn yn ganlyniad i effaith pandemig Covid-19, a achosodd atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill er mis Mawrth 2020.

O ganlyniad i'r agweddau hyn nid yw'r drefn gategoreiddio ysgolion yn weithredol nac ychwaith y dangosyddion perfformiad arferol. Mae proffil arolygiadau'r cyfnod wedi'r pandemig yn gyson dda gyda dim ond dwy ysgol gynradd ac un uwchradd yn disgyn i gategori monitro gan Estyn.

Mae pob ysgol yn gwneud defnydd deallus o ddata a gwybodaeth addysgu, dysgu ac asesu i arfarnu safonau ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwelliant pellach. Mae'r awdurdod a'r consortia rhanbarthol yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i roi'r cymorth sydd ei angen arnynt i wella a gweithredu diwygiadau uchelgeisiol y Llywodraeth yn llwyddiannus.

### Diogelu

Mae Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran a'r Cyngor, ac yn fwyfwy allweddol wrth gwrs yn sgil y pandemig. Mae'r Adran wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r Adran Addysg a gwasanaethau Dysgu a Datblygu'r Cyngor hefyd wedi cydweithio i ddatblygu pecyn hyfforddiant ym maes trais domestig. Mae'r pecyn Gofyn a Gweithredu wedi ei ddatblygu ar y cyd ac yn parhau i gael ei gyflwyno i staff yr Adran Addysg.

### Y Gyfundrefn Addysg Drochi

Mae'r gyfundrefn drochi ar gyfer newydd-ddyfodiaid wedi ei sefydlu ar ei newydd wedd ers Ionawr 2023. Yn sgìl grant cyfalaf o £1.1m gan Lywodraeth Cymru, mae safle addysg drochi Eifionydd wedi derbyn buddsoddiad sylweddol i wella'r adnoddau ar amgylchedd dysgu yno, ac mae safle addysg drochi newydd wedi ei sefydlu ym Mangor, gyda gwaith ar fin cychwyn i ddatblygu safle addysg drochi yn Nhywyn hefyd. Mae'r buddsoddiad yn y safleoedd hyn yn cyd-fynd gyda gweledigaeth y Cabinet, o sicrhau amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf gyda'r cyfleusterau yn hwyluso cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn y dosbarth yn ogystal â'r ardal tu allan. Maent hefyd o fewn cyrraedd rhesymol i gyfleusterau megis Llyfrgelloedd Gwynedd, Canolfannau Byw'n Iach, siopau, clybiau a mentrau cymdeithasol. Mae ymweld â'r llefydd hyn yn gyfle gwych i ehangu profiadau'r dysgwyr a dod â'r Gymraeg yn fyw iddynt.



Yn nghyfarfod y Cabinet ar 19eg Gorffennaf 2022 derbyniwyd cefnogaeth unfrydol i symud ymlaen i gyflwyno achos busnes llawn gerbron Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid ychwanegol o £1.1m o'r Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg  i gysoni capasiti a gwella amgylchedd dysgu gweddill Canolfannau Iaith cynradd y Sir sef Maesincla, Llangybi a Dolgellau ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Yn ogystal mae llawer o waith cyffrous ym maes y Gymraeg wedi digwydd yng nghyd destun arian grant refeniw Llywodraeth Cymru. Mae staff y Gyfundrefn wedi bod yn gweithio'n agos efo'r awdures Anni Llŷn i ysgrifennu Cynllun trochi newydd ar gyfer yr unedau iaith fydd yn pontio dysgwyr o fewn y sector gynradd ac uwchradd. Mae'r cynllun newydd hwn yn seiliedig ar bentref dychmygol  o'r enw Aberwla ac mae'n ymgorffori patrymau iaith priodol o fewn y continwwm iaith yng Nghwricwlwm i Gymru. I gefnogi'r cynllun rydym mewn cydweithrediad â chwmni 'Animated Technologies' wedi datblygu elfen rithiol i'r pentref. Dyma brosiect arloesol sy'n galluogi ein newydd-ddyfodiaid i gamu i Aberwla ar blatfform rhithiol i ymarfer patrymau iaith mewn amrywiol leoliadau yn y pentref. Yn sgìl buddsoddiad refeniw ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, caiff lleoliadau eraill y pentref eu datblygu, sef Fferm Tyddyn Swnllyd, Cae Glampio, Canolfan Hamdden, Amgueddfa, Garej a siop Gajets, a bydd yr adnodd hwn yn cael ei rannu'n genedlaethol maes o law.



O ddilyn cwrs trochi dwys am gyfnod o ddeg wythnos arfogir dysgwyr gyda'r sgiliau angenrheidiol i'w galluogi i ymdoddi a ffynnu yn ôl yn ein hysgolion mewn cyd destun ffurfiol ac anffurfiol o fewn cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog Gwynedd.

### Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad (ADY a CH)

Pwrpas y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yw sicrhau darpariaeth a chefnogaeth addas i'n dysgwyr mwyaf bregus yn yr ysgol.  Mae ffocws parhaus ar ymateb yn briodol ac yn amserol, cefnogi llesiant, datblygu sgiliau'r gweithlu er mwyn gallu ymateb yn gynhwysol. Mae'n wir nodi bod anghenion wedi cynyddu yn sgil y pandemig, ac rydym yn parhau i ymestyn yr ymyraethau sydd yn cael eu cynnig. Rydym yn parhau mewn cyfnod trosiannol o ran y Ddeddf ADY a Tribiwnlys (Cymru) 2018 sydd yn weithredol yn rhannol ers Medi 2021, ac fe fydd y cyfnod trosi yn dod i derfyn ym Medi 2025.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ddarparu:

- Mewnbwn Ysgol gyfan ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth sydd yn cael ei gynnig
- Adnoddau arbenigol ar y wefan (www.adyach.cymru). Bu defnydd o'r wefan yn uchel iawn.  Hefyd, darparu hyfforddiant wedi ei deilwra yn ôl angen.
- Hyfforddiant yn y maes Iechyd Meddwl a Llesiant e.e. Tyfu Drwy'r Tymhorau (delio gyda cholled a galar), Ymwybyddiaeth Ofalgar, Hyfforddi a goruchwylio Cymorthyddion ELSA (Emotional Literacy Support Assistant) a sy'n yn cefnogi disgyblion bregus
- Mewnbwn uniongyrchol ar gyfer cefnogi dysgwyr, er mwyn eu cynorthwyo i gael mynediad at y ddarpariaeth addysg sydd yn cael ei gynnig

Mae'r gwaith o drosglwyddo o'r hen Ddeddfwriaeth AAA i'r Ddeddfwriaeth ADY newydd yn parhau i gadw momentwm ac ar drac, ac mae'r defnydd o Feini Prawf newydd wedi cael eu hymestyn ymhellach er mwyn gallu adrodd ar gynnydd plant yn ehangach, gan fod dangos cynnydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn gofyn am ddulliau holistaidd.

Yn sgil y pandemig, a chyfnodau estynedig o ddysgu o bell, nid yw cyfraddau presenoldeb dysgwyr wedi dychwelyd i'r hyn oeddent cyn y pandemig, ac mae hynny'n batrwm cyffredin ar draws Cymru. Mae'r gwasanaeth lles yn cefnogi ysgolion i hyrwyddo presenoldeb a gall anawsterau presenoli fod yn sgil ystod o ffactorau e.e. anawsterau ymddygiadol, emosiynol a/neu ddatblygiad cymdeithasol, ynghyd â chynnydd mewn costau byw. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ble mae Cymraeg a Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt wedi ei ddatblygu, gyda'r tim yn cefnogi nifer o ymgeiswyr loches.

### Lles

Yn dilyn y cyfnodau clo a phandemig Covid -19, mae ysgolion yn parhau i flaenoriaethu Lles a Chyrhaeddiad yr holl ddysgwyr. Wrth ddychwelyd i gyfnod 'arferol' mae cynlluniau gweithredu pob ysgol yn parhau. Maent yn gweithredu cymorth i grwpiau penodol o ddysgwyr ifanc gan bontio ac ymestyn darpariaethau a sefydlwyd eisoes. Mae holl ysgolion Gwynedd wedi derbyn arweiniad a chefnogaeth wrth hunanasesu, cynllunio a gweithredu dull ysgol gyfan tuag Les Emosiynol a Meddyliol. Nod hyn - drwy ddatblygu diwylliant, ethos ac amgylchedd sydd yn meithrin iechyd a lles y dysgwyr - yw y bydd pob unigolyn yn gwireddu ei botensial, yn gallu ymdopi â straen arferol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol a ffyniannus ac yn gallu cyfrannu at eu cymuned mewn modd adeiladol a chadarnhaol.

### Plant Mewn Gofal

Er mwyn sicrhau fod anghenion iechyd ac addysg pob Plentyn Mewn Gofal Gwynedd yn cael eu cyfarch yn effeithiol mae Cynlluniau Addysg Personol bellach yn cael eu creu ar lwyfan electroneg.

Drwy gydweithio gyda'r gwasanaeth rhanbarthol a'r Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a chynhwysiad, mae'r ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau i sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth i ddarpariaethau Plant Mewn Gofal yr Awdurdod.

### Moderneiddio Addysg

Bu cyfle yn ystod y flwyddyn i'r Cyngor ymgeisio fel rhan o gystadleuaeth Her Ysgolion Cynaliadwy am fuddsoddiad 100% gan Lywodraeth Cymru ar gyfer adeiladu ysgol gynradd newydd fyddai'n gynaliadwy ac yn amgylcheddol gyfeillgar ymhob agwedd o'i datblygiad a'i gweithrediad dydd i ddydd. Roedd cyfle i'r 22 awdurdod ymgeisio, gyda chyllideb o hyd at £15m ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr awdurdod buddugol i wireddu'r nod. Cyflwynwyd cais ar gyfer sefydlu ysgol amgylcheddol gyfeillgar o'r newydd ar safle bresennol Ysgol Bontnewydd, a chafwyd cadarnhad fod y cais a gyflwynwyd gennym wedi bod yn llwyddiannus. Bydd yr adeilad yn arloesol gyda'r nod o leihau carbon, a gwneud y mwyaf o ail-ddefnyddio deunyddiau o'r adeiladau presennol gan roi blaenoriaeth hefyd i ddefnyddio deunyddiau sy'n lleol i'r ardal. Bydd dysgwyr Ysgol Bontnewydd a'r gymuned gyfan yn chwarae rhan allweddol drwy gydol y broses o sefydlu'r adeilad newydd. Bydd y dysgwyr yn rhan o'r broses ddylunio a bydd cyfleoedd cyffrous iddynt ddysgu am y gwaith adeiladu, pensaernïaeth a chynaliadwyedd; a bydd hyn oll yn cyfoethogi eu profiadau ac yn cyfarch meysydd dysgu Cwricwlwm i Gymru. Rydym yn edrych ymlaen i weld y datblygiad yma'n

cael ei wireddu dros y blynyddoedd nesaf.

Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd grant cyfalaf anghenion dysgu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella hygyrchedd a dileu rhwystrau sy'n atal dysgwyr rhag cael mynediad llawn i addysg yn yr un modd â'u cyfoedion. Defnyddiwyd y grant hwn er mwyn gwneud gwelliannau i 3 ysgol uwchradd yn y sir er mwyn dileu rhwystrau a hyrwyddo mynediad llawn at addysg i bob dysgwr, gyda'r gwaith yn cynnwys:
• Adeiladu rampiau a gosod lifftiau i gynorthwyo dysgwyr sydd ag anabledd corfforol.
• Cynlluniau goleuo a pheintio addas i gynorthwyo dysgwyr sydd â nam golwg.
• Addasu gofodau yn yr ysgolion er mwyn creu ystafell hylendid/therapi.
• Gosod lifft platfform ar gyfer mynediad i'r llwyfan.

Yn ogystal, mae pob prif fynedfa yn holl ysgolion Gwynedd yn hygyrch, ac mae o leiaf un ysgol gynradd ym mhob dalgylch uwchradd yn gwbl hygyrch ac uwchlaw hynny, ynghyd â phob ysgol newydd a adeiledir ynghyd â phob estyniad newydd yn hygyrch.

Yn ystod y flwyddyn hefyd derbyniwyd grant cyfalaf ysgolion bro gan Lywodraeth Cymru. Bwriad y grant hwn oedd cefnogi ysgolion i agor eu drysau fel adnodd a chyfleuster cymunedol y tu hwnt i oriau ysgol, ac mae sicrhau bod cyfleusterau ar safleoedd ysgolion ar gael i'r gymuned yn bwysicach nac erioed er mwyn hyrwyddo llesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd yn sgil y pandemig, ynghyd â darparu cyfleoedd a chyfleusterau i deuluoedd sydd yn ei chanfod hi'n anodd yn sgil cynnydd mewn costau byw. Yn sgil y grant cyfalaf yma, llwyddwyd i gefnogi 37 o ysgolion i agor eu safleoedd allan i'r gymuned y tu hwnt i oriau ysgol, a dyma rai enghreifftiau o'r math o gynlluniau a gefnogwyd:


• addasu mynediad a neuadd yr ysgol i hwyluso defnydd diogel ac effeithiol o'r cyfleusterau,
• gwella goleuadau allanol (meysydd chwaraeon),
• buddsoddi mewn caeau chwarae ac offer parc chwarae i'r gymuned,
• creu rhandiroedd i'r gymuned,
• prynu sied ar safleoedd rhai ysgolion i'r gymuned fedru storio offer chwaraeon/garddio,
• addasiadau i ystafelloedd newid a thoiledau i hwyluso defnydd cymunedol,
• mesurau diogelwch i wahanu ardaloedd o safbwynt defnydd ysgolion a chymunedau o'r cyfleusterau.

## Uned Adnoddau

Mae Uned Adnoddau'r Adran Addysg yn cwmpasu nifer o wasanaethau sy'n cefnogi ysgolion. Mae'r Tîm Contractau a Chyflogau yn sicrhau prosesu manylion cyflogaeth holl staff dysgu ysgolion Gwynedd, tua 3,000 o staff i gyd. Maent hefyd yn prosesu unrhyw geisiadau sy'n ymwneud ag ymddeoliad a salwch.

Mae cefnogaeth ar gael i holl lywodraethwyr Gwynedd gan yr uned. Maent yn darparu hyfforddiant, arweiniad a chyngor ar amrywiol faterion sy'n ymwneud â llywodraethu ysgol, ac ar gael i gefnogi is-bwyllgorau gyda gweinyddiaeth, prosesau a pholisïau.

Mae'r uned ddata yn sicrhau bod holl ddata addysg berthnasol y sir yn ddiogel ac yn gyfredol ac ar gael i helpu'r Adran i wneud penderfyniadau strategol ar sail tystiolaeth. Mae'r Adran hefyd yn prosesu holl geisiadau mynediad i ysgolion y sir.



Mae'r uned Arlwyo a Glanhau yn darparu cinio i blant yn ein hysgolion ac yn sicrhau bod yr adeiladau yn cael eu cadw'n lân. Mae'r nifer sy'n derbyn cinio yn yr ysgolion cynradd bellach wedi cynyddu yn dilyn y cynnig cinio ysgol am ddim i blant hyd at flwyddyn 4 gyda gwaith pellach yn cael ei wneud i baratoi y cynnig i blant blwyddyn 5 a 6 erbyn mis Medi. Mae sicrhau bod dysgwyr sy'n deilwng am gludiant i ysgolion neu i golegau'r sir yn cael eu cludo yn saff ac mewn cerbydau priodol hefyd yn ran o waith yr Adran a hynny ar y cyd efo'r Adran Amgylchedd.

Mae'r uned adnoddau hefyd yn gyfrifol am brosesu nifer o geisiadau am gymorth ariannol o nifer o gronfeydd sydd yng ngofal yr Adran Addysg ac ysgolion Gwynedd. Mae'r cronfeydd hyn yn amrywio o gynnig cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n serennu mewn pynciau penodol i blant sy'n sâl neu i famau ifanc.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf fydd yn caniatáu i ni wneud yr hyn y dymunwn ei wneud.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

Yn ogystal â'r gwaith i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella, mae gweddill gwaith 'dydd i ddydd' yr adran hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor drwy ddarparu'r gefnogaeth amserol i alluogi pobl Gwynedd i fyw eu bywyd fel y maent eisiau ei fyw.

O safbwynt adrodd ar berfformiad, mae'r adran wedi buddsoddi dros y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu ein mesuryddion er mwyn sicrhau argaeledd y data priodol i amlygu'r tueddiadau yn ein perfformiad ac i lywio'n gwaith a'n blaenoriaethau dros amser. O ganlyniad, byddwn yn adrodd ar nifer o fesurau am y tro cyntaf ac ni fydd bob amser yn bosib darparu data'r flwyddyn gyfan na chymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn ystod 2022/23, derbyniodd ein gwasanaethau cymdeithasol statudol ar gyfer oedolion 4,558 o gysylltiadau mewn cyfanswm gyda 2,098 o'r rheiny'n gysylltiadau newydd. Ar y 31 o Mawrth 2023, roedd 2,470 o gynlluniau gofal oedolion mewn lle. Dylid nodi mai gwasanaethau statudol yn unig ydi'r rhain ac rydym hefyd yn darparu gwasanaethau eraill i gefnogi iechyd a llesiant unigolion er mwyn eu galluogi i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau yn hirach. Mae cydweithrediad gyda'n partneriaid yn y Bwrdd Iechyd ac ar draws y trydydd sector yn hanfodol i alluogi'r gefnogaeth yma.

Un o'n prif heriau yn y sector yn ystod 2022/23 oedd diffyg staff gofal ac mae mynd i'r afael â hyn yn brif flaenoriaeth. Penodwyd Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd Gofal yn ystod 2021/22, ac mae wedi bod yn adnodd gwerthfawr i fynd i'r afael â'r agenda recriwtio. Mae'r swyddog wedi bod yn arwain ar ymgyrch recriwtio SOS #GalwGofalwyr yng Ngwynedd ac rydym wedi rhyddhau fideo recriwtio newydd yn ystod 2022/23. Rydym hefyd wedi cynnal digwyddiadau recriwtio wyneb i wyneb mewn rhai lleoliadau'n cynnwys Bethesda a Phenygroes. Rhwng Medi 2022 a Mawrth 2023, llwyddwyd i gyfeirio 88 o unigolion ymlaen i wasanaethau gofal Oedolion a Plant drwy'r ymgyrch.

**Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd**


Ar y cyfan, mae'r gwasanaeth wedi ymdopi'n dda â'r galw am asesiad anghenion gofal, gan lwyddo i gynnal 101 o asesiadau bob mis ar gyfartaledd rhwng Ebrill 2022 a Chwefror 2023. Roeddem yn dechrau gweld cynnydd graddol yn y galw yn dilyn y Nadolig sy'n arferol i'r gwasanaeth hwn ond gwelwyd cynnydd sylweddol ym Mawrth 2023 pan gyflawnwyd 144 o asesiadau.

Ar 31 Mawrth 2023 roedd 11 unigolyn yn aros am asesiad gwaith cymdeithasol. Roedd 4 o'r rheiny wedi bod ar y rhestr aros am dros 30 diwrnod. Mae hyn fel arfer oherwydd diffyg capasiti gweithwyr cymdeithasol ond mae'r gwasanaeth yn cydweithio gyda'r unigolion a phartneriaid allweddol i sicrhau cefnogaeth hyd nes y gall gael asesiad. Yn ardal Llŷn cawsom anawsterau i recriwtio Ymarferydd Arweiniol a Gweithiwr Cymdeithasol i swyddi gwag ac mae hyn wedi effeithio ar allu'r tîm i asesu'n amserol.

Mae'r nifer o unigolion sy'n gorfod aros dros 30 diwrnod am asesiad therapi galwedigaethol yn uwch. Mae'r nifer o unigolion sydd angen asesiad o'r math hwn hefyd yn uwch – roedd 71 unigolyn yn aros am asesiad therapi galwedigaethol ar 31 Mawrth 2023 gyda 37 o'r rheiny wedi bod yn aros yn hirach na thri mis. Mae recriwtio a chynnal staff i'r maes yma wedi bod yn heriol tu hwnt ac fe welwch amlinelliad o'n hymdrechion i fynd i'r afael â'r broblem fel rhan o'n diweddariad ar ein prosiect blaenoriaeth 'Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal'. Fodd bynnag, mae dwy swydd therapydd galwedigaethol llawn amser yn parhau yn wag, felly er mwyn mynd i'r afael â'r rhestrau aros rydym wedi cynyddu

adnodd Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol yn y tymor byr ac yn edrych ar y posibilrwydd o uwchsgilio'r ymarferwyr i fedru cefnogi ymhellach.

Rydym yn mesur ansawdd ein gwasanaethau drwy gynnal adolygiadau sy'n ystyried a yw'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd 569 o adolygiadau ac mae'r data yn dangos ein bod wedi cyflawni hyn yn llawn mewn 79% o'r achosion hynny (fyny o 76% yn 2021/22 a 71% yn 2020/21). Llwyddwyd i gyflawni'r hyn sy'n bwysig yn rhannol mewn 17% o'r achosion, gan adael yn anffodus 4% (23 unigolyn) ble na chafwyd llwyddiant (wedi cynyddu o 15 unigolyn yn 2020/21). Dylid nodi bod y data yma'n deillio o'r adolygiadau a wneir o achosion unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal gennym. Oherwydd pwysau ar wasanaethau a diffyg capasiti staffio, yn anffodus mae nifer o bobl sydd ar restrau aros am wasanaethau gofal – wrth gwrs, nid ydym yn llwyddo i gefnogi'r unigolion hyn i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Fodd bynnag, nid yw barn yr unigolion hyn yn cael ei adlewyrchu'n deg yn yr ystadegau uchod.




Er bod gwelliant cyffredinol ers 2021/22, fe welir fod cynnydd yn yr achosion lle nad yw unigolion yn medru cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r prif themâu sy'n ymddangos ymhlith y rhesymau'n ymwneud â materion megis gofalwyr di-dâl yn methu a pharhau i ofalu am wahanol resymau, diffyg cyfleon cymdeithasol neu ddirywiad mewn hyder unigolion i gymryd rhan yn eu cymunedau lleol a rhwystredigaeth am fod angen cefnogaeth yn hytrach na medru ymdopi'n annibynnol. Mae'r blaenoriaethau sydd wedi eu nodi o dan bennawd [Gwynedd Ofalgar yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28] yn cynnwys nifer o brosiectau i geisio mynd i'r afael â'r materion y mae gennym ddylanwad drostynt. Mae rhain yn cynnwys arwain ar Gynllun Gofalwyr, cyhoeddi rhaglen o weithgareddau i hybu llesiant unigolion, ailfodelu darpariaeth gofal dydd ac ysbaid, ehangu opsiynau llety addas ac ystod eang o brosiectau eraill i alluogi unigolion i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau eu hunain megis teleofal a thaliadau uniongyrchol.

### Gofal Cartref

Ar y 31 Mawrth 2023 roedd 9,478 o oriau gofal cartref yr wythnos yn cael eu darparu ar draws y sir, gydag oddeutu hanner yr oriau'n cael eu darparu gennym ni fel Cyngor a'r hanner arall yn cael ei gomisiynu drwy ddarparwyr gofal cartref preifat. Roedd yr oriau yma yn darparu ar gyfer dros 900 o unigolion.

Yn anffodus fodd bynnag, mae gennym restr aros ar gyfer derbyn gofal cartref, ac ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gwelsom gynnydd sylweddol pan gododd y nifer a oedd yn aros am ofal o'r newydd o 90 ar 30 Ebrill 2022 i 169 ar 30 Medi 2022. Roedd hyn yn cyd-fynd â chyfnod o newid i'r gwasanaeth (mwy am hyn isod) a oedd yn gofyn am yr angen i drosglwyddo pecynnau gofal i ddarparwyr newydd ayb, ac o ychwanegu hynny at yr anawsterau recriwtio sy'n effeithio'r sector mae'n debygol iawn fod y cynnydd o ganlyniad i'r holl gyfuniad yma o ffactorau. Parhaodd y niferoedd yn weddol uchel dros y gaeaf, ond roeddem yn dechrau gweld gostyngiad erbyn diwedd y flwyddyn gyda'r

ffigwr yn 141 erbyn Mawrth 2023. Rydym hefyd, o ganlyniad i'r galw, wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mae unigolyn ar y rhestr aros; 78 o ddyddiau ym mis Mawrth 2023 o'i gymharu â 34 ym mis Mawrth 2022.

Mae'r ddarpariaeth gofal cartref yng Ngwynedd wedi symud tuag at fodel sy'n seiliedig ar ardaloedd lleol, fel sydd wedi'i amlinellu yn ein diweddariad ar ein prosiect 'Ail-ddylunio Gwasanaethau Gofal'. Mae arwyddion cynnar ym mis Ebrill 2023 yn awgrymu bod y model newydd yn dechrau cael effaith ar y niferoedd ar y rhestr aros ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn parhau ac y bydd modd i ni adrodd stori wahanol y flwyddyn nesaf.

### Gofal Preswyl a Nyrsio

Mae gennym fel Cyngor 11 o gartrefi preswyl i bobl hŷn sy'n darparu ychydig dros hanner y gofal preswyl yn y sir ar y cyd â'r sector breifat, ac rydym yn comisiynu'n holl ofal nyrsio gan ddarparwyr preifat.

Rydym wedi gweld effaith oblygiadau'r heriau recriwtio yn drwm ar y maes yma. Mewn sawl un o'n cartrefi preswyl rydym wedi methu a gweithredu ar gapasiti llawn ac wedi gweld mwy o welyau'n wag nag y byddem wedi'i ddymuno. Ar 31 Mawrth 2023 ein cyfradd llenwi gwelyau ar gyfer ein cartrefi preswyl pobl hŷn oedd 79%. Dylid nodi fod y 21% o welyau preswyl a oedd yn wag yn cynnwys gwelyau sydd methu cael eu defnyddio oherwydd problemau gyda'r adeilad neu gwaith adeiladu mewn 4 cartref. O eithrio'r gwelyau hyn, byddai'r gyfradd llenwi yn 88%. Mae rhagor o wybodaeth am ddatblygiadau'n gwasanaethau preswyl ni yn rhan o'n adroddiad ar gynnydd ein blaenoriaethau gwella'n ystod 2022/23.

Buom yn cefnogi nifer o gartrefi preswyl a nyrsio preifat a oedd yn wynebu heriau ar faterion megis rheolaeth ac arweinyddiaeth neu faterion ariannol yn ystod y flwyddyn.

Er fod cynnydd gan Lywodraeth Cymru yng nghyflogau gweithwyr gofal i gyd-fynd â Chyflog Byw Gwirioneddol i'w groesawu'n fawr, mae wedi cyfrannu'n rhannol at yr her rydym fel awdurdodau lleol ar draws Cymru (ond yn enwedig ar draws y Gogledd) yn ei wynebu o ran y ffioedd safonol sy'n cael eu talu i ddarparwyr gofal i ofalu am ein trigolion. Mae diffyg darpariaeth o rai mathau (er enghraifft gwelyau nyrsio i oedolion a dementia) yn arwain at broblemau comisiynu, a byddwn yn parhau i gydweithio â darparwyr i ddod i ddeall yn well y gwir gost o ddarparu gofal gan gynnig opsiynau ar y ffordd ymlaen fyddai'n cyfrannu at gynaliadwyedd a sefydlogrwydd y farchnad i'r dyfodol.

### Anableddau Dysgu

Mae'r gwasanaeth yma hefyd yn cynnal adolygiadau o achosion gan fesur gallu unigolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Llwyddwyd i gyflawni 140 adolygiad yn ystod y flwyddyn a dengys y data ar gyfer 2022/23 bod 92% o'n hachosion wedi adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yn llawn a 7% pellach wedi nodi eu bod yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yn rhannol. Mae hyn yn gynnydd ar y data ar gyfer 2021/22. Dylid nodi mai oddeutu 23% o'r unigolion rydym yn eu cefnogi sy'n cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau yma ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y modd gorau o ddatblygu'r mesurydd hwn er mwyn sicrhau ein bod yn cyfleu darlun llawn.

Rydym yn ymwybodol bod y rhesymau dros fethu â chyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion wedi ymwneud yn aml â diffyg cyfleon gwaith a chymdeithasu a diffyg opsiynau llety addas.

Mae gennym brosiect penodol mewn lle i geisio cwrdd ag anghenion lletya unigolion ag anabledd dysgu. Mae'r prosiect yn cryfhau ein cydweithio gyda thimau aml ddisgyblaethol i flaenoriaethu lleoliadau sy'n dod yn rhydd, cwblhau mân addasiadau mewn eiddo er mwyn ei wneud yn addas i unigolion ar y rhestr aros ac i hyfforddi staff a datblygu

sgiliau arbenigol i alluogi cefnogi unigolion ag anghenion fwy cymhleth sydd ar hyn o bryd yn byw y tu allan i Wynedd. Yn ôl ym mis Hydref 2022 roedd 24 unigolyn ar y rhestr gydag anghenion lletya o fewn y flwyddyn nesaf. Erbyn Mawrth 2023 roedd y ffigwr wedi gostwng i 16. Mae un o'r unigolion hynny wedi eu symud i dŷ gwarchod, un i gartref preswyl ac un i dŷ a chefnogaeth. Rydym hefyd wedi gallu adolygu achos un unigolyn sy'n byw tu allan i Wynedd a sicrhau fod y lleoliad presennol bellach yn cwrdd ei anghenion ac mae eraill wedi cael eu hadnabod ar gyfer eiddo addas. Mae mwyafrif yr unigolion ar y rhestr aros angen model tŷ a chefnogaeth, ac mae sawl prosiect ar y gweill ar hyn o bryd i geisio cwrdd â'r anghenion hynny yn Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Ymhelaethir ar hyn yn ein adroddiad ar gynnydd ein prosiectau blaenoriaethau gwella ar gyfer 2022/23.

Mae gennym hefyd brosiect i geisio cynyddu'r cyfleon gwaith sydd ar gael i unigolion ag anableddau dysgu lle bynnag maen nhw ar eu taith. Ym mis Hydref 2022 roedd 17 o unigolion mewn gwaith cyflogedig ac erbyn Mawrth 2023 roedd y ffigwr wedi cynyddu i 25. Mae rhai sydd yn rhan o'r prosiect mewn gwaith cyflogedig, ond eraill yn cael cefnogaeth i ddatblygu eu hyder a chynllunio ymlaen. Mae'r nifer o unigolion sy'n rhan o'r prosiect drwy gael cefnogaeth, hyfforddiant, cyfloedd gwirfoddoli ayyb neu waith cyflogedig yn cynyddu'n gyson (54 ym mis Hydref 2022, 57 erbyn Mawrth 2023), ac rydym yn cydweithio gyda'r Tîm Trawsffurfio Rhanbarthol i uwchsgilio'r mentoriaid gwaith a chydag ysgolion a cholegau i gynnig cyfleon addas i ddatblygu sgiliau a chynnig profiadau gwaith i unigolion sy'n cyrraedd yr oed y byddent yn trosglwyddo o wasanaethau plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion. Rydym hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr gan gynnwys y Cyngor i godi ymwybyddiaeth o'r buddion o gynnig cyfleon gwaith. Mae'r prosiect hefyd wedi ennill cytundeb gyda Chyngor Tref Caernarfon a fydd yn creu cyfleon gwaith i nifer o unigolion yn symud ymlaen.

**Gofal Preswyl, Cefnogol a Chymunedol**
Mae gennym fel Cyngor dau gartref preswyl a saith tŷ a chefnogaeth i unigolion ag anableddau dysgu ond rydym yn comisiynu dros tri chwarter o'r ddarpariaeth yma'n breifat ac wedi cynnig cefnogaeth i ddarparwyr ar nifer o faterion yn ystod 2022/23. Mae gennym hefyd wasanaeth cefnogol yn y gymuned a'n gwasanaeth Cynllun Cysylltu Bywydau (sy'n cynnig cefnogaeth i oedolion mewn cartrefi unigolion neu deuluoedd yn y gymuned).

Ar ddiwedd 2022/23 nid oedd gwelyau gwag o fewn ein cartrefi preswyl anableddau dysgu, ond roedd dwy ystafell mewn tŷ a chefnogaeth sydd methu eu llenwi oherwydd nad yw'r tŷ, sydd dros dair llawr, yn addas i unigolion gydag anghenion cymhleth neu anabledd corff. Rydym yn ailedrych ar fodel gofal y tŷ hwn fel rhan o'r prosiect lletya er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'n gwasanaethau.

Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau dydd yn plethu'n agos gyda'n ymdrechion i sicrhau cyfleon defnyddiol a datblygol i unigolion fel rhan o'n prosiect cyfleon gwaith.

**Iechyd Meddwl**
Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn wasanaeth integredig ar y cyd o dan arweiniad Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Yn ystod 2022/23, derbyniwyd 428 cyfeiriad y mis ar gyfartaledd; gyda'r ffigwr ar ei uchaf ym mis Chwefror 2023 gyda dros 500 o gyfeiriadau. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o gyfeiriadau dros y blynyddoedd diwethaf; y ffigwr o gyfeiriadau newydd y mis ar gyfartaledd yn 2019/20 oedd 362.

Mae'r pwysau yma ar y tîm yn arwain at restrau aros uchel ac ar ddiwedd y flwyddyn

ariannol roedd 76 unigolyn yn aros am reolwr gofal. Fodd bynnag, mae'r tîm wedi ymdopi'n dda o ystyried yr amgylchiadau a'r cynnydd yn y galw, ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd 441 unigolyn wedi derbyn cynllun gofal ac yn cael gwasanaeth. O ganlyniad i'r cynnydd, rydym wedi gorfod blaenoriaethu achosion ar sail risg gan ofyn i feddygon teulu am ragor o wybodaeth lle bo angen cyn gwneud penderfyniad ynghylch cynnig asesiad.

Rydym wedi gweld heriau i gasglu data dros y blynyddoedd diweddar gan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio'r un system gofnodi achosion a'r Adran Oedolion. Yn ogystal, mae gweithio'n integredig yn creu heriau i'n gallu i gyflawni ein cyfrifoldeb tuag at lesiant unigolion oherwydd amrywiaethau mewn deddfwriaeth sy'n arwain y ddau gorff ac mae prosiect i roi sylw i hyn wedi ei amlinellu yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.

**Cefnogaeth Ataliol**
Diwedd Mawrth 2023, roedd 1,019 o unigolion yng Ngwynedd yn talu am y gwasanaeth teleofal yn wythnosol (dylid nodi nad dyma'r cyfanswm o ddefnyddwyr teleofal yng Ngwynedd gan fod canran o unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth am ddim am amrywiol resymau). Roedd hyn yn ostyngiad o 39 unigolyn ers Mawrth 2022. Gall fod sawl peth wedi cyfrannu at yr amrywiad yn y niferoedd; ond yn bennaf gwallau yn y system gofnodi yn hanesyddol, ac effaith yr argyfwng costau byw ar allu unigolion i dalu am y gwasanaeth. Mae gwaith wedi dechrau'n ystod y flwyddyn i gysoni'r data am y gwasanaeth a datblygu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gyda rheolwr prosiect yn arwain ar y gwaith. Mae offer newydd, digidol, fwy addas i'r dyfodol yn cael ei gaffael, a bydd y gwaith o gychwyn darparu a hyrwyddo'r offer yma'n digwydd dros y misoedd nesaf.

Mae'r canran o unigolion sy'n derbyn gwasanaeth gan yr adran drwy drefniadau taliadau uniongyrchol wedi bod yn weddol gyson ar 13% ar gyfartaledd dros y flwyddyn. Mae'r ffigwr yn isel o'i gymharu gyda siroedd eraill/ymarfer gorau, ac mae grŵp tasg wedi'i sefydlu i edrych ar y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd ac i ystyried model newydd i'r dyfodol i'n galluogi i hyrwyddo'r gwasanaeth fel opsiwn ffafriol i drigolion y sir. Bydd hyn yn cael sylw fel rhan o brosiectau blaenoriaeth yr adran yn ystod 2023-28.

Rydym hefyd yn cefnogi unigolion drwy asesu eu sefyllfa ariannol i ystyried unrhyw gyfraniad tuag at eu gofal a rhoi cymorth i oedolion i sicrhau eu bod yn cael y budd-daliadau y dylent eu cael. Rydym yn casglu adborth gan sampl fechan o'r unigolion rydym yn eu cefnogi ac mae'r adborth wedi bod yn bositif yn ystod 2022/23 gyda 100% o'r unigolion a holwyd yn fodlon gyda'r gwasanaeth.

**Gofalwyr di-dâl**
Rydym yn comisiynu mudiad Cynnal Gofalwyr i gynnig cefnogaeth a chymorth i oedolion sy'n ofalwyr di-dâl yng Ngwynedd, ac rydym yn darparu cyllid ar gyfer cronfa 'Llesiant' fel rhan o'r gefnogaeth yma. Gwyddwn bod 316 o ofalwyr yng Ngwynedd wedi cofrestru â Chynnal Gofalwyr yn ystod 2022/23 ac wedi eu cyfeirio at amrywiaeth o brosiectau am gefnogaeth ar faterion llesiant, budd-daliadau a chefnogaeth dementia.

Mae gan ofalwyr di-dâl hawl i gael asesiad gofalwr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ar hyn o bryd mae gofalwyr yn derbyn cefnogaeth gan ein timau gwaith cymdeithasol sy'n cynnig asesiad iddynt, un ai yn annibynnol neu ar y cyd â'r sawl y maent yn gofalu amdanynt. Nid yw'r gofalwr bob amser yn awyddus i dderbyn asesiad ffurfiol, ac mae'r niferoedd sy'n cael eu cofnodi yn WCCIS yn gymharol isel. Mae cyngor a chymorth yn cael ei ddarparu tu hwnt i'r drefn ffurfiol yn aml wrth gwrs, ond ar hyn o bryd ni allwn gofnodi hynny mewn modd sy'n ein galluogi i adrodd

y sefyllfa. Rydym yn gweithio ar ddeall hyn ac mae gennym Grŵp Data a Grwp Gweithredu Gofalwyr sydd wedi blaenoriaethu'r gwaith. Rydym hefyd wedi cychwyn ar waith i sicrhau cydweithio agosach rhyngom a'n partneriaid ar gynllun ar gyfer y maes ar sail y pedwar blaenoriaeth strategol cenedlaethol. Mae'r Cynllun Gofalwyr wedi'i adnabod fel blaenoriaeth i'r adran ar gyfer 2023-28. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn blaenoriaethu'r elfen asesiadau yn ogystal â meysydd eraill gan gynnwys clywed llais a chydnabod rôl gofalwyr di-dâl.

### Dementia

Yn ystod 2022/23, penodwyd Cydlynydd Dementia i arwain ar y gefnogaeth yng Ngwynedd ac mae'r adran yn gyfrifol am un wasanaeth Dementia Actif sydd ynghanol derbyn gwerthusiad ar hyn o bryd.

Mae Dementia Actif wedi parhau i ddarparu cefnogaeth wyneb i wyneb ac ar-lein yn ystod 2022/23 gyda nifer fawr o unigolion sy'n byw â dementia a'u teuluoedd ar draws Gwynedd. Yn ystod 2022/23, llwyddwyd i ddenu 6,550 o ymweliadau â sesiynau Dementia Actif, gyda 5,771 o'r rheiny wyneb i wyneb. Llwyddwyd i ailgydio yn nhwrnament Boccia Gwynedd a datblygwyd gweithgareddau a phartneriaethau newydd ym Methesda, Bangor a Llanberis.


Mae gwaith hefyd wedi cychwyn i edrych ar y gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu gan y trydydd sector, a sut y gallwn ni weithio'n well efo'n partneriaid i sicrhau gwasanaethau fwy effeithlon a gwerth am arian.

### Ansawdd Gofal

Mae'n gyfrifoldeb arnom fel awdurdod i sicrhau fod y gofal sy'n cael ei ddarparu yn ddiogel ac o ansawdd. Yn ystod 2022/23, rydym wedi llwyddo i fonitro 34 darparwr gofal allan o 62 gyda'r pwyslais wedi bod ar fonitro a chefnogi gofal nyrsio a phreswyl. Yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth 2023, dengys y data fod ymweliadau ymatebol sydd angen eu blaenoriaethu o ganlyniad i ffactorau megis trefn pryderon cynyddol neu gyfeiriad diogelu yn cymryd 70% o gapasiti monitro'r tîm ac mai dim ond 30% o'u gweithgaredd oedd yn ymdrech rhagweithiol a ffurfiol i fonitro'r darparwr. Fel dengys y ffigurau, mae capasiti'r tîm i gyflawni'r rhaglen waith yn parhau i fod yn heriol fel nodwyd y llynedd.

### Diogelu

Yn ystod 2022/23, derbyniwyd 664 o ymholiadau diogelu (o'i gymharu â 484 yn 2021/22), gyda 91% ohonynt wedi'u cwblhau o fewn 7 diwrnod. Er bod 9% o ymholiadau nad oeddent wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod, dylid nodi mai'r prif reswm am hyn yw gallu ein partneriaid i gyfrannu'n amserol i'r ymholiadau. Dylid nodi fod gwaith yn cael ei wneud o fewn y 7 diwrnod er mwyn sicrhau fod unigolion yn ddiogel a bod risgiau wedi eu rheoli ymhob achos, ond nad ydi'r ymholiadau yn gallu cael eu cwblhau o fewn yr amserlen bob tro.




Derbyniwyd 324 cyfeiriad o dan y drefn trefniadau Amddiffyn rhag Colli Rhyddid yn ystod 2022/23. Oherwydd diffyg adnoddau, rydym yn ddibynnol ar arian grant i fedru comisiynu asiantaeth i'n cynorthwyo ag awdurdodi'r cyfeiriadau gan ein bod yn derbyn mwy na dwbl y nifer o geisiadau sy'n bosib i ni eu hawdurdodi bron bob mis. Mae dros 300 o unigolion ar y rhestr aros

am asesiad ar hyn o bryd ac mae'n rhaid i ni flaenoriaethu achosion brys a chymhleth. Mae cofnodi a chynnal data hefyd wedi bod yn anhawster oherwydd diffyg capasiti ac mae gwaith wedi cychwyn i roi sylw i hyn yn ystod 2023/24.

**Diogelwch Cymunedol**
Er mwyn mynd i'r afael â throsedd ac anrhefn, rydym yn cydweithio gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Tân a'r Bwrdd Iechyd fel rhan o Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn. Mae cynllun 2022/23 y Bartneriaeth wedi'i gyflawni ac unrhyw weithred anghyflawn wedi'i gynnwys yn y cynllun newydd ar gyfer 2023/24.

Mae niferoedd troseddu casineb wedi lleihau yn ôl data gan yr Heddlu yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae niferoedd trosedd gan ddefnyddio trais wedi codi yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae hyn yn cynrychioli trais yn y cartref hefyd. Mae'r gwaith yma yn flaenoriaeth gan y Bartneriaeth. Rydym yn cydweithio yn rhanbarthol gyda Cham-drin Domestig yn erbyn Menywod a gyda'r Ddyletswydd Trais Difrifol a fydd yn ddyletswydd statudol ym mis Ionawr 2024. Mae'r ddau yn bwydo mewn i'r gwaith Adolygiadau Marwolaethau Domestig.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn gweithio tuag at achrediad Rhuban Gwyn. Un o'r blaenoriaethau o ran hyfforddiant i staff y cyngor ydi Gofyn a Gweithredu.

Mae nifer o feysydd eraill wedi derbyn sylw yn ystod 2022/23 a byddant yn parhau i dderbyn sylw yn ystod 2023/24 - gan gynnwys caethwasiaeth fodern, gwrthderfysgaeth a chamddefnyddio.

**Crynodeb**
Mewn blwyddyn heriol arall mae perfformiad yr adran wedi bod yn dda ar y cyfan, ond bydd yn cymryd amser i'r mesurau newydd aeddfedu ac i ni fedru cymharu'n ystyriol. Y prif faterion fydd angen sylw pellach yn ystod 2023/24 a thu hwnt yw:
• Sicrhau gweithlu cadarn i'r dyfodol, gan barhau gyda'n ymdrechion recriwtio a datblygu staff.
• Adeiladu ar ein darpariaethau cefnogol i hybu annibyniaeth unigolion o fewn eu cymunedau
• Cyflawni ein holl brosiectau blaenoriaeth ar gyfer y cyfnod 2023-28.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae eleni, unwaith eto, wedi bod yn flwyddyn wahanol iawn i ni i gyd, gyda'r argyfwng costau byw yn effeithio ar ddygnwch a llesiant plant a theuluoedd. Rydym wedi newid ein ffordd o weithio ac ystod ein cefnogaeth i ymateb unwaith eto i anghenion ein teuluoedd er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a llesiant plant a'u teuluoedd drwy'r cyfnod heriol hwn. Braf ar ddiwedd blwyddyn fel hon yw cael edrych yn ôl a datgan fod ein hymarfer a pherfformiad yn gyffredinol ar draws y maes plant wedi parhau'n gadarn. Rydym fel adran yn ymfalchïo yn ymdrechion ein holl staff am eu llwyddiant i gynnal perthnasau gyda phlant a theuluoedd. Y cyswllt hwn, law yn llaw â phroffesiynoldeb ac ymdrech ddiflino ein gweithwyr sydd wedi golygu ein bod wedi cefnogi teuluoedd, wedi cynnal sefydlogrwydd teuluoedd a lleoliadau, ac wedi sicrhau pob cefnogaeth posibl i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Llwyddodd yr adran i barhau i gefnogi a diogelu plant a chadw plant a'u teuluoedd gyda'i gilydd mewn cyd-destun o gyfyngiadau cyfnewidiol ar ddulliau arferol o weithio. Bellach, rydym wedi llwyddo i adfer y cyswllt a chefnogaeth wyneb i wyneb gyda phlant a'u teuluoedd ar draws yr holl faes gwaith.

Rydym wedi gweld nifer o wasanaethau partneriaid ac asiantaethau allanol wedi llawn ail-gydio ers y pandemig sydd yn ei dro wedi arwain at wella cyswllt asiantaethau eraill gyda phlant a theuluoedd; a gwella cyswllt wyneb yn wyneb gyda theuluoedd. Mae hyn wedi arwain at deuluoedd a phlant yn cael eu hadnabod a'u cyfeirio atom am gymorth yn gynt, ac yn cael perchnogaeth pawb i sicrhau diogelu plant yng Ngwynedd.

Rydym wedi dod i gyswllt gyda 7175 o deuluoedd yn ystod 2022-23 sydd wedi bod angen gwybodaeth, cyngor, cymorth a/neu gofal. Mae ystod, natur a nifer y teuluoedd sydd angen ein help yn adlewyrchiad o'r her i deuluoedd o fagu plant yn yr hinsawdd sydd ohoni.

Rydym wedi parhau i gynnig cefnogaeth gynnar i deuluoedd pan fo anghenion yn amlygu - o ddarparu cyngor a gwybodaeth drwy ein Hwb Teuluoedd, i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol ar gyfer materion megis sgiliau rhiantu, delio gydag ymddygiadau heriol plant, gwrthdaro mewn teuluoedd ac oediad mewn datblygiad plant. Rydym wedi uchafu ac addasu ein rhaglenni presennol megis Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Cynnig Chwarae a Gofal Plant i gynnal ein gwasanaethau ataliol ac i adeiladu gwydnwch teuluoedd.

Yn ychwanegol i'n gwasanaethau ataliol rydym hefyd wedi cydweithio gyda phartneriaid ar ehangu ein darpariaethau i hyrwyddo llesiant a gwydnwch plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Rydym wedi parhau i gynnig rhaglenni newydd megis Haf o Hwyl a'r Rhaglen Datblygiad Plentyn i ddarparu cyfleoedd i adeiladu gwydnwch mewn plant a phobl ifanc ac i hyrwyddo eu llesiant emosiynol. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi canolbwyntio ar ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd mewn cymunedau ac yn yr ysgol sy'n hyrwyddo'r 5 Ffordd at Les ymysg pobl ifanc, ac wedi darparu ymyraethau penodol megis Lles drwy Gelf a Grwpiau Dygnwch FRIENDS i bobl ifanc bregus 16 oed a throsodd.

Pan fo teulu angen cefnogaeth i ddelio gyda nifer o faterion y mae nhw'n eu hwynebu mae ein Tîm o Amgylch y Teulu yn cydlynu cefnogaeth iddynt. Derbyniodd 106 o deuluoedd gefnogaeth gan gydlynydd yn ystod 2022-23 o'i gymharu â 92 yn 2021-22.

Fel rhan o'u gwaith dydd i ddydd mae'r Timau Gwaith Cymdeithasol yn cynnig cefnogaeth ac ymyrraeth amserol i blant a'u teuluoedd ac yn tynnu ar ymyraethau mwy arbenigol os yw'n briodol.

Mae'r Tîm Trobwynt yn gweithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd bregus, a phlant ar fin mynd i ofal. Maent yn gallu cefnogi teuluoedd gyda materion megis rhiantu, cwnsela, cam-ddefnyddio sylweddau, cyfarfodydd er mwyn tynnu aelodau'r teulu estynedig i mewn, cymedroli, therapi teuluol, a chefnogaeth ymdopi gyda phrofiadau plentyndod negyddol (ACE'S). Rydym yn parhau i ddatblygu cefnogaeth arbenigol oddi fewn i'r tîm yma i ymateb i anghenion ac adborth teuluoedd. Mae ein prosiectau arbenigol yn cynnwys rhaglen "Adlewyrchu," sy'n cynnig cefnogaeth i rieni sydd â phlant yn y system gofal yn barhaol; ac "Emrallt", sy'n ceisio lleihau nifer yr achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau statudol yn dilyn digwyddiad o gamdriniaeth.

Mae llwyddiant cydweithio rhwng y teuluoedd a'n gwasanaethau yn golygu bod nifer o blant wedi gallu aros adref gyda'u teuluoedd, rhai wedi gallu dychwelyd yn ôl adref o ofal maeth a gofal preswyl, ynghyd â sicrhau bod lleoliadau maeth bregus wedi'u sefydlogi yn sylweddol.

Ar ddiwedd Mawrth 2023 roedd 281 o blant yng ngofal y Cyngor (gan gynnwys 15 yn ffoaduriaid yn ceisio lloches), ac roedd 65% o'r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth, gyda 36% o ofalwyr maeth yn deulu neu ffrindiau a 22% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda'u rhieni, ac felly'n parhau gartref.




Rydym yn gweld fod ein Strategaeth i Gadw Teuluoedd Gyda'i Gilydd yn cael effaith bositif ar blant a teuluoedd, ac felly mae'r strategaeth honno bellach wedi ei weu drwy waith dydd i ddydd yr adran er mwyn parhau gyda'r nod o leihau niferoedd plant sy'n dod i ofal.

Mae plant a phobl ifanc yn dod i'n gofal o dan amgylchiadau anodd iawn ond rydym yr un mor uchelgeisiol ar gyfer y plant yma ag y byddai unrhyw un ar gyfer ei blentyn ei hun. Mae gennym Swyddogion Adolygu Annibynnol sydd yn monitro cynlluniau gofal pob un plentyn a pherson ifanc sydd yn ein gofal, ac maent yn rhoi sicrwydd i ni fel Cyngor bod buddiannau'r plentyn yn cael eu sicrhau drwy gydol eu hamser mewn gofal.

Rhan allweddol o'r gwasanaeth i blant yw'n gallu fel Cyngor i leoli plant gyda rhieni maeth. Rydym yn hynod falch o'n rhieni maeth fel Cyngor ac mae'r Tîm Maethu yn parhau i sicrhau fod gennym ddigon o rieni maeth i ddiwallu anghenion plant sydd yn methu byw gartref. Ers lansio "Maethu Cymru" yn 2021-22 rydym yn falch o fod yn rhan o'r ymgyrch genedlaethol honno, ac wedi parhau i hyrwyddo cyfleon maethu a recriwtio a denu rhieni maeth yn lleol gydol 22-23.

Mae gwaith yr Uned Ddiogelu a Sicrwydd

Ansawdd yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod ein trefniadau diogelu yn gadarn. Yn ystod 2022-23 cynhaliwyd 282 o 'gynadleddau' amddiffyn plant.

**Canran y cynadleddau achos lle ystyriwyd fod yr asesiadau risg o safon uchel: 98%**

Mae'r perfformiad cyson uchel yma'n dangos effaith ein buddsoddiad mewn ymarfer i sicrhau penderfyniadau da sy'n gwarchod hawliau plant a'u teuluoedd. Rydym wedi gwireddu ein prosiect arloesol ar Amddiffyn Plant yn Effeithiol.

Mae clywed a gwrando ar lais y plentyn wedi parhau yn flaenoriaeth i ni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn gweithio ar gryfhau'r elfen yma o'i waith fel ei fod yn cadw cyswllt agos gyda'r hyn sy'n bwysig i blant sydd yn ein gofal.

Un o uchafbwyntiau 2022/23 yw'r cynnydd sydd wedi bod yn ein nod i gael Cynllun Awtistiaeth i Wynedd ar y cyd gyda'n partneriaid. Mae'r rhaglen godi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i weithwyr rheng flaen yn symud ymlaen yn dda, a'r cydweithio gyda Gwasanaeth Awtistiaeth Gogledd Cymru i gael digwyddiadau lleol i gefnogi teuluoedd.

Gwnaed penderfyniad i ailedrych ac ailfodelu'r bwriad i sefydlu tîm amlddisgyblaethol ar y cyd â Chyngor Môn a'r Bwrdd Iechyd. Byddai'r tîm wedi darparu cefnogaeth ddwys, tymor byr i deuluoedd ag anghenion dwys a chymhleth.

Rydym wedi cymryd y cyfle yn hytrach i adeiladu ein gallu'n lleol i ymateb i anghenion plant a theuluoedd yng Ngwynedd drwy ychwanegu rolau i dimau presennol yr adran er mwyn cynnig arlwy ehangach.
Rydym yn ffodus iawn o'n gweithlu eto eleni ac mae parodrwydd a hyblygrwydd ein gweithwyr i ymateb i anghenion a heriau staffio, sydd wedi'n llesteirio gydol y flwyddyn, eto yn dangos eu hymroddiad parhaus i'r gwasanaeth ac i deuluoedd bregus Gwynedd.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.

# Adran Economi a Chymuned

Yn ogystal â'r gwaith mae'r Adran yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' mae'r Gwasanaethau yn ei wneud hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.


**Datblygu Economi Gwynedd**

Parhaodd i fod yn gyfnod anodd i fusnesau a chyflogwyr Gwynedd yn 2022/23. Amharodd chwyddiant ar gostau busnesau a pharodrwydd cwsmeriaid i wario; roedd diffyg argaeledd gweithwyr addas yn parhau i fod yn her i lawer ac mae'r cynnydd yng nghyfraddau llog wedi gwneud hi yn anoddach i fusnesau fuddsoddi.

Mae'r Gwasanaeth Datblygu'r Economi wedi parhau i gymryd camau rhagweithiol dros y flwyddyn i geisio helpu busnesau lleol i sefydlogi a datblygu ac i gefnogi trigolion lleol ddychwelyd i fyd gwaith ac i ennill mwy o gyflog.

Yn ystod 2022/23 derbyniodd 114 o fusnesau gymorth uniongyrchol gan yr Adran ac mae dros 4,200 o fusnesau yn derbyn gwybodaeth yn wythnosol drwy law ein bwletinau busnes. Er gwaetha'r heriau, mae'r galw gan fusnesau am fwy o dir ac eiddo addas wedi parhau. Mewn ymateb mae'r Cyngor wedi buddsoddi £2.9 miliwn i adeiladu 10 o unedau gwaith newydd ym Mhenrhyndeudraeth.

Mewn ymateb i anawsterau recriwtio busnesau mae'r Cyngor wedi cynnal naw o ffeiriau swyddi ar hyd a lled y sir yn ystod y flwyddyn ac wedi cefnogi 141 o unigolion sicrhau gwaith.



**Derbyniodd 114 o fusnesau gymorth uniongyrchol gan yr Adran ac mae dros 4,200 o fusnesau yn derbyn gwybodaeth wythnosol**

**Adfywio Canol Tref**

Adnabuwyd yr angen i ganolbwyntio a blaenoriaethu ymdrechion ar adfywio canol trefi yn sgil gwaith ymgynghori drwy Fframwaith Adfywio Gwynedd. Mae rhaglen ar waith i ddatblygu Cynlluniau Canol Trefi i drefi y Sir fydd yn adnabod gweledigaeth a chynlluniau blaenoriaeth, ynghyd a phartneriaid gweithredol. Mae adfywio canol trefi yn chwarae rhan amlwg yn rhaglenni adfywio Llywodraeth Prydain a Llywodraeth Cymru. Datblygwyd amrediad o gynlluniau dros y flwyddyn i gyfarch hyn, gyda chynllun Llewyrch o'r Llechi, y cynllun mwyaf i dderbyn cefnogaeth ariannol. Nod y pecyn £26m yma yw i uchafu y budd i gymunedau yn sgil dynodiad Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Bydd agweddau cryf o adfywio canol trefi yn gysylltiedig a gweithredu'r cynllun hwn.

**Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau**

Mae'r diwydiant twristiaeth yn gyflogwr allweddol yng Ngwynedd. Gyda gwerth economaidd o dros £1.3biliwn, mae dros 18,000 o bobl yn gweithio yn y sir o fewn y maes. Yn ystod 2022/23 mae'r gwasanaeth wedi parhau i gefnogi busnesau a chymunedau i adfer yn sgil COVID. Dosbarthwyd 94 o fwletinau i gynghori busnesau a rhannwyd negeseuon cyrchfan cyfrifol ac ymweld yn ddiogel ar wefan Eryri Mynyddoedd a Môr gyda dros 951,613 o ymweliadau â'r wefan. Bu i 77,852 ymgysylltu drwy ein cyfrifon cymdeithasol. Cefnogwyd 22 digwyddiad yn 2022/23 gan gyfrannu oddeutu £5.8 miliwn i'r economi lleol a bu i dros 99,600 fynychu. Lansiwyd cynllun Llysgennad Gwynedd yn 2022/23 sef pecyn o fodiwlau y gellir eu cwblhau ar lein a chyrraedd lefel achrediad aur ar ôl cwblhau 9 modiwl. Mae dros 200 wedi cofrestru ar y cynllun.

Yn dilyn cynnal ymchwil manwl yn 2022 i sefyllfa cartrefi modur yn y sir, datblygwyd prosiect Aros-fan i dreialu hyd at 5 safle pwrpasol i gartrefi modur aros dros nos yng Ngwynedd. Cyflwynwyd cais llwyddiannus i Croeso Cymru i gefnogi'r weledigaeth hon trwy'r gronfa Pethau Pwysig i ddatblygu cynigion ar gyfer y safleoedd peilot a chyflwyno ceisiadau cynllunio er mwyn gwireddu'r isadeiledd i fod yn weithredol ar gyfer yr Haf 2023 lle'n bosib.

Cwblhawyd adolygiad o flaenoriaethau twristiaeth yr ardal hefyd yn 2022/23 a mabwysiadwyd Cynllun Economi Ymweld ar y cyd ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cyfnod hyd at 2035.

### Morwrol

Mae'r Adran yn rheoli 301km o arfordir Gwynedd yn cynnwys traethau trefol a gwledig, 4 harbwr a 2 marina. Mewn ymateb i'r cynnydd yn nifer ymwelwyr i draethau Gwynedd, cynyddwyd nifer wardeiniaid traeth a chyfnod eu cytundebau goruchwylio hefyd ar gyfer 2022/23 i adlewyrchu'r estyniad yn y tymor ymweld. Diogelwch a glendid traethau oedd yn parhau i fod y flaenoriaeth dros y flwyddyn gyda ymgyrch diogelwch dŵr yn cael ei hyrwyddo.

Yn ystod y flwyddyn ddiweddaf, sefydlwyd trefniadau rheoli newydd ar gyfer Gwasanaeth Hafan a Harbwr Pwllheli. Mae angorfeydd Hafan Pwllheli yn parhau i fod yn llawn a gwaith carthu ar gyfer yr harbwr wedi cael ei raglennu.

### Cefnogi Cymunedau

Mae Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau wedi parhau i gefnogi grwpiau gwirfoddol yn ystod y flwyddyn 2022/23, yn ogystal â chefnogi grwpiau newydd sydd wedi ffurfio er mwyn cynnig cefnogaeth i unigolion bregus yn eu cymunedau. Mae'r cyfnod wedi bod yn heriol i grwpiau cymunedol ac mae'r gwasanaeth wedi bod yn cynorthwyo i oresgyn rhai o'r heriau sy'n eu wynebu.

Fe wnaeth Cronfa Cefnogi Cymunedau'r Cyngor ariannu 39 o brosiectau eleni gan ddenu £208,753 o arian i'r sir. Hefyd, yn ystod y flwyddyn gweithredwyd cronfa Cymunedau Mentrus (CRF) gan gynnig £357,313 o grantiau yn cefnogi 33 o grwpiau a mentrau cymunedol ar draws y sir.

### Llyfrgelloedd

Mae 13 o Lyfrgelloedd Gwynedd wedi parhau i fod ar agor drwy gydol 2022/23 gyda Llyfrgell Pwllheli yn elwa o oriau agor hunanwasanaeth yn dilyn y buddsoddiad yn Neuadd Dwyfor. Agorwyd Neuadd Dwyfor mis Mawrth 2022 a hynny yn sgil prosiect llwyddiannus gwerth bron i £1m i uwchraddio a gwella'r cyfleusterau yno. Yn anffodus bu rhaid cau'r Neuadd ymhellach yr un flwyddyn er mwyn gwneud gwelliannau pellach i'r adeilad. Gwnaethpwyd cais llwyddiannus am grant o £36,000 i Gyngor Celfyddydau Cymru i ddatblygu rhaglen a gwneud gwaith tyfu ac ymgysylltu a chynulleidfaoedd yn 2023/24.

Gwnaed newidiadau parhaol i'r Gwasanaeth Teithiol yn y flwyddyn diwethaf gan gynnig gwasanaeth cludo llyfrau i'r cartref ar gais ac ar alw, yn rhad ac am ddim i drigolion Gwynedd yn hytrach na thrwy'r hen ddull o gerbyd Llyfrgell Deithiol yn galw mewn arosfannau mewn pentrefi unwaith y mis. Profodd y newid hwn yn un poblogaidd ac roedd yn opsiwn hanfodol ar gyfer y sawl oedd yn gwarchod neu'n fregus eu hiechyd. Parhawyd yn ogystal i gynnig gwasanaeth danfon misol Llyfrgell i'r Cartref (Caeth i'r Tŷ) a'r drefn lle roedd defnyddwyr yn gallu archebu llyfrau – yn aml wedi'i dethol yn arbennig gan staff y llyfrgell - i'w casglu o'r Llyfrgell, gan roi nifer o opsiynau derbyn gwasanaeth llyfrgell i'n defnyddwyr.

Yn ystod y cyfnod 2022/23 benthycwyd 293,653 o lyfrau (58% o gynnydd ar ffigyrau'r flwyddyn flaenorol) gyda 33,084 o bobl

Gwynedd yn aelodau o'r gwasanaeth Llyfrgell. Yn ogystal benthycwyd 71,991 o e-lyfrau, e-lyfrau llafar, e-gylchgronau a phapurau newydd, cynnydd o 21% ar y flwyddyn flaenorol. Gwnaethpwyd archebion am 27,328 o lyfrau penodol (cynnydd arall o 21%). Yn ogystal, cynhaliwyd 190 o sesiynau Cymorth 1:1 ar gais trigolion Gwynedd.

**Benthycwyd 293,653 o lyfrau yn ystod 2022/23**



Dros y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd oddeutu 130 gweithgarwch i oedolion a phlant drwy docyn ymlaen llaw, gyda dros 1200 yn mynychu. Roedd y digwyddiadau hyn yn ychwanegol i'r amseroedd stori galw heibio. Cynhaliwyd dwy Ddarlith Flynyddol, a chychwynnnwyd partneriaeth gyda Cymraeg i Oedolion er mwyn darparu cyfleoedd darllen a siarad Cymraeg yn y Llyfrgelloedd. Buom yn cydweithio gyda nifer o Bartneriaid ar gynlluniau darllen a llythrennedd gan greu a rhannu pecynnau hybu llyfrau a darllen i blant Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen. Datblygwyd cynnig Croeso Cynnes yn y Llyfrgelloedd mewn ymateb i'r argyfwng costau byw. Gosodwyd system rheoli Cyfrifiaduron Cyhoeddus newydd ym mhob Llyfrgell a fydd yn gallu cynnig argraffu cwmwl i'n defnyddwyr. Uwchraddiwyd Llyfrgell Penygroes trwy grant Cyfalaf Trawsnewid a chrëwyd gardd lesiant newydd yn Llyfrgell Dyffryn Ogwen, Bethesda.

Yn ystod y flwyddyn bu i'r Cyngor gymeradwyo Cynllun Llyfrgelloedd newydd hyd at 2028 – Llyfrgelloedd Llawn Bywyd.

**Amgueddfeydd a'r Celfyddydau**

Yn dilyn heriau'r cyfnod Covid, mae'r Adran wedi gorfod ymateb i sialensau pellach yn Storiel ac Amgueddfa Lloyd George – yn Storiel oherwydd diogelwch casys arddangos ac yn Amgueddfa Lloyd George o ganlyniad i bibell ddŵr yn torri. Bu orielau amgueddfaol Storiel ar gau o Awst 2022 hyd Ionawr 2023. Mae Amgueddfa Lloyd George yng nghau ers Rhagfyr 2022 a gobeithir ail-agor fis Gorffennaf 2023.

Yn 2022/23 ymgysylltodd dros 340,000 â'r amgueddfeydd a'r orielau unai yn ffisegol neu'n ddigidol; cefnogwyd ar gyfartaledd 94 artist yn fisol yn Storiel ac roedd boddhad cwsmer ar gyfartaledd yn 94.6 %. Trefnwyd nifer o weithgareddau trwy'r Cynllun Cyfuno gan weithio gyda llawer o bartneriaid gan gyrraedd 212 o blant a phobl ifanc i gefnogi



**Yn 2022/23 ymgysylltodd dros 340,000 â'r amgueddfeydd a'r orielau**

agwedd well at ddysgu; cefnogi 130 awr o wirfoddoli i bobl ifanc ac ymgysylltu â 107 o deuluoedd.

Cefnogwyd plant a phobl Gwynedd gan 19 o brosiectau Celfyddydau Cymunedol fel rhai Celf ar Bresgripsiwn, Sgwrs a Chan, Fi di Fi, Fa'ma, Clwb Enfys, Crefft er Lles, sesiynau i Ofalwyr Dementia, Criw Celf i 57 o bobl ifanc; Gŵyl Gofalwyr gan gynnwys cyngerdd; rhaglenni SHEP i'r ysgolion. Bu i brosiect Ynys Blastig gefnogi iechyd a lles mewn ysgolion trwy'r celfyddydau. Cynhaliwyd pythefnos o weithgareddau Llesiant i Mi gyda 88% yn gweld cynnydd yn eu llesiant. Dosbarthwyd 80 o becynnau celf i Ofalwyr

Ifanc y Sir gan weithio gyda Gweithredu dros Blant; dosbarthwyd 100 o becynnau prysur a dyrannwyd 13 o grantiau cymunedol.

### Archifdy

Yn sgil gwaith ail-wifro Archifdy Caernarfon, bu'r safle ar gau o Fehefin 2022 hyd at Mai 2023. Fe gafodd hyn effaith ar y niferoedd oedd yn ymweld – ond fe barhaodd y gwasanaeth i ymateb i ymholiadau, gwaith ymchwil a pharhau gyda'r gwaith o gatalogio a digido casgliadau.

Yn ystod y flwyddyn ymatebodd y Gwasanaeth i 2,919 o ymholiadau, defnyddiodd 13,570 ein catalogau ar-lein, a digiwyd 9,029 o ddogfennau.  Yn ogystal aethpwyd ati i estyn 5,589 o ddogfennau i gwsmeriaid. Ymwelodd y Swyddog Addysg gydag ysgolion y sir gyda 2,341 o ddisgyblion yn derbyn y gwasanaeth.

### Hamdden a Pharciau Gwledig

Mae'r Adran yn gyfrifol am rwydwaith o 12 o Ganolfannau Byw'n Iach ar draws Gwynedd. Ers 2019 mae'r canolfannau hyn yn cael eu rheoli drwy gytundeb gyda Chwmni Byw'n Iach Cyf. Mae'r gwasanaethau a chyfleusterau wedi ail agor yn llawn yn dilyn cyfnod Covid a dros y flwyddyn diwethaf gwelwyd cynnydd yn y nifer cwsmeriaid o'i gymharu a'r flwyddyn flaenorol, sef 920,805 yn 2022/23 o'i gymharu a 284,994 yn 2021/22. Ond mae hyn dal i fod yn ostyngiad ar ymweliadau 2019/20 oedd yn 1,204,641. Mae cynlluniau mewn lle i ad-ennill nifer cwsmeriaid dros y flwyddyn nesaf ac mae'r Cwmni yn gweithio yn galed i addasu'r cynnig i ymateb i'r galw newydd.

**Nifer o ddefnyddwyr Canolfannau Byw'n Iach yn ystod 2022/23**
**920,805**



Byw'n Iach, gan gynnwys cae synthetic Brynrefail, nenfwd neuadd Canolfan Hamdden Arfon, goleuadau a cae Canolfan Hamdden Bro Dysynni, to Canolfan Hamdden Dwyfor, cae synthetig Glan Wnion Dolgellau a Pwll Nofio Blaenau Ffestiniog.

Mae'r Adran hefyd yn gyfrifol am ddau Barc Gwledig - Parc Glynllifon a Pharc Padarn. Yn ystod 2022/23 bu'r ddau barc yn brysur gyda nifer ymwelwyr ar gynnydd gan barhau i roi pwysau ar gyfleusterau'r parciau.  Buddsoddwyd mewn rhaglen i wella cyfleusterau'r ddau Barc gan sicrhau adnoddau i ddadorchuddio'r mosaig yn Parc Glynllifon ac adfer y grisiau i Ysbyty Chwarel yn Parc Padarn. Yn 2022/23 fe wnaeth rhaglen digwyddiadau Parc Padarn ailgychwyn hefyd a buddsoddwyd mewn maes digwyddiadau newydd i drefnwyr yn y Parc. Sicrhawyd buddsoddiad grant sylweddol hefyd i ail-wynebu maes parcio'r Glyn a chyflwyno mesurau i wella diogelwch ger y llyn.

### Blaenoriaethau Lleol – Cynllun y Cyngor

Un o'r blaenoriaethau lleol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor ydi'r dyhead i ddenu mwy o swyddi tymor hir sy'n talu cyflog da. Bu i Aelodau yn ardal Porthmadog, Ffestiniog a Phenllyn nodi hyn fel blaenoriaeth uchel i'w hardaloedd. Mae'r prosiect Creu Swyddi Gwerth Uchel wedi ei sefydlu er mwyn ymateb i'r broblem ac mae'n canolbwyntio ar gyfleoedd fydd yn dod â budd i'r cymunedau hyn (gweler Rhan 1 o'r adroddiad hwn).
Mae gwella cysylltedd gwael ffonau symudol a bandeang yn ardal Dolgellau yn un arall o'n blaenoriaethau lleol, ac rydym yn ceisio sicrhau blaenoriaeth i'r sir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau yn y maes drwy ddilyn egwyddorion Gwynedd Ddigidol ynghyd â gweithio'n frwdfrydig gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd ac Arloesi Gwynedd Wledig i gwrdd â'r angen.

Yn sgil pryderon ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol yn Ffestiniog mae'r

Yn sgil pryderon ynglŷn â dyfodol y Ganolfan Gymunedol yn Ffestiniog mae'r tîm adfywio wedi cynnal arolwg diweddar ar adeiladau cyhoeddus ar hyd a lled Gwynedd. Dangosodd yr arolwg fod defnydd aneffeithiol yn cael ei wneud o nifer o adeiladau cyhoeddus ym Mlaenau Ffestiniog gan gynnwys y Ganolfan Gymunedol, sy'n adnabod cyfle i rannu adnoddau yn well i'r dyfodol.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

# Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld peth newid o fewn yr Adran gan i'r Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu symud i'r Adran Amgylchedd ac i'r Gwasanaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) ymuno â'r Adran. Yn sgil y newid 'roedd cyfle i ail edrych ar enw'r Adran ac erbyn hyn adnabyddir yr yn Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn gweithio ar ddatblygu a chyflwyno'r Timau Tacluso , cwblhau gwaith ar drosi lampau stryd i rai LED ynghyd a chyflwyno Cynllun Fflyd Werdd ar gyfer y Cyngor. Mae'r Cynllun yma yn hynod gyffrous ac yn cyflwyno gweledigaeth uchelgeisiol a hirdymor ar drosi ein fflyd i gerbydau fydd yn gyfuniad o rai carbon isel i gyflwyno cerbydau trydan ynghyd a datblygiadau amgen eraill megis cerbydau Hydrogen.

Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, hoffwn estyn fy niolch i'r tîm diwyd o swyddogion, am eu hymroddiad a'u cefnogaeth gydol y flwyddyn.

TIMAU TACLUSO

Boed law neu hindda, mae'r Timau Tacluso yn dod yn fwy amlwg yn ein hardaloedd, wrth iddyn nhw gychwyn gwneud y pethau bychain hynny sy'n gwneud gwahaniaeth mawr.

Mae 5 Tîm yn gweithio ar draws y Sir er mwyn harddu ein cymunedau gan greu ymdeimlad o falchder bro. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi sefydlu 'hwb' ar gyfer y Timau Taclus sy'n galluogi aelodau lleol i:

- Greu cais am waith
- Gael mynediad at raglen waith/ cylchdeithiau'r Timau
- Derbyn manylion ynglŷn â chynnydd/gwaith y Timau
- Gyflwyno adborth ar waith y Timau

Mae cylchdeithiau'r Timau yn seiliedig ar yr 12 ardaloedd adfywio/'Ardal Ni' ble byddwn yn cynnal ymweliadau oddeutu bob yn ail fis. Felly, mae'n debygol erbyn hyn eich bod wedi gweld y timau wrthi yn eich cymunedau lleol. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol dros ben ac yn profi gwerth gwaith y timau.

Y pethau y gall y tîm eu gwneud yw......

- Torri/symud chwyn trefol neu ordyfiant
- Glanhau arwyddion ffyrdd/enwau strydoedd
- Glanhau dodrefn stryd
- Peintio neu drwsio dodrefn stryd
- Golchi, atgyweirio neu adnewyddu biniau stryd a baw cŵn
- Glanhau graffiti/sticeri neu bosteri oddi ar eiddo'r Cyngor
- Glanhau dwfn - golchi strydoedd a thynnu gwm.



Tim Tacluso yn gosod biniau clyfar

GWASANAETHAU STRYD

Mae'r amgylchedd lleol yn hynod bwysig ac elfen fawr o hyn yw gweld ein strydoedd a thiroedd yn lân, yn daclus ac yn ddiogel. Nid oes unrhyw un yn hoffi gweld man sbwriel ar hyd y strydoedd, felly mae ein Tîm Gorfodaeth yn hybu trigolion Gwynedd i beidio niweidio ein hamgylchedd drwy waredu a'i gwastraff yn gyfrifol. Yn ystod y flwyddyn yma penodwyd Gwardeiniaid

Gorfodaeth Cŵn sy'n gweithio'n benodol ar reolaeth cŵn ar draws y Sir gan gynnwys hymweliadau ag ein traethau.

Drwy atgoffa pobl o'r opsiwn gorau, a gwneud yr opsiwn hwnnw mor hawdd â phosibl, gallwn newid ymddygiad er mwyn cyflawni buddion amgylcheddol yn y tymor hir.


Mae addysgu ein plant yn hanfodol er mwyn codi ymwybyddiaeth o effeithiau gollwng ysbwriel ar ein hamgylchedd. Mae ein timau yn brysur yn paratoi rhaglen ymweld â'r ysgolion.

Mae mewnbwn gwirfoddolwyr yn bwysig iawn ac eisoes gweler ymgyrchoedd ar draws y Sir er mwyn codi mân ysbwriel a threfnu digwyddiadau o glirio eitemau wedi eu gwaredu yn anghyfreithlon.

## GLANHAU STRYDOEDD

Mae ein cylchdeithiau cylchol o lanhau yn rhan hanfodol o gadw safonau glendid ein strydoedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn brysur iawn yn ymateb i'r cynnydd yn nhwristiaeth a threfniadau gwahanol o gasglu gwastraff a bydd y gwaith yma yn parhau gydag adolygiad effeithlonrwydd ein cylchdeithiau.

Rydym yn defnyddio mesurydd o'r enw 'Mynegai Glendid' (sy'n gyfuniad o asesiad mewnol ac allanol) o gyflwr glendid ein strydoedd er mwyn asesu safon ac edrychiad strydoedd. Gwelir isod graff sy'n adrodd ar y canran o strydoedd glan yng Ngwynedd mewn cymhariaeth gyda'r canran cenedlaethol:




Mae glanhau strydoedd yn rhywbeth sy'n digwydd drwy'r flwyddyn ac mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- clirio mân ysbwriel
- cael gwared ag anifeiliaid marw
- glanhau olion baw cŵn
- clirio unrhyw beth sydd wedi'i dipio'n anghyfreithlon
- gwagio biniau sbwriel a baw cŵn
- clirio unrhyw beth arall sydd wedi'i ollwng
- glanhau mannau cyhoeddus
- ysgubo ffyrdd a phalmentydd.

Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod biniau addas wedi eu lleoli ar draws y Sir ar gyfer hybu ailgylchu mân ysbwriel a rhoi cyfleoedd priodol i drigolion ac ymwelwyr gymryd rhan - mae gan bawb gyfrifoldeb i waredu eu sbwriel yn gyfrifol.

## CYNNAL TIROEDD

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwasanaeth Cynnal Tiroedd wedi bod yn gweithio tuag at bolisi o dorri a chasglu gwair lle bo modd a phan mae adnoddau'n caniatáu. Pwrpas hyn fydd i hybu anghenion bioamrywiaeth a bywyd gwyllt.

Rydym yn falch o adrodd ein bod, mewn partneriaeth â'r Adran Amgylchedd, wedi llwyddo i sicrhau cyllideb trwy gynllun Partneriaeth Natur Leol Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'n harferion torri gwair

er mwyn darganfod os gallwn gael gwell rheolaeth ar ein trefniadau presennol er mwyn hyrwyddo buddion bioamrywiaeth.
Bydd yr adolygiad yn cydredeg â phrosiectau sydd gan yr Adran Amgylchedd i fuddsoddi yn rhai o fannau agored cyhoeddus y Cyngor er mwyn cysylltu ein trigolion â byd natur.

Gyda mewnbwn gan beirianwyr yr Adran, bu iddynt adnabod wyth lleoliad addas ar yr A497 a A499 yn Nwyfor i gynnal y treialon. Os daw i'r amlwg fod y treialon wedi bod yn llwyddiannus, yna bydd y data a'r profiadau a enillwyd yn gatalydd i'r Adran wneud cais am arian grant pellach er mwyn ymestyn y treialon i Arfon a Dwyfor.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r treialon ar stondin y Cyngor ar faes Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd yn Awst 2023. Bydd hyn yn cydredeg â hyrwyddiad yr Adran Amgylchedd o'u Cynllun Dolydd Blodau Gwyllt Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd dalgylch yr Eisteddfod er mwyn sefydlu rhwydwaith o gynefinoedd blodau gwyllt. Mae pob un o'r safleoedd treial wedi'u lleoli ar y prif ffyrdd sy'n arwain at yr Eisteddfod. O ganlyniad, y gobaith yw y byddant yn ffynnu erbyn i'r Eisteddfod gael ei chynnal fel eu bod yn cyflwyno croeso cynnes, lliwgar a naturiol i ymwelwyr.

Drwy arian grant y Bartneriaeth Natur Leol cawsom beiriannau torri a chasglu gwair arbenigol a fydd yn galluogi'r Adran i ymgymryd â'r gwaith gweithredol o hyn ymlaen.




Mae'r gwaith cynnal a chadw meysydd chwarae a thiroedd agored wedi ei gyflawni yn unol â'n rhaglen gylchol.




TELEDU CYLCH CYFYNG

Mae'r Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng wedi ei uwchraddio i drefn ddigidol erbyn hyn ac yn gweithio yn hynod effeithiol. Bu cyfle i ychwanegu at y ddarpariaeth yn ardal Hirael, Bangor drwy'r prosiect 'Safer Streets' oedd yn cael ei arwain gan yr heddlu. Drwy'r prosiect hwn, rydym wedi gosod 41 camera ychwanegol ynghyd ac uwchraddio 12 colofn goleuo stryd i ddal y camerâu.

Bydd y camerâu ym Methesda, ynghyd â'r holl gamerâu mannau cyhoeddus ym Mangor, Caernarfon, Porthmadog a Phwllheli ar gael i swyddogion Heddlu Gogledd Cymru eu gweld o'u gorsafoedd 24 awr y dydd 7 diwrnod yr wythnos.

Mae'r adran wedi parhau â'i hymrwymiad i ymestyn y system i ddepos, sy'n gweithio ar osodiad yn Afon Wen ar hyn o bryd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn paratoi i ddechrau gosod camerâu ychwanegol, gan ymestyn y cwmpas i gynnwys gwasanaeth Digartref Pendalar (Pods) yng Nghaernarfon a agorwyd yn ddiweddar.

GWASANAETH FFLYD

Mabwysiadwyd Cynllun Fflyd Werdd y Cyngor

gan y Cabinet ar y 23 Ionawr 2023. Nod y Cynllun Fflyd Werdd 2023-28 yw lleihau allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnydd Fflyd y Cyngor.

Mae Fflyd y Cyngor yn cynorthwyo adrannau'r Cyngor i ddarparu ystod eang o wasanaethau i bobl Gwynedd o gasglu gwastraff i ymweliadau gofal, o gynnal Priffyrdd i gludo disgyblion. Yn wir, mae'r mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor yn gwneud defnydd o gerbydau mewn un ffordd neu'r llall ac fe arweiniwyd hyn drwy'r Gwasanaeth Fflyd.



Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi gosod uchelgais y "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030" sy'n cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru i'r sector gyhoeddus yng Nghymru fod yn garbon sero net erbyn y dyddiad hwn.

Gan ddefnyddio data am ein hallyriadau, mae'n darlunio'r dasg anodd sy'n ein hwynebu i drawsffurfio ein Fflyd.

Rydym hefyd yn edrych ar wahanol gyfleoedd o fewn y maes di-garboneiddio fydd yn cynnwys defnydd hydrogen o fewn cerbydau trymion.

## CYNNAL PRIFFYRDD

Mae'n bwysig bod trigolion, busnesau ac ymwelwyr i Wynedd yn medru symud yn rhwydd a diogel o fewn y sir. Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn cynnal 2,697 cilomedr o Ffyrdd Sirol ynghyd â 199 cilomedr o Gefnffyrdd (sef priffyrdd o bwysigrwydd cenedlaethol, ar ran Llywodraeth Cymru).


Tra bod y cyflwr ein ffyrdd Sirol yn cadw'n eithaf sefydlog, yn anffodus mae rhai ffyrdd dosbarth C yn amlygu'r canran uchaf sydd angen sylw. Mae cryn bwysau ar ein cyllidebau i gadw safon ein ffyrdd mewn cyflwr da ac mae pwysau wedi bod ar ein timau wrth flaenoriaethu'r rhaglen waith. Mae effeithiau newid hinsawdd hefyd yn fater sydd yn cael ei ystyried yn barhaol erbyn hyn wrth i ni weld mwy o lifogydd a gaeafau caletach effeithio ar wyneb ein ffyrdd. Cafwyd sawl tirlithriad y llynedd oedd yn gost a phwysau ar y gyllideb. Bydd yr Adran yn parhau i fonitro ac ystyried y sefyllfa yma wrth flaenoriaethu rhaglen cynnal a chadw ffyrdd sirol.

Fel awdurdod priffyrdd, mae dyletswydd arnom i gydymffurfio â dyletswyddau statudol dan Ddeddfwriaeth Priffyrdd 1980. Cyhoeddwyd côd ymarfer newydd ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd ym mis Hydref 2016 sydd yn darparu canllawiau y disgwylir i awdurdodau priffyrdd eu defnyddio wrth lunio dull o reoli gwaith cynnal a chadw priffyrdd. Mae'r gwasanaeth dros y flwyddyn olaf wedi gweithio ar ddiweddau'r Cynllun \ Cynnal Asedau Priffyrdd er mwyn cyfarch y newidiadau a gynigir yn y côd ymarfer newydd. Er mwyn monitro anghenion atgyweirio a chyflwr ein hasedau, mae ein trefn o archwilio ffyrdd yn digwydd yn rheolaidd gyda'r amseriad / amlder yn ddibynnol ar gategori'r ffordd.

Un broses sy'n hanfodol i warchod bywyd ased y ffordd yw gwaith cynnal arwisgo 'tar a chip'. Mae'r math o waith cynnal a chadw yma yn ataliol gynnar sy'n lleihau'r costau a

fyddai'n codi o ganlyniad i ffordd fethu.

Gweler isod diagram sy'n dangos strategaeth costau am byth ar  gyfer ein rhwydwaith ffyrdd:




Mae'r broses o arwisgo/'tar a chip'  yn adfer gwead y wyneb y ffordd gan selio'r wyneb rhag ddŵr ac yn atal unrhyw ddirywiad e.e. cracio.

Dyma luniau o'r gwasanaeth cynnal priffyrdd yn cynnal gwaith 'tar a chip'.





## GOLEUO STRYD

Erbyn hyn mae ein holl lampau stryd wedi eu hamnewid i dechnoleg LED sy'n cyfrannu at leihad yn ein hôl-troed carbon a chostau ynni. Bydd unrhyw ddatblygiad newydd yn cynnwys y dechnoleg LED a bydd gwaith cynnal a chadw'r goleuadau dal i fodoli yn unol â chanllawiau/cyfarwyddiadau presennol.

Yn ogystal â hyn, er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth sy'n egni/carbon effeithlon rydym hefyd yn pylu'r (dimio) goleuadau o fewn stadau/pentrefi'r Sir i ddefnyddio 25% yn llai o kwh fesul awr rhwng 10:00yh a 6yb.

Wrth edrych ymlaen byddwn yn adolygu ein gwaith er mwyn manteisio ar unrhyw gyfleoedd pellach o leihau ein hallyriadau a defnydd ynni o fewn y gwasanaeth. Gall hyn gynnwys :-

- Adolygiad o'r drefn pylu (dimio)
- Adolygiad o' wefru cerbydau ar y stryd
- Ddatblygiadau pellach yn y maes goleuo

## CLWYF YR ONNEN

Ffurfiwyd y tîm arbenigol Clwyf Gwywiad yr Onnen ym mis Medi 2021 i ymdrin â'r clwyf yn benodol ar lonydd a phriffyrdd Cyngor Gwynedd.

Mae cylch gorchwyl y tîm yn cynnwys cynnal archwiliadau o goed ynn a llunio rhaglen waith i ymdrin â'r rhai sy'n peri risg i ddiogelwch y cyhoedd. Mae'r tîm hefyd ar gael i roi cyngor i holl adrannau'r Cyngor mewn perthynas â'r clwyf. Rôl bwysig arall y tîm yw cysylltu â thirfeddianwyr preifat os yw eu coed yn peri risg diogelwch i ddefnyddwyr tiroedd y Cyngor. Mewn rhai achosion, mae angen i'r tîm ddilyn materion preifat i fyny gyda rhybudd cyfreithiol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn.

Crëwyd rhaglen waith llawn cyntaf y tîm yn 2022/23 i docio a thorri rhai o'r coed oedd

wedi eu hadnabod fel rhai peryglus yn ystod yr arolwg a wnaed yn 2020 gan gontractwyr. Blaenoriaethwyd y coed ar sail y risg mwyaf i'r cyhoedd e.e. rhai ar ochr ffyrdd prysur, tiroedd a defnydd uchel ac ati. Dysgwyd gwersi pwysig wrth weithredu'r rhaglen waith yma a arweiniodd at y tîm i ffurfio strategaeth newydd ar gyfer defnyddio'r cyllid refeniw sydd ar gael yn fwy effeithlon.
Mae'r tîm hefyd wedi dechrau ailymweld â'r safleoedd yr ymwelwyd â nhw'n arolwg 2020 er mwyn darganfod os yw cyflwr rhai o'r coed wedi gwaethygu ac, yn unol â hynny, yn haeddu triniaeth erbyn hyn.

Byddai'r tîm yn cofnodi eu harolygiadau a'u rhaglenni gwaith ar feddalwedd a adeiladwyd ar eu cyfer gan Wasanaeth Technoleg Gwybodaeth y Cyngor. Fodd bynnag, er ei fod wedi bod yn effeithiol yng nghamau cychwynnol eu gwaith, cydnabuwyd bod angen pecyn meddalwedd mwy cynhwysfawr er mwyn dal holl ganfyddiadau'r tîm. O ganlyniad, trosglwyddodd y tîm ei holl ddata yn ddiweddar i becyn rheoli asedau coed masnachol o safon diwydiant. Mae'r pecyn yn darparu mwy o adnoddau i reoli data arolygon a chofnodi coed preifat. Mae hefyd yn rhyddhau amser y tîm i ganolbwyntio ar y tasgau gweithredol o arolygu a thorri coed ynn heintiedig.

Blaenoriaeth y tîm yn ystod 2023/24 fydd parhau i archwilio coed ynn heintus ar diroedd a ffyrdd y Cyngor, yn ogystal â thiroedd preifat, a'u cynnwys ar raglenni gwaith fel bo'r angen.

## CYNNAL A CHADW PONTYDD/STRWYTHURAU

Rydym yn cynnal a chadw 631 pont drwy'r Sir. Mae 338 pont bwa a 96 pont wedi eu rhestru sydd â gofynion ychwanegol. Yn ogystal, mae gennym 1,618 o waliau cynnal drwy'r Sir sydd hefyd yn cael eu cynnal a'u cadw gan yr Adran.

Cafodd Pont Bodfal ei chau fis Ionawr 2019, ond mae'r bont newydd wedi'i hagor ar draws afon Rhyd-hir ar ffordd A497 rhwng Nefyn a Phwllheli.

Cafodd yr hen Bont Bodfal yn Ionawr 2019 yn dilyn storm pan ddaeth i'r amlwg fod difrod a dirywiad sylweddol wedi bod i'w sylfeini. Yn anffodus, rhaid oedd dargyfeirio traffig wyth milltir i'r Ffôr am gyfnod byr, tra bod gwaith argyfwng i osod pont dros dro a thrwsio'r hen bont.

Bu'n rhaid gweld a fyddai'n bosib lledaenu'r hen bont a'i gwneud yn addas ar gyfer anghenion rhwydwaith traffig heddiw, ond wedi trafodaethau gyda Chadw a swyddogion cadwraeth, daeth i'r amlwg na fyddai hyn yn bosib ac fe ddechreuodd y prosiect hirdymor i godi pont newydd sbon.

Cafodd agoriad swyddogol y bont newydd ei gynnal ar Mai 3 2023, ac mae'r enw newydd wedi'i roi arni gan blentyn o ysgol leol.







## CAEAU CHWARAE

Rydym yn gwybod bod meysydd chwarae yn bwysig i blant, rhieni a gofalwyr plant ond oherwydd bod offer chwarae'n ddrud ac arian yn hynod brin, mae eu cynnal mewn modd

sy'n ddiogel i blant a phobl ifanc allu eu mwynhau yn heriol.
Felly, eleni mi wnaethom gysylltu â grwpiau a phartneriaid eraill o fewn y gymuned byddai â diddordeb partneriaethau gyda'r gwasanaeth. Drwy'r gwaith ymgysylltu yma, cawsom arian grant er mwyn:

• Cyflwyno cylchfan sy'n addas ar gyfer plant mewn cadair olwyn ym meysydd chwarae Trehwfa, Coed Mawr, Bangor; Rhiwlas; Llanberis; Pwllheli a Thywyn yn ddiweddar trwy arian grant Llywodraeth Cymru
• Cyflwyno ffrâm dringo amlbwrpas ym Methel cyn diwedd y flwyddyn ariannol mewn partneriaeth â'r grwpiau cymunedol/cynghorydd lleol.



Toiledau Cyhoeddus

Mae gan y Cyngor 66 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd gyda dau wedi ail agor yn ddiweddar oherwydd y gofyn gan ein cymunedau.

Rydym hyd yma wedi uwchraddio 10 toiled trwy gynlluniau grantiau ac eleni mae potensial i uwchraddio 4 toiled arall drwy grantiau sef Criccieth, Aberdyfi, Pwllheli a'r Glyn Llanberis.

Efallai eich bod wedi ymweld â thoiled wedi ei uwchraddio ym Morfa Nefyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:




Mae'r Gwasanaeth yn wynebu sawl sialens o ran y cynnydd yn ei defnydd ac mewn rhai achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth edrych i'r dyfodol bwriedir edrych ar wahanol ffyrdd o greu fwy o incwm trwy dechnoleg newydd gyda'r drysau codi ffi."

**YMGYNGHORIAETH GWYNEDD**

Mae Ymgynghoriaeth Gwynedd (YGC) yn gweithredu'n fasnachol yn y maes peirianyddol ac adeiladu er mwyn sicrhau swyddi o ansawdd uchel o fewn y Sir a cheisio creu elw i helpu gyda sefyllfa ariannol y Cyngor.

Yn ystod y cyfnod mae perfformiad cyllidol YGC wedi bod yn rhagorol, ac rydym wedi llwyddo i wneud elw dros ein targed. Mae hyn wedi bod yn bosib drwy gwblhau'r gwaith ar ddylunio ac adeiladu, a pharhau i weithio ar gynlluniau drwy Ogledd, Canolbarth Cymru a Phenfro. £8.09 miliwn oedd y targed incwm terfynol a osodwyd ar ar gyfer 2022/23.




**Coch = tanwariant**

Yn allweddol i hyn oll roedd parodrwydd staff i weithio yn hyblyg gan ymdopi ac addasu i'r sefyllfa. Rydym wedi gwneud addasiadau sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn i'r gwasanaeth a byddwn yn parhau â rhai o'r trefniadau hyn i'r dyfodol.

**Perfformiad ar faes Dŵr a Llifogydd**

Mae'r Gwasanaeth yn amddiffyn pobl Gwynedd rhag llifogydd ac erydiad arfordirol. Yn unol a gofynion cenedlaethol mae'r gwasanaeth yn darparu Strategaeth Lifogydd Lleol fydd yn ei le erbyn Hydref 2023.
Bu sawl cynllun yn cael ei ddatblygu dros y flwyddyn diwethaf gan ddenu arian grant i'w gwireddu.

Yn ystod 2022/23 mae llawer o'n cynlluniau dŵr a llifogydd wedi symud o ddyluniad amlinellol i ddyluniad manwl. Erbyn hyn mae rhai cynlluniau yn barod i symud ymlaen i'r cam adeiladu yn 2023/24, fel y nodir isod. Mae'r prosiectau atal llifogydd yn cynnwys (noder niferoedd adeiladau sydd yn elwa o leihad yn risgiau llifogydd):

• Gerddi Traphont, Abermaw (33) – Gorffen dylino manwl a dechrau adeiladu yn gwanwyn 2024.
• Prom Gogleddol, Abermaw (712) - Dechrau y broses dylunio mawl fydd am cymryd dros dwy flynedd.
• Bae Hirael, Bangor (82) – Gwaith adeiladu yn dechray haf 2023.
• Porthdinllaen (18) – Gwaith adeiladu wedi i orffen.
• Cei Aberdyfi (11) - Cwblhau'r gwaith adeiladu.
• Afon Gwyrfai (54) – Paratoi dyluniad manwl ag achos busnes llawn ar gyfer cynlluniau unigol o fewn y dalgylch - Parhau
• Dalgylch Ogwen (95) - paratoi cais busnes manwl i wneud gwelliannau ar hyd y dalgylch sydd am reoli a lleihau risg llifogydd –Parhau

**Monitro Asedau**
Mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau archwiliadau asedau arfordirol a draenio tir y Sir a mae'r gwaith cynnal a chadw a ddeilliodd o'r archwiliadau hyn wedi eu cwblhau. O'r 209 asedau arfordirol mae 25 sydd ddim yn cyrraedd y darged cyflwr, mae'r asedau yma yn rhan o raglen waith cyfalaf y Cyngor.

**Ymchwiliadau Llifogydd**
Rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth ynglŷn â lefel risg llifogydd o fewn y Sir, ac wedi datblygu mapiau a chronfeydd data penodol ar gyfer y pwrpas yma. Yn ystod 2022/23 cofnodwyd fod 35 o eiddo preswyl a 5 eiddo masnachol wedi dioddef o lifogydd mewnol, sef dwr yn dod i mewn i'r adeilad.

Rydym yn parhau i gydweithio gyda'r sector gyhoeddus, a chyrff eraill drwy godi ymwybyddiaeth am beryglon llifogydd ac erydiad arfordirol.

**Rheoleiddio**
Yn ystod 2022-23 rydym wedi prosesu 21 o geisiadau i weithio mewn cyrsiau dŵr cyffredin dros y Sir. Mae'r gwasanaeth ymgynghorol a gynigir yn golygu fod pob cais sydd wedi ei dderbyn o fewn y cyfnod hwn wedi bod yn dderbyniol, gydag ymateb wedi ei ddarparu o fewn 22 diwrnod ar gyfartaledd, lle caniateir hyd at 2 fis.

Pwrpas y broses caniatâd gweithio mewn cyrsiau dŵr ydi rheoli gweithgareddau penodol a allai gael effaith andwyol ar lifogydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym hefyd wedi bod yn trafod gofynion yr is-ddeddfau draenio tir newydd gydag amryw o ddatblygwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r oblygiadau ar ddatblygiadau i'r dyfodol. Bydd y broses codi ymwybyddiaeth yma yn parhau.

Yn ystod 2022-23 rydym wedi adolygu dros 300 cais cynllunio, i sicrhau fod bygythiad llifogydd ac erydiad arfordirol i ddatblygiadau newydd yn amlwg a derbyniol a bod manylion y cais yn cydymffurfio a pholisïau cenedlaethol.

Systemau Draenio Cynaliadwy (SDC)

**Ceisiadau**
Mae'r gwasanaeth wedi derbyn 52 o geisiadau yn flwyddyn 2022/23 ac mae amser cymeradwyo y ceisiadau wedi lleihau o 77 diwrnod yn 2021/22 i 33 diwrnod yn 22/23.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

# Adran Tai ac Eiddo

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae natur rheng-flaen a chorfforaethol y gwasanaethau sydd gennym yn golygu bod rôl yr Adran yn eang ac yn allweddol wrth wneud gwahaniaeth i bobl Gwynedd, boed hynny'n ymateb i'r heriau cynyddol yn y maes tai fforddiadwy, ymateb i'r argyfwng digartrefedd sy'n wynebu pob rhan o Gymru erbyn hyn, neu sicrhau bod adeiladau'r Cyngor yn ddiogel ac yn cydymffurfio â gofynion cenedlaethol.

**Effaith Covid-19 ar waith yr Adran**

Mae rhai Gwasanaethau yn parhau i weld effaith Covid-19, yn benodol y Gwasanaeth Digartrefedd. Yn ystod y pandemig, rhoddwyd gofyniad statudol dros dro ar awdurdodau lleol i gartrefu unrhyw un a gyflwynai'n ddigartref, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, er mwyn osgoi bod unrhyw un yn cysgu allan ar y stryd. Mae'r gofyniad hwnnw'n barhaol bellach ac o ganlyniad mae'r Gwasanaeth yn cefnogi'r nifer uchaf erioed o unigolion a theuluoedd. Mae'r Tîm Opsiynau Tai hefyd yn parhau i ddelio â nifer uchel o ymholiadau a cheisiadau i gael mynd ar y gofrestr tai cymdeithasol. Mae ôl-effaith y pandemig i'w weld ar y maes datblygu ac adeiladu hefyd – parheir i weld heriau i ddenu cwmnïau i dendro, neu ceir costau uwch pan dderbynnir tendrau, a hyn ar ben costau adeiladu a phrynu tai uwch yn gyffredinol. Er bod y farchnad wedi sefydlogi, amcangyfrifir bod costau adeiladu wedi cynyddu tua 30%, sydd wedi cael effaith ar sawl un o'n ffrydiau gwaith gan gynnwys cynlluniau ar y Rhaglen Ddatblygu Tai a chynllun Tŷ Gwynedd yn y Cynllun Gweithredu Tai.

Mae'r Uned Swyddfeydd yn rhan o drafodaethau i gynllunio ar gyfer rhaglen 'gweithio i'r dyfodol' y Cyngor sy'n edrych ar ddefnydd ein gofod swyddfa a'r newidiadau sydd angen eu gwneud yn sgil newidiadau i batrymau gwaith ein staff.

**Gwasanaeth Eiddo**

Ers mabwysiadu Cynllun Rheoli Carbon ym mis Mai 2010 er mwyn ymateb i'r heriau sy'n codi o newid hinsawdd a sicrhau bod cymunedau Gwynedd yn cael eu paratoi ar gyfer y dyfodol mae'r cynllun wedi golygu buddsoddiad sylweddol yn ymdrechion y Cyngor i ostwng allyriadau carbon o'i weithgareddau, yn ogystal â chyfrannu tua'r amcan ehangach o Wynedd garbon isel.

Mae natur cynlluniau o'r fath yn annatod yn cael eu mesur dros gyfnod hir, gyda gwahaniaethau bychan rhwng cyfnodau monitro yn cael effaith cronnus dros dymor ehangach.

Sefydlwyd Fframwaith Ynni mewn partneriaeth â Beond i redeg o Ebrill 2020-2030. Ar hyn o bryd mae nifer o gyflenwyr ar ein Fframwaith, ac mae'r trefniadau sy'n rhan ohono, sef 'reverse auction technology' yn unigryw yn y maes ynni. Mae nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau ar draws Prydain yn defnyddio'r Fframwaith, gan gynnwys: Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Portsmouth, Cyngor Bwrdeistref Reigate a Banstead, Cyngor Buckinghamshire, ac Ymddiriedolaeth Peabody (cymdeithas dai sy'n berchennog ar 104,000 o gartrefi). Yn sgil y trefniant hwn, mae'r Cyngor yn ennill enw da yn y maes, ac yn cynhyrchu incwm o'r trefniant, sef £24,926.15 yn 2020, £18,800.13 yn 2021 a £33,976.22 yn 2022, a rhagwelir o leiaf £103,674

dros y tair blynedd nesaf. Mae'r incwm hwn yn ei dro yn ein cynorthwyo i fuddsoddi ymhellach yn ein gwasanaethau, er enghraifft, mae'r cyllid ar gael ar gyfer helpu grwpiau cymunedol.

Yn ogystal, o ganlyniad i'n dulliau prynu arloesol, llwyddwyd hyd yma i arbed oddeutu £1.4m i'r Cyngor.

Ym mis Tachwedd 2022, bu i'r Cyngor awdurdodi buddsoddiad gwerth £2.8m yng ngwedd 4 Cynllun Paneli PV i gynhyrchu trydan ar gyfer y Cyngor. Rhagwelir y bydd y buddsoddiad yn arwain at arbediad refeniw blynyddol o dros £500,000 ac mae'r gwaith cynllunio ar y gweill i symud y prosiect hwn yn ei flaen dros y misoedd nesaf.

Mae'r cyfrifoldeb o sicrhau bod ein holl ysgolion, cartrefi gofal, canolfannau hamdden ac ati yn ddiogel i'w defnyddio gan drigolion y Sir yn gorffwys gyda'r Uned Diogelwch Eiddo. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys cynnal archwiliadau diogelwch megis arolygon cyflwr asbestos ac adolygiadau risg tân yn ein hadeiladau.

Mae'r amser a gymera'r Uned Cynnal a Chadw i gwblhau galwadau wedi gweld cynnydd yn yr amseroedd cyfartalog dros y tair blynedd ddiwethaf - 2020/21 – 8.3 diwrnod, 2021/22 – 10.8 diwrnod, 2022/23 – 20.71 (Ebrill 2022-Ionawr 2023). Nid ydym yn dymuno gweld cynnydd fel hwn, ac mae'r Gwasanaeth eisoes wedi ymchwilio i'r rhesymau y tu ôl i'r cynnydd. Gellir ei egluro'n bennaf yn sgil oedi yn cael mynediad i rai safleoedd yn ystod cyfnod y pandemig Covid-19. Rhwng Medi 2022 ac Ebrill 2023, cynhaliodd y Gwasanaeth ymarferiad dwys i sicrhau cywirdeb y system gofnodi galwadau, a arweiniodd at gau rhai galwadau oedd wedi bod ar agor ers peth amser. Gwyddwn, trwy'r adborth a dderbynnir drwy ein harolygon boddhad cwsmer, bod y gwasanaeth a roddwn yn gyson dda gyda 92% o gwsmeriaid ar gyfartaledd dros y 12 mis diwethaf yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth. Mae hyn yn atgyfnerthu'r ganmoliaeth gyson a gaiff y gweithlu cynnal a chadw mewnol.

Mae bodlonrwydd cwsmer y Tîm Difa Pla wedi bod yn uchel iawn drwy gydol 2022/23 hefyd gyda chanmoliaeth uchel am waith prydlon ac effeithiol. Rydym yn casglu adborth cwsmeriaid yn fisol a rhwng Ebrill 2022 ac Ionawr 2023, ar gyfartaledd roedd 93% o gwsmeriaid yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd gan yr Uned. Materion cyfathrebu oedd y rheswm pan nad oedd rhai cwsmeriaid yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth ond rhoddwyd sylw i'r materion a godwyd yn syth a datryswyd unrhyw broblemau.

Mae'r Uned Glanhau a Swyddfeydd wedi bod yn brysur yn sicrhau bod ein swyddfeydd yn parhau yn lan ac yn ddiogel i staff wrth i fwy ddychwelyd i'r swyddfeydd.

Rydym yn mesur boddhad cwsmer ar gyfer defnyddwyr ein swyddfeydd a'r Uned Glanhau. Mae'r canlyniadau hyd yma yn bositif iawn gyda 97% o staff yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth a gawsant gan yr Uned Swyddfeydd, a 92% o gwsmeriaid yr Uned Glanhau yn gwbl fodlon gyda'r gwasanaeth.

Mae ein Gwasanaeth Stadau yn parhau i dderbyn marciau llawn ar gyfer y gwasanaeth a roddir i gwsmeriaid ond rydym yn parhau i wynebu trafferthion yn recriwtio swyddogion i'r maes. I'r perwyl hwnnw, hysbysebwyd am hyfforddai i'r maes ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, gan obeithio y byddwn yn gallu penodi yn ystod y misoedd nesaf. Mae'r uned wedi dod yn gyfrifol am unedau diwydiannol a chanolfannau menter y Cyngor gan edrych yn barhaus ar effeithlonrwydd y ddarpariaeth, ac eisoes wedi cyflawni arbedion heb effeithio ar ansawdd y Gwasanaeth a gynigir i denantiaid. Mae'r Gwasanaeth hwn hefyd yn parhau i chwarae rhan allweddol yn amcanion ein Cynllun Gweithredu Tai, trwy gynorthwyo gyda phryniannau tir ac eiddo, syrfeo eiddo a chynnig cyngor ar brydlesi ac eiddo'r Cyngor.

Yn ystod 2022/23, mae'r Gwasanaeth Datblygu Tai ac Eiddo wedi llwyddo i barhau i yrru ein prosiectau cyfalaf yn eu blaenau er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn sgil Covid-19 ac ansefydlogrwydd prisiau yn y farchnad adeiladu. O safbwynt prosiectau tai, mae gwaith datblygu hen adeilad Ysgol Glan Wnion, Dolgellau, yn unedau i gefnogi'r digartref gyda'u tenantiaeth bron â gorffen ac mae gwaith adnewyddu ac uwchraddio Hostel Noddfa wedi cwblhau. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio ar nifer o gynlluniau eraill fel rhan o'r Cynllun Gweithredu Tai gan gynnwys ein cynllun i adeiladu tai'r cyntaf ers 30 mlynedd yng Nghoed Mawr, Bangor. Mae prosiectau eraill wedi cwblhau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, megis gwaith ar Ganolfannau Iaith Arfon a Dwyfor a datblygiadau ar gyfer gwasanaeth blynyddoedd cynnar yn Ysgolion Maesincla, Maenofferen a'r Hendre. Hyd at Ionawr 2023, roedd 100% o'r prosiectau hyn yn symud ymlaen yn unol â'r amserlen ddisgwyliedig ar hyn o bryd.



**Hen ysgol Glan Wnion ar fin derbyn wyneb cerrig newydd**

Gwasanaeth Tai

Y brif her yn wynebu'r Gwasanaeth Tai yw ceisio cyfrannu tuag at gynyddu'r cyflenwad tai i bobl leol a'r opsiynau cartrefu sydd ar gael i bobl Gwynedd.

Mae'r Adran yn ymateb i'r her hon trwy ei Gynllun Gweithredu Tai 2020/21-2026/27, sydd â'r nod o:

"Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd"

Mae 5 prif ffrwd i gyflawni hyn, sef sicrhau bod:
• Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
• Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
• Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
• Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
• Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

Yn y Cynllun amlinellir dros 30 o brosiectau penodol a fydd yn arwain at fuddsoddiad o dros £77m yn y maes tai yng Ngwynedd dros y 6 mlynedd nesaf.


Nifer o unedau newydd a ddatblygwyd gyda'r Grant Tai Cymdeithasol dros y 3 blynedd diwethaf




Mae'r Cyngor yn defnyddio'r Grant Tai Cymdeithasol gan Lywodraeth Cymru i hwyluso gallu'r Cymdeithasau Tai i adeiladu mwy o dai i bobl leol. Mae ein cynllun Gweithredu Tai yn anelu i ddarparu 500 o dai cymdeithasol newydd dros oes y Cynllun. Er y bu cwymp yn nifer y tai a ddatblygwyd yn 2021/22 oherwydd problemau gyda chaffael deunyddiau a chontractwyr ac oedi gyda chwmnïau cyfleustodau, roeddem wedi rhagweld cynnydd y llynedd wrth i'r problemau uchod gael eu datrys fesul dipyn yn ystod 2022/23, ac adlewyrchir hynny yn y data. Rhaid nodi bod y cynnydd hwn er gwaethaf cynnydd sylweddol ac ansefydlogrwydd gyda chostau adeiladu sydd yn cael effaith parhaus ar brosesau

tendro a phenodi contractwyr. Disgwyliwn i'r nifer unedau gynyddu hyd yn oed yn fwy yn y ddwy flynedd ariannol nesaf.

Mae'r Gwasanaeth Digartrefedd yn gweithredu er mwyn atal digartrefedd ond hefyd yn darparu cefnogaeth i deuluoedd neu unigolion sy'n canfod eu hunain yn ddigartref. Mae'n hysbys bellach bod y gwasanaeth wedi wynebu'r nifer uchaf o alwadau erioed dros y tair blynedd ddiwethaf, ac yn cefnogi'r nifer uchaf o unigolion mewn llety argyfwng a thros dro. Yn 2022/23, roedd cynnydd o 34% yn y nifer a gyflwynai'n ddigartref (o gymharu â 2018/19 – y flwyddyn gyflawn ddiwethaf cyn y pandemig). Er bod y cyflwyniadau ar ddiwedd blwyddyn 2022/23 yn dangos gostyngiad bychan o gymharu â 2021/22, mae'r pwysau sydd ar y gwasanaeth a'i adnoddau yn parhau yn uchel iawn.




Mae'r cynnydd mewn cyflwyniadau wedi rhoi pwysau aruthrol ar ein defnydd o lety argyfwng dros dro ac mae'r galw am lety yn llawer uwch na'r stoc dai sydd ar gael. O ganlyniad, rydym yn gorfod gwneud llawer gormod o ddefnydd o letyai gwely a brecwast fel llety argyfwng na'r hyn a ddymunem. Cafwyd cymorth ariannol trwy Gronfa Galedi Llywodraeth Cymru am ddwy flynedd gyntaf y pandemig, fodd bynnag, er bod y gofyniad i gartrefu pawb yn parhau, daeth y cymorth ariannol i ben ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2021/22. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at orwariant o tua £6m ar ein cyllideb llety argyfwng, ac er ein bod wedi dod o hyd i ddatrysiad tymor byr i gyfarch peth o'r bwlch ariannol, nid yw'r sefyllfa'n gynaliadwy ac mae grŵp tasg wedi'i sefydlu i edrych ar sut gellir lleihau'r gwariant yn y tymor byr a'r tymor hir. Ar yr un pryd, mae gwaith yn digwydd ar lunio Strategaeth Ailgartrefu Cyflym, sy'n seiliedig ar yr egwyddor o geisio symud pobl i lety sefydlog cyn gynted â phosibl, yn hytrach nag aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir. Bydd yn allweddol ein bod yn cydweithio gyda'n partneriaid tai er mwyn gwireddu'r Strategaeth hon.

Yr hyn sy'n amlwg yw nad oes gan y Cyngor ddigon o lety dros dro er mwyn cyfarch y galw ac nid yw parhau i ddefnyddio llety gwely a brecwast yn ateb hirdymor. Mae ein Cynllun Gweithredu Tai wedi adnabod yr angen am oddeutu 50 o unedau llety a chefnogaeth ac mae sawl prosiect wedi cwblhau (Tŷ Adferiad, Porthmadog, a'r Podiau yng Nghaernarfon) a sawl prosiect ar waith (megis datblygu eiddo ar Ffordd y Coleg a Stryd Fawr Bangor, ac ail-bwrpasu hen adeilad Ysgol Glan Wnion yn Nolgellau). Mae cynlluniau eraill fydd yn arwain at leihau ein dibyniaeth ar lety dros dro, er enghraifft annog rhagor o landlordiaid preifat i lesu eu heiddo i'r Cyngor trwy Gynllun Lesu Cymru: Gwynedd, ar waith ac wedi llwyddo i ddenu 19 eiddo ym mlwyddyn ariannol 2021/22.

Mae gwaith diflino'r gwasanaeth i atal digartrefedd er gwaethaf y pwysau sydd ar swyddogion wedi arwain at atal 33% o achosion o ddigartrefedd dros y flwyddyn ddiwethaf. Nodwn fod y nifer o achosion a lwyddwn i'w hatal ychydig yn is ar gyfartaledd yn 2022/23 o gymharu 2021/22, a chredwn fod hynny oherwydd y cyflwyniadau uwch, a olyga bod llwyth gwaith swyddogion yn uwch ac felly bod cyfleoedd i atal digartrefedd yn lleihau. Rydym eisoes wedi cynyddu capasiti'r tîm er mwyn dod â llwyth gwaith swyddogion yn agosach at y lefel a argymhellir gan y Llywodraeth, fodd bynnag rydym yn cydnabod ei fod yn parhau'n uwch na'r lefel ddymunol.

Mae'r Grant Cymorth Tai yn £6.8m y flwyddyn, a'i ddiben ydi atal digartrefedd a chefnogi pobl i feddu ar y gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i gael gafael ar gartref sefydlog ac addas ac aros ynddo. Yn ystod 2022/23 mae prosiectau a ariennir trwy'r Grant wedi rhoi cymorth i dros 2200 o bobl i'w hatal rhag dod yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa o ran tai, a helpu rhai a allai fynd yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw.

Gwasanaeth allweddol sydd ar reng-flaen yr Adran ac yn wynebu galw sydd wedi cynyddu'n aruthrol dros y tair blynedd ddiwethaf yw'r Tîm Opsiynau Tai. Mabwysiadwyd polisi gosod lleol newydd yn ystod y cyfnod clo cyntaf, sydd yn rhoi blaenoriaeth i bobl â chysylltiad Gwynedd. Rydym yn falch o ddweud, ar gyfartaledd, bod 97% o osodiadau tai cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf wedi mynd i berson lleol â chysylltiad â Gwynedd (yn union â'r diffiniad yn y Polisi Gosod newydd). Yn ystod 2022/23, derbyniwyd oddeutu 1450 o geisiadau (sy'n parhau ar yr un lefel â 2021/22) i fynd ar y Gofrestr Tai Gyffredin, a bu modd i'r tîm brosesu'r ceisiadau yn braf o fewn y targed o 10 diwrnod (7.7 diwrnod ar gyfartaledd). Mae'r galw uchel yn cael ei adlewyrchu yn y data diweddaraf ynghylch y nifer o ddyddiau ar gyfartaledd y bu unigolion yn disgwyl ar y rhestr aros, sef 703 diwrnod rhwng Ionawr 2022-23, cynnydd o 30 diwrnod o gymharu â Ionawr 2021-22. Cydnabyddir bod hyn yn llawer rhy uchel, ac yn adlewyrchu'r diffyg yn nifer y tai cymdeithasol sydd gennym yn y Sir.

Nifer o dai gwag ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd dros y 3 blynedd diwethaf




Mae'r tîm Grantiau a Phrosiectau Tai yn uned bwysig yn yr Adran sydd ar y rheng-flaen yn ein hymdrechion i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd yng Ngwynedd. Er iddynt weld effaith y pandemig ar y nifer o dai gwag y llwyddwyd i ddod yn ôl i ddefnydd dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'n braf nodi bod y nifer yn 2022/23 wedi cynyddu eto i 63, ac mae'n cynlluniau grantiau tai gwag yn mynd o nerth i nerth.

Mae'r Tîm hefyd wedi bod yn parhau i gyflawni gwaith i wneud addasiadau i gartrefi pobl a phlant anabl gyda 167 o addasiadau wedi eu cyflawni yn ystod 2022/23.

Nifer o dai wedi eu haddasu ar gyfer unigolion ag anableddau




Mae'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymerir i wneud addasiadau i gartrefi unigolion ag anableddau wedi gostwng yn sylweddol eleni o gymharu â'r llynedd. Er i ni weld effaith Brexit a'r pandemig ar argaeledd nwyddau arbenigol yn y gorffennol, mae'r effaith honno i weld yn parhau i leihau. Fodd bynnag, rydym yn parhau i wynebu heriau diffyg contractwyr yn tendro am waith, er ein bod yn dechrau gweld hynny'n sefydlogi bellach a gobeithiwn y bydd y patrwm hwn yn parhau.

Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd a gymerir i gyflawni gwaith i wneud addasiadau i dai unigolion ag anabledd Grantiau Galluogi



Mae'r Uned Gorfodaeth Tai yn parhau i gynnal arolygon 'boddhad cwsmer', ac mae'r adborth yn bositif iawn bob amser, gyda phob ymateb a dderbynnir yn gadarnhaol bron iawn bob tro. Mae'n braf nodi hefyd bod cwsmeriaid yn rhoi cydnabyddiaeth gyson i safon y gwasanaeth a'r staff. Mae derbyn adborth gan nifer digonol o gwsmeriaid yn ystod rhai misoedd yn 2022/23 wedi bod yn heriol am wahanol resymau, fodd bynnag, rydym yn hyderus trwy'r adborth llafar a dderbynia swyddogion, bod y gwasanaeth yn parhau'n effeithiol a'n bod yn gallu ymateb i unrhyw broblemau yn rhagweithiol os a phan maent yn codi.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

# Adran Amgylchedd

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae llawer iawn o flaenoriaethau'r Adran Amgylchedd dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn ymwneud â materion yn ymwneud â Covid-19. Gyda 2022/23 yn gyfnod o adfer yn dilyn y pandemig, mae nifer o Wasanaethau'r Adran wedi bod yn gweithio i ymdrin ag ôl-groniad gwaith sydd wedi digwydd yn sgil hynny.

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd cyfrifoldeb gweithredol am faterion casglu a thrin gwastraff ac ailgylchu i'r Adran, sydd wedi golygu newid i faes gwaith a chynnydd sylweddol mewn staff sydd wedi trosglwyddo.

Yn dilyn adolygiad o fesuryddion perfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol, cyflwynwyd ac adroddwyd ar nifer o fesuryddion o'r newydd gan sawl Gwasanaeth yn yr Adran yn 2022/23. Prif fwriad y mesuryddion ydi herio a monitro perfformiad mewn meysydd sy'n bwysig i drigolion Gwynedd, a bydd hyn yn parhau wrth i berfformiad y maes gwastraff ac ailgylchu cael ei adrodd yn ystod 2023/24.

## GWARCHOD Y CYHOEDD

### Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch

Gan fod swyddogion y Gwasanaeth Bwyd a Diogelwch wedi bod yn canolbwyntio eu hymdrechion ar waith atal lledaeniad Covid-19, roedd ôl-groniad o archwiliadau diogelwch bwyd gan gynghorau ar draws Cymru. O ganlyniad, bu'r Gwasanaeth yn gweithredu ar Gynllun Adfer Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod 2022/23. Yn unol â'r cynllun, roedd archwiliadau diogelwch bwyd (archwiliadau hylendid bwyd a safonau bwyd) yn dilyn trefn lle'r oedd rhai busnesau newydd a busnesau risg uchel yn derbyn blaenoriaeth yn y lle cyntaf.

Llwyddwyd i gwrdd â holl dargedau'r cynllun heblaw na fu'n bosib archwilio 21 eiddo categori risg C hylendid cyn diwedd y flwyddyn, a hynny gan eu bod yn fusnesau tymhorol ac felly ddim ar agor am fwyafrif y flwyddyn. Bydd yr eiddo yma yn derbyn archwiliad tra'u bod yn masnachu yn ystod 2023/24.

Ail-ddechreuwyd ar raglen samplu bwyd a chymryd rhan mewn prosiect samplu safonau bwyd rhanbarthol gyda ffocws ar alergau ac acrylamid. Fe wnaeth y Gwasanaeth gymryd dros 200 o samplau a'u dadansoddi yn ystod 2022/23, gan ddelio yn brydlon gyda samplau anfoddhaol.

Er fod ôl-groniad yn sgîl Covid-19, roedd 99.12% o fusnesau bwyd Gwynedd sy'n rhan o'r cynllun sgorio hylendid bwyd yn cydymffurfio'n fras gyda gofynion (sgôr o 3 neu uwch) ar 31/3/23. Roedd swyddogion yn ymdrechu i ail ymweld â phob eiddo nad oedd yn cwrdd â'r safon yma mor fuan ag yn bosib ac o leiaf oddi fewn i 3 mis er mwyn sicrhau fod safonau wedi gwella.

Fe wnaeth y Gwasanaeth hefyd ddarparu gwybodaeth a chyngor iechyd a diogelwch i nifer o fusnesau gan gynnwys 168 o fusnesau bwyd newydd yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd 57 adroddiad o ddamweiniau mewn gweithleoedd yn ystod y flwyddyn gyda 15% o'r rhain yn destun ymchwiliad ffurfiol gan swyddogion.



**Gwasanaeth Safonau Masnach**
Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd pob un o'r 49 o archwiliadau i fusnesau categori 'risg uchel' oedd wedi eu rhaglennu gan y Gwasanaeth Safonau Masnach. Yn ogystal, fel rhan o gytundeb blynyddol â'r Asiantaeth Safonau Bwyd, archwiliwyd 196 sefydliad bwyd anifeiliaid fel rhan o waith rhaglenedig y flwyddyn. Wrth gyfuno holl feysydd gwaith Safonau Masnach, ymgymerwyd â chyfanswm o 1,054 archwiliad i fusnesau, gan gofnodi tor-cyfraith mewn 267 o'r archwiliadau.

Derbyniwyd 1,915 cais am wasanaeth a llwyddwyd i gwblhau 1,824 ohonynt, sef 95% o'r cyfanswm. Fel sy'n wir am Gynghorau eraill ar draws y wlad, mae nifer o heriau wedi dod i sylw, gan gynnwys cynnydd mewn cudd-wybodaeth yn honni argaeledd tybaco a e-sigarets anghyfreithlon mewn siopau, ynghyd a bod y cynnyrch yn cael ei werthu i blant o dan oed (h.y. o dan yr oed cyfreithlon, sef 18). Mae'r Gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau ac wedi atafaelu cynnyrch yng Ngwynedd, a bydd yr ymgyrch i atal argaeledd y cynnyrch anghyfreithlon yn un o flaenoriaethau'r gwasanaeth yn 2023/24.

Oherwydd difrifoldeb achos, fe wnaeth y Gwasanaeth Safonau Masnach erlyn un busnes o Wynedd yn Llys yr Ynadon yn ystod 2022/23 yn ymwneud â diogelwch cynnyrch a werthwyd. Plediodd y diffynnydd yn euog gan dderbyn dirwy gan gynnwys costau cyfreithiol o £11,211.

**Gwasanaeth Trwyddedu a Rheolaeth Llygredd**
Yn ystod 2022/23, mae'r Uned Drwyddedu wedi llwyddo i ymestyn y cyfleoedd i geisiadau gael eu cyflwyno'n electroneg trwy system hunan-wasanaeth ar wefan y Cyngor. Er fod oediad prosesu mewn rhai achosion wrth i'r diwydiant arfer gyda'r system ar-lein gyda dogfennau anghyflawn neu anghywir yn cael eu uwch-lwytho, mae'r datblygiad yma wedi golygu fod y cyfartaledd amser prosesu cais am drwydded bellach yn  a gymerir i ymdrin â cheisiadau yn cyflymu yn gyffredinol.




Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar newidiadau pellgyrhaeddol i'r ffordd mae awdurdodau lleol yn trwyddedu y diwydiant tacsis. Nid oedd yn bosib symud ymlaen i adolygu a chreu polisi tacsi  unedol newydd heb allu ymgorffori yn llawn beth fydd  y gofynion newydd fydd yn deillio o'r Papur Gwyn: Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru). Bwriedir symud ymlaen gyda'r gwaith ar yr adolygiad unwaith fydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y cynnwys yn derfynol yn y Ddeddfwriaeth newydd.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaeth y Gwasanaeth ail-gychwyn y rhaglen asesiadau risg cyflenwadau dŵr preifat, a oedd heb eu cynnal o gwbl ers cychwyn y pandemig. Fe gynhaliwyd cyfanswm o 387 o ymweliadau samplo cyflenwadau dŵr preifat, gan gynnwys ail-ymweliadau yn  ôl y gofyn yn ystod y flwyddyn. Mae gennym 339 o gyflenwadau dŵr preifat yn y rhaglen samplo ac asesu risg; ac fe lwyddodd y gwasanaeth i samplo 95% o'r cyflenwadau yma yn y cyfnod dan sylw. Fel rhan o'r rhaglen asesiadau risg, ac mae swyddogion yr Uned wedi llwyddo i dderbyn achrediad statudol drwy hyfforddiant ar gyfer ymgymryd â'r gwaith. Fe fydd rhaglen penodol yn cychwyn yn 2023 yn dilyn hyfforddi swyddogion newydd ar gyfer adolygu asesiadau risg, ac ar gyfer cynnal asesiadau ar gyflenwadau newydd sydd wedi dod i'n sylw.

## GWASANAETH OLRHAIN

Fe wnaeth y gwasanaeth yma gyfraniad allweddol i ddiogelu pobl Gwynedd ers dod yn weithredol ym Mehefin 2020, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn cael y cymorth a'r cyngor cywir mewn perthynas â heintiau Covid-19. Diben y gwasanaeth oedd arwain y sir allan o'r pandemig drwy wella arolygiaeth iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau a chefnogi pobl i hunanynysu lle bo angen.

Darparwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y timau olrhain cysylltiadau sirol tan fis Mehefin 2022, a hynny yn dilyn newidiadau sylweddol i'r canllawiau, gyda busnesau a gwasanaethau yn dychwelyd i fwy o normalrwydd, a gyda cyhoeddiad cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer byw gyda'r coronafeirws yn ddiogel: Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel. Fe barhaodd Gwasanaeth Olrhain y Cyngor i weithredu gyda lefelau is o staff wrth i'r gwaith olrhain ostwng yn sgil newidiadau rheoliadau Covid-19, gyda chyfrifoldeb am y maes yn cael ei ddarparu ar sail rhanbarthol dan arweiniad Cyngor Sir y Fflint o fis Gorffennaf ymlaen.

Fe wnaeth y tîm wedi waith aruthrol yn helpu i dorri cadwyni trosglwyddo a chefnogi pobl oedd yn wynebu'r her o orfod ynysu, ac yn gwneud gwaith allweddol i helpu i ddiogelu pobl Gwynedd.

## GWASANAETH CYNLLUNIO

Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn hwyluso a rheoli datblygiadau cynaliadwy o fewn ardal awdurdod cynllunio Gwynedd (nad yw'n cynnwys ardal y Parc Cenedlaethol), ac yn 2022/23 roedd y Gwasanaeth yn parhau i hwyluso datblygiadau tai i gwrdd ag anghenion ein cymunedau, gyda 38% (58 uned) a ganiatawyd yn dai fforddiadwy.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi bod yn mesur lefel bodlonrwydd ein cwsmeriaid. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen gennym mewn ymateb i'r sylwadau a dderbyniwyd, yn benodol o amgylch trefniadau cysylltu gyda'r Gwasanaeth ac anawsterau cyfathrebu. Mae'r Uned busnes o fewn yr Adran Amgylchedd bellach yn derbyn yr holl alwadau cynllunio a derbyn taliadau dros y ffôn. Gan mai yn ystod pedwerydd chwarter y flwyddyn y cychwynnodd y trefniant, nid oes asesiad ffurfiol o fodlonrwydd cwsmeriaid hyd yma, ond o'r adborth anffurfiol sydd wedi bod, mae cwsmeriaid i weld yn llawer hapusach efo'r trefniadau newydd. Bydd asesiad ffurfiol o fodlonrwydd cwsmeriaid yn cael ei gynnal dros 2023/2024.

Yn ystod 2022/23 derbyniwyd 1,159 o geisiadau cynllunio newydd a phenderfynwyd 1,132. Yn ystod y cyfnod yma cymrodd geisiadau cynllunio 92 diwrnod ar gyfartaledd i'w penderfynu o'i gymharu â 103 diwrnod yn 2021/22. Roedd 74% o benderfyniadau ar amser o'i gymharu â 40% yn 2021/2022. Mae perfformiad yn dechrau gwella ac mae'r ôl-groniad o geisiadau a gasglwyd yn ystod y cyfnod Covid-19 yn bennaf wedi ei glirio. Er y cynnydd positif, mae heriau yn parhau o fewn y gwasanaeth oherwydd anawsterau recriwtio, fod sawl aelod o staff yn cyrraedd oed ymddeol ac mae'r nifer o geisiadau cynllunio newydd yn parhau i fod yn uchel.

Mae gan y gwasanaeth rôl i ymchwilio a chymryd camau gorfodaeth ar ddatblygiadau sydd heb dderbyn caniatâd cynllunio. Yn ystod 2022/23 derbyniwyd 235 o achosion newydd ac mae 296 o achosion wedi cael eu cau, gyda sawl achos cymhleth yn cymryd amser sylweddol i'w harchwilio. Mae ôl-groniad sylweddol o 628 o achosion yn parhau i fod yn agored a hyn yn bennaf oherwydd diffyg staff a'r angen i flaenoriaethu'r gwaith o ddelio gyda cheisiadau cynllunio. Er fod y nifer achosion yn

parhau yn uchel, dylid nodi fod y ffigwr yn is na'r 686 a oedd ar agor ar ddiwedd blwyddyn 2021/22.

Mae'r Gwasanaeth wedi colli staff profiadol yn ystod y flwyddyn ac mae'r Adran wedi bod yn ceisio recriwtio a gyda cynlluniau yn eu lle i geisio cryfhau gwydnwch y Gwasanaeth ar gyfer 2023/2024. Mae'r Gwasanaeth yn ddiolchgar am y gefnogaeth gorfforaethol drwy gynllun Cynllun Yfory ac yn edrych ymlaen at groesawu hyfforddai proffesiynol i'r Gwasanaeth yn 2023/24.

Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio hefyd ddyletswyddau statudol a rôl mewn materion Cadwraeth, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi'r gwaith sy'n deillio o'r dynodiad Safle Treftadaeth y Byd (Llechi). Mae'r Uwch Swyddog Cadwraeth wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn yr hawl gan CADW i benderfynu ceisiadau cynllunio ar adeiladau rhestredig gradd II sy'n gyflawniad personol rhagorol ac hefyd yn cynnig mwy o sicrwydd o ran penderfyniad i'r cwsmer a gwasanaeth mwy effeithlon.

GWASANAETH POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Penderfynodd Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn Gorffennaf 2022 y dylid dirwyn y cytundeb cydweithio ar faterion polisi cynllunio i ben. Roedd hyn yn sgil y newidiadau i'r cyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ers sefydlu'r trefniant yn 2011, a'r amcan gan y ddau awdurdod i gael Gwasanaethau Polisi Cynllunio a Chynlluniau Datblygu Lleol ar wahân fydd yn cwrdd â gweledigaethau, dyheadau ac anghenion yr awdurdodau unigol.

Tra fod y Gwasanaeth Polisi ar y Cyd wedi bod yn ei le tan 31 Mawrth 2023, mae gwaith wedi bod yn bwrw ymlaen i sefydlu Gwasanaeth o'r newydd (gweithredol o 1/4/23).

Mae'r Gwasanaeth wedi cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar gyfer cyfnod 2021/22 i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022. Casgliad yr adroddiad oedd bod y dangosyddion ar y cyfan yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau, a lle nad oedd targedau yn cael eu cwrdd roedd hyn allan o reolaeth y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar y Cyd. Er bod canfyddiadau'r AMB yn nodi ar y cyfan fod polisïau CDLl ar y Cyd yn perfformio yn effeithiol, eglurwyd bod newidiadau arwyddocaol wedi digwydd ers mabwysiadu'r Cynllun, a bod angen i'r newidiadau gael eu hystyried fel rhan o adolygiad statudol o'r Cynllun gychwynnodd ym mis Gorffennaf 2021.

Mae'r Gwasanaeth wedi paratoi Adroddiad Adolygu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, a chasgliad yr Adroddiad oedd bod angen gwneud adolygiad llawn o'r CDLl ar y Cyd sydd gyfystyr a Chynllun Newydd. Mae'r Adroddiad Adolygu wedi bod yn destun Ymgynghoriad cyhoeddus ac ym mis Mawrth 2022 cymeradwywyd yr Adroddiad gan Gynghorau Llawn Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn ei gyhoeddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Gwasanaeth wedi paratoi a mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus ar Ganllaw Cynllunio Atodol (CCA) yn dilyn dynodiad llwyddiannus y Safle Treftadaeth Byd (Llechi), a mabwysiadwyd y CCA gan Cabinet Cyngor Gwynedd ym mis Mehefin 2022.
Yn sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiwygio deddfwriaeth cynllunio i reoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau tymor-byr, mae'r Gwasanaeth wedi bod yn arwain ar y gwaith o sefydlu'r sail tystiolaeth ar gyfer cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r newid defnydd o dai preswyl i ddefnydd gwyliau (ail gartrefi a llety gwyliau). Roedd y gwaith yma yn cyfrannu at flaenoriaeth gwella trawsadrannol yng Nghynllun y Cyngor yn ymwneud â mynediad at gartrefi addas.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cydweithio'n rhanbarthol er mwyn ceisio dylanwadu ar y

trefniadau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Strategol, sydd yn un o ddyletswyddau statudol y Cyd-bwyllgor Corfforaethol ar gyfer rhanbarth gogledd Cymru.

O 1/4/23, bydd agweddau bioamrywiaeth a mwynau a gwastraff (cynllunio) yn ymuno gyda'r gwasanaeth.

### GWASANAETH RHEOLAETH ADEILADU

Mae'r Gwasanaeth Rheolaeth Adeiladu yn gweithio gyda'r cyhoedd a phartneriaid fel bod gan ein cymunedau adeiladau sy'n ddiogel, yn ynni-effeithlon, yn darparu mynediad a chyfleusterau i bobl ag anableddau, ac sy'n cwrdd â gofynion angenrheidiol y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am ymdrin â cheisiadau i rifo strydoedd/eiddo, chwiliadau eiddo a rhybuddion dymchwel.

Yn ystod 2022/23, penderfynodd y Gwasanaeth dros 90% o geisiadau rheolaeth adeiladu o fewn y cyfnod statudol, ac ar gyfartaledd ymatebwyd i rybuddion o adeiladau a strwythurau peryglus gan sicrhau eu bod yn cael eu gwneud yn ddiogel o fewn diwrnod o hysbysu.

Yn dilyn adolygiad strwythur, llwyddwyd i recriwtio dau Swyddog Rheolaeth Adeiladu Cynorthwyol, ac yn symud ymlaen gyda'r hyfforddiant a'r cymwysterau angenrheidiol i ddod yn Swyddogion cwbl gymwys. Yn dilyn adolygiad o'r Gwasanaeth a sut mae wedi newid dros y blynyddoedd, yr hyn a amlygir yw bod y flaenoriaeth wedi bod ar y gwaith talu ffi, o ganlyniad mae'r adnodd ar gyfer gwaith nad yw'n talu ffioedd megis gwaith gorfodaeth wedi ei dorri, a mae'r targed incwm wedi'i godi o ganlyniad. Bwriedir hefyd treialu'r defnydd o arian sy'n deillio o danwariant yr Adran i gyfrannu at y gwaith nad yw'n denu ffioedd sy'n waith gorfodaeth yn bennaf.

Wedi deddfwriaeth newydd Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 mae gan yr adran gynlluniau ar gyfer 2023/24 i weithredu ar ofynion statudol Rheolaeth Adeiladu Awdurdodau Lleol a'r Arolygwyr Preifat a Gymeradwyir o ran cymhwysedd, lle bydd yn ofynnol i'r swyddogion gofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladu fel 'Arolygwyr Adeiladu'. Mae hyn yn fygythiad i'r gwasanaeth a'r Cyngor, gan fod yn rhaid i swyddogion fod yn gymwys a chofrestredig i allu ymarfer yn y sector, ac mae hefyd yn ddibynnol ar y dosbarth o adeilad y mae cofrestriad yn berthnasol iddo (Domestig, masnachol, risg uchel). Mae hyn yn her i'r Uned a'r Cyngor, a bydd angen cyfrifoldeb, adnoddau a hyfforddiant ychwanegol.

### GWASANAETH CEFN GWLAD

Gyda chyfrifoldebau statudol am lwybrau cyhoeddus y Cyngor mae'r gwaith o baratoi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi parhau yn ystod 2022/23, ac yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus fe fabwysiadwyd yn ffurfiol gan Gabinet y Cyngor. Yn yr un modd, mae'r gwaith diweddaru Cynllun Adfer Byd Natur i adlewyrchu gofynion COP15 a thargedau 2030 wedi bwrw ymlaen yn 2022/23. Cychwynnwyd ymgynghoriad cyhoeddus i ganfod barn trigolion Gwynedd am flaenoriaethau i'w cynnwys yng Nghynllun Adfer Natur Gwynedd ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn (AHNE). Bydd gwaith dadansoddi yn digwydd yn 2023/24 er mwyn mabwysiadu'r Cynllun. Bydd y Cynlluniau yma i raddau helaeth yn llywio gwaith y yn y meysydd uchod dros y blynyddoedd nesaf.

Cyflwynwyd mesur perfformiad newydd yn ystod y flwyddyn i fonitro ymateb y gwasanaeth i ymholiadau'r cyhoedd ynglŷn â hawliau tramwy, lonydd glas a materion mynediad. Mae lefel y galwadau wedi bod y tu hwnt i gapasiti staff a byddwn yn monitro cynnydd yn y maes yn ystod 2023/24.

Byddwn yn adeiladu ar waith y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â chefnogi

cymunedau i gymryd gofal am eu hamgylchedd leol ynghyd â darparu cyfleoedd mynediad at natur a chryfhau'r ddarpariaeth Teithio Llesol.

Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer parhau ac ehangu gwaith Partneriaeth Natur Gwynedd. Mae cynlluniau sydd wedi bod yn weithredol yn ystod y flwyddyn yn cynnwys creu dolau blodau gwyllt ar ymylon ffordd ac mewn ysgolion yn nalgylch Eisteddfod Genedlaethol 2023. Mae gwaith sylweddol i uwchraddio wedi ei gynnal mewn gwarchodfeydd natur diolch i gyllid Cronfa Her Llefydd Lleol i Natur a gwnaed gwelliannau i hwyluso mynediad i goedlannau cymunedol yn y sir.



Mae 2022/23 wedi gweld parhad yn y ceisiadau cynllunio sydd angen sylw gan y tîm Bioamrywiaeth yn ogystal ag ymholiadau am faterion coed. Mae cyfrifoldebau ychwanegol wedi eu cyflwyno i asesu effaith datblygiadau ar gyrsiau dŵr dynodedig, yn ogystal â newidiadau sydd i ddod o du polisi cynllunio'r Llywodraeth.

Mae camau wedi eu cymryd i ddelio gyda'r llwyth gwaith gan gynnwys penodi staff yn cynnwys Swyddog Bioamrywiaeth parhaol newydd.

Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i gydweithio â'r Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC ar yr ymateb i glwyf gwywiad yr onnen a rhoi'r mewnbwn i raglenni gwaith Defnydd Tir sy'n codi o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur.

## GWASANAETH CLUDIANT INTEGREDIG A DIOGELWCH Y FFYRDD

Mae'r sector trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngwynedd yn dal i fod wedi wynebu cyfnod cythryblus dros y flwyddyn diwethaf. Roedd hyn er derbyn cymhorthdal gan Lywodraeth Cymru a fydd yn dod i ben Gorffennaf 2023 a bydd rhaid ystyried capasiti gwasanaeth bysiau yn Ngwynedd yn ystod y flwyddyn nesaf.

Er hynny, braf gallu adrodd ar lwyddiant ysgubol rhwydwaith Sherpa'r Wyddfa yn ystod 2022-23 mewn cyfnod heriol gydag ymestyn y gwasanaeth a defnydd addawol iawn.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cwblhau arolwg cynhwysfawr o rwydwaith Gwynedd mewn partneriaeth hefo Trafnidiaeth i Gymru a byddwn yn dechrau integreiddio y gwasanaethau newydd i'n rhwydwaith yn 2023.



Mae gwaith wedi bod yn bwrw ymlaen i alluogi cyflwyno bysiau trydan i'r rhwydwaith. Er fod llithriad wedi bod, bwriedir cychwyn gwasanaeth T22 newydd trydan o fis Awst 2023, a fydd yn gwasanaethu Blaenau Ffestiniog – Caernarfon heibio Porthmadog.

Ni fu'n bosib casglu data yn ymwneud â phrydlondeb gwasanaethau bysiau yn ystod y flwyddyn, ond gobeithir ail-gychwyn yn ystod 2023.

GWASANAETH PARCIO A GWAITH STRYD

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi uchafu problemau megis prinder llecynnau parcio ledled y sir, o ganlyniad i bobl yn aros yn y DU am wyliau yn hytrach na mentro dramor ac mae hyn wedi amlygu'r angen am bwerau ychwanegol i ymdrin â cherbydau sy'n creu rhwystr a gwell rheolaeth o gartrefi modur.

Fel rhan o'r gwaith yma, rydym wedi bod yn monitro tueddiadau parcio ar y cyd efo Heddlu Gogledd Cymru a Pharc Cenedlaethol Eryri, yn benodol yn ardaloedd Pen y Pass, yr Ogwen a'r Glyn, Llanberis ac yn cymryd camau gorfodaeth priodol yn ôl y gofyn. Roedd Swyddogion Gorfodaeth Parcio yn adrodd yn ôl yn rheolaidd a bu'r adborth yn ystod y flwyddyn yn addawol gyda mwyafrif o'r modurwyr yn cydymffurfio a'r rheolau. Caiff pob ymdrech ei wneud i barhau i fonitro'r lleoliadau'n agos a chymryd camau gorfodaeth briodol.

Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi bod yn cyfrannu at gynllun peilot rheoli cartrefi modur, Aros-fan i ddatblygu safleoedd penodol pwrpasol ar gyfer cartrefi modur ar safleoedd parcio'r Cyngor (neu ran o'r safleoedd) sydd o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, er darparu cyfleusterau i gartrefi modur aros dros nos am ffi, fydd yn mynd law yn llaw gyda mesurau rheoli / gorfodaeth. I gydfynd gyda'r safleoedd Aros-fan, mae'r gwasanaeth hefyd wedi bod yn gweithio ar gyflwyno gorchmynion penodol a fydd yn atal hawl cartrefi modur i barcio dros nos mewn cilfannau mewn ardaloedd sydd wedi gweld enghreifftiau o barcio a gwersylla anghyfrifol dros y blynyddoedd diwethaf. Pan yn weithredol, bydd Swyddogion Gorfodaeth Parcio'r Cyngor yn monitro'r safleoedd yn rheolaidd a chymryd camau gorfodaeth fel sy'n briodol.

GWASANAETH TRAFFIG A PHROSIECTAU
Mae'r gwasanaeth Traffig a Phrosiectau yn ymdrin â materion sydd yn ymwneud ag unrhyw newid i'r isadeiledd trafnidiaeth. Y prif amcan yw sicrhau bod y briffordd yn ddiogel i'r holl defnyddwyr o'r ffordd a bod bosib defnyddio'r rhwydwaith yn ddirwystr ac mewn modd cynaliadwy. Rydym yn cwrdd â'r amcan yma drwy gyflawni'r agweddau canlynol:

- Ymdrin â cheisiadau i gyflwyno gwaharddiadau parcio,
- Cyflwyno sylwadau fel ymgynghorai statudol ar geisiadau cynllunio,
- Ymdrin ag ymholiadau ynglŷn â goryrru,
- Gwella ac ehangu'r rhwydwaith cerdded a beicio, hyrwyddo rhwydwaith cerdded a beicio, a chyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill o dan y Ddeddf Teithio Lesol 2013,
- Arwain ar brosiectau i wella diogelwch y ffyrdd, gwelliannau o flaen ysgolion, gwella'r isadeiledd trafnidiaeth gyda phwyslais ar gynlluniau lleihau ôl troed carbon,
- Sicrhau bod ffyrdd mewn stadau newydd yn cael eu hadeiladu i'r safonau priodol fel bod modd eu mabwysiadu,
- Gweinyddu data'r briffordd gan sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol.

Yn dilyn cyfnod o heriau capasiti staffio, gwelwyd cyfnod o sefydlogrwydd yn ail hanner 2022/23 wrth i staff lenwi swyddi fu'n wag ac aelodau'r tîm yn datblygu sgiliau a magu profiad ac arbenigedd.

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i newid terfynau cyflymder 30mya cenedlaethol i 20mya wedi golygu llwyth gwaith ychwanegol penodol i'r gwasanaeth, a bydd y gwaith yma yn parhau wrth i'r ddeddfwriaeth ddod yn weithredol o fis Medi 2023.



Mae'r gwaith y Gwasanaeth hefyd yn ymwneud â datblygu llwybrau cerdded a beicio, ac mae gwaith wedi digwydd yn ystod 2022/23 i baratoi cynlluniau i sicrhau llwybrau teithio llesol ychwanegol. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ac bydd y gwaith yma yn gymorth wrth baratoi ceisiadau blynyddol am gyllid gan Lywodraeth Cymru am gynlluniau i'r blynyddoedd i ddod ar gyfer cynlluniau teithio llesol newydd.

Bu'r Gwasanaeth hefyd yn cyfrannu at gynllun i gyflwyno mannau gwefru mewn lleoliadau ar draws y sir. Tra bod cynnydd wedi bod wrth osod peiriannau gwefru mewn nifer o leoliadau, mae peth oedi wedi bod wrth sicrhau cyswllt a bod y peiriannau yn weithredol. Mae disgwyl y bydd pwyntiau gwefru ar gael i'w defnyddio mewn nifer o leoliadau dros y misoedd nesaf, ac y bydd cynnydd mewn peiriannau fydd yn weithredol trwy gydol 2023/24.

Bydd cyfrifoldeb am faes hawliau tramwy yn ymuno gyda'r gwasanaeth o 1/4/23.

GWASANAETH BUSNES [CYLLID]

**Rheolaeth Categori**
Pwrpas y Gwasanaeth hwn yw cydweithio a chefnogi gwasanaethau'r Cyngor i ddylunio a gweithredu strategaeth gaffael fesul categori. Y prif nodau yw uchafu gwerth am arian ac annog cadw buddion lleol.

Yn sgil heriau ariannol y Cyngor mae'r tîm wedi gwneud llawer o ymdrechion i reoli costau cytundebau'r categorïau corfforaethol dan sylw ac wedi denu arbedion pellach yn ogystal ag amddiffyn cyllidebau rhag costau cynyddol.

Mewn ymdrech i uchafu budd lleol a'r gwerth cymdeithasol o dendrau treialodd pob tîm porth 'TOMs (Themes, Outcomes, Measures) gyda chanlyniadau cymysg. Disgwyliwn adroddiad gan wasanaeth caffael sy'n manylu'r canlyniadau.

Parhawn i roi bob cyfle i fusnesau lleol dendro am waith yn ogystal â chydweithio gyda Busnes Cymru i roi cefnogaeth ymarferol ar sut i dendro.

Yn ogystal â'r prif nodau, rydym yn alinio tendrau a chontractau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) sydd wedi ymgorffori yn gynlluniau  strategol Y Cyngor ar gyfer 2023-28. Rydym yn gobeithio gwneud datblygiadau yn y maes hwn wrth i'r llywodraeth ddatblygu canllawiau a chefnogaeth bellach i fusnesau yn 2023/24 e.e. cefnogaeth i gyrraedd net sero a gwastraff net erbyn 2050.

GWASANAETH BUSNES [GWEINYDDOL]

**Pridiannau Tir**
Mae'r Uned Pridiannau Tir Lleol Gwynedd yn darparu gwybodaeth chwiliadau ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno prynu eiddo neu dir o fewn Gwynedd.  Bu'r flwyddyn yn hynod o heriol gyda chynnydd sylweddol yn y nifer o geisiadau ac ymholiadau. Daw hyn ynghyd â'r ffaith ein bod yn y broses o drosglwyddo i system gyfrifiadurol genedlaethol, gyda Gwynedd ymhlith y cyntaf o Gynghorau Cymru i wneud hyn.

Yn sgil hyn, mae amser prosesu ceisiadau wedi cynyddu, ac ar gyfartaledd wedi bod yn cymryd 38 diwrnod i'w prosesu dros y flwyddyn ddiwethaf. Gan mai pwrpas cyflwyno'r system genedlaethol newydd i ymdrin â chwiliadau, yw er mwyn gwneud y broses gyfan yn fwy effeithlon, rydym yn credu fod gwirfoddoli i fod ymhlith y cyntaf i drosglwyddo, yn golygu y byddwn yn y pen draw yn gallu prosesu ceisiadau am chwiliadau'n fwy cyflym.

Yn y cyfamser, rydym wedi cyflogi staff achlysurol er mwyn cynyddu capasiti a chynorthwyo gyda'r gwaith trosglwyddo data i'r system genedlaethol. Mae canran sylweddol o'r gwaith yma wedi'i gwblhau, sy'n dechrau caniatáu i ni ryddhau capasiti ychwanegol i helpu gyda chwiliadau ac ymateb i ymholiadau yn amserol. Rydym yn hyderus ein bod yn gwneud pob ymdrech i leihau'r amser a gymerir i gwblhau chwiliadau, tra ar yr un pryd yn hwyluso'r gwaith sydd ei angen i wneud y broses gyfan yn fwy effeithlon a chyflym yn y dyfodol agos.




## GWASANAETHAU GWASTRAFF AC AILGYLCHU

Fel rhan o ailstrwythuro corfforaethol, fe wnaeth cyfrifoldeb am gasglu a thrin gwastraff drosglwyddo i'r Adran Amgylchedd ym mis Hydref 2022. Mae'r misoedd ers hynny wedi rhoi cyfle i ymgyfarwyddo gyda'r maes.

Ers y trosglwyddiad, mae adolygiad rheolaethol cynhwysfawr wedi bod ar waith, ac mae'r newidiadau i'r strwythur, gweithdrefnau a'r broses wedi cychwyn ac yn parhau yn 2023/24.

Rydym yn darparu gwasanaeth casglu ailgylchu a gwastraff bwyd wythnosol i bob aelwyd yng Ngwynedd a chasgliad gwastraff gweddilliol bob tair wythnos. Yn ogystal, rydym yn casglu gwastraff gardd, clytiau a gwastraff meddygol o rai aelwydydd ac yn darparu gwasanaeth gwastraff masnachol i oddeutu 2,000 o fusnesau neu sefydliadau yng Ngwynedd.

O ran ein perfformiad ailgylchu, rydym yn falch o gofnodi ein bod wedi ailgylchu, ailddefnyddio neu gompostio 64%* o'r gwastraff a gesglir yn ystod 2022/23
* ffigwr i'w cadarnhau.

Ond gyda tharged ailgylchu heriol o 70% erbyn diwedd Mawrth 2025, byddwn yn parhau gyda'r gwaith o adolygu'r maes ac yn ystyried y camau angenrheidiol fydd ei angen er mwyn cyrraedd y targed cenedlaethol newydd.

Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau
- Cael manteisio ar harddwch amgylcheddol naturiol y sir

# Adran Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Mae'r Adran Cyllid yn sicrhau'r gefnogaeth briodol i'r Cyngor wrth reoli, gwarchod a datblygu ei sefyllfa ariannol, yn ogystal â darparu gwasanaethau megis casglu refeniw a thalu budd-daliadau mewn ffordd deg, a thalu cyflogau staff ac anfonebau cyflenwyr. Mae gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor hefyd yn rhan o'r Adran Cyllid ac maent yn cynnig arweiniad a chefnogaeth dechnegol o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo gwerthoedd sylfaenol y Cyngor.

### Rheolaeth Ariannol ac Arbedion

Mae gwaith rheolaeth ariannol a chefnogaeth cyfrifwyr yr Adran Cyllid wedi bod yn gaffaeliaid i adrannau'r Cyngor wrth gyflawni i bobl Gwynedd mewn cyfnod heriol. Trwy reolaeth ariannol gydwybodol, roedd yr adran wedi llwyddo i gynorthwyo'r Cyngor i gadw o fewn ei gyllideb pob blwyddyn ers 2015/16. Fodd bynnag, yn 2022/23 gwelwyd ffactorau penodol oedd yn golygu fod y Cyngor wedi gorwario ar y cyfan.  Y prif ffactorau y tu ôl i hyn oedd:

• Chwyddiant cyffredinol wedi cyrraedd lefelau yn 2022/23 nas gwelwyd ei debyg ers degawdau, gyda chynnydd mewn costau ynni yn arbennig wedi cael effaith amlwg
• Daethpwyd i gytundeb ar gyflogau'r gweithlu (ar wahân i athrawon) ar gyfer Ebrill 2022 i Fawrth 2023 drwy gytuno cynnydd o £1,925 ar bob pwynt cyflog. Yn unol â'r mwyafrif o awdurdodau lleol eraill roeddem wedi cyllidebu'n ddarbodus ar gyfer cynnydd o 4%, ond roedd y cytundeb terfynol yn uwch na'r hyn oedd wedi ei gyllidebu amdano.
• Y gallu i wireddu rhai cynlluniau arbed hanesyddol yn parhau yn hynod heriol.
• Cynnydd sylweddol mewn galw am wasanaeth mewn rhai meysydd megis y maes gofal oedolion, gwastraff a digartrefedd.
• Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd grantiau sylweddol wedi cael eu derbyn yn hwyr yn y flwyddyn ariannol a drawsnewidiodd y sefyllfa ariannol, gan gynnwys grantiau pwysau'r gaeaf ar y gwasanaethau cymdeithasol, ar gyfer cyllidebau'r ysgolion, ac ôl-groniad Treth Cyngor.  Ni dderbyniwyd grantiau cyffelyb yn 2022/23.

Roedd cyfanswm o £33.5 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu rhwng 2015/16 a diwedd 2022/23, sydd yn 95% o'r £35.4m gofynnol dros y cyfnod, ac mae'n anorfod fod gwireddu arbedion o'r maint yma am fod yn heriol.

Yn ystod 2022/23 bu'r Cyfrifwyr yn cefnogi'r gwaith o adnabod yr arbedion ar gyfer 2023/24 ymlaen.

O ran perfformiad ariannol y Cyngor ar gyfer 2022/23, mae sgil effaith ariannol yr argyfwng Covid-19 yn parhau mewn rhai meysydd ac felly yn cael effaith ar y sefyllfa ariannol.

### Archwilio Mewnol

Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor yn rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Hyd ddiwedd mis Mawrth 2023, llwyddwyd i gwblhau 98% o gynllun blynyddol 2022/23, h.y. ble mae'r archwiliad wedi cau neu mae adroddiad terfynol wedi ei rhyddhau. Mae hyn yn cynrychioli 40 archwiliad allan o 41.

Yn ystod y flwyddyn bu rhai archwilwyr yn cynorthwyo gyda blaenoriaethau eraill, yn cynnwys asesu taliadau hunan-ynysu.

Yn ogystal ag archwilio Cyngor Gwynedd, cynhaliwyd archwiliadau mewnol ar ran Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, GwE, cwmni Byw'n Iach a 70 o gynghorau tref a chymuned.

### Pensiynau

Mae'r Gwasanaeth Pensiynau yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr, gan gynnwys cynghorau Gwynedd, Môn a Conwy. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar weithredu'n gywir a phrydlon ar ran ei aelodau.

Mae 2022/23 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i'r Gwasanaeth Pensiynau, gyda'r gwaith o baratoi gyda'r Actiwari ar gyfer Prisiad Tair-blynyddol o'r Gronfa (sefyllfa 31/03/2022) wedi cymryd lle. Llwyddwyd i dalu'r 12,000 o bensiynwyr ar amser bob mis, a bu gwelliant yn yr amser a gymerwyd i ddelio ag achosion profedigaeth, amcangyfrifon ymddeol a phrosesu ymddeoliadau. Mae perfformiad dyletswyddau eraill y gwasanaeth wedi aros yn gyson dros y flwyddyn, gyda'r llwyth gwaith wedi cynyddu i gymharu â 2021/22.

Er ein bod yn parhau i anfon rhai dogfennau yn y post, bu ymgais i leihau ein defnydd o bapur, ac mae 23,000 o aelodau wedi cofrestru ar y wefan 'Fy Mhensiwn Ar-lein' erbyn hyn. Lle mae'n bosib, mae dogfennau'r aelodau yn cael eu llwytho ar-lein, ac mae opsiwn i aelodau lwytho dogfennau e.e. ffurflen ymddeol i'r safle hefyd. Mae hyn yn helpu i gyflymu'r drefn o brosesu buddion pensiwn. Rydym hefyd wedi gweithio ar ddarparu slipiau pensiwn y pensiynwyr ar y gwasanaeth 'Fy Mhensiwn Ar-lein' a bydd hyn yn weithredol yn fuan yn ystod 2023/24.

Erbyn hyn, mae'r system i-Connect yn cael ei defnyddio'n fisol gan holl gyflogwyr y Gronfa Bensiwn i ddiweddaru cofnodion cyflogau. Golyga hyn fod y wybodaeth yn y system bensiynau mor gyfredol a chywir â phosib.

Cafodd asedau'r Gronfa flwyddyn heriol arall gydag amgylchiadau buddsoddi anodd yn 2022/23 oherwydd chwyddiant uchel ac ansicrwydd yn y marchnadoedd eiddo. Roedd perfformiad ein rheolwyr asedau ddim cystal a'u meincnod (o –1.3%), ond disgwylir amrywiadau fel hyn, ac o'r herwydd byddwn yn asesu perfformiad o fewn y cylch 5 mlynedd.

Mae'r gwaith cydweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 ac erbyn hyn mae 83% o Gronfa Gwynedd wedi ei gyd-fuddsoddi - 56% drwy'r prif gronfeydd a 27% drwy'r buddsoddiadau goddefol. Trwy'r Bartneriaeth, ceir mynediad at amrywiaeth ehangach o gronfeydd a rheolwyr asedau, sy'n gwella gwytnwch Cronfa Gwynedd.


Yn ystod 2022/23, gyda lefel cyllido ym mhrisiad y gronfa yn 120%, mabwysiadodd y Pwyllgor Pensiynau ddyraniad asedau newydd er mwyn lleihau lefel risg y gronfa a chyflwyno mathau newydd o asedau drwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'r Gronfa hefyd wedi bod yn gweithredu ei bolisi Buddsoddi Cyfrifol gydag ymrwymiadau i fuddsoddi mewn ynni gwyrdd a chronfa ecwiti cynaliadwy.

### Trethi

Erbyn diwedd Mawrth 2023 roedd casgliad Treth Cyngor (h.y. casgliad o fewn y flwyddyn) yn 94.50%. Roedd hyn yn ddirywiad o'i gymharu â'r ffigwr cyfatebol o 96.17% yn 2021/22. Y ffigwr yn 2019/22 (y flwyddyn olaf cyn y pandemig) oedd 96.78%.

Y gyfradd casglu o fewn y flwyddyn yw'r dangosydd perfformiad cenedlaethol, ond dylid nodi fod rhan helaeth o'r arian sy'n ddyledus yn cael ei gasglu yn y pen draw.

Yr hyn a ddaeth yn amlwg yn ystod 2022/23 oedd sut mae'r argyfwng costau byw, yn enwedig effaith chwyddiant digynsail, wedi cael effaith sylweddol ar allu nifer o drigolion Gwynedd i dalu eu biliau Treth Cyngor.




**Budd-daliadau**

Pwrpas y Gwasanaeth Budd-dal yw i brosesu ceisiadau Budd-dal Tai, Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, Budd-daliadau Addysg, sef Cinio am Ddim a Grant Datblygu Disgyblion, Taliadau Tai Dewisol yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor ac i sicrhau fod plant Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth briodol.

Roedd y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth Cyngor newydd yn 2022/23 yn 20.29 diwrnod, o'i gymharu â 17.89 diwrnod yn 2021/22, sy'n ddirywiad yn y mesur yma. Gwelwyd cysondeb ym mherfformiad y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau Budd-dal Tai/ Gostyngiad Treth Cyngor gan ei fod yn 4.27 diwrnod yn 2023/22, a 4.28 diwrnod yn 2021/22.

Proseswyd 2,827 o geisiadau newydd am Fudd-dal Tai/Gostyngiad Treth Cyngor yn ogystal â phrosesu 27,254 o hysbysiadau o newidiadau mewn amgylchiadau ein cwsmeriaid.

Hefyd, mae'r gwasanaeth Budd-daliadau wedi cynorthwyo 1,463 o deuluoedd gyda gwerth ariannol o £692,750.00 o'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP), sy'n gymorth ychwanegol tuag at dalu rhent. Drwy hyn, rydym wedi gallu cynorthwyo nifer sylweddol o denantiaid Gwynedd i aros yn eu cartref presennol neu i symud i eiddo newydd.

Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau wedi prosesu grant gwisg ysgol / grant datblygu disgyblion (mynediad) gyda gwerth ariannol o £606,920 i 2,622 o blant (£337,200 / 2,559 yn 2021/22), ac wedi asesu hawl cinio am ddim i 3,567 o blant Gwynedd (3,090 yn 2021/22).

Yn ychwanegol i'r gwaith arferol, mae'r gwasanaeth wedi parhau i brosesu'r ceisiadau o'r Cynllun Taliadau Hunan Ynysu ar ran Llywodraeth Cymru. Bu i'r gwasanaeth dalu 1,119 cais gyda gwerth ariannol o £561,750 rhwng dechrau Ebrill a diwedd y cynllun ym mis Awst 2022.

Yn ogystal, bu i'r Adran ymgymryd â chynllun Taliadau i Ofalwyr Di-Dâl ar ran Llywodraeth Cymru, a phroseswyd taliadau i 883 cais gyda gwerth ariannol o £441,500.

Ar ben hyn, mae'r Gwasanaeth Budd-dal wedi bod yn gyfrifol am yr ail gynllun Taliadau Tanwydd Gaeaf Llywodraeth Cymru. Cychwynnodd y cynllun hwnnw ar 26 Medi 2022 a dod i ben ar 28 Chwefror 2023.

Proseswyd 12,114 o geisiadau i dderbyn taliad gyda gwerth ariannol o £2,422,800.

Yn ogystal â'r gwaith a ddisgrifir uchod, mae rôl yr Aseswyr Budd-dal wrth adnabod anghenion trigolion tu hwnt i'w hawliadau budd-dal wedi cryfhau'r cyswllt gyda'r prosiect

Cefnogi Pobl sy'n cael ei gynnal ar draws y Cyngor. Trwy'r gwaith yma, mae trefniadau mewn lle sy'n caniatáu i'r Aseswyr Budd-dal gyfeirio'r ceiswyr budd-dal at gymorth pellach sydd ar gael gan y Cyngor.

### Yswiriant a Risg

Mae'r gwasanaeth wedi parhau i gynghori holl adrannau'r Cyngor ar faterion yswiriant mewn perthynas â nifer o risgiau, ac yn trefnu gwarchodaeth ychwanegol yn ôl yr angen. Roedd 2022/23 yn flwyddyn brysur i'r gwasanaeth gan fod gwaith sylweddol wedi ei gyflawni wrth dendro a gwarchodaeth ar gyfer y mwyafrif o'n prif bolisïau o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r gwasanaeth yn parhau i adolygu hawliadau yn erbyn y Cyngor er mwyn adnabod unrhyw batrymau mewn hawliadau sydd angen rhoi sylw iddynt.


Gyda'r Gofrestr Risg Corfforaethol wedi parhau i ddatblygu, gyda rheolwyr ar draws y Cyngor yn dangos parodrwydd i'w ddefnyddio er mwyn dangos sefyllfa'r Cyngor a blaenoriaethu gweithrediadau. Mae hyn wedi cynorthwyo aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwyliedig wedi cael eu cymryd.

### Incwm

Mae'r Gwasanaeth Incwm yn anelu i brosesu derbyniadau arian a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon.

Roedd gwerth dyledion amrywiol dros 6 mis oed ar 31 Mawrth 2023 yn £1,889,589, sy'n gynnydd arwyddocaol ar y ffigwr cyfatebol o £1,596,649 ar 31 Mawrth 2022. Roedd disgwyl y byddai'n sefyllfa'n gwella wrth i'r economi ail-agor, ond ymddengys fod nifer o'n dyledwyr ni yn parhau i fod â thrafferthion dybryd wrth ymdrin â'u dyledion.

Yn ystod 2022/2023 codwyd 35,129 o anfonebau gyda chyfanswm gwerth o £50,009,612.67. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd £46,570,430.37 wedi eu talu, sef 93.12% (roedd perfformiad cyfatebol 2021/2022 yn 90.51%).




### Taliadau

Pwrpas y gwasanaeth yw talu credydwyr y Cyngor yn gywir ac amserol. O ganlyniad i effaith Covid-19, gyda staff y Cyngor yn gweithio o adref, addaswyd i drefniadau mwy electronig, sydd wedi profi i fod yn llwyddiannus. Ar gyfartaledd, llwyddwyd i dalu cyflenwyr lleol o fewn 19 diwrnod a chyflenwyr nad ydynt yn lleol o fewn 29 diwrnod, o'i gymharu â 21 diwrnod a 28 diwrnod yn 2021/22 yn ôl eu trefn.

### Cyflogau

Pwrpas y gwasanaeth yw i dalu staff yn gywir ac ar amser, tra'n cadw cyfrifon priodol ar gyfer cyrff allanol fel CThEM (HMRC). Bu ambell achos yn ystod y flwyddyn lle roedd trefniadau argyfwng o weithio o gartref wedi arwain at fethiant i anfon gwybodaeth i'r Uned Gyflogau yn amserol, gyda'r canlyniad fod angen gwneud addasiad i gyflogau. Er hynny, nifer fychan oedd rhain a dros gyfnod o 5 mlynedd mae nifer yr achosion misol sy'n arwain at addasiadau yn y cyflog yn parhau i ddangos tueddiad ar i lawr.

## Technoleg Gwybodaeth

Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) yn darparu a chefnogi technoleg o bob math i helpu staff a phobl Gwynedd i gael mynediad rhwydd at wybodaeth a systemau.

Cwblhawyd sawl prosiect isadeiledd TG yn llwyddiannus, gan gynnwys cyflwyno ail gyswllt i'r rhyngrwyd o'r ail ganolfan data ym Mhenrhyndeudraeth i gryfhau ein gwytnwch, uwchraddio a rhesymoli gweinyddwyr yn yr ysgolion fel eu bod yn cydymffurfio â safonau diogelwch, uwchraddio'r system ffôn corfforaethol, a chyflwyno cyswllt ffôn i 80% o ysgolion y Sir.

Cynnal a chadw'r gwasanaeth fel ei fod yn cyrraedd safonau diogelwch a gweithredu'n effeithiol sy'n hawlio y rhan fwyaf o ymdrechion y tîm, ond er hyn, llwyddwyd i ymchwilio a gweithredu ar brosiectau i arbed ynni, paratoi ar gyfer rhaglen Llywodraeth y DG i ddiffodd cysylltiadau analog a nifer o ddatrysiadau rhyngrwyd y pethe.

Llwyddwyd i gadw achrediad 'Public Services Network' (PSN) sy'n datgan bodlonrwydd Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU gyda rhwydwaith a gwasanaethau TG y Cyngor o ran diogelwch a hynny'n adlewyrchiad o'r ymdrech a sylw a roddwyd i'r rhaglen cynnal a chadw. Llwyddwyd unwaith eto i barhau gyda'r safon 'Aur' yn genedlaethol ar safon a glendid data a geir yng nghofrestr Tir ac Eiddo Gwynedd. Parhawyd i gadw safonau hynod uchel a chyson o ran bodlonrwydd ac argaeledd ein gwasanaethau. Cysylltodd 34,050 am wasanaeth drwy'r Ddesg Gymorth a gadawodd 99% adborth yn datgan eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd, gyda 1% yn datgan eu bod yn anhapus. Roedd argaeledd ein rhwydwaith a systemau craidd yn parhau'n wydn, gyda'r rhwydwaith yn arddangos argaeledd o 99.985% a'n systemau craidd yn 99.99%.

Cwblhaodd yr uned ddatblygu 29 system newydd, sydd ychydig yn llai na'r arfer, yn bennaf oherwydd bod y systemau a ddatblygwyd yn llawer mwy na'r rhai a ddatblygwyd yn ystod yr argyfwng Covid a chyfrifoldeb ychwanegol o drosglwyddo cytundebau masnachol Cynnal i'r uned. Derbyniwyd adborth gan 15 o'r prosiectau, gyda phob un yn datgan eu bod yn hapus a'r hyn a ddatblygwyd, heb unrhyw welliant i'w gynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw adborth yn datgan anfodlonrwydd na lle i wella.
Yn ogystal â hyn, mae'r Gwasanaeth hefyd yn cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt ddefnyddio systemau sy'n cael eu cadw y tu allan i'r Cyngor. Enghraifft o hyn ydi'r system WCCIS a ddefnyddir gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae'r Gwasanaeth TG wedi cefnogi trafodaethau cenedlaethol i sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi gyda'r system yma yn derbyn sylw priodol gan y cyflenwyr.

Daeth y Gwasanaeth Dysgu Digidol yn weithredol ar 1 Ebrill 2022 gyda'r pwrpas o arwain, cefnogi a chydweithio â'n hysgolion i gynnal addysgu digidol o'r ansawdd uchaf a sicrhau'r cyfleoedd gorau i ddisgyblion Gwynedd. Yn ystod y flwyddyn Ebrill 2022-Mawrth 2023 rhannwyd 4,660 o ddyfeisiadau Windows ymysg athrawon a disgyblion Uwchradd Ysgolion Gwynedd, a rhoddwyd cefnogaeth i gyfanswm o 12,285 o ddyfeisiadau a rannwyd gan y GDD ar y systemau newydd, yn ogystal â hen ddyfeisiadau sy'n parhau i fod yn yr ysgolion.

# Adran Cefnogaeth Corfforaethol

Yn ogystal â'r gwaith y mae'r Adran hon yn ei wneud i wireddu'r Blaenoriaethau Gwella yn Rhan 1, mae gweddill y gwaith 'dydd i ddydd' hefyd yn cyfrannu at uchelgais y Cyngor.

Bu'n flwyddyn o adfer nifer o weithgareddau'r Adran yn sgil cyfnod o pandemig tra hefyd yn parhau i gyfrannu at drefniadau rhanbarthol yn sgil yr argyfwng megis trefniadau brechu rhag Covid o fewn y Sir.

Ar ben hynny, bu'n flwyddyn o barhau i ddatblygu ein ffyrdd o weithio newydd gan fanteisio ar unrhyw agweddau cafodd eu cyflwyno yn y ddwy flynedd blaenorol. Fe lwyddwyd hefyd i adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r ymgyrch Cyngor cyfan i gyflwyno cyllideb hafal ar gyfer 2023/2024.

Bu'n ymdrech lew i gyflawni hyn oll tra'n cynnal gwasanaethau allweddol ac mae'r crynodeb hwn o berfformiad am y flwyddyn yn adlewyrchiad o'r heriau a wynebwyd yn ogystal a'r llwyddiannau a wireddwyd.

**Cyswllt Cwsmer**

Mae'n bosib i bobl Gwynedd gael mynediad i nifer o wasanaethau ar-lein, ar amser sy'n gyfleus iddynt, 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, tra'n cynnig ffordd fwy cost effeithiol o gysylltu â'r Cyngor.

Gellir cysylltu ynghylch 37 (cynnydd o 4 o'r flwyddyn blaenorol) o faterion megis materion priffyrdd, archebu a thalu am docyn parcio, trefnu ymweliad â chanolfan ailgylchu a thalu am ginio ysgol gyda'r 4 gwasanaeth newydd a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud a casglu gwybodaeth am ddisgyblion sy'n mynychu ysgol am y tro cyntaf, cofrestru a lansio cwch ar arfordir Gwynedd, mynediad i ysgol a chais i drosglwyddo ysgol.

Cyflwynwyd 226,343 cais am wasanaeth i'r Cyngor drwy ddefnyddio hunanwasanaeth ar wefan ac ap Cyngor Gwynedd.

**Amser ateb galwad ffôn yn Galw Gwynedd**




Rydym yn darparu gwasanaeth wyneb yn wyneb drwy ein Siopau Gwynedd a ffôn drwy Galw Gwynedd. Mae perfformiad eleni, o ran yr amser a gymerir i ateb galwadau, yn agos i berfformiad llynedd, gyda 3,000 yn llai o alwadau wedi'u derbyn h.y. o 1 munud 13 eiliad yn 2021/22 i 1 munud 11 eiliad eleni. Y prif reswm dros y perfformiad yw trosiant staff a'r her o ddenu gweithwyr. Rydym wedi profi peth llwyddiant yn denu staff yn ystod ail hanner y flwyddyn ac yn ymdrechu i wella'r perfformiad, yn bennaf trwy gyfuniad o hyrwyddo pellach ar hunan wasanaeth ac ymestyn gwasanaeth sgwrs ar-lein ble atebwyd 251 o ymholiadau dros y flwyddyn.

**Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau**

Mae'r Gwasanaeth Cofrestru yn profi newidiadau cenedlaethol ar hyn o bryd, ple bo Archwilwyr Meddygol yn ymgymryd a cam ychwanegol i dystio i'r rhesymau am farwolaeth. Mae hyn wedi arwain at beth oedi i gofrestru marwolaethau yn ystod 2021/22 yn ogystal ag eleni, ac yn sgil hynny i ddirywiad yn ein gallu i gyflawni'r gwaith o fewn yr amser statudol. Llwyddwyd i gofrestru 48% o farwolaethau o fewn 5 diwrnod yn ystod 2022/23 (ond hynny o'i gymharu a 83% yn 2021/22).

Cofrestrwyd 96% o enedigaethau o fewn 5 diwrnod yn ystod y flwyddyn, sydd yn welliant ar y 90% yn y flwyddyn blaenorol.

**Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
Mae cynnal deialog ddwyffordd gyda phobl Gwynedd er mwyn rhannu gwybodaeth am wasanaethau lleol ac i ganfod barn trigolion yn flaenoriaeth i'r Cyngor.

Yn ystod 2022/23 cyflwynwyd gwelliannau pellach i'r llwyfan ymgysylltu newydd ar y wefan sy'n galluogi'r Cyngor i gynnal ymarferiadau ymgysylltu gyda phobl Gwynedd ac arddangos canlyniadau ymarferiadau blaenorol. Dros y flwyddyn cynhaliwyd 18 o ymarferiadau i gasglu barn pobl Gwynedd am wahanol wasanaethau gyda dros 8,600 o unigolion yn manteisio ar y cyfleoedd yma i leisio barn.


Cyhoeddwyd 109 o ddatganiadau rhagweithiol i'r wasg yn ystod 2022/23 gyda phob datganiad ar gyfartaledd yn arwain at sylw ar 4.9 o lwyfannau newyddion. Yn ychwanegol i hyn, darparwyd ymatebion i 556 o ymholiadau gan newyddiadurwyr am waith y Cyngor.

Cafwyd 2,988,520 ymweliad â gwefan Cyngor Gwynedd, www.gwynedd.llyw.cymru yn ystod y flwyddyn. Gadawodd 2,398 o ymwelwyr adborth boddhad efo'r wefan. Rhoddodd 83% o'r ymwelwyr hynny sgôr o 5 allan o 5 am eu profiad o ddefnyddio'r wefan.

Erbyn Mawrth 2023, roedd 39,762 o unigolion yn derbyn clipiau fideo, delweddau digidol a negeseuon yn ddyddiol drwy gyfrifon Twitter, Facebook ac Instagram y Cyngor.

**Ymchwil a Gwybodaeth**
Yn ystod y flwyddyn fe ddatblygodd y Gwasanaeth drefn o gyhoeddi newyddlenni ar y mewnrwyd staff a'r mewnrwyd aelodau, er mwyn rhannu'r dystiolaeth ddiweddaraf am wahanol bynciau a dangos i staff ac aelodau sut gallent gael gafael ar fwy o wybodaeth. Cyhoeddwyd 11 o newyddlenni ar wahanol bynciau cyfredol yn cynnwys canlyniadau Cyfrifiad 2021, costau byw a thlodi, a phrisiau tai yng Ngwynedd. Bydd hyn yn cefnogi Adrannau wrth iddynt weithio ar wahanol gynlluniau ac yn hybu diwylliant o wneud penderfyniadau ar sail data a thystiolaeth ar draws y Cyngor.


Bu'r Gwasanaeth yn cefnogi nifer o gynlluniau ar draws y Cyngor i gasglu, dadansoddi a rhannu tystiolaeth gan ddefnyddio dulliau newydd – er enghraifft ar gyfer prosiect Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri lle gweithiwyd gyda'r Adran Economi a Chymuned a chyrff allanol i ddatblygu dashfwrdd o fesurau i fesur effaith y prosiect.




Bu cynnydd sylweddol yn nifer y digwyddiadau gwybodaeth (h.y. lle aeth gwybodaeth ar goll neu i'r person anghywir) ar draws y Cyngor ac mae hyn yn peri pryder. O ddadansoddi'r achosion, fe welwyd bod 19 ohonynt (sef 43% o'r cyfanswm) yn ymwneud ag anfon e-byst – y mwyafrif yn achosion o ddiofalwch cyffredinol wrth anfon e-byst i gyfeiriadau anghywir. Rydym wedi gweithio gyda'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth i ddatblygu opsiynau technegol ar gyfer ceisio gwneud camgymeriadau o'r fath yn llai tebygol; mae rhain wedi'u treialu mewn

ambell dîm yn y Cyngor ac fe fyddwn yn ehangu'r cynllun peilot i gynnwys Adran gyfan gan barhau i asesu llwyddiant y newidiadau. Byddwn hefyd yn cynyddu'n hymdrechion i roi hyfforddiant, canllawiau a negeseuon diogelwch gwybodaeth i staff y Cyngor.

Fe orffennwyd symud timau'r Cyngor i fersiwn newydd iGwynedd (system rheoli cofnodion electronig y Cyngor) ac fe gafwyd ymateb positif gan wasanaethau i'r newid gan adrodd bod y system newydd yn hwyluso rhannu gwybodaeth a dogfennau.




Cafwyd 966 o geisiadau rhyddid gwybodaeth yn ystod y flwyddyn ar draws y Cyngor (cynnydd o 7% ers y flwyddyn flaenorol). Y gyfradd atebwyd yn brydlon oedd 71%. Mae'r gostyngiad yn y perfformiad yma yn siomedig yn enwedig ar adeg pan y dylai trefniadau ymateb Adrannau fod wedi sefydlogi yn dilyn cyfnod y pandemig. Byddwn yn rhoi sylw i hyn dros y flwyddyn nesaf gan dargedu'r rhannau hynny o'r Cyngor lle mae hyn i weld yn broblem ac yn datblygu'r maes Data Agored, fel bod yr atebion i rai ceisiadau mynych am wybodaeth ar gael yn barod ar wefan y Cyngor yn lle bod angen cyflwyno cais amdanynt.

**Prynu**

Dros y flwyddyn diwethaf, rydym wedi parhau i dreialu dull newydd o asesu tendrau ar sail gwerth cymdeithasol. Fe ddaru hyn gynnwys cytundeb cynnal a chadw peiriannau aer a chytundeb fframwaith cerbydau gwasanaeth gwastraff. Yn ychwanegol at y gwaith ar y prosiect Blaenoriaeth Gwella 'Cadw'r Budd yn Lleol' bu'r Gwasanaeth Caffael weithio gyda'r busnesau lleol i ymateb i ofynion y Ddeddf llesiant gan geisio hefyd cyfrifo ein ôl-troed carbon yn y gadwyn cyflenwi.

Rydym hefyd wedi datblygu trefniadau asesu ein perfformiad caffael drwy gwblhau hunanasesiad. Mae rhai o'r Tîm Categori yn parhau i ymateb i ôl effaith y pandemig ac yn rhan allweddol o'r trefniadau sicrhau cyflenwadau, dosbarthu a rheoli stoc PPE.

**Democratiaeth a Iaith**

Pwrpas y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yw cefnogi trefniadau democratiaeth y Cyngor a hyrwyddo'r Gymraeg yn barhaus. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am dri maes penodol, sef democratiaeth, cyfieithu ac iaith a chraffu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi croesawu 69 o Gynghorwyr, gyda 25 o'r rheini yn Gynghorwyr newydd. Cynhaliwyd rhaglen lawn o weithgareddau i'w croesawu i'r Cyngor, i'w rôl fel aelodau a chyflwyno gwybodaeth am yr ystod o feysydd cyfrifoldeb. Roedd yn rhaid ystyried materion ymarferol megis darpariaeth TG, ynghyd â materion allweddol fel eu cyfrifoldebau a rôl gwahanol bwyllgorau. Wrth gwrs, roedd yn rhaid gwneud y cyfan tra'n ymateb i'r gofyn i Gynghorwyr fedru ymuno o bell petaent angen.

Rydym hefyd wedi llwyddo i ddatblygu ein trefniadau a chynnal pwyllgorau aml leoliad am y tro cyntaf, a hynny yn gyfan gwbl yn y ddwy iaith, gyda'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i'r holl fynychwyr. Cyfarfod blynyddol y Cyngor Llawn cyntaf ym mis Mai 2022 oedd y cyfarfod ffurfiol aml-leoliad cyntaf, ac rydym wedi adeiladu ar y llwyddiant ers hynny. Yn ogystal, llwyddwyd i gynnal rhaglen pwyllgorau llawn ar gyfer y flwyddyn a chynnal sesiynau hyfforddi'r

Cadeiryddion wrth iddynt gael eu hethol. Ar yr un pryd llwyddwyd i ymateb i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan arwain ar ddatblygu a mabwysiadu'r Strategaeth Cyfranogiad newydd sbon sy'n annog y cyhoedd i gymryd rhan yn ein trefniadau democrataidd a datblygu Cynllun Deisebau o'r newydd sy'n egluro sut all y cyhoedd gyflwyno deisebau.

Mae cryn waith wedi'i wneud i hyrwyddo'r Gymraeg hefyd, gyda Pholisi Iaith y Cyngor wedi'i ddiweddaru a'i fabwysiadu ym mis Hydref 2022, gyda gwaith yn parhau i godi ymwybyddiaeth staff o'r cynnwys a'r gofynion. Llwyddwyd i benodi Pen Swyddog dros dro i arwain ar ddatblygu'r Fenter Iaith fel endid annibynnol yn y gymuned i'r dyfodol. Mae'r gwaith yma yn bwrw yn ei flaen ar garlam, gyda'r gobaith o gyhoeddi'r camau nesaf yn Eisteddfod Boduan 2023. Yn ogystal, mae'r prosiect Gwarchod Enwau Llefydd yn bwrw ymlaen, gyda gwaith wedi digwydd gyda 9 o ysgolion lleol dros y flwyddyn, a 550 cofnod ar y map cyhoeddus bellach, gyda 1,637 wedi ymweld â'r safle we.

Wrth gwrs, mae'n rhaid wrth gydweithio gydag asiantaethau eraill er mwyn hyrwyddo'r iaith, a chynhaliwyd gweithdy er mwyn sefydlu Fforwm Iaith Gwynedd ym mis Ionawr 2023. Bwriad y Fforwm yw adnabod llefydd i gydweithio ac osgoi dyblygu, a'r cyfan i hyrwyddo'r iaith. Mae Strategaeth Iaith nesaf y Cyngor, i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir, wrthi'n cael ei datblygu, gydag ymgynghori mewnol wedi'i gynnal gyda'r Pwyllgor Iaith a swyddogion allweddol er mwyn paratoi drafft ymgynghori fydd yn cael ei gyhoeddi yn fuan yn ystod 2023-24.

### Adnoddau Dynol

Mae'r Gwasanaeth yn arwain ar y maes cyflogaeth, gan ddatblygu'r amodau gwaith a chynghori rheolwyr a staff ar ystod eang o faterion yn ymwneud a gweithio i'r Cyngor. Mae'n dilyn felly fod gan y Gwasanaeth rôl ganolog mewn paratoi'r trefniadau gwaith wrth i'r Cyngor sefydlu dulliau newydd a mwy hyblyg o weithio yn dilyn cyfnod y pandemig.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn y rhagamcan ydi y bydd y nifer o ddiwrnodau salwch fesul aelod staff yn ystod y flwyddyn aeth heibio yn dangos cynnydd bychan, o 10.07 diwrnod y pen y llynedd i 10.12 diwrnod y pen erbyn diwedd Mawrth 2023. Mae'r lefelau uwch yma o salwch na'r hyn a brofwyd rai blynyddoedd yn ôl yn gyson â'r hyn a welir mewn awdurdodau lleol eraill, a'r dasg i ni fel cyflogwr ydi deall y rhesymau dros y sefyllfa a chymryd pob cam posib i sicrhau bod y gefnogaeth orau posib yn cael ei gynnig i hyrwyddo iechyd a llesiant staff.

**Nifer o ddyddiau a gollwyd y pen ar gyfartaledd o ganlyniad i absenoldeb salwch**

**2018/19 - 9.45**
**2019/20 - 9.78**
**2020/21 - 6.30**
**2021/22 - 10.7**
**2022/23 - 10.12**

Cynhaliwyd un gwrandawiad apêl cyflogaeth yn ystod y flwyddyn, gydag penderfyniad y Pwyllgor yn cefnogi penderfyniad gwreiddiol y cyflogwr.

Eleni eto, roedd gan y Gwasanaeth rôl ganolog wrth fynd ati i recriwtio'n llwyddiannus sawl prif swyddog o fewn y Cyngor.

### Gwasanaeth Cefnogol

Mae'r Gwasanaeth Cefnogol yn darparu cymorth gweinyddol i Reolwyr a staff y Cyngor. Mae hyrwyddo y defnydd o system Hunanwasanaeth Staff yn flaenoriaeth gan ei fod yn blatfform cyfathrebu sydd yn cyrraedd holl staff y Cyngor. Mae perfformiad Dadlenni

Diogelu a Gwarchod (DBS) yr Adrannau ynghyd a statws DBS yr unigolyn ar gael yn y system ac mae llwyddiant wedi bod i gyflwyno y cerdyn gwyliau yn electroneg i nifer o wasanaethau.

Mae gostyngiad sylweddol yn y ffordd yr ydym yn gweithio yn fewnol o ran argraffu llai o bapur gan ei bod bellach wedi symud drosodd i weinyddu yn electroneg. Rydym yn bellach i hyn wedi ymestyn i gydweithio gyda cyflenwr bwyd i Ysgolion i fod yn derbyn anfonebau yn electroneg ac mae'r drefn wedi bod yn llwyddiannus. Byddwn yn symud ymlaen i fod yn cydweithio gyda mwy o gyflenwyr.

Hysbysebwyd 1046 o swyddi ble roedd 322 ohonynt yn swyddi oedd yn cael eu hysbysebu fwy nac unwaith. Ar gyfartaledd cymerwyd hyd at 31 diwrnod o'r dyddiad hysbysebu y swydd hyd at dyddiad y penodwyd unigolyn i'r swydd.

Mae'r adborth Boddhad Cwsmer sydd yn cael er dderbyn yn ôl yn cadarnhau bod y cwsmer yn hapus gyda'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn gan y Gwasanaeth.

**Dysgu a Datblygu'r Sefydliad**

Mae'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn cynnig cefnogaeth datblygol i swyddogion, staff ac aelodau etholedig y Cyngor. Mae'r Gwasanaeth yn arwain ar gynlluniau datblygu'r arweinyddiaeth, datblygu timau, Merched mewn Arweinyddiaeth, Gwerthuso Parhaus, yn ogystal â bod yn flaenllaw yn cefnogi diwylliant Ffordd Gwynedd.

Mae'r adborth i sesiynau dysgu wedi bod yn bositif iawn gyda sgôr cyfartalog yn gyson dros 9 allan o 10, pan ofynnwyd i fynychwyr i ba raddau roedd wedi ei helpu yn ei swydd. Mae rhaglenni dysgu (staff ac Aelodau Etholedig) yn esblygu ac yn cael eu adolygu'n rheolaidd o ran teitlau a dulliau dysgu (traddodiadol /rhithiol).

Yn dilyn buddsoddiad sylweddol gan y Cabinet mae'r Gwasanaeth yn arwain ar gynlluniau datblygu Talent:
Mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i dros 40 o brentisiaid ers 2019 (sy'n un o'r niferoedd uchaf yn Gymru wrth gymharu gyda phoblogaeth a maint Cynghorau eraill):
· 15 prentis ar y Cynllun ar hyn o bryd - nifer wedi'u lleoli mewn meysydd blaenoriaeth megis gofal oedolion a phlant, technoleg gwybodaeth a pheirianneg
· 7 prentisiaeth gradd
· 26 prentis wedi cwblhau prentisiaeth gyda 75% ohonynt wedi derbyn swydd yn y Cyngor

Mae'r Cynllun Graddedigion (Cynllun Yfory) wedi rhoi cyfle i 28 hyfforddai proffesiynol ers 2017:
• 9 hyfforddai ar y Cynllun ar hyn o bryd
• 2 hyfforddai ar secondiad
• 16 hyfforddai a gwblhaodd y Cynllun wedi cael cynnig swydd gyda'r Cyngor

Yn 2023 anelwn i lenwi hyd at 35 o swyddi newydd ar y Cynllun Graddedigion a Prentisiaethau.

Mae'r gwasanaeth yn cydlynu trefniadau ymateb i gwynion ac yn hyrwyddo'r dysgu o'r cwynion a dderbynnir. Mae'r Gwasanaeth yn cyflwyno pecyn hyfforddiant gofal cwsmer ar y cyd hefo Swyddfa'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

Mae'r Cynllun Buddiannau Staff a weinyddir gan y gwasanaeth yn tyfu'n gyflym o ran defnydd ac amrywiaeth ers ei gychwyn 10 mlynedd yn ôl. Mae hyn yn cynnwys 2716 o staff wedi cael cerdyn disgownt a 342 wedi archebu beic newydd drwy'r Cynllun beics. Mae hynny hefyd yn ei dro yn cyfrannu at hyrwyddo'r Prosiect Prynu'n Lleol.

**Iechyd, Diogelwch a Llesiant**

Wedi dwy flynedd o effaith sylweddol ar waith y Gwasanaeth oherwydd rheoliadau Covid, bu 22-23 yn gyfnod o geisio ail sefydlogi

rhaglenni gwaith tra hefyd yn arwain ar brosiect blaenoriaeth gorfforaethol. Wedi dweud hynny, mae'n deg dweud fod ôl-effaith Covid yn parhau i gael ardrawiad ar y Gwasanaeth. Mae cyfeiriadau i'r Uned Iechyd Galwedigaethol wedi bod yn gyson uwch ers cychwyn cyfnod Covid, a gwelwyd ffigyrau yn cynyddu eto eleni i ffigwr o 639, sydd yn gynnydd pellach ers y ffigwr o 555 y llynedd. Mae cynnydd hefyd wedi bod yn y canran o'r cyfeiriadau hynny sydd am resymau iechyd meddwl. Fel arall, mae gwaith dal i fyny sylweddol ar y rhaglen gwyliadwriaeth iechyd a gafodd ei hatal yn genedlaethol tros gyfnod Covid. Mae'r gwaith yma yn parhau. Rydym hefyd yn parhau i ymestyn y ffiniau, ac yn dilyn cynhadledd Llesiant Meddyliol llwyddiannus i Reolwyr ac Arweinyddion Tîm, lansiwyd cyrsiau I-Act i Reolwyr sydd yn eu dysgu am sut i warchod llesiant eu staff. Hyd yma mae 84 unigolyn wedi eu hyfforddi. Bu asesiad ail ddilysu'r Safon Aur Corfforaethol gan Lywodraeth Cymru a dyfarnwyd y Safon Aur.


Mae'r gwaith o ddal i fyny ers y cyfnod Covid hefyd yn wir o'r Uned Iechyd a Diogelwch. Bu saib mewn cyrsiau IOSH (Institute of Occupational Safety and Health) fel enghraifft tros gyfnod Covid, ond gyda chyrsiau bellach wedi eu hadfer bu galw aruthrol amdanynt ac mae'r Uned yn Hyfforddi llawer mwy nac erioed er mwyn ceisio dal i fyny.

Bu galw mawr am hyfforddiant symud a thrin pobl gyda 22 o gyrsiau dau ddiwrnod wedi eu cynnal yn 22/23 i gymharu â 13 y flwyddyn flaenorol yn 21/22. Mae'r cyrsiau yma wedi eu cynnal trwy gydol cyfnod Covid, er o dan reolaeth caeth, oherwydd y gofyn yn y maes gofal. Mae datblygiadau yn parhau hefyd o ran modiwlau E-ddysgu gyda phecynnau newydd wedi cael eu creu mewn meysydd megis diogelwch personol ac adnabod peryglon.

Bu archwiliadau rhaglenedig gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) mewn dwy ysgol i asesu rheolaeth asbestos o fewn ysgolion ac yn gyffredinol, roedd yr arolygydd yn fodlon iawn a'r trefniadau, er y derbyniwyd llythyr o ddiffyg cydymffurfiaeth ar faterion eithaf technegol y mae'r Gwasanaeth Eiddo eisoes wedi rhoi sylw iddynt.

Mae'r Tîm Iechyd a Diogelwch wedi cynghori a helpu gwasanaethau i addasu i'r newidiadau cyson yn y canllawiau ynghyd a chynghori ac ymchwilio i glystyrau o fewn gweithleoedd. Fel rhan o'r peilot ar weithio i'r dyfodol sydd wedi rhoi y dewis i staff weithio o adref, yn hybrid, neu o'r swyddfa, mae hi wedi bod yn ofynnol cynnal asesiad gweithfan ar bob unigolyn. Mae staff wedi derbyn holiadur electroneg i lenwi, ac wrth fonitro'r canlyniadau, roedd angen asesiad dilynol mwy manwl ar 206 o unigolion gan y Tîm Iechyd a Diogelwch. Digwyddodd hyn unai dros Teams neu yn aml iawn trwy ymweld ar weithfan ac addasu'r offer oedd yna.

Mae'r graff isod yn dangos cyfraddau damweiniau sydd wedi eu hadrodd i AGID tros y blynyddoedd diwethaf.




Mae gwaith dydd i ddydd yr Adran hon yn cyfrannu tuag at yr Amcanion Llesiant a ganlyn gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel.
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal ein hunain a'n teuluoedd.
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg.

# Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol yn darparu gwasanaeth cyfreithiol cyflawn i holl adrannau'r Cyngor. Mae hyn yn cynnwys meysydd arbenigol megis cyflogaeth, eiddo masnachol, amddiffyn plant, ymgyfreithio a chynllunio a priffyrdd. Mae hyn yn ymestyn o brosiectau Cynllun y Cyngor ar draws i weithredu materion megis gorchmynion trafnidiaeth a chytundebau 106.

Symudwyd i system newydd a symlach o geisio adborth yn ystod y flwyddyn a bellach mae lefel bodlonrwydd cleient ar sail 5 allan o 5 yn 100%. Er heriau recriwtio, llwyddwyd i gynnal y gwasanaeth a sgôr sydd yn adlewyrchu lefel uchel o ran bodlonrwydd.

Mae'r Tîm yn cefnogi a chyfrannu at waith yr Adrannau wrth gyflawni amcanion y Cyngor a'i Strategaethau. Darparwyd cefnogaeth gyfreithiol ar draws ystod gwaith y Cyngor gan gynnwys cefnogi y Cynllun Gweithredu Tai, trefniadau prynu a gweithredu cynlluniau penodol. Gwelwyd cynnydd mewn achosion amddiffyn plant oedd yn derbyn cynrychiolaeth gan y tîm. Yn ogystal, darparwyd cyngor a chynrychiolaeth ar gyfer meysydd megis moderneiddio addysg, ffioedd cartrefi gofal, prosiect Penrhos, mewnoli Cwmni Cynnal ac ar draws ystod gweithgaredd y Cyngor. Cefnogwyd Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru drwy gyngor cyfreithiol a threfniadaethol ar y prosiectau a'r cynlluniau Twf.

**Priodoldeb**

Mae'r cyfrifoldeb yma ynglŷn a'r swyddogaeth Swyddog Monitro a chefnogaeth i gyflawni swyddogaethau sydd ynglŷn a priodoldeb gweithrediadau y Cyngor, cynnal y Cyfansoddiad a'r fframwaith foesegol (Cod Ymddygiad). Rhennir y gwaith hefyd drwy ddirprwyo swyddogaethau.

Gan fod 2022 yn flwyddyn etholiadau lleol rhoddwyd sylw penodol i anwytho aelodau newydd i mewn i drefniadau y Cyngor ynghyd a diweddaru aelodau oedd yn dychwelyd drwy sesiynau hyfforddiant ar y strwythurau cyfansoddiadol a'r Cod Ymddygiad. Cefnogwyd gwaith y Pwyllgor Safonau drwy'r flwyddyn a chyfrannu at waith cenedlaethol a rhanbarthol yn y maes.

Roedd rhannau sylweddol o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn dod yn weithredol yn ystod y flwyddyn ac drwy gyd weithio gyda Gwasanaethau Corfforaethol cyflawnwyd rhaglen waith i sicrhau fod y Cyngor yn gweithredu y Ddeddf yn ôl y gofynion. Roedd y gwaith yma yn cynnwys addasu y Cyfansoddiad yn ôl y gofyn e.e Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei ffurf newydd a materion megis y Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.

Cefnogwyd y Cyngor, Cabinet, Cyd Bwyllgorau a Pwyllgorau ac Is Bwyllgorau ynghyd â rhoi arweiniad a sylwadau ar adroddiadau a materion Cyfansoddiadol a threfniadaethol. Roedd hyn yn cynnwys Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a GwE.

Mae'r Swyddog Monitro yn gweithredu cyfrifoldebau statudol y Swyddog Monitro y Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd (CBC), sydd hefyd yn cynnwys dyletswyddau cyffelyb i Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae hyn wedi golygu gweithredu a darparu cefnogaeth arbenigol ar faterion cyfansoddiadol a threfniadaeth y CBC. Paratowyd dogfennau cyfansoddiadol cychwynnol, gwaith sydd yn parhau yn ogystal â mynychu cyfarfodydd i gynghori.

**Etholiadau a Chofrestru Etholiadol**

Cynhaliwyd yr Etholiadau Lleol ym Mai 2022 a

chafwyd adborth cadarnhaol gan y Comisiwn Etholiadau ynglŷn â'r trefniadau eleni. Bydd adolygiad o'r trefniadau a chynllun gwaith ar gyfer datblygu a gwella i'r dyfodol yn cael ei baratoi,  ac mae perfformiad yr etholiad yma wedi cefnogi y gweithdrefnau sydd mewn lle i sicrhau priodoldeb.

Ymatebwyd  i ehangu a diwygio yr etholfraint, yn benodol ar gyfer etholwyr rhwng 16 ac 18 oed, a ddaw yn sgil Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2019 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 drwy hyrwyddo cofrestru a chyfranogiad mewn etholiadau perthnasol.

Aethpwyd ati i greu swydd barhaol ac ymysg y dyletswyddau fydd parhau a'r gwaith hyrwyddo cofrestru yn benodol o amgylch y grŵp yma o etholwyr.   Mae hyn yn dod ar gefn datblygiadau yn y maes etholiadol ar lefel DU megis angen cerdyn adnabod a threfniadau pleidleisiau post. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi papur gwyn ar ddatblygu a diwygio etholiadau datganoledig. Bydd rhaglen waith yn cael ei pharatoi a fydd yn rhan o Gynllun y Gwasanaeth i 2023/24.

**Crwner**

Wedi cyfnod  o ansicrwydd ynglŷn â ffurf y Ardal Grwnerol cafwyd sicrwydd ynglŷn â dyfodol yr ardal. Aethpwyd ati i ymdrin â threfniadau penodi Uwch Grwner parhaol ar gyfer yr ardal a sefydlu yr ardal ar sail gynaliadwy. Penodwyd Prif Grwner ar gyfer Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Crwner Cynorthwyol yn ystod y flwyddyn. Disgwylir y bydd y gwasanaeth yn cychwyn ar sail parhaol a bydd cyd weithio gyda'r Uwch Grwner i osod y trefniadau ar sail tymor hir.

## Holiadur Bodlonrwydd Cwsmeriad Sgor 5 allan o 5

| | |
|---|---|
| 2020/21 | 87% |
| 2021/22 | 77% |
| 2022/23 | 100% |

# Rhan 3

# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

# Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2022/23

## Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 –
# Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2022/23

### Cefndir a Chyflwyniad

Dyma adroddiad sy'n adlewyrchu ail hunanasesiad Cyngor Gwynedd fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Ddeddf yn ei wneud yn ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau:-

i. y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
ii. y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon;
iii. y mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion perfformiad i. a ii.

Bwriad y broses hunanasesu yw annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys ei gydberthnasau allweddol rhwng arweinwyr gwleidyddol a swyddogion a'r ffordd y maent yn cael eu rheoli. Byddai dull gweithredu effeithiol yn cael ei berchenogi a'i arwain ar lefel strategol, ond byddai hefyd yn cynnwys aelodau a swyddogion ar bob lefel o'r sefydliad ac amrywiaeth o bobl ar draws cymunedau a phartneriaid.

Er bod y ddyletswydd hon yn un eithaf newydd, mae'r Cyngor eisoes yn paratoi nifer o ddogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunan asesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu. Y Grŵp Llywodraethu, sy'n cynnwys swyddogion megis y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol ymysg eraill, sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r gwaith hyn o fewn y Cyngor. Bwriad hyn yw sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol.

Yn y gorffennol mae ein trefniadau adrodd ar berfformiad wedi bod yn canolbwyntio ar gynnydd prosiectau o dan ein blaenoriaethau gwella ynghyd â pherfformiad gwaith dydd i ddydd Gwasanaethau ac Adrannau o fewn y Cyngor. Ceir copi o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar wefan y Cyngor yma.

Y flwyddyn diwethaf cyhoeddwyd yr hunanasesiad fel dogfen oedd yn sefyll ar ei phen ei hun. Eleni rydym wedi integreiddio'r gwaith gyda threfniadau herio perfformiad y Cyngor gan gynnwys yr hunanasesiad o fewn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol fel bod yr holl wybodaeth o fewn yr un ddogfen.

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb lefel uchel o hunan asesiad strategol o berfformiad y Cyngor yn ystod 2022/23 gyda'r canlyniadau yn seiliedig ar dystiolaeth o'r dogfennau a nodir uchod. Cynhelir cyfarfodydd herio perfformiad

ar lefel Adrannol bob yn ail fis sy'n edrych ar gynnydd prosiectau blaenoriaeth, perfformiad gwasanaethau a'r ymateb i'r prif risgiau o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r wybodaeth wedyn yn bwydo i mewn i adroddiadau perfformiad rheolaidd a gyflwynir gan bob Aelod Cabinet yn ystod y flwyddyn ynghyd ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r ddogfen yn cynnwys asesiad o'n trefniadau llywodraethu gan ddefnyddio'r saith maes corfforaethol sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus, fel yr awgrymir o fewn canllawiau statudol Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan ymateb i'r 3 gofyniad perfformiad y disgwylir i Gynghorau ymateb iddynt fel rhan o'r hunanasesiad. Rydym hefyd wedi ystyried y fethodoleg ddrafft a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Asesiadau Panel wrth baratoi'r hunanasesiad ar gyfer 2022/23 gan ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?
- Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni wneud er mwyn gwella, a sut?

Er mwyn cwrdd â'n gweledigaeth o roi pobl y Sir yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud, mae'n bwysig ein bod yn monitro ac asesu ein perfformiad fel Cyngor. Fel rhan o'r gwaith hynny, aethom ati i gasglu barn gan Banel Trigolion y sir, Cynghorau Tref a Chymuned, Aelodau Etholedig, Staff ac Undebau am y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor ar ffurf holiadur ar lein. Derbyniwyd 221 o ymatebion oedd yn cynnwys ymatebion gan gynrychiolaeth o'r grwpiau nodir.

Yr hunanasesiad ar gyfer 21/22 oedd ein hasesiad cyntaf ac mae camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn gweithredu ar y gwelliannau oedd wedi eu hadnabod. Nodir fod nifer o'r gwelliannau hynny yn parhau yn y ddogfen hon oherwydd bod nifer o'r gwelliannau yn faterion mwy hirdymor ac ym mis Rhagfyr 2022 y cyhoeddwyd yr hunanasesiad ar gyfer 2021/22.

## Gofyniad Perfformiad Un: Y graddau y mae'r Cyngor yn gweithredu ei swyddogaethau'n effeithiol.

### Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?

Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae'r Cyngor wedi llunio a mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28. Bydd y cynllun hwn yn arwain gwaith y Cyngor ar gyfer y 5 mlynedd nesaf gan hefyd osod ein dyheadau a'n blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod. Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun fe ystyriwyd ystod eang o faterion i'w blaenoriaethu a bu i ni ymgysylltu ac ymgynghori gyda phobl leol, aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a phartneriaid.

Mae gan y Cyngor ddiwylliant o ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd, ac mae'n effeithiol wrth bennu ei flaenoriaethau a rheoli disgwyliadau gan osod mesurau perfformiad cadarn er mwyn herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau.. Un rhan o waith oedd yn allweddol yn natblygiad Cynllun y Cyngor oedd gwaith Ardal Ni sy'n amlinellu'r hyn sy'n dda am yr ardal, yr hyn sydd ddim cystal, a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn creu gwell ardal erbyn 2035.

Nodir fod y Cyngor yn rhan o nifer o bartneriaethau lleol a rhanbarthol megis Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Teg fyddai nodi fod effeithiolrwydd y partneriaethau hyn yn amrywio ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i weithio er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn elwa o'r trefniadau hyn. Yn yr un modd mae ein perthynas gyda'r trydydd sector yn parhau i esblygu gyda bwriad gan Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector i edrych ar hyn ystod 2023/24.

Fel y nodwyd yn yr hunanasesiad diwethaf mae ein cynlluniau corfforaethol yn cyd-fynd hefo gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth berthnasol ond mae lle i gryfhau'r cyswllt hwn. Wrth ddatblygu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 rhoddwyd camau yn eu lle i gyfarch gofynion statudol penodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum ffordd o weithio. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd gennym ei fod wedi treiddio fel elfen sylfaenol o osod cyfeiriad ac wedi ei brif ffrydio.

Mae gwaith pellach ei angen er mwyn sicrhau fod y Ddeddf Llesiant a gofynion statudol eraill yn integreiddio'n llawn o fewn ein fframweithiau cynllunio corfforaethol, yn hytrach na gwneud hynny mewn ffordd sy'n ymatebol a thameidiog ei natur. Mae rôl Swyddogion Statudol angen bod yn fwy creiddiol wrth osod trywydd, ac ar hyn o bryd maent yn tueddu cael eu cynnwys yn rhy hwyr mewn materion.

Yn ystod 2023/24 bydd templed newydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer adroddiadau a gyflwynir i'r Cabinet sy'n golygu y bydd angen nodi cyfraniad tuag at ofynion statudol megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er mwyn cefnogi hyn bydd Asesiad Effaith newydd yn cael ei gyflwyno er mwyn sicrhau fod sylw yn cael ei roi i faterion megis Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg, Newid Hinsawdd ac Ardrawiad Economaidd Cymdeithasol.

Parhawyd gyda rhaglen hyfforddiant ar gyfer Aelodau Etholedig yn ystod 2022/23 ar sail y blaenoriaethau oedd wedi eu hadnabod gan aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth. Yn ogystal, cynigir cyfweliad datblygiad personol i bob Cynghorydd i gael adnabod meysydd datblygol penodol. Mae cynnig i gynghorwyr gael sesiynau penodol cyn iddynt ymgymryd â rolau ar wahanol bwyllgorau e.e. Aelodau Cabinet, hyfforddiant i'r holl aelodau craffu fel rhan o'r gweithdai cyn i'r aelodau gychwyn ar eu gwaith craffu, a nifer o bwyllgorau eraill megis Cynllunio, Trwyddedu, a Llywodraethu ac Archwilio.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae ymdrech wedi ei wneud i wella a chryfhau rôl yr Aelodau Craffu yn y gwaith Cynllunio Corfforaethol gan sicrhau fod cyswllt rhwng y rhaglen Craffu a gwireddu blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a hefyd dal y Cabinet i gyfrif ynghylch perfformiad. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethau Cynllun y Cyngor wrth bennu'r rhaglen graffu ar gyfer y flwyddyn ac ers cyflwyno'r drefn herio perfformiad newydd mae cynrychiolaeth o'r Pwyllgorau Craffu wedi eu henwebu i fynychu'r cyfarfodydd perfformiad adrannol ddwywaith y flwyddyn.

Nodir hefyd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ei chael hi'n anodd i ddenu aelodau lleyg ac aelodau etholedig addas i fod ar y pwyllgor fel sy'n ofynnol o fewn y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021 sy'n golygu nad oes gennym y nifer ddisgwyliedig o aelodau lleyg ac etholedig ar hyn o bryd.

Bu i Archwilio Cymru gyhoeddi 'Adolygiad o Reoli Perfformiad' yn y Cyngor yn ystod mis Ionawr 2022. Noda'r adroddiad fod *'....fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn datblygu'n dda er bod gweithredu'n amrywiol ar hyn o bryd, ac mae'n anodd llywio'r broses adrodd'.*

Ar ddechrau 2022/23 cyflwynwyd trefn newydd ar gyfer herio perfformiad y Cyngor. Yn unol â'r drefn newydd mae holl Adrannau'r Cyngor yn cynnal cyfarfod herio perfformiad mewnol pob yn ail fis, ac yn adrodd i'r Cabinet dwywaith y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd mewnol yn gyfle i herio cynnydd prosiectau blaenoriaethau gwella a mesurau perfformiad gwasanaethau'r Adran (hynny yw, y gwaith dydd i ddydd). Yn ogystal, yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi rhoi camau yn eu lle er mwyn ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad a nodir uchod er y cydnabyddir fod gwaith pellach i'w gyflawni o ran codi ymwybyddiaeth pobl o waith y Cyngor a'r hyn yr ydym yn ei wneud ynghyd a chyfathrebu ein perfformiad yn y meysydd hynny yn fwy effeithiol.

Yn unol â'r gofyn i ymgynghori ar berfformiad bu i ni gynnal ymarferiad ymgynghori hefo ein Panel Trigolion, Cynghorau Tref a Chymuned, Aelodau Etholedig, Staff ac Undebau ar ddiwedd 2022/23.

Rhoddwyd y cwestiwn yma i drigolion i ganfod eu barn ar ofyniad perfformiad 1:
*"Yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi gyda'r ffordd y mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg pethau?"*

Nododd 48% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon iawn neu yn weddol fodlon wrth ymateb i'r cwestiwn a 21% ddim yn fodlon nac yn anfodlon. Ymysg y sylwadau ysgrifenedig mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn roedd nifer yn nodi bod mwyafrif y

gwasanaethau yn dda, bod wastad lle i wella gwasanaethau, ynghyd ag anfodlonrwydd gyda chyflwr rhai ffyrdd a'r amser a gymerir i ymateb i ymholiadau.

Rhywbeth arall a amlygwyd oedd yr angen i ni fod yn gwneud mwy i wella dealltwriaeth o feysydd gwaith y Cyngor ac i gyfathrebu ein perfformiad yn well i wahanol gynulleidfaoedd.

I'r dyfodol byddwn yn edrych ar y ffordd hawsaf o gasglu'r farn yma gan fod yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus i osgoi 'blinder ymgynghori' ('consultation fatigue') gan ein bod eisoes yn gofyn barn ein trigolion am nifer o bynciau a chynlluniau amrywiol. Mae trefniadau ar y gweill i sefydlu grŵp ymgysylltu lle mae blaen rhaglen ar gyfer ymgynghoriadau ar draws y Cyngor yn cael ei gydlynu gan yr Adran Gyfathrebu.

**Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?**

Mae'r dystiolaeth a amlinellir uchod yn cynnwys cyfeiriad at rai o'r uchafbwyntiau o ran materion lle'r ydym yn perfformio yn dda neu ddim cystal. Ceir tystiolaeth bellach a manylder o fewn y dogfennau/ffynonellau isod:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2020-24
Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd
Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2021-22
Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd 2021-22
Datganiad Llywodraethu 2021/22
Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2022-23
Adroddiad Blynyddol 2021-22 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Adroddiad Blynyddol 2022-23 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Strategaeth Cyfranogiad
Hunan-Asesiad-CG-202122.pdf (llyw.cymru)
Cynllun Ffordd Gwynedd 2023 - 28
Cofrestr Risg Corfforaethol
Gweithdy blynyddol gyda'r Rheoleiddwyr a'r Aelodau Cabinet
Adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet unigol.

**Beth sydd angen ei wella?**

| Gwelliant |
| --- |
| **Byddwn yn:** |
| • Parhau hefo gwaith i gryfhau ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau fod gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth yn elfen greiddiol ac wedi eu hintegreiddio'n well hefo ein gwaith cynllunio corfforaethol. |
| • Parhau gyda gwaith i gyfathrebu perfformiad gwasanaethau a'r Cyngor yn gyffredinol yn fwy effeithiol i drigolion. |
| • Gwella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o feysydd gwaith y Cyngor ymysg trigolion y Sir. |
| • Gwneud gwaith i sicrhau cyd-ddealltwriaeth a pherchnogaeth o'r weledigaeth a'r blaenoriaethau ar wahanol lefelau o fewn y sefydliad. |

**Gofyniad Perfformiad Dau: Y graddau y mae'r cyngor yn defnyddio'i adnoddau'n ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon**

Fel sydd wedi ei nodi eisoes mae'r Cyngor wedi datblygu a mabwysiadu Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Cynllun yn un uchelgeisiol a hynny mewn hinsawdd heriol tu hwnt. Er bod ystyriaeth wedi ei roi i'r capasiti i gyflawni'r hyn sydd o fewn y Cynllun wrth iddo gael ei ddatblygu, ac nad oeddem yn rhagweld problem yn cyflawni, nid oes sicrwydd y bydd hyn yn parhau am y cyfnod cyfan. Gallai'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol olygu na fydd modd cyflawni neu orfod lleihau uchelgais.

Ceir sawl enghraifft o gydweithio da mewn partneriaeth hefo sefydliadau allanol ar draws ein gwasanaethau y gan gynnwys y maes gofal ac addysg. Bu i Arolygiaeth Gofal Cymru gyfeirio at 'Weithio positif mewn partneriaeth' ac Estyn at '....gydweithio sefydledig rhwng yr awdurdod a'r consortiwm rhanbarthol ar gyfer cefnogi ysgolion, ee cynllunio cwricwlaidd a datblygu arweinwyr' yn y cyfarfod Risg a Sicrwydd a gynhaliwyd ar ddiwedd mis Chwefror 2023.

Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer cynllunio a rheoli'n ariannol i sicrhau parhad gwasanaeth, gan gynnwys cyfrifwyr ac archwilwyr mewnol, dan arweiniad y prif swyddog cyllid. Mae gan archwilwyr mewnol ffocws ar drefniadau effeithiol a rheolaethau mewn systemau ariannol, tra mae'r cyfrifwyr yn gweithio'n agos gyda'r adrannau ac yn annog perchnogaeth rheolwyr o'u systemau, perfformiad, a phriodoldeb ariannol.

Mae'r Adran Gyllid, mewn cyswllt agos â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn cynnal adolygiadau parhaus o ragolygon ariannol y Cyngor dros y 3 blynedd nesaf, gan ddiweddaru'r model yn rheolaidd pan dderbynnir gwybodaeth newydd gan adrodd yn rheolaidd i aelodau'r Cabinet ac i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid adran).

Mae'r cylch cynllunio corfforaethol yn cyd-fynd â chylch statudol cynllunio'r gyllideb ac rydym yn anelu i gyflwyno diweddariad blynyddol Cynllun y Cyngor i'r un cyfarfod o'r Cyngor Llawn â'r gyllideb.

Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn paratoi ei Strategaeth Ariannol sy'n sicrhau Cyllideb gytbwys (balanced) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi Datganiad o'r Cyfrifon ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario. Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau fod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Yn Medi 2021, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad oedd yn cadarnhau fod rheolaeth ariannol y Cyngor yn dda. Mae'r adroddiad i'w weld yma.

Fodd bynnag, un argymhelliad oedd bod angen edrych fwy i'r dyfodol er mwyn rhagweld sefyllfa ariannol y sefydliad am y blynyddoedd nesaf. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig Cyngor Gwynedd wedi bod dan adolygiad parhaus ers

cychwyn blwyddyn ariannol 2022/23, wrth i'r bwlch ariannol oedd yn wynebu'r Cyngor (fel pob awdurdod lleol arall) gynyddu'n gyflym wrth i effaith lefelau chwyddiant digynsail effeithio ar allu'r Cyngor i ariannu ei wasanaethau. Cyflwynwyd rhaglen arbed newydd fel un o brif flaenoriaethau'r Cyngor wrth ymateb i'r sefyllfa ariannol yma, a chytunodd y Cyngor ar raglen arbedion gwerth £6.4miliwn wrth osod cyllideb 2023/24. Bydd Strategaeth Ariannol Tymor Canolig addasedig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ystod hydref 2023 gyda rhagolygon gwariant ar gyfer 2024/25 a thu hwnt gan fod y bwlch ariannol ar gyfer y flwyddyn am fod yn sylweddol.

Mae'r Cyngor hefyd angen rhoi ystyriaeth bellach i sut y gall gynnwys trigolion mewn penderfyniadau ariannol arwyddocaol. Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi ymgynghori ar ei gynlluniau i gyflawni arbedion yn achlysurol, er enghraifft, drwy ymarferiad Her Gwynedd yn 2016 ac ymgynghoriad Strategaeth Ariannol yn 2019. Mae hefyd yn cynnal gweithdai gydag Aelodau ar lefel y dreth Cyngor ac yn ymgysylltu ar Drethi Annomestig yn flynyddol. Mae'r Cyngor yn cydnabod fod angen bod yn fwy agored ynghylch penderfyniadau ariannol gan ymgysylltu yn fwy aml, er mwyn sicrhau fod pobl Gwynedd yn cael mewnbwn ar benderfyniadau.

Mae cofrestr risg corfforaethol y Cyngor yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn rheolaidd gan swyddogion y Cyngor ac mae'r Grŵp Llywodraethu yn cynnal trosolwg.

Mae'r Pennaeth Cyllid wedi cynnal hunanasesiad o gydymffurfiaeth gyda Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA, ac yn ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn ac mae'r asesiad cyfredol yn dangos cydymffurfiaeth uchel ar draws pob un o'r safonau.

Mae mesur gwerth am arian yn faes sydd yn derbyn sylw ar hyn o bryd, gyda golwg ar ddatblygu fframwaith effeithlon ar gyfer mesur gwerth am arian o fewn ein trefn herio perfformiad. Mae'n destun gweithgor o swyddogion sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr.

Gwelwyd newid sylweddol yn nisgwyliadau a thueddiadau yn sgil y pandemig ac mae hyn yn gyfle i weld os oes modd i ni wella profiad trigolion Gwynedd o wasanaethau rheng flaen a swyddfa gefn ymhellach drwy ddefnyddio technoleg ddigidol, ac felly mae Strategaeth Ddigidol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd

Dros y blynyddoedd diwethaf gwelwyd heriau cynyddol mewn recriwtio staff mewn nifer o feysydd gwaith allweddol megis gofal cymdeithasol ac addysg. Yn y Cyfarfod Risg a Sicrwydd a gynhaliwyd hefo archwilwyr allanol ar ddiwedd Chwefror 2023 cadarnhawyd hyn gydag Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio Cymru yn nodi ei fod yn un o'r risgiau yr ydym yn ei wynebu.

"*Her recriwtio i swyddi yn y Gymraeg? Nid yn unig o ran swyddi addysg, ond yn ehangach e.e. Gwasanaethu cefnogi, gwasanaethau iechyd"* Estyn (Chwefror 2023)

*"Cynllun gweithlu i recriwtio, chadw a datblygu staff er mwyn sicrhau gweithlu cynaliadwy"* Arolygiaeth Gofal Cymru (Chwefror 2023)

O fewn Cynllun y Cyngor 2023-28 mae gennym Brosiect Cynllunio'r Gweithlu fel blaenoriaeth. Prif nod y prosiect ydi sicrhau fod gan y Cyngor gyflenwad digonol o staff cymwys i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i drigolion y sir, a bod modd i ni sicrhau fod y cyflenwad hwnnw yn ei le am y tymor hir. Bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â phroblemau penodol recriwtio staff mewn meysydd allweddol megis gofal cymdeithasol ac addysg.

Mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i dros 40 o brentisiaid ers 2019 (sy'n un o'r niferoedd uchaf yn Gymru wrth gymharu gyda phoblogaeth a maint Cynghorau eraill). Mae enghreifftiau hefyd o lwyddiant y Cynllun, gydag unigolion sydd wedi cychwyn ar y Cynllun Prentisiaethau yn derbyn dyrchafiadau a swyddi parhaol o fewn y Cyngor. Yn yr un modd mae Cynllun Graddedigion (Cynllun Yfory) wedi rhoi cyfle i 28 hyfforddai proffesiynol ers 2017 gyda nifer ohonynt wedi cael cynnig swydd gyda'r Cyngor.

Fel rhan o'r prosiect blaenoriaeth 'Merched mewn Arweinyddiaeth' sefydlwyd Cynllun Datblygu penodol i ferched, gan eu bod wedi eu hadnabod fel un garfan sy'n gyndyn o ymgeisio am swyddi uwch. Gwelir hyn yn y ganran isel o ferched sydd yn cyflawni swyddogaeth reolaethol o fewn y Cyngor, sy'n anghymesur â rhaniad o fewn y gweithlu cyfan, hynny yw, 70% merched a 30% dynion. Mae'r cynllun yma yn parhau fel blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28.

Tra bod y prosiect cynllunio gweithlu yn dod a sawl adran at ei gilydd i gydweithio er mwyn mynd ati i daclo problemau denu a chadw staff, mae'r Cyngor yn tueddu i fod yn ymatebol ei natur yn hytrach na chynllunio yn hirdymor. Un gwendid gan Reolwyr (ar y cyfan) yw'r methiant i edrych ymlaen 5-10 mlynedd gan ystyried oedran staff presennol a'r arbenigeddau sydd eu hangen i'r dyfodol, sydd â'r potensial i gael effaith sylweddol ar barhad gwasanaeth.

Bwriad Proffiliau'r Gweithlu yw ystyried os yw ein staff yn cynrychioli'r gymuned ac mae holiadur cydraddoldeb yn cael ei gylchredeg i holl staff i'r pwrpas hwn. Yn anffodus, fel gyda mudiadau cyhoeddus eraill, nid oes digon o aelodau o staff wedi llenwi ein holiadur monitro nodweddion gwarchodedig i ni allu dweud os ydi'r gweithlu'n cynrychioli'r gymuned. Rydym yn gweithio ar wella'r ffigyrau yma. Mae Amcan 5 o fewn y Cynllun Cydraddoldeb yn nodi ein bod am wella amrywiaeth ein gweithlu. Rydym ar hyn o bryd yn adolygu ein polisïau a gweithdrefnau i wella hynny gyda chymorth cwmni o'r enw 'Inclusive Employers'. CYNLLUN-CYDRADDOLDEB.pdf (llyw.cymru)

Dengys adborth aelodau staff fod y Cyngor, ar y cyfan, yn 'le da i weithio', ac o'i gymharu ag arolwg a gynhaliwyd yn 2019, roedd canlyniadau 2021 yn dangos fod cynnydd yn 'sgôr' y datganiad yma. Mae gwaith pellach i wneud, fodd bynnag, yn y meysydd gwerthfawrogiad staff a chyflogau teg.

Mae'r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn cadw at ei Reoliadau Caffael. Nod y tîm yw cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael o fewn y Cyngor, mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chefnogi'r farchnad leol. Mae hefyd trefniadau Rheolaeth Categori (Amgylchedd, Corfforaethol a Phobl) yn ei le er mwyn edrych ar gaffael yn strategol a rhoi mwy

o bwyslais ar gynnal dadansoddiad trylwyr o'r farchnad, gan annog fwy o gydweithio.

Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu'r Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y Cyngor, er lles y sir.

Mae prosiect wedi ei gwblhau er mwyn asesu ymarferoldeb cyflwyno methodoleg asesu buddion cymdeithasol i Wynedd h.y. rhannu'r dull o asesu tendrau sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd trwy fesur Pris ac Ansawdd i un sy'n mesur Pris, Ansawdd a Gwerth Lleol. Fel rhan o'r prosiect, cwblhawyd dau gynllun peilot pellach yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio'r dull asesu tendrau ar sail buddion cymdeithasol.

Mae cwmni 'Social Value Portal' wedi ei gomisiynu i gwblhau Asesiad Anghenion Lleol sydd wedi amlygu anghenion cymdeithasol y Sir. Gyda hyn, rydym wedi teilwro'r mesurau cymdeithasol i ganolbwyntio ar y materion yma yn ein cytundebau. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i ddeall a dysgu defnyddio'r trefniadau i swyddogion a busnesau lleol. Mae gwaith cydweithio wedi digwydd er mwyn rhannu ein profiadau drwy wahanol rwydweithiau megis Rhwydwaith Buddion Cymdeithasol Gogledd Cymru a Rhwydwaith Cenedlaethol Caffael gan gyflwyno'r hyn rydym wedi bod yn treialu yng Ngwynedd.

Mae gwaith parhaus yn digwydd i gefnogi busnesau i ymateb i ofynion mewn tendrau yn sgìl unrhyw ddatblygiadau yn y maes, fel ennill achrediadau neu ymateb i ofynion y Ddeddf Llesiant.

Mae gan y Cyngor broses i reoli risgiau drwy gael Cofrestr Risg Corfforaethol yn ei lle. Yn ogystal mae trefniadau ar gyfer Archwilio Mewnol yn bodoli a chynhelir gweithdy blynyddol ar sicrwydd a risgiau gydag archwilwyr allanol (Archwilio Cymru, Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn).

Er mwyn sicrhau fod trefniadau yn eu lle i ymateb i unrhyw argymhellion gan gyrff archwilio, rhoddir ystyriaeth i adroddiadau diweddaru chwarterol gan Archwilio Cymru yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ceir trefniadau priodol hefyd i ymateb i unrhyw adroddiadau gan Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE).

Noder bod prif risgiau llywodraethu wedi eu sgorio yn gorfforaethol ac ar lefel Adran gan fod lefel y risg yn amrywio. Mae'r Grŵp Llywodraethu mewnol gyda throsolwg ac yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd o fewn Cyngor Gwynedd.

Mae yna drefniadau cryf ar gyfer monitro ein cydymffurfiaeth â rhai mathau penodol o risgiau gweithredol. Lansiwyd Cofrestr Risg Corfforaethol ar ei newydd wedd ym mis Mawrth 2021 ac mae'r system wedi profi i fod yn gyfleuster hwylus i ddefnyddwyr ym mhob Adran. Bellach mae'n llawer haws i wneud cysylltiad rhwng y risgiau wrth i Adrannau ystyried eu blaenoriaethau a nodi beth sydd angen

ei wneud fel ymateb, ac mae hefyd yn cynorthwyo Aelodau i herio perfformiad a sicrhau fod y camau disgwyliedig wedi cael eu cymryd i leihau'r risg.

Y Pennaeth Cyllid sydd i baratoi a hybu datganiad polisi a strategaeth rheoli risg yr awdurdod. Mae'r strategaeth i reoli risgiau wedi'i berchnogi ar lefel gorfforaethol drwy'r Grŵp Llywodraethu y cyfeirir tuag ato uchod, gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn herio'r sgoriau risg llywodraethu. Bydd y Pennaeth Cyllid, gyda chymorth y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol (Cynaliadwyedd a Datblygiadau) yn sicrhau bod trefn yn bodoli ar gyfer mesur effeithlonrwydd y broses rheoli risg, ac y bydd pob darganfyddiad a ddaw o'r drefn fonitro yn cael ei fwydo'n ôl i'r cylch rheoli risg.

Fel rhan o'i drefniadau parhad gwasanaeth, mae'r Cyngor wedi categoreiddio Gwasanaethau o 1 i 4 ar sail blaenoriaeth adfer ar ôl trychineb. Bu i hyn alluogi'r sefydliad flaenoriaethu yn ystod cyfnod pandemig Covid-19 gan sicrhau parhad gwasanaethau 'hanfodol'. Mae gwersi sydd wedi eu dysgu wrth ddelio ag argyfwng Covid-19 wedi bod yn werthfawr mewn argyfyngau dilynol, e.e. y rhyfel yn Wcráin.

Er bod y drefn a strategaethau rheoli risg i'r dyfodol yn gwella a chryfhau ar y cyfan, mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fodloni eu hunain fod trefniadau yn eu lle i ddelio hefo risgiau mewn modd priodol.

Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2022/2023, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol honno yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Mae'r Cyngor eisoes wedi cyhoeddi Cynllun Asedau Corfforaethol 2019/20 – 2028/29, ac mae ar gael i drigolion ei ddarllen ar wefan y Cyngor yma. Gan fod newidiadau sylweddol wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf 'rydym yn y broses o adolygu'r cynllun er mwyn sicrhau fod y blaenoriaethau yn parhau i fod yn gyfredol. Rhagwelir y byddwn mewn sefyllfa i fabwysiadu'r cynllun newydd erbyn diwedd 2023/24.

Gellir rhannu asedau'r Cyngor o dan ddau bennawd sef Asedau Tir ac Eiddo, ac Asedau Technoleg Gwybodaeth. Un risg posib sydd wedi ei adnabod yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yw nad yw'r Asedau Eiddo yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r sgôr risg yma yn isel gan fod nifer o adeiladau nad oedd eu hangen mwyach wedi cael eu gwaredu yn unol â chanlyniadau gwaith creu'r Cynllun Asedau 2019/20-2029. O ran cerbydau'r Cyngor mae yna hefyd gynllun ar waith i geisio gwneud gwell defnydd o fflyd sydd eisoes wedi arwain at rhai arbedion ariannol ac yn debygol o gyflawni mwy i'r dyfodol.

Mae'r risg nad ydi'r Cyngor yn defnyddio ei Asedau Technoleg Gwybodaeth i'w llawn botensial ychydig yn uwch. Mae defnyddio technoleg mewn ffordd effeithiol

yn arf hanfodol i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion, gan wneud hynny mewn ffordd cost effeithiol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Cynllun Digidol newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28. Y disgwyliad yw y bydd yn cael ei gyflwyno i'w graffu gan y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Medi 2023 cyn bydd yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2023.

Cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad "Llamu Ymlaen" ym Mehefin 2022 oedd yn ystyried sut y mae'r Cyngor yn cryfhau ei allu i drawsnewid, addasu a pharhau i ddarparu gwasanaethau gan adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau a'i weithlu. Ar y cyfan, bu iddynt ddarganfod fod y Cyngor yn gweithio'n frwd ar ei brosiect Trefniadau Gweithio i'r Dyfodol ac yn datblygu'r weledigaeth a chynlluniau ar draws yr holl wasanaethau ond bydd edrych ymhellach i'r dyfodol yn cryfhau ystyriaeth y Cyngor i'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Fel sydd eisoes wedi nodi, eleni ymgysylltodd y Cyngor gydag ein Panel Trigolion, Cynghorau Tref a Chymuned, Aelodau Etholedig, Staff ac Undebau i ganfod barn ar berfformiad y Cyngor. Rhoddwyd y cwestiwn yma i drigolion i ganfod eu barn ar ofyniad perfformiad 2:

*"I ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod Cyngor Gwynedd yn rhoi gwerth am arian?"*

Roedd 33% wedi ymateb yn nodi eu bod yn unai cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno gyda'r datganiad yma. Roedd 24% ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Mae'n glir mai'r datganiad uchaf yma yw 41.6% yn tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf.

Roedd rhai o'r sylwadau ysgrifenedig mwyaf cyffredin i'r cwestiwn yn cynnwys treth cyngor yn cynyddu ond gwasanaethau yn gwaethygu; dylid gwneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael gydag eraill yn credu bod y Cyngor yn rhoi gwerth am arian. Fel gyda'r cwestiwn blaenorol nododd sawl ymatebwr nad oeddent yn deall digon am sut mae'r cyngor yn gweithredu i allu rhoi sylw. Byddwn yn rhoi sylw pellach i'r sylwadau hyn er mwyn ceisio deall yn well beth yn union sydd dan sylw.

**Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?**

Mae'r dystiolaeth a amlinellir uchod yn cynnwys cyfeiriad at rai o'r uchafbwyntiau o ran materion lle'r ydym yn perfformio yn dda neu ddim cystal. Ceir tystiolaeth bellach a manylder o fewn y dogfennau/ffynonellau isod:

- Polisi a Chanllaw Caffael Cynaliadwy
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2020-24
- Gwybodaeth Cyflogaeth 2021-22
- Datganiad o'r Cyfrifon 2021-22
- Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019/20 – 2028/29
- Datganiad Llywodraethu 2021/22

Adroddiad Blynyddol 2021-22 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Adroddiad Blynyddol 2022-23 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2022-23
Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2022
Adroddiad Blynyddol 2022-23 Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd
Cyfrifon Terfynol 2022/23 – Alldro Refeniw
Strategaeth Cynllun Pobl
Adroddiad Llamu Ymlaen
Diweddariadau Archwilio Mewnol yn adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethau ac Archwilio drwy'r flwyddyn)

**Beth sydd angen ei wella?**

| Gwelliant |
|---|
| **Byddwn yn:** |
| • Edrych i'r dyfodol er mwyn rhagweld sefyllfa ariannol hirdymor y Cyngor drwy baratoi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. |
| • Ystyried y ffyrdd mwyaf addas o ymgysylltu a chynnwys trigolion mewn penderfyniadau ariannol arwyddocaol a gweithredu (paratoi cyllideb 2024/25) |
| • Parhau hefo gwaith o adolygu Cynllun Asedau'r Cyngor er mwyn sicrhau fod y blaenoriaethau yn parhau i fod yn gyfredol yn sgil profiadau a datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf. |
| • Edrych i ddatblygu ffordd o fesur gwerth am arian (effeithlonrwydd) ar lefel gwasanaeth fel rhan o'n trefniadau herio perfformiad. |
| • Parhau i weithredu prosiect er mwyn mynd i'r afael a'r problemau recriwtio staff presennol y mae'r Cyngor yn ei brofi. |
| • Parhau i roi arweiniad a chyngor i wasanaethau er mwyn sefydlu arferion cynllunio gweithlu tymor hir, fel bod modd ceisio osgoi problemau recriwtio a chadw staff i'r dyfodol. |

**Gofyniad Perfformiad Tri: Y graddau y mae gan y cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion perfformiad un a dau.**

**Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?**

Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor drefn llywodraethu addas yn ei le. Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn ddogfen gyhoeddus sydd yn gosod allan y trefniadau llywodraethu ac mae canllaw yn cael ei ddarparu er mwyn yn atgyfnerthu hyn. Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw trosolwg o faterion llywodraethu o fewn y Cyngor. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government.

Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal arfarniad achlysurol o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nid yw hyn wedi digwydd yn dilyn Etholiad 2022 a'r newidiadau sydd wedi eu cyflwyno yn sgil gofynion Deddf Llywodraeth Leol 2021, ond bwriedir gofyn yn ystod hydref 2023 i'r Pwyllgor sefydlu camau i gynnal hunanasesiad o'r fath.

Dros y misoedd diwethaf bu Archwilio Cymru yn cynnal 'Adolygiad o effeithiolrwydd craffu' a rhagwelir y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn yr Hydref.

Mae rolau y Cyngor, Cabinet, Aelodau Unigol a Prif Swyddogion, ynghyd â chynllun dirprwyo clir, wedi eu gosod allan yng Nghyfansoddiad y Cyngor. Mae Cyngor Gwynedd hefyd wedi blaenoriaethu datblygu ei Raglen Arweinyddiaeth ac mae hwnnw yn rhan o'r Cynllun Pobl a fabwysiadwyd gan y Cabinet.

Mae yna elfen o dystiolaeth (drwy hunan asesiad) fod arweinyddiaeth o fewn y Cyngor yn gwella gyda nifer o enghreifftiau o arweinyddiaeth drawsffurfiol i'w gweld. Mae'r pwyslais cynyddol a roddir ar "arwain" yn hytrach na "rheoli" o fewn diwylliant Ffordd Gwynedd yn arwydd arall cadarn o'r camau breision sy'n cael eu cymryd gydag aelodau'r Cabinet yn cymryd rôl flaenllaw i hyrwyddo arweinyddiaeth dda trwy ymrwymo i'w datblygiad fel arweinwyr. Ymhellach cytunwyd ar yr hyn a ddiffinnir fel arweinyddiaeth o fewn Cyngor Gwynedd ac mae'r diffiniad hwnnw yn cael ei adlewyrchu mewn swydd-ddisgrifiadau diwygiedig ar gyfer pob pennaeth a rheolwr yn y Cyngor. Mae'r ymrwymiad ar lefel gwleidyddol a gweithredol yn arddangos bod y camau positif hyn wedi dwyn ffrwyth a bod yr angen a'r gallu i arwain yn gwreiddio fel y norm o fewn y Cyngor

Mae diwylliant sefydliadol cadarnhaol gan y Cyngor sydd wedi ei gefnogi gan "Ffordd Gwynedd" sef yr enw a roddir ar y "ffordd o weithio" yr ydym wedi'i

fabwysiadu er mwyn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Newid diwylliant, ymddygiadau a meddylfryd sydd wrth wraidd hyn oll ac mae'r nod o wireddu'r uchelgais ar draws pob rhan o weithgaredd y Cyngor yn her sylweddol ac yn un sydd angen rhaglen gynhwysfawr o gefnogaeth.

Yn ystod 2022/23 cynhaliwyd hunanasesiad er mwyn cael trosolwg o sut mae egwyddorion Ffordd Gwynedd yn gwreiddio ar draws y sefydliad. Gwelwyd o'r ymatebion bod cryn gynnydd wedi ei wneud i newid diwylliant ond bod y broses o newid diwylliant a newid y meddylfryd ymysg swyddogion yn anos i'w wireddu mewn rhai gwasanaethau ple bo'r datblygiad yn un araf ac anodd gyda'r angen am waith pellach wedi'i adnabod er mwyn gwreiddio'r newid. Amlygwyd nifer o themâu cyffredin o'r prif negeseuon hyn ac mae rhain, ynghyd ag argymhellion gweithredu ar gyfer y dyfodol, wedi eu hymgorffori o fewn Cynllun Ffordd Gwynedd 2023-28 a fabwysiadwyd gan Gabinet y Cyngor ar y 7fed o Fawrth 2023.

Mae trefniadau ymgysylltu a chyfathrebu mewnol da yn eu lle gyda negeseuon pwysig yn cael eu rhannu hefo staff mewn amrywiol ffyrdd. Yn yr un modd mae'n bwysig casglu barn staff a'u bod yn cael cyfle i ddarparu adborth ar sut gyflogwr yw'r sefydliad. I'r perwyl hyn mae Holiaduron Llais Staff wedi bod yn cael eu cylchredeg yn rheolaidd yn holi am feysydd yn gysylltiedig â'i swydd, eu gwasanaeth a hefyd y Cyngor fel sefydliad. Rhennir y canlyniadau hefo Penaethiaid, fel bod cyfle iddynt ymateb i'r prif negeseuon neu unrhyw her benodol yn ogystal â'r gweithlu cyfan drwy'r fewnrwyd, y bwletin wythnosol a hunanwasanaeth staff. Yn ychwanegol i'r arolwg corfforaethol, mae rhai adrannau wedi ymgymryd â gwaith pellach er mwyn canfod barn staff yn rheolaidd.

Mae gennym drefniadau effeithiol i fonitro'r gyllideb gyda'r Adran Gyllid yn cyflogi swyddogion gyda sgiliau, gwybodaeth a phrofiad addas er mwyn ymgymryd â'r ddyletswydd yma. Cynhelir adolygiad ffurfiol o sefyllfa gwariant refeniw ar ddiwedd mis Awst a Thachwedd gan adrodd ar y canlyniadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i'r Cabinet am gymeradwyaeth. Cyflwynir diweddariad ar raglen cyfalaf i'r un cyfarfodydd hefyd.

Mae trefniadau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor wedi ei sefydlu ers sawl blwyddyn, ac maent o dan oruchwyliaeth timau annibynnol o fewn yr Adran Gyllid. Adroddir ar weithgareddau Rheolaeth Trysorlys i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn ym mis Mehefin a Thachwedd.

Mae'r ddadl os yw gorwariant yn ganlyniad i fethu rheoli gwariant, neu oherwydd cyllideb annigonol yn un parhaus. Bydd gwaith o adolygu darpariaethau mewn cyllidebau yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf wrth baratoi cyllideb 2024/25.

Mae perthynas adeiladol iawn rhwng y Cyngor a'i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r archwilwyr mewnol ac allanol. Gwelir hyn o gofnodion cyfarfod y Pwyllgor, a bydd Adroddiad Blynyddol y pwyllgor hefyd yn amlygu hyn.

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Darparwyd

cyflwyniad ar y dyletswydd newydd gan y Swyddog Monitro ynghyd â sesiwn drafod ar y cyd gyda bob un o'r Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol, a Chadeirydd ac Is Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn yr Hydref. Esboniwyd y dyletswyddau newydd a chynhaliwyd trafodaeth ar sut y gellir gweithredu'r ddyletswydd newydd a chyd weithio gyda'r Pwyllgor Safonau a'r Swyddog Monitro.

Cafwyd cytundeb ar Brotocol Drafft ar gyfer gweithredu'r dyletswydd i'r dyfodol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar y 21 Tachwedd 2022. Mae'r arweinyddion Grwpiau yn ymwybodol o'r dyletswydd sydd yn gosod gofyn arnynt ac wedi adrodd ar y camau cychwynnol sydd wedi eu cymryd i ymdrin â'r ddyletswydd

Bydd y gwelliannau sydd wedi eu hadnabod o fewn yr hunanasesiad yn derbyn sylw gan Adrannau penodol o fewn y Cyngor a byddant yn adrodd yn ôl ar gynnydd i'r cyfarfod herio a chefnogi perfformiad perthnasol.

Fel sydd eisoes wedi nodi, eleni ymgysylltodd y Cyngor gydag ein Panel Trigolion, Cynghorau Tref a Chymuned, Aelodau Etholedig, Staff ac Undebau i ganfod barn ar berfformiad y Cyngor. Er mwyn canfod barn ar ofyniad perfformiad tri rhannwyd y cwestiwn yn dri rhan.

Y rhan cyntaf o'r cwestiwn oedd: *"I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod Cyngor Gwynedd yn agored a gonest?"*

Roedd 29.4% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno gyda 35.7% yn datgan eu bod ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Yr ail ran o'r cwestiwn oedd: *"I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod Cyngor Gwynedd yn cael ei redeg yn dda?"*

Roedd 28.5% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno, a 25.3% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Y drydedd ran i'r cwestiwn oedd: *"I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod Cyngor Gwynedd yn perfformio i safon uchel?"*

Roedd 186 allan o'r 221 o holl ymatebwyr wedi rhoi eglurhad i'w ymatebion i gwestiwn tri, ac roedd modd rhoi mwy nag un ymateb. Ymysg rhai o'r sylwadau mwyaf cyffredin i'r cwestiwn roedd unigolion yn credu bod y Cyngor yn perfformio yn dda; nad oeddent yn gwybod digon am wasanaethau'r Cyngor/safonau disgwyliedig i wneud sylw; nad oedd Gwasanaethau ddim i safon uchel; ddim yn teimlo bod y Cyngor yn agored a gonest pob tro; diffyg gohebiaeth gyda'r cyhoedd am benderfyniadau; amser i ateb ymholiadau yn rhy hir ac nad yw pob lleoliad yn y sir ddim yn cael eu trin yn gyfartal. Byddwn yn edrych ymhellach i'r sylwadau ac yn rhoi sylw iddynt os oes angen.

**Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?**

Mae'r dystiolaeth a amlinellir uchod yn cynnwys cyfeiriad at rai o'r uchafbwyntiau o ran materion lle'r ydym yn perfformio yn dda neu ddim cystal. Ceir tystiolaeth bellach a manylder o fewn y dogfennau/ffynonellau isod:

- Datganiad Llywodraethu 2021/22
- Adroddiad Blynyddol 2022-23 Pwyllgor Safonau Cyngor GwyneddCynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2020-24
- Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd
- Hunanasesiad Ffordd Gwynedd
- Cynllun Ffordd Gwynedd
- Adroddiadau Rheolaeth Trysorlys –
  - Mehefin 2022 (diwedd 2021/22)
  - Tachwedd 2022 (hanner blwyddyn 2022/23)
- Cyfrifon Terfynol 2022-23 - Alldro Refeniw (llyw.cymru)
- Asesiad Buddsoddwyr Mewn Pobl – Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd
- Arolygon Staff

**Beth sydd angen ei wella?**

| **Gwelliant** |
|---|
| **Byddwn yn:** |
| • Cynnal arolwg llais staff (fel y cynhaliwyd yn y gorffennol) er mwyn cynnal trafodaeth gyson gyda'r gweithlu a darparu cyfle iddynt ddweud beth sy'n gweithio'n dda a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu. |
| • Cynnal arfarniad o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn sefydlu a yw'n effeithiol. |
| • Parhau i weithredu ar y camau sydd eisoes wedi eu rhoi yn eu lle mewn ymateb i archwiliad o drefniadau herio perfformiad a wnaed gan Archwilio Cymru yn ystod 2021/22 a pharhau i edrych ar lwyddiant y trefniadau hynny gan adolygu os oes angen. |
| • Gweithredu Rhaglen Waith Cynllun Ffordd Gwynedd 2023-28 er mwyn parhau i wella perfformiad a darparu'r gwasanaethau gorau posib ar gyfer trigolion y Sir. |

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **7 MEDI 2023** |
| TEITL: | **DATGANIAD O GYFRIFON 2022/23** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **DERBYN Y DATGANIAD O GYFRIFON STATUDOL (DRAFFT AMODOL AR ARCHWILIAD) ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD IOAN THOMAS** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

1.2 Y Datganiad o Gyfrifon drafft ar ei ffurf safonol yw'r ddogfen ddilynol, 89 tudalen o hyd mewn un iaith.

1.3 Mae'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wrthi'n cael eu harchwilio a cyflwynir y fersiwn derfynol yn dilyn archwiliad er cymeradwyaeth yng nghyfarfod 14 Rhagfyr 2023 o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

1.4 Mae ffurf a chynnwys sylfaenol y Datganiadau yma wedi'i orfodi o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae gofynion o dan God Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) ac wedi eu gweithredu yn Natganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2022/23. Gan fod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond erbyn hyn mae'r datganiadau yn dechnegol gymhleth ac yn fwy anodd i'w ddeall.

1.5 Cyflwynwyd adroddiad "alldro" syml a chryno perthnasol i gyfrifon 2022/23 i gyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 25 Mai 2023 ac i'r Cabinet ar 13 Mehefin 2023. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

## 2. GWEITHREDIAD ANGENRHEIDIOL

2.1 Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor. Er hyn, mae'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft gan y Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yn Cyngor Gwynedd).

2.2 Nid oes gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor, ond rydym yn ystyried fod cyflwyno'r datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.

2.3 Bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r fersiwn terfynol ym mis Rhagfyr ar ôl derbyn adroddiad Archwilio Cymru. Ond mae cyflwyno'r fersiwn ddrafft rŵan yn gyfle i aelodau'r pwyllgor ystyried y cynnwys a holi swyddogion ariannol am y cynnwys. Mae hyn yn gyfle i'r aelodau arfogi eu hunain gyda gwybodaeth perthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

## 3. CAMAU DILYNOL

3.1 Ymhellach i ardystiad gan y Pennaeth Cyllid ac ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae Datganiad o Gyfrifon 2022/23, ynghyd â phob datganiad perthnasol arall, yn destun y broses archwilio blynyddol gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a gafodd eu hapwyntio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3.2 Fel nodwyd ym mharagraff 1.3 (uchod), cyflwynir y fersiwn terfynol (wedi'i harchwilio) o Ddatganiad o Gyfrifon 2022/23 y Cyngor i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 14 Rhagfyr 2023 AM GYMERADWYAETH, ynghyd ag adroddiad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3.3 Wedi hynny, bwriad yr Adran Cyllid yw i ddarparu linc i'r Datganiad terfynol i holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor, yn ogystal ag i eraill sydd â diddordeb.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2022/23.

# Cyngor Gwynedd

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2022/23

## *Amodol ar Archwiliad*

Adran Cyllid
www.gwynedd.llyw.cymru

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 - 7 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 8 |
| Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | 9 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 10 |
| Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau | 11 |
| Y Fantolen | 12 |
| Datganiad Llif Arian | 13 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 14 – 85 |
| Atodiad A – Y Gronfa Degwm | 86 |
| Atodiad B – Cronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan | 87 |
| Geirfa | 88 - 89 |

# ADRODDIAD NARATIF

**Rhagarweiniad**

Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd am 2022/23 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 9 i 89.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** - Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan Awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Hwn yw prif gyfrif refeniw'r Cyngor. Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dangosir y sefyllfa trethiant yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae sefyllfa trethiant yn cael ei adlewyrchu yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2023.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyngor yn ystod 2022/23 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

- **Cyfrifon Cronfa'r Degwm a Chronfa Ymddiriedolaeth FMG Morgan.**

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

**Gweledigaeth a Blaenoriaethau Gwynedd**

Mae gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor wedi eu cynnwys yng Nghynllun Cyngor Gwynedd a gafodd ei adolygu ym mis Mawrth 2022. Mae'r Cynllun yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor, sef, gweld pob cymuned yng Ngwynedd yn ffynnu, sydd yn golygu bod trigolion Gwynedd yn:

- Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel,
- Derbyn addysg o'r radd flaenaf a fydd yn caniatáu iddynt wneud yr hyn y dymunant ei wneud,
- Ennill cyflog digonol i fedru cynnal eu hunain a'u teuluoedd,
- Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau,
- Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg,
- Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosibl,
- Cael manteisio ar harddwch naturiol y Sir.

Mae'r amcanion yma wedi'u cyhoeddi yn natganiad llesiant y Cyngor, sydd hefyd yn egluro sut y maent yn cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r Cynllun yn nodi sut mae gwaith y Cyngor yn cyfrannu tuag at wireddu'r weledigaeth drwy gyfuniad o waith dydd i ddydd Adrannau'r Cyngor a phrosiectau penodol sydd wedi'u hadnabod er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hynny lle mae angen y mwyaf o ymdrech y Cyngor i'w datblygu. Crynhoi'r prosiectau o dan yr hyn a elwir yn Flaenoriaethau Gwella. Mae pob un o'r blaenoriaethau gwella yn cyfrannu at sawl un o'r amcanion llesiant.

Mae manylion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018 – 2023 - Adolygiad 2022/23 ar gael yn:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-Cyngor-Gwynedd-2018-23/Cynllun-y-Cyngor-2022-23-2.pdf

**Strategaeth Ariannol**

Mae Strategaeth Ariannol y Cyngor a Chyllideb 2022/23 a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022 yn gosod y sylfaen ar gyfer medru cyflawni'r blaenoriaethau gwella, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am ein gwasanaethau. Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynnol ar y blaenoriaethau.
Mae'r strategaeth ar gael yn:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Cyllid/Strategaeth-ariannol.aspx

Yn 2022/23 gwelwyd cynnydd mewn grant Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru, oedd yn gynnydd arwyddocaol ar yr hyn a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Er gwaethaf y setliad rhesymol, roedd nifer o ffactorau yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar ein gwasanaethau wrth osod Cyllideb 2022/23. Felly, yn ogystal â chyfarch graddfa chwyddiant uwch nag y bu ers sawl blwyddyn, roedd cyfle i ymdrin â phwysau gwario ehangach gan gynnwys mynd i'r afael â chostau parhaus oedd yn deillio o'r argyfwng Covid-19, a dileu neu ohirio cynlluniau arbedion nad oedd yn ymarferol i'w gwireddu yn 2022/23. Wrth osod y gyllideb, rydym wedi ceisio cadw effaith yr arbedion ar drigolion Gwynedd i'r lleiafswm posib. Felly, bydd y sefyllfa ariannol yn parhau i osod cryn her i ni wrth gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Byddwn felly yn parhau efo'r gwaith o sicrhau ein bod yn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd hynny sydd wedi eu cymeradwyo eisoes a sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn isafu unrhyw doriadau i wasanaethau.

Mae sgil effaith ariannol yr argyfwng Covid wedi bod yn sylweddol i'r Cyngor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a methiant i wireddu arbedion. Nid oedd yr effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol ac yn wahanol i flynyddoedd cynt nid oedd yna gymorth ariannol cysylltiedig ar gael i'r Cyngor gan Lywodraeth Cymru.

Tybir nad yw sgil effaith Covid-19 wedi effeithio'n sylweddol ar werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyngor. Fodd bynnag mae'r sefyllfa economaidd fyd eang a graddfeydd uchel chwyddiant wedi profi i gael effaith a bu'n rhaid ail brisio mwy o asedau nag a gynlluniwyd oherwydd y cynnydd mewn costau. Mi fydd angen adolygu'r tybiaethau yn rheolaidd.

**Mesur Perfformiad**

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor yn gylch sy'n cefnogi cynllunio, rheoli ac adrodd ar berfformiad ein gwasanaethau, er mwyn sicrhau'r gorau ar gyfer pobl Gwynedd heddiw ac yfory. Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Gwynedd yn adrodd ar ein llwyddiant i gyflawni ein blaenoriaethau gwella a hefyd darparu gwybodaeth ar berfformiad adrannau'r Cyngor a sut maent yn cynorthwyo pobl Gwynedd. Mae'r adroddiad ar gael yn:
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Perfformiad-y-Cyngor/Mesur-Perfformiad.aspx

**Perfformiad Ariannol 2022/23**

- Er gwaethaf nifer o ffactorau megis methiant i wireddu arbedion, chwyddiant cyflogau uwchlaw lefel y gyllideb, lleihad mewn incwm o ganlyniad i effaith ariannol Covid, prisiau cynyddol trydan, mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2022/23 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol. Adroddwyd ar sefyllfa alldro ariannol 2022/23 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin 2023. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet gorwariant net gwasanaethau o £143k am y flwyddyn.

- Er nad yw effaith argyfwng Covid mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, mae costau ychwanegol, colledion incwm a llithriad ar gynlluniau arbedion yn sgil Covid yn parhau mewn rhai meysydd.

- Yn yr adolygiad o'r gyllideb refeniw diwethaf a wnaed ar sefyllfa ddiwedd Tachwedd, rhagwelwyd diffyg o £4.3m. Ers hynny, bu i sefyllfa gorwariant y maes gofal oedolion, gwastraff a digartrefedd ddwysau ond fod y sefyllfa ffafriol ar nifer o gyllidebau corfforaethol yn cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar y sefyllfa ariannol ar gyfer y Cyngor yn ei gyfanrwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

- Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23, adroddir ar sefyllfa gorwariant gan 7 adran sydd o ganlyniad i nifer o ffactorau a nodwyd eisoes. Mae'r tueddiad yn parhau ac yn dwysau gyda phwysau sylweddol yn y maes gofal oedolion, gwastraff a digartrefedd.

- Bu i sefyllfa ariannol 2022/23 gael ei chymryd i ystyriaeth yn y broses o sefydlu cyllideb 2023/24.

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 10 fod gwariant refeniw gros y Cyngor ar lefel 'Cost Gwasanaethau' yn £498m yn ystod 2022/23, gyda'r sefyllfa net yn £334m.

## TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae cyllideb net y Cyngor yn cael ei gyllido gan dreth cyngor, grantiau cyffredinol y llywodraeth a threthi annomestig cenedlaethol yn bennaf ac yn £318m ar gyfer 2022/23.

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | **Cyllideb** | **Gwir** | **Gwahaniaeth** |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant Net ar Weithgareddau | 316,863 | 318,067 | 1,204 |
| Swm Adrannol i'w gario ymlaen ar ddiwedd blwyddyn | 0 | (143) | (143) |
| | 316,863 | 317,924 | 1,061 |
| Ariannwyd gan - | | | |
| Incwm y Dreth Cyngor | (103,649) | (104,710) | (1,061) |
| Grantiau a Chyfraniadau Refeniw | 0 | 0 | 0 |
| Cyfran o'r Trethi Annomestig Cenedlaethol | (45,519) | (45,519) | 0 |
| Grantiau Llywodraeth Cyffredinol | (167,695) | (167,695) | 0 |
| Cyfraniad o Falans y Gronfa Gyffredinol | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |

Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 10 a 11 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

**TABL 2 - Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u> sydd yn adlewyrchu'r Strwythur Rheolaethol Adrannol.**

| Adran | Adroddiad Perfformiad (Alldro) | Addasiad Trawsddodiad | Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol | Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo | Datganiad Incwm a Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 98,255 | 3,742 | **101,997** | 13,062 | **115,059** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,098 | 23 | **8,121** | 1,583 | **9,704** |
| Cyllid | 7,397 | (193) | **7,204** | 3,026 | **10,230** |
| Economi a Chymuned | 5,857 | (1,411) | **4,446** | 4,433 | **8,879** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 70,085 | 266 | **70,351** | 7,217 | **77,568** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 21,409 | 148 | **21,557** | 2,699 | **24,256** |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd) | 30,037 | (436) | **29,601** | 10,809 | **40,410** |
| Amgylchedd | 3,727 | (550) | **3,177** | 5,472 | **8,649** |
| Tai ac Eiddo | 9,592 | 430 | **10,022** | 5,042 | **15,064** |
| Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,379 | 17 | **2,396** | 297 | **2,693** |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 129 | (9) | **120** | 1,558 | **1,678** |
| Corfforaethol | 13,305 | 5,220 | **18,525** | 1,777 | **20,302** |
| **Cost Gwasanaethau** | 270,270 | 7,247 | **277,517** | 56,975 | **334,492** |
| Eraill (Yn cynnwys Addasiad Canolog a Chorfforaethol) | 47,654 | (7,247) | **40,407** | (56,975) | **(16,568)** |
| **Cyfanswm** | 317,924 | 0 | **317,924** | 0 | **317,924** |

*Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.*

- **Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

  Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:
  - £280m yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23.5).
  - Yn dilyn ailbrisio rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), gwarged net yn deillio o ailbrisio asedau sefydlog i'r Reserf Ailbrisio yn £29m (Nodyn 23.1) a chost ailbrisio a'r amhariad i'r Gwasanaethau yn £2m (Nodyn 15).

- **Materion Eraill**
  - Mae ansefydlogrwydd economaidd sylweddol a risgiau ariannol yn y DU ac yn fyd-eang. Gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi nodi bod rhagolwg cyllidol tymor canolig y DU wedi gwaethygu ers mis Mawrth 2022 hynny yn sgil economi wan, cyfraddau llog uwch a diweithdra. Mae'r Cyngor wedi cymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.
  - Mae'r rhyfel yn Wcráin wedi cyfrannu at gynyddu costau nwy ac felly costau trydan cysylltiedig, sydd yn ei dro wedi cael effaith ar brisiau bwyd a nwyddau sylfaenol.

**Gwariant Cyfalaf yn 2022/23**

Yn 2022/23 gwariodd y Cyngor £37.1m ar gynlluniau cyfalaf. Dengys y tabl canlynol fanylion y gwariant yma ynghyd â'r modd y cafodd ei ariannu.

## TABL 3 - CRYNODEB O WARIANT CYFALAF A'I ARIANNU

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 7,521 | Addysg | 7,573 |
| 10,288 | Amgylchedd | 6,244 |
| 60 | Cefnogaeth Gorfforaethol | 7 |
| 598 | Cyllid | 948 |
| 2,882 | Economi a Chymuned | 2,232 |
| 4,444 | Tai ac Eiddo | 6,798 |
| 1,378 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 428 |
| 1,468 | Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,213 |
| 8,045 | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 7,920 |
| 370 | Ymgynghoriaeth Gwynedd | 3,768 |
| **37,054** | | **37,131** |
| | **ARIANNWYD GAN -** | |
| 2,985 | Benthyciadau | 8,243 |
| 33,990 | Grantiau a Chyfraniadau | 19,942 |
| 79 | Derbyniadau Cyfalaf | 695 |
| 0 | Refeniw a Chronfeydd Eraill | 8,251 |
| **37,054** | | **37,131** |

- Cynhwysir Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf drwy Statud o £6m yn y tabl uchod. Ad-dalwyd y gwariant yma i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm ychwanegiadau Asedau Anghyfredol ac Asedau ar Gael i'w Gwerthu oedd £32.4m fel y dangosir yn Nodyn 15 a 20.

- Roedd Dyled Benthyciadau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2023 yn £102.5m – lleihad o £1.4m (o £103.9m) yn ystod y flwyddyn. Gwnaethpwyd ad-daliadau o £1.6m yn unol â thelerau'r benthyciadau unigol.

**Darpariaethau ac Arian wrth Gefn**

Yn ychwanegol at y Balans Cyffredinol heb ei glustnodi o £7.9m, roedd gan y Cyngor ddarpariaethau o £9.5m, reserfau eraill a glustnodwyd o £103.6m a balansau ysgolion o £11.9m. Cyfanswm y rhain oedd £132.9m. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10 a 22.

Adolygwyd digonolrwydd cronfeydd penodol a darpariaethau'r Cyngor gan y Pennaeth Cyllid wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi a gymeradwywyd. Llwyddodd yr adolygiad i gynaeafu £3,918k o adnoddau, a chymeradwyodd y Cabinet (yn ei gyfarfod ar 13 Mehefin 2023) i ddefnyddio'r cyfan ohono i gynorthwyo sefyllfa ariannol 2022/23.

**Covid-19 a Grantiau'r Llywodraeth**

Yn sgil ardrawiad Covid-19 bu i'r Cyngor dderbyn grantiau a chymorth ariannol i ddigolledu am wariant ychwanegol, Saib Swyddi a cholled incwm gan y Llywodraeth yn 2020/21 a 2021/22. Yn 2021/22 cafodd y Cyngor eu digolledu £16m. Nid oedd y grantiau yma ar gael i'r Cyngor yn ystod 2022/23.

Ers ardrawiad Covid gofynnwyd i'r Cyngor weinyddu nifer o grantiau neu gymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru, gan gynnwys taliadau i weithwyr gofal, taliadau arian cinio a thanwydd gaeaf. Bu i hyn barhau yn 2022/23 (Nodyn 28).

**Cronfa Bensiwn**

Mae'r Fantolen yn cynnwys asesiad gan Actiwari y Gronfa, Hymans Robertson, o gyfran y Cyngor o ymrwymiad y Gronfa Bensiwn. Er mwyn cydymffurfio â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19, mae'r Cyngor wedi dangos ymrwymiad net o ddim ar 31 March 2023 ar y Fantolen. Gweler Nodyn 38 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal 31 Mawrth 2022, gyda'r nesaf i'w gynnal 31 Mawrth 2025.

**Llywodraethu**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Polisïau Cyfrifo**

Mae'r polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu cyfarwyddiadau CIPFA yn y Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23.

**Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon**

Mae polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

**Gwybodaeth Bellach**

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

| | | |
|---|---|---|
| Ffion Madog Evans | neu | Sian Pugh |
| Pennaeth Cyllid Cynorthwyol | | Pennaeth Cyllid Cynorthwyol |
| Cyfrifeg a Phensiynau | | Cynaliadwyedd a Datblygiadau |
| 01286 679133 | | 01286 679134 |

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

# CYNGOR GWYNEDD

## DATGANIAD O'R CYFRIFON

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

**CYFRIFOLDEB Y CYNGOR**

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyngor hefyd yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

**CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID**

Y Pennaeth Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir allan yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

**TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL**

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2022, ac incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.



**30 Mehefin 2023**

**Dewi Aeron Morgan CPFA**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau (grantiau llywodraeth, treth cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol o'i gymharu â'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio neu eu hennill gan awdurdodau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae hefyd yn dangos sut mae'r gwariant yn cael ei ddyrannu i bwrpas gwneud penderfyniadau rhwng adrannau y Cyngor. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU**

| 2021/22 | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 8 a 9)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Gronfa Gyffredinol** | **Addasiadau rhwng y sail Cyfrifo a'r sail Ariannu (gweler Nodyn 8 a 9)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 86,132 | 11,841 | 97,973 | Addysg | 101,997 | 13,062 | 115,059 |
| 7,038 | 1,778 | 8,816 | Cefnogaeth Gorfforaethol | 8,121 | 1,583 | 9,704 |
| 6,120 | 3,028 | 9,148 | Cyllid | 7,204 | 3,026 | 10,230 |
| 2,685 | 3,920 | 6,605 | Economi a Chymuned | 4,446 | 4,433 | 8,879 |
| 57,233 | 7,757 | 64,990 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | 70,351 | 7,217 | 77,568 |
| 18,892 | 2,792 | 21,684 | Plant a Chefnogi Teuluoedd | 21,557 | 2,699 | 24,256 |
| 24,680 | 12,141 | 36,821 | Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*) | 29,601 | 10,809 | 40,410 |
| 2,944 | 5,143 | 8,087 | Amgylchedd | 3,177 | 5,472 | 8,649 |
| 3,060 | 4,606 | 7,666 | Tai ac Eiddo | 10,022 | 5,042 | 15,064 |
| 1,799 | 336 | 2,135 | Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,396 | 297 | 2,693 |
| (216) | 1,716 | 1,500 | Ymgynghoriaeth Gwynedd | 120 | 1,558 | 1,678 |
| 18,232 | 2,910 | 21,142 | Corfforaethol | 18,525 | 1,777 | 20,302 |
| **228,599** | **57,968** | **286,567** | **Cost Gwasanaethau** | **277,517** | **56,975** | **334,492** |
| 26,175 | 503 | 26,678 | Gwariant Gweithredol Arall | 27,931 | (123) | 27,808 |
| 12,842 | 281 | 13,123 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 19,724 | (8,637) | 11,087 |
| (298,704) | (32,983) | (331,687) | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (317,925) | (16,075) | (334,000) |
| **(31,088)** | **25,769** | **(5,319)** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **7,247** | **32,140** | **39,387** |
| | | | | | | |
| (99,559) | | | Balans Agoriadol y Gronfa Gyffredinol | (130,647) | | |
| (31,088) | | | (Gwarged)/Diffyg ar y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn | 7,247 | | |
| **(130,647)** | | | Balans Cau y Gronfa Gyffredinol | **(123,400)** | | |

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae awdurdodau yn codi trethiant i gyflenwi gwariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Dengys y sefyllfa trethiant yn y Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu ac yn y Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

| 2021/22 | | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | **Nodyn** | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 134,893 | (36,920) | 97,973 | Addysg | | 148,925 | (33,866) | 115,059 |
| 10,049 | (1,233) | 8,816 | Cefnogaeth Gorfforaethol | | 10,696 | (992) | 9,704 |
| 12,953 | (3,805) | 9,148 | Cyllid | | 14,060 | (3,830) | 10,230 |
| 16,710 | (10,105) | 6,605 | Economi a Chymuned | | 19,313 | (10,434) | 8,879 |
| 99,517 | (34,527) | 64,990 | Oedolion, Iechyd a Llesiant | | 105,391 | (27,823) | 77,568 |
| 37,402 | (15,718) | 21,684 | Plant a Chefnogi Teuluoedd | | 41,435 | (17,179) | 24,256 |
| 55,380 | (18,559) | 36,821 | Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*) | | 57,250 | (16,840) | 40,410 |
| 19,683 | (11,596) | 8,087 | Amgylchedd | | 19,100 | (10,451) | 8,649 |
| 19,867 | (12,201) | 7,666 | Tai ac Eiddo | | 26,314 | (11,250) | 15,064 |
| 3,006 | (871) | 2,135 | Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | | 3,283 | (590) | 2,693 |
| 7,373 | (5,873) | 1,500 | Ymgynghoriaeth Gwynedd | | 7,595 | (5,917) | 1,678 |
| 48,618 | (27,476) | 21,142 | Corfforaethol | | 44,483 | (24,181) | 20,302 |
| **465,451** | **(178,884)** | **286,567** | **Cost Gwasanaethau** | | **497,845** | **(163,353)** | **334,492** |
| 26,678 | 0 | 26,678 | Gwariant Gweithredol Arall | *11* | 27,931 | (123) | 27,808 |
| 13,679 | (556) | 13,123 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *12* | 12,928 | (1,841) | 11,087 |
| 0 | (331,687) | (331,687) | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | *13* | 0 | (334,000) | (334,000) |
| **505,808** | **(511,127)** | **(5,319)** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **538,704** | **(499,317)** | **39,387** |
| | | (27,886) | (Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbrisio Asedau Sefydlog | *23.1* | | | (28,694) |
| | | (930) | (Gwarged)/Diffyg yn deillio o ailbrisio Offerynnau Ariannol | *23.3* | | | 1,190 |
| | | (165,463) | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | *23.5* | | | (280,468) |
| | | **(194,279)** | **(Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(307,972)** |
| | | **(199,598)** | **Cyfanswm (Incwm) a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(268,585)** |

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyngor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant neu leihau trethiant lleol) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyngor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm godir ar y dreth cyngor ar gyfer y flwyddyn. Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

| | | *Gwybodaeth ychwanegol* | | | **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | *Balans Cronfa Gyffredinol heb glustnodi* | *Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd* | *Cyfanswm Balansau Ysgolion* | Balans Cronfa Gyffredinol | Reserf Derbyniadau Cyfalaf | Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyngor** |
| | | *£'000* | *£'000* | *£'000* | £'000 | £'000 | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2021 a ddygwyd ymlaen** | | *(9,412)* | *(79,394)* | *(10,753)* | (99,559) | (2,373) | (5,986) | **(107,918)** | **47,479** | **(60,439)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2021/22 | | | | | | | | | | |
| Addasiad i'r balans agoriadol | | *0* | *0* | *0* | 0 | 0 | 0 | **0** | **112** | **112** |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | *(5,319)* | *0* | *0* | (5,319) | 0 | 0 | **(5,319)** | **(194,279)** | **(199,598)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *9* | *(25,769)* | *0* | *0* | (25,769) | (206) | (3,381) | **(29,356)** | **29,356** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2021/22** | | *(31,088)* | *0* | *0* | (31,088) | (206) | (3,381) | **(34,675)** | **(164,811)** | **(199,486)** |
| *Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd* | *10* | *32,588* | *(26,646)* | *(5,942)* | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| *(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2021/22 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)* | | *1,500* | *(26,646)* | *(5,942)* | (31,088) | (206) | (3,381) | **(34,675)** | **(164,811)** | **(199,486)** |
| **Balans 31 Mawrth 2022 a ddygwyd ymlaen** | | *(7,912)* | *(106,040)* | *(16,695)* | (130,647) | (2,579) | (9,367) | **(142,593)** | **(117,332)** | **(259,925)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2022/23 | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | *39,387* | *0* | *0* | 39,387 | 0 | 0 | **39,387** | **(307,972)** | **(268,585)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *9* | *(32,140)* | *0* | *0* | (32,140) | 327 | 1,326 | **(30,487)** | **30,487** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2022/23** | | *7,247* | *0* | *0* | 7,247 | 327 | 1,326 | **8,900** | **(277,485)** | **(268,585)** |
| *Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd* | *10* | *(7,247)* | *2,469* | *4,778* | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| *(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2022/23 (yn dangos Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd)* | | *0* | *2,469* | *4,778* | 7,247 | 327 | 1,326 | 8,900 | (277,485) | (268,585) |
| **Balans 31 Mawrth 2023 a ddygwyd ymlaen** | | *(7,912)* | *(103,571)* | *(11,917)* | (123,400) | (2,252) | (8,041) | **(133,693)** | **(394,817)** | **(528,510)** |

# Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyngor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyngor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd (er enghraifft, y Reserf Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddir i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled yn unig). Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyngor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| **31 Mawrth 2022** | | *Nodyn* | **31 Mawrth 2023** |
|---:|---|---|---:|
| **£'000** | | | **£'000** |
| 531,843 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | *15* | 570,819 |
| 60 | Asedau Treftadaeth | | 59 |
| 165 | Eiddo Buddsoddi | *16* | 165 |
| 2,257 | Asedau Gweddilliol | *15* | 2,193 |
| 17 | Buddsoddiadau Tymor Hir | *17* | 17 |
| 3,989 | Dyledwyr Tymor Hir | *17* | 4,335 |
| **538,331** | **Asedau Tymor Hir** | | **577,588** |
| 79,859 | Buddsoddiadau Tymor Byr | *17* | 89,851 |
| 0 | Asedau ar gael i'w Gwerthu | *20* | 47 |
| 2,293 | Stoc | | 1,686 |
| 107,045 | Dyledwyr Tymor Byr | *18* | 90,385 |
| 18,068 | Arian a Chywerthoedd Arian | *19* | 62,880 |
| **207,265** | **Asedau Cyfredol** | | **244,849** |
| (21,700) | Gorddrafft Banc | *19* | (18,213) |
| (2,055) | Benthyciadau Tymor Byr | *17* | (1,617) |
| (95,058) | Credydwyr Tymor Byr | *21* | (138,025) |
| (316) | Darpariaethau Tymor Byr | *22* | (362) |
| (10,540) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw | *32* | (17,894) |
| **(129,669)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(176,111)** |
| (8,388) | Darpariaethau Tymor Hir | *22* | (9,111) |
| (101,807) | Benthyciadau Tymor Hir | *17* | (100,885) |
| (242,165) | Ymrwymiad Pensiwn | *38* | 0 |
| (1,189) | Ymrwymiadau Prydlesau Cyllidol | *35* | (997) |
| (2,453) | Derbyniadau Grantiau Cyfalaf a Refeniw o Flaen Llaw | *32* | (6,823) |
| **(356,002)** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **(117,816)** |
| **259,925** | **Asedau Net** | | **528,510** |
| | | | |
| (142,593) | Reserfau Defnyddiadwy | | (133,693) |
| (117,332) | Reserfau na ellir eu defnyddio | *23* | (394,817) |
| **(259,925)** | **Cyfanswm Reserfau** | | **(528,510)** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyngor a ariennir trwy incwm grant a threthiant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol. Mae'r llif arian a gyfyd o Weithgareddau Ariannu yn ddefnyddiol i ragweld yr hawl sydd gan ddarparwyr cyfalaf (h.y. benthyciadau) ar lif arian y Cyngor yn y dyfodol.

| **2021/22**<br>**£'000** | | ***Nodyn*** | **2022/23**<br>**£'000** |
|---|---|---|---|
| (5,319) | (Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarpariaeth Gwasanaethau | | 39,387 |
| (56,773) | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | *24a* | (138,194) |
| 307 | Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu | *24b* | 278 |
| (61,785) | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | (98,529) |
| 81,443 | Gweithgareddau Buddsoddi | *25* | 48,689 |
| 6,508 | Gweithgareddau Ariannu | *26a* | 1,541 |
| 26,166 | (Cynnydd)/lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian | | (48,299) |
| (22,534) | Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | *19* | 3,632 |
| **3,632** | **Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | *19* | **(44,667)** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 - POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyngor yn y flwyddyn ariannol 2022/23 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2023. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu'n bennaf yn y Datganiad o'r Cyfrifon, wedi'i addasu gan ailbrisiad rhai categorïau o asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol. Mae y cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Mewn perthynas â pholisi yn ymwneud a chyfalafu gwariant, ein hymarferiad yw gweithredu ar sail natur y gwariant yn hytrach na lefel penodol o wariant.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau a'r llog sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol yn hytrach nag i'r llif arian sydd wedi ei bennu gan y cytundeb.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar refeniw yn gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Caiff unrhyw fuddsoddiadau tymor byr sydd gan y Cyngor, y mae modd eu troi'n arian yn rhwydd, a gyda risg isel o newid yn eu gwerth, eu categoreiddio fel cywerthoedd arian a'u cynnwys fel Arian a Chywerthoedd Arian ar y Fantolen. Adnau tymor byr gyda sefydliadau ariannol sydd ar gael ar unwaith ar ddyddiad y Fantolen yw'r buddsoddiadau a gynhwysir yn y diffiniad hwn.

### 1.4 Asedau Dibynnol / Ymrwymiadau Dibynnol

Ceir ased dibynnol pan fo digwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Cyngor ble bydd ei fodolaeth ond yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Cyngor.

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyngor ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall o ddigwyddiadau ansicr i'r dyfodol sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan fod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw asedau ac ymrwymiadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach o fewn y nodyn Ymrwymiadau Dibynnol ac Asedau Dibynnol yn y cyfrifon.

### 1.5 Corfforaethol
Mae'r pennawd Corfforaethol yn cynnwys eitemau yn ymwneud â ffurfio polisïau corfforaethol a gweithgareddau aelodau, a chostau sydd yn gysylltiedig â rhedeg y Cyngor.

### 1.6 Buddiannau Gweithwyr
### 1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth
Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwyr yn gwasanaethu'r Cyngor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

### 1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth
Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, i'r llinell Gwasanaethau Corfforaethol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyngor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyngor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyngor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, yn hytrach na'r swm sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r gronfa bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiwn ychwanegol a rhoi'r debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

### 1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth
Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn:
- Y Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau ymddeoliad) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyngor.

Fodd bynnag, mae trefniadau'r cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion hynny yn cael eu hadnabod i'r Cyngor. Mae'r cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu cydnabod yn y Fantolen. Mae'r llinellau Addysg a Plant a Chefnogi Teuluoedd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

### 1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

**NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)**

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa disgownt o 4.75% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyngor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle roedd y gweithwyr yn gweithio.

- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o gostau Corfforaethol.

- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Cyngor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i Gronfa'r Cyngor dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i Gronfa'r Cyngor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

### 1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyngor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

### 1.7 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith materol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyngor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai ei fod yn anfaterol neu a nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.9 Offerynnau Ariannol

#### Ymrwymiadau Ariannol

Cydnabyddir ymrwymiadau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Mae'r llog taladwy blynyddol sydd yn cael ei gynnwys ar y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn seiliedig ar werth cario yr ymrwymiad, wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Y cyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sydd yn disgowntio taliadau arian parod amcangyfrifedig y dyfodol dros oes yr offeryn i'r swm y cafodd ei gydnabod yn wreiddiol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o fenthyciadau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm ad-daladwy sydd yn weddill (ynghyd â llog cronedig); a'r llog a gaiff ei ddatgan yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad.

Mewn achosion lle codwyd premiymau a disgownts ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatau i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei rannu dros y blynyddoedd i ddod. Mae gan y Cyngor bolisi o rannu'r enillion neu golledion dros y tymor sydd yn weddill ar y benthyciad ble'r oedd y premiwm yn daladwy neu'r gostyngiad yn dderbyniadwy pan fyddai'n cael ei ad-dalu. Mae cysoni'r swm a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â'r tâl net sy'n ofynnol yn erbyn Balans y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad mewn Reserfau.

#### Asedau Ariannol

Dosbarthir asedau ariannol yn unol â dull dosbarthu a mesur sy'n adlewyrchu'r model busnes ar gyfer dal yr asedau ariannol a'u nodweddion llif arian. Mae'r Cyngor yn dal asedau ariannol wedi eu mesur ar:

- gost amorteiddiedig, a

- gwerth teg drwy elw a cholled, a
- gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Mae angen polisi ar wahân ble mae Awdurdod yn dal asedau ariannol ar werth teg drwy incwm a gwariant arall.

Model busnes y Cyngor yw i ddal buddsoddiadau i gasglu llif arian cytundebol. Mae offerynnau ariannol felly yn cael eu dosbarthu fel cost amorteiddiedig, ag eithrio rheiny nad yw eu taliadau cytundebol yn daliad o brifswm a llog yn unig (h.y ble nad yw llif arian ar ffurf offeryn dyled sylfaenol).

**Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Gost Amorteiddiedig**

Cydnabyddir asedau ariannol ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf ac yn cael eu cario ar eu cost amorteiddiedig. Bydd credyd blynyddol i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr am y llog a dderbynnir yn seiliedig ar werth cario yr ased wedi ei luosi gyda chyfradd llog effeithiol yr offeryn. Ar gyfer y rhan fwyaf o'r asedau sydd gan y Cyngor, golyga hyn mai'r swm a gyflwynir yn y Fantolen yw'r prifswm derbyniadwy sydd yn weddill (yn ogystal â'r llog cronedig) gyda'r llog sy'n dderbyniadwy am y flwyddyn yn unol â chytundeb y benthyciad yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Model Colled Credyd Disgwyliedig**

Mae'r Cyngor yn cydnabod colledion credyd disgwyliedig ar ei holl asedau ariannol a ddelir ar gostau wedi'u hamorteiddio, unai ar sail 12 mis neu oes. Mae'r model colled credyd disgwyliedig hefyd yn gymwys i symiau derbyniadwy ar brydles ac asedau contract. Dim ond colledion oes a gydnabyddir ar gyfer symiau masnach derbyniadwy a ddelir gan y Cyngor. Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r posibilrwydd na fydd y llif arian yn digwydd yn y dyfodol o ganlyniad i'r benthyciwr yn diffygdalu ei ymrwymiad.

**Asedau Ariannol a Fesurir ar Werth Teg Drwy Incwm Cynhwysfawr Arall**

Caiff asedau ariannol a fesurir ar WTICA eu cydnabod ar y fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offerynnau ariannol ac yn cael eu mesur yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt godi mewn incwm cynhwysfawr arall.

**Asedau Ariannol wedi eu Mesur ar Werth Teg Drwy Elw a Cholled**

Cydnabyddir asedau ariannol sydd wedi eu mesur ar werth teg drwy elw a cholled ar y Fantolen pan ddaw'r Cyngor yn rhan o gytundeb i ddarparu offerynnau ariannol. Maent yn cael eu mesur ar eu gwerth teg yn y lle cyntaf a'u cario ar werth teg. Cydnabyddir enillion a cholledion gwerth teg wrth iddynt gyrraedd y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau.

**Mesuriad Gwerth Teg o Asedau Ariannol**

Gwerth teg ased yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn i werthu ased mewn trafodiad trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar y dyddiad mesur. Mae mesuriad gwerth teg asedau ariannol y Cyngor yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- Offerynnau sydd â phris marchnad wedi ei ddyfynnu – pris y farchnad
- Offerynnau eraill gyda thaliadau sefydlog a phendant – dadansoddiad llif arian gostyngol

Mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur wedi eu categoreiddio yn unol â'r tri lefel isod;

- Mewnbwn Lefel 1 – prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd actif am asedau yr un fath y gall y Cyngor gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.
- Mewnbwn Lefel 2 – mewnbwn heblaw am brisiau a ddyfynnwyd sy'n gynwysiedig o fewn Mewnbwn Lefel 1 sy'n weladwy ar gyfer yr ased, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.
- Mewnbwn Lefel 3 – mewnbwn anweladwy i'r ased.

**NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)**

Bydd unrhyw enillion a cholledion sydd yn codi wrth ddad-gydnabod ased yn cael eu credydu neu eu debydu i'r llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae mesuriad ein hasedau a ddelir ar WTICA yn bris cais uned ar y dyddiad mesur.

**1.10 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill**

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyngor wedi ei fodloni.

Oherwydd gofynion y gyfundrefn rheoli cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf fel rhan o'r Gofyn Cyllido Cyfalaf, nid yw'r grantiau a chyfraniadau sy'n ariannu gwariant cyfalaf sydd wedi eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wir incwm. Felly, mae'r Cyngor yn cyfrifo'r symiau hyn fel a ganlyn:

- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei dderbyn, a bod amodau'n parhau heb eu bodloni ar ddyddiad y Fantolen, yna caiff y grant ei gydnabod fel Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o flaen llaw ar y Fantolen. Unwaith mae'r amod wedi ei fodloni, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Os yw grant neu gyfraniad cyfalaf wedi ei adnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a bod y gwariant sydd i'w ariannu o'r grant neu gyfraniad hwnnw wedi ei wneud ar ddyddiad y fantolen, yna caiff y grant neu gyfraniad ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf, i adlewyrchu dyrannu adnoddau cyfalaf i ariannu gwariant. Adroddir y trosglwyddiad hwn yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

**1.11 Asedau Treftadaeth**

Asedau diriaethol yw asedau treftadaeth gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol, ac a ddelir gan y Cyngor yn bennaf er diben gwybodaeth addysgol neu gyfraniad i ddiwylliant. Dyma'r categorïau o asedau treftadaeth sydd wedi eu hadnabod gan y Cyngor:

- Lluniau a Phaentiadau
- Teyrndlysau Dinesig
- Casgliadau Llyfrgell/Archifau
- Casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau
- Adeiladau Hanesyddol a Henebion Cofrestredig
- Parciau a Gwarchodfeydd Natur Leol

Defnyddiodd y Cyngor brisiwr allanol (cwmni Bonhams) i ddarparu amcangyfrifon o brisiadau o'i deyrndlysau dinesig a'i luniau a phaentiadau. Er mwyn cysondeb, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar sail yr un trothwy de minimis i ddibenion prisio Asedau Treftadaeth ag i weddill ei asedau tymor hir - gweler polisi 1.17.

Mae'r Cyngor yn ystyried bod gan yr asedau treftadaeth hyn oes amhenderfynadwy a gwerth gweddilliol uchel; ac o'r herwydd, nid yw'r Cyngor yn ei ystyried yn briodol i ddibrisio'r asedau. Bydd yr asedau treftadaeth a gynhwysir yn y cyfrifon yn cael eu hasesu'n flynyddol am unrhyw amhariad – gweler polisi 1.17.

**1.12 Stoc a Chontractau Tymor Hir**

Dylai stociau a gwaith mewn llaw ymddangos ar y Fantolen ar sail yr isaf o gost a gwir werth, yn unol â darpariaethau'r Côd Ymarfer. Oherwydd ymarferoldeb prif systemau stoc y Cyngor, mae mwyafrif y stoc yn ymddangos yn y cyfrifon ar sail cost gyfartalog. Nid yw'r gwahaniaeth o'r sail prisio yn faterol.

Mae contractau tymor hir yn cael eu cyfrifo ar sail o godi'r gwarged neu'r diffyg ar y Ddarpariaeth o Wasanaethau gyda'r ystyriaeth yn cael ei ddyrannu i'r rhwymedigaethau perfformiad bodlonwyd ar sail y nwyddau neu'r gwasanaethau a drosglwyddwyd i dderbynnydd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol.

**1.13 Eiddo Buddsoddi**

Eiddo buddsoddi yw'r rhai hynny a ddefnyddir ar gyfer ennill rhent ac/neu adbrisiant cyfalaf yn unig. Nid yw'n cwrdd â'r diffiniad os defnyddir yr eiddo mewn unrhyw ffordd i hwyluso darpariaeth gwasanaethau neu gynhyrchu nwyddau neu os yw ar gael i'w werthu. Caiff yr eiddo yma eu prisio ar sail gwerth teg. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thair lefel. Lefel

3 yw holl fewnbynnau y Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o natur unigryw yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

### 1.14 Prydlesau

Caiff prydlesau eu hystyried yn brydlesi cyllidol pan fo telerau trosglwyddiad y brydles a'r holl risgiau a buddion sy'n deillio o berchnogaeth o'r eiddo, offer neu gyfarpar yn trosglwyddo i'r prydlesai. Caiff bob prydles arall eu hystyried yn brydlesau gweithredol.

**Y Cyngor fel Prydlesai:**

Caiff symiau a ddelir dan brydlesi cyllidol eu hadnabod yn wreiddiol, ar ddechrau'r brydles, ar werth teg (neu, os yn is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles), gydag ymrwymiad cyfatebol am rwymedigaeth y brydles i'r prydleswr. Caiff taliadau'r brydles eu dosrannu rhwng cost ariannol (i'w gynnwys yn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi o'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr) a chost a roir yn erbyn ymrwymiad y brydles i'w leihau. Caiff yr ased perthnasol ei drin yn unol â'r polisïau arferol, a chaiff ei ddibrisio fel sy'n briodol.

Caiff taliadau prydlesau gweithredol eu dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost i'r gwasanaeth perthnasol ar sail dibrisiad llinol dros gyfnod y brydles.

**Y Cyngor fel Prydleswr:**

Ble mae'r Cyngor yn caniatáu prydles gyllidol ar eiddo, mae'r ased perthnasol yn cael ei ysgrifennu allan o'r Fantolen fel gwarediad, sydd i'w gynnwys yn y llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Nid yw gwerth y gwarediad a ysgrifennir allan yn gost a roir yn erbyn y dreth cyngor, gan fod cost asedau tymor hir yn cael eu darparu o dan drefniadau gwahanol ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae'r symiau felly yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf o'r Balans Cronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau.

Caiff incwm rhent o eiddo sydd wedi ei ganiatáu trwy brydles weithredol ei gydnabod ar sail linol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, a chaiff yr ased ei ddangos ar y Fantolen.

### 1.15 Asedau Gweddilliol

Caiff Asedau Gweddilliol y Cyngor eu dangos ar wahân ar y Fantolen. Gwerth teg yr asedau hyn sy'n cael ei ddangos, sy'n seiliedig ar werth y farchnad. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

### 1.16 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae rhai costau gorbenion a gwasanaethau cefnogol yn cael eu dosrannu i'r gwasanaethau priodol yn unol â threfniadau'r Cyngor ar gyfer atebolrwydd a pherfformiad ariannol.

### 1.17 Asedau Tymor Hir

Adolygir gwerth asedau'r Cyngor a gofnodir ar fas data'r Gwasanaeth Eiddo o leiaf bob pum mlynedd. Ers y flwyddyn ariannol 2015/16, mae'r Cyngor wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrisio gwahanol gategorïau o'r asedau yma yn flynyddol, gydag ailbrisiad fel arfer yn effeithiol ar 31 Mawrth pob blwyddyn. Mae hyn yn unol â'r Côd a'r Datganiadau Egwyddorion Prisio Asedau a Nodiadau Arweiniad a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Dangosir Tir ac Adeiladau ar sail gwerth teg neu gost ail-adeiladu dibrisiedig (CAD) ar gyfer eiddo arbenigol.

Dangosir Eiddo Buddsoddi ar sail gwerth teg.

Defnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd ar gyfer Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Mae Asedau is adeiladwaith a chymunedol yn ymddangos ar gost hanesyddol a ddibrisiwyd.

Cynhwysir Asedau heb eu cwblhau ar sail cost hanesyddol tan gwblheir y gwaith, pan eu prisir yn unol â'r polisïau cyfrifo a'u trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol.

Defnyddir isafswm at ddibenion prisio o £20,000 ar gyfer Tir ac Adeiladau Gweithredol y Cyngor a £5,000 ar gyfer eitemau unigol o Gerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar.

Fe ychwanegir gwariant ar asedau newydd a chyfredol yn flynyddol, gan wedyn ystyried os ydy'r gwariant yma wedi cynhyrchu cynnydd mewn gwerth i'r ased. Os oes cynnydd mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r Reserf Ail Brisio; os nad oes cynnydd mae'n dilyn fod amhariad i werth yr ased (gweler isod ar gyfer dull cyfrifo am amhariad). Yn benodol ar gyfer asedau megis Tir ac Adeiladau, ac Asedau Cymunedol ble ceir gwariant yn y flwyddyn o dros £100,000 ar ased unigol, mae Uwch Syrfewr Stadau (M.R.I.C.S) y Cyngor yn adolygu'r asedau ac yn ail brisio unrhyw un sydd ei angen.

**Amhariad a Dibrisiant**

**Amhariad**

Amhariad yw treuliant budd economaidd sydd yn benodol i ased. Yn unol â Safon Cyfrifo Rhyngwladol 36 mae'r Cyngor yn adolygu ei asedau bob blwyddyn i adnabod unrhyw amhariad neu leihad mewn gwerth oherwydd treuliant buddiannau economaidd. Yn ogystal, caiff gwerth gweddilliol ac oes fuddiol yr asedau eu hadolygu'n flynyddol, a'u haddasu ble'n briodol.

Pan mae colledion amhariad yn cael eu hadnabod, maent yn cael eu cyfrifo fel a ganlyn:

- Ble mae balans o gynnydd ailbrisio ar gyfer ased o fewn y Reserf Ailbrisio, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn y balans (hyd at swm y cynnydd cronedig).

- Pan nad oes balans ar y Reserf Ailbrisio ar gyfer ased neu balans annigonol, bydd gwerth yr ased yn cael ei ysgrifennu ffwrdd yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**Dibrisiant**

Prif elfen SCRh 16 yw y dylid dibrisio adeiladau oni bai eu bod yn cael eu prisio bob blwyddyn. Yn ogystal, dylid dibrisio bob rhan o Eiddo, Offer a Chyfarpar ar wahân os yw eu cost yn arwyddocaol o ystyried cyfanswm cost yr eitem. Dylid sefydlu trothwy isafswm, yn seiliedig ar yr effaith sylweddol tebygol ar y datganiadau ariannol, fel bod bob ased o dan y trothwy yn cael eu diystyru i bwrpas cydrannu. Trothwy ar gyfer 2022/23 yw 1% o werth yr holl adeiladau ar gychwyn y flwyddyn. Y dosraniad sydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr elfen sydd ddim yn dir, dros y trothwy de minimis ydi:
a) offer a chyfarpar a gwasanaethau peirianneg, ac
b) adeiledd

Mae'r mwyafrif o adeiladau'r Cyngor (dros 75%) yn cael eu prisio ar sail Cost Ail-adeiladu Dibrisiedig (CAD), a ddatblygir ar y dull cydrannol, ac adlewyrchir y gwahanol elfennau ym manylion y cyfrifiadau. Fodd bynnag, yn gynwysedig yn yr uchod mae adeiladau gydag eitemau sylweddol o offer a chyfarpar sydd ag oes fuddiol fyrrach; e.e. boeleri ac offer gwresogi pyllau nofio a chanolfannau hamdden. Adnabyddir yr elfennau hyn drwy addasu oes fuddiol yr adeilad i gymryd oes fyrrach yr elfennau i ystyriaeth.

Yn seiliedig ar adolygiad o natur a'r math o adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor, daethpwyd i'r canlyniad nad oes gan weddill yr adeiladau eitemau sylweddol o offer a chyfarpar na gwasanaethau peirianneg sydd angen eu cydrannu ar wahân.

Dibrisir Asedau ar sail eu gwerth ar y Fantolen i'w ysgrifennu i ffwrdd fel a ganlyn:
(i) Dibrisir Cerbydau, Offer, Dodrefn a Chyfarpar dros eu bywyd amcangyfrifiedig (3–15 mlynedd, neu fwy os oes tystiolaeth cefnogol)
(ii) Dibrisir Is adeiladwaith dros 40 mlynedd
(iii) Ysgrifennir Gwariant Refeniw i'w ariannu o Gyfalaf drwy Statud i lawr yn y cyfnod yr ymddangosant
(iv) Ni ddibrisir Tir
(v) Dibrisir Adeiladau dros eu bywyd defnyddiol gweddilliol amcangyfrifiedig (5–80 mlynedd)
(vi) Ni ddibrisir Eiddo Buddsoddi, Asedau heb eu Cwblhau nac Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Ni ddibrisir ym mlwyddyn y caffaeliad.

## NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO (parhad)

### Lleiafswm Darpariaeth Refeniw

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifeg) (Cymru) (Diwygio) 2018 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaethau darbodus ar gyfer adbrynu dyledion. Mae'r Gweinidogion Cymreig wedi cyhoeddi Canllawiau ar Ddarpariaeth Lleiafswm Refeniw (LIDR) ac mae gofyn i awdurdodau lleol roi ystyriaeth i Ganllawiau o'r fath yn unol ag adran 21 (1B) Deddf Llywodraeth Leol 2003.

Dyma'r pedwar opsiwn LIDR sydd ar gael:
- Opsiwn 1: Y Dull Rheoleiddio
- Opsiwn 2: Y Dull Gofyn Cyllido Cyfalaf
- Opsiwn 3: Y Dull Oes Asedau
- Opsiwn 4: Y Dull Dibrisiad

*D.S.: Nid yw hyn yn cau allan dulliau darbodus eraill.*

LIDR yn 2022/23: Gellir defnyddio opsiynau 1 a 2 dim ond ar gyfer gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi nad yw o'r Cyfrif Refeniw Tai (Dim-CRT) a ariennir o fenthyciad (ystyr 'wedi'i gefnogi' yma yw costau cyllido a gaiff eu cefnogi drwy Grant Cefnogi Refeniw y Llywodraeth Ganolog). Mae'r dulliau o wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT heb ei gefnogi yn cynnwys Opsiynau 3 a 4 (gellir defnyddio 3 a 4 ar gyfer gwariant cyfalaf Dim-CRT wedi'i gefnogi yn ogystal, os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud hynny).

Cyflwynwyd y Datganiad LIDR i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2022/23. Pe bai cynnig i ddiwygio telerau'r Datganiad LIDR gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor ar yr adeg honno.

Defnyddiodd y Cyngor Opsiwn 1 yng nghyswllt gwariant cyfalaf wedi'i gefnogi a ariennir o fenthyciad, ac Opsiwn 3 yng nghyswllt gwariant cyfalaf heb ei gefnogi a ariennir o fenthyciad.

Roedd yr LIDR yng nghyswllt lesau a chynlluniau Menter Cyllid Preifat (MCP) a brynwyd ar y Fantolen dan y Côd Ymarfer Cyfrifeg sy'n seiliedig ar y SAARh yn cyd-fynd â'r ad-daliad prifswm blynyddol ar gyfer yr ymrwymiad gohiriedig cysylltiedig.

Mae'r Cyngor yn adolygu'r polisi yma yn flynyddol yng ngoleuni'r Cynllun Rheoli Asedau.

Yn unol â'r Côd Ymarfer, telir am wariant cyfalaf ar gyfer Gwasanaethau Cronfa'r Cyngor sydd i'w gyllido o refeniw drwy ei ddosbarthu i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf.

### 1.18 Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol

Mae incwm Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol am y flwyddyn yn cael eu trin fel incwm cronedig, ac yn cael eu cynnwys ar linell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae Cyngor Gwynedd yn Awdurdod bilio Treth Cyngor a Threthi Annomestig Cenedlaethol. Mae'n casglu Treth Cyngor ar ran ei hun ac ar ran awdurdodau eraill, ac yn casglu Trethi Annomestig fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru.

### 1.19 Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle ar neu cyn dyddiad y Fantolen:
- sy'n rhoi rhwymedigaeth bresennol i'r Cyngor
- sy'n debyg o fod angen setliad trwy drosglwyddiad o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth, a
- lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Os nad yw'n glir os yw digwyddiad wedi cymryd lle ar neu cyn dyddiad y Fantolen, ystyrir ei fod yn arwain at rwymedigaeth bresennol os yw, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yn fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth bresennol fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Caiff setliadau amcangyfrifedig eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Pan ddaw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd yn awr (neu y gwneir setliad is na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei wrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

**NODYN 1– POLISIAU CYFRIFO (parhad)**

**1.20 Reserfau (a Balansau)**
Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1992, mae'r Cygnor yn cynnal –

- Cronfa Gyffredinol sydd yn cynrychioli arian wrth gefn ("balansau") y Cyngor, sef balans gweithredol i helpu lliniaru effaith llif arian anwastad ag i'w gadw wrth gefn i liniaru effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau.

- Nifer o Reserfau Penodol cyfalaf a refeniw a glustnodwyd ar gyfer pwrpasau arbennig, sef arian wedi'i adeiladu i gwrdd ag ymrwymiadau a ragwelir. Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad parhaus o ddigonolrwydd a defnydd o reserfau penodol.

- Mae'r Cyngor yn cymryd agwedd asesu'r risg tuag at gynnal lefelau digonol o falansau a reserfau er mwyn cwrdd ag anghenion gwario'r dyfodol. Wrth ystyried y gyllideb flynyddol a'r strategaeth ariannol tymor canol, bydd y Cyngor yn gosod allan ei fwriad ynghylch lefel y balansau cyffredinol a'r cronfeydd, yng nghyd-destun yr holl risgiau perthnasol. Gweler cymeradwyaeth o'r polisi llawn ar gyfer cronfeydd gan Gabinet y Cyngor ar 23 Mehefin 2015.

- Cedwir rhai reserfau eraill, sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyngor.

**1.21 Gwariant Refeniw wedi ei Ariannu o Gyfalaf Drwy Statud**
Mae deddfwriaeth yn caniatáu categoreiddio peth gwariant fel cyfalaf i bwrpas ariannu er nad yw'n creu ased sydd yn cael ei gario ar y Fantolen. Bwriad hyn yw galluogi'r gwariant i gael ei ariannu o adnoddau cyfalaf yn hytrach nag ei roi yn erbyn y Gronfa Gyffredinol a fyddai'n cael effaith ar y Dreth Cyngor am y flwyddyn. Defnyddir cost hanesyddol fel sail prisio ar gyfer y math yma o wariant ac ysgrifennir hwn i lawr o fewn blwyddyn.

**1.22 Treth ar Werth**
Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant cyfalaf a refeniw.

**1.23 Dyledwyr a Chredydwyr**
Cedwir cyfrifon y Cyngor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn.

Eithriad i'r arfer yma yw taliadau chwarterol megis trydan, a gyfrifir yn ôl dyddiad darllen y mesurydd yn hytrach na rhannu'r gost rhwng gwahanol flynyddoedd ariannol, a hefyd rhai taliadau blynyddol megis yswiriant. Trwy weithredu'r polisi'n gyson ymhob blwyddyn ni chaiff effaith o bwys ar gyfrifon y flwyddyn.

**1.24 Dyrannu Llog a Difidendau Derbyniadwy**
Mae'r Cyngor yn buddsoddi arian dros ben am gyfnodau o dros nos hyd at 13 mis (ac eithrio buddsoddiadau mewn cronfeydd cyfun) a thelir y llog i'r Gronfa Gyffredinol, Cronfa Bensiwn Gwynedd, Cronfa'r Degwm ac ymddiriedolaethau a chyd-bwyllgorau eraill ar sail eu balansau dyddiol a'r gyfradd llog a enillir. Telir y difidendau o'r cronfeydd cyfun i'r Gronfa Gyffredinol.

**1.25 Costau Benthyca**
Nid yw'r Cyngor yn cyfalafu costau benthyca sy'n perthyn i gaffaeliad, gwneuthuriad na chynhyrchiad ased cymwysedig fel a ganiateir yn y Côd.

Cyfrifir am log sydd yn daladwy ar fenthyciadau allanol yn y cyfnod y maent yn perthyn iddo ar sail sy'n adlewyrchu effaith economaidd gyflawn y benthyciad.

**1.26 Buddiannau mewn Cwmnïau ac Endidau Eraill**
Mae gan y Cyngor ddiddordebau mewn cwmniau ac endidau eraill y mae'n ofynnol eu cynnwys yn y datganiadau ariannol. Yn unol ag ystyriaethau materoldeb, mae Cyd-bwyllgor Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'i gynnwys o fewn datganiadau ariannol y Cyngor. Cynhaliwyd y gwaith atgyfnerthu ar sail llinell wrth linell a'i

ddosrannu i bob awdurdod ar drafodion gwirioneddol yn y lle cyntaf gyda'r trafodion a'r balansau sy'n weddill wedi'u rhannu yn unol â'u Cytundeb Llywodraethu. Mae'r trafodion ar gyfer y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r ddau gweithrediad ar y cyd (Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu; Cynllun Argyfwng Bysus) hefyd wedi cael eu cyfuno i ddatganiad ariannol y Cyngor.

Yn seiliedig ar fateroldeb, nid yw'r cyd-bwyllgorau canlynol wedi cael eu cyfuno i ddatganiad ariannol y Cyngor:-

- GwE
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru

Yn seiliedig ar fateroldeb, nid yw cyfrifon grŵp wedi eu cynhyrchu i gynnwys Cwmni Byw'n Iach.

### 1.27 Asedau Cyfredol ar gael i'w gwerthu

Er mwyn i ased gael ei gydnabod fel Ased ar gael i'w werthu, mae'n ofynnol i'r ased fod ar gael i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, mae'n rhaid i'r gwerthiant fod yn hynod o debygol, rhaid i'r ased gael ei farchnata a'r gwerthiant gael ei gwblhau o fewn blwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad. Caiff yr ased ei gydnabod ar werth teg (gwerth y farchnad) llai costau gwerthu wrth ailddosbarthu. Mae'r gwerthoedd wedi eu seilio ar dechnegau penodol, ac mae'r mewnbynnau i'r technegau mesur yma wedi eu categoreiddio yn unol â thri lefel. Lefel 3 yw holl fewnbynnau'r Cyngor (mewnbynnau anweladwy ar gyfer yr ased). Mae hyn oherwydd lefel yr addasiad sydd ei angen ar gyfer yr holl dystiolaeth sydd yn deillio o unigrywiaeth yr asedau, a phrinder trafodion y farchnad berthnasol.

### 1.28 Gwaredu Asedau

Pan mae ased yn cael ei waredu, mae gwerth yr ased yn y Fantolen yn cael ei ysgrifennu ffwrdd i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw a cholled wrth waredu. Mae derbyniadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r elw neu golled wrth waredu (e.e. cael ei glustnodi yn erbyn gwerth yr ased ar adeg y gwaredu). Mae unrhyw gynnydd wedi ei gronni ar gyfer yr ased yn y Reserf Ailbrisio yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

### 1.29 Derbyniadau Cyfalaf

Pan werthir asedau gan y Cyngor mae'r ddeddfwriaeth yn nodi'r defnydd y gellir ei wneud o'r derbyniadau cyfalaf.

Gellir defnyddio 100% o'r holl dderbyniadau cyfalaf sydd yn perthyn i Gronfa'r Cyngor ac nid yw'n angenrheidiol bellach i roi canran o'r derbyniad o'r neilltu. Cedwir y derbyniadau yn y Reserf Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy hyd nes defnyddir yr adnoddau i gyllido gwariant cyfalaf.

### 1.30 Trefniant Consesiwn Gwasanaeth

Mae Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Menter Cyllid Preifat (MCP), yn gytundebau i dderbyn gwasanaethau, ble mae'r eiddo, offer a chyfarpar i ddarparu'r gwasanaeth dan gyfrifoldeb y contractwr MCP am gyfnod y cytundeb ond yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y cyfnod heb unrhyw gost ychwanegol. Mae'r Cyngor yn rheoli'r gwasanaeth a ddarperir ac yn medru rheoli pwy arall sy'n medru defnyddio'r ddarpariaeth. Mae'r gost am ddefnydd o'r ddarpariaeth yn cael ei gytuno gyda'r Contractwr cyn gosod y cytundeb drwy broses o ddeialog cystadleuol.

### 1.31 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyngor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyngor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

### 1.32 Ysgolion

Mae'r *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* yn cadarnhau bod cydbwysedd rheolaeth ysgolion sy'n cael eu cynnal gan yr awdurdod lleol (h.y. yr ysgolion hynny sy'n cael eu hadnabod yn y Ddeddf Fframwaith a Safonau Ysgolion 1998, fel y'i diwygiwyd), yn gorwedd efo'r awdurdod lleol. Mae'r Côd hefyd yn datgan bod asedau, ymrwymiadau, reserfau a llif arian yr ysgolion hynny yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon yr awdurdod lleol (ac nid mewn Cyfrifon Grŵp). O ganlyniad, mae trafodion, llif arian a balansau yr ysgolion yn cael eu cydnabod ym mhob un o ddatganiadau ariannol y Cyngor fel petaent yn drafodion, llif arian a balansau y Cyngor.

### 1.33 Mesuriad Gwerth Teg o Asedion An-Ariannol

Mae polisi'r Cyngor ar fesuriad gwerth teg ased ariannol wedi ei osod allan yn nodyn 1.9. Mae'r Cyngor hefyd yn rhoi mesuriad gwerth teg ar rai o asedau an-ariannol y Cyngor megis asedau gweddilliol, eiddo buddsoddi a rhai o offerynnau ariannol ar bob cyfnod adrodd. Gwerth teg yw'r pris gwerthu a dderbynnir ar gyfer yr ased mewn modd trefnus rhwng cyfranogwyr y farchnad ar ddyddiad y mesuriad. Mae'r mesuriad gwerth teg yn tybio bod y trefniant o werthu'r ased neu drosglwyddo'r ymrwymiad yn cymeryd lle unai:

a. yn y brif farchnad i'r ased, neu
b. yn absenoldeb prif farchnad, yn y farchnad sydd fwyaf manteisiol ar gyfer yr ased.

Wrth fesur gwerth teg ased neu ymrwymiad, defnyddia'r Cyngor ragdybiaethau y byddai cyfranogwyr y farchnad yn eu defnyddio wrth brisio ased neu ymrwymiad, gan gymeryd bod cyfranogwyr y farchnad yn gweithredu er eu budd economaidd mwyaf.

Wrth fesur gwerth teg ased an-ariannol, mae'r Cyngor yn ystyried gallu cyfranogwyr y farchnad i gynhyrchu buddiannau economaidd drwy ddefnyddio'r ased yn y modd gorau bosib, neu drwy ei werthu i gyfranogwr arall y farchnad fyddai'n defnyddio'r ased yn y modd gorau bosib.

Defnyddia'r Cyngor dechnegau prisio sydd yn addas i'r amgylchiadau ac sydd â data digonol ar eu cyfer, gan uchafu'r defnydd o fewnbwn gweladwy perthnasol ac isafu'r defnydd o fewnbwn anweladwy.

Mae'r mewnbwn i'r technegau prisio sy'n berthnasol i'r asedau hynny ble mesurir neu ddatgelir gwerth teg ar eu cyfer yn natganiadau ariannol y Cyngor yn cael eu categoreiddio yn hierarchaeth gwerth teg fel a ganlyn:

- Lefel 1 – prisiau a ddyfynnir (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu ymrwymiadau unfath y gall y Cyngor eu cyrchu ar ddyddiad y mesuriad;
- Lefel 2 – mewnbwn ar wahân i'r prisiau a ddyfynnir yn Lefel 1, sydd yn weladwy ar gyfer yr ased, unai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol; neu
- Lefel 3 – mewnbwn anweladwy ar gyfer ased

### 1.34 Polisïau Eraill

Mae gan Gyngor Gwynedd bolisïau ar gyfer y canlynol, ond nid ydynt yn cael eu hystyried i fod yn faterol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23:
- Asedau Anniriaethol
- Trosi Arian Tramor.

## NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisïau cyfrifo presennol y Cyngor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23.

## NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol yn ystod 2022/23.

## NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan. Mae hyn yn berthnasol i'r ymarferion newydd neu ddiwygiedig canlynol o fewn Côd 2023/24*:*

- SAARh 16 Prydlesi (ond dim ond ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny sydd wedi gwirfoddoli i weithredu IFRS 16 yn y flwyddyn 2023/24)
- Ble mabwysiadodd awdurdod SAARH 16 Prydlesi yn 2022/23 ond dewiswyd gohirio gweithredu SAARh 16 i drefniadau PFI/PPP tan 2023/24 bydd gwybodaeth am y cyfrifyddu mwy penodol hwnnw angen newid yn y datganiad cyfrifon ar gyfer 2022/23.
- Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifyddu (Diwygiadau i SCRh 8) gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.
- Datgan Polisiau Cyfrifo (Diwygiadau i SCRH 1 a SAARh Datganiad Ymarfer 2) cyhoeddwy ym mis Chwefror 2021.
- Trethi Gohiriedig sy'n ymwneud â Asedau a Rhwymedigaethau sy'n deillio o Drafodion Unigol (Diwygiadau i SARh 12) gyhoeddwy ym mis Mai 2021.
- Diweddaru Cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i SAARh 3) gyhoeddwyd ym Mai 2020

Mae'n ofynnol fod y Côd yn weithredol o 1 Ebrill 2023 ac felly nid oes unrhyw effaith ar Ddatganiad o'r Cyfrifon 2022/23, a does dim disgwyl i'r safonau newydd neu'r newidiadau o fewn Côd Ymarfer 2023/24 gael effaith materol ar yr wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

## NODYN 5 – BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyngor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymiadau i'w cario nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu seilio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol, a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol a chyfredol, a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol, a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyngor sy'n cael ei ddiweddaru yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae ansicrwydd economaidd yn dilyn i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau, gyda lefel uchel o chwyddiant a chyfraddau llog, tra bod effaith Covid yn parhau mewn rhai meysydd o'r Cyngor yn y tymor byr a chanolig. Er hynny, mae'r Cyngor yn benderfynol nad yw'r ansicrwydd yn ddigonol i roi arwydd fod amhariad i werth asedau'r Cyngor o ganlyniad i'r angen i gau cyfleusterau a lleihau lefelau'r gwasanaeth a ddarperir yn sylweddol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis ailbrisio, dibrisiant ac amhariad asedau, prisiad yr actiwari o asedau a ymrwymiadau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

## NODYN 6 – TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyngor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitemau canlynol ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2023 yn rhai a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

| **Eitem** | **Ansicrwydd** | **Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau** |
|---|---|---|
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | Mae asedau yn cael eu dibrisio dros eu hoes fuddiol yn unol â chyfrifeg safonol ac arferion cysylltiedig. Mae'r hinsawdd economaidd gyfredol yn creu ansicrwydd ymysg cynghorau am eu gallu i gynnal y gwariant angenrheidiol ar gynnal a chadw. Bydd goblygiadau o hyn ar fywyd ased. Mae Tir ac Adeiladau yn cael eu hailbrisio o leiaf bob pum mlynedd, ac ers 2015/16 cyflwynwyd rhaglen dreigl ailbrisio. Mae angen dod i farn yn aml fel rhan o'r broses asesiad ailbrisio ac amhariad. Mae hyn yn arwain at ansicrwydd, a'r angen am dybiaethau ac ymateb yn briodol iddynt. | Caiff unrhyw wahaniaeth rhwng y dibrisiant a gwir ddirywiad yr ased ei adlewyrchu ym mhatrymau gwariant y dyfodol. Lle bo angen, bydd unrhyw oblygiadau tymor hir yn cael eu hymgorffori yn ein strategaeth ariannol. Mae gwybodaeth ynglŷn ag Eiddo, Offer a Chyfarpar wedi ei gynnwys yn Nodyn 15. |
| Darpariaethau | Mae darpariaethau yn gynwysedig yn y cyfrifon, ble mae'r sail unigol wedi cael eu hasesu yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, gweler Nodyn 22 am y manylion, sydd yn cynnwys darpariaeth am Safleoedd Gwastraff. Nid oes modd cadarnhau cywirdeb y ddarpariaeth hyd nes bod y materion wedi diweddu. | Os yw'r darpariaethau yn annigonol, bydd y costau ychwanegol yn cael eu hariannu o refeniw neu o gronfeydd wrth gefn. |
| Ymrwymiad Pensiwn | Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghori yn ymwneud â rhoi cyngor arbenigol i'r Cyngor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio.<br><br>Cafodd Brexit a Covid effeithiau negyddol ar economi'r DU a gwerthoedd asedau pensiwn, bellach ceir cyfraddau chwyddiant a llogau uchel, ond mae'n ymddangos bod y farchnad yn gwella ac yn sefydlogi. Fodd bynnag, gallai pandemig neu argyfwng byd eang arall gael effaith niweidiol ar adenillion asedau, yn ogystal â chynnydd mewn cyfraddau llog i ffrwyno cynnydd chwyddiant o ganlyniad i'r adferiad. | Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi ei nodi yn Nodiadau 37 a 38. |
| Lwfans Colled Amhariad | Mae lefel o amhariad dyledion drwg sydd wedi ei gynnwys yn y cyfrifon yn seiliedig ar bolisi penodol. Mae lefel yr amhariad yn cael ei adolygu yn rheolaidd er mwyn gallu ymateb i unrhyw newidiadau yn yr hinsawdd economaidd ac unrhyw addasiad i ymateb i'r sefyllfa yn cael ei weithredu'n briodol yn y cyfrifon. Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor falans dyledwyr tymor byr net o £90m (Nodyn 18a), ac mae'r balans hwn yn net o'r amhariad ar ddyledion drwg o £8m. | Os yw'r amhariad yn annigonol, bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ariannu o refeniw neu o gronfeydd wrth gefn. |

## NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:

- £280m yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 23.5).
- Yn dilyn ailbrisio rhan o bortffolio tir ac adeiladau'r Cyngor (sydd bellach yn dilyn rhaglen dreigl), gwarged net yn deillio o ailbrisio asedau sefydlog i'r Reserf Ailbrisio yn £29m (Nodyn 23.1) a chost ailbrisio a'r amhariad i'r Gwasanaethau yn £2m (Nodyn 15).

## NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

| 2022/23 | ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i)** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii)** | **Gwahaniaethau Eraill (iii)** | **Cyfanswm Addasiadau Statudol** | **Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 6,821 | 6,241 | 0 | **13,062** | 0 | **13,062** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 0 | 1,583 | 0 | **1,583** | 0 | **1,583** |
| Cyllid | 1,341 | 1,685 | 0 | **3,026** | 0 | **3,026** |
| Economi a Chymuned | 3,418 | 1,015 | 0 | **4,433** | 0 | **4,433** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 547 | 6,883 | 0 | **7,430** | (213) | **7,217** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 69 | 2,630 | 0 | **2,699** | 0 | **2,699** |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*) | 4,457 | 6,352 | 0 | **10,809** | 0 | **10,809** |
| Amgylchedd | 4,044 | 1,428 | 0 | **5,472** | 0 | **5,472** |
| Tai ac Eiddo | 3,750 | 1,292 | 0 | **5,042** | 0 | **5,042** |
| Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 1 | 296 | 0 | **297** | 0 | **297** |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 457 | 1,101 | 0 | **1,558** | 0 | **1,558** |
| Corfforaethol | 1 | 843 | 1,042 | **1,886** | (109) | **1,777** |
| **Cost Gwasanaethau** | **24,906** | **31,349** | **1,042** | **57,297** | **(322)** | **56,975** |
| Gwariant Gweithredol Arall | (123) | 0 | 0 | **(123)** | 0 | **(123)** |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (15,769) | 6,954 | (144) | **(8,959)** | 322 | **(8,637)** |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (16,075) | 0 | 0 | **(16,075)** | 0 | **(16,075)** |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(7,061)** | **38,303** | **898** | **32,140** | **0** | **32,140** |

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)

| 2021/22 | ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | Addasiadau i bwrpas Cyfalaf (i) £'000 | Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (ii) £'000 | Gwahaniaethau Eraill (iii) £'000 | Cyfanswm Addasiadau Statudol £'000 | Addasiadau (Anstatudol) Eraill (iv) £'000 | Cyfanswm Addasiadau £'000 |
| Addysg | 4,857 | 6,984 | 0 | **11,841** | 0 | **11,841** |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 12 | 1,766 | 0 | **1,778** | 0 | **1,778** |
| Cyllid | 1,131 | 1,897 | 0 | **3,028** | 0 | **3,028** |
| Economi a Chymuned | 2,745 | 1,175 | 0 | **3,920** | 0 | **3,920** |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 250 | 7,740 | 0 | **7,990** | (233) | **7,757** |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 0 | 2,792 | 0 | **2,792** | 0 | **2,792** |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd*) | 5,175 | 6,966 | 0 | **12,141** | 0 | **12,141** |
| Amgylchedd | 3,544 | 1,599 | 0 | **5,143** | 0 | **5,143** |
| Tai ac Eiddo | 3,388 | 1,218 | 0 | **4,606** | 0 | **4,606** |
| Tim Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2 | 334 | 0 | **336** | 0 | **336** |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 448 | 1,268 | 0 | **1,716** | 0 | **1,716** |
| Corfforaethol | 1 | 2,293 | 665 | **2,959** | (49) | **2,910** |
| **Cost Gwasanaethau** | **21,553** | **36,032** | **665** | **58,250** | **(282)** | **57,968** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 503 | 0 | 0 | **503** | 0 | **503** |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (7,529) | 7,632 | (104) | **(1)** | 282 | **281** |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | (32,983) | 0 | 0 | **(32,983)** | 0 | **(32,983)** |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(18,456)** | **43,664** | **561** | **25,769** | **0** | **25,769** |

* Cefnffyrdd - Addasiadau perthnasol i Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

### (i) Addasiadau i Bwrpas Cyfalaf

- Ar gyfer **gwasanaethau**, mae'r golofn yma yn ychwanegu dibrisiant, amhariad ac elw a cholledion ailbrisiad.
- **Gwariant gweithredol arall** – yn addasu ar gyfer gwarediadau cyfalaf gyda throsglwyddiad o incwm ar waredu asedau a'r symiau â ddileuwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – mae'r costau statudol ar gyfer ariannu cyfalaf, h.y. darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf a chyfraniadau refeniw arall yn cael eu tynnu allan o incwm a gwariant arall gan na ellir codi amdanynt o dan ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig.
- **Treth ac incwm grant amhenodol** - mae grantiau cyfalaf yn cael eu haddasu ar gyfer incwm na ellir codi amdano dan ymarferion cyfrifo. Mae grantiau refeniw yn cael eu haddasu o rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i rai sy'n dderbyniadwy heb amodau neu lle mae amodau wedi eu bodloni trwy gydol y flwyddyn. Mae'r llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol yn cael ei chredydu gyda grantiau cyfalaf derbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu lle mae'r amodau wedi eu bodloni yn y flwyddyn.

**NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)**

**(ii) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau**

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau,** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyngor fel y caniateir trwy statud a'u amnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a buddsoddi,** y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**(iii) Gwahaniaethau Eraill**

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Incwm a gwariant ariannu a Buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

**(iv) Addasiadau (Anstatudol) Eraill**

- **Gwasanaethau -** mae'r lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol wedi'i ddidynnu ac wedi trosglwyddo i wariant ac incwm ariannu a buddsoddi.
- **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi** – wedi'i addasu i drosglwyddo lwfans colled amhariad ar Ddyledwyr Masnachol o wasanaethau.

## NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyngor i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| **2022/23**<br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserfau Defnyddiadwy** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | | | | |
| *Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysiedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol* | | | | |
| Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau) | (38,303) | 0 | 0 | 38,303 |
| Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol) | (29) | 0 | 0 | 29 |
| Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig) | (948) | 0 | 0 | 948 |
| Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | (8,707) | 0 | 0 | 8,707 |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **(47,987)** | **0** | **0** | **47,987** |
| **Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 79 | (368) | 0 | 289 |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 5,352 | 0 | 0 | (5,352) |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 2,165 | 0 | 0 | (2,165) |
| Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | 8,251 | 0 | 0 | (8,251) |
| **Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | **15,847** | **(368)** | **0** | **(15,479)** |
| **Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | | | | |
| Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 695 | 0 | (695) |
| Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 0 | 1,326 | (1,326) |
| Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | **0** | **695** | **1,326** | **(2,021)** |
| **CYFANSWM ADDASIADAU** | **(32,140)** | **327** | **1,326** | **30,487** |

**NODYN 9 – ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU (parhad)**

| **2021/22**<br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserfau Defnyddiadwy** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Balans Cronfa Gyffredinol** | **Reserf Derbyniadau Cyfalaf** | **Grantiau Cyfalaf heb eu defnyddio** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | | | | |
| *Symiau ble mae'r incwm a gwariant sy'n gynwysiedig yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn wahanol i'r refeniw am y flwyddyn sy'n cael ei gyfrifo yn unol â'r gofynion statudol* | | | | |
| Costau pensiwn (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Pensiynau) | (43,664) | 0 | 0 | 43,664 |
| Offerynnau ariannol (trosglwyddwyd i'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol) | 22 | 0 | 0 | (22) |
| Tâl Gwyliau (trosglwyddwyd i'r (neu o'r) Reserf Absenoldebau Cronedig) | (560) | 0 | 0 | 560 |
| Gwrthdroi eitemau sydd wedi eu cynnwys yn y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf (mae'r eitemau hyn yn cael eu rhoi yn erbyn y Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | 10,927 | 0 | 0 | (10,927) |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Refeniw** | **(33,275)** | **0** | **0** | **33,275** |
| **Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | | | | |
| Trosglwyddo arian o waredu asedau wedi eu credydu fel rhan o elw/colled wrth waredu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (22) | (285) | 0 | 307 |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 5,387 | 0 | 0 | (5,387) |
| Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 2,141 | 0 | 0 | (2,141) |
| Gwariant cyfalaf sy'n cael ei ariannu o falansau refeniw (trosglwyddiad i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau Rhwng Adnoddau Refeniw a Chyfalaf** | **7,506** | **(285)** | **0** | **(7,221)** |
| **Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | | | | |
| Defnydd o'r Reserf Derbyniadau Cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 79 | 0 | (79) |
| Defnydd o'r grantiau cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf | 0 | 0 | (3,381) | 3,381 |
| Taliadau arian parod yn ymwneud â derbyniadau cyfalaf gohiriedig | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Addasiadau i Adnoddau Cyfalaf** | **0** | **79** | **(3,381)** | **3,302** |
| **CYFANSWM ADDASIADAU** | **(25,769)** | **(206)** | **(3,381)** | **29,356** |

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD

**Balansau Ysgolion**

Cynrychiolai'r swm yma'r elfen o falansau a ryddhawyd o dan ddatganoli cyllideb yn uniongyrchol i'r ysgolion ond sydd heb eu gwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, ac sydd yn leihad net o £4.8m o'i gymharu â'r balans ar 31 Mawrth 2022:

| 2022/23 | Balans 31 Mawrth 2022 £'000 | Trosglwyddiadau<br>rhwng cronfeydd £'000 | mewn £'000 | allan £'000 | Balans 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Balansau Ysgolion | 16,695 | 0 | 370 | (5,148) | 11,917 |
| **Cyfanswm** | **16,695** | **0** | **370** | **(5,148)** | **11,917** |

Tud. 243

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

**Reserfau a Glustnodwyd**

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r symiau a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, a'r symiau hynny a drosglwyddwyd nôl o'r reserfau a glustnodwyd i gwrdd â gwariant y Gronfa Gyffredinol yn 2022/23, gyda lleihad net o £2.5m ers sefyllfa 31 Mawrth 2022.

| | **2022/23** | **Balans** | **Trosglwyddiadau** | | | **Balans** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **31 Mawrth** | **rhwng cronfeydd** | **mewn** | **allan** | **31 Mawrth** |
| **Nodyn** | | **2022** | | | | **2023** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 10.1 | Reserfau Adnewyddu | 8,396 | (27) | 2,952 | (5,079) | 6,242 |
| 10.2 | Reserf Adnewyddu Strategaeth Ddigidol Ysgolion | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 2,000 |
| 10.3 | Reserfau Cyfalaf | 24,663 | 150 | 5,009 | (1,256) | 28,566 |
| 10.4 | Reserfau Yswiriant | 1,945 | 0 | 641 | (539) | 2,047 |
| 10.5 | Cronfa Gwasanaethau | 5,033 | 149 | 855 | (1,598) | 4,439 |
| 10.6 | Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant | 1,014 | 0 | 0 | (346) | 668 |
| 10.7 | Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion | 3,114 | 151 | 0 | (89) | 3,176 |
| 10.8 | Hyfforddiant Canolog | 1,423 | 0 | 0 | (395) | 1,028 |
| 10.9 | Reserfau Gwasanaethau Addysg | 3,172 | 27 | 1,443 | (518) | 4,124 |
| 10.10 | Reserfau Economi a Chymuned | 597 | (101) | 286 | (23) | 759 |
| 10.11 | Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 897 | 0 | 157 | (648) | 406 |
| 10.12 | Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd | 185 | 0 | 0 | (92) | 93 |
| 10.13 | Reserfau Amgylchedd | 1,751 | 0 | 339 | (1,611) | 479 |
| 10.14 | Reserfau Tai ac Eiddo | 3,612 | (201) | 158 | (2,841) | 728 |
| 10.15 | Reserfau Gofal | 2,024 | 0 | 461 | (1,182) | 1,303 |
| 10.16 | Cronfa Trawsnewid Busnes | 450 | 491 | 0 | 0 | 941 |
| 10.17 | Cronfa Buddsoddi i Arbed - Prosiect Rheoli Carbon | 564 | 0 | 0 | 0 | 564 |
| 10.18 | Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor | 15,071 | (1,174) | 1,118 | (3,808) | 11,207 |
| 10.19 | Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo | 1,256 | 0 | 594 | (99) | 1,751 |
| 10.20 | Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai | 192 | 0 | 0 | (113) | 79 |
| 10.21 | Gwarant Amgylcheddol Tai | 480 | 0 | 0 | 0 | 480 |
| 10.22 | Reserfau Technoleg Gwybodaeth | 632 | 0 | 289 | 0 | 921 |
| 10.23 | Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol | 5,865 | 0 | 3,188 | (29) | 9,024 |
| 10.24 | Cronfa Maes Lles | 100 | 0 | 0 | 0 | 100 |
| 10.25 | Trefniadau Partneriaethu | 337 | 0 | 26 | (24) | 339 |
| 10.26 | Cronfa Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru | 189 | 0 | 112 | 0 | 301 |
| 10.27 | Cronfa Trosglwyddiadau Eiddo Treth Cyngor | 490 | 0 | 0 | (490) | 0 |
| 10.28 | Cronfa Premiwm Treth Cyngor | 13,670 | 0 | 6,000 | (4,612) | 15,058 |
| 10.29 | Cronfa Trefniadau Adfer yn Sgil Covid-19 | 4,924 | 0 | 25 | 0 | 4,949 |
| 10.30 | Cronfa Strategaeth Ddigidol | 0 | 904 | 0 | (52) | 852 |
| 10.31 | Amrywiol Reserfau Eraill | 1,994 | (369) | 91 | (769) | 947 |
| | **Cyfanswm** | **106,040** | **0** | **23,744** | **(26,213)** | **103,571** |

Nid yw sefyllfa balans terfynol reserfau a glustnodwyd ar 31 Mawrth 2023 yn adlewyrchu'r lefel o ymrwymiadau a wnaethpwyd yn eu herbyn. Nodir isod fanylion o brif reserfau penodol y Cyngor.

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

10.1 Mae'r Reserfau Adnewyddu yn cael eu defnyddio gan adrannau amrywiol o'r Cyngor i adnewyddu cerbydau ac offer.

10.2 Reserf Adnewyddu Strategaeth Ddigidol Ysgolion ar gyfer ariannu adnewyddu offer TG ysgolion.

10.3 Mae'r Reserfau Cyfalaf yn cynrychioli adnoddau a ymrwymwyd eisoes i gynorthwyo ariannu'r Rhaglen Gyfalaf y Cyngor a gofynion eraill.

10.4 Nid yw Cyngor Gwynedd yn yswirio pob risg gydag yswirwyr allanol ond yn hytrach fe sefydlwyd cronfa er mwyn cwrdd â'r gofynion yma'n fewnol. Mae'r balans ar y Reserfau Yswiriant hefyd yn cynnwys elfen ar gyfer gofynion yswiriant sy'n berthnasol i'r cyn Gyngor Sir Gwynedd (hyd at 1996) ac a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.

10.5 Mae'r Gronfa Gwasanaethau yn gronfa sy'n dal llithriadau a thanwariant y mae hawl i adrannau ei gario drosodd o flwyddyn i flwyddyn, cyllidebau penodol a pherthnasol eraill a chyllidebau unwaith ac am byth sy'n ymestyn dros fwy nag un flwyddyn.

10.6 Cronfa Rhaglen Cydgyfeiriant – symiau a neilltuwyd ar gyfer cyfraniad cyfatebol gan y Cyngor mewn perthynas â chynlluniau refeniw a chyfalaf o dan y Rhaglen Cydgyfeiriant.

10.7 Cronfa Costau Diswyddo i Wireddu Arbedion – darpariaeth ar gyfer ariannu costau diswyddo i wireddu arbedion cyllidol.

10.8 Hyfforddiant Canolog – perthnasol i ofynion cynlluniau rhaglen hyfforddi gweithwyr y Cyngor gan gynnwys cyfraniad tuag at gyllido cynllun Prentisiaethau a Chynllun Rheolwyr ac Arbenigwyr Yfory.

10.9 Reserfau Gwasanaethau Addysg – yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i allu ymateb yn bennaf i'r problemau ariannol cysylltiedig â gofynion 'Integreiddio', gofynion newidiol 'Anghenion Addysg Arbennig All Sirol', 'Cefnogi Ysgolion' a'r 'Cynllun Benthyciadau i Ysgolion'.

10.10 Mae Reserfau Economi a Chymuned yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i gynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth yn bennaf, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau'r cynlluniau ar wahân.

10.11 Mae Reserfau Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn bennaf yn cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant ac incwm anwastad (equalisation accounts) ynghyd â gofynion tebygol contractau.

10.12 Reserfau Ymgynghoriaeth Gwynedd – cynhwysir symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod sefyllfaoedd gwariant anwastad efo rhai meysydd gwaith ynghyd â gofynion cyflogaeth ychwanegol posib yn dilyn newidiadau i raglen waith y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.

10.13 Reserfau Amgylchedd - yn cynnwys amrywiol falansau sy'n perthyn i Drafnidiaeth, cynlluniau a weithredir ar sail partneriaeth, ble mae'n rhaid cyfrifo balansau cynlluniau ar wahân, ynghyd â gofynion yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Unedol, a symiau ar gyfer sefyllfaoedd gwariant anwastad.

10.14 Reserfau Tai ac Eiddo – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib ynghyd â chronfeydd amrywiol ar gyfer anghenion tai ac eiddo'r Cyngor.

10.15 Reserfau Gofal – cynnwys symiau a roddwyd o'r neilltu i warchod rhag sefyllfaoedd gwariant anwastad posib o ganlyniad i ofynion contractau.

10.16 Cronfa Trawsnewid Busnes – i gynorthwyo'r broses trawsnewid busnes, gwireddu arbedion a chynorthwyo cyflawni nod ac amcanion "Ffordd Gwynedd".

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O GRONFEYDD/ RESERFAU A GLUSTNODWYD (parhad)

10.17 Cronfa Buddsoddi i Arbed – Prosiect Rheoli Carbon – yn ariannu rhaglen waith y Prosiect Rheoli Carbon yn rhannol i gyflawni gostyngiad mewn allyriadau carbon ynghyd â chynhyrchu arbedion refeniw ariannol i'r Cyngor.

10.18 Cronfa Trawsffurfio / Cynllun y Cyngor – ar gyfer blaenoriaethau'r Cyngor ac ar gyfer newid trefniadau mewnol i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon ac ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion cyllidol parhaol.

10.19 Cronfa Grantiau Refeniw wedi eu hymrwymo – cynnwys grantiau refeniw a dderbyniwyd ac a ymrwymwyd ar gyfer defnydd yn y dyfodol.

10.20 Cronfa Gwasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Tai – swm a neilltuwyd ar gyfer rhai gofynion yn ymwneud a threfniadau carthffosiaeth, pibellau dŵr a gweithfeydd trin carthion ar stadau cyn tai cyngor, na fabwysiadwyd gan Dŵr Cymru.

10.21 Gwarant Amgylcheddol Tai – neilltuwyd ar gyfer ymhlygiadau posib o ganlyniad i roddi gwarant amgylcheddol i Adra, mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig a phenodol yn ymwneud â chynlluniau amgylcheddol ar dir stadau cyn tai cyngor.

10.22 Reserfau Technoleg Gwybodaeth – ar gyfer ymateb i ofynion yn y maes technoleg gwybodaeth gan gynnwys cronfa adnewyddu berthnasol ac i allu ymateb i batrymau gwariant anwastad.

10.23 Cronfa Cefnogi'r Strategaeth Ariannol – cronfa a sefydlwyd i gynorthwyo a chefnogi'r strategaeth ariannol y Cyngor.

10.24 Cronfa Maes Lles – darpariaeth ar gyfer ymdrin â phatrymau anwastad yn y gofynion perthnasol.

10.25 Trefniadau Partneriaethu – yn cynnwys symiau a neilltuwyd mewn perthynas â gofynion gwahanol drefniadau partneriaethu a chydweithio.

10.26 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – ar gyfer gofynion ac ymrwymiadau'r cynllun hybu economaidd perthnasol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (elfen Cyngor Gwynedd yn unig).

10.27 Cronfa Trosglwyddiadau Eiddo Treth Cyngor – darpariaeth gysylltiedig â'r colledion yn deillio o drosglwyddiadau eiddo o Dreth y Cyngor i Drethi Annomestig Cenedlaethol.

10.28 Cronfa Premiwm Treth Cyngor – darpariaeth yn deillio o Bremiwm Treth Cyngor ar gyfer cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, gan gynnwys y Strategaeth Dai.

10.29 Cronfa Trefniadau Adfer Sgil Covid-19 – darpariaeth ar gyfer adfer gwasanaethau yn sgil y pandemig.

10.30 Cronfa Strategaeth Ddigidol – Darpariaeth ar gyfer sicrhau fod anghenion digidol y Cyngor yn galluogi adrannau i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i drigolion Gwynedd.

10.31 Amrywiol Reserfau Eraill – yn cynnwys symiau a neilltuwyd ar gyfer amrywiol ymrwymiadau eraill.

## NODYN 11 – GWARIANT GWEITHREDOL ARALL

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| | **Praeseptau** | |
| 15,854 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | 17,017 |
| 2,547 | Cynghorau Cymuned | 2,654 |
| 18,401 | | 19,671 |
| | **Lefiau** | |
| 6,597 | Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 7,018 |
| 1,058 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | 1,059 |
| 119 | Byrddau Draenio Lleol | 121 |
| 0 | Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd | 62 |
| 7,774 | | 8,260 |
| 503 | (Enillion)/colledion ar waredu a dad-gydnabod asedau anghyfredol | (123) |
| **26,678** | **Cyfanswm** | **27,808** |

## NODYN 12 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 5,765 | Llog taladwy a thaliadau tebyg | 5,642 |
| 7,632 | Llog net ar yr ymrwymiadau (asedau) buddion pensiwn diffiniedig net | 6,954 |
| (556) | Llog derbyniadwy ac incwm tebyg | (1,841) |
| 282 | Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol | 332 |
| **13,123** | **Cyfanswm** | **11,087** |

## NODYN 13 – TRETH AC INCWM GRANT AMHENODOL

| 2021/22 £'000 | | *Nodyn* | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|
| (100,516) | Incwm Y Dreth Cyngor | *13a* | (104,710) |
| (41,974) | Trethi Annomestig | *13b* | (45,519) |
| (155,298) | Grantiau'r Llywodraeth heb eu clustnodi | *32* | (167,695) |
| (916) | Grantiau a Chyfraniadau Refeniw | *32* | 0 |
| (32,983) | Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf | *32* | (16,076) |
| **(331,687)** | **Cyfanswm** | | **(334,000)** |

## NODYN 13a - TRETH CYNGOR

Mae'r Cyngor yn penderfynu ar ei anghenion gwariant am y flwyddyn ac yn ei drosi i Dreth Cyngor Band D drwy ei rannu gyda chyfrifiad o'r nifer eiddo sydd ym mhob band Treth Cyngor a'u datgan yn nhermau nifer cyfatebol ym Mand D (Sylfaen y Dreth Cyngor). Yna, ychwanegir gofynion Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru at y swm yma i sefydlu'r Dreth Cyngor ar gyfer y Sir.

Cyfrifwyd Sylfaen y Dreth Cyngor ar gyfer 2022/23 fel a ganlyn:

**CYFRIFIAD SYLFAEN Y DRETH CYNGOR AR GYFER 2022/23**

| Band Prisio | Nifer Eiddo Cyfatebol yn dilyn gostyngiadau a phremiymau | Lluosogydd Statudol | Nifer cyfatebol Eiddo Band D |
|---|---|---|---|
| A* | 9 | 5/9 | 4.72 |
| A | 7,799 | 6/9 | 5,199.42 |
| B | 13,875 | 7/9 | 10,777.70 |
| C | 11,414 | 8/9 | 10,145.56 |
| D | 9,961 | 1 | 9,960.86 |
| E | 7,902 | 11/9 | 9,657.81 |
| F | 3,992 | 13/9 | 5,765.50 |
| G | 1,275 | 15/9 | 2,124.58 |
| H | 225 | 18/9 | 450.50 |
| I | 73 | 21/9 | 170.33 |
| | | **Cyfanswm** | 54,256.78 |
| | **Sylfaen y Dreth Gyngor ar ôl lwfans colledion casglu** | | 53,715.10 |

Rhoddir dadansoddiad o'r incwm net, sy'n deillio i'r Cyngor, isod:

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| (101,672) | Treth Cyngor a godwyd | (105,392) |
| 1,156 | **Llai** Cynnydd yn y lwfans amhariad ar gyfer diffyg casgliad | 682 |
| **(100,516)** | | **(104,710)** |

## NODYN 13b - TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL

Fe reolir Trethi Annomestig Cenedlaethol ("Treth Busnes") gan y Llywodraeth ond awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ei gasglu a'i dalu i gronfa ganolog a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Maent hwythau wedyn yn dosrannu symiau o'r gronfa yma i awdurdodau lleol ar sail poblogaeth.

Mae'r Llywodraeth yn pennu swm y Dreth Annomestig Genedlaethol am y flwyddyn (53.5c yn 2022/23) a luosir gyda gwerth trethiannol yr eiddo. Yn amodol ar effaith trefniadau dros dro a rhai gostyngiadau eraill, dyma fydd y swm a delir gan y trethdalwr.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23 roedd yna 9,698 eiddo ar y rhestr brisio leol yng Ngwynedd, yn cynrychioli gwerth trethiannol o £114,889,252.

Rhoddir isod ddadansoddiad o'r incwm net cronedig i'r Cyngor o'r Trethi Annomestig:

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| (41,433) | Trethi Annomestig a godwyd | (42,248) |
| 455 | Lwfans Costau Casglu | 445 |
| 956 | Darpariaeth Dyledion Drwg | 4 |
| 40,022 | Swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol | 41,799 |
| 0 | | 0 |
| (41,974) | Derbyniadau o'r Gronfa Genedlaethol | (45,519) |
| **(41,974)** | **Incwm net o'r Trethi Annomestig** | **(45,519)** |

## NODYN 14 – CYFRIF INCWM A GWARIANT RHEOLAETH ADEILADAU

Mae'r gwariant ac incwm ar y cyfrif yma yn perthyn i'r gwaith rheoliadau adeiladau ar wirio a goruchwylio, ac yn cynnwys ystyried unrhyw achos gorfodaeth ond nid y gwaith o roi rhybuddion statudol o dan y Ddeddf Adeiladu 1984.

Disgwylir i'r cyfrif adennill y costau dros raglen dreigl tair blynedd, ac mae'r gofynion yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Bu colled yn 2022/23, felly adroddir ar golled cronedig dros gyfnod o dair blynedd.

| **2022/23** | **£'000** |
|---|---|
| Cyfanswm incwm ffioedd a dderbyniwyd (ag eithrio TAW) | (380) |
| Cyfanswm gwariant | 515 |
| (Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2022/23 | 135 |
| (Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2021/22 | 68 |
| (Gwarged)/Diffyg ar gyfer 2020/21 | 10 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar gyfer y tair mlynedd diwethaf** | **213** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

### Symudiadau ar Falansau Eiddo, Offer a Chyfarpar

Symudiadau yn 2022/23:

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Asedau Gweddilliol | Asedau heb eu Cwblhau | Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.22 | 353,238 | 40,654 | 687 | 2,261 | 19 | 396,859 |
| Ychwanegiadau | 11,840 | 6,107 | 0 | 26 | 0 | 17,973 |
| Gwerthiannau | (166) | (1,785) | 0 | 0 | 0 | (1,951) |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | (47) | 0 | (47) |
| Ailbrisio - i'r Reserf Ailbrisio | 20,946 | 0 | 0 | (44) | 0 | 20,902 |
| Ailbrisio - i'r Gwasanaethau | (1,608) | 0 | 0 | 1 | 0 | (1,607) |
| **Balans ar 31.03.23** | **384,250** | **44,976** | **687** | **2,197** | **19** | **432,129** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.22 | 1,897 | 18,147 | 8 | (1) | 0 | 20,051 |
| Dibrisiant yn y flwyddyn | 6,805 | 5,056 | 2 | 12 | 0 | 11,875 |
| Gwerthiannau | 0 | (1,785) | 0 | 0 | 0 | (1,785) |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | (7,114) | 0 | 0 | (12) | 0 | (7,126) |
| **Balans ar 31.03.23** | **1,588** | **21,418** | **10** | **(1)** | **0** | **23,015** |
| **Amhariad** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.22 | 11,196 | 20 | 97 | 5 | 0 | 11,318 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbrisio | 383 | 0 | 0 | 0 | 0 | 383 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau | 2,196 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,196 |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | (1,049) | 0 | 0 | 0 | 0 | (1,049) |
| **Balans ar 31.03.23** | **12,726** | **20** | **97** | **5** | **0** | **12,848** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2023** | **369,936** | **23,538** | **580** | **2,193** | **19** | **396,266** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2022** | **340,145** | **22,487** | **582** | **2,257** | **19** | **365,490** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Symudiadau Cymharol yn 2021/22:

| | Tir ac Adeiladau | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | Asedau Cymunedol | Asedau Gweddilliol | Asedau heb eu Cwblhau | Cyfanswm Eiddo, Offer a Chyfarpar |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwerth** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.21 | 333,364 | 53,198 | 687 | 2,218 | 19 | 389,486 |
| Ychwanegiadau | 10,651 | 7,676 | 0 | 28 | 0 | 18,355 |
| Gwerthiannau | (3,220) | (20,220) | 0 | 0 | 0 | (23,440) |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 74 | 0 | 74 |
| Ailbrisio - i'r Reserf Ailbrisio | 11,484 | 0 | 0 | 111 | 0 | 11,595 |
| Ailbrisio - i'r Gwasanaethau | 959 | 0 | 0 | (170) | 0 | 789 |
| **Balans ar 31.03.22** | **353,238** | **40,654** | **687** | **2,261** | **19** | **396,859** |
| **Dibrisiant** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.21 | 3,932 | 33,496 | 6 | 14 | 0 | 37,448 |
| Dibrisiant yn y flwyddyn | 6,679 | 4,707 | 2 | 15 | 0 | 11,403 |
| Gwerthiannau | (92) | (20,056) | 0 | 0 | 0 | (20,148) |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ailbrisio | (8,622) | 0 | 0 | (30) | 0 | (8,652) |
| **Balans ar 31.03.22** | **1,897** | **18,147** | **8** | **(1)** | **0** | **20,051** |
| **Amhariad** | | | | | | |
| Balans ar 1.04.21 | 18,315 | 68 | 97 | 21 | 0 | 18,501 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Reserf Ailbrisio | 343 | 0 | 0 | 0 | 0 | 343 |
| Amhariad yn y flwyddyn - i'r Gwasanaethau | 2,936 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,936 |
| Gwerthiannau | (2,435) | (48) | 0 | 0 | 0 | (2,483) |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 1 |
| Ailbrisio | (7,963) | 0 | 0 | (17) | 0 | (7,980) |
| **Balans ar 31.03.22** | **11,196** | **20** | **97** | **5** | **0** | **11,318** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2022** | **340,145** | **22,487** | **582** | **2,257** | **19** | **365,490** |
| **Gwerth Net 31 Mawrth 2021** | **311,117** | **19,634** | **584** | **2,183** | **19** | **333,537** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

Prisiwyd eiddo gweithredol y Cyngor gan Uwch Syrfewr Stadau (M.R.I.C.S) y Cyngor yn unol â'r polisïau a nodwyd yn rhan 1.17 o Nodyn 1 o'r Polisïau Cyfrifo ac eiddo an-weithredol (gweddilliol) yn unol â 1.15. Noder fod y Cyngor wedi sefydlu rhaglen dreigl ar gyfer ailbrisio gwahanol gategorïau o'r asedau yma yn flynyddol.

Gweler nodyn 1.17 hefyd ar gyfer sail dibrisio'r gwahanol gategorïau o asedau.

Defnyddir 11 ysgol sydd o dan lywodraethiant eglwysig gan yr Adran Addysg, gyda 10 o'r adeiladau heb eu cynnwys yn y tabl uchod oherwydd nad ydynt yn eiddo i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw'r adeiladau yma ond nid yw'r symiau yn sylweddol. Mae Ysgol Cae Top ym Mangor yn cael ei ystyried ar hyn o bryd fel ased y Cyngor yn ein cyfrifon, ac nid fel ysgol eglwysig. Mae statws cyfreithiol yr ased yn destun adolygiad cyfreithiol a all effeithio'r driniaeth yn y cyfrifon yn y dyfodol.

Dangosir y ffyrdd o gyllido'r asedau a brynwyd yn ystod y flwyddyn gyda'r wybodaeth ar wariant cyfalaf yn yr adroddiad naratif.

**Isadeiladwaith**

Yn unol â'r Rhyddhad Dros Dro roddwyd yn y Côd ar asedau isadeiladwaith nid yw'r nodyn hwn yn cynnwys datgeliad o gost gros a dibrisiad cronedig i asedau isadeiladwaith oherwydd golyga ymarferion adrodd hanesyddol a'r diffygion yn y wybodaeth o ganlyniad na fyddai hynny'n cynrychioli'n ffyddlon sefyllfa'r ased i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

Dewisodd y Cyngor i beidio datgelu'r wybodaeth oherwydd bod ymarferion adrodd blaenorol a'r diffygion yn y wybodaeth o ganlyniad yn golygu nad yw'r cost gros a'r dibrisiad cronedig wedi ei fesur yn fanwl gywir ac ni fasai'n darparu sail i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol i gymryd penderfyniadau economeg ac eraill yn ymwneud ag asedau isadeiladwaith.

Mae asedau isadeiladwaith yn cael eu dangos ar y fantolen ar gost hanesyddol a ddibriswyd. Gwnaethpwyd ychwanegiadau yn y flwyddyn ac yn unol â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu)(Cymru)(Diwygio) 2022 mae gwerth unrhyw gydran o'r asedau Isadeiladwaith a ddisodlwyd wedi ei drin fel dim ac felly mae'r gwerth dadgydnabod yn ddim.

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Gwerth Net ar 1af Ebrill** | **162,437** | **168,610** |
| Ychwanegiadau | 12,144 | 14,411 |
| Dadgydnabod | 0 | 0 |
| Dibrisiant | (5,971) | (6,275) |
| **Gwerth Net ar 31 Mawrth** | **168,610** | **176,746** |

**Gwerth Net Asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar**

| **Asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar** | 2021/22<br>£'000 | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| Isadeiladwaith | 168,610 | 176,746 |
| Asedau EOCh Eraill | 365,490 | 396,266 |
| **Cyfanswm Net ar 31 Mawrth** | **534,100** | **573,012** |

## NODYN 15 – EIDDO, OFFER A CHYFARPAR (parhad)

### Ymrwymiadau Cyfalaf

Roedd yr ymrwymiadau o sylwedd ar gytundebau cyfalaf ar 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

| | Swm | Taliadau hyd yma | Balans |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cae Chwarae Pob Tywydd – Plas Silyn | 579 | 269 | 310 |
| Hostel Digartrefedd – Glanwnion | 716 | 499 | 217 |
| Hostel Digartrefedd – Banc Nat West, Caernarfon | 391 | 111 | 280 |
| Ysgol Treferthyr, Cricieth | 6,724 | 93 | 6,631 |

## NODYN 16 – EIDDO BUDDSODDI

Mae'r eitemau canlynol o incwm a chostau wedi eu cymryd i ystyriaeth yn y llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm rhent o eiddo buddsoddi | 7 | 7 |
| Enillion/(colledion) net | **7** | **7** |

Nid oes cyfyngiadau ar allu'r Cyngor i adnabod gwerth ei eiddo buddsoddi, nac ychwaith ar hawl y Cyngor i'r incwm a'r elw sy'n deillio o'r gwerthiant. Nid oes gan y Cyngor unrhyw ymrwymiad cytundebol i brynu, adeiladu na datblygu eiddo buddsoddi na'i atgyweirio, cynnal na'i wella.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r symudiad yng ngwerth teg yr eiddo buddsoddi yn ystod y flwyddyn:

| | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Balans 1 Ebrill** | **165** | **165** |
| Gwarediadau | 0 | 0 |
| Elw/(colled) net o addasiadau gwerth teg | 0 | 0 |
| Trosglwyddiadau: | | |
| (i)/o Eiddo, Offer a Chyfarpar | 0 | 0 |
| **Balans 31 Mawrth** | **165** | **165** |

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL

### (i) Offerynnau Ariannol - Dosbarthiadau

Diffinnir offeryn ariannol fel unrhyw gytundeb sydd yn creu ased ariannol mewn un endid ac ymrwymiad ariannol neu offeryn ecwiti mewn endid arall. Nid yw trafodion nad ydynt yn cael eu cyfnewid, megis rhai sy'n ymwneud â threthi a grantiau'r llywodraeth, yn gyfystyr ag offerynnau ariannol.

### Ymrwymiadau Ariannol

Mae ymrwymiad ariannol yn ddyletswydd i drosglwyddo buddion economaidd a reolir gan y Cyngor, a all gynrychioli dyletswydd gytundebol i gyflwyno arian parod neu asedau ariannol, neu ddyletswydd i gyfnewid ymrwymiadau ac asedau ariannol gydag endid arall sydd o bosib yn anffafriol i'r Cyngor.

Mae ymrwymiadau ariannol y Cyngor nad ydynt yn ddeilliadol yn ystod y flwyddyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i amorteiddio, ac yn cynnwys:

- benthyciadau tymor hir gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a benthycwyr masnachol
- Trefniant Consesiwn Gwasanaeth (cytundebau Menter Cyllid Preifat (MPC)) a fanylir yn Nodyn 41
- gorddrafft gyda Banc Barclays ccc
- prydlesau cyllidol a fanylir yn Nodyn 35
- taliadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a dderbyniwyd

### Asedau Ariannol

Mae ased ariannol yn golygu hawl i fuddion economaidd yn y dyfodol a reolir gan y Cyngor. Fe'i cynrychiolir gan arian parod, offerynnau ecwiti neu hawl cytundebol i dderbyn arian parod neu ased ariannol arall, neu hawl i gyfnewid asedau ac ymrwymiadau ariannol gyda endid arall sydd yn ffafriol i'r Cyngor. Mae'r asedau ariannol a ddaliwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyfrifo o fewn y tri dosbarth a ganlyn:

Cost wedi'i amorteiddio (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny) yn cynnwys:

- arian parod
- cyfrifon banc a chyfrifon adnau
- adneuon cyfnod penodol gyda Llywodraeth y DU, banciau a chymdeithasau adeiladu
- benthyciadau i awdurdodau lleol eraill
- benthyciadau i gwmnïoedd bach
- derbyniadau masnach am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwyd

Gwerth teg trwy incwm cynhwysfawr arall (ble mae'r llif arian yn daliadau prifswm a llog yn unig, ac mai cynllun busnes y Cyngor yw i gasglu'r llif arian hynny yn ogystal â gwerthu'r offeryn; a buddsoddiadau ecwiti mae'r Cyngor wedi eu rhoi'n y categori hwn) yn cynnwys:

- bond cyfun, ecwiti a chronfeydd eiddo a ddelir fel buddsoddiadau strategol

Gwerth teg trwy elw a cholled (asedau ariannol eraill) yn cynnwys:

- cronfeydd marchnadoedd arian

Dangosir asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio yn net o lwfans colled sydd yn adlewyrchu'r tebygolrwydd ystadegol na fydd y benthyciwr neu'r dyledwr yn gallu cyflawni ei ymrwymiadau cytundebol i'r Cyngor.

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### (ii) Offerynnau Ariannol – Balansau

Mae'r ymrwymiadau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| **Ymrwymiadau Ariannol** | **Tymor Hir** | | **Tymor Byr** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2022** | **31 Mawrth 2023** | **31 Mawrth 2022** | **31 Mawrth 2023** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| *Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm a fenthycwyd | 101,807 | 100,885 | 1,573 | 1,161 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 482 | 456 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **101,807** | **100,885** | **2,055** | **1,617** |
| *Benthyciadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Gorddrafft banc | 0 | 0 | 21,700 | 18,213 |
| **Cyfanswm Arian a Ordynnwyd** | **0** | **0** | **21,700** | **18,213** |
| *Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prydlesau cyllidol | 1,189 | 997 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau Tymor Hir** | **1,189** | **997** | **0** | **0** |
| *Ymrwymiadau ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Dyledion masnachol | 0 | 0 | 28,006 | 31,966 |
| Prydlesau cyllidol | 0 | 0 | 181 | 192 |
| **Cynhwyswyd o fewn Credydwyr *** | **0** | **0** | **28,187** | **32,158** |
| **Cyfanswm yr Ymrwymiadau Ariannol** | **102,996** | **101,882** | **51,942** | **51,988** |

* Mae llinell credydwyr tymor byr ar y Fantolen yn cynnwys £106,059,000 (2022: £66,871,000) o gredydwyr (Nodyn 21) nad ydynt yn cyfateb i'r diffiniad o ymrwymiad ariannol.

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae'r asedau ariannol a ddatgelir yn y Fantolen yn cael eu dadansoddi yn unol â'r categorïau a ganlyn:

| Asedau Ariannol | Tymor Hir 31 Mawrth 2022 £'000 | Tymor Hir 31 Mawrth 2023 £'000 | Tymor Byr 31 Mawrth 2022 £'000 | Tymor Byr 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm | 17 | 17 | 70,000 | 81,000 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 17 | 208 |
| Lwfans colled | 0 | 0 | (3) | (12) |
| *Ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall:* | | | | |
| Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy ICA | 0 | 0 | 9,845 | 8,655 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **17** | **17** | **79,859** | **89,851** |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Prifswm | 0 | 0 | 1,066 | 2,035 |
| Llog cronedig | 0 | 0 | 2 | 11 |
| Lwfans colled | 0 | 0 | 0 | (1) |
| *Ar werth teg drwy elw a cholled:* | | | | |
| Gwerth teg | 0 | 0 | 17,000 | 60,835 |
| **Cyfanswm Arian a Chyfwerthoedd Arian** | **0** | **0** | **18,068** | **62,880** |
| *Ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | |
| Derbyniadau Masnachol | 3,989 | 4,335 | 22,413 | 23,738 |
| **Cynhwyswyd o fewn Dyledwyr *** | **3,989** | **4,335** | **22,413** | **23,738** |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **4,006** | **4,352** | **120,340** | **176,469** |

* Mae llinell tymor byr dyledwyr ar y Fantolen yn cynnwys £66,646,000 (2022: £84,632,000) o ddyledwyr (Nodyn 18) nad ydynt yn cwrdd â'r diffiniad o ased ariannol.

### Benthyciadau Meddal Materol

Mae gan Awdurdodau Lleol yr hawl i roi benthyciadau am resymau polisi yn hytrach na fel offerynnau ariannol, ac fe all y benthyciadau yma fod yn ddi-log neu ar gyfraddau is na chyfraddau cyffredinol y farchnad. Pan mae benthyciadau yn cael eu dyroddi ar gyfradd is na chyfradd y farchnad maent yn cael eu hadnabod fel "Benthyciadau Meddal".

Mae gwerth teg y benthyciadau meddal yma yn llai na chyfanswm yr arian a fenthycwyd. Mae gwerth teg benthyciad, sy'n cael ei roi yn ddi-log neu ar gyfradd is na chyfradd gyffredinol y farchnad, yn cael ei amcangyfrif fel gwerth presennol holl dderbyniadau arian y dyfodol wedi ei ddisgowntio yn defnyddio cyfradd llog y farchnad gyffredinol ar gyfer offeryn cyffelyb. Mae'r gwahaniaeth rhwng y swm a fenthycir a gwerth teg y benthyciad yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant. Mae Côd Ymarfer 2022/23 yn gosod gofynion cyfrifeg a datgeliad penodol ar gyfer benthyciadau meddal. Yn ystod 2022/23 fe adnabu Cyngor Gwynedd y "benthyciadau meddal" canlynol:

- Taliadau Gohiriedig am daliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.23 £2,002,934, 31.03.22 £1,977,070)
- Benthyciadau Ceir a Beiciau i weithwyr (cyfanswm yn ddyledus ar 31.03.23 £817,204, 31.03.22 £866,090)

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### Offerynnau ecwiti wedi dewis i gyfrifo drwy werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall

Mae'r Cyngor wedi dewis i gyfrifo am y buddsoddiadau canlynol mewn offerynnau ecwiti ar sail gwerth teg drwy incwm cynhwysfawr arall oherwydd eu bod yn fuddsoddiad strategol tymor hir gyda'r newidiadau yn eu gwerth teg ddim yn cael ei gynnwys fel rhan o berfformiad ariannol blynyddol y Cyngor.

| | Gwerth Teg | | Difidendau | |
|---|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 | 2021/22 | 2022/23 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| CCLA LAMIT Property Fund | 5,180 | 4,326 | 167 | 188 |
| Ninety One Diversified Income Fund | 1,182 | 1,119 | 49 | 47 |
| Schroder Income Maximiser Fund | 2,226 | 2,109 | 143 | 159 |
| Aegon Diversified Monthly Income Fund | 1,257 | 1,101 | 64 | 64 |
| **CYFANSWM** | **9,845** | **8,655** | **423** | **458** |

### Gwrthbwyso Asedau ac Ymrwymiadau Ariannol

Mae asedau ac ymrwymiadau ariannol yn cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ble mae gan y Cyngor hawl gorfodol cyfreithiol i wrthbwyso ac yn bwriadu setlo ar sail net, neu i wireddu'r asedau a setlo'r ymrwymiadau yn gydamserol. Mae'r tabl isod yn dangos yr offerynnau hynny sydd wedi cael eu gosod yn erbyn ei gilydd ar Y Fantolen. Nid oedd gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol eraill oedd yn destun i drefniant gorfodol neu drefniant tebyg.

| | 31 Mawrth 2022 | | | 31 Mawrth 2023 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau gros (ymrwymiadau) | (Ymrwymiadau) asedau wedi eu gwrthbwyso | Sefyllfa net Y Fantolen | Asedau gros (ymrwymiadau) | (Ymrwymiadau) asedau wedi eu gwrthbwyso | Sefyllfa net Y Fantolen |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfrifon banc mewn credyd | 72,491 | (72,491) | 0 | 130,317 | (130,317) | 0 |
| **Cyfanswm Asedau Ariannol** | **72,491** | **(72,491)** | **0** | **130,317** | **130,317** | **0** |
| Gorddrafft banc | (94,191) | 72,491 | (21,700) | (148,530) | 130,317 | (18,213) |
| **Cyfanswm Ymrwymiadau Ariannol** | **(94,191)** | **72,491** | **(21,700)** | **(148,530)** | **130,317** | **(18,213)** |

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### (iii) Offerynnau Ariannol – Enillion a Cholledion

Mae'r enillion a cholledion a nodir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn perthynas â'r offerynnau ariannol yn cynnwys yr eitemau a ganlyn:

| | Ymrwymiadau Ariannol | Asedau Ariannol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cost wedi'i Amorteiddio | Cost wedi'i Amorteiddio | Wedi ethol Gwerth Teg drwy ICA | Gwerth Teg drwy Elw a Cholled | 2022/23 Cyfanswm | 2021/22 Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Costau llog | 5,462 | 0 | 0 | 0 | 5,462 | 5,765 |
| **Llog taladwy a ffioedd tebyg** | **5,462** | **0** | **0** | **0** | **5,462** | **5,765** |
| Incwm llog | 0 | (832) | 0 | 0 | (832) | (122) |
| Incwm difidendau | 0 | 0 | (458) | (551) | (1,009) | (434) |
| **Incwm y llog a'r buddsoddiad** | **0** | **(832)** | **(458)** | **(551)** | **(1,841)** | **(556)** |
| Lwfans colled | 0 | 332 | 0 | 0 | 332 | 282 |
| **Addasiadau i ddarpariaethau a gwerth teg offerynnau ariannol** | **0** | **332** | **0** | **0** | **332** | **282** |
| **Effaith net ar (Gwarged)/ Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **5,462** | **(500)** | **(458)** | **(551)** | **3,953** | **5,491** |
| Enillion wrth ailbrisio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | (992) |
| Colledion wrth ailbrisio | 0 | 0 | 1,190 | 0 | 1,190 | 62 |
| **Effaith ar incwm cynhwysfawr arall** | **0** | **0** | **1,190** | **0** | **1,190** | **(930)** |
| **(Enillion)/colledion net y flwyddyn** | **5,462** | **(500)** | **732** | **(551)** | **5,143** | **4,561** |

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### (iv) Offerynnau Ariannol – Gwerthoedd Teg

Gwerth teg offeryn ariannol yw'r pris a fyddai'n cael ei dderbyn wrth werthu ased, neu'r pris a fyddai'n cael ei dalu wrth drosglwyddo ymrwymiad, i gyfranogwr arall yn y farchnad mewn trafodyn hyd braich. Pan fydd ymrwymiadau'n cael eu dal fel ased gan barti arall, fel benthyca'r cyngor, amcangyfrifir y gwerth teg o safbwynt y deilydd.

Mae offerynnau ariannol, ar wahân i'r rhai gyda chost wedi ei amorteiddio, wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg. Ar gyfer y mwyafrif o asedion, yn cynnwys cronfeydd cyfun a chyfranddaliadau mewn cronfeydd marchnadoedd arian, mae'r gwerth teg yn deillio o bris y farchnad.

Mae offerynnau ariannol gyda chost wedi ei amorteiddio wedi eu cynnwys yn y Fantolen ar sail cost wedi'i amorteiddio. Amcangyfrifir eu gwerth teg trwy gyfrifo'r gwerth net presennol o'r llifau arian cytundebol sy'n weddill ar 31 Mawrth 2023, gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

- Mae benthyciadau'r Cyngor wedi eu prisio trwy ddisgowntio'r llifau arian cytundebol dros fywyd yr offeryn ar gyfradd y farchnad sydd yn addas i fenthyciadau awdurdodau lleol.
- Mae gwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau tymor hir eraill wedi eu disgowntio ar gyfraddau'r farchnad ar gyfer offerynnau cyffelyb sydd â chyfnod ad-dalu cyffelyb yn weddill ar 31 Mawrth.
- Mae gwerth teg gwarantau ariannol wedi eu amcanu yn seiliedig ar y tebygolrwydd y caiff y gwarantau eu galw a'r taliadau tebygol.
- Mae gwerth teg asedau ac ymrwymiadau prydlesau cyllidol ac ymrwymiadau Menter Cyllid Preifat (PFI) wedi eu cyfrifo trwy ddisgowntio'r llifau arian cytundebol (ag eithrio'r elfen tâl am wasanaeth) ar gynnyrch priodol bondiau corfforaethol o radd AA.
- Ni chydnabyddir ad-daliadau cynnar nac amhariadau ar gyfer offerynnau ariannol.
- Rhagdybir bod gwerth teg offerynnau tymor byr, gan gynnwys dyledion a derbyniadau masnachol, yn cyfateb yn agos i'r swm cario, o ystyried y sefyllfa llog isel sydd ohoni.

Dengys y gwerthoedd teg yn y tabl isod, wedi eu rhannu yn unol â'u lefel yn yr hierarchaeth gwerth teg:

- Lefel 1 – gwerth teg sydd yn deillio o brisiau a ddyfynnwyd mewn marchnadoedd gweithredol am asedau neu ymrwymiadau yr un fath, e.e. prisiau bondiau
- Lefel 2 – gwerth teg sydd wedi ei gyfrifo yn seiliedig ar fewnbynnau yn hytrach na prisiau a ddyfynnwyd ar gyfer yr ased neu ymrwymiad, e.e. cyfraddau llog neu gynnyrch am offerynnau tebyg
- Lefel 3 – gwerth teg sydd wedi'i bennu trwy ddefnyddio mewnbynnau na ellir eu harsylwi, e.e. data nad yw'n y farchnad fel rhagolwg llif arian neu amcan teilyngdod credyd

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

| | Lefel Gwerth Teg | Mantolen 31 Mawrth 2022 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2022 £'000 | Mantolen 31 Mawrth 2023 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| *Ymrwymiadau Ariannol ar gost wedi'i amorteiddio* | | | | | |
| Benthyciadau gan PWLB | 2 | (85,975) | (137,276) | (84,639) | (92,940) |
| Benthyciadau arall | 2 | (17,887) | (25,255) | (17,863) | (16,117) |
| Prydlesau cyllidol | 2 | (1,370) | (1,559) | (1,189) | (1,230) |
| **CYFANSWM** | | **(105,232)** | **(164,090)** | **(103,691)** | **(110,287)** |
| Ymrwymiadau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos * | | (49,706) | | (50,179) | |
| **CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL** | | **(154,938)** | | **(153,870)** | |
| *Wedi ei gofnodi ar y Fantolen fel:* | | | | | |
| Credydwyr tymor byr | | (28,006) | | (31,966) | |
| Benthyciadau tymor byr | | (2,055) | | (1,617) | |
| Arian a Ordynnwyd tymor byr | | (21,700) | | (18,213) | |
| Prydlesau cyllidol tymor byr | | (181) | | (192) | |
| Benthyciadau tymor hir | | (101,807) | | (100,885) | |
| Prydlesau cyllidol tymor hir | | (1,189) | | (997) | |
| **CYFANSWM YMRWYMIADAU ARIANNOL** | | **(154,938)** | | **(153,870)** | |

* Rhagdybir bod gwerth teg ymrwymiadau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys dyledion masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario.

Mae gwerth teg benthyciadau gan y PWLB yn uwch na'r swm cario gan fod portffolio benthyciadau'r Cyngor yn cynnwys nifer o fenthyciadau sydd â chyfradd llog taladwy sy'n uwch na'r cyfraddau llog sydd ar gael ar gyfer benthyciadau cyffelyb ar ddyddiad y Fantolen. Mae benthyciadau eraill yn is na'r swm cario ar y Fantolen gan fod y llog taladwy yn is na'r cyfraddau cyfredol sydd ar gael ar gyfer benthyciadau tebyg ar dyddiad y Fantolen.

## NODYN 17a – OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

| | Lefel Gwerth Teg | Mantolen 31 Mawrth 2022 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2022 £'000 | Mantolen 31 Mawrth 2023 £'000 | Gwerth Teg 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| *Gwerth teg offerynnau ariannol:* | | | | | |
| Cronfeydd marchnadoedd arian | 1 | 17,000 | 17,000 | 60,835 | 60,835 |
| Cronfeydd bondidau, ecwiti ac amrywiol | 1 | 4,665 | 4,665 | 4,329 | 4,329 |
| Cronfeydd eiddo | 2 | 5,180 | 5,180 | 4,326 | 4,326 |
| *Asedau ariannol ar gost wedi'i amorteiddio:* | | | | | |
| Stoc trysorlys | 1 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| **CYFANSWM** | | **26,862** | **26,862** | **69,507** | **69,507** |
| Asedau ble nad ydi gwerth teg yn cael ei ddangos * | | 97,484 | | 111,314 | |
| **CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL** | | **124,346** | | **180,821** | |
| *Wedi ei gofnodi ar y mantolen fel:* | | | | | |
| Dyledwyr tymor hir | | 3,989 | | 4,335 | |
| Buddsoddiadau tymor hir | | 17 | | 17 | |
| Dyledwyr tymor byr | | 22,413 | | 23,738 | |
| Buddsoddiadau tymor byr | | 79,859 | | 89,851 | |
| Arian a chyfwerthoedd arian | | 18,068 | | 62,880 | |
| **CYFANSWM ASEDAU ARIANNOL** | | **124,346** | | **180,821** | |

* Rhagdybir bod gwerth teg asedau ariannol tymor byr, a ddelir ar gost wedi ei amorteiddio, gan gynnwys derbyniadau masnachol, yn gyfystyr â'r gwerth i'w gario.

Mae cronfeydd eiddo bellach yn cael eu hystyried yn lefel 2 gan fod y pris cyhoeddedig yn bris a ddyfynnwyd mewn marchnad anweithredol lle mae ychydig neu ddim masnachu i mewn ac allan o'r gronfa.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Côd Ymarfer ar Reolaeth y Trysorlys CIPFA â'r Côd Darbodus Ariannu Cyfalaf Awdurdodau Lleol, y ddau wedi ei ddiwygio Rhagfyr 2021.

Yn unol â'r Côd Rheolaeth y Trysorlys, mae'r Cyngor yn cymeradwyo Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys cyn i bob blwyddyn ariannol newydd gychwyn. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Offerynnau Ariannol. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys, sy'n manylu ar y trefniadau ymarferol i'w dilyn i reoli'r risgiau hynny.

Mae'r Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn cynnwys Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yn unol ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol. Pwysleisia'r Arweiniad hwn y dylid rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd, yn hytrach na chynnyrch. Mae Strategaeth Trysorlys y Cyngor, ynghyd â'i Ymarferion Rheolaeth y Trysorlys yn seiliedig ar chwilio am y gyfradd adennill uchaf posib sy'n gyson â'r lefelau priodol o sicrwydd a hylifedd.

Mae hyn yn cynnwys y prif risgiau a ganlyn:

- *Risg Credyd:* Y posibilrwydd y bydd un parti mewn offeryn ariannol yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau cytundebol, gan beri colled i'r Cyngor.
- *Risg Hylifedd:* Y posibilrwydd na fydd y Cyngor yn gallu codi digon o arian i ddiwallu'r ymrwymiad ariannol ar amser.
- *Risg y Farchnad:* Y posibilrwydd o golled ariannol oherwydd newidiadau i'r cyfraddau llog, prisiau'r farchnad ac ati.

**Risg Credyd: Buddsoddiadau**

Mae'r Cyngor yn rheoli risg credyd drwy sicrhau bod ei holl fuddsoddiadau'n cael eu gwneud gyda sefydliadau sydd ag ansawdd credyd uchel, fel y nodir yn Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys. Mae'r rhain yn cynnwys endidau masnachol gydag isafswm statws credyd hirdymor o A-, Llywodraeth y DU ac awdurdodau lleol eraill heb statws credyd y mae'r Cyngor wedi derbyn cyngor buddsoddi annibynnol arnynt. Gan gydnabod nad yw credyd-raddio bob amser yn medru rhagweld diffygdalu, mae'r Cyngor hefyd yn ystyried mesurau eraill gan gynnwys cyfnewid diffygdalu credyd a phrisiau ecwiti wrth ddewis sefydliadau masnachol ar gyfer buddsoddi.

Yn ystod 2022/23 gosodwyd uchafswm o £5m o swm yr holl bortffolio y gellid ei fuddsoddi gyda gwrth barti unigol (heblaw llywodraeth y DU). Defnyddiwyd terfyn o £10m ar gyfer awdurdodau lleol, buddsoddiadau â sicrwydd, cronfeydd marchnad arian, cronfeydd cyfun strategol ac ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real. Ni ellir buddsoddi mwy na chyfanswm o £20m am gyfnod hwy na blwyddyn.

Nid yw'r Cyngor yn dal gwarant gyfochrog yn erbyn unrhyw fuddsoddiadau.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Ceir crynodeb yn y tabl isod o werth risg credyd portffolio buddsoddi'r Cyngor fesul cyfradd credyd:

| | Tymor Byr | |
|---|---|---|
| **Cyfradd Credyd** | **31 Mawrth 2022 £'000** | **31 Mawrth 2023 £'000** |
| AAA (Cronfeydd Marchnad Arian) | 17,000 | 60,835 |
| AA+ | 0 | 0 |
| AA | 0 | 0 |
| AA- | 5,000 | 0 |
| A+ | 0 | 10,000 |
| A | 18,020 | 19,005 |
| A- | 0 | 0 |
| Llywodraeth y DU | 18,000 | 34,000 |
| Awdurdodau lleol heb eu graddio | 30,011 | 20,000 |
| **Cyfanswm (Prifswm)** | **70,014** | **143,840** |
| Cronfeydd wedi'u cyfuno* | 9,845 | 8,655 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | **79,859** | **152,495** |

* Nid yw risg credyd yn berthnasol i gyfranddaliad a chronfeydd wedi'u cyfuno lle nad oes gan y Cyngor hawl gytundebol i gal unrhyw swm o arian.

Mae ffigurau 31 Mawrth 2022 wedi'u hailddatgan i gynnwys yr arian a'r chyfwerthoedd arian yn y portffolio buddsoddi.

Mae lwfansau colled ar fuddsoddiadau'r trysorlys ac arian a chyfwerthoedd arian wedi eu cyfrifo trwy gyfeirio at ddata rhagosodiad hanesyddol gyhoeddwyd gan asiantaethau statws credyd, wedi ei luosi gyda 112% (2022: 67%) i ystyried yr hinsawdd economaidd gyfredol ac i'r dyfodol. Rhagdybir y bydd oediad o ddwy flynedd yn y llifau arian mewn achos o ddiffygdalu. Mae buddsoddiadau wedi dioddef cynnydd sylweddol mewn risg credyd ac wedi eu israddio gan dri neu mwy o nodlau statws credyd, neu gyfatebol, ers y gydnabyddiaeth gychwynnol, onibai eu bod yn dal sgôr credyd gradd buddsoddi. Ystyrir hwy â nam ar eu credyd os wedi eu dyfarnu â sgôr credyd "D" neu gyfatebol. Ar 31 Mawrth 2023, roedd £13,845 (2022: £3,670) o lwfansau colled yn perthyn i fuddsoddiadau'r trysorlys.

### Risg Credyd: Derbyniadau Masnachol

Mae proffil oedran y balans masnachol yn ein system dyledwyr ar 31 Mawrth wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:-

| **31 Mawrth 2022** | | **31 Mawrth 2023** |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 8,294 | Llai na blwyddyn | 9,123 |
| 2,679 | Dros flwyddyn | 2,424 |
| **10,973** | | **11,547** |

Mae profiad hanesyddol o ddiffyg talu ac amodau economaidd presennol ac a ragwelir wedi eu hystyried wrth gyfrifo'r lwfans colled amhariad.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

### Risg Credyd: Benthyciadau, Gwarantau Ariannol ac Ymrwymiadau Benthyciadau

Mae'r Cyngor yn rheoli'r risg credyd sydd yn gynhenid yn eu benthyciadau i bwrpas gwasanaeth, gwarantau ariannol ac ymrwymiadau benthyciadau, yn unol â'r Strategaeth Fuddsoddi sydd wedi ei chyhoeddi.

### Risg Hylifedd

Mae gan y Cyngor fynediad parod i fenthyciadau ar gyfraddau ffafriol o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ac awdurdodau lleol eraill, ac ar gyfraddau uwch gan fanciau a chymdeithasau adeiladu. Nid oes unrhyw risg ymddangosiadol y bydd y Cyngor yn methu codi cyllid i gwrdd â'i ymrwymiadau. Er hyn, mae risg y bydd yn rhaid i'r Cyngor adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg lle mae'r cyfraddau llog yn anffafriol. Rheolir y risg hwn drwy gynnal amrediad o fenthyciadau gyda chyfraddau sefydlog a sicrhau nad yw mwy na 25% o fenthyciadau'r Cyngor yn aeddfedu mewn unrhyw un flwyddyn ariannol.

Mae'r Cyngor yn dal £62.8m (2022: £18.0m) o asedau ariannol hylifol y gellir eu tynnu'n ôl neu eu gwerthu ar fyr rybudd os oes angen i gwrdd ag all-lifau arian parod ar ymrwymiadau ariannol.

Mae dadansoddiad aeddfedrwydd o ymrwymiadau ariannol fel a ganlyn, wedi'i ddangos fel ffigurau sydd wedi'u disgowntio (prif ynghyd â llog cronedig hyd yn hyn) a heb eu disgowntio (pryf ynghyd â thaliadau llog yn y dyfodol);

| Amser tan aeddfedrwydd (blynyddoedd) | Wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig) 31 Mawrth 2022 £'000 | Heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â llog yn y dyfodol) 31 Mawrth 2022 £'000 | Wedi'u disgowntio (prifswm ynghyd â llog cronedig) 31 Mawrth 2023 £'000 | Heb eu disgowntio (prifswm ynghyd â llog yn y dyfodol) 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Llai na blwyddyn | 1,587 | 7,166 | 1,659 | 6,657 |
| Dros 1 ond dim dros 2 | 1,143 | 6,611 | 2,457 | 7,745 |
| Dros 2 ond dim dros 5 | 15,379 | 30,454 | 14,128 | 28,473 |
| Dros 5 ond dim dros 10 | 2,706 | 25,079 | 6,125 | 28,155 |
| Dros 10 ond dim dros 20 | 39,013 | 71,399 | 34,595 | 65,376 |
| Dros 20 ond dim dros 40 | 27,352 | 70,143 | 27,352 | 68,216 |
| Dros 40 | 16,200 | 27,480 | 16,200 | 26,797 |
| **Total** | **103,380** | **238,332** | **102,516** | **231,419** |

### Risg y Farchnad : Risg Cyfraddau Llog

Mae'r Cyngor yn agored i risgiau sy'n codi o symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae symudiadau mewn cyfraddau llog yn cael effeithiau cymhleth ar y Cyngor. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn arwain at yr effeithiau a ganlyn:

- Benthyciadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r gwariant llog yn cynyddu.
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr ymrwymiadau benthyca yn disgyn.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau cyfnewidiol - byddai'r incwm llog sydd yn cael ei gredydu yn cynyddu.
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – byddai gwerth teg yr asedau yn disgyn.

Nid yw buddsoddiadau ar gost wedi ei amorteiddio na benthyciadau a ddelir yn cael eu cario ar werth teg, ac felly ni fydd newidiadau i'w gwerth teg yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae'r newidiadau yn y llog sy'n daladwy ac yn ddyledus ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfraddau cyfnewidiol yn cael eu nodi ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau. Caiff symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau cyfradd sefydlog eu hadlewyrchu yn yr Incwm Cynhwysfawr Arall neu yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, fel sy'n briodol.

## NODYN 17b – NATUR A MAINT Y RISG SY'N CODI O OFFERYNNAU ARIANNOL (parhad)

Mae Strategaeth Rheolaeth y Trysorlys yn ceisio lleihau'r risgiau hyn drwy osod terfyn uchaf o effaith refeniw 12 mis o 1% cwymp a chodiad mewn cyfraddau llog.

Petai'r holl gyfraddau llog wedi bod 1% yn uwch (gyda'r elfennau newidiol eraill oll yn gyson), yr effaith ariannol fyddai:

| | **31 Mawrth 2022 £'000** | **31 Mawrth 2023 £'000** |
|---|---|---|
| Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy ar fuddsoddiadau cyfradd newidiol | (390) | (631) |
| Gostyngiad yng ngwerth teg y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy Elw a Cholled | 20 | 57 |
| **Effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **(370)** | **(574)** |
| Gostyngiad yng ngwerth y buddsoddiadau a ddelir ar Werth Teg drwy ICA | 39 | 39 |
| **Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall** | **39** | **39** |
| Gostyngiad yng ngwerth teg benthyciadau a buddsoddiadau ar gost wedi'i amorteiddio * | 78 | 126 |
| Gostyngiad yng ngwerth teg benthyca cyfradd sefydlog * | (34,828) | (11,307) |

*Dim effaith ar y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, nac ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

**Risg y Farchnad : Risg Pris**

Mae prisiau marchnad buddsoddiadau'r Cyngor mewn bondiau cyfradd sefydlog a'i unedau mewn cynlluniau buddsoddi cyfunol yn cael eu llywodraethu gan y cyfraddau llog cyffredinol, a rheolir y risg marchnad sy'n gysylltiedig â'r offerynnau hyn ar y cyd â'r risg cyfraddau llog.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfa eiddo cyfun yn ddarostyngedig i risg o gwymp mewn prisiau eiddo masnachol. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau eiddo wedi'i pwlio o £20m. Canlyniad cwymp o 5% ym mhrisiau eiddo masnachol ar 31 Mawrth 2023 fyddai cost o £0.21m (2022: £0.25m) i'r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae buddsoddiad y Cyngor mewn cronfeydd ecwiti cyfun yn ddarostyngedig i'r risg o ostwng prisiiau cyfranddaliadau. Cyfyngir y risg yma gan amlygiad y Cyngor i fuddsoddiadau ecwiti wedi'i pwlio o £20m. Canlyniad cwymp o 5% ym mhrisiau cyfranddaliadau ar 31 March 2023 fyddau cost o £0.13m (2022: £0.15m) i'r Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr Arall.

**Risg y Farchnad : Risg y Gyfnewidfa Dramor**

Nid oes gan y Cyngor unrhyw asedau nac ymrwymiadau ariannol mewn arian tramor. Felly nid yw'n agored i golledion o ganlyniad i symudiadau niweidiol mewn cyfraddau cyfnewid.

## NODYN 18a – DYLEDWYR TYMOR BYR

| 31 Mawrth 2022 | | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 21,943 | Symiau dyledus masnach | 22,015 |
| 2,582 | Blaendaliadau | 2,993 |
| 82,520 | Symiau dyledus eraill | 65,377 |
| **107,045** | **Cyfanswm** | **90,385** |

Mae ffigyrau'r dyledwyr uchod yn net o golledion amhariad.

## NODYN 18b - DYLEDWYR TRETH CYNGOR

Gellir dadansoddi Treth Cyngor dyledus sydd heb ei amharu yn ôl oedran fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2022 | | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 2,645 | Llai na blwyddyn | 4,320 |
| 884 | Dros flwyddyn | 2,151 |
| **3,529** | **Cyfanswm** | **6,471** |

Mae'r dadansoddiad uchod yn dangos y balansau hynny lle mae asesiad wedi dangos drwy eithriad nad oes angen unrhyw amhariad.

## NODYN 19 – ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Arian mewn Llaw | 15 | 12 |
| Cyfrifon Banc Cyfredol | 31 | 18 |
| Cyfrifon Galw | 18,022 | 62,850 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | **18,068** | **62,880** |
| Gorddrafft Banc | (21,700) | (18,213) |
| **Cyfanswm** | **(3,632)** | **44,667** |

Er mwyn uchafu'r adenillion o fuddsoddiadau tymor byr ac adneuon banc, mae'r Cyngor yn buddsoddi unrhyw arian sydd dros ben yn ei gyfrifon banc ynghyd ag unrhyw arian sydd dros ben gan y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC), Cyd-bwyllgor GwE a Chronfa Bensiwn Gwynedd. Oherwydd y ffaith fod y buddsoddiadau tymor byr a'r adneuon banc yn enw Cyngor Gwynedd, maent yn ymddangos yn eu cyfanrwydd ar y Fantolen gyda chredydwr cyfatebol ar 31 Mawrth 2023 o £57m i'r BUEGC (£16.8m ar 31 Mawrth 2022), £2.6m i'r Cyd-bwyllgor GwE (£1.6m ar 31 Mawrth 2022) a £18.3m i Cronfa Bensiwn Gwynedd (£14.2m ar 31 Mawrth 2022).

## NODYN 20 – ASEDAU AR GAEL I'W GWERTHU

| | 2021/22<br>£'000 | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Balans 1 Ebrill** | **73** | **0** |
| Asedau newydd eu dosbarthu fel rhai ar gael i'w gwerthu: | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | 0 | 0 |
| Gwariant yn y flwyddyn | 0 | 0 |
| Colledion Ailbrisio | 0 | 0 |
| Colledion Amharu | 1 | 0 |
| Asedau wedi eu tynnu allan o'r dosbarth sydd ar gael i'w gwerthu: | | |
| Eiddo, Offer a Chyfarpar | (74) | 47 |
| Asedau wedi eu gwerthu | 0 | 0 |
| **Balans 31 Mawrth** | **0** | **47** |

## NODYN 21 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2022<br>£'000 | 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---|---|
| Symiau taladwy masnach | 28,187 | 31,966 |
| Symiau taladwy eraill | 66,871 | 106,059 |
| **Cyfanswm** | **95,058** | **138,025** |

## NODYN 22 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyngor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymiadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 10.

Mae'r manylion isod wedi eu rhannu'n ddarpariaethau tymor byr (o fewn 12 mis) a darpariaethau tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

| | Balans ar 31 Mawrth 2022<br>£'000 | (Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad<br>£'000 | Defnydd yn y flwyddyn<br>£'000 | Balans ar 31 Mawrth 2023<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Darpariaethau Tymor Byr** | | | | |
| Darpariaeth Safleoedd Gwastraff | (316) | (408) | 362 | (362) |
| | **(316)** | **(408)** | **362** | **(362)** |
| **Darpariaethau Tymor Hir** | | | | |
| Darpariaeth Safleoedd Gwastraff | (7,444) | (484) | 0 | (7,928) |
| Darpariaeth Hawliadau Yswiriant | (662) | (210) | 0 | (872) |
| Darpariaeth Cyflogau | (282) | (29) | 0 | (311) |
| | **(8,388)** | **(723)** | **0** | **(9,111)** |
| **Cyfanswm** | **(8,704)** | **(1,131)** | **362** | **(9,473)** |

**Darpariaeth Safleoedd Gwastraff** – ar gyfer gofynion gwaith capio ac ôl-ofalaeth holl safleoedd gwaredu gwastraff y Cyngor.

**Darpariaeth Hawliadau Yswiriant** – i gwrdd â setliadau hawliadau yswiriant posibl.

**Darpariaeth Cyflogau** – yn unol â'r gofynion perthnasol.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2022 £'000 | | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| 141,054 | Reserf Ailbrisio | 167,073 |
| 223,932 | Cyfrif Addasu Cyfalaf | 235,399 |
| (155) | Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol | (1,345) |
| (529) | Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | (558) |
| (242,165) | Reserf Pensiynau | 0 |
| (4,805) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (5,752) |
| **117,332** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **394,817** |

### 23.1 Reserf Ailbrisio

Mae'r Reserf Ailbrisio yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, Offer a Chyfarpar. Gostyngir y balans pan gaiff asedau gydag enillion cronedig eu:

- Ailbrisio i lawr neu eu hamharu a bod yr enillion yn cael eu colli.
- Defnyddio i ddarparu gwasanaethau a bod yr enillion yn cael eu treulio trwy ddibrisiant, neu
- Gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

Dim ond enillion ailbrisio sydd wedi eu cronni ers 1 Ebrill 2007, sef dyddiad creu'r Reserf, sy'n cael eu cynnwys yn y Reserf. Caiff unrhyw enillion sydd wedi eu cronni cyn y dyddiad yma eu cynnwys ym malans y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| **115,595** | **Balans 1 Ebrill** | **141,054** |
| 31,524 | Ailbrisio asedau i fyny | 33,015 |
| (3,638) | Ailbrisio asedau i lawr a cholledion amharu | (4,321) |
| **27,886** | **Gwarged/(diffyg) wrth ailbrisio asedau** | **28,694** |
| | | |
| (2,181) | Gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth teg a dibrisiant hanesyddol | (2,509) |
| (246) | Elw cronedig ar asedau a werthwyd | (166) |
| **(2,427)** | **Swm i'w sgwennu i ffwrdd i'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf** | **(2,675)** |
| **141,054** | **Balans 31 Mawrth** | **167,073** |

### 23.2 Cyfrif Addasiadau Cyfalaf

Mae'r Cyfrif Addasiadau Cyfalaf yn amsugno'r gwahaniaethau amser sy'n codi oherwydd y gwahaniaethau mewn trefniadau cyfrifeg am ddefnyddio asedau tymor hir a chyllido'r prynu, adeiladu a gwella'r asedau o dan ddarpariaethau statudol. Mae'r Cyfrif yn cael ei ddebydu gyda'r gost o brynu, adeiladu a gwella gan fod dibrisiant, colledion amhariad ac amorteiddio yn cael ei gyfrifo i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gyda thrafodion cysoni yn y Reserf Ailbrisio i drawsnewid y ffigyrau gwerth teg i sail cost hanesyddol). Mae'r Cyfrif yn cael ei gredydu gyda'r swm wedi ei neilltuo gan y Cyngor fel cyllid i brynu, adeiladu a gwella asedau.

Mae'r Cyfrif yn cynnwys enillion a cholledion cronedig ar Eiddo Buddsoddi ac enillion wedi eu hadnabod ar asedau rhodd sydd heb eu treulio eto gan y Cyngor.

Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio wedi cronni ar Eiddo, Offer a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, y dyddiad y crêwyd y Reserf Ailbrisio i gofnodi enillion o'r fath.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Mae Nodyn 9 yn dangos manylion yr holl drafodion o fewn y Cyfrif, ond am y rhai sydd yn cael eu cynnwys yn y Reserf Ail-brisio.

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| **206,658** | **Balans 1 Ebrill** | **223,932** |
| | Gwrthdroi eitemau sydd yn berthnasol i wariant cyfalaf sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr: | |
| (19,521) | Dibrisiant ac amhariad asedau anghyfredol | (21,953) |
| (7,055) | Gwariant Refeniw wedi ei ariannu o Gyfalaf drwy Statud | (6,001) |
| (563) | Addasiad i falansau asedau anghyfredol wrth werthu | 0 |
| 2,181 | Trosglwyddo o'r Reserf Ailbrisio Cyfalaf | 2,509 |
| | Ariannu Cyfalaf a gyfeiriwyd yn y flwyddyn: | |
| 78 | Derbyniadau Cyfalaf | 695 |
| 34,626 | Grantiau a Chyfraniadau a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i ariannu cyfalaf | 20,449 |
| 5,387 | Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | 5,352 |
| 0 | Gwariant Cyfalaf wedi ei gyfeirio yn y flwyddyn i'r Gronfa Gyffredinol | 8,251 |
| 2,141 | Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | 2,165 |
| **223,932** | **Balans 31 Mawrth** | **235,399** |

### 23.3 Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol

Mae'r Reserf Ailbrisio Offerynnau Ariannol yn cynnwys enillion a wnaed gan y Cyngor yn deillio o gynnydd yng ngwerth ei fuddsoddiadau gaiff ei mesur ar werth teg drwy incwm cynhwysfawr arall. Gostyngir y balans pan mae buddsoddiadau gydag elw cronedig yn cael eu:

- Ailbrisio i lawr neu eu hamharu a'r elw'n cael ei golli.
- Gwerthu a'r elw yn cael ei wireddu

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| **(1,085)** | **Balans 1 Ebrill** | **(155)** |
| 930 | Addasiadau Gwerth Teg | (1,190) |
| 0 | Ailbrisio buddsoddiadau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y Gweddill/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau i lawr | 0 |
| **(155)** | **Balans 31 Mawrth** | **(1,345)** |

### 23.4 Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynrychioli'r swm y dylai fod wedi'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn unol ag arferion cyfrifo cywir o dan y Côd Ymarfer, ond y mae Darpariaethau Statudol yn caniatáu neu'n gorfodi iddynt gael eu gohirio dros flynyddoedd dilynol.

Mae'n ofynnol i bob premiwm a disgownt o ganlyniad i ddiddymu benthyciadau ymlaen gael eu codi'n llawn ar Incwm a Gwariant. Lle bo'r trafodion yn cwrdd â'r diffiniad o gyfaddasiad mae unrhyw bremiwm neu ddisgownt yn cael ei ychwanegu at werth cario'r benthyciad, ac yn cael ei amorteiddio i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr dros oes y benthyciad newydd. Mae cyfaddasiad yn digwydd pan nad yw telerau'r ddyled newydd yn "sylweddol wahanol" i rai'r hen ddyled.

## NODYN 23 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Gall premiymau sydd wedi'u hamorteiddio o dan ddarpariaethau statudol gael eu codi ar y Gronfa Gyffredinol, naill ai dros weddill oes y benthyciad gwreiddiol neu dros oes y benthyciad newydd, p'run bynnag yw'r cyfnod hwyaf. Rhaid i ddisgownt gael ei gredydu i'r Gronfa Gyffredinol naill ai dros 10 mlynedd neu dros oes y benthyciad gwreiddiol, p'run bynnag yw'r cyfnod byrraf.

Mae'r trafodion a adlewyrchir yn yr Cyfrif Addasiadau Offerynnau Ariannol fel a ganlyn:

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| **(551)** | **Balans 1 Ebrill** | **(529)** |
| 61 | Cyfran o bremiymau sy'n berthnasol i flynyddoedd blaenorol sydd yn gymwysiedig ym malansau'r Gronfa Gyffredinol yn unol â gofynion statudol | 60 |
| (39) | Credyd gohiriedig am dderbyniad taliadau sy'n ddyledus gan bobl mewn gofal | (89) |
| **(529)** | **Balans 31 Mawrth** | **(558)** |

### 23.5 Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyngor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau sydd wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd cael eu hariannu fel y mae'r Cyngor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans debyd y Reserf Bensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enillwyd gan gyn-weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyngor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| 2021/22 | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd £000** | **BUEGC* £000** | **Cyfanswm £000** | | **Gwynedd £000** | **BUEGC* £000** | **Cyfanswm £000** |
| **(363,852)** | **(111)** | **(363,963)** | **Balans 1 April** | **(242,047)** | **(118)** | **(242,165)** |
| 165,438 | 25 | **165,463** | Ailfesuriad o'r (ymrwymiadau) / asedau buddion pensiwn diffiniedig net | 280,424 | 44 | **280,468** |
| (68,507) | (52) | **(68,559)** | Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (64,682) | 50 | **(64,632)** |
| 24,874 | 20 | **24,894** | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 26,305 | 24 | **26,329** |
| **(242,047)** | **(118)** | **(242,165)** | **Balans 31 March** | **0** | **0** | **0** |

* Mae cyfran Cyngor Gwynedd o 12.5% o reserf pensiynau y BUEGC wedi gynnwys yn y cyfrifon.

### 23.6 Cyfrif Absenoldebau Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldebau Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cydadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| **(4,244)** | **Balans 1 Ebrill** | **(4,805)** |
| (561) | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (947) |
| **(4,805)** | **Balans 31 Mawrth** | **(5,752)*** |

** £4k yn berthnasol i cyfran Gwynedd o'r BUEGC.*

## NODYN 24a – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| (17,376) | Dibrisiant | (18,150) |
| (2,147) | Amhariad ac ailbrisio i lawr | (3,803) |
| (7,678) | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | (53,973) |
| 22,822 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | (16,444) |
| 344 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Stoc | (607) |
| (43,664) | Ymrwymiad pensiwn | (38,303) |
| (809) | Gwerth i'w gario ar asedau anghyfredol sydd wedi eu gwerthu neu dad-gydnabod | (166) |
| (8,265) | Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau | (6,748) |
| **(56,773)** | | **(138,194)** |

## NODYN 24b – DATGANIAD LLIF ARIAN – ADDASU AM EITEMAU CYNWYSEDIG YN Y GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU SYDD YN WEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU ARIANNU

| 2021/22<br>£'000 | | 2022/23<br>£'000 |
|---|---|---|
| 0 | Prynu buddsoddiadau tymor byr a tymor hir | (12) |
| 307 | Derbyniad o werthiant eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 290 |
| **307** | | **278** |

## NODYN 24c – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU GWEITHREDU

Mae'r llif arian o weithgareddau gweithredu yn cynnwys yr eitemau canlynol:

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (556) | Difidendau a Llog a dderbyniwyd | (2,393) |
| 5,794 | Llog a dalwyd | 5,667 |

## NODYN 25 – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 31,055 | Prynu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | 31,730 |
| 675,525 | Prynu buddsoddiadau tymor byr a thymor hir | 521,046 |
| 6,673 | Taliadau eraill am weithgareddau buddsoddi | 6,325 |
| (285) | Derbyniadau o werthu eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol | (368) |
| (631,525) | Derbyniadau o fuddsoddiadau tymor byr a thymor hir | (510,044) |
| **81,443** | **Llif arian net o weithgareddau buddsoddi** | **48,689** |

## NODYN 26a – DATGANIAD LLIF ARIAN – GWEITHGAREDDAU ARIANNU

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 170 | Taliadau ariannol i leihau'r ymrwymiad sy'n ddyledus yn ymwneud â Phrydlesau Cyllidol | 181 |
| 6,338 | Ad-daliadau benthyciadau tymor byr a thymor hir | 1,360 |
| **6,508** | **Llif arian net o weithgareddau ariannu** | **1,541** |

## NODYN 26b – DATGANIAD LLIF ARIAN – CYSONIAD YMRWYMIADAU YN DEILLIO O WEITHGAREDDAU CYLLIDO

| | 31 Mawrth 2022 | Ariannu llif arian | Eitemau anariannol | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyciadau tymor hir | (101,807) | 922 | 0 | (100,885) |
| Benthyciadau tymor byr | (2,055) | 438 | 0 | (1,617) |
| Ymrwymiadau MCP ar y fantolen | (1,370) | 181 | 0 | (1,189) |
| **Cyfanswm ymrwymiadau yn deillio o weithgareddau cyllido** | **(105,232)** | **1,541** | **0** | **(103,691)** |

## NODYN 27 – DADANSODDIAD NATUR GWARIANT AC INCWM

Mae gwariant ac incwm y Cyngor wedi ei ddadansoddi fel a ganlyn:

| 2021/22 £'000 | Gwariant / Incwm | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| | **Gwariant** | |
| 238,357 | Gwariant buddion gweithwyr | 250,752 |
| 199,995 | Gwariant arall Gwasanaethau | 218,510 |
| 479 | Ad-daliadau cefnogaeth ganolog | 609 |
| 26,620 | Dibrisiant, amorteiddiad, amhariad | 27,974 |
| 13,679 | Taliadau llog | 12,928 |
| 26,175 | Praeseptau a Lefiau | 27,931 |
| 503 | Colledion ar waredu asedau | 0 |
| **505,808** | **Cyfanswm Gwariant** | **538,704** |
| | **Incwm** | |
| (59,229) | Ffioedd ac incwm arall gwasanaethau | (62,941) |
| (556) | Incwm llog a buddsoddi | (1,841) |
| (143,406) | Incwm o'r dreth cyngor a trethi annomestig | (150,229) |
| (307,936) | Grantiau a chyfraniadau llywodraeth | (284,183) |
| 0 | (Enillion) ar waredu asedau | (123) |
| **(511,127)** | **Cyfanswm Incwm** | **(499,317)** |
| **(5,319)** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **39,387** |

## NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant i sawl cynllun ar ran Llywodraeth Cymru:

- Troi Tai'n Gartrefi – balans cau £258k (£300k yn 2021/22).
- Troi Tai'n Gartrefi 2 – balans cau £465k (£465k yn 2021/22).
- Benthyciadau i Wireddu Gwelliannau – balans cau £615k (£315k yn 2021/22).
- Cronfa Cefnogi Canol Tref Caernarfon – balans cau £591k (£310k yn 2021/22).
- Cronfa Canol Tref Caernarfon a Bangor – balans cau £619k (£638k yn 2021/22).
- Cronfa Canol Tref Bangor a Bethesda – balans cau £500k (£494k yn 2021/22).
- Cynllun Trawsnewid Trefi – balans cau £77k (£466k yn 2021/22).
- Cronfa Adfywio Trefi Gwynedd – balans cau £371k (£483k yn 2021/2022).

Mae'r Cyngor yn gweinyddu dau brif grant addysg ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith yn cynnwys derbyn y grantiau a'u dosbarthu i awdurdodau lleol Gogledd Cymru a GwE. Roedd cyfanswm y grant a dderbyniwyd ar gyfer 2022/23 fel â ganlyn:

- Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol - £37.2m (£42.3m yn 2021/22).
- Grant Datblygu Disgyblion - £24.5m (£22.0m yn 2021/22).

Mae'r Cyngor hefyd yn gweinyddu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Y prif weithgaredd yw cynnal a rheoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ardal Partneriaeth Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n ymestyn i 1,080 cilomedr. Cyfanswm y trafodion incwm a gafodd eu hadennill yn ystod 2022/23 oedd £71.3m (£87.2m yn 2021/22).

## NODYN 28 – GWASANAETHAU ASIANTAETH (parhad)

Oherwydd ardrawiad pandemig Covid-19 mae yna nifer o grantiau a chefnogaeth ariannol lle mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol eu gweinyddu ar eu rhan. Mae Cyngor Gwynedd wedi gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru, ar gyfer y canlynol:

- Taliad Cymorth Costau Byw £150 - taliadau o £5.8m wedi eu gwneud gan y Cyngor; (£131k) yn ddyledus i Lywodraeth Cymru.
- Grant Gostyngiad Cyfradd Trethi Annomestig Cenedlaethol - taliadau o £5.5m wedi eu gwneud gan y Cyngor (£16m yn 2021/22); (£1m) yn ddyledus i Lywodraeth Cymru.
- Taliad i weithwyr gofal cymdeithasol - taliadau o £4.8m wedi eu gwneud gan y Cyngor (£3.5m yn 2021/22); £4.8m yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru.
- Taliadau Tanwydd Gaeaf - taliadau o £2.4m wedi eu gwneud gan y Cyngor (£1m yn 2021/22); £84k yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru.
- Taliadau hunan-ynysu - taliadau o £562k wedi eu gwneud gan y Cyngor (£1.9m yn 2021/22).
- Cymorth i Ofalwyr Di-dâl - taliadau o £526k wedi eu gwneud gan y Cyngor (dim yn 2021/22).
- Cynllun Cyllid Amgen y Cynllun Cymorth Biliau Ynni - dim taliadau wedi eu gwneud gan y Cyngor (dim yn 2021/22); balans cau £487k.
- Ychwanegiad Tâl Salwch Statudol - taliadau o £369k wedi eu gwneud gan y Cyngor (£192k yn 2021/22).
- Taliad Tanwydd Amgen - dim taliadau wedi eu gwneud gan y Cyngor (dim yn 2021/22); balans cau £244k.

Yn ystod 2022/23 mae Cyngor Gwynedd wedi gweithredu fel asiant ar ran Llywodraeth Cymru, ar gyfer cynlluniau lletya ffoaduriaid Wcráin gan gynnwys:

- Taliadau Lletya Ffoaduriaid Wcráin – taliadau o £216k wedi eu gwneud gan y Cyngor (dim yn 2021/22); £128k yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru.
- Taliadau Arian Parod Cynllun Wcráin – taliadau o £65k wedi eu gwneud gan y Cyngor (dim yn 2021/22); £20k yn ddyledus gan Lywodraeth Cymru.

## NODYN 29 – LWFANSAU AELODAU

Talwyd y lwfansau a threuliau canlynol i aelodau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn:

| 2021/22 | | 2022/23 |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 1,350 | Lwfansau | 1,414 |
| 2 | Treuliau | 19 |
| **1,352** | | **1,433** |

## NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION

**30a.** Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr.

| 2021/22 | | | Uwch Swyddogion | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr** | **Cyfanswm** | | **Cyflogau** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr** | **Cyfanswm** |
| **£** | **£** | **£** | | **£** | **£** | **£** |
| 99,317 | 20,225 | 119,542 | Prif Weithredwr [1] | 115,348 | 23,531 | 138,879 |
| 100,438 | 20,489 | 120,927 | Cyfarwyddwr Corfforaethol [2] | 43,570 | 6,961 | 50,531 |
| 0 | 0 | 0 | Cyfarwyddwr Corfforaethol [3] | 64,893 | 13,238 | 78,132 |
| 0 | 0 | 0 | Cyfarwyddwr Corfforaethol [4] | 48,670 | 9,929 | 58,599 |
| 89,276 | 18,212 | 107,488 | Pennaeth Addysg | 103,064 | 21,025 | 124,089 |
| 20,004 | 4,081 | 24,085 | Pennaeth Cyllid [5] | 80,252 | 16,371 | 96,624 |
| 79,717 | 16,240 | 95,957 | Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg a YGC | 79,965 | 16,290 | 96,255 |
| 83,114 | 16,183 | 99,297 | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant | 81,253 | 16,576 | 97,829 |
| 79,328 | 16,183 | 95,511 | Pennaeth Economi a Chymuned | 81,253 | 16,576 | 97,829 |
| 80,063 | 15,227 | 95,290 | Pennaeth Plant a Theuluoedd | 81,253 | 15,611 | 96,864 |
| 79,328 | 16,183 | 95,511 | Pennaeth Amgylchedd | 81,253 | 16,576 | 97,829 |
| 79,328 | 16,183 | 95,511 | Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol [6] | 27,084 | 5,525 | 32,610 |
| 0 | 0 | 0 | Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol [7] | 29,329 | 5,983 | 35,312 |
| 46,861 | 9,560 | 56,421 | Pennaeth Tai ac Eiddo [8] | 76,116 | 15,505 | 91,621 |
| 67,011 | 13,670 | 80,681 | Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd [9] | 53,425 | 10,547 | 63,973 |
| 71,176 | 14,520 | 85,696 | Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol [10] | 73,101 | 14,913 | 88,014 |

1. Deilydd yn y swydd ers 10 Mai 2021, yn Ddirprwy Swyddog Canlyniadau ers 1 Mai 2022. Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys unrhyw daliad yn ei rôl fel Dirprwy Swyddog Canlyniadau. Talwyd £1,129 yn 2022/23, ar sail y raddfa a ddiffinir gan y cyrff etholiadol perthnasol.
2. Deilydd yn y swydd hyd at 31 Gorffennaf 2022.
3. Deilydd yn y swydd ers 1 Awst 2022.
4. Deilydd yn y swydd ers 1 Hydref 2022.
5. Deilydd yn y swydd ers 1 Ionawr 2022.
6. Deilydd yn y swydd hyd at 31 Gorffennaf 2022.
7. Deilydd yn y swydd ers 7 Tachwedd 2022.
8. Deilydd yn y swydd ers 2 Awst 2021.
9. Deilydd yn y swydd hyd at 31 Rhagfyr 2022. Y swydd wedi ei ddileu a'r adran wedi ei gyfuno gyda Priffyrdd a Pheirianneg.
10. Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys unrhyw daliad i Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol yn ei rôl fel Dirprwy Swyddog Canlyniadau. Talwyd £2,371 yn 2022/23, ar sail y raddfa a ddiffinir gan y cyrff etholiadol perthnasol.

## NODYN 30 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

**30b.** Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn i'r Cyngor gyfrifo cymhareb tâl. Cymhareb tâl y Prif Weithredwr i'r tâl canolrif o holl weithwyr y Cyngor ar gyfer 2022/23 yw 5.25:1 (5.66:1 yn 2021/22).

**30c.** Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyngor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn dau achos yn 2021/22. Ni fyddai'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo a dalwyd yn y flwyddyn unigol.

**Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:**

| | Nifer yn 2021/22 | | | | Nifer yn 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Ysgolion** | **Eraill** | **Cyfanswm** | | **Ysgolion** | **Eraill** | **Cyfanswm** |
| * | 28 | 12 | 40 | £60,000 - 64,999 | 44 | 14 | 58 |
| * | 12 | 7 | 19 | £65,000 - 69,999 | 18 | 14 | 32 |
| | 6 | 3 | 9 | £70,000 - 74,999 | 14 | 1 | 15 |
| | 3 | 1 | 4 | £75,000 - 79,999 | 5 | 1 | 6 |
| | 4 | 0 | 4 | £80,000 - 84,999 | 3 | 1 | 4 |
| | 0 | 0 | 0 | £85,000 - 89,999 | 1 | 1 | 2 |
| | 1 | 0 | 1 | £90,000 - 94,999 | 1 | 0 | 1 |
| | 0 | 0 | 0 | £95,000 - 99,999 | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 | £100,000 - 104,999 | 1 | 0 | 1 |
| | 0 | 0 | 0 | £105,000 - 109,999 | 0 | 0 | 0 |
| | 3 | 0 | 3 | £110,000 - 114,999 | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 | £115,000 – 119,999 | 1 | 0 | 1 |

*Mae ffigyrau 2021/22 wedi eu hail-gategoreiddio i alluogi cymhariaeth gyda 2022/23.

## NODYN 31 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyngor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol:

| **2021/22** | | **2022/23** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 189 | Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol | 216 |
| 99 | Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas ag archwiliadau statudol | 103 |
| 47 | Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer ardystio hawliadau a dychweliadau grant am y flwyddyn | 41 |
| **335** | | **360** |
| (2) | **Llai:** Ffioedd taladwy i archwilwyr apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â Chyfrifon y Cyd-bwyllgorau a'r Harbyrau | (1) |
| 2 | Addasiad ffioedd archwiliadau blynyddoedd blaenorol | 0 |
| **335** | **Ffioedd Net Cyngor Gwynedd** | **359** |

## NODYN 32 – INCWM GRANT

Mae'r Cyngor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | Nodyn | | 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wedi eu Credydu i Dreth ac Incwm Grant Amhenodol** | | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw (Grantiau'r Llywodraeth heb eu Clustnodi) | 13 | | 155,298 | | 167,695 |
| Grantiau a Chyfraniadau Refeniw gan y Llywodraeth - Eraill | 13 | | 916 | | 0 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf gan y Llywodraeth - | | | | | |
| Ysgolion 21ain Ganrif | | 4,455 | | 5,549 | |
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | | 7,300 | | 2,807 | |
| Cronfa Trafnidiaeth Leol | | 8,256 | | 2,920 | |
| Grant Adnewyddu Ffyrdd | | 1,320 | | 0 | |
| Grant Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau | | 3,100 | | 0 | |
| Arall * | | 7,088 | | 3,317 | |
| | 13 | | 31,519 | | 14,593 |
| Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf arall | 13 | | 1,464 | | 1,483 |
| **Cyfanswm** | | | **189,197** | | **183,771** |
| **Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | | | | |
| Llywodraeth Cymru - | | | | | |
| Grantiau Gwella ac Amddifadedd (Addysg) | | 8,493 | | 8,036 | |
| Grant Cynnig Gofal Plant | | 6,754 | | 7,612 | |
| Grantiau Addysg Awdurdod Lleol | | 8,515 | | 6,727 | |
| Grant Cefnogi Tai | | 5,926 | | 6,428 | |
| Grant Plant a Chymunedau | | 4,207 | | 4,764 | |
| Grant Ol 16 (Addysg) | | 4,210 | | 4,439 | |
| Grantiau Cyfalaf | | 4,406 | | 2,736 | |
| Grant Pwysau Gweithlu a Chynaliadwyedd Gofal Cymdeithasol | | 3,864 | | 1,732 | |
| Grant Tocynnau Teithio Rhad | | 1,434 | | 1,108 | |
| Grant Rheolaeth Gwastraff Cynaliadwy | | 1,516 | | 1,002 | |
| Cronfa Caledi Covid-19 | | 16,088 | | 1,274 | |
| Grant Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol | | 2,380 | | 0 | |
| Arall | | 8,421 | | 8,506 | |
| | | | 76,214 | | 54,364 |
| Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall | | | | | |
| Adran Gwaith a Phensiynau | | 23,453 | | 22,241 | |
| Arall | | 21,418 | | 25,046 | |
| | | | 44,871 | | 47,287 |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | | 5,727 | | 6,400 |
| **Cyfanswm** | | | **126,812** | | **108,051** |

**Mae ffigyrau 2021/22 wedi eu hail-gategoreiddio i alluogi cymhariaeth gyda 2022/23.*

## NODYN 32 – INCWM GRANT (parhad)

Mae'r Cyngor wedi derbyn nifer o grantiau, cyfraniadau a rhoddion sydd eto i'w hadnabod fel incwm gan fod amodau wedi eu glynu i'r grantiau sy'n golygu efallai y bydd rhaid dychwelyd yr arian neu'r eiddo i'r rhoddwr. Mae'r balansau ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| **Derbyniadau Grant Ymlaen Llaw** | **£'000** | **£'000** |
| **<u>Tymor Hir</u>** | | |
| **Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf** | | |
| Cyfraniadau Cyfalaf Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 790 | 644 |
| Grantiau Amgylchedd (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 775 | 778 |
| Bargen Twf Gogledd Cymru | 888 | 5,401 |
| | 2,453 | 6,823 |
| **Cyfanswm Tymor Hir** | **2,453** | **6,823** |
| **<u>Tymor Byr</u>** | | |
| **Grantiau a Chyfraniadau Refeniw** | | |
| Grantiau Economi a Chymuned | 2,530 | 9,737 |
| Grantiau Amgylchedd (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 37 | 1 |
| Grantiau Oedolion, Iechyd a Llesiant | 930 | 557 |
| Grantiau Tai | 244 | 341 |
| Grantiau Addysg | 1,147 | 1 |
| Grantiau Cyllid | 151 | 0 |
| Grantiau Ymgynghoriaeth | 276 | 0 |
| Grantiau Plant a Chefnogi Teuluoedd | 11 | 126 |
| | 5,326 | 10,763 |
| **Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf** | | |
| Bargen Twf Gogledd Cymru | 3,625 | 1,425 |
| Arall | 1,589 | 5,706 |
| | 5,214 | 7,131 |
| **Cyfanswm Tymor Byr** | **10,540** | **17,894** |
| **Cyfanswm** | **12,993** | **24,717** |

## NODYN 33 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyngor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyngor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyngor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyngor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddogion gwblhau datganiad personol, fel a ddiffinnir yng Nghôd ymarfer CIPFA.

**Llywodraeth Cymru a Chanolog**
Mae gan Lywodraeth Cymru reolaeth effeithiol dros weithrediadau cyffredinol y Cyngor. Mae'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith statudol, mae'n darparu'r mwyafrif o'r ariannu drwy grantiau ac yn pennu termau nifer o'r trafodaethau sydd gan y Cyngor o fewn partïon eraill (e.e. treth cyngor, budd-daliadau tai). Ceir dadansoddiad goddrychol o'r grantiau a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau eraill y Llywodraeth yn Nodyn 27 sy'n dadansoddi natur gwariant ac incwm. Manylir y sefyllfa ar 31 Mawrth yn Nodyn 32.

**Aelodau**
Mae gan Aelodau'r Cyngor reolaeth uniongyrchol dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyngor. Ceir cyfanswm y lwfansau a dalwyd i aelodau yn ystod 2022/23 yn Nodyn 29.

Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i rai cyrff elusennol neu wirfoddol neu maent wedi datgan cysylltiad â mudiadau, cyrff ac awdurdodau cyhoeddus. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2022/23 a'r balansau ar 31 Mawrth 2023 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|
| 39,369 | 3,314 | (12,291) |

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2022/23 a'r balansau ar 31 Mawrth 2023 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|
| 2,114 | 385 | (313) |

**Swyddogion**
Mae Uwch Swyddogion (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas (fel a ddiffinnir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyngor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cyrff yma yn ystod 2022/23 a'r balansau ar 31 Mawrth 2023 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd £'000 | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor £'000 | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor £'000 |
|---|---|---|
| 23,314 | 1,027 | (9,868) |

**Cyrff Cyhoeddus Eraill**
Mae'r Cyngor yn gweinyddu'r Gronfa Bensiwn. Ceir manylion o'r trafodaethau gyda'r Gronfa Bensiwn yn Nodyn 38.

Mae gan y Cyngor drefniant cyllideb gyfun gyda holl awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, yn cael ei letya gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer swyddogaethau llety cartrefi gofal i bobl hŷn. Mae'r trafodion a'r balansau perthnasol yn cael eu manylu yn Nodyn 42 o'r cyfrifon.

## NODYN 33 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG (parhad)

**Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd**

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC) yn ffurfiol ar 14 Ionawr 2022, ac roedd hyn yn sgil i'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 greu fframwaith i gael trefn gyson ar gyfer cydweithio rhanbarthol rhwng llywodraeth leol. Mae dyletswyddau CBC y Gogledd yn cynnwys cynllunio datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol a gall hefyd gynnwys lles economaidd. Mae'r CBC yn cynnwys chwech cyngor cyfansoddol sef Cyngor Bwrdeistrefol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri hefyd yn aelod o'r CBC mewn perthynas ag ymarfer swyddogaethau cynllunio strategol. Mae'r taliadau i'r CBC yn ystod 2022/23 a'r balansau ar 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 |
| 0 | 0 | (55) |

**Cydbwyllgor Addysg Cymru (CBAC)**

| Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 |
| 934 | 0 | 0 |

**Endidau a Reolir neu Ddylanwadir yn Sylweddol arnynt gan y Cyngor**

Sefydlwyd Cwmni Cynnal Cyf. yn 1996 i ddarparu gwasanaethau cefnogi addysg dan gytundeb i ysgolion unigol ac i awdurdodau addysg leol yn ogystal â gwasanaethau arolygu ysgolion i Estyn. Bu i Gwmni Cynnal Cyf. ddirwyn masnachu i ben ar 31 Mawrth 2022.

**Is-Gwmni**

Sefydlwyd Cwmni Byw'n Iach Cyf ar y 27 Fehefin 2018 i ddarparu gwasanaeth hamdden i trigolion Gwynedd. Mae'r cwmni wedi ei gyfyngu dan warant, gyda Cyngor Gwynedd yn unig berchennog ac fe gyfyngir ymrwymiad y Cyngor i £1. Trosglwyddwyd cyfrifoldebau rheoli i'r cwmni Hamdden ar y 1af o Ebrill 2019 gyda chontract gwasanaeth ar waith sy'n nodi'r union wasanaethau a chanlyniadau y mae'n ofynnol i'r cwmni eu cyflawni am eu ffi. Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn cynnwys 7 cyfarwyddwr sy'n aelodau etholedig Cyngor Gwynedd. Gellir cael copïau o'r datganiadau ariannol wedi eu archwilio am y flwyddyn ariannol 2022/23 ar wefan Byw'n Iach. Mae'r taliadau i Gwmni Byw'n Iach Cyf ar gyfer gwasanaethau Hamdden yn ystod 2022/23 a'r balansau ar 31 Mawrth 2023 fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor |
|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 |
| 1,826 | 44 | (53) |

## NODYN 34 – GWARIANT CYFALAF AC ARIANNU CYFALAF

Dengys y tabl isod gyfanswm gwariant cyfalaf am y flwyddyn (yn cynnwys gwerth yr asedau hynny gaffaelwyd drwy brydlesi cyllidol), ynghyd â'r adnoddau a ddefnyddiwyd i'w ariannu. Os yw'n fwriad ariannu gwariant cyfalaf yn y dyfodol drwy godi tâl yn refeniw fel defnyddir asedau gan y Cyngor, yna byddai hyn yn arwain at gynnydd yn y Gofyn Cyllido Cyfalaf (GCC), mesurydd gwariant cyfalaf hanesyddol y Cyngor sydd heb ei ariannu eto. Dadansoddir y GCC yn yr ail ran o'r nodyn hwn.

| **31 Mawrth 2022 £'000** | | **31 Mawrth 2023 £'000** |
|---:|---|---:|
| 534,325 | Asedau Anghyfredol ac Asedau ar gael i'w gwerthu | 573,284 |
| (141,054) | Reserf Ailbrisio | (167,073) |
| (223,932) | Cyfrif Addasiadau Cyfalaf | (235,399) |
| **169,339** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf** | **170,812** |

Mae'r symudiadau am y flwyddyn yn cael eu hegluro fel a ganlyn:

| **2021/22 £'000** | | **2022/23 £'000** |
|---:|---|---:|
| **174,019** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf 1 Ebrill** | **169,339** |
| 10,651 | Tir ac Adeiladau | 11,840 |
| 12,144 | Is adeiladwaith | 14,411 |
| 7,676 | Cerbydau, Offer a Chyfarpar | 6,107 |
| 28 | Asedau Gweddilliol | 26 |
| 7,055 | Wedi'w ariannu o gyfalaf drwy statud | 6,001 |
| (79) | Derbyniadau Cyfalaf a ddefnyddiwyd | (695) |
| (34,626) | Grantiau Llywodraeth a chyfraniadau eraill | (20,449) |
| 0 | Gwariant cyfalaf yn erbyn refeniw | (8,251) |
| (5,387) | Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf gyda chefnogaeth | (5,352) |
| | Symiau gwirfoddol ychwanegol a neilltuwyd: | |
| (2,142) | Derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd / Darpariaeth refeniw ar gyfer cyllido buddsoddiad cyfalaf heb gefnogaeth | (2,165) |
| **169,339** | **Gofyn Cyllido Cyfalaf 31 Mawrth** | **170,812** |

## NODYN 35 – PRYDLESAU

### Y Cyngor fel Prydlesai

### Prydlesau Cyllidol

Mae gan y Cyngor eiddo drwy brydlesau cyllidol sydd yn cael eu dangos fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen. Cynhwysir yma Drefniant Consesiwn Gwasanaeth GwyriAD (Nodyn 41) gyda'r gwerth net canlynol:

| 31 Mawrth 2022 £'000 | | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| 2,300 | Eiddo, Offer a Chyfarpar | 2,245 |
| **2,300** | | **2,245** |

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dalu isafswm ar y prydlesau hyn sy'n cynnwys setliad o'r ymrwymiad tymor hir am y budd yn yr eiddo gaffaelwyd gan y Cyngor a chostau cyllido a fydd yn daladwy gan y Cyngor yn y dyfodol tra mae'r ymrwymiad yn parhau'n ddyledus. Mae'r lleiafswm taliadau prydles fel a ganlyn:

| 31 Mawrth 2022 £'000 | | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| | **Ymrwymiadau Prydles Gyllidol** | |
| | (gwerth presennol net o'r lleiafswm taliadau prydles): | |
| 181 | cyfredol | 192 |
| 1,189 | ddim yn gyfredol | 997 |
| **1,370** | Lleiafswm taliadau prydles | **1,189** |

Mae'r gweddill o'r ased a ddangosir uchod wedi ei gyllido drwy gredyd gohiriedig (gweler Nodyn 41).

Mae'r lleiafswm taliadau prydles yn daladwy dros y cyfnodau canlynol:

| | **Lleiafswm Taliadau Prydles** | | **Ymrwymiadau Prydlesau Cyllidol** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2022 £'000** | **31 Mawrth 2023 £'000** | **31 Mawrth 2022 £'000** | **31 Mawrth 2023 £'000** |
| Dim mwy na blwyddyn | 181 | 192 | 181 | 192 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 841 | 893 | 841 | 893 |
| Mwy na pum mlynedd | 348 | 104 | 348 | 104 |
| | **1,370** | **1,189** | **1,370** | **1,189** |

Yn 2022/23, gwnaethpwyd lleiafswm taliadau prydles o £180,656 (£170,164 yn 2021/22) gan y Cyngor mewn perthynas â'r asedau hynny a ddelir fel prydlesau cyllidol.

## NODYN 35 – PRYDLESAU (parhad)

### Prydlesau Gweithredol

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Dim mwy na blwyddyn | 431 | 297 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 177 | 143 |
| Mwy na pum mlynedd | 175 | 133 |
| | **783** | **573** |

Y gwariant a godwyd ar y gwasanaethau o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn ystod y flwyddyn mewn cysylltiad â'r prydlesau yma oedd:

| | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| Lleiafswm taliadau prydles | 625 | 573 |
| | **625** | **573** |

### Y Cyngor fel Prydleswr

### Prydlesau Cyllidol

Mae'r Cyngor wedi prydlesu eiddo ar brydles gyllidol, gan gynnwys:

- Yr Academi Hwylio ym Mhwllheli,
- Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu

Mae'r prydlesau yma ar sail rhent enwol ac am gyfnod sydd yn cyfateb i fywyd economaidd yr asedau. Nid oes premiwm wedi ei dderbyn ar gyfer y prydlesau yma.

### Prydlesau Gweithredol

Mae'r Cyngor yn prydlesu eiddo o dan brydlesau gweithredol i'r dibenion canlynol:

- i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned, megis cyfleusterau chwaraeon, gwasanaethau twristiaeth a chanolfannau cymuned
- i bwrpas datblygiad economaidd i ddarparu adeiladau addas a fforddiadwy i fusnesau lleol.

Y lleiafswm taliadau prydles derbyniadwy na ellir eu canslo yn y dyfodol yw:

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Dim mwy na blwyddyn | 313 | 367 |
| Mwy na blwyddyn ond dim mwy na pum mlynedd | 571 | 657 |
| Mwy na pum mlynedd | 2,776 | 4,041 |
| | **3,660** | **5,065** |

Nid yw'r lleiafswm taliadau derbyniadwy yn cynnwys rhent sydd yn amodol ar ddigwyddiad gymryd lle ar ôl i'r brydles ddechrau, er enghraifft, addasiadau yn dilyn adolygiad rhent. Yn 2022/23 £955,502 oedd y lleiafswm taliadau prydles derbyniwyd gan y Cyngor (£1,039,632 yn 2021/22).

## NODYN 36 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band, a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu cost y pecynnau perthnasol i'r cyflogwr, yn hytrach na gwir werth y taliadau i'r unigolion. Yn unol â'r gofynion fe gynhwysir yr ymrwymiadau perthnasol i'r Cyngor fel a wybyddir ar 31 o Fawrth 2023. Cynhwysir isod y costau gros perthnasol ond nid unrhyw arbedion cyllidol i'r Cyngor, ble'n briodol.

| Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig) | Nifer diswyddiadau gorfodol | | Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill | | Cyfanswm nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost | | Cyfanswm cost y pecynnau terfyn gwaith ym mhob band | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **£** | **2021/22** | **2022/23** | **2021/22** | **2022/23** | **2021/22** | **2022/23** | **2021/22 £'000** | **2022/23 £'000** |
| **0 - 20,000** | 13 | 5 | 3 | 3 | **16** | **8** | 133 | 44 |
| **20,001 - 40,000** | 0 | 0 | 0 | 2 | **0** | **2** | 0 | 61 |
| **40,001 - 60,000** | 1 | 0 | 1 | 0 | **2** | **0** | 107 | 0 |
| **60,001 - 80,000** | 0 | 1 | 0 | 0 | **0** | **1** | 0 | 74 |
| **80,001 – 100,000** | 0 | 0 | 0 | 1 | **0** | **1** | 0 | 85 |
| **100,001 – 150,000** | 0 | 1 | 0 | 0 | **0** | **1** | 0 | 117 |
| **Addasiad i amcangyfrif y flwyddyn flaenorol** | | | | | | | 17 | (21) |
| **Cyfanswm** | **14** | **7** | **4** | **6** | **18** | **13** | **257** | **360** |

## NODYN 37 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2022/23 talodd y Cyngor £11.73m (£11.02m yn 2021/22) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 22.92% (23.68% yn 2021/22) o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Yn 2022/23 roedd hyn yn £0.927m (£0.94m yn 2021/22), ac yn cynrychioli 1.81% (2.01% yn 2021/22) o dâl pensiynadwy athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 38.

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae Cyngor Gwynedd yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyngor a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir. Cyfran Cyngor Gwynedd o gyfanswm y cyfraniadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2022/23 oedd 36% (38% yn 2021/22).

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Y prif risgiau i'r Cyngor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

### Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn y dreth cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

| Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinir ac Ymrwymiad Net | Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2022 | | | Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2023 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Asedau** | **Ymrwym-iadau** | **(Ymrwym-iadau) /asedau net** | **Asedau** | **Ymrwym-iadau** | **(Ymrwym - iadau) /asedau net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 894,265 | 0 | 894,265 | 985,907 | 0 | 985,907 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (1,233,160) | (1,233,160) | 0 | (1,206,012) | (1,206,012) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | (24,957) | (24,957) | 0 | (21,942) | (21,942) |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **894,265** | **(1,258,117)** | **(363,852)** | **985,907** | **(1,227,954)** | **(242,047)** |
| Cost gwasanaeth | | | | | | |
| Cost gwasanaeth cyfredol* | 0 | (60,875) | (60,875) | 0 | (57,340) | (57,340) |
| Cost gwasanaeth y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | 0 | 0 | 0 | (390) | (390) |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **0** | **(60,875)** | **(60,875)** | **0** | **(57,730)** | **(57,730)** |
| Llog net | | | | | | |
| Incwm llog ar asedau'r cynllun | 17,971 | 0 | 17,971 | 26,726 | 0 | 26,726 |
| Cost llog ar fuddion a ddiffinir ymrwymiad | 0 | (25,603) | (25,603) | 0 | (33,678) | (33,678) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **17,971** | **(25,603)** | **(7,632)** | **26,726** | **(33,678)** | **(6,952)** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **17,971** | **(86,478)** | **(68,507)** | **26,726** | **(91,408)** | **(64,682)** |
| Llif Arian | | | | | | |
| Cyfraniadau aelodau'r cynllun | 6,697 | (6,697) | 0 | 7,470 | (7,470) | 0 |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 23,057 | 0 | 23,057 | 24,700 | 0 | 24,700 |
| Amcangyfrif cyfraniadau ynglŷn â buddion heb eu hariannu | 1,599 | 0 | 1,599 | 0 | 0 | 0 |
| Buddion a dalwyd | (19,927) | 19,927 | 0 | (22,872) | 22,872 | 0 |
| Buddion heb eu hariannu a dalwyd | (1,599) | 1,599 | 0 | (1,571) | 1,571 | 0 |
| Cyfraniadau buddion heb eu hariannu a dalwyd | | | | 1,571 | 0 | 1,571 |
| **Sefyllfa Cau a Ddisgwylir** | **922,063** | **(1,329,766)** | **(407,703)** | **1,021,931** | **(1,302,389)** | **(280,458)** |
| Ailfesuriadau | | | | | | |
| Newid mewn tybiaethau demograffig | 0 | 6,615 | 6,615 | 0 | 36,220 | 36,220 |
| Newid mewn tybiaethau ariannol | 0 | 95,995 | 95,995 | 0 | 502,848 | 502,848 |
| Profiadau eraill** | 0 | (798) | (798) | (10,033) | (77,169) | (77,169) |
| Enillion ar Asedau ag eithrio symiau a gynhwysir yn y llog net | 63,844 | 0 | 63,844 | (35,654) | 0 | 35,654 |
| **Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **63,844** | **101,812** | **165,656** | **(45,687)** | **461,899** | **416,212** |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 985,907 | 0 | 985,907 | 976,244 | 0 | 976,244 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (1,206,012) | (1,206,012) | 0 | (822,438) | (822,438) |
| Gwerth presennol ymrwymiadau heb eu hariannu*** | 0 | (21,942) | (21,942) | 0 | (18,052) | (18,052) |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth** | **985,907** | **(1,227,954)** | **(242,047)** | **976,244** | **(840,490)** | **135,754** |

* Mae'r gost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** Mae'r profiadau eraill ar ymrwymiadau yn cynnwys lwfans ar gyfer y gorchymyn cynnydd pensiwn a gymhwyswyd i'r ymrwymiadau a ariennir ym mis Ebrill 2023 sy'n wahanol i'r rhagdybiaeth cynnydd pensiwn a fabwysiadwyd yn Atodlen canlyniadau'r Cyflogwr ar ddechrau'r cyfnod. O fewn yr eitem profiadau eraill hon, mae'r rhwymedigaethau a gyllidir wedi cynyddu £64,541,000 o ganlyniad i'r faith bod y gorchymyn cynyddu pensiwn yn wahanol i'r dybiaeth flaenorol.

*** Mae'r ymrwymiad yn cynnwys tua £6,757,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido y CPLlL a £11,295,000 sydd yn perthyn i bensiynau heb eu cyllido Athrawon.

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r balans sero ar y Fantolen yn adlewyrchu gwarged yn y buddion a enillwyd gan weithwyr a'r adnoddau y mae'r Cyngor wedi'u neilltuo i'w bodloni, sydd wedi'i gyfyngu gan IAS 19 ac IFRIC 14.

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| Gwerth teg asedau'r cynllun | 985,907 | 976,244 |
| Gwerth presennol ymrwymiadau wedi eu hariannu | (1,277,954) | (840,490 |
| Effaith IAS 19/ IFRIC 14 | 0 | (135,754) |
| Ased/ (Ymrwymiad) Net yn deillio o Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir | (242,047) | 0 |

### Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £2.771bn ar 31 Mawrth 2023, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

### Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh19.

| | Ar 31 Mawrth 2022 | | | | Ar 31 Mawrth 2023 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori Ased** | **Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweithre-dol £'000** | **Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweithred -ol £'000** | **Cyfan -swm £'000** | **%** | **Prisiau a ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith -redol £'000** | **Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnad -oedd Gweith -redol £'000** | **Cyfan -swm £'000** | **%** |
| **Ernesau Ecwiti** | | | | | | | | |
| Defnyddiwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhyrchu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sefydliadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Gofal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ecwiti Preifat** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 55,560 | 55,560 | 6 | 0 | 61,460 | 61,460 | 6 |
| **Ernesau Dyledion** | | | | | | | | |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Eiddo Diriaethol** | | | | | | | | |
| Eiddo'r DU | 0 | 84,556 | 84,556 | 9 | 0 | 80,458 | 80,458 | 8 |
| Eiddo Tramor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol** | | | | | | | | |
| Ecwiti | 0 | 626,572 | 626,572 | 63 | 0 | 607,742 | 607,742 | 62 |
| Bondiau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 19,270 | 19,270 | 2 | 0 | 27,717 | 27,717 | 3 |
| Eraill | 0 | 196,874 | 196,874 | 20 | 0 | 195,820 | 195,820 | 20 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 3,075 | 0 | 3,075 | 0 | 3,047 | 0 | 3,047 | 1 |
| **Cyfanswm** | **3,075** | **982,832** | **985,907** | **100** | **3,047** | **973,197** | **976,244** | **100** |

## NODYN 38 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2021, gyda phwysiad o 10% o ddata 2021 (a 2020), llyfnu safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn ar gyfer gwrywod a benywod.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn diweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | **% y.f.** | **% y.f.** |
| Cyfradd Cynnydd Pensiynau | 3.20 | 2.95 |
| Cyfradd Cynnydd Cyflogau | 3.50 | 3.45 |
| Cyfradd Chwyddiant | 3.20 | 2.95 |
| Cyfradd Ddisgownt | 2.70 | 4.75 |
| Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau | 2.70 | 4.75 |
| **Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol** | | |
| am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 50 | 65 |
| am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 75 | 65 |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr cyfredol | | |
| Dynion | 21.3 | 20.8 |
| Merched | 23.7 | 23.8 |
| Hirhoedledd yn 65 oed i bensiynwyr y dyfodol | | |
| Dynion | 22.4 | 21.9 |
| Merched | 25.7 | 25.5 |

Mae'r amcangyfrif o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2023 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyngor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyngor fel yr oedd ar 31 March 2022, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

**Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun**

| Newid tybiaeth | Brasamcan cynnydd i'r Ymrwymiad Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2023 | Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | % | £'000 |
| 0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt | 2 | 16,601 |
| Cynnydd o 1 blwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 4 | 33,620 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad cyflog | 0 | 2,439 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn | 2 | 14,400 |

**Effaith ar Lif Arian y Cyngor**

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel gyllido o 100% dros y 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyngor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad bob tair blynedd, neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2023 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod y cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyngor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2019, dyddiedig 28 Mawrth 2020.

**Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinir**

| | Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2023 £'000 | % |
|---|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 393,390 | 48 |
| Aelodau Gohiriedig | 126,160 | 15 |
| Aelodau Pensiynwyr | 302,888 | 37 |
| **Cyfanswm** | **822,438** | **100.0** |

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2022. Cyfnod cyfartaledd cymhwysol o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yn 2022/23 yw 20 mlynedd.

**Effaith ar y Blynyddoedd i ddod**

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyngor fod yn £23.032m yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2024.

Gan fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amseru, gwnaed addasiad o £34,331 yn 2022/23 (£218,134 yn 2021/22) i ddod â'r sefyllfa yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2023. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn.

## NODYN 39 – YMRWYMIADAU DIBYNNOL

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fo digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyngor ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall ddigwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyngor.

Mae'r sefyllfa isod yn berthnasol i amgylchiadau'n ymwneud â dau ymrwymiad dibynnol penodol:

- Gofynion capio ac ôl-ofalaeth safleoedd tirlenwi y Cyngor - mae'r ddarpariaeth sydd yn gynwysedig yn y cyfrifon yn seiliedig ar amgylchiadau presennol a gwybyddus, yn ychwanegol i ragolygon perthnasol. Er hynny, mae'n bosib y bydd y gwir gost derfynol yn wahanol i'r amcangyfrif cyfredol o gostau'r dyfodol.

- Mae'r Cyngor yn agored i ymrwymiad yswiriant posib sy'n berthnasol i drefniadau yswiriant ei gyn-Awdurdodau, sef Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Arfon, Cyngor Dosbarth Dwyfor, Cyngor Dosbarth Meirionnydd, a therfyniad Cronfa Municipal Mutual Insurance (MMI) ar 30 Medi 1992.

  Gwnaeth MMI gynllun o drefniant gyda'i gredydwyr, ble, os oedd cyllid MMI yn annigonol i gyfarfod hawliadau yn y dyfodol, yna byddai cymal adfachu'n cael ei sbarduno (sef Cynllun o Drefniant) a allai effeithio hawliadau a dalwyd ers 1992/93. Ar 13 Tachwedd 2012, daeth cyfarwyddwyr y Cwmni i'r casgliad y dylid gweithredu amodau'r Cynllun o Drefniant a rhoddwyd rhybudd i'r perwyl hwn i Weinyddwr y Cynllun a'r Cwmni. Mae'r penderfyniad yn derfynol. Talwyd ardoll gwreiddiol o 15% o'r taliadau a wnaethpwyd ers 30 Medi 1992 yn ystod 2013/14, a talwyd 10% pellach yn 2016/17.

  Fodd bynnag, yn unol â'r cynllun, bydd modd codi ardoll pellach os na fydd y lefi gwreiddiol yma yn ddigonol ar gyfer ymrwymiadau MMI yn y tymor hwy. Mae Cyngor Gwynedd o'r farn y byddai'n ddarbodus i gynnal cronfa yn y disgwyliad y bydd yr ardoll gwreiddiol yn annigonol. Uchafswm cyfredol yr ymrwymiad i'r Cyngor hwn yn seiliedig ar y ffigyrau cyhoeddedig diweddaraf oedd ar gael ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yw £1.3m.

## NODYN 40 – YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel yr unig ymddiriedolwr ar gyfer 175 o gymroddion megis cronfeydd gwobrau ysgolion, a chronfeydd cysuron a gwelliannau i nifer o Sefydliadau'r Cyngor. Mae gan y gronfa fwyaf, y Gronfa Degwm, gyfriflyfr cyfrifo sy'n hollol ar wahân, tra bo'r Cyngor yn dal eiddo 174 o'r cymynroddion hyn ond nid yw'n gwneud penderfyniadau ar ddefnydd y cronfeydd. Ymhob achos, nid yw'r cronfeydd yn cynrychioli asedion y Cyngor ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

Cyfanswm balans y 174 o gymynroddion nad ydynt yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor ar 31 Mawrth 2023 oedd £1,634,434 (£1,146,121 ar 31 Mawrth 2022). Buddsoddir y cronfeydd yn llawn er mwyn creu incwm.

Manylir ar y cymynroddion mwyaf, Y Gronfa Degwm ac Ymddiriedolaeth FMG Morgan, yn atodiadau A a B i'r cyfrifon hyn.

## NODYN 41 – TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH

Mae GwyriAD yn gynllun Trefniant Consesiwn Gwasanaeth, sydd hefyd yn cael ei adnabod fel cynllun 'Menter Cyllid Preifat' (MCP). Dechreuwyd ar y dasg o'i adeiladau yn 2012/13 a'r gwaith yn dod yn weithredol ym Medi 2013. Gwaith yw gogyfer â thrin gwastraff bwyd a ddidolir yn y tarddle gan breswylwyr a busnesau Gwynedd (yn bennaf) trwy ddefnyddio technoleg Treulio Anaerobig (Anaerobic Digestion). Mae hyn yn gymorth i'r Cyngor gyrraedd ei dargedau ailgylchu, a gweithio o fewn ei lwfansau tirlenwi o Wastraff Dinesig Bioddiraddadwy am gyfnod o 15 mlynedd.

Mae'r asedau sy'n cael eu darparu i gyflenwi'r gwasanaeth yn cael eu cydnabod ar Fantolen y Cyngor. Gwerth yr asedau perthnasol ar 31 Mawrth 2023 oedd £2.2m (£2.3m ar 31 Mawrth 2022). Mae'r Cyngor yn gwneud taliad cytunedig (ffi giât) bob blwyddyn yn seiliedig ar isafswm o dunelli sy'n cael ei gynyddu yn flynyddol gan chwyddiant ac sy'n gallu cael ei ostwng os yw'r contractwr yn methu â chyrraedd safonau argaeledd a pherfformiad mewn unrhyw flwyddyn. Mae gan y Cyngor yr hawl i gynyddu swm y tunelli dros y 7,500 tunnell cytunedig hyd at 11,000 tunnell, a bydd yn talu ffi giât ostyngol am unrhyw beth dros 7,500 tunnell.

| | **Taliad am Wasanaethau** | **Ad-daliad Gwariant Cyfalaf** | **Llog** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Talwyd yn 2022/23 | 498 | 181 | 84 | 763 |
| Taladwy yn 2023/24 | 498 | 192 | 73 | 763 |
| Taladwy o fewn 2 i 5 mlynedd | 1,991 | 893 | 167 | 3,051 |
| Taladwy o fewn 6 i 10 mlynedd | 207 | 104 | 7 | 318 |
| **Cyfanswm** | **3,194** | **1,370** | **331** | **4,895** |

Er bod y taliadau sy'n cael eu gwneud i'r contractwr yn cael eu disgrifio fel taliadau unedol, maent wedi eu cyfrifo er digolledu'r contractwr am werth teg y gwasanaeth a gyflenwir, y gwariant cyfalaf a'r llog oedd yn daladwy.

Mae'r contractwr yn derbyn incwm o ynni sy'n cael ei gynhyrchu o'r gwastraff sydd wedi eu galluogi i gadw'r taliad unedol i'r Cyngor yn isel. Os yw'r incwm yn uwch na'r hyn sydd yn y cytundeb, mae trefniant iddo gael ei rannu rhwng y contractwr a Chyngor Gwynedd.

Mae'r ymrwymiadau sy'n ddyledus i'r contractwr am y gwariant cyfalaf sydd wedi ei wneud fel a ganlyn:

| | **2022/23** | |
|---|---|---|
| | **Ymrwymiadau Prydlesau** | **Incwm Gohiriedig** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Balans yn sefyll 1 Ebrill 2022 | (1,370) | (935) |
| Ad-daliad o brifswm yn ystod y flwyddyn | 181 | 0 |
| Rhyddhad o incwm gohiriedig | 0 | 145 |
| **Balans yn sefyll ar 31 Mawrth 2023** | **(1,189)** | **(790)** |

Gellir terfynu'r cytundeb gan un o'r ddwy ochr ar unrhyw adeg ar sail diffygion, yn amodol ar roi rhybudd yn unol â'r cytundeb. Yn ogystal, gall y Cyngor derfynu'r cytundeb yn unochrog yn unol â'r amodau ynddo. Byddai costau iawndal ynghlwm ag unrhyw drefniant terfynu. Ar ddiwedd y cytundeb, mae gan y Cyngor hawl i ail-dendro am gontractwr i ddarparu'r gwasanaeth.

## NODYN 42 – CYLLIDEB CYFUN

O dan reoliad 19(1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant cyllidebau cyfun rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â darparu llety cartrefi gofal ar gyfer pobl hŷn. Daeth y trefniant i rym ar 1 Ebrill 2019. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel awdurdod lletya yn ystod cyfnod cychwynnol y cytundeb.

Mae trafodion y Cyngor wedi'u cynnwys o dan Oedolion, Iechyd a Llesiant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r incwm a'r gwariant ar gyfer y trefniant cyllideb gyfun hwn wedi'u cynnwys yn y tabl isod:

| | **Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn** | |
|---|---|---|
| **2021/22** | | **2022/23** |
| **£'000** | | **£'000** |
| | **Gwariant** | |
| 98,982 | Costau Cartrefi Gofal | 111,032 |
| **98,982** | **Cyfanswm Gwariant** | **111,032** |
| | | |
| | **Arian a gyfrannir** | |
| (9,340) | Cyngor Sir Ddinbych | (10,236) |
| (14,221) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (15,864) |
| (10,095) | Cyngor Sir y Fflint | (10,556) |
| (15,317) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (14,434) |
| (9,143) | Cyngor Gwynedd | (11,214) |
| (5,209) | Cyngor Sir Ynys Môn | (5,708) |
| (35,657) | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | (43,020) |
| **(98,982)** | **Cyfanswm Arian a gyfrannir** | **(111,032)** |
| **0** | **(Gwared) / Diffyg a drosglwyddir i'r gronfa wrth gefn** | **0** |

## NODYN 43 – GWEITHREDIADAU AR Y CYD A CHYD-BWYLLGORAU

Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o weithrediadau ar y cyd gydag awdurdodau cyfagos yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod 2022/23, roedd Cyngor Gwynedd yn rhan o bum cyd-bwyllgor a dau gweithrediad ar y cyd, sef cyd-weithio mewn meysydd penodol rhwng awdurdodau lleol. Mae'n ofynnol i gyfrifon ar wahân gael eu cynhyrchu ar gyfer cyd-bwyllgorau. Y pedwar cyd-bwyllgor perthnasol i Wynedd yn ystod 2022/23 yw:

- Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd
- GwE
- Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC)
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC)

Y ddau weithrediad ar y cyd sy'n berthnasol i Wynedd yn ystod 2022/23 ac sydd wedi dod yn weithredol yn dilyn yr argyfwng Covid-19 yw:

- Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu
- Cynllun Argyfwng Bysus

Mae cyfrifon y cyd-bwyllgorau yn dilyn yr un amserlen o ran dyddiad statudol ar gyfer cwblhau y cyfrifon. Yn yr amgylchiadau, felly fe welir bod cyfrifon Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu y gwir ymrwymiad net perthnasol, er bod y sefyllfa ddadansoddol oddrychol yn mynd i amrywio yn ddibynnol ar sefyllfa a threfniadau adrodd y gwahanol gyd-bwyllgorau (eithrio y BUEGC). Mae'r ffigyrau a'r gyfran berthnasol i Wynedd wedi eu cynnwys yn y tabl isod:

| Cyd-Bwyllgor / Gweithrediad ar y Cyd | Awdurdod Lletya Cyllid | Cynghorau a Sefydliadau sydd yn rhan o'r Cyd-Bwyllgor | Cyfran Cyngor Gwynedd | Gwerth Cyfran Gwynedd (Cyfrif Incwm a Gwariant) |
|---|---|---|---|---|
| | | | % | £'000 |
| **Cyd-Bwyllgor** | | | | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | Cyngor Gwynedd | Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn | 50.00 | 245 |
| GwE | Cyngor Gwynedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 17.59 | 773 |
| Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn | 23.83 | 0 |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Cyngor Gwynedd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Prifysgol Glyndŵr Wrecsam<br>Coleg Cambria | *Gweler y nodyn isod. | |

| **Gweithrediad ar y Cyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Profi, Olrhain a Diogelu | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 21.23 | 347 |
| Cynllun Argyfwng Bysus | Cyngor Sir y Fflint | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Gwynedd<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 24.04 | 1,269 |

*Mae cyfrifon Cyngor Gwynedd yn cynnwys y gwir trafodion a balansau mewn perthynas â busnes y BUEGC yn ogystal â'u cyfran o'r trafodion a'r balansau sy'n weddill, a ddosbarthwyd fel 12.5% (Awdurdod Lleol) a 6.25% (Addysg Bellach/Uwch) yn unol â'r dyraniadau yn y Cytundeb Llywodraethu 2.

Gellir gweld cyfrifon y cyd-bwyllgorau unigol ar wefannau y cynghorau sydd yn arwain ar y gwasanaeth cyllid a chyfrifeg.

## NODYN 44 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 30 Mehefin 2023. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle'r oedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd faterol i ddangos yr effaith.

# Y GRONFA DEGWM

| 2021/22 | | 2022/23 | |
|---|---|---|---|
| £'000 | | £'000 | £'000 |
| 958 | **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill** | | 970 |
| | **Ychwaneger -** Incwm yn ystod y flwyddyn | | |
| 42 | Llog ar fuddsoddiadau | | 47 |
| | **Llai -** Gwariant yn ystod y flwyddyn | | |
| (30) | Grantiau a chostau | (41) | |
| | | | (41) |
| **970** | **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth** | | **976** |
| | **A gynrychiolir gan yr Asedau canlynol** | | |
| 0 | Dyledwyr | | 2 |
| 900 | Buddsoddiadau | | 900 |
| 73 | Arian mewn llaw | | 75 |
| 973 | | | 977 |
| (3) | **Llai -** Credydwyr | | (1) |
| **970** | **Cyfanswm** | | **976** |

## NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Dywed Cynllun gweinyddu'r Gronfa y ceir defnyddio'r incwm at bwrpasau elusennol – addysgol, adloniadol a chymdeithasol, yn unol â disgresiwn y Cyngor.

2. Mae'r Ddeddf Elusennol 1993 yn gofyn am archwiliad annibynnol o ddatganiad o gyfrifon y Gronfa Degwm yn flynyddol.

3. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2023 oedd £878,344.

# CRONFA YMDDIRIEDOLAETH FMG MORGAN

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 188 | **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill** | 184 |
| | **Ychwaneger -** Incwm yn ystod y flwyddyn | |
| 14 | Llog enillwyd gan yr asedau | 16 |
| | **Llai -** Gwariant yn ystod y flwyddyn | |
| (18) | Grantiau | (33) |
| **184** | **Cyfanswm y Gronfa 31 Mawrth** | **167** |
| | **Asedau** | |
| 144 | Buddsoddiadau | 144 |
| 40 | Arian mewn llaw | 23 |
| **184** | | **167** |

## NODIADAU I'R CYFRIFON

1. Sefydlwyd y Gronfa hon gyda gweddill ystâd y diweddar Mrs. Florence Merthyr Guest Morgan. Roedd incwm y Gronfa i'w ddefnyddio er budd trigolion rhannau o Lŷn at bwrpasau penodedig.

2. Dangosir buddsoddiadau ar gost yn y cyfrifon. Gwerth y buddsoddiadau ar y farchnad ar 31 Mawrth 2023 oedd £363,635 (£378,818 ar 31 Mawrth 2022).

3. Mae Cronfa FMG Morgan tu allan i ofynion y Ddeddf Elusennol 1993. Oherwydd hyn nid oes angen archwiliad annibynnol o'r Gronfa Ymddiriedolaeth hon.

# Geirfa

**Amhariad** – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid anffafriol mewn amgylchedd statudol).

**Amorteiddio** – Gwarediad graddol ymrwymiad, megis benthyciad, gyda thaliadau cyson dros gyfnod penodol o amser. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn ddigonol i glirio'r prifswm a'r llog.

**Ariannu Cyfalaf** - Cyllid ar gyfer talu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd i ariannu gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, lesu, cyllido'n uniongyrchol o refeniw, derbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, reserfau refeniw a reserfau wedi'u clustnodi.

**Ased** - Eitemau o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

**Asedau Anniriaethol** – Ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd corfforol. Meddalwedd cyfrifiadurol er enghraifft.

**Asedau Cymunedol** - Asedau anghyfredol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal yn barhaus sydd heb oes benodol ddefnyddiol, ac a allai gael cyfyngiadau ar eu gwarediad. Gall esiamplau gynnwys parciau ac adeiladau hanesyddol.

**Asedau Treftadaeth** – Ased gyda rhinweddau Hanesyddol, Artistig, Gwyddonol, Technolegol, Geoffisegol neu a budd Amgylcheddol, gaiff ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad i wybodaeth a diwylliant.

**Balansau (neu Reserfau)** - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu mentrau diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

**CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting)** – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

**Cost Adnewyddu Dibrisiedig** – Dull prisio sy'n darparu procsi ar gyfer gwerth marchnad asedau arbenigol.

**Cost Gwasanaeth Cyfredol** – Cynnydd yng ngwerth cyfredol ymrwymiadau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

**Credydwyr** - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Cronfa Gyffredinol** - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net yr holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau'r Llywodraeth.

**Cronfa Ymddiriedolaeth** - Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor ar gyfer dibenion megis gwobrau, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

**Cyfrif Addasiadau Cyfalaf** – Reserf wedi ei glustnodi o adnoddau cyllid neu dderbyniad cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf neu ad-daliad benthyciad allanol a mathau eraill o drafodion cyllido cyfalaf.

**Cynllun Buddiannau Diffiniedig** – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall sydd ddim yn gynllun cyfraniad diffiniedig.

**Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig** - Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

**Darpariaeth** – Ymrwymiad sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

**Derbyniadau Cyfalaf** - Incwm a dderbynnir o werthu tir neu asedau cyfalaf arall.

**Dibrisio** – Mesuriad cost y budd economaidd yr asedau sefydlog diriaethol dreuliwyd yn ystod y cyfnod.

**Dyledwyr** - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Eiddo Buddsoddi** – Eiddo a ddelir unai ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer gwerthfawrogiad cyfalaf, neu'r ddau.

**Enillion a Cholledion Actiwaraidd** - Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, mae y newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu bod y rhagdybiaethau actiwaraidd wedi newid.

**Gwariant Cyfalaf** - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

**Gwerth Llyfr Net** – Gwerth lle caiff asedau sefydlog eu cynnwys ar y Fantolen, h.y. eu cost hanesyddol neu werth cyfredol llai'r gwerth cronnus a ddarperir ar gyfer dibrisiad.

**Gwerth Teg** - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu a delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

**Lleiafswm Darpariaeth Refeniw (LIDR)** – Y lleiafswm sydd rhaid ei godi ar gyfrif refeniw Awdurdod yn flynyddol a'i neilltuo fel darpariaeth ar gyfer ymrwymiad credyd.

**Menter Cyllid Preifat (MCP)** – Menter llywodraeth ganolog sy'n anelu i gynyddu lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus drwy ddenu ffynonellau preifat o gyllid.

**Offerynnau Ariannol** - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymiadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb dyledus) a masnach daladwy (anfoneb sy'n ddyledus i'w talu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnblannu.

**Partïon Cysylltiedig** - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu gyda dylanwad sylweddol penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

**Praeseptau** – Yr ardoll a wnaed gan awdurdodau archebiant ar awdurdodau sy'n bilio, gyda'r gofyn ar yr Awdurdod sy'n bilio i gasglu'r incwm gan drethdalwyr y Cyngor ar eu rhan.

**Prydlesau Cyllidol** – Les sydd yn trosglwyddo'n sylweddol holl risg a gwobr perchnogaeth ased anghyfredol i'r deiliad prydles.

**Prydlesau Gweithredol** - Math o les, gan amlaf ar offer cyfrifiadurol, cyfarpar swyddfa, dodrefn a.y.y.b. ble mae'r cydbwysedd risgiau a gwobrau o ddal yr ased ynghlwm â'r prydleswr. Mae'r ased yn aros ym mherchnogaeth y prydleswr ac mae costau'r les yn wariant refeniw i'r Cyngor.

**Rhestr Eiddo** – Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categoreiddio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)** – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu gweithredu ar bob datganiad cyllidol gan bob endid sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiadau cyllidol endidau eraill.

**Ymrwymiadau** – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion / sefydliadau y bydd yn rhaid eu talu rhywbryd yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU A ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **7 MEDI 2023** |
| TEITL: | **RHEOLAETH TRYSORLYS 2022/23** |
| PWRPAS: | **Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys y Cyngor** |
| ARGYMHELLIAD**:** | **DERBYN YR ADRODDIAD ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

**Crynodeb Gweithredol**

Yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23 arhosodd gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol a derbyniwyd £1.8m o log ar fuddsoddiadau sydd yn uwch na'r £0.4m a oedd yn y gyllideb. Ni wnaeth unrhyw fanc yr oedd y Cyngor wedi buddsoddi arian gyda methu â thalu.

**1. Cyflwyniad**

Cymeradwywyd y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys ar gyfer 2022/23 gan y Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fawrth 2022.

Mae'r Cyngor wedi benthyg a buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli symiau sydd wedi cael eu buddsoddi a'r effaith refeniw o newidiadau mewn cyfraddau llog. Felly, mae adnabod, monitro a rheoli risg yn ganolog i Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Cyngor.

Mae'r adroddiad yma yn cymharu gwir berfformiad yn erbyn y strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 ac yn cyflawni dyletswydd gyfreithiol y Cyngor o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i gymryd ystyriaeth o God CIPFA ag Arweiniad Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

**2. Cefndir Economaidd**

Parhaodd y rhyfel yn yr Wcrain i gadw chwyddiant byd-eang uwchlaw targedau'r banc canolog ac arhosodd rhagolygon economaidd y DU yn gymharol wan gyda'r siawns o ddirwasgiad ysgafn. Parhaodd y cefndir economaidd yn ystod y cyfnod Ionawr i Fawrth i gael ei nodweddu gan brisiau ynni a nwyddau uchel, chwyddiant uchel, a'r effaith gysylltiedig ar gyllidebau a gwariant cartrefi.

Arhosodd rhethreg a gweithredoedd y Banc Canolog yn gyson â brwydro yn erbyn chwyddiant. Cynyddodd Banc Lloegr, Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau, a Banc Canolog Ewrop i gyd gyfraddau llog dros y cyfnod, hyd yn oed yn wyneb yr arafu economaidd posibl yn y rhanbarthau hynny.

Gan ddechrau'r flwyddyn ariannol ar 5.5%, cododd y mesur CPI blynyddol o chwyddiant y DU yn gryf i daro 10.1% ym mis Gorffennaf ac yna 11.1% ym mis Hydref.

Arhosodd chwyddiant yn uchel yn y misoedd dilynol ond roedd yn ymddangos ei fod wedi cyrraedd yr uchafbwynt, cyn codi eto'n annisgwyl ym mis Chwefror. Cofrestrodd CPI pennawd blynyddol 10.4% ym mis Chwefror, i fyny o 10.1% ym mis Ionawr, gyda'r cyfraniadau ar i fyny mwyaf yn dod o fwyd a thai. Dilynodd RPI batrwm tebyg yn ystod y flwyddyn, gan gyrraedd 14.2% ym mis Hydref. Ym mis Chwefror roedd RPI yn mesur 13.8%, i fyny o 13.4% yn y mis blaenorol

Yn dilyn penderfyniad llywodraeth y DU o dan Rishi Sunak a Jeremy Hunt i wrthdroi rhywfaint o'r gefnogaeth i filiau ynni cartrefi a gyhoeddwyd o dan Liz Truss, cyhoeddwyd cefnogaeth bellach ar ffurf cap ar yr hyn y gallai cyflenwyr ynni ei godi ar aelwydydd yng Nghyllideb mis Mawrth i rhedeg o Ebrill tan ddiwedd Mehefin 2023. Cyn y cyhoeddiad, roedd biliau aelwydydd i fod i godi i £3,000 y flwyddyn o fis Ebrill.

Arhosodd y farchnad lafur yn dynn er bod rhywfaint o dystiolaeth barhaus o lacio posibl ar ddiwedd y cyfnod. Lleihaodd y gyfradd ddiweithdra 3m/flwyddyn o 3.8% Ebrill-Mehefin i 3.6% yn y chwarter dilynol, cyn codi eto i 3.7% rhwng Hydref-Rhagfyr. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfnod Rhagfyr-Chwefror yn dangos cyfradd ddiweithdra o 3.7%.

Roedd y gyfradd anweithgarwch yn 21.3% yn y chwarter Rhagfyr-Chwefror, ychydig i lawr o'r 21.4% yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Roedd enillion enwol yn gadarn drwy gydol y flwyddyn, gyda thwf enillion rhwng Rhagfyr a Chwefror yn 5.7% ar gyfer cyfanswm tâl (gan gynnwys bonysau) a 6.5% ar gyfer tâl rheolaidd. Ar ôl eu haddasu ar gyfer chwyddiant, fodd bynnag, roedd y ddau fesur yn negyddol ar gyfer y cyfnod hwnnw ac maent wedi bod felly drwy gydol y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Cynyddodd Banc Lloegr y Gyfradd Banc swyddogol i 4.25% yn ystod y flwyddyn ariannol. O 0.75% ym mis Mawrth 2022, gwthiodd y Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) drwy godiadau ym mhob cyfarfod dilynol dros y cyfnod, gyda chynnydd diweddar o 50bps ym mis Rhagfyr a mis Chwefror ac yna 25bps ym mis Mawrth, gan godi Cyfradd y Banc i 4.25%. Pleidleisiwyd cynnydd mis Mawrth gan fwyafrif o 7-2, gyda dau aelod o'r MPC yn ffafrio cadw Cyfradd Banc ar 4.0%. Nododd y Pwyllgor fod pwysau chwyddiant yn parhau i fod yn uchel gyda thwf yn gryfach na'r disgwyl yn Adroddiad Polisi Ariannol mis Chwefror. Roedd pleidlais mis Chwefror hefyd yn 7-2 o blaid cynyddu'r gyfradd, ac eto gyda dau aelod yn ffafrio cadw Cyfradd y Banc yr un fath.

Ar ôl cyrraedd 9.1% ym mis Mehefin, arafodd chwyddiant blynyddol yr Unol Daleithiau am wyth mis yn olynol i 6% ym mis Chwefror. Parhaodd y Gronfa Ffederal i godi cyfraddau llog dros y cyfnod gyda chynnydd yn olynol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Marchnad Agored Ffederal, gan fynd â chyfraddau polisi i ystod o 4.75% - 5.00% yng nghyfarfod mis Mawrth.

O'r lefel uchaf erioed o 10.6% ym mis Hydref, gostyngodd chwyddiant CPI Ardal yr Ewro yn raddol i 6.9% ym mis Mawrth 2023. Gostyngodd prisiau ynni, ond daeth pwysau ar i fyny gan fwyd, alcohol a thybaco. Parhaodd Banc Canolog Ewrop i gynyddu cyfraddau llog dros y cyfnod, gan wthio cyfraddau i fyny 0.50% ym mis Mawrth, gan fynd â chyfradd y cyfleuster adnau i 3.0% a'r brif gyfradd ail-ariannu i 3.5%.

## 3. Sefyllfa Diwedd Flwyddyn

### Crynodeb Mantolen

Ar 31 Mawrth 2023 roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau net o £50m oherwydd gweithgareddau refeniw a chyfalaf. Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca er dibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyn Benthyca Cyfalaf (CFR), tra mai'r cronfeydd defnyddiadwy a chyfalaf gweithredol yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r symudiadau yn cael eu crynhoi yn y tabl isod.

| | 31.3.22 Gwir £m | 2022/23 Symudiad £m | 31.3.23 Gwir £m |
|---|---|---|---|
| CFR | 169 | 2 | 171 |
| Llai : Ymrwymiadau dyled eraill | (1) | 0 | (1) |
| **CFR Benthyciadau** | **168** | **2** | **170** |
| Llai: Cronfeydd defnyddiadwy | (143) | 9 | (134) |
| Llai: Cyfalaf Gweithredol | (18) | (68) | (86) |
| **Benthyciadau / (Buddsoddiadau) net** | **7** | **(57)** | **(50)** |

Dilynodd y Cyngor ei strategaeth o gadw benthyciadau a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn benthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel.

### Crynodeb Rheolaeth Trysorlys

| | 31.3.22 Balans £m | Symudiad £m | 31.3.23 Balans £m |
|---|---|---|---|
| Benthyciadau tymor hir | 101.8 | (0.9) | 100.9 |
| Benthyciadau tymor byr | 1.6 | (0.5) | 1.1 |
| PFI | 1.4 | (0.2) | 1.2 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **104.8** | **(1.6)** | **103.2** |
| Buddsoddiadau tymor byr | (79.8) | (10.1) | (89.9) |
| Arian a Chywerthoedd arian | (18.1) | (44.7) | (62.8) |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **(97.9)** | **(54.8)** | **(152.7)** |
| **Benthyciadau / (Buddsoddiadau) net** | **6.9** | **(56.4)** | **(49.5)** |

## 4. Gweithgaredd Benthyca

Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan y Cyngor £102.0m o fenthyciadau, lleihad o £1.4m ers y flwyddyn cynt fel rhan o'r strategaeth i ariannu cynlluniau cyfalaf blynyddoedd blaenorol.

Y llog a dalwyd yn ystod 2022/23 oedd £5.6 miliwn ar bortffolio benthyciadau gyda chyfartaledd o £101.5 miliwn ar gyfradd llog cyfartalog o 5.47%.

Gweler y sefyllfa a symudiadau benthyciadau ar ddiwedd y flwyddyn yn y tabl isod.

| | **31.3.22 Balans £m** | **2022/23 Symudiad £m** | **31.3.23 Balans £m** | **31.3.23 Cyfradd %** | **31.3.23 WAM* blynyddoedd** |
|---|---|---|---|---|---|
| PWLB | 85.6 | (1.3) | 84.3 | 5.71 | 17.48 |
| Banc (tymor sefydlog) | 16.2 | 0.0 | 16.2 | 4.22 | 55.36 |
| Eraill | 1.6 | (0.1) | 1.5 | 0.0 | 3.38 |
| **Cyfanswm Benthyciadau** | **103.4** | **(1.4)** | **102.0** | | |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi'i bwyso

Prif amcan y Cyngor wrth fenthyca yw taro cydbwysedd risg isel briodol rhwng sicrhau costau llog isel a derbyn sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen yr arian, gyda'r ail amcan o hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe byddai cynlluniau hir dymor y Cyngor yn newid. Mae strategaeth fenthyca'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â mater allweddol fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyledion a, lle bo'n ymarferol, i gadw benthyca a buddsoddiadau yn is na'u lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol.

Cododd cost benthyca tymor hir a thymor byr yn ddramatig dros y flwyddyn, gyda chyfraddau ar ddiwedd mis Mawrth tua 2% - 4% yn uwch na'r rhai ar ddechrau mis Ebrill. Mae codiadau mewn cyfraddau wedi'u hysgogi'n bennaf gan chwyddiant a'r angen i fanciau canolog reoli hyn drwy godi cyfraddau llog. Gwelwyd cynnydd arbennig o ddramatig ym mis Medi ar ôl i 'gyllideb fach' Liz Truss gynnwys toriadau treth heb eu hariannu a benthyca ychwanegol i ariannu cymorthdaliadau prisiau ynni defnyddwyr: dros gyfnod o bedair awr ar hugain cynyddodd rhai cyfraddau PWLB i 6%. Mae cyfraddau bellach wedi gostwng ers brig mis Medi ond maent yn parhau i fod yn gyfnewidiol ac yn llawer uwch na'r normau hanesyddol diweddar. Roedd cyfradd sicrwydd aeddfedrwydd 10 mlynedd y PWLB yn 4.33% ar 31 Mawrth 2023, 20 mlynedd ar 4.70% a 30 mlynedd ar 4.66%.

Ni wnaed unrhyw fenthyca tymor hir newydd yn 2022/23, gyda'r benthyciadau presennol yn aeddfedu heb gymryd benthyciad newydd yn eu lle. Wnaeth y strategaeth yma alluogi'r Cyngor i leihau eu costau benthyca net (er colli incwm buddsoddi) a lleihau'r risg trysorlys cyffredinol.

## 5. Gweithgaredd Buddsoddi Trysorlys

Cyhoeddodd CIPFA Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Cyfarwyddyd Traws-Sectoraidd diwygiedig ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli'r trysorlys sy'n deillio o lif arian y sefydliad neu

weithgaredd rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi hyd nes y bydd angen yr arian parod i'w ddefnyddio yng nghwrs busnes.

Mae’r Cyngor wedi dal cronfeydd buddsoddi sylweddol, sy’n cynrychioli incwm a dderbyniwyd cyn gwario ynghyd â’r balansau a’r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, amrywiodd balansau buddsoddi’r Cyngor rhwng £82.3 miliwn a £170.8 miliwn.

**Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | **31.3.22 Balans £m** | **2022/23 Symudiad £m** | **31.3.23 Balans £m** | **31.3.23 Cyfradd %** | **31.3.23 WAM* (diwrnodau)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Banciau & Cymdeithasau Adeiladu (heb ei ddiogelu) | 23.1 | 6.0 | 29.1 | 3.83 | 51.4 |
| Awdurdodau Lleol | 30.0 | (9.9) | 20.1 | 3.91 | 78.0 |
| Cronfeydd Marchnad Arian (CMA) | 17.0 | 43.8 | 60.8 | 4.08 | 1.0 |
| Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | 18.0 | 16.0 | 34.0 | 4.09 | 51.3 |
| Cronfeydd wedi’u pwlio | 9.8 | (1.1) | 8.7 | 4.60 | 365+ |
| **Cyfanswm buddsoddiadau** | **97.9** | **54.8** | **152.7** | | |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi’i bwyso

Mae Cod Ymarfer CIPFA ac arweiniad y llywodraeth yn gofyn i'r Cyngor fuddsoddi ei arian yn ddarbodus ac i roi sylw i ddiogelwch a hylifedd buddsoddiadau cyn chwilio am y gyfradd uchaf o ddychweliadau neu gynnyrch. Amcan y Cyngor wrth fuddsoddi arian yw ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng risg a dychweliadau, lleihau'r risg o achosi colledion o ddiffygion a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi isel anaddas.

Mae'r Gyfradd Banc wedi cynyddu o 0.75% ar ddechrau'r flwyddyn i 4.25% ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Cododd cyfraddau arian parod byr, a oedd wedi amrywio rhwng 0.7% - 1.5% ar ddechrau mis Ebrill, tua 3.5% ar gyfer aeddfedrwydd dros nos/ 7 diwrnod a 3.3% ar gyfer aeddfedrwydd 6-12 mis.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2023, roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn amrywio rhwng 4.05% a 4.15%. Roedd yr elw ar Gronfeydd Marchnad Arian y Cyngor yn amrywio rhwng 0.57%-0.61% ar ddechrau mis Ebrill a rhwng 4.04% - 4.08% ar ddiwedd mis Mawrth.

Mae £8.7m o fuddsoddiadau’r Cyngor yn cael eu dal mewn cronfeydd ecwiti ac eiddo cyfun strategol a reolir yn allanol lle mae hylifedd byrdymor yn ystyriaethau llai, a’r amcanion yn eu lle yw incwm refeniw rheolaidd a sefydlogrwydd prisiau hirdymor. Cynhyrchodd y cronfeydd hyn enillion incwm o 4.6%, a colled cyfalaf heb ei wireddu o £1.1m yn y flwyddyn ariannol yma.

Roedd ecwitïau'r DU a byd-eang yn parhau i fod yn gyfnewidiol yn erbyn cefndir o chwyddiant uchel, cyfraddau polisi yn tynhau’n gyflym a risg cynyddol o ddirwasgiad. Roedd gwerthiannau mawr mewn ecwitïau byd-eang ym mis Ebrill, ac eto ym mis Mehefin a mis Medi ar gyfer ecwitïau'r DU a byd-eang. Cyfanswm yr elw ar fynegai Holl Gyfranddaliadau’r FTSE ar gyfer y 12 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023 oedd 2.9% a 5.4% ar gyfer y FTSE 100.

Trodd y gydberthynas negyddol rhwng bondiau ac ecwitïau, a oedd wedi ymddangos ers rhai blynyddoedd, yn gadarnhaol yn 2022 wrth i fondiau ac ecwitïau werthu ar yr un pryd yn erbyn rhagolygon o chwyddiant gludiog a chyfraddau llog uchel. Ar yr un pryd, gwelodd amodau ariannol tynnach, enillion bondiau uwch a heriau mewn rhai rhannau o eiddo tiriog masnachol (e.e. swyddfeydd ar ôl COVID, siopau’r stryd fawr a chanolfannau siopa) ostyngiad yng ngwerth eiddo masnachol yn ystod 2022, gyda chwymp mawr yn y chwarter olaf.

Parhaodd cronfeydd y Cyngor i dderbyn difidendau, gyda’r taliad allan yn cynyddu ar gyfer y rhan fwyaf o gronfeydd yn y portffolio.

Oherwydd nad oes gan y cronfeydd hyn dyddiad aeddfedrwydd diffiniedig, ond maent ar gael i’w tynnu’n ôl ar ôl cyfnod rhybudd, adolygir eu perfformiad a’u sefydlogrwydd parhaus wrth gyflawni amcanion buddsoddi tymor canolig i hir y Cyngor yn rheolaidd. Gwneid buddsoddiadau cronfa strategol gan wybod y bydd gwerthoedd cyfalaf yn symud i fyny ac i lawr mewn misoedd, chwarteri a hyd yn oed blynyddoedd ond gyda'r hyder y bydd cyfanswm yr enillion dros gyfnod o dair i bum mlynedd yn fwy na llog arian parod.

**Meincnodi Buddsoddiadau**

| | **Sgôr Credyd** | **Graddfa Credyd** | **Amlygiad ‘Bail-in’** | **WAM* (diwrnodau)** | **Cyfradd Dychwelyd** |
|---|---|---|---|---|---|
| 31.03.2022 | 4.82 | A+ | 54% | 31 | 0.62% |
| **31.03.2023** | **4.63** | **A+** | **62%** | **33** | **4.04%** |
| **A.Ll Tebyg** | **4.41** | **AA-** | **25%** | **96** | **3.78%** |
| **Pob A.Ll** | **4.71** | **A+** | **59%** | **12** | **3.66%** |

* Cyfartaledd Aeddfedu wedi’i bwyso

## 6. Adroddiad Cydymffurfio

Mae’r swyddog adran 151 yn adrodd bod yr holl weithgareddau rheoli’r trysorlys a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio’n llawn â Chod Ymarfer CIPFA a Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae’r cydymffurfiad gyda chyfyngiadau buddsoddi penodol yn cael ei ddangos yn y tablau isod:

**Cyfyngiadau Dyled**

| | 2022/23 Uchafswm | 31.3.23 Gwir | 2022/23 Ffin Weithredol | 2022/23 Terfyn Awdurdodedig | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau | £103.4m | £102.0m | £190m | £200m | ✓ |

Gan fod y ffin weithredol yn declyn rheolaeth ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn nad yw’n arwyddocaol os yw’r ffin weithredol yn cael ei thorri ar adegau oherwydd amrywiadau'r llif arian, ac nad yw hyn yn cael ei gyfrif fel methiant cydymffurfiad.

**Cyfyngiadau Buddsoddi**

| | 2022/23 Uchafswm | 31.3.23 Gwir | 2022/23 Terfyn | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | £61.1m | £34m | Diderfyn | ✓ |
| Awdurdodau lleol ac endidau llywodraeth eraill | £5m | £5m | £10m | ✓ |
| Buddsoddiadau a sicrwydd | £0m | £0m | £10m | ✓ |
| Banciau (ansicredig) | £5m | £5m | £5m | ✓ |
| Cymdeithasau adeiladau (ansicredig) | £5m | £5m | £5m | ✓ |
| Darparwyr cofrestredig (ansicredig) | £0m | £0m | £5m | ✓ |
| Cronfeydd marchnad arian | £10m | £10m | £10m | ✓ |
| Cronfeydd cyfun strategol | £5m | £5m | £10m | ✓ |
| Ymddiriedolaethau buddsoddi ystâd real | £0m | £0m | £10m | ✓ |
| Buddsoddiadau eraill | £0m | £0m | £5m | ✓ |

## 7. Dangosyddion Rheolaeth Trysorlys

Mae’r Cyngor yn mesur a rheoli ei ddatguddiad i risgiau rheolaeth trysorlys drwy ddefnyddio’r mesuryddion canlynol:

**Diogelwch**: Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei amlygiad i risg credyd drwy fonitro sgôr credyd cyfartalog wedi’i bwyso gan amser ar gyfer y portffolio buddsoddi. Caiff hyn ei gyfrifo drwy roi sgôr i bob buddsoddiad a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi’i bwyso yn ôl hyd bob buddsoddiad. Mae buddsoddiadau heb eu graddio yn cael sgôr yn seiliedig ar y risg canfyddedig.

| | 31.3.23 Gwir | 2022/23 Targed | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|
| Sgôr credyd cyfartalog y portffolio | 4.63 | Sgôr o 6 neu is | ✓ |

**Hylifedd**: Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol er mwyn mesur ei amlygiad i risg hylifedd trwy fonitro faint o arian sydd ar gael er mwyn gallu cwrdd â thaliadau annisgwyl o fewn cyfnod tri mis dreigl, heb fenthyciadau ychwanegol**.**

| | 31.3.23 Gwir | 2022/23 Targed | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm arian ar gael o fewn 3 mis | £133.8m | £10m | ✓ |

**Datguddiad Cyfraddau Llog:** Nod y dangosydd hwn yw rheoli pa mor agored yw’r Cyngor i risg cyfraddau llog. Roedd y terfynau uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog yn:

| | 31.3.23 Gwir | 2022/23 Terfyn | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | £1,255,000 | £643,000 | x |
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw un flwyddyn o gwymp o 1% mewn cyfraddau llog | £1,255,000 | £643,000 | x |

Nid yw’r dangosydd yma wedi ei gydymffurfio oherwydd bod y dangosydd wedi ei osod pan oedd y cyfraddau llog yn isel, ond mae’r lefelau llog wedi codi yn sylweddol yn y flwyddyn heb rybudd ac felly mae’n rhesymol bod y symiau yn uwch na’r terfyn.

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau:** Mae’r dangosydd hwn wedi ei osod i reoli datguddiad y Cyngor i risg ail-ariannu. Roedd y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyciadau cyfradd sefydlog yn:

| | 31.3.23 Gwir | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf | Cydymffurfiwyd |
|---|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 1.1% | 25% | 0% | ✓ |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 6.7% | 25% | 0% | ✓ |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 9.6% | 50% | 0% | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 9.2% | 75% | 0% | ✓ |
| 10 mlynedd ac o fewn 20 mlynedd | 73.4% | 100% | 0% | ✓ |

Mae cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedu benthyciadau yw'r dyddiad cynharaf gall y benthyciwr ofyn am ad-daliad.

**Symiau a fuddsoddir am gyfnod hwy na 364 diwrnod:** Pwrpas y dangosydd hwn yw rheoli datguddiad i'r risg o golled allai godi os yw'r Cyngor yn gorfod ad-dalu'r symiau a fuddsoddwyd yn gynnar. Y cyfyngiadau ar symiau y gellir buddsoddi gydag aeddfedrwydd heibio diwedd y cyfnod oedd:

| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|
| Gwir brifswm a buddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn | £10m | £0 | £0 |
| Terfyn ar gyfer prifswm a fuddsoddwyd heibio diwedd y flwyddyn | £20m | £20m | £20m |
| **Cydymffurfiwyd** | ✓ | ✓ | ✓ |

Eitem 10

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD** | **7 Medi 2023** |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth 2022-23** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru'r Pwyllgor o gynnwys Llythyr Blynyddol yr Ombwdsman a threfniadau'r Cyngor o safbwynt ymdrin â chwynion** |
| **AWDUR** | **Ian Jones, Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**1. Penderfyniad a Geisir**

Derbyn yr adroddiad a darparu unrhyw sylwadau neu argymhellion ynglŷn a'r gyfundrefn gwynion sydd yn deillio o dderbyn Llythyr Blynyddol Ombwdsman Cymru ar gyfer y flwyddyn 2022/2023.

**2. Cyflwyniad a Rhesymeg**

Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno sylwadau'r Ombwdsman Cymru ar drefniadau a pherfformiad y Cyngor yng nghyswllt ymdrin a chwynion a gwella gwasanaethau yn ystod 2022/23 gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau.

Cyflwynir dadansoddiad o ddata meintiol ac ansoddol yn y llythyr er gwybodaeth ac sy'n arddangos perfformiad y Cyngor yn y cyd-destun hwn.

Yn unol â Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru – darpariaethau ategol yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, 2023 mae gofyn i'r Pwyllgor sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin a chwynion o fewn y Cyngor.

Cyflwynir yr adroddiad hwn fel sail i'r Pwyllgor ddod i gasgliad ar pa mor effeithiol ydi'r trefniadau hynny.

Er gwybodaeth i'r Pwyllgor, ni fu unrhyw newid yn y drefn na'r Polisi Pryderon a Chwynion yn ystod 2022/2023 felly, mae cynnwys llythyr yr Ombwdsman yn seiliedig ar y Polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2021.

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr wybodaeth a gyflwynir, a chynnig unrhyw sylwadau neu awgrymiadau perthnasol.

**3. Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon**

Ni ddaeth y Llythyr Blynyddol i law eleni tan 17 o Awst. Mae'r llythyr wedi ei atodi i'ch sylw. Hoffwn amlygu rhai sylwadau ac argymhellion wnaethpwyd gan yr Ombwdsmon.

“Byddwn yn annog Cyngor Gwynedd, ac yn benodol, eich Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i ddefnyddio'r data hwn i ddeall eich perfformiad o ran cwynion yn well ac ystyried pa mor dda y mae dulliau ymdrin â chwynion yn dda wedi'i wreiddio ledled yr Awdurdod.

Ymhellach i’r llythyr hwn, a gaf ofyn i’ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i’r Cabinet ac i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn.
- Parhau i ymgysylltu â’n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i’ch staff, gweithredu’r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion cywir ac amserol. Tudalen 3 o 10
- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod cyn gynted â phosibl.”

Mi fyddwn yn adrodd yn ôl i’r Ombwdsmon ar pryd bydd y Llythyr wedi cael ei gyflwyno i’r Cabinet ac i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu gyda’r Ombwdsman a’u gwaith Safonau Cwynion, gweithredu eu polisi enghreifftiol yn llawn ac yn darparu data cwynion yn gywir ac amserol iddynt. Bydd unrhyw hyfforddiant sydd ar gynnig ganddynt yn cael ei gynnig a’i hybu gennym.

**Rhestr Atodiadau**

Atodiad 1 - Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Gofynnwch am: Cyfathrebu
☎ 01656 641150
Dyddiad: 17 Awst 2023
✉ Cyfathrebu@ombwdsmon.cymru

Cyngh. Dyfrig L. Siencyn
Cyngor Gwynedd
Trwy E-bost yn unig: cynghorydd.dyfrigsiencyn@gwynedd.llyw.cymru

**Llythyrau Blynyddol 2022/23**

Annwyl Cynghorydd Siencyn

Mae'n falch gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2022/23) i chi ar gyfer Cyngor Gwynedd sy'n ymdrin â chwynion yn ymwneud â chamweinyddu a methiant gwasanaeth, cwynion yn ymwneud ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad i Gynghorwyr, a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r llythyr hwn yn cyd-daro â'm Hadroddiad Blynyddol - "Blwyddyn o newid - blwyddyn o her" - teimlad a fydd, heb os, yn atseinio â chyrff cyhoeddus ledled Cymru. Mae fy swyddfa wedi gweld cynnydd arall yn nifer y bobl sy'n gofyn am ein cymorth - cynydd o 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac mae fy swyddfa bellach yn derbyn dwywaith nifer yr achosion a gawsom ddegawd yn ôl.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyfarfûm â chyrff cyhoeddus ledled Cymru - gan siarad am ein gwaith achosion, ein hargymhellion, a'n pwerau rhagweithiol. Bydd yr hinsawdd bresennol yn parhau i gyflwyno heriau i wasanaethau cyhoeddus, ond rwy'n ddiolchgar am y ffordd gadarnhaol a chynhyrchiol y mae'r awdurdodau lleol wedi cyfathrebu â'm swyddfa.

Y llynedd, cyfeiriwyd 1,020 o gwynion atom ynglŷn ag awdurdodau lleol - gostyngiad o 11% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom ymyrryd (cadarnhau, setlo neu ddatrys yn gynnar) mewn 13% o gwynion awdurdodau lleol.

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Cawsom lai o gwynion y Cod Ymddygiad yn 22/23 o gymharu â’r flwyddyn flaenorol, yn ymwneud â Phrif Gynghorau a Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Mae fy rôl yn golygu nad wyf yn gwneud canfyddiadau terfynol am dorri'r Cod Ymddygiad. Yn lle hynny, pan fydd ymchwiliadau yn canfod y pryderon mwyaf difrifol, caiff y rhain eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau’r awdurdod lleol perthnasol, neu at Banel Dyfarnu Cymru. Yn 2022/23, gwnaeth yr Ombwdsmon 12 atgyfeiriad o’r fath - gostyngiad i’w groesawu o 20 y llynedd.

**Cefnogi gwella gwasanaethau cyhoeddus**

Er gwaethaf heriau’r llynedd, rydym wedi bwrw ymlaen â’n gwaith gwella rhagweithiol ac wedi lansio proses Ansawdd Gwasanaeth newydd i sicrhau ein bod yn cyflawni’r safonau a ddisgwyliwn.

Y llynedd, dechreuom weithio ar ein hail Ymchwiliad Ehangach ar ein Liwt ein Hun - y tro hwn, yn edrych ar asesiadau gofalwyr o fewn awdurdodau lleol. Bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei gynnal drwy gydol y flwyddyn i ddod, ac edrychwn ymlaen at rannu ein canfyddiadau â’r holl awdurdodau lleol – nid dim ond y rhai sy’n rhan o’r ymchwiliad.

Parhaodd yr Awdurdod Safonau Cwynion ei waith â chyrff cyhoeddus yng Nghymru’r llynedd, gyda mwy na 50 o gyrff cyhoeddus bellach yn gweithredu ein polisi enghreifftiol. Rydym hefyd wedi darparu mwy na 400 o sesiynau hyfforddi ers i ni ddechrau, gydag awdurdodau lleol, ym Medi 2020.

Gwnaethom barhau â’n gwaith i gyhoeddi ystadegau cwynion am ail flwyddyn, gyda data bellach yn cael eu cyhoeddi ddwywaith y flwyddyn. Mae’r data hwn yn ein galluogi i weld gwybodaeth gyda mwy o gyd-destun - er enghraifft, y llynedd, cyfeiriwyd 9% o gwynion Cyngor Gwynedd at OGCC.


Byddwn yn annog Cyngor Gwynedd, ac yn benodol, eich Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i ddefnyddio'r data hwn i ddeall eich perfformiad o ran cwynion yn well ac ystyried pa mor dda y mae dulliau ymdrin â chwynion yn dda wedi'i wreiddio ledled yr Awdurdod.

Ymhellach i’r llythyr hwn, a gaf ofyn i’ch Cyngor gymryd y camau canlynol:

- Cyflwyno fy Llythyr Blynyddol i’r Cabinet ac i’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod y cyfle nesaf sydd ar gael a rhoi gwybod i mi pryd y cynhelir y cyfarfodydd hyn.
- Parhau i ymgysylltu â’n gwaith Safonau Cwynion, rhoi hyfforddiant i’ch staff, gweithredu’r polisi enghreifftiol yn llawn a darparu data cwynion cywir ac amserol.

- Rhoi gwybod i mi am ganlyniad ystyriaethau a chamau gweithredu arfaethedig y cyngor yng nghyswllt y materion uchod erbyn cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



**Michelle Morris**
**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**
cc.Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd.
Trwy E-bost yn unig: dafyddgibbard@gwynedd.llyw.cymru

Ombwdsmon Ombudsman
Cymru · Wales

**<u>Taflen Ffeithiau</u>**

Atodiad A - Cwynion a Gafwyd

| **Awdurdod Lleol** | **Cwynion a Gafwyd** | **Cwynion a dderbyniwyd fesul 1000 o drigolion** |
|---|---:|---:|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 14 | 0.20 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 55 | 0.37 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 60 | 0.33 |
| Cyngor Caerdydd* | 182 | 0.50 |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 54 | 0.29 |
| Cyngor Sir Ceredigion | 52 | 0.72 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 27 | 0.23 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 34 | 0.36 |
| Cyngor Sir y Fflint | 99 | 0.63 |
| Cyngor Gwynedd | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 29 | 0.41 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 27 | 0.45 |
| Cyngor Sir Fynwy | 20 | 0.21 |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 45 | 0.31 |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 40 | 0.26 |
| Cyngor Sir Penfro | 39 | 0.31 |
| Cyngor Sir Powys | 55 | 0.42 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 51 | 0.21 |
| Cyngor Abertawe | 71 | 0.29 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 18 | 0.19 |
| Cyngor Bro Morgannwg | 61 | 0.46 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 71 | 0.52 |
| **Cyfanswm** | **1143** | **0.36** |

* gan gynnwys 17 Rhentu Doeth Cymru

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Atodiad B - Cwynion a Gafwyd yn ôl Pwnc

| **Cyngor Gwynedd** | **Cwynion a Gafwyd** | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 1 | 3% |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 1 | 3% |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 2 | 6% |
| Cyfleusterau Cymunedol. Adloniant a Hamdden | 0 | 0% |
| Ymdrin â Chwynion | 6 | 17% |
| Covid19 | 0 | 0% |
| Addysg | 2 | 6% |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 5 | 14% |
| Cyllid a Threthiant | 5 | 14% |
| Tai | 8 | 22% |
| Trwyddedu | 0 | 0% |
| Cynllunio a Rheoli Adeiladu | 3 | 8% |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 2 | 6% |
| Amrywiol Eraill | 1 | 3% |
| Cyfanswm | **36** | |



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

**Ombwdsmon Ombudsman**
Cymru · Wales

Tud. 315

Atodiad C - Canlyniadau Cwynion
(* yn dynodi ymyrraeth)

| **Cyngor Gwynedd** | | **% rhannu** |
|---|---|---|
| Tu hwnt i Awdurdodaeth | 8 | 24% |
| Cynamserol | 8 | 24% |
| Achosion eraill wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 12 | 36% |
| Datrys yn Gynnar/Setliad Gwirfoddol* | 5 | 15% |
| Wedi rhoi'r gorau iddi | 0 | 0% |
| Adroddiadau Eraill – Ni Chadarnhawyd | 0 | 0% |
| Adroddiadau eraill a gadarnhawyd* | 0 | 0% |
| Adroddiadau er Budd y Cyhoedd* | 0 | 0% |
| Adroddiadau Diddordeb Arbennig* | 0 | 0% |
| **Cyfanswm** | **33** | |

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Atodiad D - Achosion lle ymyrrodd OGCC

| | Nifer yr ymyriadau | Nifer y cwynion a gaewyd | % o ymyriadau |
|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 0 | 13 | 0% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | 7 | 54 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | 7 | 58 | 12% |
| Cyngor Caerdydd | 45 | 159 | 28% |
| Cyngor Caerdydd - Rhentu Doeth Cymru | 1 | 16 | 6% |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | 7 | 49 | 14% |
| Cyngor Sir Ceredigion | 13 | 46 | 28% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 2 | 24 | 8% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 4 | 33 | 12% |
| Cyngor Sir y Fflint | 15 | 94 | 16% |
| Cyngor Gwynedd | 6 | 41 | 15% |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 3 | 28 | 11% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 2 | 26 | 8% |
| Cyngor Sir Fynwy | 2 | 21 | 10% |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | 5 | 45 | 11% |
| Cyngor Dinas Casnewydd | 4 | 36 | 11% |
| Cyngor Sir Penfro | 2 | 40 | 5% |
| Cyngor Sir Powys | 7 | 55 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | 3 | 45 | 7% |
| Cyngor Abertawe | 10 | 76 | 13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | 2 | 20 | 10% |
| Cyngor Bro Morgannwg | 9 | 62 | 15% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 4 | 67 | 6% |
| **Cyfanswm** | **160** | **1108** | **14%** |

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We're happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

Ymchwiliadau



Atodiad E - Cwynion Y Cod Ymddygiad

| | Cyngor Gwynedd |
|---|---|
| Tynnwyd yn ôl | 1 |
| Wedi rhoi'r gorau iddi | 1 |
| Dim tystiolaeth o dorri'r cod | 0 |
| Dim angen gweithredu | 1 |
| Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | 0 |
| Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | 0 |
| **Cyfanswm** | **3** |

ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

## Atodiad F - Cwynion Cod Ymddygiad Cynghorau Tref/Cyngor Cymuned

| | | Ymchwiliadau | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Tynnwyd yn ôl | Wedi rhoi'r gorau iddi | Dim tystiolaeth o dorri'r cod | Dim angen gweithredu | Cyfeiriwyd at y Panel Dyfarnu | Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau | Cyfanswm |
| Cyngor Dinas Bangor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Caernarfon (Tref Frenhinol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Cymuned Llanbedrog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Penrhyndeudraeth | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| Cyngor Tref Porthmadog | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyngor Tref Tywyn | 4 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 |

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales

Taflen Wybodaeth

Mae Atodiad A yn dangos nifer y cwynion a dderbyniwyd gan OGCC ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2022/23. Caiff y cwynion hyn eu rhoi mewn cyd-destun gan boblogaeth pob awdurdod.

Mae Atodiad B yn dangos categori pob cwyn a dderbyniwyd, a pha gyfran o'r cwynion a dderbyniwyd sy'n cynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad C yn dangos canlyniadau'r cwynion a gaeodd OGCC mewn cysylltiad â'r Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad D yn dangos Cyfraddau Ymyrru ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae ymyrraeth yn cael ei gategoreiddio naill ai gan gŵyn a gadarnhawyd (naill ai cadarnhawyd er budd y cyhoedd neu cadarnhawyd nid er budd y cyhoedd), penderfyniad cynnar, neu setliad gwirfoddol.

Mae Atodiad E yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas ag Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran, y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer yr Awdurdod Lleol.

Mae Atodiad F yn dangos canlyniadau cwynion y Cod Ymddygiad a gaewyd gan OGCC mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod Lleol yn 2022/23. Mae'r tabl hwn yn dangos y niferoedd, a'r gyfran y mae pob canlyniad yn ei chynrychioli ar gyfer Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned.



ombwdsmon.cymru
holwch@ombwdsmon.cymru
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
Rydym yn hapus i dderbyn ac ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg.

ombudsman.wales
ask@ombudsman.wales
0300 790 0203
1 Ffordd yr Hen Gae, CF 35 5LJ
We are happy to accept and respond to correspondence in Welsh.

# Eitem 11a

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 7fed o Fedi 2023 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar raglen waith Chwarter 1 Archwilio Cymru |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt. Er mwyn hwyluso'r gwaith mae Archwilio Cymru yn paratoi diweddariad chwarterol ar waith y cyrff adolygu ac mae copi o'r ddogfen hon ar gyfer Chwarter 1 2023/24 wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1**.

1.3. Cyflwynwyd adroddiad ar astudiaethau cyfredol Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a'r cynnydd sydd wedi ei wneud gan y Cyngor mewn ymateb i gynigion neu argymhellion i gyfarfod y Pwyllgor hwn ar y 9fed o Chwefror 2023. Bydd yr adroddiad nesaf yn cael ei gyflwyno i'r un cyfarfod ac y cyflwynir yr adroddiad yma – 7fed o Fedi 2023.

# Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru – Cyngor Gwynedd

## Diweddariad Chwarterol: 30 Mehefin 2023

## Crynodeb Archwilio Blynyddol

| Disgrifiad | Amserlen | Statws |
|---|---|---|
| **Adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.** | Rhagfyr 2023 | Adroddiad drafft i'w gyhoeddi ym mis Tachwedd 2023. |

## Gwaith Archwilio Ariannol

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Archwilio Datganiadau Cyfrifon y Cyngor a'i Is Gyd-bwyllgorau 2022-23** | Rhoi barn ar 'wirionedd a thegwch' y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023. | Tachwedd 2023 | Daeth Datganiad at Gyfrifon Cyngor Gwynedd i law ar 30 Mehefin 2023 ac mae'r gwaith maes archwilio ar y gweill.<br><br>Ni dderbyniwyd Ffurflen Flynyddol y Cydbwyllgor Polisi Cynllunio eto.<br>Daeth Ffurflen Flynyddol yr Harbyrau i law ar 13 Mehefin 2023.<br>Derbyniwyd Ffurflen Flynyddol Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru ar 7 Gorffennaf 2023.<br><br>Nid yw'r tri archwiliad hyn wedi dechrau eto. |

| Disgrifiad | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Ardystio Ffurflenni Grant:**<br><br>Cyfraniadau Pensiynau Athrawon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022-23 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor yw'r diwrnod gwaith olaf ym mis Mai 2023.<br><br>Dyddiad cau ardystio 30 Tachwedd 2023. | Daeth y ffurflen i law ar 23 Awst 2023. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant:**<br>Ardrethi Annomestig 2022-23 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Mehefin 2023.<br><br>Dyddiad cau ardystio 17 Tachwedd 2023. | Daeth y ffurflen i law ar 8 Awst 2023. |
| **Ardystio Ffurflenni Grant:**<br>Cymhorthdal Budd-dal Tai 2022-23 | Ardystio nad oes dim wedi dod i'n sylw i ddangos bod y ffurflen:<br>• Heb ei nodi'n deg<br>• Heb fod yn unol â'r telerau ac amodau perthnasol | Dyddiad cau'r Cyngor 30 Ebrill 2023.<br><br>Dyddiad cau ar gyfer ardystio yw 31 Ionawr 2024 (i'w gadarnhau). | Daeth y ffurflen i law ar 4 Mai 2023. |

## Gwaith Archwilio Perfformiad

| Gwaith archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd as Asesu Risg** | Prosiect i ganfod lefel sicrwydd archwilio a/neu lle bo angen gwaith archwilio ychwanegol yn ystod y blynyddoedd i'w dod o ran y risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | | |
| | • Sefyllfa ariannol | Monitro'r sefyllfa ariannol yn barhaus | Ym mynd rhagddo |
| | • Rheoli rhaglenni cyfalaf | Medi – Rhagfyr 2023 | Wedi'i gwmpasu |
| | • Defnyddio gwybodaeth am berfformiad – gan ganolbwyntio ar adborth a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau | Chwefror – Medi 2023 | Ar y gweill – adroddiad yn y cam drafftio |
| | • Pennu amcanion llesiant | Chwefror – Medi 2023 | Ar y gweill – adolygu dogfennau ar y gweill. |

| Gwaith archwilio Perfformiad 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad Thematig – Gofal heb ei Gynllunio** | Adolygiad traws-sector sy'n canolbwyntio ar lif cleifion allan o'r ysbyty. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid i ymdrin â'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal cymdeithasol i fod o gymorth i ryddhau cleifion, yn ogystal ag atal mynd i mewn i'r ysbyty. Bydd y gwaith yn ystyried hefyd pa gamau a gymerir i ddarparu datrysiadau tymor canol i hir. | Awst 2022 – Gorffennaf 2023 | Gwaith maes wedi'i gwblhau, adroddiad drafft wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi. |
| **Adolygiad thematig – Digidol** | Adolygiad o ddull strategol y Cyngor i dechnoleg ddigidol, ac i ba raddau y datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau cynghorau. | Ionawr – Medi | Ar y gweill – adroddiad yn y cam drafftio |
| **Adolygu Effeithiolrwydd Craffu** | Bydd yr adolygiad hwn yn gofyn y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol o ran craffu mewn pwyllgorau cyhoeddus? | Chwefror i Fehefin 2023 | Ar y gweill – adroddiad yn y cam clirio. |

| Gwaith archwilio Perfformiad 2023-24 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Sicrwydd as Asesu Risg** | Prosiect i ganfod lefel sicrwydd archwilio a/neu lle bo angen gwaith archwilio ychwanegol yn ystod y blynyddoedd i'w dod o ran y risgiau i'r Cyngor roi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | Ebrill 2023 i Fawrth 2024 | Ym mynd rhagddo |
| **Adolygiad thematig – Cynaliadwyedd Ariannol** | Adolygiad o gynaliadwyedd ariannol cynghorau, gan gynnwys canolbwyntio ar y camau gweithredu, y cynlluniau a'r trefniadau i bontio bylchau ariannu a mynd i'r afael â phwysau ariannol dros y tymor canolig. | I'w gadarnhau | Cwmpasu |
| **Adolygiad thematig – comisiynu a rheoli contractau** | Adolygiad yn canolbwyntio ar sut mae trefniadau cynghorau ar gyfer comisiynu, a rheoli contractau yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. | I'w gadarnhau | Cwmpasu |
| **Prosiect Lleol – Gwastraff ac Ailgylchu** | Byddwn yn adolygu trefniadau'r Cyngor i wella ei wasanaeth rheoli gwastraff a chyrraedd targedau ailgylchu statudol. | I'w gadarnhau | Cwmpasu |

## Astudiaethau cenedlaethol llywodraeth leol sydd wedi eu cynllunio/ar y gweill

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Diogelwch adeiladau** | Adolygiad o ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau dros ddiogelwch adeiladau | Medi 2022 – Awst 2023 | Adroddiad – diwedd Gorffennaf 2023 | Do – cyfweliad gyda swyddog a enwebwyd yn y Cyngor |
| **Cynllunio ar gyfer datblygu cynaliadwy– Adfywio Tir Llwyd** | Adolygu sut mae awdurdodau lleol yn hybu ac yn galluogi gwell defnydd o anheddau annomestig gwag a safleoedd tir llwyd | Hydref 2022 – Medi 2023 | Adrodd – Medi 2023 | Do – cyfweliad gyda swyddog enwebedig mewn saith cyngor ac arolwg. |
| **Llywodraethu awdurdodau diben arbennig – Parciau Cenedlaethol** | Adolygu systemau ac effeithiolrwydd llywodraethu | Tachwedd 2022 – Medi 2023 | Casglu tystiolaeth – gwaith maes i'w gwblhau ddiwedd Mehefin 2023 | Na hoffwn |

| Astudiaeth | Cwmpas | Amserlen | Statws | Gwaith maes wedi'i gynllunio yng Nghyngor Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cyd-bwyllgorau Corfforedig** | Asesu cynnydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig wrth ddatblygu eu trefniadau i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol a nod Llywodraeth Cymru o gryfhau cydweithio rhanbarthol. | Medi 2022 – Awst 2023 | Cyhoeddwyd adroddiad drafft i'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. Caiff llythyrau at y pedwar CJC unigol hefyd eu cyhoeddi. Mae disgwyl i adroddiad cryno wedi'i ddiweddaru gael ei gyhoeddi ym mis Awst. | Do – Gwnaethom ystyried persbectif y Cyngor drwy ein cyfarfodydd cyswllt arferol.<br>Roedd y gwaith maes yn cynnwys cyfweliadau â'r prif weithredwr, y cyfarwyddwr cyllid a chadeirydd pob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig. |

## Estyn

| |
|---|
| Mae ein harolygwyr cyswllt yn parhau i weithio gyda Thorfaen fel rhan o'n proses ddilynol ar gyfer awdurdod sy'n peri pryder sylweddol. Mae awdurdod lleol Wrecsam yn dal i fod mewn categori sy'n peri pryder, a byddwn yn cynnull cynhadledd cynnydd ym mis Gorffennaf i werthuso cynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygiad craidd. Gwnaethom hefyd ymgymryd â gweithgaredd gwaith cyswllt penodol ym Mhowys ym mis Mai i ystyried agweddau ar eu gwaith ar wella ysgolion, yr agenda trawsnewid a rheolaeth ariannol mewn ysgolion. Byddwn yn arolygu Gwynedd yn yr wythnos sy'n dechrau 26 Mehefin a Sir Gaerfyrddin yn yr wythnos sy'n dechrau 10 Gorffennaf. |
| Mae gwaith maes sy'n cael ei wneud ar draws awdurdodau lleol yn ystod tymor yr haf yn cynnwys canolbwyntio ar ba mor dda y mae awdurdodau lleol yn ategu anghenion addysgol ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Caiff y gwaith hwn ei gynnwys yn adroddiad blynyddol PAEF. Ein nod yw disgrifio, cydnabod a gwerthuso profiadau'r grwpiau hyn wrth iddynt ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. |

## Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Rhaglen 2022-23** | Rydym wedi cyhoeddi ein Cod Ymarfer wedi'i ddiweddaru ar gyfer ein gweithgarwch arolygu awdurdodau lleol<br><br>Sut rydym yn arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol a CAFCASS Cymru | Mai 2023 | Cyhoeddwyd |
| **Gwaith ar y cyd** | Rydym wrthi'n cwblhau ein rhaglen waith adolygiadau thematig ar gyfer 2023-2026. Mae meysydd i'w hystyried yn cynnwys diogelu oedolion, gofalwyr, TADC a CAMHS. | Cyfredol | Ar waith |
| | Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid, gan rannu gwybodaeth a dealltwriaeth gan gynnwys cwblhau adolygiadau ar y cyd. | Cyfredol | Ar waith |

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| | Rydym yn gweithio ar y cyd ag AGIC ar gyfer adolygiad cenedlaethol o'r llwybr strôc. Bydd adroddiad cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi ddechrau'r haf.<br><br>Rydym yn parhau i gydweithio ag AGIC i gynnal arolygiadau TIMC.<br><br>Mae AGC yn gweithio gyda phartneriaid i gwblhau adolygiad cyflym. Amcan trosfwaol yr adolygiad cyflym yw penderfynu i ba raddau y mae'r strwythurau a'r prosesau presennol yng Nghymru yn sicrhau bod plant sydd angen gofal, cymorth ac amddiffyniad yn cael eu gosod yn briodol ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'u tynnu oddi arni, pan fo tystiolaeth ddigonol yn dangos ei bod yn ddiogel gwneud hynny. Adolygiad cydweithredol yw hwn. | Cyfredol<br><br>Cyfredol<br><br>Canfyddiadau interim – Cyhoeddi 22 Mehefin 2023<br><br>Adroddiad cenedlaethol – Medi 2023 | Ar waith<br><br>Ar waith<br><br>Ar waith |
| **Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**<br>**Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022-23** | Cyhoeddwyd adroddiad 2020-21 ar 7 Chwefror 2021<br><br>Mae adroddiad 2021-2022 ar y gweill. | Cyhoeddwyd<br><br>I'w gadarnhau | Cyhoeddwyd<br><br>Paratoi |

| Gwaith Cynlluniedig AGC 2022-23 | Cwmpas | Amserlen | Statws |
|---|---|---|---|
| **Adolygiad cenedlaethol o Gynllunio Gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus** | Diben yr adolygiad<br>Darparu gwaith craffu allanol, sicrwydd a hyrwyddo gwelliant o ran ansawdd ymarfer mewn perthynas â chynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion amlinelliad cyfraith cyhoeddus.<br>Ystyried i ba raddau mae ymarfer wedi symud ymlaen ers cyhoeddi 'Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant a phobl ifanc sy'n ddarostyngedig i rag-achosion Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus' gan AGC a chyhoeddi Adroddiad gweithgor Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus 2021 gan gynnwys canllaw ar arfer gorau. | Cyhoeddi adroddiad cenedlaethol Hydref 2023 | Ar waith |
| **Trefniadau Cyd-arolygu Diogelu Plant (JICPA)** | Dull traws-arolygiaeth. Meysydd i'w penderfynu. Byddwn yn cwblhau pedwar arolygiad amlasiantaethol arall ar y cyd i gyd. Bydd pob awdurdod lleol yn cael llythyr cyhoeddedig ar ôl yr arolygiad.<br>Byddwn yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol tuag at ddiwedd gwanwyn 2023. | Ebrill 2023 – Ebrill 2024 | Cyflawni |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill a gyhoeddwyd ers Mehefin 2022

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE – y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol a’r Rhaglen Datblygu Gwledig | Mehefin 2023 |
| Cynhwysiant digidol yng Nghymru (gan gynnwys cwestiynau allweddol i gyrff cyhoeddus) | Mawrth 2023 |
| Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i’r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros | Mawrth 2023 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd | Chwefror 2023 |
| Pryniant Llywodraeth Cymru o Fferm Gilestone | Ionawr 2023 |
| Gyda’n gilydd fe allwn ni – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau | Ionawr 2023 |
| Darlun o Reoli Perygl Llifogydd | Rhagfyr 2022 |
| 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol | Rhagfyr 2022 |
| Offeryn Data Tlodi | Tachwedd 2022 |
| 'Amser am newid' – Tlodi yng Nghymru | Tachwedd 2022 |
| Dysgu o ymosodiadau seibr | Hydref 2022 (dosbarthwyd yn breifat i gyrff archwilio) |

| Teitl yr adroddiad | Dyddiad cyhoeddi a dolen i'r adroddiad |
|---|---|
| Y Fenter Twyll Genedlaethol 2020-21 | Hydref 2022 |
| Cymorth busnes COVID-19 yn 2020-21 – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Hydref 2022 |
| Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth | Medi 2022 |
| Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio? | Medi 2022 |
| Llywodraeth Cymru – pennu amcanion llesiant | Medi 2022 |
| Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru | Medi 2022 |
| Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at Fawrth 2022 | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Net Zero Carbon erbyn 2030: Adroddiad Tystiolaeth | Awst 2022 |
| Parodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 | Gorffennaf 2022 |
| Twristiaeth Gynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru | Gorffennaf 2022 |
| Cronfa Ymateb COVID-19 Trydydd Sector – Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Gorffennaf 2022 |
| System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru –diweddariad a'r offeryn data | Gorffennaf 2022 |

## Adroddiadau cenedlaethol Archwilio Cymru ac allbynnau eraill (gwaith ar y gweill/wedi'i gynllunio)[1,2]

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi bras |
|---|---|
| Offeryn Data Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol – Diweddariad | Gorffennaf 2023 |
| Offeryn Data Cyllid y GIG – hyd at Mawrth 2023 | Gorffennaf/Awst 2023 |
| Llamu Ymlaen: Rheoli asedau a gweithlu mewn llywodraeth leol | Gorffennaf/Awst 2023 |
| Cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon – dilyniant | Awst 2023 |
| Llywodraethu ansawdd y GIG | Awst/Medi 2023 |
| Cynllunio gweithlu'r GIG (briff data) | Awst/Medi 2023 |
| Sero net (trosolwg ledled y DU) | Medi 2023 |
| Gwasanaethau ffoaduriaid Wcreinaidd | Hydref/Tachwedd 2023 |

[1] Byddwn yn parhau i adolygu ein cynlluniau'n gyson, gan ystyried yr amgylchedd allanol sy'n esblygu, ein blaenoriaethau archwilio, cyd-destun ein hadnoddau ein hunain a gallu cyrff archwiliedig i gyfathrebu â ni. Gallai gwaith dilynol hefyd arwain at allbynnau eraill, yn ogystal â gwaith archwilio lleol eraill lle rydym o'r farn bod teilyngdod mewn allbwn cryno cenedlaethol o ryw fath. Er enghraifft, rydym wedi bod yn olrhain datblygiadau wrth gwblhau prosiect gwella ffyrdd adran 2 yr A465 yn dilyn ein hadroddiad canfyddiadau interimym mis Chwefror 2020.

[2] Rydym hefyd wedi cyhoeddi papur ar ein gwefan – Ein rhaglen waith ar gyfer 2023-2026 – sy'n rhoi manylion ychwanegol am ein gwaith cenedlaethol (gan gynnwys adolygiadau thematig lleol). Yn ogystal â'r gwaith newydd y byddwn yn ei wneud yn 2023-24, mae'r papur yn cynnwys manylion am bynciau dangosol i'r gwaith ddechrau yn 2024-24 neu 2025-26.

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi bras |
|---|---|
| Adolygiad o strategaeth ddigidol llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | Hydref 2023 |
| Defnydd llywodraeth leol o wybodaeth am berfformiad, canlyniadau a safbwynt defnyddwyr gwasanaethau – crynodeb cenedlaethol | Hydref 2023 |
| Tai fforddiadwy | Ionawr/Chwefror 2024 |
| Rheoli rhaglen gyfalaf llywodraeth leol – crynodeb cenedlaethol | I'w gadarnhau |
| Teithio llesol | I'w gadarnhau |
| Gwasanaethau canser | I'w gadarnhau |
| Rheoli cynllunio cyfalaf a rhaglenni | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Heriau i'r sector diwylliannol | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Digartrefedd | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Mynd i'r afael â dirywiad o ran bioamrywiaeth (sector cyhoeddus ac yng Nghyfoeth Naturiol Cymru) | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Ail-gydbwyso gofal a chymorth | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Mynd i'r afael â rhestrau aros y GIG | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |

| Teitl | Dyddiad cyhoeddi bras |
|---|---|
| Mynediad i addysg i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Cyllid a goruchwyliaeth addysg bellach ac addysg uwch – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Llywodraethu Awdurdodau Tân ac Achub | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |
| Yr uwch wasanaeth cyhoeddus | I'w gadarnhau (yn dechrau yn 2023-24) |

## Digwyddiadau ac adnoddau Cyfnewid Arfer Da

| Teitl | Dolen i’r adnodd |
|---|---|
| **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae’r Gymraeg yn Ffynnu:** Wedi'i ysbrydoli gan daith Cymdeithas Bêl-droed Cymru dros y ddegawd ddiwethaf, bydd y digwyddiad hwn yn edrych ar sut mae mynd y tu hwnt i'r gofynion yn creu agwedd gadarnhaol a chynhwysol sy’n lluosogi llwyddiant.<br>Gan weithio mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg, bydd y digwyddiad hwn yn cynorthwyo ac yn ysbrydoli cyrff cyhoeddus i gofleidio amrywiaeth ddiwylliannol Cymru fodern a gweithio y tu hwnt i gydymffurfio a thuag at ragoriaeth. | Mae'r holl adnoddau bellach ar gael ar ein gwefan.<br>Blog |
| **Gyda'n gilydd gallwn – creu'r amodau i rymuso ein cymunedau i ffynnu:** Bydd y digwyddiad dysgu ar y cyd hwn yn dod â phobl ynghyd o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus i rannu syniadau, dysgu a gwybodaeth. Byddwn yn rhannu canfyddiadau ein hadroddiadau ar fentrau cymdeithasol a gwydnwch cymunedol, gan gynnwys ein hargymhellion wrth symud ymlaen. | 20 Mehefin 2023 – 10:00 – 12:00 – Ar-lein. **Bydd y recordiad ar gael ar ein gwefan mewn un i ddwy wythnos.** |
| **Podlediad: Tlodi a Gwydnwch Cymunedol** Mae ein podlediad diweddaraf yn dilyn ein hadroddiadau a'n digwyddiadau diweddar ar dlodi, mentrau cymdeithasol, a gwytnwch cymunedol. | Podlediad |
| **Strategaeth Ddigidol:** Mae pandemig Covid wedi dangos pwysigrwydd digidol wrth ddarparu gwasanaethau modern ar gyflymder. Rydym wedi gweld bod digidol yn gweithredu fel catalydd mawr wrth addasu i'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu. Mae angen i wasanaethau cyhoeddus barhau â'r ffordd o feddwl ystwyth ac ymatebol hwn fel yr hyd sydd i’w ddisgwyl ac nid yr eithriad. Bydd y digwyddiad hwn yn helpu i arfogi gwasanaethau cyhoeddus â'r offer a'r wybodaeth ymarferol sydd eu hangen arnynt i weithredu Strategaeth Ddigidol yn llwyddiannus o fewn eu sefydliadau. | **21 Medi 09:00 – 13:00 – Caerdydd – I gofrestru ar gyfer Caerdydd**<br>**27 Medi 09:00 – 13:00 – Gogledd Cymru – I gofrestru ar gyfer Gogledd Cymru** |

## Blogiau Diweddar Archwilio Cymru

| Teitl | Cyhoeddiad |
|---|---|
| Helpu pobl i helpu eu hunain | 15 Chwefror 2023 |
| Storm berffaith – yr argyfwng costau byw a cham-drin domestig | 21 Tachwedd 2022 |
| Mae mynd i'r afael â thlodi yn golygu mynd i'r afael â'r data ar dlodi | 11 Tachwedd 2022 |
| Costau byw a rhoi'r fidog i gadw | 21 Medi 2022 |
| Mae pethau'n poethi i fynd i'r afael â Newid Hinsawdd | 18 Awst 2022 |
| Taliadau Uniongyrchol yng Nghymru | 15 Mehefin 2022 |
| Gofal Heb ei Drefnu yng Nghymru – System o dan bwysau gwirioneddol. | 21 Ebrill 2022 |
| Cystadleuaeth Sgiliau Cymru | 18 Chwefror 2022 |
| Seibergadernid – blwyddyn ymlaen | 9 Chwefror 2022 |
| Helpu i adrodd y stori drwy gyfrwng rifau (Offeryn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol) | 3 Chwefror 2022 |
| Galwad am wybodaeth gliriach ynglŷn â gwariant ar newid yn yr hinsawdd | 2 Chwefror 2022 |
| Y gweithredoedd tu ôl i'r geiriau (adeiladu gwytnwch cymdeithasol a hunanddibyniaeth mewn dinasyddion a chymunedau) | 14 Ionawr 2022 |

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 7fed Medi 2023 |
| **TEITL YR EITEM** | Adroddiadau Archwilio Cymru |
| **AMCAN** | Rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi yn ddiweddar gan Archwilio Cymru - 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i Aelodau dderbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Dewi W. Jones, Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor/Alan Hughes, Archwilydd Arweiniol, Archwilio Cymru |

**1. CEFNDIR**

1.1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio swyddogaeth i adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad a llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac fel rhan o'r swyddogaeth hon mae disgwyliad i ystyried adroddiadau cyrff adolygu allanol megis Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

1.2. Yn ogystal ag ystyried adroddiadau yn ymarferol, mae disgwyl i bwyllgorau sicrhau eu hunain bod trefniadau ar waith i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn unrhyw argymhellion a geir ynddynt.


1.3. Mae copi o adroddiad 'Cyfle wedi'i golli' – Mentrau Cymdeithasol wedi ei gynnwys fel **Atodiad 1** gyda dogfen ymateb rheolwyr wedi ei gynnwys fel **Atodiad 2** sy'n amlinellu'r hyn yr ydym fel Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad. Bydd swyddog yn mynychu'r cyfarfod i osod cyd-destun ac ymateb i unrhyw gwestiynau os oes angen**.**

Archwilio Cymru
Audit Wales

# ‘Cyfle wedi’i golli’ – Mentrau Cymdeithasol

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Rhagfyr 2022



Paratowyd yr adroddiad hwn i’w gyflwyno i’r Senedd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o’r Senedd ac o lywodraeth. Mae’n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus sy’n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo’r pŵer i gyflwyno adroddiadau i’r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna’r sefydliadau hynny o’u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella’r defnydd hwnnw.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae’n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi’i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân gyda’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau’r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu’n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


Cyd-destun 4

Canfyddiadau Allweddol 5

Ffeithiau Allweddol 7

Argymhellion 8

## Prif adroddiad

1 Gall Mentrau Cymdeithasol ddarparu gwasanaethau pwysig, ond nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol strategaeth gydlynol ac nid ydynt yn cydweithio i helpu i gefnogi eu twf a'u datblygiad 10

2 Nid oes gan awdurdodau lleol y mecanweithiau cywir ar waith i sicrhau'r gwerth gorau am arian o'u gwaith gyda Mentrau Cymdeithasol 22

3 Nid yw awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac mae gwendidau mewn data a gwerthuso yn cyfyngu ar eu gallu i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol 28

## Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio 35

2 Rhestr Wirio i awdurdodau lleol ar ymgysylltu a gweithio'n effeithiol gyda Mentrau Cymdeithasol 37

3 Gwahaniaethau mewn deddfwriaeth, polisi a chyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol ar draws tair gwlad Prydain Fawr 46

4 Nifer y Mentrau Cymdeithasol fesul awdurdod lleol yng Nghymru a'r newid canrannol rhwng 2016 a 2020 47

5 Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol De-ddwyrain Cymru 48

6 Crynodeb o Arfer Da a nodwyd yn yr adolygiad hwn 49

# Cyd-destun

1 Fel sefydliadau, mae Mentrau Cymdeithasol yn eistedd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Maent yn cymhwyso strategaethau masnachol i gael y gwelliannau mwyaf posibl mewn llesiant ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, yn aml ar gyfer grwpiau unigol mewn cymdeithas, cymunedau diffiniedig neu ardaloedd. Yn benodol, gall Mentrau Cymdeithasol fod o fudd i gymunedau difreintiedig; creu cyfoeth lle mae arian yn brin; a helpu i drechu tlodi a mynd i’r afael ag anghenion. Mae strwythur Mentrau Cymdeithasol yn amrywio ac yn cynnwys partneriaethau er elw neu ddielw, cwmnïau cydweithredol, sefydliadau cydfuddiannol, busnesau cymdeithasol, cwmnïau buddiannau cymunedol ac elusennau.

2 Gall menter gymdeithasol felly weithio ym mhob un o sectorau economi Cymru ac ym mhob rhan o’r wlad ac maent yn fwyfwy amlwg yn neddfwriaeth Senedd Cymru. Mae adran 16 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ‘hyrwyddo mentrau cymdeithasol i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol’. Yn yr un modd, mae ethos a dull Mentrau Cymdeithasol yn cyd-fynd yn dda â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015. Gall mentrau cymdeithasol wneud cyfraniad sylweddol at gyrraedd y saith nod llesiant cenedlaethol trwy helpu i greu gwlad decach a mwy cyfartal.

3 Yn bwysig, oherwydd bod Mentrau Cymdeithasol yn canolbwyntio ar gadw cyfoeth o fewn cymunedau, maen nhw’n gallu cynorthwyo pobl sydd mewn tlodi drwy:

- helpu pobl mewn cymunedau difreintiedig yn uniongyrchol drwy ddarparu gwasanaethau na fyddai ar gael fel arall;
- dwyn manteision cyhoeddus sylfaenol fel gwasanaethau cymdeithasol, addysgol, iechyd a diddordeb economaidd cyffredinol i gymunedau lleol, gan gynnwys i bobl sy’n methu talu;
- creu cyfleoedd cyflogaeth newydd o ganlyniad i’r gwasanaethau maen nhw’n eu darparu;
- cyfrannu at ddatblygiad economaidd cymunedau difreintiedig; a
- thargedu eu gwaith i helpu pobl ddifreintiedig, gan gynnwys menywod sy’n agored i niwed, pobl ag anableddau a grwpiau o leiafrifoedd ethnig.

4 Mae’r adroddiad hwn felly yn edrych ar sut mae awdurdodau lleol yn gweithio i dyfu a gwneud y gorau o Fentrau Cymdeithasol gan sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chyfalaf cymdeithasol yn aros mewn cymunedau ac yn helpu pobl sy’n ei chael hi’n anodd. Dyma hefyd yr ail adroddiad o’n tri adolygiad ar her lleddfu a mynd i’r afael â thlodi yng Nghymru. Mae **Atodiad 1** yn nodi ein hymagwedd a’n dulliau archwilio ac yn cynnwys rhagor o wybodaeth am ein gwaith ar thema tlodi.

# Canfyddiadau Allweddol

5 Ein casgliad ar y cyfan yw nad yw awdurdodau lleol yn gweithio’n effeithiol gyda Mentrau Cymdeithasol i gynyddu eu heffaith i’r eithaf, defnyddio adnoddau’n well a gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau.

6 Yn **Rhan 1** o’r adroddiad, rydym yn ystyried dull strategol awdurdodau lleol o weithio gyda Mentrau Cymdeithasol. Er eu bod yn honni eu bod yn gwerthfawrogi Mentrau Cymdeithasol, ychydig o awdurdodau lleol sydd wedi mapio eu gweithgarwch. Mae llai na thraean o awdurdodau lleol yn ystyried bod ganddynt berthynas ragweithiol a chefnogol gyda Mentrau Cymdeithasol ac nid oes gan yr un ohonynt strategaeth neu bolisi a neilltuwyd yn benodol sy’n egluro sut maen nhw’n bwriadu hyrwyddo a thyfu’r sector.

7 Canfuom hefyd fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu rôl arweinyddiaeth oddefol, a hwythau’n aml yn ymateb i Fentrau Cymdeithasol sy’n mynd atyn nhw ond heb fynd ati’n rhagweithiol i geisio gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol neu helpu i ysgogi rhai newydd. Mae’r gwactod arweinyddiaeth hwn yn golygu bod Mentrau Cymdeithasol yn aml ar gyrion busnes awdurdodau lleol. Mae dull rhy adweithiol a threfniadau cymorth amrywiol hefyd yn golygu bod awdurdodau lleol yn peidio â manteision ar botensial Mentrau Cymdeithasol i helpu i ddarparu gwasanaethau a all wella ansawdd bywyd pobl.

8 Yn **Rhan 2** rydym yn ystyried y mecanweithiau sydd gan awdurdodau lleol ar waith i sicrhau eu bod yn cynyddu gwerth am arian posibl Mentrau Cymdeithasol i’r eithaf. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu grantiau i fusnesau a’r trydydd sector, nid ydynt yn eu defnyddio i gefnogi Mentrau Cymdeithasol yn benodol. Mae trefniadau caffael a chomisiynu presennol yn aml yn anfwriadol yn rhwystro mentrau cymdeithasol rhag ymgysylltu. Mae dulliau rhy fiwrocrataidd a diffyg capasiti ac adnoddau o fewn llywodraeth leol hefyd yn cyfyngu ar y potensial i dyfu rôl Mentrau Cymdeithasol o ran darparu gwasanaethau. Nid yw gwerth cymdeithasol – y gwerth ychwanegol y gall prosesau comisiynu ei ddwyn – yn un o’r cymhellion allweddol i lawer o awdurdodau lleol.

9 Yn olaf, yn **Rhan 3** rydym yn archwilio trefniadau gwerthuso ac effaith. Canfuom nad yw’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol yn effeithiol. Nid yw’r un Adroddiad Blynyddol gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi sut mae eu hawdurdod yn cyflawni’r ddyletswydd dan Adran 16 ac nid yw’r mwyafrif o adroddiadau yn cyfeirio rhyw lawer at Fentrau Cymdeithasol. Yn gadarnhaol, mae nifer o awdurdodau’n gweithio i ddatblygu micro fusnesau sy’n fentrau cymdeithasol ac mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl gynyddol i lywio newid cadarnhaol. Gyda’i gilydd, mae’r rhain yn gyfleoedd da ar gyfer y dyfodol. Er hyn, nid oes gan dros dri chwarter yr awdurdodau lleol systemau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad, adrodd arno a’i werthuso i allu barnu effaith a gwerth gwaith Mentrau Cymdeithasol.

> Mae Mentrau Cymdeithasol yn chwarae rhan bwysig yn yr anghenion sy’n diwallu a helpu pobl mewn cymunedau ledled Cymru. Gallai awdurdodau lleol wneud mwy i uchafu effaith Mentrau Cymdeithasol, cael gwell gwerth am arian o’u gwaith, a gwella gwasanaethau i bobl a chymunedau.
>
> **Adrian Crompton**
> Archwilydd Cyffredinol Cymru



# Ffeithiau Allweddol

## Gwerth Mentrau Cymdeithasol

- Yn 2021 roedd gan y DU dros **100,000 o Fentrau Cymdeithasol**, a hwythau'n werth **£60 biliwn** ar y cyd i economi'r DU ac yn cyflogi 2 filiwn o bobl.
- Y sector Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru yn 2020 - hyd at **2,309** o fusnesau'n cyflogi **56,000** o bobl ac yn cynhyrchu **£3.1 – £3.8 biliwn** mewn gwerth.
- Yn yr Alban yn 2019 amcangyfrifwyd fod **6,025** o fusnesau a oedd yn Fentrau Cymdeithasol, gydag **88,318** o staff a gwerth net o **£6.1 biliwn**.
- Rhwng 2016 a 2020 fe wnaeth y sector Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru gynyddu **43%** gan godi o **1,601** o sefydliadau yn 2016 i **2,247** yn 2020.
- Yn yr Alban cynyddodd Mentrau Cymdeithasol **15.9%** rhwng 2015 a 2019 gan godi o **5,199** i **6,025** yn y cyfnod hwn.

## Maint a throsiant y sector yng Nghymru

- Mae **5%** o Fentrau Cymdeithasol Cymru yn ganolig neu fawr o ran maint (h.y. mae ganddyn nhw o leiaf 50 o weithwyr), sydd ymhell uwchlaw'r ganran gyfatebol ar gyfer pob busnes yn economi Cymru (dim ond **1%**).
- Doedd gan **32%** o'r Mentrau Cymdeithasol a holwyd ddim staff cyflogedig o gwbl, tra bo gan **9%** arall un yn unig.
- Yn 2020 roedd lefel y trosiant cymedrig yn **£1.25 miliwn**, ac o blith yr holl Fentrau Cymdeithasol:
  - Mae gan **43%** drosiant sydd rhwng **£0** a **£50,000**;
  - Mae gan **34%** drosiant sydd rhwng **£50,001** a **£250,000**;
  - Mae gan **14%** drosiant sydd rhwng **£250,001** ac **£1 filiwn**;
  - Mae gan **6%** drosiant sydd rhwng **£1.01** miliwn a **£5 miliwn**; ac
  - Mae gan **4%** drosiant sydd dros **£5 miliwn**.

Ffynhonnell: Social Business Wales, Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021; Social Enterprise UK, No Going Back – State of the Social Enterprise Survey 2021; a CEIS, Social Enterprise in Scotland – Census 2019.

# Argymhellion

10 Mae ein hargymhellion wedi’u nodi isod. Rydym yn disgwyl bod pob cyngor yn ystyried canfyddiadau’r adolygiad hwn a’n hargymhellion, a bod ei bwyllgor llywodraethu ac archwilio’n cael yr adroddiad hwn ac yn monitro ei ymateb i’n hargymhellion mewn ffordd amserol.

## Argymhellion

A1 I gael y gorau o’u gwaith gyda a’u cyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a’r systemau cywir yn eu lle. Rydym yn argymell bod swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio’r rhestr wirio yn **Atodiad 2** i:

- hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arfer mewn perthynas â Mentrau Cymdeithasol ar hyn o bryd;
- adnabod cyfleoedd i wella cydweithio; a
- mynd ati ar y cyd i ddrafftio a chyflawni cynllun gweithredu gyda graddfeydd amser a chyfrifoldebau wedi’u nodi’n glir i fynd i’r afael â’r bylchau a’r gwendidau a nodwyd trwy’r hunan-werthusiad.

A2 I lywio gwelliant rydym yn argymell bod yr awdurdod lleol:

- yn cymeradwyo’r Cynllun Gweithredu a gwblhawyd yn ffurfiol;
- yn mynd ati’n rheolaidd i adrodd ar berfformiad, ei fonitro a’i werthuso mewn pwyllgorau craffu perthnasol; ac
- yn diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o’i berfformiad.

## Argymhellion

A3 Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol rydym yn argymell ei fod yn adrodd ar weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn dilyn gwerthuso ei Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

# Gall Mentrau Cymdeithasol ddarparu gwasanaethau pwysig, ond nid oes gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol strategaeth gydlynol ac nid ydynt yn cydweithio i helpu i gefnogi eu twf a'u datblygiad

01

1.1 Yn yr adran hon o’r adroddiad, rydym yn ystyried dull strategol awdurdodau lleol o weithio gyda Mentrau Cymdeithasol. Rydym yn adolygu cynlluniau awdurdodau lleol, yr amrywiaeth o wybodaeth a ddefnyddir i nodi a blaenoriaethu camau gweithredu a threfniadau i gefnogi datblygiad Mentrau Cymdeithasol. Rydym hefyd yn ystyried pa mor dda y mae awdurdodau lleol a Mentrau Cymdeithasol yn cydweithio.

Er eu bod yn honni eu bod yn gwerthfawrogi Mentrau Cymdeithasol, ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi mapio’u gweithgarwch neu wedi cynllunio sut y byddant yn cydweithio gyda hwy i gynyddu eu heffaith i’r eithaf

## Nid yw awdurdodau lleol wedi mapio’r sector mentrau cymdeithasol yn eu hardal

1.2 Er mwyn cynyddu eu heffaith i’r eithaf, mae’n hanfodol bod gan awdurdodau lleol wybodaeth lawn a manwl am y gwasanaethau y mae Mentrau Cymdeithasol yn eu darparu. Oni bai eich bod yn gwybod pwy sy’n gweithio yn eich ardal chi, pa wasanaethau maen nhw’n eu darparu a pha gyfleoedd maen nhw’n eu cynnig, mae’n anodd datblygu ymateb strategol cydlynol. Yn y cyd-destun hwn, mae mapio’n hanfodol er mwyn i awdurdodau lleol ddeall y cyfraniad y mae Mentrau Cymdeithasol yn ei wneud a’r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth geisio tyfu eu rôl a gwella eu gwerth mewn cymunedau.

1.3 Canfuom mai ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd wedi cwblhau unrhyw ymarfer mapio ffurfiol naill ai i ddeall rôl a chyfraniad presennol Mentrau Cymdeithasol yn eu hardal neu i nodi cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. Er bod rhai wedi nodi bod ganddynt gronfeydd data o Fentrau Cymdeithasol, mae’r rhain wedi mynd yn hen, yn bennaf o ganlyniad i’r pandemig.

1.4 Yn gyffredinol, roedd gan yr awdurdodau lleol hynny â staff dynodedig sydd â chyfrifoldeb am weithio gyda’r sector mentrau cymdeithasol, neu staff cymorth busnes ym maes datblygu economaidd, well dealltwriaeth am y sefyllfa leol a gallent hefyd ddisgrifio cryfderau, gwendidau a chyfleoedd cymharol. Fodd bynnag, hyd yn oed o dan yr amgylchiadau hyn, roedd swyddogion yn cydnabod bod bylchau o hyd yn eu dealltwriaeth ac nad oedd eu gwybodaeth yn ddigon i lywio dewisiadau a blaenoriaethau strategol yn y dyfodol.

1.5 Mae **Arddangosyn 1** isod yn dangos bod y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru’n gymunedol gan mwyaf gyda’r rhan fwyaf o sefydliadau’n gweithredu yn ardal un awdurdod lleol yn unig. Mae hyn yn wahanol iawn i Loegr lle mae Mentrau Cymdeithasol yn fwy tebygol o weithio ar draws ardaloedd sawl awdurdod lleol ac yn aml yn gweithredu’n rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, yn 2021 dim ond 23% o fentrau cymdeithasol yn Lloegr sy’n gweithio mewn un awdurdod lleol[1].

**Arddangosyn 1 – nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru yr oedd Mentrau Cymdeithasol yn gweithredu ynddynt**

Mae ychydig dros 60% o Fentrau Cymdeithasol Cymru yn gweithio yn ardal un awdurdod lleol ac mae llai na chwarter mewn chwech awdurdod lleol neu fwy

| Nifer yr awdurdodau lleol | 2016 | 2018 | 2020 |
|---|---|---|---|
| Un | 62% | 59% | 61% |
| Dau | 7% | 7% | 7% |
| Tri | 8% | 7% | 7% |
| Pedwar | 3% | 3% | 2% |
| Pump | 2% | 3% | 2% |
| Chwech i bymtheg | 6% | 4% | 4% |
| Un ar bymtheg i ddau ar hugain | 12% | 15% | 18% |

Ffynhonnell: Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio’r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

1.6 O ystyried bod mentrau cymdeithasol yng Nghymru’n gymunedol yn bennaf, a hwythau’n aml wedi’u crynhoi mewn ardaloedd amddifadus[2], mae’n bwysig bod awdurdodau lleol yn cynnal ymarfer mapio ehangach i ddeall y sector a’r cyfleoedd y maent yn eu cyflwyno yn well a defnyddio’r wybodaeth hon i oleuo eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Os nad oes gan awdurdodau ddealltwriaeth dda am y sector yna bydd yn anodd iddynt adnabod cyfleoedd i gydweithio a chytuno ar gamau gweithredu i hyrwyddo a thyfu Mentrau Cymdeithasol.

1 Social Enterprises UK, No Going Back: State of Social Enterprise Report 2021.

2 Canfu ymchwil gan Busnes Cymdeithasol Cymru fod 45% o fusnesau cymdeithasol yn gweithredu yn y 40% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru, ac mai dim ond 30% sy’n gweithredu yn y 40% o ardaloedd lleiaf amddifadus.

## Mae awdurdodau lleol yn siarad am werth Mentrau Cymdeithasol ond nid ydynt bob amser yn trosi hyn yn gamau gweithredu

1.7 Bydd dull strategol o weithio gyda Mentrau Cymdeithasol yn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd yn deall yr hyn y mae Mentrau Cymdeithasol yn ei gynnig a bydd yn nodi sut y mae’r awdurdod lleol yn ceisio cynyddu i’r eithaf fanteision gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol. Ar ben hynny, o ystyried bod Mentrau Cymdeithasol yn cyfrannu at wella cydlyniant cymdeithasol, at groniad cyfalaf cymdeithasol, ac at ddatblygu economaidd mwy teg ar lefel gymunedol, maent yn gyrff sydd â ffocws cryf ar leihau tlodi. Mae nifer fach o awdurdodau lleol yn cydnabod y gallai Mentrau Cymdeithasol felly fod yn ddull mwy cynaliadwy yn ei hanfod o ddarparu gwasanaethau o ystyried bod eu gwaith wedi’i wreiddio’n ddwfn mewn cymunedau a bod ganddynt yn aml ffocws ataliol cryf.

1.8 Mae ymchwil gan Busnes Cymdeithasol Cymru yn dangos bod Mentrau Cymdeithasol yn arbennig o gryf mewn meysydd sydd naill ai’n ategu gwaith llywodraeth leol neu lle mae rôl a gwaith awdurdodau lleol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae **Arddangosyn 2** yn dangos presenoldeb cryf ym maes y celfyddydau, hamdden a gwaith ieuenctid yn y gymuned a chyfraniadau pwysig ym meysydd gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg.

**Arddangosyn 2 – cyfran y Mentrau Cymdeithasol sy’n gweithio mewn gwahanol sectorau**

Mae Mentrau Cymdeithasol yn torri ar draws ystod eang o sectorau gweithredol ond maent yn ymwneud yn bennaf â’r celfyddydau a hamdden, canolfannau/grwpiau cymunedol, addysg, ac iechyd a gofal

| Sector | Cyfran 2018 | Cyfran 2020[3] |
|---|---|---|
| Y celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill | 22% | 26% |
| Canolfan Gymunedol / Man Cymdeithasol / Clwb Ieuenctid | 8% | 20% |
| Addysg | 14% | 10% |
| Iechyd a Gofal | 19% | 9% |
| Gwasanaethau gweinyddu a chymorth busnes | 4% | 6% |
| Arall | 9% | 6% |
| Gwasanaethau llety a bwyd | 3% | 6% |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 0% | 3% |
| Gwybodaeth a chyfathrebu | 2% | 3% |
| Manwerthu | 5% | 3% |
| Eiddo | 6% | 3% |
| Cludo a storio | 1% | 2% |
| Proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 6% | 2% |

Ffynhonnell: Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio’r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

3 Mae’r adroddiad yn awgrymu, oherwydd y dull o gasglu data (arolygon), bod sefydliadau a oedd yn fwy tebygol o gau eu drysau (megis mannau cymunedol) yn haws cysylltu â hwy ac yn fwy tebygol o ymateb na sefydliadau gofal iechyd sydd dan lawer o straen oherwydd COVID-19.

1.9 Dywedodd awdurdodau lleol wrthym eu bod yn gwerthfawrogi nodweddion da Mentrau Cymdeithasol a’u potensial, pa un a ydynt yn darparu gwasanaethau a gomisiynwyd gan yr awdurdod lleol ynteu’n weithgar ar lefel gymunedol yn yr ardal leol yn unig. Fodd bynnag, canfuom nad oes gan yr un awdurdod lleol strategaeth Mentrau Cymdeithasol bwrpasol. Ac, er bod 10 o’r 21 o awdurdodau lleol a ymatebodd i’n harolwg[4] wedi nodi bod ganddynt bolisi, strategaeth a/neu gynllun ehangach sy’n nodi cyfraniad Mentrau Cymdeithasol, canfu ein hadolygiad o’r cynlluniau hyn eu bod yn gyfyngedig gan mwyaf, gyda diffyg manylion am flaenoriaethau a chyfleoedd yn y dyfodol i’r awdurdodau lleol a’r sector.

1.10 Er enghraifft, nid yw’r un o’r dogfennau a adolygwyd gennym ni’n nodi gweledigaeth ar gyfer Mentrau Cymdeithasol na’r deilliannau posibl y gall Mentrau Cymdeithasol eu cyflawni ar gyfer awdurdodau lleol, trigolion a chymunedau. Roedd dadansoddiad cadarn o anghenion ar goll gan mwyaf o’r Cynlluniau a adolygwyd gennym ni ac nid yw Strategaeth Adfer COVID-19 yr un awdurdod lleol yn gwneud mwy na sôn am Fentrau Cymdeithasol wrth fynd heibio. O ganlyniad, mae blaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer gwella yn ddiuchelgais ac yn gyfyngedig, a hwythau’n aml yn anwybyddu deilliannau o ran gwerth cymdeithasol ychwanegol a chyfalaf cymdeithasol y gall Mentrau Cymdeithasol eu sicrhau. Canfu ein harolwg o swyddogion awdurdodau lleol hefyd mai dim ond saith o’r 21 o awdurdodau a ymatebodd sy’n ymgysylltu’n rhagweithiol â Mentrau Cymdeithasol wrth ddatblygu cynlluniau a gweithgarwch ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, mae manteision sylweddol gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol yn llai amlwg ac yn aml nid ydynt yn dylanwadu ar flaenoriaethau awdurdodau lleol.

4 Fe wnaethom gynnal arolwg o bob awdurdod lleol a chael ymatebion gan 21 o’r 22. Nid ymatebodd Cyngor Dinas Casnewydd i’n harolwg.

## Nid yw awdurdodau lleol yn harneisio potensial Mentrau Cymdeithasol i helpu i ddarparu gwasanaethau gwell, ac ansawdd bywyd gwell i bobl

1.11 Gall Mentrau Cymdeithasol llwyddiannus fod â gafael dda ar anghenion lleol, bod yn gweithio o fewn rhwydweithiau lleol cryf a meddu ar ddilysrwydd fel llais ar ran gymuned. Maent felly mewn sefyllfa dda i ddarparu gwasanaethau’n effeithlon ac yn arloesol. Mae’n bwysig felly bod awdurdodau lleol yn helpu cymunedau i adnabod anghenion, cyfleoedd ac yn gweithio’n rhagweithiol gyda’r sector i ddarparu’r gwasanaethau y mae ar bobl eu heisiau. Felly, mae twf a chynaliadwyedd Mentrau Cymdeithasol yn fwyfwy dibynnol ar y cyfle a’r capasiti ar gyfer cydweithio.

### Mae arweinyddiaeth effeithiol gan awdurdodau lleol ar Fentrau Cymdeithasol yn absennol gan mwyaf

1.12 Mae arweinyddiaeth ar yr agenda mentrau cymdeithasol yn aml yn gorwedd gyda llond llaw o unigolion ym maes datblygu economaidd neu ofal cymdeithasol, ond yn rhy aml rheolwyr gwasanaeth yw’r rhai sy’n rheoli’r perthnasoedd hyn ac yn aml nid ydynt ar reng ddigon uchel i gyfarwyddo adnoddau, polisïau a phenderfyniadau. Er enghraifft, canfu ein harolwg o swyddogion awdurdodau lleol mai dim ond tri o’r 21 o awdurdodau lleol a ymatebodd i’n harolwg sydd ag aelod arweiniol ar gyfer Mentrau Cymdeithasol ac mai dim ond chwech sydd â swyddog arweiniol.

1.13 Canfuom hefyd fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu rôl arweinyddiaeth oddefol, a hwythau’n aml yn ymateb i Fentrau Cymdeithasol sy’n mynd atyn nhw yn hytrach nag yn mynd ati’n rhagweithiol i geisio gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol presennol a helpu i ysgogi rhai newydd. Mae hyn yn rhannol yn adlewyrchiad o’r ffaith bod rhai yn ystyried bod ‘risgiau’ yn gysylltiedig â Mentrau Cymdeithasol, a hwythau’n nodi materion gyda llywodraethu, trin arian, a dilysrwydd fel meysydd sy’n peri pryder. Beth bynnag, nid yw’r gwactod arweinyddiaeth hwn yn helpu i ddod â Mentrau Cymdeithasol oddi ar gyrion busnes awdurdodau lleol i fod â rôl fwy canolog.

1.14 Roedd dros hanner y swyddogion awdurdodau lleol y gwnaethom ni gyfweld â hwy’n cydnabod bod llawer mwy y gallent ac y dylent ei wneud i arwain ar yr agenda hon, gan gydnabod, heb fuddsoddiad yn amser uwch arweinwyr, nad yw’r awdurdod lleol yn debygol o lwyddo i ddenu busnesau ac entrepreneuriaid newydd i neilltuo adnoddau. Gan bod arweinyddiaeth yn wael ar y cyfan, nid oes gan awdurdodau lleol ddealltwriaeth gyffredin am sut y mae arnynt eisiau gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol, sy’n golygu na all Mentrau Cymdeithasol fod â rôl fwy  gweithredol mewn gwaith i fynd i’r afael â thlodi ac anfantais.

1.15 Mae nifer o awdurdodau lleol yn Lloegr[5] wedi ceisio creu dull arwain mwy cydlynus trwy godi ymwybyddiaeth er mwyn gwella dealltwriaeth. Er enghraifft:

a cynnal diwrnod mentrau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol;

b cynnal gweithdai i gynghorwyr ac uwch reolwyr;

c sicrhau bod uwch dimau rheoli yn cymryd cyfrifoldeb am gyfleu eu gweledigaeth ar gyfer Mentrau Cymdeithasol;

ch gosod targedau ar gyfer twf y sector mentrau cymdeithasol; ac

d datblygu gweithgareddau i ddathlu a hyrwyddo mentrau cymdeithasol.

1.16 Mae arweinyddiaeth dda ac effeithiol felly’n hanfodol i roi cymorth i symud yr agenda Mentrau Cymdeithasol i’r brif ffrwd. Yn enwedig gan bod cryn dipyn o ‘fynd a dod’ yn y farchnad Mentrau Cymdeithasol sy’n digwydd gan amlaf y tu allan i unrhyw ymgysylltu ag awdurdodau lleol neu gefnogaeth ganddynt. Mae ymchwil yn dangos bod y sector busnesau cymdeithasol yng Nghymru’n ddeinamig iawn, a’i fod yn cynnwys grŵp craidd o sefydliadau sydd wedi hen ennill eu plwyf ond hefyd grŵp cynyddol o fusnesau newydd.

1.17 Er enghraifft, yn 2020 roedd ychydig o dan un rhan o bump o Fentrau Cymdeithasol (17%) wedi dechrau masnachu o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf[6] a oedd ddwywaith yn fwy na nifer y busnesau newydd yn 2016. Mae gweithgarwch busnesau newydd wedi’i ganoli’n arbennig yng ngogledd-ddwyrain Cymru — mae Sir Ddinbych a Wrecsam yn rhoi cyfrif am 15% o’r holl fusnesau newydd. Gyda sector mor fywiog sy’n newid yn barhaus, mae’n bwysig bod awdurdodau lleol yn mabwysiadu dull mwy rhagweithiol a llai goddefol wrth weithio gyda Mentrau Cymdeithasol os ydynt am gynyddu eu potensial i’r eithaf a helpu i gefnogi busnesau sy’n ei chael hi’n anodd.

5 Er enghraifft, fe gododd Cyngor Swydd Northumberland ymwybyddiaeth o’r gwaith a wneir gan fentrau cymdeithasol drwy stondinau gwybodaeth a oedd wedi’u hanelu at staff, diwrnod mentrau cymdeithasol a gweithdai ar gyfer uwch reolwyr i wella dealltwriaeth am y rôl a’r weledigaeth ar gyfer y sector mentrau cymdeithasol. Mae’r awdurdod lleol hefyd yn gobeithio creu grŵp gorchwyl trawsbleidiol ar gyfer yr aelodau i ystyried sut y gall yr awdurdod lleol gefnogi mentrau cymdeithasol. Bydd y grŵp gorchwyl hefyd yn hyrwyddo mentrau cymdeithasol fel cysyniad ac yn hyrwyddo gweledigaeth ar y cyd.

6 Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio’r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021

## Er bod enghreifftiau da o sut mae rhai awdurdodau lleol yn cydweithio'n effeithiol gyda Mentrau Cymdeithasol, nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau yn mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo cyfleoedd i ehangu eu rôl a chynyddu eu heffaith i'r eithaf

1.18 Gall cydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r sector Mentrau Cymdeithasol ddarparu mwy o gyfleoedd i bob parti. Gall hefyd gynyddu'r ddealltwriaeth drwy rannu gwybodaeth. Mae gan ychydig dros hanner yr awdurdodau lleol fyrddau partneriaeth neu fforymau, fel arfer gyda'r trydydd sector, sy'n cynnwys Mentrau Cymdeithasol, ac mae gan nifer llai bresenoldeb rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol lleol a arweinir gan y sector. Er enghraifft, mae 'grŵp sector gwirfoddol' Blaenau Gwent yn dod â llawer o bartneriaid ynghyd, gan gynnwys Mentrau Cymdeithasol, ac mae'n gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, Canolfan Byd Gwaith, ac eraill i flaenoriaethu gwaith yn y dyfodol, gan gynnwys cyfleoedd i weithio gyda Mentrau Cymdeithasol, yn y sir.

1.19 Hefyd, mae gan nifer fach o awdurdodau lleol swyddogion sydd â chyfrifoldeb penodol am ymgysylltu â mentrau Cymdeithasol a datblygu perthnasoedd â hwy. Er enghraifft, y Swyddog Menter a Busnes yn Wrecsam yw cyswllt allweddol yr awdurdod lleol â'r Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol lleol. Yn gyffredinol, mae awdurdodau sydd â gwell dealltwriaeth am y rhwystrau sy'n wynebu Mentrau Cymdeithasol mewn sefyllfa well i weithio gyda'r sector yn y dyfodol.

1.20 Mae'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol yng Nghymru'n gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau'n amrywio'n sylweddol. Mae nifer fach o awdurdodau wedi creu ac ariannu eu Mentrau Cymdeithasol eu hunain. Er enghraifft, yn Nhorfaen, mae Circulate yn gweithredu canolfan ailgylchu, gan ddarparu gwasanaethau ailgylchu a gwaredu gwastraff sydd yn eu tro'n helpu i gyrraedd nodau cynaliadwyedd amgylcheddol yr awdurdod lleol. Ym Mro Morgannwg, mae'r Big Fresh Catering Company yn fenter gymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau bwyd ar gyfer ysgolion, busnesau a digwyddiadau preifat, gan fuddsoddi'r holl elw mewn ysgolion lleol. Mae awdurdodau lleol eraill wedi allanoli gwasanaethau'r awdurdodau lleol megis gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd ac wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb am eu darparu i Fentrau Cymdeithasol sydd â hanes profedig o gyflawni'r gweithgareddau hyn.

1.21 Hefyd, fe wnaeth swyddogion y gwnaethom ni gyfweld â hwy amlygu rôl bwysig Mentrau Cymdeithasol a'r trydydd sector yn fwy cyffredinol yn ystod y pandemig. Fe wnaeth Mentrau Cymdeithasol 'gamu i'r adwy' i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth yn dilyn cau swyddfeydd rheng-flaen. Nododd un swyddog fod 'Mentrau Cymdeithasol wedi gwneud gwaith anhygoel yn ystod COVID-19, gan ddosbarthu bwyd a gwneud cyfarpar diogelwch personol. Maen nhw'n haeddu cydnabyddiaeth. Fe gamon nhw i'r adwy ar adeg pan fu'n rhaid i rai elusennau roi eu staff i gyd ar ffyrlo!'

1.22 Fodd bynnag, fe wnaeth nifer o swyddogion awdurdodau lleol fyfyrio ynghylch y ffaith mai cyfleoedd cyfyngedig a fu yn ystod y pandemig i gynnwys Mentrau Cymdeithasol yng ngwaith yr awdurdod lleol. Fe wnaeth eraill nodi ar y llaw arall bod Mentrau Cymdeithasol yn ‘gwerthfawrogi eu hannibyniaeth’ ac nad ydynt yn ymateb yn dda i ymwneud gan awdurdodau lleol. Mae rhai swyddogion mewn awdurdodau lleol yn ystyried bod sefydliadau cenedlaethol fel CWMPAS a Busnes Cymdeithasol Cymru mewn sefyllfa well i weithio gyda’r sector ac i bennu strategaethau twf ar gyfer y dyfodol. Hefyd, mae gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol hwythau rôl bwysig o ran cefnogi a datblygu gan gysylltu rhwng awdurdodau lleol a Mentrau Cymdeithasol.

1.23 Er bod bron pob awdurdod lleol yn cyfeirio at wybodaeth am Fentrau Cymdeithasol ar eu gwefan, dim ond chwe awdurdod lleol oedd â thudalen wedi’i neilltuo i Fentrau Cymdeithasol, ac nid oedd gan nifer fach unrhyw wybodaeth am Fentrau Cymdeithasol o gwbl. Ar y cyfan, rydym yn barnu mai cyfyngedig yw ansawdd a lefel yr wybodaeth ar wefannau am Fentrau Cymdeithasol. Yn rhy aml nid yw gwybodaeth yn hawdd dod o hyd iddi ac mae’n fwy na ‘3 chlic’ i ffwrdd[7]. Gan mwyaf, nid yw awdurdodau lleol yn mynd ati’n frwd i hyrwyddo cyfleoedd i weithio gyda Mentrau Cymdeithasol presennol nac yn rhoi anogaeth effeithiol i greu rhai newydd.

1.24 Mae’r gwefannau gorau gan awdurdodau lleol yn cynnwys:

a diffiniad clir sy’n nodi beth yw Menter Gymdeithasol;

b dolenni i amrywiaeth eang o sefydliadau i gael mynediad at wybodaeth bellach a manylach, yn enwedig am faterion cyfreithiol, megis Busnes Cymdeithasol Cymru, CWMPAS, Social Enterprise UK neu CGGC; ac


c manylion cyswllt a gwybodaeth am raglenni a grantiau cymorth lleol sy’n cael eu gweinyddu gan yr awdurdod lleol.

1.25 Mae canfyddiadau ein harolwg o swyddogion a nodir yn **Arddangosyn 3** yn dangos, y tu hwnt i weithio gyda fforymau neu rwydweithiau sy’n cynnwys Mentrau Cymdeithasol fel aelodau, nad yw awdurdodau lleol yn defnyddio’r holl gyfleoedd sydd ar gael i gyflawni eu cyfrifoldebau i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol.

7 Mae’r rheol tri chlic yn rheol answyddogol ar gyfer dylunio gwefannau sy’n ymwneud â dyluniad trefn we-lywio gwefannau. Mae’n awgrymu y dylai defnyddiwr gwefan allu dod o hyd i unrhyw wybodaeth heb fwy na thri chlic ar y llygoden. Mae’n seiliedig ar y gred y bydd defnyddwyr gwefan yn mynd yn rhwystredig ac yn aml yn gadael os na allant ddod o hyd i’r wybodaeth o fewn y tri chlic.

**Arddangosyn 3 – arolwg o swyddogion awdurdodau lleol – opsiynau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i hybu twf Mentrau Cymdeithasol**

Nid yw awdurdodau lleol yn mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo cyfleoedd i wella'r sector Mentrau Cymdeithasol sy'n gwanhau eu gallu i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol




Ffynhonnell: Archwilio Cymru, Arolwg o Swyddogion awdurdodau Lleol, Ionawr – Mai 2022.

1.26 Yn ôl nifer fach o swyddogion awdurdodau lleol, roedd codi ymwybyddiaeth yn faes i’w wella. Er enghraifft, nododd un y ‘Dylai fod [yn rhan o’n rôl], ond dydyn ni ddim yn gwneud llawer o hynny, oherwydd nad oes gennym strategaeth ffurfiol. Dydyn ni ddim wir yn adrodd ar ein heffaith ychwaith.’ Ac mae rhai awdurdodau lleol wedi ceisio annog Mentrau Cymdeithasol i gydweithio er mwyn cynnig am gontractau mwy neu eu hannog i symud i mewn i feysydd gweithgarwch sy’n cyd-fynd yn well â grantiau a rhaglenni ariannu’r awdurdod lleol.

1.27 Fodd bynnag, nododd awdurdodau lleol eraill, er y byddent yn cefnogi Mentrau Cymdeithasol sy’n dod i’r amlwg, na fydden nhw o reidrwydd yn eu ‘gwthio’ fel opsiwn sy’n cael ei ffafrio. Nododd un swyddog eu bod ‘ychydig yn ochelgar ynghylch gorfodi model neu ddull penodol ar bobl.’ Nid yw’r dull goddefol hwn o ymgysylltu ac ymwneud â Mentrau Cymdeithasol yn cynorthwyo awdurdodau lleol i wneud y defnydd gorau o’r sector ac rydym yn dod i’r casgliad bod llawer mwy i’w wneud.

# Nid oes gan awdurdodau lleol y mecanweithiau cywir ar waith i sicrhau'r gwerth gorau am arian o'u gwaith gyda Mentrau Cymdeithasol

02

2.1 Yn yr adran hon o’r adroddiad, rydym yn ystyried sut mae awdurdodau lleol yn gweithio i fanteisio ar werth posibl Mentrau Cymdeithasol. Rydym yn ystyried pa mor effeithiol yw dulliau caffael a chomisiynu ac a ydynt yn sicrhau gwerth am arian ac yn ychwanegu gwerth cymdeithasol i bobl.

## Nid yw trefniadau caffael a chomisiynu yn annog Mentrau Cymdeithasol i ymgeisio am gyllid cyhoeddus. Nid oes gan awdurdodau lleol ddigon o gapasiti ac adnoddau i dyfu’r sector

2.2 Mae **Arddangosyn 4** yn dangos bod tua dwy ran o dair o Fentrau Cymdeithasol yn cynhyrchu incwm trwy fasnach gyda’r cyhoedd ac ychydig yn llai na hanner o grantiau’r sector cyhoeddus. Daw’r rhain yn bennaf gan Lywodraeth Cymru a/neu ymddiriedolaethau sy’n rhoi grantiau yn hytrach nag awdurdodau lleol ac yn 2020 roeddent yn ymwneud yn bennaf â’r cymorth ariannol y trefnwyd ei fod ar gael i helpu busnesau trwy’r pandemig. O ran cynnig am wasanaethau wedi’u comisiynu a darparu gwasanaethau o’r fath mae’r data’n amlygu’r ffaith bod gostyngiad bach wedi bod mewn masnach gyda’r sector cyhoeddus rhwng 2018 a 2020, gan nodi potensial digyffwrdd sylweddol Mentrau Cymdeithasol ar gyfer awdurdodau lleol.

**Arddangosyn 4 – o ble’r oedd mae mentrau cymdeithasol yng Nghymru’n cael eu harian yn 2016, 2018 a 2020**

Masnachu gyda’r cyhoedd yw’r brif ffynhonnell incwm ar gyfer Mentrau Cymdeithasol o hyd er bod grantiau’r sector cyhoeddus yn tyfu mewn pwysigrwydd

| Ffynonellau incwm | 2016 | 2018 | 2020 |
|---|---|---|---|
| Masnachu gyda'r cyhoedd | 57% | 63% | 64% |
| Grantiau’r sector cyhoeddus | 39% | 49% | 49% |
| Grantiau eraill | 39% | 44% | 42% |
| Masnachu gyda'r sector cyhoeddus | 23% | 40% | 32% |
| Rhoddion | 24% | 33% | 33% |
| Masnachu gyda sefydliadau'r trydydd sector | 15% | 32% | 25% |
| Masnachu gyda'r sector preifat | 17% | 29% | 25% |
| Masnachu gyda Mentrau Cymdeithasol eraill | 8% | 22% | 17% |

Ffynhonnell: Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio’r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

2.3 Mae dadansoddiad gan Busnes Cymdeithasol Cymru yn amlygu, er bod 32% o Fentrau Cymdeithasol yn masnachu gyda'r sector cyhoeddus ar hyn o bryd, nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau (61%) yn tendro am waith y sector cyhoeddus, a bod ychydig yn llai na thraean (31%) yn ystyried bod eu hanallu i gael mynediad at gyllid gan awdurdodau lleol a chyrff eraill y sector cyhoeddus yn rhwystr i'w cynaliadwyedd a'u twf.[8] Nododd yr ymchwil hon hefyd yn fwy cyffredinol fod yr arfer o gyllido Mentrau Cymdeithasol gan awdurdodau lleol wedi lleihau'n sylweddol ers 2014, yn rhannol oherwydd mwy o ddibyniaeth ar fasnach gyda'r cyhoedd ond hefyd oherwydd anawsterau gweithio o fewn rheolau comisiynu a chaffael cyrff cyhoeddus.[9] Hefyd, canfu canfyddiadau prosiect 'Prynwch yn Gymdeithasol Prynwch yn Lleol' CWMPAS – a sefydlwyd i nodi gwariant gan y sector cyhoeddus y gallai Mentrau Cymdeithasol ei sicrhau – mai'r gwir yn rhy aml yw nad yw'r sector yng Nghymru wedi'i baratoi i weithio gyda chyrff cyhoeddus.

2.4 Mae awdurdodau lleol o dan bwysau parhaus i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gyda chyllidebau ac adnoddau cyfyngedig. Ar y cyd â disgwyliadau cynyddol gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'r galw cynyddol am lawer o wasanaethau statudol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn gwneud i bob £1 gyfrif trwy eu prosesau caffael a chomisiynu.

2.5 Mae gan awdurdodau lleol hanes cryf lle mae gwaith datblygu economaidd lleol yn y cwestiwn, gan hybu twf ac, yn arbennig, rhoi cymorth i fusnesau bach a chanolig. Fodd bynnag, nid oedd dros hanner y swyddogion o awdurdodau lleol y gwnaethom ni gyfweld â hwy'n gwahaniaethu rhwng eu gwaith datblygu economaidd ehangach a'r cyfleoedd penodol a gyflwynir gan Fentrau Cymdeithasol, a hwythau'n ystyried mai un opsiwn o blith llawer yn lleol oedd Mentrau Cymdeithasol. Ac, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhoi cymorth ariannol i fusnesau a'r trydydd sector, mae'r grantiau hyn ar gyfer busnesau yn gyffredinol, heb unrhyw ffocws penodol ar dyfu Mentrau Cymdeithasol. Nododd rhai awdurdodau lleol fod eu dulliau caffael a chomisiynu yn ceisio creu 'chwarae teg' ac nad oedd yn ffafrio un grŵp o sefydliadau dros eraill.

8 Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio'r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

9 cy.cwmpas.coop/wp-content/uploads/2022/06/3.2-7.-SBW-MAPPING-SOCIAL-BUSINESS-full-2020-CYM.pdf

2.6 Er hynny, fe wnaeth swyddogion awdurdodau a ymatebodd i’n harolwg nodi gwahanol rwystrau hefyd sy’n atal Mentrau Cymdeithasol rhag cael budd o gyfleoedd caffael a chomisiynu awdurdodau lleol. Mae’r rhain yn cynnwys:

a rheolau caffael ‘beichus’ ac ‘anghymesur’ sy’n atal busnesau llai rhag cynnig;

b prosesau sy’n canolbwyntio’n ormodol ar elw ac arbedion a dim digon ar werth cymdeithasol, cydnerthedd cymunedol a llesiant, sydd ill tri’n feysydd lle gall Mentrau Cymdeithasol ychwanegu gwerth;

c Mentrau Cymdeithasol yn peidio â gweithredu yn y sector priodol, neu’n peidio â chynnig yr holl wasanaethau y mae eu hangen;

ch ei bod yn well gan awdurdodau lleol fynd at ddarparwyr presennol a ‘gweithio gyda’r hyn rydyn ni’n ei wybod’ yn hytrach na gwthio’r ffiniau a mynd ati i geisio datblygu cyfleoedd newydd; ac

d capasiti, sgiliau ac adnoddau cyfyngedig mewn awdurdodau lleol sy’n lleihau cyfleoedd i ehangu’r sylfaen gontractwyr a thargedu Mentrau Cymdeithasol yn benodol.

2.7 Fodd bynnag, er gwaethaf y gwendidau hyn canfuom hefyd nad yw’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu adnoddau i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol. Er enghraifft, canfu ein harolwg o awdurdodau lleol mai dim ond dau o’r 21 a ymatebodd i ni sydd â chyllideb bwrpasol i gefnogi twf Mentrau Cymdeithasol. Mae Social Enterprise UK yn cydnabod pedwar o’r saith awdurdod lleol - Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam - fel ‘Lleoedd Mentrau Cymdeithasol’ – ardaloedd lle mae gweithgarwch busnesau cymdeithasol yn ffynnu a lle ceir ymrwymiad i fuddsoddi yn y sector a gweithio gydag ef.[10]

2.8 Fe wnaeth nifer o gyfweleion hefyd nodi effaith colli rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol De-ddwyrain Cymru (SEWCED) a gyllidwyd gan yr UE, rhaglen a oedd yn werth £13.5 miliwn mewn chwe awdurdod (Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen) a gyllidodd waith ar ddatblygu Mentrau Cymdeithasol. Daeth rhaglen SEWCED i ben yn 2015 er gwaethaf ei llwyddiant. Roedd swyddogion o’r chwe awdurdod a gyflawnodd fenter SEWCED yn teimlo bod colli cyllid yr UE wedi eu hatal rhag cydweithio i dyfu’r sector busnesau cymdeithasol. Mae **Atodiad 5** yn rhoi rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn.

10 Ceir 33 o leoedd mentrau cymdeithasol cydnabyddedig yn y DU y mae pedwar ohonynt yng Nghymru.

## Nid yw gwerth cymdeithasol yn ymddangos yn un o’r cymhellion allweddol yng ngweithgarwch comisiynu awdurdodau lleol

2.9 Nid oes un diffiniad o werth cymdeithasol; fodd bynnag mae Social Enterprise UK wedi diffinio gwerth cymdeithasol yng nghyd-destun caffael fel ‘y budd ychwanegol i’r gymuned o broses gomisiynu/caffael drosodd y tu hwnt i brynu nwyddau, gwasanaethau a deilliannau yn uniongyrchol.’ I awdurdodau lleol sy’n comisiynu gwasanaethau mae’n bwysig ystyried a mesur y gwerth cymdeithasol hwn o safbwynt y rhai y mae gwaith y sefydliad yn effeithio arnynt. Trwy gasglu gwybodaeth ar ffurf ariannol am werth ystod eang o ddeilliannau, mae comisiynwyr wedyn yn gallu nodi’n fras faint o werth cymdeithasol y gallant ei gael am bob £1 o fuddsoddiad. Mae’r model gwerth cymdeithasol o gyflawni felly yn fframwaith sydd o gymorth i ail-ddylunio gwasanaethau’n gydweithredol ym mhob maes gweithgarwch.[11]

2.10 Canfu ein harolwg o swyddogion awdurdodau lleol, o’r 21 a ymatebodd, fod naw awdurdod yn ystyried gwerth cymdeithasol yn benodol wrth sgorio tendrau am wasanaethau, fod naw ddim yn gwneud hynny a bod tri ddim yn gwybod. O’r naw awdurdod lleol sy’n ystyried gwerth cymdeithasol, dywedodd pump fod lefel y pwysoliad yn amrywio ar draws tendrau ond nid oedd pedwar yn gwybod.

2.11 Mae ymchwil ddiweddar a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn adleisio’r casgliadau hyn gan nodi, am nad oes digon o adnoddau gan awdurdodau lleol, bod timau caffael a chomisiynu’n aml heb y sgiliau a’r capasiti i wireddu manteision gwerth cymdeithasol[12]. Mae dulliau presennol, sydd â gormod o ffocws ar gost, yn arwain at fodelau darparu llai cynaliadwy oherwydd yn rhy aml yr unig faes lle gall sefydliadau ostwng prisiau yw trwy wasgu cyflogau a/neu delerau ac amodau staff.

2.12 Er hynny, nododd ein hadolygiad o strategaethau caffael awdurdodau lleol rai dulliau da o ehangu effaith a gwella gwerth cymdeithasol. Er enghraifft, mae Strategaeth Gaffael Caerffili yn cynnwys opsiwn i ddefnyddio ‘Cymalau Budd Cymdeithasol/Cymunedol’ mewn contractau. Mae Sir y Fflint hefyd wedi cyflwyno ‘System Brynu Ddeinamig,’ sy’n galluogi busnesau llai i gyflawni rhannau bach o archebion mwy, yn hytrach na’u bod yn mynd i un cyflenwr mawr. Gall hyn hefyd annog busnesau presennol i sefydlu canghennau sy’n fentrau cymdeithasol. Mae Sir y Fflint a Rhondda Cynon Taf hefyd wedi creu ‘Swyddog Datblygu Gwerth Cymdeithasol’ (neu rôl debyg), sef rôl bwrpasol sy’n arbenigo mewn craffu ar dendrau a chyllidebau ac sy’n nodi ac yn hyrwyddo cyfleoedd i gynyddu gwerth cymdeithasol i’r eithaf.

11 cy.cwmpas.coop/wp-content/uploads/2022/07/Social-value-CtoC-Brochure-Welsh-20.11.20-compressed.pdf

12 CWMPAS, Dros newid economaidd a chymdeithasol: Adolygiad gwerth cymdeithasol Llywodraeth Cymru - Adroddiad Cryno, Mehefin 2022.

2.13 Mae nifer o awdurdodau yn defnyddio metrigau Themâu, Deilliannau a Mesuriadau[13] (TOMS) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) sy’n darparu pwysoliad gwerth cymdeithasol ar gyfer dadansoddi a sgorio tendrau. Er enghraifft, dywedodd Sir y Fflint wrthym ‘Byddwn yn debygol o ddibynnu ar ein TOMS, i fesur llwyddiant, gan bod y rhain wedi’u gwneud ymlaen llaw ac yn safonol ar draws y sector mentrau cymdeithasol a’r awdurdod lleol.’ Mae TOMS Sir y Fflint, sy’n ymwneud â’u blaenoriaethau corfforaethol a’u hamcanion llesiant, yn galluogi’r Cyngor i ddefnyddio ei weithgareddau caffael comisiynu i gynhyrchu deilliannau strategol seiliedig ar leoedd yn unol ag anghenion cymunedau lleol. Yn yr un modd, nododd Rhondda Cynon Taf eu bod ‘yn defnyddio’r system TOMS gan eu bod yn genedlaethol ac yn cynnwys elfen gwerth cymdeithasol sylfaenol. Mae’n cael ei hystyried pan ydym yn edrych ar eu cynllun busnes.’ Fodd bynnag, nododd sawl awdurdod lleol nad oedd TOMS, o’u profiad hwy, yn rhoi ateb defnyddiol nac ymarferol ar gyfer comisiynu gofal cymdeithasol.

2.14 Byddai’r mwyafrif o awdurdodau lleol hefyd yn ei ystyried yn gyfrifoldeb arnyn nhw i ‘gamu i’r adwy’ i gefnogi Menter Gymdeithasol sy’n ei chael hi’n anodd pe baen nhw wedi comisiynu gwasanaethau gan y sefydliad. Fodd bynnag, o ystyried y swm cyfyngedig o gomisiynu sy’n digwydd a chyndynrwydd naturiol i achub croen sefydliadau sy’n ei chael hi’n anodd, ni fyddai’r rhan fwyaf yn ceisio eu cefnogi’n ariannol neu fel arall, gan ystyried bod hyn yn ormod o risg ac yn ansicr.

2.15 O ystyried cyfyngiadau o ran sut y mae awdurdodau’n hyrwyddo gwerth cymdeithasol wrth gomisiynu a chaffael, mae Llywodraeth Cymru wedi ailbenodi CWMPAS yn ddiweddar i gefnogi’r gwaith y mae ei angen i drawsnewid gwasanaethau yn y sector gofal cymdeithasol, trwy fwrw ymlaen â datblygu modelau gwerth cymdeithasol ar gyfer gofal. Mae CWMPAS wedi cyhoeddi ei fwriad i ‘helpu i gryfhau’r trefniadau rhanbarthol ar gyfer ailbennu cydbwysedd y farchnad gofal cymdeithasol trwy gyflwyno mwy o gwmnïau cydweithredol, Mentrau Cymdeithasol a modelau darparu gwerth cymdeithasol yn sector gofal cymdeithasol Cymru’.[14] Hefyd, mae is-grŵp i’r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol yn cynhyrchu canllaw ar gyfer gwerth cymdeithasol mewn comisiynu ym maes gofal cymdeithasol. Er mai drafft yw’r canllaw o hyd, mae’n nodi bod angen i gomisiynwyr feddwl yn wahanol gyda mwy o ffocws ar le, pobl, a defnyddio asedau er mwyn gwneud i gaffael weithio’n fwy effeithiol.

13 Mae’r canllaw Themâu, Deilliannau a Mesuriadau a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2010 mewn tair rhan gyda Rhan 1 yn rhoi trosolwg o’r dull.

14 www.wales247.co.uk/welsh-government-appoints-cwmpas-to-transform-social-care-delivery-across-wales

# Nid yw awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac mae gwendidau mewn data a gwerthuso yn cyfyngu ar eu gallu i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol

03

3.1 Yn yr adran olaf hon o’r adroddiad, rydym yn archwilio sut y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Rydym hefyd yn asesu cryfder trefniadau goruchwylio a pha un a ydynt yn galluogi awdurdodau i werthuso gwaith ac effaith Mentrau Cymdeithasol yn llawn, a nodi cyfleoedd ar gyfer y dyfodol.

## Nid yw’r mwyafrif o awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol

3.2 Mae Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y ‘Ddeddf’) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ‘hyrwyddo datblygiad Mentrau Cymdeithasol hyrwyddo mentrau cymdeithasol i ddarparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol’. Mae mentrau cymdeithasol eu hunain mewn sefyllfa dda i gydweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Yn ôl ymchwil gan Busnes Cymdeithasol Cymru.[15]

a Mae 54% o Fentrau Cymdeithasol yn ymwybodol o’r ‘Ddeddf’;

b Dywedodd 21% fod y ‘Ddeddf’ yn ganolog i’r gwaith y maent yn ei wneud;

c Roedd 19% ohonynt yn ymgorffori gofynion y ‘Ddeddf’ yn eu dogfennau llywodraethu a pholisi;

ch Mae’n ofynnol yn gyfreithiol bod 9% o Fentrau Cymdeithasol yn ymlynu wrth y ‘Ddeddf’;

d Eglurodd 9% fod y ‘Ddeddf’ yn rhan o’u polisïau diogelu;

dd Dywedodd 8% fod y ‘Ddeddf’ yn goleuo’u rhaglen hyfforddi staff; ac

e Mae 7% yn defnyddio’r ‘Ddeddf’ at ddibenion lobïo a marchnata.

3.3 Canfuom mai nifer gymharol fach o swyddogion awdurdodau lleol y siaradom ni gyda hwy oedd yn ymwybodol o’u dyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo’r defnydd o Fentrau Cymdeithasol ac mai ychydig iawn a allai nodi sut maen nhw’n gweithio i dyfu’r sector a chyflawni eu cyfrifoldebau dan Adran 16. Nid yw’r iaith amhendant yn y Ddeddf o gymorth yn y cyd-destun hwn; yn benodol, y gair ‘hyrwyddo’. Yn ymarferol, mae awdurdodau lleol yn dehongli eu cyfrifoldebau i ‘hyrwyddo’ yn eang iawn. Mae nifer o awdurdodau yn syml yn canolbwyntio eu hymdrechion ar weithio gyda Mentrau Cymdeithasol presennol heb fawr ddim gwaith hyrwyddo gweithredol i roi anogaeth ar gyfer rhai eraill a helpu i greu rhai newydd. Ychydig o awdurdodau sy’n buddsoddi amser ac adnoddau wrth ddiweddaru polisïau a gweithdrefnau caffael i feithrin capasiti a darparu mwy o gyfleoedd i Fentrau Cymdeithasol presennol, yn ogystal â helpu i ysgogi rhai newydd.

15 Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio’r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

3.4 Mae ymchwil ddiweddar yn adleisio'r canfyddiadau hyn gan nodi na fu newid mawr gan awdurdodau lleol o ran comisiynu i ddarparu mwy o wasanaethau gofal cymdeithasol trwy Fentrau Cymdeithasol, ac mai'r sector preifat yw'r partner blaenllaw o hyd[16]. Fe wnaeth partneriaid yn y trydydd sector y gwnaethom gyfweld â hwy a'u harolygu nodi yn yr un modd, ers i'r Ddeddf fynd yn fyw yn 2016, nad oes rhyw lawer o newid wedi bod yn y modd y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol ac yn annog pobl i sefydlu Mentrau Cymdeithasol. O ganlyniad, nid yw uchelgeisiau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn cael eu gwireddu.

3.5 Un cyfle i gyflawni'r newid hwn yw trwy'r Fforymau Gwerth Cymdeithasol newydd a grëwyd o dan bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol[17] y bwriedir iddynt gefnogi twf y sector gwerth cymdeithasol yn y farchnad iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod y fforymau hyn yn cael cymorth i raddau amrywiol gan bartneriaid a chomisiynwyr statudol, maent yn rhoi cyfle da i ymgysylltu â'r sector, Cynghorau Gwirfoddol Sirol ac eraill o fewn rhanbarth i nodi cyfleoedd ar gyfer buddsoddi a thwf. Mae'r dyraniad o 20% o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol[18] ar gyfer y sector gwerth cymdeithasol, a reolir trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi cyfle go iawn i weithio gyda Mentrau Cymdeithasol i fuddsoddi mewn ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau.

3.6 Hefyd, ceir disgwyliad gan Lywodraeth Cymru bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn creu Fforwm Gwerth Cymdeithasol i fynd ati'n benodol i gyflawni'r cyfrifoldebau dan adran 16. Er enghraifft, mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru[19] wedi creu Fforwm Gwerth Cymdeithasol i archwilio sut i hyrwyddo gwerth cymdeithasol mewn gwasanaethau cyhoeddus yn y rhanbarth. Mae'r Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad Ranbarthol[20] - a gwblhawyd yn ddiweddar gan awdurdodau lleol trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol - hefyd yn darparu cyfoeth o wybodaeth am raddfa a sefydlogrwydd y farchnad gwerth cymdeithasol o fewn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol a byddant yn cefnogi gwaith Fforymau Gwerth Cymdeithasol.

16 llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/adolygiad-gwerth-cymdeithasol-adroddiad-cryno.pdf .

17 Ym mis Ebrill 2016, daeth saith partneriaeth ranbarthol statudol i fodolaeth. Eu pwrpas yw llywio'r drefn strategol ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol yn rhanbarthol mewn cydweithrediad agos â'r sector iechyd.

18 Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gronfa 5 mlynedd sy'n rhedeg o fis Ebrill 2022 tan fis Mawrth 2027..

19 Mae Cydweithredfa Gwella Gwasanaethau Gofal a Llesiant Gogledd Cymru yn cynnwys y chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Bwrdd a phartneriaid eraill. Y nod yw gwella gwasanaethau, gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael, lleihau dyblygu a gwneud gwasanaethau'n fwy cyson ledled Gogledd Cymru.

20 Mae Adroddiadau Sefydlogrwydd y Farchnad yn adolygu digonolrwydd gofal a chymorth mewn ardal i roi cipolwg ar y sector i helpu i gynllunio a llunio gwasanaethau, gan gynnwys gofal ar gyfer y dyfodol.

3.7 Mae nifer o awdurdodau lleol fel Rhondda Cynon Taf a Sir Benfro eisoes yn defnyddio (neu wrthi’n creu) micro-fentrau. Busnesau bach sy’n darparu gwasanaethau gofal neu gymorth annibynnol ac sy’n cyflogi llai na 10 o bobl yw micro-fentrau. Maent yn ddewis arall yn lle gwasanaethau gofal dydd sy’n aml yn ddrud. Oherwydd y pwysau staffio presennol mewn gwasanaethau cymdeithasol, mae Micro-Fentrau yn cynnig ateb mwy cynaliadwy yn ogystal â sicrhau deilliannau gwell.

3.8 Fe gyflwynodd y Ddeddf hefyd ofyniad i bob Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol lunio adroddiad blynyddol sy’n nodi taith wella’r awdurdod lleol o ran darparu gwasanaethau i bobl yn ei ardal[21]. Mae’r canllawiau ar gyfer yr adroddiadau blynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar eu perfformiad yn erbyn chwe safon ansawdd. Mae safon un – ‘Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl am eu cyflawni’ – yn ymdrin yn benodol â hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol.

3.9 Canfu ein hadolygiad o holl adroddiadau’r Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol mai dim ond wyth adroddiad oedd yn cyfeirio at ddefnyddio micro-fentrau a bod tri arall yn sôn am Fentrau Cymdeithasol mewn rhyw gymhwyster, boed yn tynnu sylw at waith menter gymdeithasol benodol yn yr ardal neu wasanaeth a gomisiynwyd gan fusnes cymdeithasol. Nid oedd yr 11 adroddiad arall yn sôn am Fentrau Cymdeithasol a dim ond yn fras yr oeddent yn mynegi gwerth gweithio gyda’r trydydd sector. Canfuom hefyd nad oedd yr un adroddiad yn enwi’r ddyletswydd Adran 16 yn benodol, er bod sawl un yn cynnwys datganiadau a oedd yn cydnabod bod y ‘Ddeddf’ yn ei gwneud yn ofynnol cyd-gynhyrchu neu weithio mewn partneriaeth gyda’r trydydd sector. Ar y cyfan, rydym yn dod i’r casgliad bod mwy i awdurdodau lleol ei wneud yn eu hadroddiadau cyhoeddus ar sut maen nhw’n hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol.

21 Llywodraeth Cymru ac ADDS Cymru, Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol - Arweiniad

## Ychydig iawn o oruchwylio a gwerthuso Mentrau Cymdeithasol a wneir gan awdurdodau lleol

3.10 Mae gan Fentrau Cymdeithasol rôl bwysig o ran diwallu anghenion a helpu pobl mewn cymunedau ledled Cymru. Er enghraifft, mae canfyddiadau Cyfrifiad Busnes Cymdeithasol Cymru yn 2020, a nodir yn Arddangosyn 5, yn dangos bod gwella cymunedau lleol a gwella llesiant y bobl yn amcanion allweddol ar gyfer dros hanner yr holl Fentrau Cymdeithasol.

**Arddangosyn 5 – meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwaith Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru**

Mae Mentrau Cymdeithasol yn ehangu ffocws eu gwaith ac yn gynyddol yn cyflawni gweithgarwch er budd y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymunedau ledled Cymru

| Amcanion cymdeithasol a/neu amgylcheddol Mentrau Cymdeithasol | 2016 | 2018 | 2020 |
|---|---|---|---|
| Gwella cymuned benodol | 64% | 57% | 66% |
| Gwella iechyd a llesiant | 39% | 45% | 52% |
| Cefnogi pobl agored i niwed | 35% | 46% | 48% |
| Mynd i'r afael ag allgau ariannol | 26% | 28% | 44% |
| Annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden | - | 32% | 42% |
| Cefnogi plant a phobl ifanc agored i niwed | 20% | 29% | 34% |
| Creu cyfleoedd cyflogaeth | 21% | 24% | 31% |
| Hyrwyddo addysg a llythrennedd | 32% | 29% | 29% |
| Diogelu’r amgylchedd | 16% | 26% | 29% |
| Darparu mynediad at wasanaethau | - | 22% | 27% |
| Cefnogi Mentrau Cymdeithasol / sefydliadau eraill | 9% | 16% | 25% |
| Hyrwyddo a diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg | - | 21% | 24% |
| Mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol | 7% | 9% | 21% |
| Darparu tai fforddiadwy | 5% | 4% | 3% |

Ffynhonnell: Busnes Cymdeithasol Wales, Mapio’r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

3.11 Er bod Mentrau Cymdeithasol yn darparu gwasanaethau sy’n helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion llesiant a’u cyfrifoldebau statudol eraill, gan mwyaf nid yw awdurdodau lleol yn monitro nac yn gwerthuso’u gweithgareddau na’u heffaith. Nododd pum awdurdod lleol a ymatebodd i’n harolwg eu bod wedi cytuno ar fesurau i farnu effaith Mentrau Cymdeithasol yn eu hardal leol a’u bod yn adrodd yn erbyn y rhain. Nid oes gan dros hanner (13) unrhyw drefniadau i werthuso gweithgarwch, ac nid oedd y gweddill a ymatebodd yn gwybod.

3.12 Oherwydd gwendidau o ran rheoli perfformiad, adrodd arno a’i werthuso, mae’n anodd i awdurdodau lleol farnu pa mor dda y maent yn perfformio ar hyn o bryd a nodi sut y gallant gefnogi twf ac ehangiad yn rôl Mentrau Cymdeithasol yn y dyfodol. Er bod ambell i awdurdod lleol yn cynnwys mesurau mewnbwn/allbwn bras mewn dogfennau craidd ar waith partneriaid, mae’r rhain yn aml yn gyfyngedig i gofnodi ‘nifer y Mentrau Cymdeithasol yr ydym yn gweithio gyda hwy’. Dywedodd lleiafrif o awdurdodau lleol eu bod yn ystyried cael gwybodaeth ‘ansoddol’ am effaith Mentrau Cymdeithasol, gan dynnu ar brofiad defnyddwyr gwasanaethau, ond ni ddaethom o hyd i ryw lawer o dystiolaeth bod awdurdodau lleol yn cyflawni hyn yn ymarferol.

3.13 Gan mwyaf, nid yw awdurdodau lleol yn adrodd wrth aelodau etholedig ar Fentrau Cymdeithasol. O ganlyniad, nid yw’r swyddogion hynny sy’n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn cael eu dwyn i gyfrif ac mae’r gallu i herio a nodi cyfleoedd datblygu yn cael eu colli. Mae nifer o swyddogion y gwnaethom ni gyfweld â hwy yn cydnabod bod diffyg adrodd ar berfformiad wrth aelodau yn cyfyngu ar gyfleoedd i annog aelodau etholedig i gymryd perchnogaeth ar yr agenda hon a mynd ati’n weithredol i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol.

3.14 Yn gyffredinol, mae gan awdurdodau lleol sy’n comisiynu gwasanaethau gan Fentrau Cymdeithasol Gytundeb Lefel Gwasanaeth a danategir gan ystod o fesurau perfformiad y cytunwyd arnynt i werthuso gwasanaethau a gomisiynwyd. Fodd bynnag, canfuom fod adroddiadau ar berfformiad Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn canolbwyntio’n fawr ar ‘fewnbynnau’ ac ‘allbynnau’ – er enghraifft, nifer y defnyddwyr gwasanaeth yr ymdriniwyd â hwy – yn hytrach nag asesu budd cymdeithasol ehangach gwaith Mentrau Cymdeithasol a’r effaith y maent yn ei chael ar bobl sy’n cael eu gwasanaethau.

# Atodiadau

1 Ymagwedd a dulliau archwilio

2 Rhestr Wirio i awdurdodau lleol ar ymgysylltu a gweithio'n effeithiol gyda Mentrau Cymdeithasol

3 Gwahaniaethau mewn deddfwriaeth, polisi a chyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol ar draws tair gwlad Prydain Fawr

4 Nifer y Mentrau Cymdeithasol fesul awdurdod lleol yng Nghymru a'r newid canrannol rhwng 2016 a 2020

5 Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol De-ddwyrain Cymru

6 Crynodeb o Arfer Da a nodwyd yn yr adolygiad hwn

# 1 Ymagwedd a dulliau archwilio

## Ymagwedd

Yr adroddiad hwn yw'r ail o'n gwaith thematig ar gyfer 2022 sy'n edrych ar dlodi. Mae'r adroddiad hwn yn eistedd ochr yn ochr â'n hadroddiad cynharach ar dlodi yng Nghymru a'n hadolygiad sydd i ddod a fydd yn ystyried sut y mae awdurdodau lleol yn grymuso pobl i fod yn fwy hunanddibynnol a chydnerth.

Ar gyfer y gwaith hwn ein hymagwedd fu deall pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn gweithio gyda, yn hyrwyddo ac yn datblygu Mentrau Cymdeithasol. Yn benodol, rydym wedi edrych ar ba mor gadarn yw gwybodaeth am anghenion, strategaethau, cynlluniau a pholisïau ar gyfer Mentrau Cymdeithasol a sut y mae awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn cyflawni eu hymrwymiadau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol.

Fe wnaethom archwilio pob un o'r 22 o brif awdurdodau lleol yng Nghymru ar lefel uchel, gan reoli'r broses gyflawni i fod yn ymwybodol o'r pwysau sydd ar swyddogion awdurdodau lleol yn ystod y pandemig a chyda'r argyfwng costau byw. Sicrhawyd fod y cwmpas yn ddigon i gael golwg ar y sector cyfan ond i beidio â mynd â'r sylw'n sylweddol oddi ar gyfrifoldebau darparu gwasanaethau'r swyddogion. Roedd ein hymagwedd yn hyblyg i gyd-fynd â'r galwadau ar swyddogion wrth gytuno ar ein gwaith maes a'i gyflawni.

## Dulliau

Cwblhawyd ein hadolygiad rhwng mis Awst 2021 a mis Medi 2022 ac fe ddefnyddiwyd ystod o ddulliau wrth gyflawni ein gwaith:

- **adolygu dogfennau**: fe wnaethom adolygu dogfennau gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a chyrff cyhoeddus perthnasol eraill. Roedd hyn yn cynnwys cofnodion pwyllgorau perthnasol, strategaethau corfforaethol, strategaethau economaidd, busnes, adfywio a chaffael; cynlluniau adfer COVID-19; ac Adroddiadau Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Fe wnaethom hefyd adolygu gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Busnes Cymdeithasol Cymru, Social Enterprise UK a Social Enterprise Scotland.

- cyfweliadau – fe gynhaliom ni ystod o wahanol gyfweliadau:
  - cyfweliadau â swyddogion – fe gyfwelom ni â swyddogion a enwebwyd gan bob prif awdurdod lleol yng Nghymru, yn gyffredinol y rhai sydd â chyfrifoldeb am Fentrau Cymdeithasol, gofal cymdeithasol neu ddatblygu economaidd. Cynhaliwyd y rhain rhwng mis Ionawr a mis Mai 2022.
  - cyfweliadau cenedlaethol – fe gyfwelom ni â chynrychiolwyr Mentrau Cymdeithasol yng Nghymru a’r Alban, cyrff cynrychioliadol cenedlaethol megis CWMPAS, elusennau, melinau trafod, sefydliadau academaidd a chyrff ymchwil. Cynhaliwyd y rhain rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2022.
- **grwpiau ffocws** – yn unol â’n hymagwedd, roedd rhai awdurdodau lleol o’r farn ei bod yn fwy priodol i ni siarad gydag ystod o swyddogion mewn grwpiau ffocws i leihau ein heffaith ar ddarparu gwasanaethau.
- **arolwg** – fe gynhaliom ni arolwg gyda swyddogion awdurdodau lleol. Roedd yr arolwg ar agor rhwng mis Ionawr a mis Mai 2022, ac fe gawsom ymatebion gan bob awdurdod lleol heblaw Cyngor Dinas Casnewydd.
- **Gwefannau** – awdurdodau lleol ac adnoddau allanol, e.e. DEWIS.
- **dadansoddi data** – fe wnaethom ddadansoddi ystod o ddata a gesglir ac a gyhoeddir gan Busnes Cymdeithasol Cymru Social Enterprise UK a Social Enterprise Scotland.

# 2 Rhestr Wirio i awdurdodau lleol ar ymgysylltu a gweithio'n effeithiol gyda Mentrau Cymdeithasol

| Cam Gweithredu | Wedi'i gwblhau | Wedi'i ddechrau | Heb ei ddechrau |
|---|---|---|---|

## 1 Trefniadau Strategol

### Gweledigaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae gennym weledigaeth y cytunwyd arno ar gyfer sut y byddwn yn gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol. | | | |
| Mae'r weledigaeth wedi cael ei rhannu gyda'r holl staff perthnasol yn yr awdurdod lleol, ac maent yn ei deall. | | | |
| Mae'r weledigaeth wedi cael ei rhannu gyda aelodau etholedig, wedi'i chymeradwyo ganddynt, ac mae'n cael ei deall ganddynt. | | | |
| Datblygwyd y weledigaeth mewn trafodaeth gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol. | | | |
| Mae'r weledigaeth wedi cael ei lledaenu i Fentrau Cymdeithasol yr ydym yn gweithio gyda hwy. | | | |
| Mae'r weledigaeth yn nodi'n glir sut yr ydym yn bwriadu cyflawni ein cyfrifoldebau Adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol gan gynnwys:<br>• ein gwaith i hyrwyddo gwerth cymdeithasol trwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol; a<br>• defnyddio'r Gronfa Integredig Rhanbarthol i hyrwyddo a datblygu Mentrau Cymdeithasol. | | | |

| Cam Gweithredu | Wedi’i gwblhau | Wedi’i ddechrau | Heb ei ddechrau |
|---|---|---|---|
| **Dull Corfforaethol** | | | |
| Mae gennym ddull a arweinir yn gorfforaethol ar gyfer gweithio gyda Mentrau Cymdeithasol sy'n cwmpasu pob adran a gwasanaeth. | | | |
| Mae'r dull corfforaethol yn trosi ein gweledigaeth yn gamau gweithredu ymarferol. | | | |
| Rydym wedi dynodi arweinydd corfforaethol ar gyfer Mentrau Cymdeithasol sy'n gyfrifol am oruchwylio a chydlynu ein gwaith gyda'r sector. | | | |
| **Deall y sector Mentrau Cymdeithasol lleol** | | | |
| Rydym wedi mapio’r sector Mentrau Cymdeithasol yn ardal ein hawdurdod lleol ac rydym yn gwybod:<br>• nifer y sefydliadau sy’n gweithio’n lleol;<br>• y gwasanaethau y maent yn eu darparu;<br>• y cymunedau y darperir y gwasanaethau ynddynt;<br>• y bobl y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer;<br>• sut y mae’r gwasanaethau’n cael eu cyllido;<br>• oriau/dyddiau gweithredu gwasanaethau;<br>• y meini prawf cymhwystra ar gyfer y gwasanaeth (os o gwbl);<br>• sut y mae’r gwasanaeth yn cyd-fynd â’n cyfrifoldebau Adran 16 ar gyfer hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol; a<br>• phwy i gysylltu â hwy am ragor o wybodaeth. | | | |
| Mae gennym gofnod o’n holl gyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol. | | | |

| Cam Gweithredu | Wedi'i gwblhau | Wedi'i ddechrau | Heb ei ddechrau |
|---|---|---|---|
| Rydym yn coladu gwybodaeth ariannol ac yn adrodd o leiaf yn flynyddol ar gyfanswm ein cyllid i Fentrau Cymdeithasol sy'n cwmpasu:<br>• pa sefydliadau yr ydym yn eu cyllido;<br>• gwerth y contract;<br>• hyd y contract;<br>• pa adran/gwasanaeth sydd wedi contractio;<br>• y mesurau llwyddiant a sefydlwyd ar gyfer y gwaith; a<br>• beth yw manteision arfaethedig y gwaith. | | | |
| Rydym yn codi ymwybyddiaeth am y manteision a gyflwynir gan Fentrau Cymdeithasol i sicrhau bod yr holl staff yn nodi cyfleoedd i gydweithio gyda hwy trwy:<br>• gynnal diwrnod mentrau cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol;<br>• cynnal gweithdai i gynghorwyr ac uwch reolwyr; a<br>• datblygu gweithgareddau i ddathlu a hyrwyddo mentrau cymdeithasol. | | | |

## Trefniadau cydweithio a phartneriaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi nodi a chytuno sut y bydd gwaith Mentrau Cymdeithasol yn cael ei reoli a sut y byddir yn craffu arno ar:<br>• lefel gorfforaethol – yng ngwaith partneriaethau strategol a phwyllgorau craffu corfforaethol;<br>• lefel adrannol – mewn trefniadau partneriaeth penodol i gefnogi agendâu polisi ehangach o fewn meysydd diffiniedig; a<br>• lefel gwasanaethau – ar bartneriaethau lleol a mentrau penodol sy'n cael eu harwain gan wasanaethau. | | | |

| Cam Gweithredu | Wedi'i gwblhau | Wedi'i ddechrau | Heb ei ddechrau |
|---|---|---|---|
| Rydym yn codi ymwybyddiaeth o waith mentrau cymdeithasol yn effeithiol ac yn cynnwys pobl leol a chymunedau wrth ddatblygu Mentrau Cymdeithasol newydd. | | | |
| Mae gennym berthynas glir ac effeithiol â'n Cyngor Gwirfoddol Sirol fel partner strategol a chyflawni allweddol | | | |
| Mae gennym uwch swyddog arweiniol enwebedig i hyrwyddo ac arwain gwaith trwy'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol rhanbarthol. | | | |

## Strategaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae ein dull o ymdrin â Mentrau Cymdeithasol wedi'i integreiddio â'n strategaethau a'n cynllun allweddol – e.e. Cynllun Llesiant, blaenoriaethau corfforaethol a strategaethau cymunedol a rhanbarthol eraill. | | | |
| Rydym wedi pennu amcanion a chamau gweithredu CAMPUS ar sut y byddwn yn cefnogi ac yn hyrwyddo twf Mentrau Cymdeithasol. | | | |
| Rydym yn gwybod yn glir beth yw manteision a risgiau Mentrau Cymdeithasol i ddinasyddion, cymunedau lleol a'r awdurdod lleol. | | | |

## Cyflawni'r strategaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae gennym ddigon o staff ac adnoddau i hyrwyddo a thyfu Mentrau Cymdeithasol. | | | |
| Mae gennym staff yn y gwasanaethau cywir ac sy'n meddu ar y lefel hynafedd ofynnol i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Mentrau Cymdeithasol. | | | |
| Mae gennym feddylfryd sy'n seiliedig ar ddiwylliant hyderus o fewn y cyngor i wneud y defnydd gorau o Fentrau Cymdeithasol. | | | |
| Rydym yn rhoi'r cyfle i staff gymryd risgiau a reolir yn dda ac archwilio arferion arloesol | | | |

| Cam Gweithredu | Wedi’i gwblhau | Wedi’i ddechrau | Heb ei ddechrau |
|---|---|---|---|

## 2 Comisiynu a Chaffael

### Dylunio gwasanaethau

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym yn tynnu ar arbenigedd a gwybodaeth Mentrau Cymdeithasol wrth ddylunio gwasanaethau newydd. | | | |
| Mae ein comisiynwyr yn gwneud defnydd da o broses Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad i oleuo gweithgarwch comisiynu a siapio'r farchnad ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. | | | |
| Wrth ddylunio gwasanaethau, rydym yn nodi’n glir:<br>• pa alw fydd y gwasanaeth yn ei ateb;<br>• sut yr ydym wedi penderfynu ar y math o wasanaeth y mae ei angen arnom; a<br>• sut y byddwn yn ymgysylltu â darparwyr presennol a phosibl i ddatblygu’r gwasanaeth. | | | |
| Rydym yn sicrhau bod ein proses dendro’n hygyrch i’r holl gydweithwyr posibl. | | | |
| Gallwn ddangos bod gennym y capasiti a'r sgiliau i gyflawni'r broses gomisiynu strategol. | | | |
| Rydym yn mynd ati i chwilio am ffyrdd o wahodd cyrff i gydweithio | | | |

| Cam Gweithredu | Wedi’i gwblhau | Wedi’i ddechrau | Heb ei ddechrau |
|---|---|---|---|
| **Systemau dyfarnu effeithiol** | | | |
| Rydym wedi creu un system gyllido ganolog a chorfforaethol ar gyfer rheoli a dyfarnu’r holl gyllid i Fentrau Cymdeithasol. | | | |
| Mae gennym systemau effeithiol i ddyfarnu cyllid i sefydliadau sy’n nodi:<br>• amserlen gyllido glir sydd ar gael i bob cynigydd posibl fel y gallant baratoi ar gyfer cyfleoedd;<br>• y broses a ddefnyddir i benderfynu (er enghraifft, ceisio dyfyniadau neu ddefnyddio proses dendro neu broses gynnig);<br>• y gwerth a’r risg sy’n gysylltiedig â’r gwahanol lwybrau cyllido;<br>• meini prawf clir a chyhoeddedig sy’n cael eu deall gan bob sefydliad sy’n ceisio cyllid, gan gynnwys cymalau budd cymunedol a gwerth cymdeithasol;<br>• y gost a’r adnoddau i oruchwylio’r broses a’i gweinyddu; ac<br>• am faint o amser y darperir y cyllid hwnnw. | | | |
| **Systemau dyfarnu effeithlon** | | | |
| Mae gennym systemau corfforaethol effeithlon i ddyfarnu cyllid yn seiliedig ar:<br>• brosesau ymgeisio cryno a chlir;<br>• defnyddio systemau ar-lein ac electronig i ddosbarthu a chasglu gwybodaeth a chynigion;<br>• trefniadau penderfynu byr o’r dechrau i’r diwedd;<br>• isafswm y camau a’r prosesau sy’n ofynnol i benderfynu; a<br>• phenderfyniadau’n cael eu dirprwyo i’r lefel isaf. | | | |

| Cam Gweithredu | Wedi’i gwblhau | Wedi’i ddechrau | Heb ei ddechrau |
|---|---|---|---|
| Mae ein telerau ac amodau contract yn gymesur â lefel y cyllid sy'n cael ei roi ac maen nhw'n benodol i'r gwaith sy'n cael ei gyllido. | | | |
| Rydym yn adolygu ein prosesau cyllido er mwyn sicrhau nad ydym yn allgau Mentrau Cymdeithasol rhag sicrhau gwaith. | | | |

## Hyfforddiant a rhannu gwybodaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym yn darparu hyfforddiant i gefnogi Mentrau Cymdeithasol sy’n cwmpasu:<br>• sut i wneud cais am gyllid – yr hyn y dylid ac na ddylid ei wneud;<br>• cydymffurfio â’n systemau comisiynu a chaffael;<br>• prosesau casglu data;<br>• trefniadau rheoli perfformiad a chraffu arno;<br>• cylchoedd talu a thargedau perfformiad; a<br>• gofynion terfynu/parhad contract. | | | |

| Cam Gweithredu | Wedi'i gwblhau | Wedi'i ddechrau | Heb ei ddechrau |
|---|---|---|---|

# 3 Rheoli perfformiad

## Casglu gwybodaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol i fonitro a gwerthuso perfformiad y Mentrau Cymdeithasol yr ydym yn eu cyllido. | | | |
| Mae'r wybodaeth yn mesur gweithgarwch perthnasol yn unig. | | | |
| Mae'r systemau i gasglu gwybodaeth wedi'u symleiddio ac yn effeithlon, a dim ond unwaith ac yn electronig a hynny o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt y mae Mentrau Cymdeithasol yn cyflwyno gwybodaeth. | | | |

## Adolygiad o berfformiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym yn adrodd yn rheolaidd ar ein cyllid i Fentrau Cymdeithasol wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth am berfformiad sy'n cwmpasu:<br>• y safonau gwasanaeth yr ydym yn eu gosod i'r Fenter Gymdeithasol a gyllidir gennym berfformio yn eu herbyn;<br>• gwelliannau yn neilliannau llesiant a chymdeithasol pobl; a<br>• data perthnasol am berfformiad sy'n seiliedig ar wasanaethau; a<br>• chasgliadau adolygiadau archwilio/arolygu allanol. | | | |
| Mae ein prosesau craffu a gwerthuso:<br>• yn gymesur â gwerth y cyllid a ddarparwn; ac<br>• yn rhoi sicrwydd i ni bod ein cyllid yn cyflawni'r deilliannau disgwyliedig. | | | |

| Cam Gweithredu | Wedi’i gwblhau | Wedi’i ddechrau | Heb ei ddechrau |
|---|---|---|---|
| Yn flynyddol rydym yn adrodd yn gyhoeddus:<br>• ar waith Mentrau Cymdeithasol;<br>• ar berfformiad presennol Mentrau Cymdeithasol yr ydym yn eu cyllido;<br>• ar y modd y byddwn yn hyrwyddo cyfleoedd pellach i’r sector yn y dyfodol; ac<br>• ar ba mor dda yr ydym yn perfformio o ran cyflawni ein cyfrifoldebau A.16 ar gyfer Mentrau Cymdeithasol. | | | |

## Rheoli risg

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rydym yn adolygu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n cyllid ar gyfer Mentrau Gymdeithasol yn rheolaidd. | | | |
| Rydym yn cytuno ar gynlluniau rheoli risg os nad yw risgiau'n cael eu rheoli a'u lliniaru. | | | |
| Mae gennym raglen dreigl o brofi systemau ac adolygiadau cydymffurfio gan y tîm archwilio mewnol er mwyn sicrhau cadernid, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein cyllid i wasanaethau Mentrau Cymdeithasol. | | | |

# 3 Gwahaniaethau mewn deddfwriaeth, polisi a chyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol ar draws tair gwlad Prydain Fawr

| Materion | Lloegr | Yr Alban | Cymru |
|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth ar Fentrau Cymdeithasol | Yn canolbwyntio'n bennaf ar wneud gwell defnydd o gontractau Gwerth Cymdeithasol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012 | Yn bennaf trwy ddefnydd tir/asedau a gofyniad i gyrff cyhoeddus fod ag o leiaf un contract gyda Menter Gymdeithasol | Ydy, mae A.16 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol 'Hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector'. Gallai hyn hefyd gael ei ehangu yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus |
| Strategaeth Genedlaethol ar gyfer tyfu Mentrau Cymdeithasol | Mae Social Enterprises UK wedi cyhoeddi adroddiad ar gyfer y dyfodol – Social Value 2032. | Strategaeth Mentrau Cymdeithasol yr Alban 2016-2026 | Roedd gan Lywodraeth Cymru strategaeth yn 2005 ond mae hon wedi dod i ben. Cafodd y strategaeth gyfredol – Trawsnewid Cymru drwy Fentrau Cymdeithasol – ei datblygu gan y sector ac fe'i cefnogir gan Lywodraeth Cymru |
| Cyllid gan y Llywodraeth ar gyfer Mentrau Cymdeithasol | Benthyciad Dechrau Busnes a gefnogir gan y Llywodraeth o £500 i £25,000 ac arian Ffyniant Bro | Just Enterprise, Developing Markets, Social Growth, Business Gateway, ac ati | Cronfa Cadernid Economaidd Busnes Cymru a Banc Datblygu Cymru |
| Cymorth y Llywodraeth i Fentrau Cymdeithasol | Fe'i darperir yn bennaf trwy Linell Gymorth Busnes Llywodraeth y DU a 38 o 'hybiau twf' lleol | Fe'i cydlynir yn bennaf trwy Business Support Scotland | Busnes Cymdeithasol Cymru Llywodraeth Cymru |
| Gweinidog â chyfrifoldeb am Fentrau Cymdeithasol | Is-Weinidog Cymdeithas Sifil ac Ieuenctid | Gweinidog y Cabinet dros Fusnes, Masnach, Twristiaeth a Menter | Gweinidog Cabinet yr Economi |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru.

# 4 Nifer y Mentrau Cymdeithasol fesul awdurdod lleol yng Nghymru a’r newid canrannol rhwng 2018 a 2020

| Awdurdod Lleol | 2018 | 2020 | Gwahaniaeth | % y cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Bro Morgannwg[22] | 41 | 217 | 176 | 429% |
| Caerdydd | 228 | 265 | 37 | 16% |
| Casnewydd | 51 | 76 | 25 | 49% |
| Abertawe | 135 | 158 | 23 | 17% |
| Wrecsam | 62 | 78 | 16 | 26% |
| Ceredigion | 71 | 79 | 8 | 11% |
| Sir y Fflint | 65 | 70 | 5 | 8% |
| Sir Fynwy | 29 | 34 | 5 | 17% |
| Ynys Môn | 56 | 60 | 4 | 7% |
| Conwy | 76 | 78 | 2 | 3% |
| Sir Ddinbych | 71 | 72 | 1 | 1% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 83 | 85 | 2 | 2% |
| Gwynedd | 127 | 128 | 1 | 1% |
| Caerffili | 99 | 98 | -1 | -1% |
| Merthyr Tudful | 67 | 64 | -3 | -4% |
| Sir Benfro | 121 | 115 | -6 | -5% |
| CNPT | 79 | 73 | -6 | -8% |
| RhCT | 162 | 155 | -7 | -4% |
| Sir Gâr | 174 | 164 | -10 | -6% |
| Blaenau Gwent | 45 | 38 | -7 | -16% |
| Powys | 110 | 100 | -10 | -9% |
| Torfaen | 51 | 40 | -11 | -22% |
| Cyfanswm a nodwyd | 2,003 | 2,247 | 244 | 12% |

Ffynhonnell: Busnes Cymdeithasol Cymru, Mapio’r Sector Busnesau Cymdeithasol yng Nghymru / Cyfrifiad 2020, Mehefin 2021.

22 Fel yn yr adroddiad gan CWMPAS, mae’r ffigwr ar gyfer Bro Morgannwg yn allanolyn, o ganlyniad i gynnwys ffynhonnell ychwanegol a ddarperir gan Wasanaeth Gwirfoddol Bro Morgannwg. Ni wyddys a fabwysiadwyd y dull hwn mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.

# 5 Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol De-ddwyrain Cymru

Fe wnaeth chwe awdurdod lleol (Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Caerffili, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen) gyllido rhaglenni Mentrau Cymdeithasol pwrpasol gan ddefnyddio £13.5m o arian yr UE o dan raglen Datblygu Economaidd Cymunedol De-ddwyrain Cymru (SEWCED).
Canfu gwerthusiad o raglen SEWCED a gomisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fod y prosiect wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau o ran cynhyrchu swyddi newydd, a chafodd pob agwedd ar y prosiect sgôr uchel mewn arolygon gyda menter gymdeithasol a gafodd fudd ohono. Er enghraifft, rhoddodd SEWCED gymorth fel a ganlyn:

- creu 30 o swyddi newydd a 3 Menter Gymdeithasol newydd;
- rhoi cynhorthwy ariannol i 28 o sefydliadau lleol;
- 15 o sefydliadau i fabwysiadu a gweithredu Cynlluniau Gweithredu Amgylcheddol; ac
- 13 i fabwysiadu Strategaethau Cydraddoldeb a gwella eu systemau ar gyfer monitro a gwerthuso prosesau cyflawni.

Daeth rhaglen SEWCED i ben yn 2015 ac, er gwaethaf llwyddiant y prosiect a'r canfyddiadau gwerthuso, ni pharhawyd â'r gweithgarwch ac ni chafodd ei ddisodli yn y mwyafrif o achosion. Dim ond dau awdurdod lleol a gafodd gyllid trosiannol i gadw'r staff yr oeddent yn eu cyflogi i weithio gyda Mentrau Cymdeithasol o dan SEWCED.

Penderfynodd y gwerthusiad fel a ganlyn: 'heb gymorth SEWCED, ni fyddai'r sector mentrau cymdeithasol yn Ne-ddwyrain Cymru wedi cyflawni'r un deilliannau ag a wnaeth. Ar ben hynny, heb gymorth tebyg yn y dyfodol, byddai'r canlyniadau hyn yn awgrymu na fydd y sector mentrau cymdeithasol dwyn yr un manteision ag y mae wedi'i wneud o ganlyniad i raglen SEWCED.' Mae'r cyfweliadau gydag awdurdodau lleol lle soniwyd am SEWCED wedi cadarnhau hyn, gan nad oes ymdrech gyfatebol a threfnus i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol yn weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd.

# 6 Crynodeb o Arfer Da a nodwyd yn yr adolygiad hwn

**Arfer da – sut rydym yn ei bennu**

Dyma’r paramedrau a ddefnyddiwn i farnu a ddylid cynnwys astudiaeth achos fel arfer da:

- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth ag effeithiolrwydd profedig, a ategir gan werthusiad cynhwysfawr.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth y dangoswyd ei f/bod yn dwyn deilliannau llwyddiannus ac a ategir i ryw raddau gan ffynonellau data goddrychol a gwrthrychol.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sydd wedi gweithio o fewn un sefydliad ac sy’n dangos addewid yn ystod ei g/chyfnod cynnar ar gyfer dod yn ymarfer ac iddo effaith gynaliadwy hirdymor.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sydd â’r potensial i gael ei (h) efelychu ymhlith sefydliadau eraill.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sy’n rhoi gwerth am arian. Diffinnir gwerth am arian fel y defnydd gorau posibl o adnoddau i ddwyn y manteision bwriadedig.
- rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sy’n dwyn arbedion/gostyngiadau mewn gwariant heb gael unrhyw effaith neu gan gael effaith fach ar berfformiad.

O fewn corff yr adroddiad, rydym wedi nodi’r meysydd canlynol o arfer da:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – gwaith Grŵp y Sector Gwirfoddol sy’n arwain ar ymgysylltu â Mentrau Cymdeithasol – paragraff 1.18.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – gwaith y Swyddog Menter a Busnes i gefnogi a hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol – paragraff 1.19.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bro Morgannwg – creu Mentrau Cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau lleol – paragraff 1.20.

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – defnyddio Cymalau Budd Cymdeithasol a Chymunedol mewn contractau – paragraff 2.12.
- Cyngor Sir y Fflint – System Brynu Ddeinamig sy’n galluogi busnesau llai i gyflawni rhannau bychain o archebion mwy - paragraff 2.12.
- Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf – creu swyddogion â chyfrifoldebau penodol i ganfod a hyrwyddo cyfleoedd i gynyddu gwerth cymdeithasol i’r eithaf mewn prosesau tendro – paragraff 2.12.
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Sir Penfro – hyrwyddo a gweithio gyda Micro-Fentrau – paragraff 3.7.

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn destun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Ymateb y rheolwyr

**Teitl yr adroddiad:** ‘Cyfle wedi’i golli’ – Mentrau Cymdeithasol

**Dyddiad cwblhau:** **Gorffennaf 2023**

**Cyfeirnod y ddogfen:**

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy’n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **A1** | I gael y gorau o’u gwaith gyda a’u cyllid ar gyfer Mentrau Cymdeithasol, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y trefniadau a’r systemau cywir yn eu lle. Rydym yn argymell bod swyddogion awdurdodau lleol yn defnyddio’r rhestr wirio yn Atodiad 2 i:<br>• hunanwerthuso gweithgarwch ymgysylltu, rheoli, perfformiad ac arfer mewn perthynas â Mentrau Cymdeithasol ar hyn o bryd; | Ie | Mae’r atodiad yn restr wirio mewn tair rhan, sef Strategaeth, Comisiynu a Chaffael a Rheoli Perfformiad.<br><br>Mae’r gwaith ar ddatblygu strategaeth a gweledigaeth wedi dechrau drwy gynnal cyfarfod wyneb i wyneb ar y cyd gyda cynrychiolwyr o fentrau cymdeithasol Gwynedd ym mis Gorffennaf. Cynhaliwyd gweithdy | Gwaith yn parhau dros y misoedd nesaf. | Dylan Owen<br>Catrin Thomas<br>Hawis Melangell Jones<br>Jennifer Kasina Rao |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | • adnabod cyfleoedd i wella cydweithio; a<br>• mynd ati ar y cyd i ddrafftio a chyflawni cynllun gweithredu gyda graddfeydd amser a chyfrifoldebau wedi'u nodi'n glir i fynd i'r afael â'r bylchau a'r gwendidau a nodwyd trwy'r hunan-werthusiad. | | a rhoddwyd y cyfle i'r mynychwyr (Mentrau Cymdeithasol, Swyddogion Cyngor a Chynghorwyr) gyfrannu at ddatblygu a chydgynhyrchu blaenoriaethau gweithredu gennym fel Cyngor. Dechrau'r gwaith yw hyn a bwriedir mynd ymlaen ymhellach mewn cyfarfod arall ym mis Hydref i ddatblygu gweledigaeth lawn ar y cyd.<br><br>O ran yr elfennau Comisiynu, Caffael a Rheoli Perfformiad, mae sawl pwynt yn y Rhestr Wirio eisoes yn eu lle ac yn weithredol a bwriedir adeiladu ar hynny dros y misoedd nesaf. Cyhoeddwyd Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn ddiweddar ar gyfer Gwynedd a datblygwyd hwnnw | | |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | drwy drafodaethau gyda'r 3ydd sector a darparwyr eraill. | | |
| **A2** | A2 I lywio gwelliant rydym yn argymell bod yr awdurdod lleol:<br>• yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu a gwblhawyd yn ffurfiol;<br>• yn mynd ati'n rheolaidd i adrodd ar berfformiad, ei fonitro a'i werthuso mewn pwyllgorau craffu perthnasol; ac<br>• yn diwygio camau gweithredu a thargedau yng ngoleuni gwerthusiad ac asesiad yr awdurdod o'i berfformiad. | Ie | Bydd angen cwblhau argymhelliad A1 cyn ein bod yn gallu gweithredu ymhellach ar A2 ac A3. | | Dylan Owen<br>Catrin Thomas<br>Hawis Melangell Jones<br>Jennifer Kasina Rao |

| Cyf | Argymhelliad | Blaenoriaeth uchel (ie/na) | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog sy'n gyfrifol |
|---|---|---|---|---|---|
| **A3** | A3 Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau dan adran 16 i hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol rydym yn argymell ei fod yn adrodd ar weithgarwch cyfredol a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn dilyn gwerthuso ei Gynllun Gweithredu gan gynnwys Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | Ie | Gweler Uchod. | | Dylan Owen<br>Catrin Thomas<br>Hawis Melangell Jones<br>Jennifer Kasina Rao |

A1

| CYFARFOD | PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO |
|---|---|
| DYDDIAD | 7ed o Fedi 2023 |
| TEITL | Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol |
| PWRPAS | Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn bodloni ei hun bod y camau gweithredu grëwyd mewn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu. |
| AWDUR | Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol |

## 1 Y penderfyniad a geisir/pwrpas yr adroddiad

1.1 Bydd angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.

## 2 Cyflwyniad

2.1 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried adroddiadau archwilio allanol (cenedlaethol, a lleol i Wynedd), yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth.

2.2 Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y mater hwn yw i **fodloni ei hun bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella hyn yn cael eu gweithredu**, ac ni ddylai'r Pwyllgor ail-gynnal ymchwiliad i faterion sydd o fewn maes gwaith un o'r pwyllgorau craffu eraill. Fodd bynnag, os nad yw'r Pwyllgor o'r farn bod y trefniadau – gan gynnwys gweithrediad un o'r Pwyllgorau Craffu – yn ddigonol, gall alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu i'r Gweithgor Gwella.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1. Cyflwynir yn **Atodiad 1** restr gronolegol o'r arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol rhwng 2018 a 2023 ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella. Mae'r adroddiadau 'lleol/perthnasol i Gyngor Gwynedd' wedi eu rhestru yn gyntaf, yna'r adroddiadau cenedlaethol.

3.2 Rydym wedi nodi 'trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion' er mwyn dangos ymhle y mae'r adroddiad a'i argymhellion wedi eu trafod, ac felly sut y cytunwyd ar unrhyw gynllun gweithredu.

3.3 Hefyd, fe nodir 'Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella' gan ganolbwyntio ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ers i'r Pwyllgor drafod y mater hwn ddiwethaf fis ym mis Chwefror 2023.

3.4 Rydym wedyn yn nodi ein 'Casgliad' o'r cynnydd a wnaed - a oes camau digonol wedi eu cymryd i fodloni'r Pwyllgor bod y gwaith o wireddu'r argymhelliad 'wedi'i gwblhau', yntau a yw yn parhau 'ar waith'. Yn dilyn adborth gan y Pwyllgor, mae'r categori 'wedi ei gwblhau' bellach wedi ei rhannu yn ddau er mwyn adlewyrchu os yw'r argymhellion wedi eu gwireddu neu os ydynt yn waith parhaus ar gyfer yr

adran. Mae'r casgliadau yma wedi eu cytuno gan Grŵp Llywodraethu'r Cyngor. Mater i'r Pwyllgor hwn yw barnu a yw'n cytuno â'r 'Casgliadau'. Mae allwedd i ystyr y casgliad ar gychwyn Atodiad 1.

3.5 Mae'r adroddiadau yn Atodiad 1 i gyd yn rai a oedd a'u argymhellion 'heb ei gychwyn', 'wrthi'n cael ei gynllunio' neu 'ar waith' pan drafodwyd y mater ddiwethaf gan y Pwyllgor hwn fis Chwefror 2023, neu yn adroddiadau a gyhoeddwyd ers hynny.

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Mae angen i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio sicrhau llywodraethu cywir o fewn y Cyngor drwy fod â gorolwg dros sut y byddwn yn ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilio allanol.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Mae'r gwaith o ymateb i'r rhan fwyaf o'r cynigion gwella yn waith parhaus. Os fydd y pwyllgor yn cytuno gyda'r casgliadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y cynigion gwella, yna ni fydd y rhai sydd "wedi'i gwblhau" yn derbyn sylw'r Pwyllgor hwn eto. Bydd y rhai sydd "ar waith" yn dod yn ôl i'r Pwyllgor hwn i'w hystyried eto ymhen tua 6 mis.

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol.

**Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol**

Allwedd i'r casgliadau –

1. **Gwaith paratoadol** – cynnal trafodaethau er mwyn penderfynu sut i ymateb i'r argymhellion a chynllunio os/sut i'w gweithredu.
2. **Ar waith** – cytundeb neu gynllun gweithredu yn ei le er mwyn ymateb i'r argymhellion a gwaith wedi dechrau.
3. **Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus** - cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion yn cael ei wireddu ond gellir dadlau na wnaiff y gwaith o gyflawni'r argymhellion byth orffen am ei fod yn waith parhaus.
4. **Wedi ei gwblhau - argymhellion wedi eu gwireddu.**

**RHAN 1 – Adroddiadau lleol neu ranbarthol sy'n asesu gwaith Cyngor Gwynedd**

**1. Cyngor Gwynedd - System Gwybodaeth Adnoddau Dynol**

Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Tachwedd 2018

Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

(i) Sefydlu rhaglen gwireddu buddion ffurfiol er mwyn gallu gwerthuso nodau'r prosiect datblygu yn briodol.

1. Adolygu opsiynau technoleg o fewn y prosiect:

(i) Gwella mynediad i alluogi mwy o staff (er enghraifft y rhai sydd wedi'u lleoli'n anghysbell) i ymgysylltu â'r system.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r Bwrdd Prosiect yn cadw golwg ar fuddion y prosiect er mwyn asesu os yw'r datrysiad yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r rhaglen ar gyfer cyflwyno'r modiwlau TG wedi llithro yn sylweddol yn sgil diffyg argaeledd adnoddau datblygol y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. O ganlyniad, mae'r Bwrdd wedi blaenoriaethu gwaith yn ymwneud â'r meysydd Recriwtio a Phenodi a hefyd Absenoldebau Salwch. Disgwylir i'r rhain gael eu cyflwyno yn ddiweddarach yn 2023 ond mae hynny'n gwbl ddibynnol ar argaeledd yr adnoddau angenrheidiol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Oherwydd ardrawiad y pandemig, ni fu'n bosib cwblhau gwaith pellach o ran canfod lefelau sgiliau TG y gweithlu sydd wedi eu lleoli mewn mannau anghysbell. Mae'r gwaith yma bellach yn dod o dan oruchwyliaeth y Bwrdd Trawsnewid Digidol ac mae wedi ei gynnwys fel prosiect o fewn y Strategaeth Ddigidol Drafft (sy'n debygol o gael ei gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer ei fabwysiadu ym mis Tachwedd).

Casgliad
Ar waith.

Amserlen
Rydym yn rhagweld y bydd y rhaglen waith i ymateb i'r argymhellion wedi ei gyflawni erbyn diwedd Mawrth, 2024.

2. **Y defnydd o ddata gan Lywodraeth Leol: Cyngor Gwynedd**
   Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019
   Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –
Mae angen i'r Awdurdod ddatblygu dull mwy unedig a chorfforaethol o ddefnyddio data. Felly, mae newid mewn diwylliant ac arweinyddiaeth gryfach mewn perthynas â data yn hanfodol yng Ngwynedd, a bydd yn cefnogi'r gwaith o greu amgylchedd sy'n trin data fel adnodd allweddol. Bydd hyn yn helpu i ymestyn manteision gwneud penderfyniadau dan arweiniad data i bob maes gwasanaeth, yn ogystal â helpu i wella tryloywder a democratiaeth.

Bydd diweddaru'r protocolau rhannu data a darparu sesiynau hyfforddi diweddaru, sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, yn helpu i sicrhau y bydd rheolwyr y gwasanaeth yn gwybod yr hyn y gallant ei rannu ac ar ba adegau y gallant wneud hynny, ac, felly, yn helpu i osgoi unrhyw achos o ochel rhag risgiau diangen ac anghymesur mewn perthynas â rhannu data.

Dylai'r Awdurdod adeiladu ar y gwaith a wneir gan ei uned ymchwil a dadansoddeg er mwyn adolygu ystod ac ansawdd yr wybodaeth sy'n ofynnol gan benderfynwyr, ynghyd â'r fformat ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth honno. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu safonau o ran adrodd ar ddata er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynir i'r uwch-swyddog a'r Aelodau Etholedig yn hygyrch, yn hawdd eu deall, ac yn cefnogi'r penderfynwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sydd mor effeithiol â phosibl.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion
Cafodd yr adroddiad a'r argymhellion gwella eu trafod yn y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth, a'r mater wedi'i gynnwys yng Nghofrestr Risg y Cyngor (lefel Llywodraethu): "Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol". Ymhellach ac fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Digidol y Cyngor, mae Is Grwp Data wedi ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael a'r maes yma gyda cynrychiolaeth o pob adran yn cyfrannu at raglen waith uchelgeisiol i wella'r defnydd o data. Mae'r Is Grŵp erbyn hyn wedi adnabod y meysydd blaenoriaeth ac yn datblygu cynllun gweithredu manwl.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella
Cafodd Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-26 ei fabwysiadu gan y Cabinet fis Ionawr 2021. Mae hwn, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn gosod allan cyfeiriad y Cyngor ym maes gwybodaeth dros y blynyddoedd nesaf gan gynnwys y materion a nodwyd yn yr

adroddiad. Yn ychwanegol, mae Bwrdd Trawsnewid Digidol y Cyngor yn datblygu Strategaeth Digidol newydd fydd hefyd yn sicrhau bod data a pwysigrwydd data yn ganolig i holl ddatblygiadau digidol y Cyngor.

Casgliad
Ar waith.

Amserlen
Bydd cynllun gweithredu manwl yn ffurfio rhan o Strategaeth Digidol y Cyngor 2023 – 2028 ond bydd cerrig milltir penodol mewn lle ar gyfer pob blwyddyn gyllidol o fewn y cyfnod hynny.

3. **Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – Cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**
   Adroddiad rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar waith awdurdodau'r gogledd yn y maes comisiynu cartrefi gofal gyhoeddwyd 16 Rhagfyr 2021 - Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn | Audit Wales (archwilio.cymru)

   Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Fe wnaed y gwaith fel rhan o'n rhaglen statudol o waith archwilio lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad (neu argymhellion fel ddefnyddir yn yr adroddiad)

1. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau defnydd cyson o gytundebau cyn lleoli ledled y rhanbarth.

2. Gall y dull presennol o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal achosi tensiynau rhwng partneriaid ac arwain at werth gwael a phrofiad gwael i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gydweithio i adolygu trefniadau lleol ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i ddileu effeithiau andwyol y gellir eu hosgoi ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ac ar ei gilydd.

3. Mae atebolrwydd yn un o gonglfeini prosesau penderfynu yn y sector cyhoeddus. Mae angen i drefniadau llywodraethu graffu ar benderfyniadau a dwyn penderfynwyr i gyfrif. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gryfhau eu trefniadau llywodraethu wrth weithio mewn partneriaeth i sicrhau atebolrwydd priodol a chraffu effeithiol.

4. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fynd ati, trwy'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, i ddatblygu strategaeth comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal y cytunwyd arni yn rhanbarthol, ac wedyn, datblygu cynllun cyflawni cysylltiedig.

**5.** Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu trefniadau comisiynu ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Fe gyflwynwyd adroddiad i gabinet y Cyngor ym Mehefin 2022, a penderfynodd y cabinet i gymeradwyo ffioedd uwch na'r rhanbarth ar gyfer 2022/23 ar gyfer gwlâu dementia a nyrsio yn benodol, hyn er mwyn ymateb i'r farchnad a'r diffyg gwlâu dementia a nyrsio yng Ngwynedd. Ar gyfer 2023/24, cytunodd Gwynedd ar y ffioedd rhanbarthol ar gyfer gofal preswyl, ond mae Gwynedd yn parhau i dalu ffioedd safonol uwch na'r rhanbarth ar gyfer gwlâu dementia a nyrsio. Rydym yn parhau i fod yn aelodau o'r grŵp ffioedd rhanbarthol, ond mae ffioedd preswyl a nyrsio yn parhau i fod yn fater o bryder ar draws y Gogledd, ond yn genedlaethol hefyd, gyda sawl darparwr yn hawlio ffioedd sylweddol uwch na'r ffioedd safonol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r grŵp ffioedd rhanbarthol wedi argymell ffioedd preswyl a nyrsio ar gyfer 2023/24. Mae Gwynedd wedi derbyn argymhelliad y grŵp o ran lleoliadau preswyl, ond wedi cysidro yr argymhelliad ochr yn ochr ag ystyriaethau lleol, e.e. y diffyg gwlâu nyrsio yng Ngwynedd, ac wedi penderfynu cadw ffioedd uwch yng Ngwynedd ar gyfer lleoliadau dementia a nyrsio arbenigol. Mae gwahaniaethau (e.e. daearyddol) ar draws y Gogledd yn gwneud cysoni ffioedd/gweithdrefnau yn anodd.

Yn unol a'r argymhelliad, mae'r cytundeb cyn lleoli wedi ei safoni ar draws y rhanbarth, ac wedi ei gyrru allan i Ddarparwyr ar draws y Gogledd. Nid yw'r darparwyr wedi arwyddo'r gytundeb eto, ac mae cyfarfodydd wedi eu trefnu i drafod ac ymateb i gwestiynau.

Mae cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a chartrefi gofal preifat yn parhau yn flaenoriaeth, ond mae'r diffyg gwlâu nyrsio a'r ffioedd uchel mae'r darparwyr nyrsio yn eu codi yn her. Dim ond 4 cartref sydd yn cynnig gwasanaeth Nyrsio EMI yng Ngwynedd, ac mae 3 o'r rheini yn codi ffioedd sylweddol uwch na'r ffioedd safonol y gall y Cyngor ei ariannu. Mae Gwynedd yn ymateb i hyn drwy ddatblygu gwlâu nyrsio ar y cyd gyda BCUHB, yn unol a strategaeth Llywodraeth Cymru i *'Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru'*.

Casgliad

Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus

Amserlen

Mi fydd y gwaith yn barhaus, ac mi fydd comisiynu lleoliadau preswyl a nyrsio yn parhau i fod yn fater fydd yn derbyn sylw am flynyddoedd i ddod, nes bydd newid cenedlaethol i wasanaethau gofal.

**4. Cyngor Gwynedd – Adolygiad o Reoli Perfformiad**
Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd yn Chwefror 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –
Awgrym 1
Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo ystod o fesurau defnyddiol ar gyfer yr holl adrannau a swyddogaethau. Mae angen iddo roi sylw arbennig i'r canlynol:
• sicrhau bod yr holl wasanaethau, yn nodi mesurau perfformiad priodol wedi'u saernïo'n dda (SMART) sy'n adlewyrchu pwrpas y gwasanaeth;
• gwneud pwrpas y gwasanaeth a nodwyd mewn cyfarfodydd herio perfformiad yn gydnaws â'r pwrpas yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol yng Nghynllun y Cyngor;
• ymgorffori gwybodaeth uchelgais/safon gwasanaeth/darged a thueddiadau i roi darlun clir i'r Cyngor o uchelgais y Cyngor a'i gynnydd tuag at ei gyflawni; a
• sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon ystwyth i ymateb i heriau newydd a wynebir gan wasanaethau, fel y problemau gweithlu sylweddol presennol a wynebir gan rai gwasanaethau, drwy weithredu mesurau penodol.

Awgrym 2
Mae angen i'r Cyngor wella ei adroddiadau perfformiad er mwyn cynorthwyo eglurdeb drwy:
• ehangu'r defnydd o offer gweledol fel codau lliw i alluogi'r darllenydd i ganolbwyntio'n gyflym ar y materion allweddol drwy dynnu sylw at feysydd lle mae perfformiad ar y trywydd iawn neu'n peri pryder;
• sicrhau bod adroddiadau'n gytbwys ac yn rhoi darlun cyflawn, gonest a chytbwys o'r modd y mae'r Cyngor yn perfformio sy'n amlygu lle mae angen gwella er mwyn sicrhau canlyniadau diriaethol;
• sicrhau bod dangosfwrdd (neu atodiad mesurau) cyfredol yn cael ei gynhyrchu gan bob gwasanaeth a'i gyflwyno ym mhob cyfarfod rheoli perfformiad;
• cyhoeddi adroddiad perfformiad/cerdyn sgorio corfforaethol sy'n adrodd ar bob mesur allweddol mewn un ddogfen hygyrch.

Awgrym 3
Mae angen i'r Cyngor wella'r broses o integreiddio wybodaeth perfformiad ac ariannol drwy:
• ddefnyddio'r galw gwirioneddol am wasanaethau yn hytrach na demograffeg fel y sylfaen ar gyfer gosod cyllidebau sydd yn ymateb i alw;
• cyfleu patrwm y galw gwirioneddol o'i gymharu â thybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb sy'n galluogi gwell dealltwriaeth o'r pwysau adnoddau presennol ar wasanaethau;
• cyfuno gwybodaeth am berfformiad â gwybodaeth ariannol i gyflwyno darlun cyfannol ac unedig o sefyllfa adnoddau gwasanaethau;
• cyfuno gwybodaeth perfformiad ac ariannol i rhoi sicrwydd y gellir gwireddu cynlluniau arbedion a gyflwynir dros y tymor canolig;
• sicrhau ei hun bod cyllidebau sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar lefel sy'n ddigonol i roi adnoddau i'r galw presennol a wynebir gan wasanaethau; a

• phan fydd y Cyngor yn sicr bod y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau allweddol sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar y lefel gywir, datblygu offer fel cyllid dros dro i gydnabod ac ymdopi â chynnydd yn y galw mewn cyllidebau cyfnewidiol.

Awgrym 4
Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad drwy wneud y canlynol:
• cyfathrebu'n rheolaidd y newidiadau yn y fframwaith rheoli perfformiad gyda swyddogion ac aelodau'r Cyngor ;
• sicrhau bod swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael cymorth a hyfforddiant priodol fel y gallent gyflawni eu priod swyddogaethau'n effeithiol;
• adolygu'r trefniadau cefnogi ar gyfer y fframwaith rheoli perfformiad;
• sicrhau bod yr
holl adrannau'n ymgorffori'n effeithiol y defnydd o'r gofrestr risg yn y cylch rheoli perfformiad;
• ymgorffori dull "Un Gwynedd" a fydd yn agor sianeli deialog i alluogi dysgu corfforaethol a dileu yn gyflym achosion lle mae galw yn sgil methiant mewn un adran yn cynyddu'r galw am wasanaethau mewn un arall;
• ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i ddeall gwir achos perfformiad gwael ac ymddygiad anfwriadol; a
• chyflwyno cerrig milltir a nodi perchnogion prosiectau i dracio cynnydd a sicrhau atebolrwydd am gyflawni prosiectau sy'n ymestyn dros sawl blwyddyn.

Awgrym 5
Mae angen i'r Cyngor ymgorffori ystyriaeth o egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nhrefniadau cynllunio adrannau, rheoli ac adolygu perfformiad ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>
Adroddiad a'r argymhellion wedi eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau herio perfformiad corfforaethol a gafodd ei arwain gan y Prif Weithredwr ar ddiwedd 2021/22. Cyflwynwyd yr argymhellion terfynol ar gyfer y drefn herio perfformiad newydd (sy'n ymgorffori mwyafrif yr argymhellion yn yr astudiaeth hon) yn ystod mis Chwefror 2022.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>
Mae'r drefn herio perfformiad newydd wedi ei gweithredu ers y cylch cyntaf o gyfarfodydd herio perfformiad yn 2022/23. Yn ogystal, paratowyd canllawiau ar y drefn newydd ar gyfer yr Adrannau, Aelodau Cabinet a'r Aelodau Craffu ar ddechrau 2022/23 gan eu diweddaru ar gyfer 2023/24. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau newydd gan ddarparu cyfle i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau ar gyfer cynrychiolwyr Adrannau ac i Aelodau Cabinet yn ystod mis Mai/Mehefin 2022. Gyda'r trefniadau newydd wedi cael blwyddyn i wreiddio erbyn hyn, mae bwriad i gynnal adolygiad ysgafn dros y misoedd nesaf gan wneud unrhyw addasiadau pellach os oes angen.

<u>Casgliad</u>
Ar waith

Amserlen
Rydym yn rhagweld y bydd y camau gweithredu er mwyn ateb i'r argymhellion wedi eu cwblhau erbyn diwedd 2023.

**5. Llamu Ymlaen – Cyngor Gwynedd**
Adroddiad Archwilio Cymru. Mehefin 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

**Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy**
Argymhelliad 1
Mae angen i'r Cyngor wneud yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n ganolog i'w ystyriaethau, gan adeiladu ar y profiad o'r pandemig, wrth iddo:
- ddatblygu gweledigaeth y Cyngor ar gyfer trefn a maint ei asedau tir ac adeiladau a'i weithlu yn y tymor byr, canolig a hir;
- datblygu strategaethau ar gyfer asedau a'r gweithlu; a
- datblygu cynlluniau cyflawni wedi'u costio

**Data a Meincnodi**
Argymhelliad 2
Datblygu'r defnydd o ddata a meincnodi i lywio prosesau cynllunio, pennu'r gyllideb a mesur llwyddiant tymor hwy ei fentrau ar gyfer asedau a'r gweithlu.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion
Cafodd adroddiad yn cynnwys 'Ymateb y Rheolwyr' ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Tachwedd 2022 sy'n amlinellu sut y bwriedir ymateb i'r argymhellion.

**Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy**
Bydd yr egwyddor o ddatblygu'n gynaliadwy yn ganolog i'r holl ystyriaethau yng nghyd-destun diweddaru ac adolygu'r cynlluniau a'r strategaethau isod:
1. Adolygiad diweddaraf o'r Strategaeth Asedau Mae'r Strategaeth Asedau Gorfforaethol, sy'n cael ei arwain yn gorfforaethol, yn gosod yr arweiniad i'r Cynllun Rheoli Asedau Eiddo. Bydd ein gallu i lunio Cynllun Rheoli Asedau Eiddo yn ddibynnol ar sicrhau bod y Strategaeth Asedau Corfforaethol yn ei le.
2. Cynllun Asedau Tir ac Eiddo i'w gynnwys fel blaenoriaeth gwella corfforaethol arfaethedig yn y Cynllun Cyngor Pum Mlynedd nesaf Mae'r Cynllun Asedau Eiddo wedi'i gynnwys fel blaenoriaeth wella yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Nid yw 'tir' yn rhan o'r teitl fodd bynnag.
3. Cynllun Ffordd Gwynedd 2023-2028 (sef Cynllun Datblygu'r Sefydliad corfforaethol) wedi ei fabwysiadu gan y Cabinet ar y 7fed o Fawrth.
4. Cynllun Gweithio i'r Dyfodol y Cyngor i'w lunio yn dilyn cyfnod treialu gweithio hybrid (sydd yn dod i ben ddiwedd Rhagfyr 2022) Bydd adroddiad yn mynd i'r Cabinet fis Medi i dderbyn penderfyniad am y ffordd newydd o weithio, a bid am arian o'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol wedi ei gyflwyno i weithredu'r newidiadau sy'n deillio o'r adroddiad hwnnw.

**Data a Meincnodi**

Mae'r Bwrdd Trawsnewid Digidol wedi'i sefydlu er mwyn arwain ar lunio Strategaeth Digidol y Cyngor am y pum mlynedd nesaf. Mae 5 pennawd wedi ei sefydlu o fewn y strategaeth gyda golwg i'r cynllun gael ei fabwysiadu gan y Cabinet ym mis Tachwedd:

- Gwybodaeth a Data
- Gweinyddiaeth a Systemau Busnes
- Cyswllt Cwsmer
- Gweithlu
- Gwydnwch

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

**Gweledigaeth, strategaethau, cynlluniau cyflawni a'r egwyddor datblygu cynaliadwy**

Fel rhan o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28, byddwn yn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo o'r newydd. Bydd y Cynllun Gweithio i'r Dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer ei fabwysiadu ar y 19eg o Fedi. Mae 'Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo newydd' wedi'i gynnwys fel blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Bydd ein gallu i fynd ati i lunio Cynllun Rheoli Asedau Eiddo yn ddibynnol ar sicrhau fod Strategaeth Asedau Corfforaethol a Cynllun Strategol Rheoli Asedau mewn lle.

**Data a Meincnodi**

Mae'r Is-Grŵp Data yn cael ei arwain gan y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol ac eisoes wedi sefydlu ei amcanion, sef;

- Sicrhau bod y Cyngor yn glir o'i anghenion gwybodaeth fel bod y data a gesglir yn bwrpasol i anghenion y Cyngor a'r trigolion yr ydym yn eu gwasanaethu
- Sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio'r data sydd ganddo i; -
    - Gwerthuso a mesur effaith ymyraethau
    - Gwneud penderfyniadau da ar sail tystiolaeth
    - Gwella perfformiad gwasanaethau ar gyfer trigolion Gwynedd
    - Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein gwasanaethau
- Cryfhau y cyswllt gyda'r byd ehangach er mwyn galluogi'r Cyngor i gyfrannu at ddatblygiadau cenedlaethol a rhanbarthol mewn ffordd effeithiol
- Sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn hyderus wrth ymdrin a data ac yn gallu ei gasglu, ei ddehongli a'i rannu mewn ffurf cyson a chywir. Hyn i gynnwys bod data yn cael ei weld fel adnodd sefydliadol yn hytrach na chofnod hanesyddol
- Arfogi'r Cyngor gyda'r gallu i ddal data mewn ffordd diogel a chynaliadwy. Hyn i gynnwys hwyluso'r gallu i wasanaethau a trigolion gael gwybodaeth ar alw.

Casgliad

Ar waith

Amserlen

Yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

6. **Adroddiad Arolygu: Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ar Cyngor Gwynedd**
Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru a gynhaliwyd fis Medi 2022.
Dolen i'r adroddiad ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad -
Ceir nifer o gynigion ar gyfer gwella o fewn yr adroddiad o dan y penawdau canlynol:
**Pobl – llais a dewis**
**Atal**
**Llesiant**
**Partneriaethau**

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion
Mae ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r holl argymhellion a dderbyniwyd yn yr adroddiad ac maent yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn cwrdd â'n dyletswyddau gofal a llesiant tuag at trigolion Gwynedd gan ddarparu gwasanaethau o'r safon gorau bosib. Rydym yn cynnal adolygiadau rheolaidd fel tîm rheoli'r gwasanaeth er mwyn edrych ar gynnydd yn erbyn y gwaith ac yn paratoi diweddariad cynnydd i'w drafod yn chwe misol gydag AGC. Rydym hefyd wedi ymgorffori nifer o'r argymhellion i flaenoriaethau gwella'r adran ac yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 ac mae nifer o'r themâu sy'n ymddangos hefyd yn derbyn sylw fel rhan o'r gofrestr risg gorfforaethol.

Cynnydd yn erbyn yr Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth
Ar y cyfan, rydym yn gwneud cynnydd cadarnhaol ar y Rhaglen Gofal Cartref gyda data'n perfformiad dros y misoedd diwethaf yn dangos lleihad yn y nifer o oriau gofal cartref na allwn ei ddiwallu. Mae nifer o ddatblygiadau gan y darparwyr gofal sydd i'w canmol a sydd wedi cyfrannu at y cynnydd ond wedi dweud hynny, mae rhaid cydnabod bod problemau yn parhau i godi mewn rhai ardaloedd sydd wedi effeithio ar nifer yr oriau na allwn eu diwallu, ac mae'r ardaloedd penodol yma yn derbyn sylw. Mae nifer o'r cynlluniau eraill i leihau pwysau ar y gwasanaeth gofal cartref yn heriol gan eu bod yn gofyn am adnodd ychwanegol therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol ond bydd gwaith yn digwydd i flaenoriaethu adolygu pecynnau 2 ofalydd.

Rydym wedi datblygu trefn newydd o reoli baich gwaith i geisio mynd i'r afael â'n diffyg gallu i adolygu pecynnau gofal o fewn amserlenni statudol a buom hefyd yn ymestyn cytundebau gwaith rhai unigolion am chwe mis pellach er mwyn cynorthwyo â'r gwaith adolygu. Fodd bynnag, mae cyllideb i barhau gyda hyn yn heriol. Yn yr un modd, mae gallu'r adran i gryfhau ein systemau sicrhau ansawdd gofal yn heriol tu hwnt ac mae newidiadau i staffio'r gwasanaeth wedi ansefydlogi pethau ymhellach am gyfnod. Rydym yn parhau i adolygu'r sefyllfa.

Rydym yn gweld cynnydd mewn perthynas â chydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd o safbwynt y gwaith datblygu gofal cartref a threfniadau rhyddhau o'r ysbyty ac mae hyn yn parhau'n flaenoriaeth. Mae'r Cyngor wedi ail afael mewn trafodaethau gyda'r Bwrdd Iechyd o dan arweiniad y cyfarwyddwr corfforaethol, i ail edrych ar gyd leoli timau integredig mewn ardaloedd o'r Sîr.

Mewn perthynas â Gofalwyr Di-Dâl, rydym wrthi'n adolygu'r polisi perthnasol, yn ceisio adnabod y math o gefnogaeth mae gofalwyr yn ei dderbyn a sut mae hynny'n cael ei gofnodi, ac yn ymgysylltu gyda nifer o fudd-ddeiliaid er mwyn llunio Cynllun Gofalwyr Di-Dâl cynhwysfawr. Mae gwaith hefyd yn parhau i adolygu ein trefniadau taliadau uniongyrchol, gyda bwrdd prosiect penodol yn edrych ar drawsffurfio y gwasanaeth, a disgwylir gweithredu ar drefn newydd taliadau uniongyrchol erbyn yr Hydref eleni.

O safbwynt ein cynllun gweithlu rydym bellach wedi gweithredu ar ganlyniadau ail arfarnu swyddi'r gweithlu gofal. Mae rhaglen waith hefyd mewn lle ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyflogau Proffesiynol Gwasanaethau Cymdeithasol; gyda gwaith wedi dechrau i edrych ar broffil oedrannau staff o fewn wahanol wasanaethau er mwyn ceisio adnabod mannau o bryder o ran gweithlu digonol i'r dyfodol. Yn ogystal, rydym yn adolygu swydd ddisgrifiadau Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol er mwyn cefnogi mwy ar waith Therapyddion Galwedigaethol.

Yn dilyn argymhellion AGC mewn perthynas â'n trefniadau goruchwylio a'n trefniadau diogelu mae rhaglenni hyfforddiant yn mynd rhagddynt ar faterion amrywiol gan gynnwys goruchwyliaeth staff adlewyrchol, sgyrsiau cydweithredol, eiriolaeth ac asesiadau galluedd meddyliol.

Mae'r adran wedi rhoi Rheolwr Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu adrannol mewn lle i arwain ar ddatblygu strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu ac mae hwn yn brosiect blaenoriaeth gwella yng Nghynllun y Cyngor. Rydym eisoes wedi bod yn gweithio ar wella tudalennau gwefan ein gwasanaethau a bydd fersiwn newydd yn mynd yn fyw mis Medi 2023. Nesaf, byddwn yn mapio'r holl weithgaredd cyfathrebu ac ymgysylltu sydd ar y gweill, yn adnabod y bylchau ac yn edrych ar ein cyfathrebu mewnol yn ogystal. Bydd y gwaith mapio ac adnabod bylchau yma er mwyn gweithredu wedi ei wneud erbyn Mawrth 2024.

Casgliad:
Ar waith.

Amserlen:
Mae amserlen wahanol ar gyfer wahanol elfennau o'r gwaith, ac mae'r amserlenni wedi eu nodi uchod lle'n berthnasol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023-24 ym mis Mawrth 2024, disgwylir y bydd y gwaith o ymateb i'r argymhellion wedi ei wneud, a bydd gwaith parhaus wedyn i wella ein gwasanaethau yn unol ag argymhellion AGC.

## Adroddiadau ychwanegol ers Chwefror 2023

1. **<u>Adroddiad Arolygu: Gwasanaethau Gofal Cartref Gwynedd - Pobl Hŷn, Byw â Chymorth a DERWEN</u>**
   Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd 8 Gorffennaf 2022.
   [Dolen i'r adroddiad ar wefan Arolygiaeth Gofal Cymru]

<u>Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth* yn codi o'r adroddiad –</u>
Mae angen i'r darparwr:
- Sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhwng staff gofal a rheolwyr.
- Sicrhau bod cofnodion cyfathrebu yn cynnwys gwybodaeth bwysig o ran amserlenni.
- Sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi a'u gwirio wrth aros am gymorth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol, e.e. aros am ambiwlans.
- Sicrhau bod digon o staff ar gael i ddarparu cymorth i bobl pan fo angen.

*(Mae AGC yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth. Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.)

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>
Mae ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r argymhellion a dderbyniwyd yn yr adroddiad. Mae'r argymhellion wedi eu trafod gan dîm rheoli'r Gwasanaeth, ac yn cael eu plethu i fewn i raglen waith ehangach y Gwasanaeth. Rydym o'r farn fod yr argymhellion a'r pwyntiau datblygol hyn yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn darparu gofal o'r safon gorau posib, ac felly yn cynnal adolygiadau rheolaidd fel tîm rheoli'r Gwasanaeth i edrych ar gynnydd yn erbyn y gwaith.

<u>Cynnydd yn erbyn yr Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth</u>

**a) Sicrhau bod cyfathrebu effeithiol rhwng staff gofal a rheolwyr.**

Mae sicrhau cyfathrebu effeithiol yn un o'n prif flaenoriaethau fel Gwasanaeth. Ers y cyfnod clo, rydym yn sicrhau erbyn hyn fod cylchoedd bro yn cael eu cynnal yn chwarterol yn ein is-ardaloedd, sicrhau fod staff yn derbyn sesiynau goruchwyliaeth wyneb i wyneb yn rheolaidd, ac yn cynnal sesiynau penodol i ddiweddaru staff o unrhyw ddatblygiadau o fewn y gwasanaeth.

Rydym hefyd wedi cymryd y cyfle i adolygu a diweddaru ein holiaduron gwasanaeth, ac wedi eu hanfon allan yng nghanol mis Gorffennaf er mwyn casglu adborth staff ynglŷn a'n trefniadau, gan roi'r cyfle iddynt rannu barn ac argymhellion gyda ni, a fydd yn cyfrannu tuag at ein hadroddiadau ansawdd.

Yn ogystal a hyn, rydym wedi bod yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Preswyl ac Adnoddau Dynol i sefydlu Fforwm Staff Preswyl a Dydd. Bwriad y fforwm ydi rhoi'r cyfle i'r staff leisio eu barn, mynegi pryderon neu ofyn am eglurder, a hynny drwy eu cynrychiolwyr ar y Panel. Rydym wedi derbyn enwau sydd yn awyddus i fod yn rhan o'r

fforwm, ac felly'r cam nesaf ydi sefydlu amserlen rheolaidd er mwyn cychwyn ar y trafodaethau.

**b) Sicrhau bod cofnodion cyfathrebu yn cynnwys gwybodaeth bwysig o ran amserlenni.**
Os yn briodol, rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ein bod yn rhannu amserlenni o fewn unrhyw gofnod cyfathrebu rydym yn cylchredeg gan ein Gwasanaeth.

**c) Sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi a'u gwirio wrth aros am gymorth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol e.e., aros am ambiwlans.**
Erbyn hyn, fel Gwasanaeth, rydym wedi datblygu canllawiau penodol i'n Cydlynwyr Gofal Cymunedol a'n Gweithwyr Gofal Cymunedol fod yn ei ddilyn er mwyn gallu cefnogi a gwirio unigolion wrth iddynt aros am gymorth gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol e.e., aros am ambiwlans. Mae'r canllawiau yn cynnwys ffurflen asesu'r sefyllfa, rhestr wirio gyda camau penodol i'w dilyn, asesiad risg, a ffurflen gofnodi, er mwyn cofnodi unrhyw ddiweddariadau i'r sefyllfa.

Rydym wedi sicrhau fod ein Cydlynwyr Gofal Cymunedol yn deall y drefn a'r disgwyliadau drwy gynnal cyfarfodydd gyda hwy. Mae'r Gweithwyr Gofal Cymunedol wedi derbyn copi o'r ddogfennaeth sydd yn briodol iddynt hwy, ac mae sgyrsiau o fewn cylchoedd bro, a sgyrsiau goruchwyliaeth wedi eu trefnu gyda'r staff er mwyn rhoi'r cyfle iddynt drafod y drefn ymhellach, a gwirio unrhyw beth nad ydynt yn sicr ohono.

Rydym hefyd mewn trafodaethau gyda cwmni Galw Gofal iddynt fod yn ein cefnogi fel gwasanaeth yn ystod y cyfnod sydd tu allan i'n horiau gweithredu ni. Y bwriad ydi byddwn yn gallu gofyn i'r cwmni fod yn cynnal galwadau gwirio llesiant yr unigolion os ydynt yn gorfod aros am gymorth am gyfnodau hir, a'u bod yn gallu cadw cysylltiad gyda'r gwasanaeth ambiwlans er mwyn derbyn diweddariad o'r sefyllfa.

**d) Sicrhau bod digon o staff ar gael i ddarparu cymorth i bobl pan fo angen.**
Fel gwasanaeth, mae prinder staff yn parhau i fod yn heriol ar hyn o bryd. Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad o swydd ddisgrifiad Gweithwyr Gofal Cymunedol a arweiniodd at gynnydd yn eu graddfa cyflog. Rydym hefyd yn parhau i weithredu o fewn gofynion y Prosiect Gofal Cartref sydd yn edrych ar ail fodelu ein ffordd o ddarparu gwasanaeth i unigolion. Mae hyn yn cynnwys edrych ar batrwm gwaith y Gweithwyr Gofal a chynnig cydbwysedd gwell o ran gwaith ac amser hamdden iddynt. Rydym hefyd yn cydweithio gyda'n Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd Gofal, ac yn edrych ar ddatblygu cynlluniau megis Profiad Gwaith, ac wedi ceisio denu staff drwy Gynllun Prentisiaethau Corfforaeth y Cyngor hefyd.

Serch hynny, mae recriwtio yn parhau i fod yn heriol iawn, ac rydym dal angen cynyddu niferoedd ein staff ar draws y Sir.

<u>Casgliad:</u>
Wedi ei gwblhau – gwaith parhaus.

<u>Amserlen:</u>
Mae'r materion hyn bellach yn derbyn sylw fel rhan o raglen waith arferol y Gwasanaeth.

**2. Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**
[Cyngor Gwynedd – Trefniadau ar gyfer ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 | Audit Wales]

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad:

i) Cadarnhau a gweithredu ei gynlluniau ar gyfer cwblhau asesiad perfformiad y panel allanol.
ii) Cwblhau'r broses o baratoi a mabwysiadu Strategaeth Cyfranogi.
iii) Diweddariad ar y Cynllun Deisebau.
iv) Diweddariad ar recriwtio'r holl aelodau lleyg angenrheidiol.
v) Trefniadau darparu hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor.
vi) Ar lefel rhanbarthol Gogledd Cymru, cadarnhau'r trefniadau craffu, pwerau benthyg a statws TAW y Cyd-bwyllgor Corfforedig

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion:

i) Trafodaeth gychwynnol wedi ei chynnal hefo CLlLC ynghylch yr amserlen posibl a thrafodaeth wedi ei chynnal yn y Grŵp Llywodraethu mewnol.

Bwriad i gynnal trafodaeth bellach yn y Grŵp Llywodraethu wedi bod trwy'r broses hunan asesu ar gyfer 22/23 er mwyn cyflwyno argymhellion ac amserlen arfaethedig i'r Tîm Arweinyddiaeth ar gyfer cwblhau'r asesiad gan banel.

ii) Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth Cyfranogiad ym mis Ionawr 2023 er mwyn sicrhau mewnbwn y cyhoedd.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriad i'r Cabinet ar 14/02 gan ofyn iddynt argymell y strategaeth i'r Cyngor Llawn. Mae bwriad cyflwyno'r Strategaeth i gyfarfod y Cyngor llawn ar 2il o Fawrth, 2023.

iii) Bu I'r Cyngor Llawn fabwysiadu Cynllun Deisebau yn ei gyfarfod ar y 1af o Ragfyr 2022. Rydym nawr wrthi'n mynd drwy'r camau ymarferol ar gyfer trefniadau gweinyddu cyn cyhoeddi ar y safle we. Mae'r Cynllun yn ymarferol weithredol.

iv) Y Cyngor llawn wedi cymeradwyo penodiad 5ed aelod lleyg ar 1 Rhagfyr 2022. Mae un sedd aelod lleyg yn parhau'n wag a byddwn yn anelu i lenwi hon yng nghyfarfod y Cyngor ar 2 Mawrth 2023.

v) Mae hon yn raglen syn parhau i esblygu. Yr aelodau wedi derbyn hyfforddiant gan yr Ombwdsmon yn Tachwedd 2022 ac ymgynghorwyr trysorlys yn Ionawr 2023. Mae cyfres o benawdau yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.

vi) Mae gwybodaeth wedi ei rannu yn rhanbarthol ynglŷn a'r trefniadau craffu statudol ar gyfer y CBC. Wrth baratoi ar gyfer trosglwyddo y Cynllun Twf a

chwblhau Cyfansoddiad y CBC bydd y model craffu rhanbarthol yn cael ei adnabod a'i gytuno gyda'r Cynghorau.

Mae Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i gytuno ar fanylion newidiadau amrywiol i ddeddfwriaeth y DU i gefnogi'r 4 CBC drwy Orchymyn Adran 150, gan gynnwys mewn perthynas â statws trethiant y CJC. Mae Gorchymyn A150 drafft wedi'i baratoi a bwriedir ei osod gerbron Senedd San Steffan yn gynnar yn 2023. Yn amodol ar gytundeb, byddai'r newidiadau i ddeddfwriaeth y DU yn cael eu gwneud erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:

i) Trafodaeth wedi ei chynnal yn y Tîm Rheoli a'r Tîm Arweinyddiaeth yn ystod mis Mehefin gyda'r bwriad o gyflwyno argymhelliad i'r Cyngor/Cabinet (yn ddibynnol ar gadarnhad elfennau cyfansoddiadol o ran sefydlu trefniadau ar gyfer Panel) yn yr Hydref ein bod yn cynnal asesiad gan Banel yn Hydref 2024.
ii) Mabwysiadwyd y Strategaeth Gyfranogiad gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar yr 2il o Fawrth 2023.
iii) Bu i'r Cyngor Llawn fabwysiadu Cynllun Deisebau yn ei gyfarfod ar y 1af o Ragfyr 2022.
iv) Un sedd aelod lleyg yn parhau'n wag felly bydd ymdrech i lenwi'r sedd.
v) Bwriedir gofyn am benderfyniad y Pwyllgor yn ystod tymor yr hydref mewn perthynas â chynnal hunanasesiad yn unol â chanllawiau CIPFA. Bydd hyn yn gyfle i adnabod anghenion hyfforddiant penodol sy'n ychwanegol i'r hyn sydd eisoes wedi ei raglennu.
vi) Mae gwybodaeth wedi ei rannu yn rhanbarthol ynglŷn a'r trefniadau craffu statudol posib ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC). Wrth baratoi ar gyfer trosglwyddo y Cynllun Twf a chwblhau Cyfansoddiad y CBC bydd y model craffu rhanbarthol yn cael ei adnabod a'i gytuno gyda'r Cynghorau a'r CBC. Gwnaethpwyd y Gorchmynion angenrheidiol i gyfarch y materion a TAW a mynediad i fenthyciadau ar gyfer y CBC ar y 1af o Ebrill 2023.

Casgliad:
Ar waith

Amserlen:
Rhagwelir y bydd yr argymhellion wedi eu cwblhau erbyn diwedd 2023/24.

**RHAN 2 – adroddiadau cenedlaethol neu gyffredinol sy'n berthnasol i Lywodraeth Leol**

1. **<u>Darparu Gwasanaeth Llywodraeth Lleol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol</u>**
   Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018
   Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u> –

1. Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cynghorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. At hynny, rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.

2. Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Rydym yn argymell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:
   • nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;
   • gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
   • nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo;
   • sicrhau bod eu polisïau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo,
   cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a
   • cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion</u>
Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn gweithio ar greu Cynllun Adfywio newydd ar gyfer y sir. Mae'r sir wedi ei rhannu i 13 ardal a bydd cynllun ardal leol yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal. Fel rhan gychwynnol y cynllun rydym wedi ymgynghori gyda grwpiau cymunedol gweithredol a chynghorau cymuned a thref er mwyn canfod barn ar y themâu sy'n bwysig i gymunedau a sut gellir adeiladu ar fodel o gydweithio er mwyn gweithredu ar y blaenoriaethau hynny. Mae hyn yn blethiant o nifer o wahanol ymgynghoriadau trawsadrannol sydd yn digwydd.  Rydym hefyd yn ystod 2022 wedi agor yn ymgynghoriad allan i'r cyhoedd yn ehangach, gyda'r ymgynghoriad ar agor rhwng Mawrth a diwedd Mehefin 2022, a derbyniwyd dros 3,600 o holiaduron sydd wedi eu cofnodi a'u dadansoddi. Mae adroddiadau ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol wedi eu paratoi er mwyn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd. Yn ystod mis Medi a Hydref 2022, trefnwyd gweithdai gyda sefydliadau lleol ym mhob un o'r 13 ardal adfywio lleol. Pwrpas y gweithdai oedd

adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r gwaith ymgysylltu, gan roi sylw i flaenoriaethau lleol. Roedd y gweithdai hefyd yn gyfle i ystyried a thrafod prosiectau lleol a chychwyn ar y gwaith o lunio cynlluniau gweithredu. Cwblhawyd cynlluniau adfywio lleol (drafft) yn ystod Chwefror/Mawrth 2023 ar gyfer pob ardal unigol. Yn ystod mis Mai a Mehefin 2023 trefnwyd cyfres o weithdai pellach yn yr ardaloedd lleol er mwyn ystyried a thrafod y cynlluniau gweithredu drafft gan roi cyfle i'r cymunedau ychwanegu a chadarnhau cynlluniau lleol. Y camau nesaf a fydd yn digwydd yn ystod yr Hydref fydd sefydlu partneriaethau gweithredu lleol a rhannu'r cynlluniau gydag adrannau eraill y Cyngor er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn cynnwys unrhyw gynlluniau adrannol fydd yn digwydd ar draws cymunedau'r sir.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>
Yn hanesyddol mae'r Adran Economi o fewn y Cyngor wedi gwneud llawer o waith o ran trosglwyddo asedau i Gynghorau Cymuned, Mentrau a Grwpiau Cymunedol. Rydym yn gweithio gyda sawl Cyngor Cymuned /Tref , grŵp neu fenter cymunedol i feithrin eu gallu i ymgymryd a rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol, gyda sawl cynllun ar y gweill ar hyn o bryd. Rydym yn rhagweld bod y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau ardal yn fodd o uchafu y nifer o asedau boed yn adeilad neu dir sydd yn cael ei drosglwyddo i reolaeth gymunedol ar gyfer budd cymunedol, ac yn fodd o ddatblygu mwy o ddiddordeb ac anogaeth cymunedol i gymryd rheolaeth o asedau er budd eu cymunedau. Byddwn yn parhau i gefnogi grwpiau i gryfhau capasiti o fewn cymunedau i adnabod cyfleoedd a chefnogi i adnabod ffynonellau ariannu ar gyfer cynlluniau busnes a sicrhau cynllun hyfyw.

<u>Casgliad</u>
Ar waith.

<u>Amserlen</u>
Rydym yn rhagweld y bydd y camau gweithredu er mwyn ateb i'r argymhellion wedi eu cwblhau erbyn Mawrth 2024.

**2. <u>Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion</u>**
Adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru]

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad</u>
Yn rhan 1, mae'r adroddiad yn argymell bod awdurdodau lleol:
- Yn adolygu gwybodaeth gyhoeddus gan drafod gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i sicrhau ei bod yn eglur, yn gryno ac yn egluro'n llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol.
- Yn gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol.
- Yn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ynghylch Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

- Yn sicrhau bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael yn y drws blaen i ofal cymdeithasol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth gychwynnol am yr opsiynau o ran gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.
- Yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo'n hyderus yn eu hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Yn rhan 2:
- Yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Recriwtio a Chadw ar y cyd ar gyfer Cynorthwywyr Personol.
- Yn egluro disgwyliadau polisi mewn iaith glir, hygyrch ac yn nodi: yr hyn y gall Taliadau Uniongyrchol dalu amdano; sut y mae prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu'n gweithio; sut y bydd monitro taliadau uniongyrchol a'r gwaith papur sy'n ofynnol i wirio taliadau'n gweithio; sut y bydd arian nas defnyddiwyd yn cael ei drin a pha un a ellir ei fancio; a sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun.

Yn rhan 3:
- Yn cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn a honno'n system sy'n cofnodi pob elfen o'r broses – gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso effaith ar lesiant ac annibyniaeth.
- Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol i'w gwneud yn bosibl cael golwg system gyfan ar y modd y cânt eu darparu ac o'u heffaith i gefnogi gwelliant.

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Adroddiad mewn ymateb i fater cenedlaethol yw hwn, felly does dim argymhellion penodol i Wynedd. Serch hynny, mae'r argymhellion wedi eu cysidro gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, ac yn cael eu gweithredu arnynt. Rydym fel Adran yn llawn ymwybodol fod defnydd taliadau uniongyrchol Gwynedd yr isaf yng Nghymru, ac mae hyn yn derbyn sylw.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rhan 1:

Mae'r gwaith o adolygu'r wybodaeth gyhoeddus a'r deunydd sydd ar gael ar gyfer taliadau uniongyrchol yn parhau, yn ogystal a datblygu hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol.

Rydym wedi cael trafodaethau gyda defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a cynorthwywyr personol ynglŷn a'r gwasanaeth a'u cynnwys yn yr adolygiad.

Mae angen i ni fod yn glir beth sy'n cael ei gynnig o ran cefnogaeth/gwasanaeth cyflogres cyn datblygu fersiynau gorffenedig o'r deunyddiau a darparu hyfforddiant ayyb. Disgwylir bydd hyn wedi cwblhau erbyn ddiwedd Rhagfyr 2023.

Rhan 2:

Nodwyd y tro diwethaf fod materion rhwystredig wedi codi wrth weithio gyda cwmni allanol sydd yn darparu y gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol ar ein rhan ar hyn o bryd.

Mae'r problemau gyda'r gwasanaeth wedi parhau, ac wedi arwain at nifer o gwynion a rhwystredigaeth gan unigolion sy'n derbyn taliadau uniongyrchol. Mae dyfodol y gwasanaeth yma wrthi'n cael ei adolygu, a bydd eglurder ar y ffordd ymlaen erbyn diwedd Awst 2023.

Rhan 3:
O ganlyniad i'r problemau gyda'r gwasanaeth taliadau uniongyrchol ar hyn o bryd a'r diffyg defnydd o daliadau uniongyrchol, mae grŵp wedi ei sefydlu i gael golwg system gyfan ar y gwasanaeth, gyda mewnbwn ymgynghorwyr Vanguard. Yn ogystal ag edrych ar y system gyfan, yr wybodaeth sydd ar gael, sut mae taliadau uniongyrchol yn cael eu hyrwyddo ayyb, mae'r grŵp wedi bod yn edrych ar ein opsiynau o ran cynnal y gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol. Un opsiwn sydd wedi ei gysidro ydi mewnoli'r gwasanaeth cefnogi taliadau uniongyrchol. Bydd argymhellion y grŵp wedi gweithredu arnynt yn llawn erbyn diwedd Rhagfyr 2023 fan hwyraf.

Casgliad
Ar waith

Amserlen
Rydym yn rhagweld y bydd y camau gweithredu er mwyn ateb i'r argymhellion wedi eu cwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2023.

**3. Amser am newid – Tlodi yng Nghymru**
Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Tachwedd 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Argymhelliad 2
**Strategaethau, targedau ac adroddiadau ar berfformiad lleol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a'i leddfu**
Ym Mharagraffau 2.13 – 2.23 a Pharagraffau 3.33 – 3.35 rydym yn amlygu bod cynghorau a phartneriaid wedi blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond bod y cymysgedd o ddulliau a thirwedd cyflawni gymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, ffocws, camau gweithredu a blaenoriaethau'n amrywio'n eang. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod gwerthuso gweithgarwch a'r modd yr adroddiad ar berfformiad hefyd yn amrywiol gyda llawer o fylchau. Rydym ni'n argymell bod y cynghorau'n defnyddio eu Cynlluniau Llesiant i roi ffocws cynhwysfawr ar fynd i'r afael â thlodi i gydlynu eu hymdrechion, diwallu anghenion lleol a chefnogi'r targedau a'r camau gweithredu yn y cynllun cenedlaethol diwygiedig. Dylai hyn:
- gynnwys camau gweithredu lleol CAMPUS gyda mwy o bwyslais ar atal;
- cynnwys cynllun adnoddau manwl ar gyfer oes y strategaeth;
- cael ei ddatblygu gydag ymwneud gan bartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector, a'r rhai sydd â phrofiad o dlodi;
- cynnwys set gadarn o ddangosyddion a mesurau canlyniadau cyson i gynyddu dealltwriaeth am dlodi yn lleol; a

- bod yn destun adroddiadau cyhoeddus blynyddol er mwyn gallu bod â golwg system gyfan ar dlodi'n lleol i helpu i wella'r broses gyflawni a chymorth.

Argymhelliad 5
**Mapio profiadau i greu gwasanaethau cynhwysol i bobl mewn tlodi**
Ym Mharagraffau 3.2 – 3.6 rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl mewn tlodi yn aml mewn argyfwng, yn ymdrin â materion personol a materion sy'n llawn straen, ond maent yn aml yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth gan gynghorau oherwydd y ffordd y caiff gwasanaethau eu dylunio a'u darparu. Rydym yn argymell bod cynghorau'n gwella eu dealltwriaeth am 'brofiad personol' eu trigolion trwy eu cynnwys mewn modd ystyrlon wrth wneud penderfyniadau gan 'fapio profiadau' a/neu ddefnyddio 'Comisiynau'r Gwirionedd am Dlodi' i adolygu a gwella hygyrchedd gwasanaethau'r cyngor a'r defnydd ohonynt.

Argymhelliad 7
**Symleiddio a gwella gwasanaethau ymgeisio a gwybodaeth i bobl mewn tlodi**
Ym Mharagraffau 3.15 a 3.16 rydym yn nodi nad yw'r un cyngor wedi creu un porth i mewn i wasanaethau. O ganlyniad, mae'n rhaid i bobl gwblhau ffurflenni cais lluosog sy'n aml yn cofnodi'r un wybodaeth wrth wneud cais am wasanaethau tebyg. Rydym yn amlygu, er ei bod yn bwysig eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, bod angen i gynghorau hefyd rannu data er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Rydym yn argymell y dylai cynghorau:

i. sefydlu safonau data a dull codio corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;
ii. cynnal archwiliad i ganfod pa ddata sy'n cael ei gadw gan wasanaethau a nodi unrhyw achosion o ddyblygu cofnodion a cheisiadau am wybodaeth;
iii. creu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau;
iv. cynnal archwiliad data i ddarparu hyfforddiant diweddaru i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant ac na allant rannu data a pha ddata y gallant ac na allant ei rannu; ac
v. adolygu a diweddaru protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.

Argymhelliad 8
**Cydymffurfio â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol**
Ym Mharagraffau 3.27 i 3.32 rydym yn nodi, er bod pob cyngor yn cynnal rhyw fath o asesiad i bennu effaith economaidd-gymdeithasol debygol dewisiadau a phenderfyniadau polisi, bod dulliau'n amrywio ac nad ydynt bob amser yn effeithiol. Rydym ni'n argymell bod cynghorau yn adolygu eu hasesiadau effaith integredig neu ddogfennau cyfwerth er mwyn:

- sicrhau eu bod yn defnyddio data perthnasol, cynhwysfawr a chyfredol (dim byd dros 12 mis oed) i ategu dadansoddiad;
- sicrhau bod asesiadau effaith integredig yn casglu gwybodaeth am:
  - weithgarwch cynnwys sy'n nodi'r rhai y mae'r gwasanaeth wedi ymgysylltu â hwy wrth benderfynu ar ei bolisi strategol megis partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a'r rhai y mae'n cydgynhyrchu â hwy;

- yr effaith gronnus/camau lliniaru i sicrhau bod yr asesiad yn ystyried materion yn eu crynswth a sut mae'n cysylltu ar draws gwasanaethau a ddarperir ar draws y cyngor;
- sut y bydd y cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r effaith ac yn cymryd camau cywiro; a
- chynllun gweithredu sy'n nodi'r gweithgareddau y bydd y Cyngor yn eu cyflawni o ganlyniad i'r Asesiad Effaith Integredig

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Argymhelliad 2
Penderfynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y dylid canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae angen cydweithio ynddynt er mwyn gwneud gwir wahaniaeth. Ar ôl dadansoddi'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn yr Asesiad Llesiant ac ystyried casgliadau ymchwil ac asesiadau eraill maent wedi blaenoriaethu tlodi fel un o tri maes penodol i ganolbwyntio arno er mwyn gwireddu'r weledigaeth yma. Mae'r amcan wedi ei eirio fel a ganlyn yn drafft ymgynghorol y Cynllun llesiant 2023-28:
**Amcan Llesiant 1: Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau**
Mae'r Cynllun Llesiant hefyd yn gosod yr uchelgais sydd tu cefn i'r amcan fel a ganlyn: Byddwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hirdymor tlodi. Byddwn yn ceisio cael dealltwriaeth fanwl o'r goblygiadau o fyw mewn tlodi yn ein gwahanol ardaloedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu'r Asesiadau Llesiant i gael darlun manwl o ble mae'r diffyg mynediad at wasanaethau yn fwy heriol oherwydd tlodi.

Mae'r Cynllun llesiant - sy'n cynnwys yr Amcan Tlodi - bellach wedi ei fabwysiadu gan y 5 aelod statudol o'r Bwrdd a cafodd ei gyhoeddi yn yr Eisteddfod Genedlaethol fis Awst.

Argymhelliad 5
Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi ymgysylltu gyda nifer fawr o bobl sydd mewn tlodi ac yn cysylltu gyda gwasanaethau'r cyngor pan maent mewn argyfwng. Ar hyn o bryd rydym yn blaenoriaethu delio gyda'r argyfwng ( boed yn dalebau am fwyd, tanwydd neu hanfodion) a pan fo amser neu amgylchiadau yn caniatáu rydym yn dilyn i fyny gyda nifer o'r unigolion hynny i gasglu adborth. Rydym hefyd wedi cwblhau gwaith yn deall profiadau pobl Gwynedd o fwy mewn tlodi, nad ydynt o reidrwydd yn ymgysylltu gyda gwasanaetha ar hyn o bryd er mwyn deall y rhwystrau maent yn eu wynebu – rydym wedi defnyddio y negeseuon hynny i lunio ein cynllun cyfathrebu, adolygu rhai o'n trefniadau ac i siapio ein rhaglen waith dymor byr i ymateb i'r argyfwng costau byw. Mae trigolion wedi dweud wrthym bod cael gafael ar y wybodaeth ddiweddaraf or holl gymorth sydd ar gael mewn un lle yn ddefnyddiol ac felly mae ein gwefan Help gyda Costau Byw yn cael ei chynnal ai diweddaru yn rheolaidd gyda'n gwybodaeth ein hunain a'n partneriaid; mae trigolion hefyd wedi dweud wrthym fod angen iddynt gysylltu gyda mwy nag un gwasanaeth a drwy ddulliau arferol megis dros y ffon, ymweld a swyddfeydd yn anodd, felly rydym wedi trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar y cyd gyda'n partneriaid yn mynd a gwasanaethau i neuaddau pentref ac ati drwy'r sir.

Argymhelliad 7 -
Mae nifer o'r materion yma unai eisoes yn eu lle, neu mae cynlluniau eisoes ar waith i'w gweithredu fel rhan o Gynllun Gwybodaeth presennol y Cyngor a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn Ionawr 2021.

Mae gweddill y materion yn cael ystyriaeth gan y gwahanol is-grwpiau sy'n rhan o lunio Strategaeth Ddigidol newydd y Cyngor, a bwriedir i'r Strategaeth honno gael ei chwblhau a'i mabwysiadu yn ystod hydref 2023.

Argymhelliad 8 –
Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru. Mae aelodau RhCSGGC (y 6 sir, BIPBC, Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Ambiwlans) wedi defnyddio eu harbenigedd a gwybodaeth, a chreu twlsyn integredig sy'n cynnwys cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg a hawliau dynol. Dilynwyd canllawiau Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a derbyniwyd mewnbwn gan swyddfeydd y Comisiwn hwnnw a Chomisiynydd yr Iaith. Bwriad y twlsyn ydi hwyluso gwaith partneriaethol (trwy gael un ffurflen cydnabyddedig) a hefyd er mwyn defnydd y mudiadau unigol. Mae nifer o Aelodau RhCSGGC yn defnyddio fersiwn ohono. Rydym ni wedi ei addasu ychydig ac yn y broses o'i fabwysiadu fel ein templed newydd ar ffurf electroneg. Mae'r templed yn cael ei beilota ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd TG wedi gorffen y gwaith er mwyn ei gael yn weithredol erbyn y flwyddyn ariannol newydd. I gydfynd gyda hyn rydym yn paratoi adnodd fydd yn cynnwys y data mwyaf perthnasol, cynhwysfawr a chyfredol. Mae sicrhau ymgysylltiad yn ran pwysig o'r cwestiynau yn y twlsyn ac mae rhestr o fudiadau ar gael. Mae angen monitro'r asesiad yn aml ac mae'r twlsyn yn cynnwys cwestiwn er mwyn cynnwys cynllun gweithredu.

<u>Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella</u>
Cyhoeddwyd yr Adroddiad hwn fis Tachwedd, ac mae rhai argymhellion eisoes wedi eu cyflawni (adroddwyd i'r Pwyllgor fos Chwefror) a diweddariad ar y gweddill wedi eu nodi uchod.

<u>Casgliad</u>
Ar waith

<u>Amserlen</u>
Yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.

**4. Asesiadau o’r effaith ar gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?**
Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Medi 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

Cynigion Gwella yn codi o’r adroddiad –

Argymhelliad 1
**Egluro cwmpas y ddyletswydd i asesu effaith polisïau ac arferion**
Mae lle i ddrysu ynghylch pa fath o bolisïau ac arferion y mae’n rhaid iddynt fod yn destun asesiad o’u heffaith ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru egluro ei dehongliad o’r ddyletswydd, gan gynnwys a yw’n disgwyl i gyrff cyhoeddus ddefnyddio unrhyw brawf o gymesuredd a pherthnasedd a sut i wneud hynny

Argymhelliad 2
**Creu darlun o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da**
Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn cynnal asesiadau effaith integredig sy’n cynnwys ystyried y DCSC ochr yn ochr â dyletswyddau eraill. Ond mae’r arfer yn anghyson ac yn aml yn cynnwys coladu nifer o asesiadau mewn un lle, yn hytrach na’u bod wir wedi’u hintegreiddio, i helpu i sicrhau cymaint o’r manteision a fwriadwyd â phosibl yn sgil asesiadau effaith integredig, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol sydd â buddiant yn y meysydd a gwmpesir yn gyffredin gan asesiadau effaith integredig a’r rhai sydd â phrofiadau byw, i rannu yr hyn a ddysgwyd a gweithio tuag at ddealltwriaeth gyffredin o sut olwg sydd ar asesiad effaith integredig da

Argymhelliad 3
**Cymhwyso’r dyletswyddau cydraddoldeb i gydweithrediadau cyrff cyhoeddus a phartneriaethau**
Mae tirwedd y sector cyhoeddus wedi newid ers cyflwyno’r DCSC a dyletswyddau penodol i Gymru, ac mae pwyslais cynyddol ar gynllunio a chyflawni cydweithredol. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a oes angen diweddaru rheoliadau penodol i Gymru i gwmpasu ystod ehangach o drefniadau cydweithredol a phartneriaeth. Mae’r rhain yn cynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus, byrddau partneriaethau rhanbarthol a phartneriaethau eraill sy’n benodol i wasanaethau.

Argymhelliad 4
**Adolygu dull presennol cyrff cyhoeddus o gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb**
Er bod enghreifftiau o arfer da sy’n gysylltiedig â chamau penodol o broses Asesu’r effaith ar Gydraddoldeb, mae gan bob corff cyhoeddus wersi i’w dysgu am eu dull cyffredinol. Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu dull cyffredinol o ymdrin ag Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb gan ystyried canfyddiadau’r adroddiad hwn a’r canllawiau manwl sydd ar gael gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac ar y Tudalennau Arferion. Rydym yn cydnabod y gallai datblygiadau mewn ymateb i’n hargymhelliad arall ac adolygiad Llywodraeth Cymru o’r rheoliadau DCSC penodol i Gymru fod â goblygiadau ar gyfer y canllawiau presennol maes o law

Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion
Mae'r argymhellion yma'n rai cyffredinol genedlaethol ac felly nid ydynt i gyd yn berthnasol i ni yng Nghyngor Gwynedd.

Argymhelliad 1 – mae hwn yn argymhelliad i Llywodraeth Cymru

Argymhellaid 2 – eto'n fater i'r Llywodraeth yn bennaf, ond dylid nodi fod aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSGGC - y 6 sir, BIPBC, Parc Cenedlaethol Eryri, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Gwasanaeth Ambiwlans) wedi penderfynu defnyddio eu harbenigedd a gwybodaeth a chreu twlsyn integredig sy'n cynnwys cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, y Gymraeg, a hawliau dynol. Dilynwyd canllawiau manwl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a derbyniwyd mewnbwn gan swyddfeydd y Comisiwn hwnnw a Chomisiynydd yr Iaith. Bwriad y twlsyn ydi hwyluso gwaith partneriaethol (trwy gael un ffurflen cydnabyddedig) a hefyd er mwyn defnydd y mudiadau unigol. Mae nifer o Aelodau RhCSGGC yn defnyddio fersiwn ohono. Rydym ni wedi ei addasu ychydig ac yn y broses o'i gael fel ein templed newydd ar ffurf electroneg. Bu oedi pellach gyda'r gwaith yma ond mae'r templed newydd yn cael ei beilota erbyn hyn.

Argymhelliad 3 – mater i'r Llywodraeth eto ond rydym yn RhCSGGC yn cynnig y drefn uchod ar gyfer gwaith partneriaethol.

Argymhelliad 4 – rydym eisoes wedi cydnabod fod gennym waith i'w wneud i wella'r drefn a dyna pam rydym wedi mabwysiadu'r templed newydd sydd wedi ei selio ar brofiad y mudiadau i gyd. Mae'r swyddogion cydraddoldeb wedi mynychu cyfarfod Ddigwyddiad Ymarfer Da Awdit Cymru ar 25 Ionawr i gael arweiniad a thrafodaeth ar y maes. Yn sgil y cyfarfod yna rydym yn credu ein bod ar y trywydd iawn gyda'r templed newydd ond byddwn yn barod i wneud unrhyw newidiadau pellach yn sgil newid yn yr arweiniad gan y Llywodraeth.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella
Mae gwaith wedi ei wneud eisoes yn y maes yma cyn i ni dderbyn yr argymhellion ond byddwn yn gweithredu ymhellach fel yr esboniwyd uchod.

Casgliad
Ar waith

Amserlen
Rydym yn rhagweld y bydd y camau gweithredu er mwyn ateb i'r argymhellion wedi eu cwblhau erbyn diwedd Ebrill 2024, er, wrth gwrs, bydd angen monitro'n ofalus wedyn. Bydd hefyd angen gweld beth ddaw gan y Llywodraeth dan Argymhellion 1, 2 a 3.

## Adroddiadau ychwanegol ers Chwefror 2023

**5.** **<u>Cyngor Gwynedd – Diweddariad ar Gynnydd Datgarboneiddio</u>**
Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru Rhagfyr 2022
Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru

<u>Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad:</u>

A1 Dylai'r Cyngor sicrhau bod y camau lefel uchel yn ei gynllun datgarboneiddio:
- wedi'u blaenoriaethu yn seiliedig ar feini prawf clir, gan gynnwys effaith carbon ac ariannol;
- yn cyd-fynd â'i Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a'i Raglen Gyfalaf; ac
- wedi'u hintegreiddio mewn cynlluniau busnes.

A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu cyfres gadarn o fetrigau i fesur ac adrodd ar y cynnydd ar ei daith ddatgarboneiddio.

<u>Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion:</u>

Argymhelliad 1

Mae datblygu prosiectau'r <u>Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur</u> (CAHN), a monitro eu perfformiad, yn gyfrifoldeb ar y Bwrdd Hinsawdd a Natur (ac mae aelod o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn eistedd arno). Ble mae angen buddsoddiad ariannol sylweddol i wireddu prosiectau yna mae cynllun busnes yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cabinet er mwyn ei gymeradwyo a'i peidio – megis y Cynllun PV Gwedd 4 a'r Strategaeth Fflyd Werdd.

Mae rhai prosiectau wedi eu cynnwys yn y CAHN oherwydd bod gennym eisoes ddata sy'n dangos y byddant yn cael effaith gadarnhaol ar leihau allyriadau carbon neu gynyddu lefelau amsugno carbon. Os nag oes data ar gael, mae prosiectau wedi eu cynnwys oherwydd bod tystiolaeth ddigonol y bydd yn arwain at ganlyniad positif – ee. gosod pwyntiau gwefru mewn mannau cyhoeddus at ddefnydd trigolion Gwynedd. Er hynny, rydym yn mireinio ein prosesau mewnol o flaenoriaethu'r amserlen ar gyfer cychwyn a chyflawni prosiectau.

Argymhelliad 2

Mae'r Cyngor yn casglu data am ei allyriadau carbon a lefelau amsugno carbon a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn flynyddol gan ddilyn templed adrodd sy'n cael ei defnyddio gan y rhan fwyaf o sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn gallu defnyddio'r data er mwyn mesur effaith nifer o'n cynlluniau yn ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur – ee. defnydd ynni, allyriadau fflyd – ond mae'n anoddach profi'r cysylltiad gydag eraill – ee. annog teithio llesol ymysg trigolion ac ymwelwyr, meithrin a chynnal diddordeb trigolion ac ymwelwyr mewn materion ecolegol.

Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella:

Argymhelliad 1

Mae’r cyngor wedi neilltuo £3M fel cyllideb refeniw tymor canolig er mwyn ariannu prosiectau yn y CAHN, a bydd £2.8M ychwanegol allan o reserfau’r Cyngor yn cael ei wario ar y Cynllun PV Gwedd 4 erbyn diwedd 2024/25, gan arwain at arbedion carbon a refeniw sylweddol. Mae amrywiol geisiadau grant am gyllid allanol hefyd wedi/am gael eu cyflwyno. Mae gwaith yn parhau i gostio rhai o’r prosiectau yn y CAHN felly byddwn yn adolygu ein cyllidebau yn flynyddol pan fydd y costau yn hysbys.

Mae’r gwaith o adolygu strategaethau, polisïau a chynlluniau busnes y Cyngor ar y gweill, a bydd yn waith parhaus. Mae 50 o staff ac aelodau etholedig, gan gynnwys Aelodau Cabinet, wedi derbyn hyfforddiant llythrennedd carbon, ac fe fyddwn hefyd yn datblygu e-fodiwl hyfforddiant ar gyfer gweddill ein aelodau a staff erbyn yr hydref. Bydd hyn yn arwain at integreiddio egwyddorion cynaliadwyedd ac arbed carbon ar draws adrannau’r Cyngor. Mae gwaith penodol ar waith er mwyn gwella sut mae ein trefniadau caffael yn gallu lleihau allyriadau carbon ein cyflenwyr.

Argymhelliad 2

Rydym yn parhau i gyflwyno data am lefelau allyriadau ac amsugno carbon i Lywodraeth Cymru’n flynyddol. Byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd ein CAHN yn yr hydref.

Derbyniwyd becyn gwybodaeth, neu ‘toolkit’ gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn ceisio mesur yn well yr allyriadau carbon sy’n deillio o drefniadau caffael, ac rydym yn adolygu ein trefniadau caffael ar hyn o bryd gan ddefnyddio’r wybodaeth sydd yno. Rydym hefyd yn aros am becyn canllawiau gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fesur effaith carbon defnydd tir.

Mae gwaith ar y gweill yn fewnol hefyd i sefydlu gwaelodlin i fesur bioamrywiaeth, a gwaith wedi ei orffen i fesur effaith carbon gweithio o gartref, cymudo, a theithiau busnes.

Casgliad:
Ar waith

Amserlen:
Mae’r gwaith o fesur cost ariannol a charbon rhai o’r prosiectau yn y CAHN wedi eu cwblhau ond mae gwaith yn parhau ar y gweddill. Rydym yn adolygu costau a llwyddiant prosiectau yn gyson wrth i ni fonitro cynnydd felly mae’r gwaith o dan A1 hefyd yn waith parhaus.

Mae’n waith parhaus i asesu dulliau newydd o fesur gwerth carbon prosiectau, ac rydym yn cadw cysylltiad â datblygiadau yn y maes hwn gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| **DYDDIAD** | **7 Medi 2023** |
| **TEITL** | **Adolygiad Cyfansoddiad** |
| **Amcan** | **Derbyn cymeradwyaeth i addasiadau I'r Cyfansoddiad** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Fod y Pwyllgor yn cefnogi y newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad ac yn argymell i'r Cyngor llawn eu bod yn cael eu mabwysiadu.** |
| **AWDUR** | **Swyddog Monitro** |

**1. Rhagarweiniad**

1.1 Bydd y Pwyllgor yn cofio i mi adrodd i'r cyfarfod a’r 25 o Fai 2023 fod gennyf fwriad adolygu y Cyfansoddiad yn rhannol er cwblhau diweddariadau yn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad( Cymru) 2021 ond hefyd cymryd y cyfle i adolygu yn ehangach. Mae wedi bod yn gyfnod sydd wedi gweld sawl newid I'r Cyfansoddiad wrth i'r Deddf ddod yn weithredol ac mewn gwirionedd mae’r newidiadau sydd ar ôl yn fater o ddod a’r tŷ i drefn. Fodd bynnag mae elfennau eraill o’r Cyfansoddiad sydd angen eu diweddaru unai oherwydd newidiadau cyfreithiol neu fod trefniadau neu amgylchiadau yn cyfiawnhau newid.

1.2 Mae’r materion sydd yn destun yr adroddiad yma yn elfennau o’r Cyfansoddiad mae angen i'r Cyngor Llawn eu mabwysiadau. Mae eraill sydd yn anorfod yn deillio o newidiadau cyfreithiol yn faterion sydd o fewn fy hawliau dirprwyedig. Caiff eraill eu newid drwy addasiadau i'r Cynllun Dirprwyo sydd yn fater y gall yr Arweinydd eu cyflawni. Mae newidiadau sydd yn cael eu cyflawni drwy drefniadau dirprwyedig yn parhau angen eu hadrodd I'r Cyngor Llawn er gwybodaeth.

**2. Swyddogaethau y Cyngor Llawn**

2.1 O dan y gyfundrefn Cabinet mae statud yn didoli cyfrifoldebau am swyddogaethau rhwng y Cyngor a’r Cabinet. Yn ôl Adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 sefydlir yr egwyddor fod pob swyddogaeth yn nwylo y Cabinet oni bai yr eithrir rhain I'r Cyngor a’i bwyllgorau gan reoliadau. Y prif reoliadau yn y cyd destun yma yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 sydd yn sail i'r Cyfansoddiad presennol ac yn didoli sawl swyddogaeth i'r Cyngor Llawn neu yn rhannol i'r Cyngor Llawn a’r Cabinet a.y.b . Fodd bynnag , gan eithrio un newid technegol ynglŷn a Cyd Bwyllgorau Corfforedig nid yw y rheoliadau yma wedi eu diweddaru ers 2007. Golygai hyn fod sawl mater statudol sydd yn y rhestr o swyddogaethau Cyngor Llawn wedi eu diddymu a’u di-sodli. Yn y cyfamser mae fframweithiau y Cyngor wedi newid, mae deddfau newydd megis Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ( Cymru ) 2015 wedi creu fframweithiau newydd ac mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad( Cymru) 2021 yn ei hyn wedi arwain at drefniadau newydd yn benodol felly Rhan 6 sydd ynglŷn a threfniadau perfformiad.

2.2 Rwyf wedi amlygu y newidiadau sydd yn cael eu hargymell ar gyfer Rhan 4 o’r Cyfansoddiad yn **Atodiad 1 Rhan A**. Mae’r hyn sydd yn cael ei argymell yn ganlyniad o’r

ffactorau uchod ac yn gyfrwng i roi gwell eglurder ynglŷn a'r materion fydd yn cael eu hystyried gan y Cyngor Llawn. Rwyf hefyd yn nodi elfen sydd yn dod yn fwy amlwg sef amgylchiadau lle mae Arweiniad Statudol yn hytrach na deddfwriaeth yn gofyn i fater gael ei ystyried gan y Cyngor Llawn. Yn anorfod dilynir arweiniad o'r fath e.e Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol neu Adroddiad Cyflwr y Farchnad ac mae'n briodol fod hyn yn cael ei gyfarch yn y Cyfansoddiad.

Mae Rhan 4 cyfredol I'w gael ar y ddolen isod:

[ADRAN-4-Y-CYNGOR-LLAWN.pdf (llyw.cymru)]

**3. Rhan 6 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

3.1 Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r trefniadau newydd sydd yn ynglŷn a rheoli ac adrodd ar berfformiad Prif Gynghorau yn Rhan 6 o'r Deddf. Un o'r rhain yw adolygiad perfformiad gan Banel annibynnol. Mae'n ofyn statudol fod y Cyngor yn cynnal adolygiad perfformiad unwaith ystod tymor Cyngor. Disgrifir hyn yn yr arweiniad statudol (Atodiad 2) ar drefniadau perfformiad yn y termau canlynol:

> " 3.10 Bydd yr asesiad o berfformiad gan banel yn asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, yn union fel y gwna'r cyngor drwy hunanasesiad. Nid oes a wnelo â rhestrau gwirio, nid math o arolygiad ydyw, ac nid yw'n archwiliad. Ei nod yw helpu'r cyngor i gyflawni ei ddyheadau drwy feithrin a gwella ei ddealltwriaeth o'r ffordd y mae'n gweithredu a sut y gall sicrhau y bydd yn gallu cynnig gwasanaethau effeithiol yn yr hirdymor.
>
> 3.11 Ni fydd y panel yn gyfrifol am ddwyn y cyngor i gyfrif, ond dylai roi barn allanol ar y ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu. Ni fydd hyn yn disodli'r rôl a chwaraeir gan archwilwyr, arolygwyr na rheoleiddwyr wrth roi sicrwydd. Mae a wnelo hyn â helpu cynghorau i ddeall sut y gallant wella'r graddau y maent yn bodloni'r gofynion perfformiad.
>
> 3.12 Mater i'r cyngor yw penderfynu sut i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r asesiad o berfformiad gan banel a sicrhau y caiff ei ganfyddiadau eu defnyddio ochr yn ochr â ffynonellau eraill i benderfynu ar ei ddull o ymdrin â pherfformiad corfforaethol, llywodraethu a gwelliant."

3.2 Mae tri dyletswydd statudol yn ynghlwm a cynnal asesiad panel;

(a) penodi panel asesiad perfformiad

(b) ymateb i adroddiad asesiad perfformiad gan banel

(c) ymateb i argymhellion ynglŷn ag ymateb i adroddiad gan banel.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i'r Cyngor briodoli y swyddogaethau yma unai I'r Cyngor Llawn neu y Cabinet. Ond, nid oes sgôp i ddirprwy y prif faterion yma ymhellach . Fe nodwch Atodiad 2 fod canllawiau statudol manwl ynglŷn a phenodi Panel. Fodd bynnag o'i benodi a derbyn cylch gorchwyl bydd y Panel wedyn yn mynd ati i gynnal ei waith a pharatoi adroddiad. Gyda hyn mewn golwg ac o ystyried natur y gwaith ynglŷn a sefydlu Panel o fewn y canllawiau statudol argymhellir rhannu y dyletswyddau yma gan osod y swyddogaeth i drefnu a phenodi panel gyda'r Cabinet ond fod yr ymateb I'r adroddiad a'r argymhellion yn cael eu cadw i'r Cyngor llawn. Byddai hyn yn gydnaws a threfniadau adrodd ar berfformiad cyfredol ond yn golygu fod modd symud y sefydlu ymlaen yn amserol. Fe nodwch hefyd fod gan y Pwyllgor yma swyddogaeth mewn ystyried adroddiad

y Panel a rhoi sylwadau ac argymhellion ar yr adroddiad. Mae’r addasiadau i'w gweld yn Atodiad 1 Rhan B .

**4. Rhybudd ar gyfer cwestiynau gan aelodau**

4.1 Ar hyn o bryd mae’r cyfnod rhybudd ar gyfer cyflwyno rhybudd o gwestiynau gan aelodau I'r Cyngor llawn yn 2 ddiwrnod clir. Golygai hyn mewn wythnos arferol fod dau ddiwrnod gwaith o dderbyn y cwestiwn i baratoi a rhannu ateb. Mae cais wedi dod i ymestyn yr amser yma i 3 diwrnod gwaith fyddai yn golygu fod modd danfon y cwestiwn cyn diwedd yr wythnos flaenorol a rhoi amser ychwanegol i ymdrin a chwestiynau all fod ar faterion technegol a manwl.

Ceir gofyn cwestiwn dim ond os rhoddwyd rhybudd ohono trwy ei gyflwyno’n ysgrifenedig neu drwy bost electronig i’r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ddim hwyrach na chanol dydd 3 diwrnod clir cyn diwrnod y cyfarfod.

**5. Selio Contractau**

5.1 Mae gofyn yn y Cyfansoddiad, fod rhai contractau sydd cael eu darparu dan sêl. Mae hyn yn seiliedig ar riniog ariannol sydd yn golygu fod angen gosod sêl y Cyngor ar gontractau sydd werth mwy na £50,000. Nid yw’r rhiniog yma wedi ei adolygu ers cryn nifer o flynyddoedd. Fy argymhelliad fyddai cynyddu rhiniog yma i £100,000 yn gyffredinol lle mae gofynnon selio neu arwyddo cytundebau ar sail y gwerth yma. Byddai hyn yn caniatáu i ystod o gontractau llai gael eu harwyddo heb ffurfioldeb selio.

**Argymhelliad**

**Fod y Pwyllgor yn cefnogi y newidiadau arfaethedig I'r Cyfansoddiad ac yn argymell I'r CYngor llawn eu bod yn cael eu mabwysiadu.**

**ATODIAD 1**
**RHAN A**

## 4.2 Y Fframwaith Polisi

Mae'r Fframwaith Polisi yn golygu'r cynlluniau a'r strategaethau canlynol:

- Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn
- Cynllun Cyngor Gwynedd
- Strategaeth Datblygu Economaidd
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol
- Cynlluniau ac addasiadau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio'r Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaeth Iaith – a Polisi Iaith
- Y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid
- Strategaeth Tai
- Cynllun Strategol Partneriaeth Pobl Ifanc a Phartneriaeth Fframwaith Plant a Phobl Ifanc
- Polisi Tal
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Datganiad ac Amcanion Llesiant y Cyngor (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
- Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.
- Polisi Indemniadau
- Polisi Gamblo
- Polisi Trwyddedu

## 4.6 Swyddogaethau'r Cyngor Llawn

Dim ond y Cyngor Llawn a gaiff arfer y swyddogaethau canlynol:

4.6.1 mabwysiadu a newid y Cyfansoddiad;
4.6.2 cymeradwyo neu fabwysiadu'r y Fframwaith Polisi, y gyllideb ac unrhyw gais i Gweinidogion Cymru o ran unrhyw Drosglwyddiad Tir ar gyfer Tai;
4.6.3 yn amodol ar y weithdrefn frys a gynhwysir yn y Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn, gwneud penderfyniadau am unrhyw fater wrth arfer Swyddogaeth Weithredol sy'n rhan o'r Fframwaith Polisi neu'r gyllideb lle y mae'r penderfynwr yn teimlo y dylid ei wneud mewn modd a fyddai'n groes i'r Fframwaith Polisi neu'n groes i/heb fod yn gwbl gydnaws â'r gyllideb;
4.6.4 penodi a diswyddo'r Arweinydd;
4.6.5 cytuno ar a/neu ddiwygio'r cylch gorchwyl ar gyfer Pwyllgorau, penderfynu ar eu cyfansoddiad a gwneud penodiadau iddynt (yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989) oni bai y dirprwywyd y penodiadau gan y Cyngor;
4.6.6 cyflawni swyddogaethau'r Cyngor ynglŷn a cyd-bwyllgorau corfforedig, gan gynnwys gwneud cais Cyd-bwyllgor Corfforedig a rhoi cydsyniad i reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig sy'n cael eu gwneud

4.6.7 newid enw'r ardal;
4.6.8 gwneud neu gadarnhau penodiad neu ddiswyddo Prif Weithredwr;
4.6.9 gwneud, gwella, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu is-ddeddfau, a hyrwyddo neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu Filiau Personol;
4.6.10 yr holl Swyddogaethau Dewis Lleol a amlinellir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn y mae'r Cyngor yn penderfynu y dylai ef ei hun ymgymryd â hwy yn hytrach na'r Cabinet; ~~a~~
4.6.11 pob mater y mae'n rhaid eu neilltuo i'r Cyngor yn ôl y gyfraith. Er enghraifft, penodi Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, caniatau disgowntiau neu godi premiwm Treth Cyngor , penderfynu ar y lefel (ac unrhyw newid yn lefel) tâl a delir i Brif Swyddog a chymeradwyo y datganiad polisi tâl;
4.6.12 cymeradwyo, adolygu a diwygio Cynllun Deisebau'r Cyngor
4.6.13 cymeradwyo, adolygu a diwygio Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd y Cyngor
4.6.14 derbyn a chymeradwyo adroddiad blynyddol ar i ba raddau y mae'r Cyngor wedi bodloni ei ofynion perfformiad;
4.6.15 adolygu, cymeradwyo a diwygio amcanion llesiant y Cyngor yn unol ag adran 9 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2005 a'r canllawiau statudol cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
4.6.16 ystyried adroddiadau'r Prif Weithredwr a baratoir yn unol ag adran 54(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, o fewn 3 mis iddynt gael eu gwneud;
4.6.17 ystyried adroddiadau blynyddol a gafwyd gan y Pwyllgor Safonau, o fewn 3 mis iddynt gael eu gwneud; a
4.6.18 Cyflawni swyddogaethau a gyfeirir i'r Cyngor Llawn gan Arweiniad Statudol
4.6.19 Yn gyfrifol am weithredu darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Adran 93 - Dyletswydd ar brif gyngor i ymateb i adroddiad ar asesiad perfformiad gan banel. Adran 96Dyletswydd ar brif gyngor i ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

**ATODIAD 1**
**RHAN B**

**Adran 13 Atodiad 2 – Materion Cabinet**

Yn gyfrifol am weithredu darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 Adran 92 Dyletswydd ar brif gyngor i drefnu asesiad perfformiad gan banel.

## ATODIAD 2

## Pennod 3 – Y ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo.

**Cyflwyniad**

3.1 Mae’r bennod hon o’r canllawiau yn ymwneud â'r gofynion sy'n ymwneud ag asesiad o berfformiad gan banel a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“y Ddeddf”). Mae'r canllawiau yma yn adlewyrchu'r gofynion sylfaenol ar gyfer asesiad o berfformiad gan banel fel y'u nodir yn y Ddeddf, gan gydnabod y bydd cynghorau yn awyddus i ddatblygu manylion eu dull gweithredu eu hunain.

3.2 Bydd y dyletswyddau mewn perthynas ag asesiad o berfformiad gan banel yn dod i rym o ddechrau'r cylch etholiadol llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2022.

3.3 Y bwriad yw y caiff y darpariaethau ynglŷn â pherfformiad a llywodraethu yn y Ddeddf eu hategu gan ddull cydgysylltiedig o sicrhau gwelliant a darparu cymorth a arweinir gan y sector. Mae canfyddiadau ac argymhellion yr asesiad o berfformiad gan banel yn cynnig safbwynt allanol a dylid eu defnyddio i lywio a nodi meysydd lle y gallai cymorth a arweinir gan y sector fod yn werthfawr. Bydd hyn yn gymwys yn achos cynghorau unigol a dylai hefyd lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu unrhyw gymorth i wella arfaethedig yn genedlaethol.

3.4 Dylai'r bennod hon yn y canllawiau gael ei darllen gan gyngor er mwyn ei helpu i gyflawni ei ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel a chyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel ac ymateb iddo. Gall y bennod hon hefyd gael ei darllen gan aelodau'r panel er mwyn eu helpu i gynnal asesiad o berfformiad gan banel. Gall aelodau'r panel hefyd gyfeirio at y canllawiau ar hunanasesu er mwyn deall sut mae'n ofynnol i gynghorau gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â hunanasesu am y gallai hyn fod yn ddefnyddiol i lywio eu dull o gynnal asesiad gan banel.

**Dyletswydd prif gyngor i drefnu asesiad o berfformiad gan banel**

3.5 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor wneud trefniadau i banel annibynnol, a benodir gan y cyngor, asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad – sef asesiad o berfformiad gan banel. Diffinnir y gofynion perfformiad fel y graddau y mae cyngor:-

- yn arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- yn defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- yn sicrhau bod ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

3.6 Mae'r canllawiau hyn yn nodi diben yr asesiad gan banel; yn cynnig y camau a ddylai fod yn rhan o asesiad; yn ymdrin â materion sy'n ymwneud ag amseriad asesiad gan banel; yn disgrifio'r gofynion a'r ystyriaethau sylfaenol wrth benodi panel; ac yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer ymateb i adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel.

3.7 Wrth ystyried sut mae cyngor yn arfer ei ddyletswyddau o ran asesiad o berfformiad gan banel, dylai cyngor ystyried Safonau'r Gymraeg ac unrhyw hysbysiad cydymffurfio perthnasol a gyhoeddir gan Gomisiynydd y Gymraeg.

3.8 Wrth gwrs, gall cynghorau gomisiynu cymorth tebyg i asesiad o berfformiad gan banel at sawl diben arall, megis adolygiadau gan gymheiriaid sy'n ymdrin â gwasanaethau neu faterion penodol neu sy'n seiliedig ar themâu penodol. Mae'r rhain i gyd yn rhan o daith wella'r cyngor a gallant ategu'r asesiad statudol corfforaethol ar lefel sefydliadol o berfformiad gan banel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf ond ni allant ei ddisodli.

**<u>Diben asesiad o berfformiad gan banel</u>**

3.9 Dim ond un elfen o ddull a arweinir gan y sector o sicrhau perfformiad, llywodraethu da a gwelliant yw asesiad o berfformiad gan banel. Gall asesiad effeithiol o berfformiad gan banel lywio taith wella'r cyngor, gan adeiladu ar yr hunanasesiad, gan ei helpu i ystyried y dyfodol o safbwynt gwahanol. Dylai'r asesiad gan banel gynnig safbwyntiau gwahanol; rhywfaint o her allanol gwrthrychol ac annibynnol; a chyfle i brofi syniadaeth gyda chymheiriaid arbenigol diduedd.

3.10 Bydd yr asesiad o berfformiad gan banel yn asesu i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, yn union fel y gwna'r cyngor drwy hunanasesiad. Nid oes a wnelo â rhestrau gwirio, nid math o arolygiad ydyw, ac nid yw'n archwiliad. Ei nod yw helpu'r cyngor i gyflawni ei ddyheadau drwy feithrin a gwella ei ddealltwriaeth o'r ffordd y mae'n gweithredu a sut y gall sicrhau y bydd yn gallu cynnig gwasanaethau effeithiol yn yr hirdymor.

3.11 Ni fydd y panel yn gyfrifol am ddwyn y cyngor i gyfrif, ond dylai roi barn allanol ar y ffordd y mae'r cyngor yn gweithredu. Ni fydd hyn yn disodli'r rôl a chwaraeir gan archwilwyr, arolygwyr na rheoleiddwyr wrth roi sicrwydd. Mae a wnelo hyn â helpu cynghorau i ddeall sut y gallant wella'r graddau y maent yn bodloni'r gofynion perfformiad.

3.12 Mater i'r cyngor yw penderfynu sut i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r asesiad o berfformiad gan banel a sicrhau y caiff ei ganfyddiadau eu defnyddio ochr yn ochr â ffynonellau eraill i benderfynu ar ei ddull o ymdrin â pherfformiad corfforaethol, llywodraethu a gwelliant.

3.13 Mae asesiad o berfformiad gan banel yn rhan o ddiwylliant lle mae cynghorau yn agored i her ac yn ei groesawu, p'un a gaiff ei gyflwyno o'r tu fewn i'r awdurdod neu, yn yr achos hwn, yn allanol. Dylid ystyried bod yr asesiad yn broses heriol, ond adeiladol, ac yn ddull effeithiol a chymesur o ddysgu'n barhaus sut i wneud y cyngor yn gryfach.

3.14 Mae ymchwil wedi dangos y budd y gall cyngor ei gael o geisio safbwynt cymheiriaid, fel y safbwynt a ddarperir gan asesiad o berfformiad gan banel,

ar lefel sefydliadol, gorfforaethol.[9] Er enghraifft, nodwyd y gall safbwynt o'r fath a ddarperir gan gymheiriaid gadarnhau dealltwriaeth y cyngor ei hun o'r hyn sydd ei angen ac ategu'r achos dros newid, yn ogystal â chefnogi neu annog newid sefydliadol neu newid ymddygiad.

**<u>Y dull o gynnal asesiad o berfformiad gan banel</u>**

3.15 Bydd pob cyngor unigol am benderfynu ar ei ddull ei hun o gynnal asesiad o berfformiad gan banel (o fewn y paramedrau eang a nodir gan y Ddeddf).

3.16 Er mai mater i'r cyngor a'r panel fydd penderfynu ar hyn yn y pen draw, byddem yn disgwyl i asesiad o berfformiad gan banel gynnwys tri cham cyffredinol, sef Paratoi, Asesu a Gwaith dilynol.

**Cam 1 - Paratoi**

Arweinir y cam hwn gan y cyngor ac mae'n debygol o gynnwys:-

- **Cwmpasu gofynion** yr asesiad o berfformiad gan banel. Efallai y bydd y cyngor am weithio gyda phartneriaid er mwyn gwneud hyn ac ystyried unrhyw heriau penodol a nodwyd yn ei hunanasesiad neu mewn adroddiadau archwilio, arolygu neu reoleiddio diweddar. Bydd hyn yn helpu i nodi'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen gan y panel er mwyn sicrhau bod yr asesiad yn cael yr effaith fwyaf posibl.

- **Nodi a chomisiynu panel** i gynnal yr asesiad.

- **Pennu'r cylch gorchwyl** ar gyfer asesiad o berfformiad gan y panel ac, unwaith y bydd wedi'i sefydlu, cytuno ar y cylch gorchwyl gyda chadeirydd y panel. Bydd hyn hefyd yn cynnig cyfle i drafod disgwyliadau a'r dull o gynnal yr asesiad.

- **Rhannu gwybodaeth berthnasol** â'r panel er mwyn gosod y cyd-destun ar gyfer yr asesiad.

- **Gwneud trefniadau ymarferol** fel sy'n ofynnol gan y panel i'w alluogi i gynnal yr asesiad yn effeithiol.

**Cam 2 – Asesu**

Arweinir y cam hwn yn bennaf gan y panel ac mae'n debygol o gynnwys:-

- **Adolygiad desg gan y panel** er mwyn llywio ei syniadaeth a'i benderfyniadau cychwynnol ynghylch meysydd y mae'n awyddus i ganolbwyntio arnynt yn ystod yr asesiad.

---

[9] gweler Downe, J., Bottrill, I. a Martin, S. (Chwefror 2017) *'Rising to the challenge: an independent evaluation of the LGA's corporate peer challenge programme'.* Ysgol Fusnes Caerdydd: Canolfan Ymchwil Llywodraeth Leol a Rhanbarthol.

- **Trafodaethau rhwng y panel** a'r aelodau etholedig, swyddogion a rhanddeiliaid eraill ynghylch meysydd o fewn cwmpas yr asesiad.[10]

- **Y panel yn cyflwyno'r prif ganfyddiadau ar lafar.**

**Cam 3 – Gwaith dilynol**

Dylai'r cam hwn gynnwys y canlynol:-

- Y cyngor yn anfon ei **adroddiad terfynol** i'r cyngor.

- Y cyngor **yn ystyried ei ymateb** i asesiad y panel, gan gynnwys y **camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn sgil yr hyn a ddysgwyd** o'r asesiad.

- Y cyngor **yn cynnwys ei bwyllgor llywodraethu ac archwilio** ac yn ystyried unrhyw argymhellion y mae'r pwyllgor yn eu gwneud mewn ymateb i'r asesiad o berfformiad gan y panel.

**Amseru**

3.17 Mae'r ddyletswydd i drefnu asesiad o berfformiad gan banel o leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol yn golygu y dylid ei gynnal yn y cyfnod rhwng etholiadau cyffredin ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor. Gall cyngor ddewis comisiynu mwy nag un asesiad gan banel mewn cylch etholiadol, ond nid yw'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

3.18 Mater i'r cyngor yw dewis yr adeg yn ystod y cylch etholiadol pryd mae asesiad o berfformiad gan banel yn debygol o fod fwyaf buddiol i'r cyngor. Dylai'r cyngor ystyried sut y gellir amseru'r asesiad o berfformiad gan banel orau er mwyn iddo gyd-fynd ag agweddau eraill ar ei ddull llywodraethu corfforaethol ac arolygiadau neu asesiadau penodol eraill o wasanaethau. Efallai y bydd y cyngor hefyd yn awyddus i ystyried amseriad unrhyw adolygiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac archwiliadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, er mwyn sicrhau y ceir y gwerth mwyaf posibl o'r asesiad o berfformiad gan banel. Efallai y bydd y cyngor yn awyddus i geisio cyngor gan arolygiaethau, rheoleiddwyr neu Archwilio Cymru ar y pwynt hwn.

3.19 Yr unig ofyniad o ran amseriad asesiad yw bod yn rhaid i'r trefniadau alluogi'r cyngor i gyhoeddi adroddiad ar asesiad o berfformiad gan banel o leiaf chwe mis cyn dyddiad yr etholiad cyffredin nesaf. Efallai y bydd cynghorau yn awyddus i ystyried amseriad yr asesiad mewn perthynas â'r cod ymarfer a argymhellir ar gyhoeddusrwydd awdurdodau lleol a pheidio â'i gadael yn rhy hwyr yn y cylch i asesiad gan banel allu cael ei gomisiynu a'i gwblhau.

---

10 Dylai paneli gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn adlewyrchu profiadau pobl o grwpiau gwarchodedig gwahanol a'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol a’r effaith arnynt

3.20 Gallai cynghorau, mewn egwyddor, gomisiynu asesiad o berfformiad gan banel tua dechrau cylch etholiadol a'r asesiad nesaf tua diwedd y cylch etholiadol nesaf. Gallai hyn olygu bwlch o naw mlynedd rhwng asesiadau o berfformiad gan banel. Fodd bynnag, nid argymhellir y dull hwn gan y gallai godi amheuon ynghylch a yw cyngor yn arfer ei swyddogaethau yn effeithiol mewn perthynas â'i berfformiad a'r ffordd y caiff ei lywodraethu.

**Paratoi cyn yr asesiad**

3.21 Ni ddylai cyngor deimlo bod yn rhaid iddo 'brofi' unrhyw beth i'r panel ac, felly, ni ddylai'r gwaith paratoi cyn asesiad gan banel fod yn rhy feichus. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd asesiad o berfformiad gan banel yn gofyn am adnoddau gweinyddol er mwyn helpu'r panel gyda threfniadau ymarferol, megis trefnu cyfarfodydd a grwpiau ffocws a chyfleusterau i'w defnyddio gan y panel lle bo'n briodol.

3.22 Bydd y panel hefyd yn dymuno gweld dogfennau allweddol fel rhan o'i asesiad sy'n golygu y bydd angen neilltuo amser swyddogion i'w coladu, ond ni ragwelir y bydd hyn yn cynnwys paratoi unrhyw adroddiadau newydd, am y dylai fod amrywiaeth o wybodaeth (gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu) ar gael eisoes.

**Penodi panel**

3.23 Y cyngor sy'n gyfrifol am nodi aseswyr panel, gan gomisiynu'r panel i gynnal yr asesiad a thalu unrhyw gostau cysylltiedig.

3.24 Bydd y broses o ddewis aelodau'r panel yn allweddol i sicrhau asesiad effeithiol ac ystyrlon. Dylai'r cyngor sicrhau bod gan y panel brofiad, gwybodaeth a safbwyntiau ymarferol amrywiol, y bydd yn gweithredu ag uniondeb a gwrthrychedd, ac yn gallu rhoi sicrwydd y bydd y cyngor yn ymddiried yn ei ganfyddiadau. Dylai'r cyngor hefyd ystyried pwysigrwydd amrywiaeth wrth benodi'r panel.

3.25 Er mwyn sicrhau ei annibyniaeth, rhaid i aelodau'r panel fod wedi'u gwahanu ddigon oddi wrth y cyngor er mwyn iddynt ddod i gasgliadau diduedd a gwrthrychol ynghylch y ffordd y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad. Er enghraifft, ni ddylid ystyried unrhyw un sydd ar hyn o bryd neu sydd wedi bod (o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf) yn aelod o'r cyngor sydd i'w asesu, neu'n un o'i swyddogion, ar gyfer ei benodi i'r panel. Ni ddylai aelod o'r panel deimlo unrhyw wrthdaro buddiannau (yn yr ystyr y byddai trydydd parti rhesymol ystyried bod gwrthdaro) wrth gynnig asesiad o'r ffordd y mae'r cyngor y bodloni'r gofynion perfformiad.

3.26 Er mwyn bod ar ei fwyaf effeithiol dylai'r panel gael ei arwain gan gymheiriaid. Dylai fod cymysgedd o uwch-swyddogion profiadol, cynghorwyr ac eraill sy'n gweithio gyda llywodraeth leol gan gynnwys y sector cyhoeddus ehangach a sectorau eraill, a all ennyn hyder y cyngor a sicrhau bod y cyngor yn cael yr her, y gefnogaeth a'r argymhellion adeiladol mwyaf priodol. Gall aelodau'r panel hefyd fod â phrofiad o Gymru neu o leoedd eraill.

3.27 Er ei bod yn bwysig bod gan gyfran o'r panel ddealltwriaeth dda o natur gymhleth gweithio mewn amgylchedd gwleidyddol a'r effaith y gall hyn ei chael ar ddiwylliant a blaenoriaethau sefydliadol, mae’r un mor bwysig bod y panel yn gallu elwa ar gyfraniad gwerthfawr y rhai sydd â phrofiad o sectorau eraill ac o weithio gyda llywodraeth leol.

3.28 Disgwylid i unrhyw asesiad gan banel a gomisiynwyd o dan ddyletswyddau’r cyngor a nodir yn y Ddeddf gynnwys y canlynol, o leiaf:-

- Cadeirydd annibynnol ar y panel – nad yw'n gwasanaethu mewn rôl swyddogol na gwleidyddol o fewn llywodraeth leol

- Cymheiriad o'r sector cyhoeddus ehangach, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol

- Uwch-swyddog sy'n gwasanaethu o fewn llywodraeth leol, sy'n debygol o fod yn brif weithredwr neu'n gyfarwyddwr, o gyngor heblaw’r un sydd i’w asesu

- Uwch-aelod etholedig, o gyngor heblaw’r un sydd i’w asesu.

3.29 Gall y cyngor ddewis penodi aelodau ychwanegol eraill o'r panel fel y gwelant yn dda, er enghraifft swyddogion ar lefelau eraill, mwy o gynrychiolwyr o bartneriaid neu arbenigwyr allanol eraill. Efallai y bydd y cyngor hefyd yn awyddus i bennu swyddog i weithio gyda'r panel tra bydd yr asesiad yn mynd rhagddo, er mwyn darparu cymorth gweinyddol a chydgysylltu gweithgarwch ym mhob rhan o'r awdurdod.

**<u>Rôl y panel wrth gynnal asesiad o berfformiad gan banel</u>**

3.30 Bydd yn ofynnol i'r panel asesu ar y cyd i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad, hynny yw i ba raddaul:-

- y mae’n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae’n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

3.31 Fel hyn, bydd y panel yn adeiladu ar yr hunanasesiadau a gynhaliwyd eisoes gan y cyngor ac yn eu hategu. Efallai y bydd yn ofynnol i'r panel gyfeirio at y canllawiau ar hunanasesu er mwyn llywio ei ddull o gynnal yr asesiad gan banel. Dylai'r panel ganolbwyntio ar edrych ar y sefyllfa bresennol a dros gyfnod blaenorol digon hir er mwyn cael darlun ystyrlon o'r sefyllfa yn y cyngor ac unrhyw dueddiadau. Bydd y panel yn ystyried i ba raddau y gall y cyngor ymateb i'r amgylchedd sy'n newid lle mae'n gweithredu ac y gellir llywio ei waith drwy ddefnyddio'r ffyrdd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant

Cenedlaethau'r Dyfodol.[11]

3.32 Efallai y bydd hefyd yn ddefnyddiol i'r panel ystyried y gweithgareddau sy'n gyffredin i drefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus fel y'u nodir yn y canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[12]:-

- Cynllunio corfforaethol
- Cynllunio ariannol
- Cynllunio'r gweithlu (pobl)
- Caffael
- Asedau
- Rheoli risg
- Rheoli Perfformiad

3.33 Dylai defnyddio hyn fel fframwaith helpu'r panel i ddeall a yw'r cyngor yn llywodraethu ei hun yn effeithiol er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni'r nodau llesiant.[13]

3.34 Asesiad corfforaethol, sefydliadol yw hwn, y bwriedir iddo ystyried i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac y gall gyflawni canlyniadau effeithiol. Ni ddylai'r panel geisio cynnal archwiliadau manwl nac adolygiadau manwl o wasanaethau, er y gall ddefnyddio canfyddiadau adolygiadau eraill gan gymheiriaid neu adolygiadau manwl o wasanaethau wrth lunio ei gasgliadau. Ni ddylai'r panel geisio archwilio / gwirio hunanasesiadau'r Cyngor ei hun, er y gall y dull o gynnal hunanasesiadau a fabwysiedir gan gyngor lywio barn panel am effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu.

3.35 Wrth gynnal asesiad o berfformiad gan banel mewn perthynas â chyngor, bydd yn rhaid i banel ymgynghori â'r canlynol ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad:-

- pobl leol;
- pobl eraill sy'n rhedeg busnes yn ardal y cyngor;
- staff y cyngor;
- pob undeb llafur a gydnabyddir (o fewn ystyr Deddf yr Undebau Llafur a Chysylltiadau Llafur (Cydgrynhoi) 1992 (cym. 52) gan y cyngor.

3.36 Er mai hwn yw'r gofyniad sylfaenol o dan y ddeddfwriaeth, gall y panel ddewis ymgynghori â'r cyfryw bersonau eraill neu gynnwys y cyfryw bersonau eraill ag sy'n berthnasol, yn ei farn ef, i'w asesiad o'r graddau y mae'r cyngor y bodloni'r gofynion perfformiad.[14] Gall y panel, er enghraifft, ymgynghori â

---

[11] Gweler Pennod 1 am fanylion llawn y ffyrdd o weithio
[12] Canllawiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
[13] Gweler Pennod 1 am ddiffiniadau llawn o'r nodau.
[14] Dylai paneli gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn adlewyrchu profiadau pobl o grwpiau gwarchodedig gwahanol a'r rhai sydd o dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r effaith arnynt

phartneriaid eraill sy'n cydweithio â'r cyngor, yn ogystal âchyrff archwilio, arolygu neu reoleiddio.

3.37 Mater i'r panel yw ystyried sut y byddai'n dymuno ymgynghori er mwyn cyfrannu'n effeithiol at y broses asesu gan banel, er enghraifft drwy ddefnyddio dulliau ymgysylltu presennol, arolygon ar y we, holiaduron ac ati. Dylai'r rhain gael eu cynllunio mewn modd sy'n cynrychioli'r boblogaeth berthnasol (e.e. pobl leol neu staff). Mater i'r cyngor yw gwneud y trefniadau angenrheidiol er mwyn hwyluso'r ymgynghoriad.

3.38 Bydd y panel hefyd yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau mewnol ac allanol eraill, gan sicrhau bod sail dystiolaeth eang i lywio casgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad ac argymhellion o ran sut i wella. Ceir awgrymiadau ynghylch ffynonellau a allai lywio'r asesiad yn y canllawiau i gynghorau ar gynnal hunanasesiadau.

3.39 Bydd angen i gynghorau ystyried am ba hyd y bydd angen y panel arnynt, a chytuno ar hyn gyda'r panel, er mwyn sicrhau bod digon o amser ar gyfer y tri cham cyffredinol a nodir ym mharagraff 3.16.

3.40 Mae'r asesiad yn degybol o gynnwys y camau allweddol canlynol i'w cymryd gan y panel, er mai mater i'r panel fydd penderfynu a chytuno ar ei ddull gweithredu:-

- Cyfarfod cwmpasu
- Ymchwil ddesg
- Cyfarfodydd ag arweinwyr gwleidyddol, uwch-swyddogion ac ati; a grwpiau trafod, gan gynnwys cyfarfodydd â staff a phartneriaid, pobl leol, undebau a chynrychiolwyr busnesau lleol.
- Dadansoddi'r canfyddiadau a chytuno ar gasgliadau
- Cyflwyno'r prif ganfyddiadau
- Paratoi adroddiad y panel i'r cyngor sy'n nodi ei gasgliadau.

**<u>Adroddiad ar asesiad gan banel</u>**

3.41 Ar ôl i asesiad gan banel gael ei gwblhau, mae'n rhaid i banel lunio adroddiad sy'n nodi'r canlynol:-

- ei gasgliadau ynghylch i ba raddau y mae'r cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad;
- unrhyw gamau y mae'r panel yn argymell y dylai'r cyngor eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

3.42 Mater i'r panel yw penderfynu ar ffurf a chynnwys yr adroddiad hwn, er y byddai disgwyl iddo adlewyrchu egwyddorion allweddol bod yn agored a thryloywder a hygyrchedd i'r cyhoedd a phob cynghorydd. Dim ond barn ac argymhellion y panel yn gweithredu ar y cyd y dylai'r adroddiad eu cynnwys.

3.43 Dylai cadeirydd y panel drafod eu casgliadau a'u hargymhellion ag arweinydd a phrif weithredwr y cyngor, ac unrhyw unigolion eraill y bydd y cyngor yn

dymuno eu cynnwys (er enghraifft, arweinwyr y wrthblaid a grwpiau gwleidyddol, a chadeiryddion y pwyllgorau craffu), er mwyn sicrhau bod yr holl wersi a ddysgwyd o'r asesiad yn cael eu cyfleu'n briodol.

3.44 Mae'n rhaid i'r panel anfon yr adroddiad cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei baratoi i'r/at y canlynol:-

- Y cyngor
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Gweinidogion Cymru[15]

**<u>Cyhoeddi'r adroddiad ar asesiad gan banel</u>**

3.45 Cyfrifoldeb y cyngor, nid y panel, yw cyhoeddi adroddiad y panel. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael yr adroddiad gan y cyngor, rhaid i'r cyngor:-

- drefnu bod yr adroddiad ar gael i bwyllgor llywodraethu ac archwilio'r cyngor;
- cyhoeddi'r adroddiad[16].

**<u>Ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad gan banel</u>**

3.46 Mae'n rhaid i'r cyngor baratoi ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad o berfformiad gan banel. Yn ei ymateb, mae'n ofynnol i'r cyngor nodi'r canlynol:-

- y graddau y mae'n derbyn y casgliadau yn yr adroddiad;
- y graddau y mae'r cyngor yn bwriadu dilyn unrhyw argymhellion a nodir yn yr adroddiad;
- unrhyw gamau y mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

3.47 Dylid defnyddio'r casgliadau a'r argymhellion o'r asesiad er mwyn helpu'r cyngor i nodi camau y bydd yn eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad. Dylai'r adroddiad dynnu sylw at feysydd lle y gallai hunangymorth a chymorth a arweinir gan y sector fod yn werthfawr. Gall hefyd ailadrodd rhywbeth y mae'r cyngor eisoes yn ymwybodol ohono ac ategu'r achos dros newid, a / neu nodi lle y byddai'n fuddiol cynnwys eraill fel y bo'n briodol.

3.48 Wrth ymateb, dylai cyngor gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a llunio ei ymateb yn unol â'r pum ffordd o weithio. Dylai hyn fod yn gymwys i'r *hyn* y mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud a *sut* y mae'n bwriadu ei wneud. Byddai cynnwys eraill yn y broses o lunio ei ymateb yn arwydd o gyngor blaengar.

---

[15] Mae hyn yn cynnwys Arolygiaeth Gofal Cymru

[16] Yn electronig ar wefan y cyngor – gweler a171(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

3.49 Dylai cyngor hefyd ystyried asesiad o berfformiad gan banel wrth gynnal ei hunanasesiad nesaf, er mwyn gweld a yw'r hyn a ddysgwyd o'r asesiad gan banel wedi'i roi ar waith.

**Cynnwys y pwyllgor llywodraethu ac archwilio**

3.50 Mae'n rhaid i'r cyngor drefnu bod drafft o'i ymateb i'r asesiad o berfformiad gan banel fod ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio. Wedyn, mae'n rhaid i'r pwyllgor hwnnw adolygu'r ymateb drafft a chaiff wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i'r ymateb i'r asesiad gan banel.

3.51 Os na fydd y cyngor yn gwneud newid a argymhellwyd gan y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, mae'n rhaid iddo nodi'r argymhelliad a'r rhesymau pam na wnaeth y newid yn yr ymateb terfynol.

**Cyhoeddi'r ymateb i'r adroddiad ar yr asesiad gan banel**

3.52 Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cwblhau'r ymateb, mae'n rhaid i'r cyngor gyhoeddi'r[17] ymateb a'i anfon at y canlynol:-

- Aelodau'r panel
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Gweinidogion Cymru[18]

3.53 Mae'n rhaid i'r ymateb i adroddiad ar asesiad gan banel gael ei gyhoeddi o leiaf bedwar mis cyn y disgwylir i'r etholiad cyffredin nesaf ar gyfer cynghorwyr i'r cyngor gael ei gynnal.